



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

BIL RHEOLEIDDIO AC AROLYGU GOFAL CYMDEITHASOL (CYMRU)

Memorandwm Esboniadol
Yn ymgorffori'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol a'r
Nodiadau Esboniadol

Tachwedd 2015

BIL RHEOLEIDDIO AC AROLYGU GOFAL CYMDEITHASOL (CYMRU)

Memorandwm Esboniadol Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Paratowyd a gosgodwyd y Memorandwm Esboniadol yn wreiddiol yn unol â Rheol Sefydlog 26.6 ym mis Chwefror 2015. Mae'r Memorandwm diwygiedid yn cael ei osod nawr yn â Rheol Sefydlog 26.8.

Datganiad yr Aelod

Yn fy marn i, byddai darpariaethau Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) a gyflwynir gennyf i ar 23 Chwefror 2015 o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mark Drakeford AC

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Yr Aelod Cynulliad sy'n gyfrifol am y Bil

10 Tachwedd 2015

Cynnwys

| | |
|---|-----|
| Adran 1: Disgrifiad..... | 4 |
| Adran 2: Cefndir deddfwriaethol..... | 5 |
| Adran 3: Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael | 6 |
| Adran 4: Ymgynghori..... | 77 |
| Adran 5: Pŵer i lunio is-ddeddfwriaeth | 91 |
| Adran 6: Asesiad Effaith Rheoleiddiol | 133 |
| Adran 7: Asesiad Effaith Rheoleiddiol | 134 |
| Adran 8: Asesu Cystadleuaeth ac Effeithiau Penodol | 313 |
| Adran 9: Adolygiad ôl-weithredu | 324 |
| Atodiad A: Nodiadau Esboniadol..... | 325 |
| Atodiad B: Amcangyfrif o'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru | 377 |
| Atodiad C: Model costio Cyngor Gofal Cymru ar gyfer cofrestru 42,000 o weithwyr ychwanegol ar y gofrestr | 389 |
| Atodiad Ch: Dadansoddiad sensitifrwydd ar gyfer ymestyn y drefn cofrestru gorfodol i'r holl weithlu gofal cymdeithasol | 393 |
| Atodiad D - Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) - Tabl Tarddiadau..... | 392 |
| Llyfryddiaeth a deunydd darllen ychwanegol..... | 402 |

Adran 1: Disgrifiad

1.1 Mae Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal (Cymru) (Y Bil) yn gyfres o ddarpariaethau sy'n deillio o sail dystiolaeth eang ac o ymgynghoriad â rhanddeiliaid, a bydd yn darparu fframwaith deddfwriaethol wedi ei ddiwygio a'i symleiddio ar gyfer y gwaith o reoleiddio ac arolygu gofal a chymorth yng Nghymru. Amlinellwyd y modd yr oedd angen gweddnwid gofal cymdeithasol yng Nghymru yn y ddogfen Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy: Fframwaith Gweithredu, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2011.

1.2 Roedd yn datblygu'r hyn a nodwyd yn y ddogfen Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol: strategaeth ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru dros y degawd nesaf (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007). Cyhoeddwyd hwnnw bedair blynedd ynghynt, ac roedd hefyd yn ymateb uniongyrchol i waith comisiwn annibynnol a sefydlwyd i adolygu Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru (Y Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru, 2010).

1.3 Mae'r Bil yn cynnig cyflwyno newidiadau a fydd yn:

- diwygio'r drefn reoleiddio ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth;
- darparu fframwaith rheoleiddio sy'n ei gwneud yn ofynnol i reoleiddio gwasanaethau gofal a chymorth mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau;
- diwygio'r drefn arolygu ar gyfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol;
- ad-drefnu Cyngor Gofal Cymru a'i ailenwi'n Gofal Cymdeithasol Cymru, gan ehangu ei gwmpas gwaith; a
- diwygio'r dull o reoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol.

Adran 2: Cefndir deddfwriaethol

2.1 Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (“y Cynulliad”) y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud darpariaethau ar gyfer, ac mewn cysylltiad â, lles cymdeithasol yn rhinwedd Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (“y Ddeddf”). Nodir darpariaethau perthnasol y Ddeddf yn adran 108 ac Atodlen 7. Mae Pennawd 15 o Ran 1 o Atodlen 7 yn nodi’r pynciau canlynol y caiff y Cynulliad ddeddfu ynglŷn â hwy o dan y pennawd “Lles cymdeithasol”,

“Social welfare including social services. Protection and well-being of children (including adoption and fostering) [and of young adults]. Care of children, young adults, vulnerable persons and older persons, including care standards.”

2.2 Mae gan y Cynulliad hefyd gymhwysedd deddfwriaethol i wneud darpariaethau ynglŷn â “Llywodraeth Leol” yn rhinwedd Pennawd 12 o Ran 1 o Atodlen 7, sy’n pennu’r pynciau canlynol,

“Powers and duties of local authorities and their members and officers.”

2.3 Mae gan y Cynulliad hefyd gymhwysedd deddfwriaethol i wneud darpariaethau ynglŷn â “Gweinyddiaeth gyhoeddus” yn rhinwedd Pennawd 14 o Ran 1 o Atodlen 7, sy’n pennu’r pynciau canlynol,

“Audit, examination, regulation and inspection of auditable public authorities. Inquiries in respect of matters in relation to which the Welsh Ministers, the First Ministers or the Counsel General exercise functions.”

2.4 Mae gan y Cynulliad hefyd gymhwysedd deddfwriaethol i wneud darpariaethau ynglŷn ag “Addysg a hyfforddiant” yn rhinwedd Pennawd 5 o Ran 1 o Atodlen 7, sy’n pennu’r pynciau canlynol,

“Education, vocational, social and physical training and the career service. Promotion of advancement and application of knowledge”.

2.5 Mae’r pynciau uchod yn darparu’r cymhwysedd i’r Cynulliad wneud y darpariaethau sydd wedi’u cynnwys ym Mil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru).

Adran 3: Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Cyd-destun

Darpariaeth gofal cymdeithasol

Defnyddwyr gwasanaethau gofal a chymorth

3.1 Roedd 600,630 o oedolion sy'n 65 oed neu'n hŷn yn byw yng Nghymru yn 2014.

Roedd 9% o'r rhain (55,263) yn derbyn gofal a chymorth a ariennir o'r pwrs cyhoeddus un ai yn y gymuned neu mewn cartrefi gofal (StatsCymru, 2014b)¹. Roedd cyfanswm o 43,638 o oedolion 65 oed neu hŷn yn derbyn cymorth yn y gymuned ac 11,625 o oedolion 65 oed neu hŷn yn derbyn cymorth mewn cartrefi gofal (StatsCymru, 2014b)². Hefyd, roedd 28,557 o oedolion rhwng 18 a 64 oed yn derbyn cymorth yn y gymuned neu mewn cartrefi gofal yn ystod 2013/14 (StatsCymru, 2014b).

3.2 Ym mis Mawrth 2014, roedd 5,755 o blant yn derbyn gofal gan y wladwriaeth (cyfeirir atynt yn gyffredin fel plant sy'n derbyn gofal). Roedd 4,950 o'r rhain yn defnyddio gwasanaethau a reoleiddir. Roedd 290 o blant a phobl ifanc wedi eu lleoli i'w mabwysiadu, roedd gan 4,405 leoliadau maeth, roedd 225 yn byw mewn cartrefi plant yr awdurdodau lleol ac roedd 30 o blant a phobl ifanc yn byw mewn cartrefi plant annibynnol (StatsCymru, 2014c).

Darpariaeth gwasanaeth yng Nghymru

3.3 Mae 968 o ddarparwyr, o ran sefydliadau ac asiantaethau, yng Nghymru ac mae 22 ohonynt yn awdurdodau lleol. Daw cyfanswm o 1,780 o leoliadau gofal a chymorth cymdeithasol a reoleiddir yng Nghymru o fewn cwrdd y drefn reoleiddio gyfredol, sy'n cynnwys:

- 1,132 o gartrefi gofal preswyl i oedolion
- 147 o gartrefi gofal preswyl i blant a phobl ifanc
- 417 o asiantaethau gofal cartref³
- 11 o asiantaethau lleoli oedolion

¹ Ar 31 Mawrth 2014.

² Ar 31 Mawrth 2014.

³ Darparwyd y data gan AGGCC.

- 73 o ddarparwyr gwasanaeth maethu ac asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol⁴.

3.4 Mae 1,562 o'r 1,780 o leoliadau yn eiddo i'r sector annibynnol, a 218 yn eiddo i awdurdodau lleol.

3.5 Yn 2011/12, darparwyd cyfanswm o 11,916,648 o oriau o ofal cartref wedi ei ariannu o'r pwrs cyhoeddus yng Nghymru. Darparwyd 3,594,021 o'r oriau hyn gan awdurdodau lleol (StatsCymru 2012b) a darparwyd 8,322,627 o oriau gan y sector annibynnol (StatsCymru 2012b).

Rheoleiddio gwasanaethau

3.6 Diben rheoleiddio gwasanaethau yw sicrhau bod darparwyr gwasanaeth yn cyflawni'r safonau ansawdd gofynnol, er mwyn amddiffyn defnyddwyr gwasanaethau rhag camdriniaeth ac esgeulustod a hybu eu llesiant. Gweinidogion Cymru sydd â'r swyddogaeth o reoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru ar hyn o bryd. Cangen sy'n gweithredu ar wahân i Lywodraeth Cymru yw Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), rheoleiddiwr y gwasanaethau, ac mae'n gyfrifol am reoleiddio sefydliadau ac asiantaethau yn unol â'r hyn a nodir yn Neddf Safonau Gofal 2000. Mae'r broses o reoleiddio gofal cymdeithasol yn cynnwys y canlynol ar hyn o bryd:

- Y gofyniad i gofrestru fel darparwr gwasanaeth gyda Gweinidogion Cymru;
- Y gofyniad i gydymffurfio â gofynion rheoleiddio er mwyn parhau i fod wedi cofrestru fel darparwr gwasanaeth;
- Gallu'r rheoleiddiwr i arolygu gwasanaethau a reoleiddir i benderfynu a yw gwasanaeth yn cael ei ddarparu mewn ffordd sy'n cydymffurfio â'r gofynion rheoleiddio;
- Gallu'r rheoleiddiwr i gymryd camau sifil i ganslo cofrestriad darparwr gwasanaeth nad yw'n darparu gwasanaeth yn unol â'r gofynion rheoleiddio;
- Gallu'r rheoleiddiwr i gymryd camau gorfodi troseddol yn erbyn darparwyr gwasanaeth sy'n cyflawni troseddau rheoleiddiol.

⁴ StatsCymru, 2014.

3.7 Dyma'r sefydliadau a'r asiantaethau a reoleiddir gan reoleiddiwr y gwasanaethau ar hyn o bryd, ac sy'n dod o fewn cwmpas y Bil hwn:

- Cartrefi plant gan gynnwys y rhai hynny sy'n darparu llety at ddibenion cyfyngu ar ryddid (llety diogel);
- Cartrefi gofal, (gan gynnwys cartrefi nyrsio);
- Canolfannau preswyl i deuluoedd;
- Asiantaethau gofal cartref;
- Asiantaethau maethu;
- Asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol;
- Asiantaethau cymorth mabwysiadu;
- Cynlluniau lleoli oedolion.

3.8 Mae'n ofynnol i asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol yn Lloegr gofrestru gyda'r Swyddfa Safonau mewn Addysg (Ofsted) pan fo'r brif gangen yn Lloegr. Er hyn, pan fo asiantaeth fabwysiadu o Loegr yn agor cangen yng Nghymru, nid yw'n ofynnol i'r gangen honno gofrestru gyda Gweinidogion Cymru ar hyn o bryd, ac nid yw'n ofynnol i gangen yn Lloegr i asiantaeth sydd â'i phencadlys yng Nghymru gofrestru gydag Ofsted. Er nad yw wedi ei chofrestru yng Nghymru bydd swyddfa gangen i asiantaeth fabwysiadu wirfoddol yn Lloegr yn cael ei rheoleiddio gan Ofsted.

3.9 Mae "bwlch" yn bodoli yn y ddeddfwriaeth o safbwynt yr hyn sy'n cyfateb i asiantaethau gofal cartref yn Lloegr. Gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion yw gofal cartref. Yn Lloegr, caiff gofal cymdeithasol i oedolion ei reoleiddio trwy bwerau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 bellach, yn hytrach na thrwy bwerau'r Ddeddf Safonau Gofal. Mae'r Ddeddf honno'n darparu ar gyfer rheoleiddio "gweithgareddau a reoleiddir". Yr hyn sy'n cyfateb i asiantaeth gofal cartref yn Lloegr yw gwasanaeth gofal personol. Er hyn, nid oes gan y Comisiwn Ansawdd Gofal y pŵer i reoleiddio'r gwasanaeth hwnnw ond pan fydd yn gweithredu yn Lloegr. Mae hyn yn golygu nad yw'r Asiantaeth Safonau Gofal yn rheoleiddio'r gwasanaeth os bydd cangen yn dod dros y ffin ac yn gweithredu yng Nghymru. Oni bai bod y gwasanaeth yn cofrestru gydag AGGCC fel asiantaeth gofal cartref, ni fydd y gwasanaeth hwnnw'n cael ei reoleiddio yng Nghymru.

3.10 Nid yw'n ofynnol i awdurdodau lleol sy'n darparu gwasanaethau mabwysiadu a maethu gofrestru gyda Gweinidogion Cymru gan fod ganddynt ddyletswyddau statudol i ddarparu'r gwasanaethau hynny. Er hyn, maent yn cael eu rheoleiddio. Mae'r gwaith rheoleiddio hwn yn cael ei gyflawni trwy adolygu ac arolygu'r gwasanaethau hynny, a thrwy allu AGGCC i gymryd camau gorfodi pan fo'n ofynnol.

Rheoleiddio'r gweithlu

3.11 Cyngor Gofal Cymru (rheoleiddiwr y gweithlu) sy'n rheoleiddio'r gweithlu. Mae'n Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru sy'n gweithio i wneud yn siŵr bod pobl Cymru yn cael sicrwydd y caiff gwasanaethau cymdeithasol eu darparu gan weithlu gofal a chymorth proffesiynol, medrus a hyderus.

3.12 Mae gan reoleiddiwr y gweithlu ddyletswydd i ddiogelu'r cyhoedd trwy hybu a diogelu safonau ymddygiad ac ymarfer uchel ymhlith gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr gofal cymdeithasol. Hefyd, mae rheoleiddiwr y gweithlu yn gyfrifol am gynllunio'r gweithlu a datblygu proffesiynoldeb y bobl hynny sy'n darparu gwasanaethau, yn bennaf trwy gyhoeddi codau ymarfer, cymeradwyo hyfforddiant a rhannu gwybodaeth.

Yr angen am ddeddfwriaeth

3.13 Roedd Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011) wrth wraidd yr ymrwymiad a nodwyd yn Rhaglen Lywodraethu 2011. Ei amcanion oedd:

- Darparu gwell gwasanaethau cymdeithasol trwy roi llais llawer cryfach i ddefnyddwyr a gofalwyr, yn ogystal â mwy o reolaeth dros y gwasanaethau y maent yn eu derbyn.
- Sicrhau bod pobl yn derbyn y cymorth angenrheidiol er mwyn gallu byw bywydau bodlon.

3.14 Roedd y gweddnewidiad a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru yn un ar gyfer y sector cyfan, gan gynnwys y bobl hynny yn y rheng flaen, rheolwyr a darparwyr, comisiynwyr a gweithwyr proffesiynol. Roedd hefyd wedi ei fwriadu ar gyfer y bobl hynny a oedd yn goruchwylio, y bobl sy'n sicrhau bod y ddarpariaeth yn ddiogel ac yn effeithiol. Roedd Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy yn cydnabod bod angen

gweddnewid ein dulliau o reoleiddio ac arolygu yn ogystal â'n darpariaeth am y rhesymau canlynol:

1. Mae rheoleiddio'n ffactor allweddol sy'n sbarduno gweddnewidiad. Mae'n nodi disgwyliadau ein cymdeithas ac yn sicrhau bod gwasanaethau'n eu bodloni. Er mwyn cyflawni newid, mae'n rhaid i'r ffordd y mae ein harolygwyr a'n rheoleiddwyr yn gweithio newid hefyd. Dylai'r pwyslais symud oddi wrth gydymffurfio yn unig, i ansawdd a'r effaith a geir ar bobl.
2. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn newid sylfeini deddfwriaethol y sector yn eu hanfod, ac felly mae'n rhaid i'n trefn reoleiddio adlewyrchu hyn. Mae angen i'r disgwyliadau y mae'r Ddeddf yn eu gosod ar wasanaethau cymdeithasol yng Nghymru fod wrth wraidd ein trefn reoleiddio. Mae hyn fwyaf amlwg yn y ffaith fod y Ddeddf yn gosod llesiant wrth wraidd gofal a chymorth. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid inni, fel sector, ddeall yr effaith y mae ein gweithredoedd yn ei chael ar fywydau defnyddwyr a gofalwyr.
3. Cydnabuwyd mai un ffactor sy'n gwneud cyfraniad o bwys er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus effeithiol yw galluogi a grymuso dinasyddion a gweithwyr proffesiynol. Trwy gynnwys dinasyddion, gellir darparu mwy o sicrwydd, yn ogystal â chyfrannu dealltwriaeth o anghenion a dymuniadau'r bobl hynny sy'n derbyn gwasanaethau neu a allai eu derbyn. Gall ddinasyddion hefyd ddod â sgiliau, safbwyntiau a phrofiadau newydd i'r broses reoleiddio yn ogystal â'i gwneud yn ofynnol i'r rheoleiddiwr sicrhau bod gwybodaeth a thystiolaeth ar gael mewn modd agored ac ystyrlon. Yn olaf, trwy gynnwys dinasyddion yn y drefn reoleiddio anfonir neges eglur i'r sector mai ein prif ddyhead ar gyfer ein sector gofal a chymorth yw darparu canlyniadau i bobl.
4. Mae angen inni ddysgu o ddigwyddiadau difrifol fel Southern Cross, Canol Swydd Stafford a Winterbourne, a oedd i gyd yn cynnwys achosion troseddol o gam-drin ac esgeuluso oedolion agored i niwed yn Lloegr, ac Ymgyrch Jasmine sydd ar hyn o bryd yn destun adolygiad annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i gamdriniaeth ac esgeulustod mewn cartrefi gofal yn ne Cymru. Ni ddylem ddatblygu ein systemau rheoleiddio ar sail methiannau – ond

mae'r achosion hynny'n dysgu nifer o wersi eglur inni ac ni allwn eu hanwybyddu. O achos Southern Cross, rhaid inni ddeall nad yw ein gofal cymdeithasol yn rhydd rhag effeithiau'r farchnad, a rhaid inni ddeall y risgiau a gyflwynir pan fydd darparwr yn methu. Yn sgil achos Canol Swydd Stafford, rhaid inni sicrhau nad ydym yn anwybyddu darnau o wybodaeth sy'n wahanol i'w gilydd, a gofalu ein bod yn gwrando ar y bobl hynny sy'n ymwneud yn fwyaf uniongyrchol â'n gwasanaethau gofal. Yn sgil achos Winterbourne, cydnabuwyd na allai'r bobl ar y rheng flaen gael y bai i gyd am achosion o gamdriniaeth. Mae'r gwersi hyn, a rhai nad ydym wedi eu dysgu hyd yma, yn golygu bod angen inni aildrefnu ein trefn reoleiddio.

5. Mae angen inni sicrhau bod ein trefn reoleiddio'n adlewyrchu ymarfer cyfoes. Mae gofal cymdeithasol wedi newid yn sylweddol ers y newid rheoleiddiol mawr diwethaf yng Nghymru yn 2000. Rydym wedi gweld mwy o bobl yn derbyn gofal yn eu cymuned, a phroblemau'r bobl hynny sydd mewn gofal preswyl yn dod yn fwy difrifol o ganlyniad. Rydym wedi gweld y twf mewn gofal ychwanegol a mathau eraill cymysg o gymorth sy'n croesi ffiniau yn ein system gyfreithiol. Mae ein system gyfredol wedi ei seilio ar ofal fel ag yr oedd ddegawd yn ôl, ond ni allwn ond ei ddisodli gan un sy'n bodloni gwir sefyllfa heddiw. Rhaid inni gydnabod ei bod yn ofynnol i'r gyfraith barhau i esblygu os yw am barhau i fod yn berthnasol. Mae angen inni sefydlu dull mwy ymatebol felly, sy'n cyfuno cryfder a hyblygrwydd.
6. Mae angen inni sicrhau bod ein deddfwriaeth yn gyfredol ac yn darparu cysondeb. Ar adeg ei sefydlu roedd Deddf Safonau Gofal 2000 yn darparu sail ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru a Lloegr. Er hyn, yn y cyfamser, mae Lloegr wedi rhoi'r gorau i Ddeddf Safonau Gofal 2000 ar gyfer oedolion ac wedi symud mewn cyfeiriad newydd. O ganlyniad i hyn, mae'r drefn reoleiddio'n wahanol mewn sawl ffordd yn y gwahanol wledydd. Mae hyn yn golygu y byddai'n bosibl i wasanaethau gael eu darparu yng Nghymru nad ydynt yn cael eu rheoleiddio yng Nghymru. Ceir cwestiynau heb eu hateb hefyd o dan y drefn bresennol o safbwynt cyfarwyddebau'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r system bresennol hefyd yn seiliedig ar sail gyfreithiol sydd wedi ei diwygio'n helaeth ac

a grewyd cyn setliad datganoli Cymru a chyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a refferendwm 2011. Nid yw'n darparu statud cydlynol ar gyfer Cymru.

7. Yn olaf, mae'r sylfaen ddeddfwriaethol ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gofal yng Nghymru wedi mynd yn gymhleth ac yn anhwylyd. Mae safonau gofynnol, rheoliadau a rheolau diangen a dyblygol wedi eu creu ac mae angen eu hadolygu a'u symleiddio. Bydd sylfaen gyfreithiol newydd yn rhoi cyfle i Gymru ddarparu fframwaith cyfreithiol mwy effeithiol ac effeithlon ar gyfer gofal a chymorth.

Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)

3.15 Amcanion allweddol y Bil yw sicrhau llesiant dinasyddion a gwella ansawdd gofal a chymorth yng Nghymru. I gyflawni'r amcanion hyn, nodwyd naw amcan:

- Gosod y dinesydd wrth wraidd y system.
- Creu system sy'n deall effaith y gwasanaethau ar fywydau pobl.
- Sicrhau bod darparwyr gwasanaethau yn atebol mewn modd priodol.
- Gwella dulliau o rannu gwybodaeth a chydweithredu.
- Deall y dyfodol yn well ac osgoi methiannau annisgwyl.
- Cyflawni newid sylweddol yn yr agenda ar gyfer gwella.
- Cefnogi datblygiad y gweithlu gorau bosibl.
- Darparu system reoleiddio gadarn a thryloyw ar gyfer darparwyr gwasanaeth a'r gweithlu.
- Gwneud y gyfraith yn llai cymhleth a darparu hyblygrwydd ar gyfer y dyfodol.

3.16 Mae'r amcanion uchod wedi cyfrannu at ddatblygiad y Bil.

Elfennau'r Bil

3.17 Ceir pum maes arwyddocaol yn narpariaethau'r Bil:

- a. Rheoleiddio Gwasanaethau (gweler rhan un, penodau un i bump Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)).
- b. Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol (gweler rhan un, pennod chwech Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)).
- c. Cadw Golwg ar y Farchnad (gweler rhan un, pennod saith Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)).

ch. Gofal Cymdeithasol Cymru (gweler rhan tri Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)).

d. Cofrestru'r Gweithlu (gweler rhan pedwar Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)).

a. Rheoleiddio gwasanaethau

3.18 Mae'r dull o reoleiddio gwasanaethau yn y Bil hwn yn ceisio:

- Cydgrynhoi'r pwerau presennol mewn un darn o ddeddfwriaeth fel bod dull Cymru o reoleiddio gwasanaethau i gyd mewn un man.
- Sicrhau bod ein system reoleiddio yn caniatáu inni ddeall yr effaith y mae gwasanaethau'n ei chael ar fywydau pobl.
- Darparu mwy o dryloywder a'r gallu i gymharu gwasanaethau yng Nghymru.
- Ailgydbwysio atebolrwydd yn y system er mwyn i'r asiantaethau neu'r unigolion priodol fod yn gyfrifol o dan y gyfraith.
- Symud y tu hwnt i ddull sy'n seiliedig ar gydymffurfio tuag at un sydd hefyd yn adlewyrchu ansawdd y ddarpariaeth.
- Symud tuag at system o reoleiddio sy'n canolbwyntio ar wasanaethau, gan roi hyblygrwydd ar gyfer y dyfodol er mwyn gallu ymateb i newidiadau yn y sector.
- Sicrhau bod ein trefn reoleiddio'n cydymffurfio ag egwyddorion ac arferion y fframwaith hawliau dynol sydd wedi ei sefydlu mewn deddfwriaeth.
- Darparu dull costeffeithiol o reoleiddio gwasanaethau sy'n parhau i ddarparu sicrwydd i'r cyhoedd.

Cyflwyniad, gan gynnwys diffiniadau a phwerau Gweinidogion Cymru

Cefndir

3.19 Mae'r cyfrifoldeb am swyddogaethau sy'n gysylltiedig â rheoleiddio gofal cymdeithasol yn amrywio ledled y DU.

3.20 Yn yr Alban, Gwellu Gofal Cymdeithasol a Gwaith Cymdeithasol yr Alban (SCSWIS) sy'n gyfrifol am reoleiddio gwasanaethau gofal a'r Awdurdod Rheoleiddio a Gwellu Ansawdd (RQIA) sy'n gwneud hynny yng Ngogledd Iwerddon, y ddau yn gyrrff

annibynnol â'u Bwrdd eu hunain. Mae'r yn drefn lywodraethu yn berthnasol i'r Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC) sy'n rheoleiddio gofal cymdeithasol i oedolion yn Lloegr. Mae'r Swyddfa Safonau mewn Addysg (Ofsted), sy'n rheoleiddio gofal cymdeithasol plant yn Lloegr, yn uniongyrchol atebol i Senedd y DU.

3.21 I gyflawni'r swyddogaethau hyn, mae ar reoleiddwyr angen cyfeiriad eglur o ran eu hamcanion ac ystyr y ddeddfwriaeth.

Y Sefyllfa Bresennol

3.22 Yng Nghymru, mae Gweinidogion Cymru yn cadw swyddogaethau rheoleiddio gwasanaethau gofal, a chânt eu gweithredu drwy reoleiddiwr y gwasanaeth. Mae eu pwerau a'r modd o ddehongli'r pwerau hynny yn deillio o ddeddfwriaeth bresennol, yn bennaf Deddf Safonau Gofal 2000.

Diben y Ddeddfwriaeth

3.23 Mae'r Bil yn nodi dau brif amcan ar gyfer Gweinidogion Cymru:

- Amddiffyn, hybu a chynnal diogelwch a llesiant pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a reoleiddir.
- Hybu a chynnal safonau uchel wrth ddarparu gwasanaethau a reoleiddir.

Yr Effaith a Fwriedir

3.24 Bwriad y diffiniadau a'r amcanion yn y darpariaethau hyn yw rhoi fframwaith i Weinidogion Cymru wrth gyflawni eu swyddogaethau.

Model rheoleiddio sy'n seiliedig ar wasanaethau

Cefndir

3.25 Nodwyd sut y mae gofyn gweddnewid gofal cymdeithasol yng Nghymru yn y ddogfen Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy: fframwaith gweithredu (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011).

3.26 Mae gofal cymdeithasol ei hun wedi newid yn sylweddol dros y degawd diwethaf. Mae mwy o bobl yn derbyn gofal yn eu cymunedau a phroblemau'r bobl hynny sydd

mewn gofal preswyl yn dod yn fwy difrifol o ganlyniad; gwelwyd twf gofal ychwanegol a mathau cymysg eraill o gymorth sy'n croesi ffiniau yn ein system gyfreithiol bresennol, sy'n seiliedig ar ofal fel ag yr oedd ddegawd yn ôl. Ar adeg ei sefydlu, roedd Deddf Safonau Gofal 2000 yn rhoi sail ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru a Lloegr. Er hyn, yn y cyfamser, mae Lloegr wedi symud i ffwrdd oddi wrth Ddeddf Safonau Gofal 2000 i gyfeiriad newydd ar gyfer gofal a chymorth i oedolion, trwy Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008. O ganlyniad i hyn, mae'r drefn reoleiddio'n wahanol mewn sawl ffordd yn y gwahanol wledydd; mae'n golygu hefyd, mewn egwyddor, y gellid darparu gwasanaethau yng Nghymru na chânt eu rheoleiddio yng Nghymru. Mae'r system bresennol hefyd yn seiliedig ar sylfaen gyfreithiol sydd wedi ei diwygio'n helaeth ac a grewyd cyn setliad datganoli Cymru a chyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a refferendwm 2011. Nid yw'n darparu statud cydlynol ar gyfer Cymru. Rydym yn cydnabod y bydd yn ofynnol i'r gyfraith ganiatáu i'r rheoliadau ddilyn y newidiadau hyn os yw i barhau i fod yn berthnasol, a rhaid sefydlu dull mwy ymatebol sy'n cyfuno cryfder a hyblygrwydd ond sy'n cael gwared ar ddyblygiad a chymhlethdod diangen. Mae'n ofynnol inni felly sicrhau bod ein deddfwriaeth yn gyfredol ac yn gyson.

Y sefyllfa bresennol

- 3.27 Mae'r model presennol o reoleiddio gwasanaethau yng Nghymru'n seiliedig ar sefydliadau ac asiantaethau. Hynny yw, mae'n ofynnol i ddarparwyr gwasanaeth gofrestru pob sefydliad neu asiantaeth unigol y maent yn eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau neu i weithredu ohonynt. Mae'r gofyniad hwn yn berthnasol i'r sector annibynnol ac i sector y wladwriaeth, lle y mae awdurdodau lleol yn darparu'r gwasanaethau'n uniongyrchol.
- 3.28 Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol i bob un o'r gwasanaethau hyn gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Caiff asiantaethau maethu ac asiantaethau mabwysiadu awdurdodau lleol eu harchwilio gan reoleiddiwr y gwasanaeth ond nid yw'n ofynnol iddynt gofrestru, gan fod awdurdodau lleol yn cyflawni'r swyddogaethau hyn fel rhan o'u dyletswyddau statudol.

Diben y ddeddfwriaeth

- 3.29 Y cynnig yw symud oddi wrth fodel asiantaeth a sefydliad tuag at drefn sy'n seiliedig ar wasanaethau. Mae'r model hwn yn golygu ei bod yn ofynnol i ddarparwyr

gofrestru os ydynt yn dymuno darparu gwasanaethau a reoleiddir yng Nghymru. Byddai'n parhau i fod yn ofynnol i ddarparwyr nodi'r man(nau) lle y darperir gwasanaeth, neu y darperir gwasanaeth mewn cysylltiad â hwy, ond dim ond unwaith yn unig y byddai'n ofynnol i unigolion neu sefydliadau gofrestru gyda'r rheoleiddiwr. Os bydd darparwr yn dymuno darparu mwy o wasanaethau neu'r un gwasanaeth o fan gwahanol byddai'n gwneud cais i amrywio ei gofrestriad gwreiddiol.

Yr effaith a fwriedir

3.30 Mae'r newid hwn o'r model presennol o sefydliadau ac asiantaethau, a nodir yn Neddf Safonau Gofal 2000, gan fabwysiadu model o reoleiddio "gwasanaethau gofal a chymorth" yn rhoi mwy o hyblygrwydd a thryloywder. Model seiliedig ar wasanaethau sy'n sylfaen i reoleiddio yn Lloegr a'r Alban, er bod y ddwy wlad yn gweithredu hynny mewn dulliau gwahanol.

3.31 Mae model Lloegr yn seiliedig ar ddiffiniad ehangach o ofal personol sy'n berthnasol i nifer o wasanaethau ac sy'n cynnwys gwasanaethau gofal iechyd; ond mae model yr Alban yn cynnwys rhestr o wasanaethau penodol sydd i'w rheoleiddio. Mae gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol wedi datgelu mai consensws cyffredinol y rhanddeiliaid yw y byddai model rheoleiddio ar batrwm y model a ddefnyddir yn yr Alban yn gwella gofynion model sy'n seiliedig ar wasanaethau yng Nghymru. Mae nifer o resymau am y casgliad hwn, gan gynnwys y canlynol:

- Gellid lleihau'r dryswch a achosir gan y newid hwn a newidiadau sylweddol eraill i'r drefn reoleiddio yng Nghymru trwy ddefnyddio terminoleg gyfarwydd sy'n debyg i'r hyn a ddefnyddir yn y drefn reoleiddio bresennol yng Nghymru, o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000, fel yr hyn a ddefnyddir ym model yr Alban. Byddai dinasyddion yn amlwg yn deall y derminoleg fwy penodol hon gan ei gwneud yn fwy tryloyw ac eglur.
- Model deddfwriaethol tebyg i'r un a ddefnyddir yn yr Alban fyddai'n darparu'r opsiwn mwyaf hyblyg ar gyfer cynnwys gwasanaethau newydd yn y drefn reoleiddio yn y dyfodol. Bydd y derminoleg a ddefnyddir ar gyfer y gwasanaethau yn cyd-fynd yn agos â'r model 'sefydliadau/asiantaethau' presennol, a bydd yn gwneud y broses o gyflwyno'r newidiadau yn llai cymhleth.

- 3.32 Mae'r Bil felly yn nodi'r gwasanaethau y byddai Gweinidogion Cymru'n eu rheoleiddio (ac yn rhoi mwy o ddiffiniadau mewn atodlen) gan ddefnyddio pwerau mewn mannau eraill yn y Bil. Mae'r gwasanaethau hyn yn cyd-fynd â dealltwriaeth yn y sector o'r mathau o wasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd, er enghraifft gwasanaeth cartref gofal preswyl a gwasanaeth cymorth yn y cartref. Er hyn, mae'r Bil hefyd yn cydnabod ei bod yn ofynnol i drefn gadarn allu ymateb i newidiadau mewn darpariaeth. Mae'n darparu pŵer felly i Weinidogion wneud rheoliadau i ddiwygio'r gwasanaethau a reoleiddir pe byddai angen gwneud hynny yn y dyfodol.
- 3.33 Trwy'r model hwn sy'n seiliedig ar wasanaethau, bydd y Bil yn rhoi hyblygrwydd i ddarparwyr gwasanaeth o ran cofrestru'r gwasanaethau y maent yn dymuno eu darparu a'r gallu i ehangu eu gweithrediadau heb orfod mynd trwy broses gofrestru arall. Bydd gan reoleiddiwr y gwasanaeth yr hyblygrwydd i gymryd camau ar lefel briodol pan fo pethau'n mynd o'i le h.y. canslo'r rhan honno neu'r rhannau hynny o gofrestrriad darparwr gwasanaeth sy'n methu'n gyson â chydymffurfio gan ganiatáu iddo gynnal rhannau o'i gofrestrriad sy'n parhau i gydymffurfio boed hwnnw'n wasanaeth neu'n lleoliad.
- 3.34 Mae'r model sy'n seiliedig ar wasanaethau hefyd yn caniatáu newidiadau eraill a nodir yn y Bil hwn, gan gynnwys sefydlu dyletswyddau newydd i ddarparwyr gwasanaeth ac unigolion cyfrifol.
- 3.35 Cedwir yr eithriad sy'n golygu nad yw'n ofynnol i asiantaethau maethu a mabwysiadu awdurdodau lleol gofrestru. Mae hyn oherwydd bod gan awdurdodau lleol rwymedigaeth statudol i ddarparu'r gwasanaethau hynny. Byddant yn parhau i gael eu rheoleiddio, a phe nodir methiannau yn y gwasanaethau hynny, byddai'n amhriodol eu canslo ond gellid cymryd camau gorfodi trwy ddarpariaethau eraill yn y Bil hwn.

Dull o reoleiddio ac arolygu sy'n seiliedig ar ganlyniadau, a safonau ansawdd

Cefndir

3.36 Dros y degawd diwethaf, mae ymarfer gofal cymdeithasol wedi newid yng Nghymru, o brosesau asesu, cynllunio ac adolygu sy'n seiliedig ar anghenion i rai sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau (Miller, 2010). Mae gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion yn canolbwyntio'n gynyddol ar gyflawni'r canlyniadau y mae defnyddwyr yn dymuno'u gweld (Glendinning et al, 2008).

3.37 Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cyflwyno'r cysyniad y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi datganiad o'r canlyniadau sydd i'w cyflawni o ran llesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt. Bydd y datganiadau canlyniadau cenedlaethol hyn yn berthnasol i'r gofal a'r cymorth a ddarperir gan awdurdodau lleol yn ogystal â'r gofal a'r cymorth a ddarperir gan eraill.

Y sefyllfa bresennol

3.38 Mae'r drefn reoleiddio ac arolygu yng Nghymru wedi symud yn raddol tuag at un sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Ar hyn o bryd, mae'r dull gweithredu'n ystyried Safonau Gofynnol Cenedlaethol ond yn ymarferol mae'n canolbwyntio mwy ar brofiadau'r defnyddwyr gwasanaethau ar sail themâu ansawdd sef:

- Ansawdd bywyd.
- Staffio.
- Arweinyddiaeth a rheolaeth.
- Yr amgylchedd.

3.39 Mae Deddf Safonau Gofal 2000 yn darparu fframwaith ar gyfer gwaith rheoleiddio ond nid yw'n rhoi llawer o fanylion ynglŷn â'r safonau a ddisgwyllir gan ddarparwyr. Mae'r rhain wedi eu nodi mewn rheoliadau a safonau gofynnol anstatudol. Y rheoliadau perthnasol yw:

- Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) (2002).
- Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) (2002).
- Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) (2003).
- Rheoliadau Canolfannau Preswyl i Deuluoedd (Cymru) (2003).
- Rheoliadau Cynlluniau Lleoli Oedolion (Cymru) (2004).

- Rheoliadau Asiantaethau Gofal Cartref (Cymru) (2004).
- Rheoliadau Asiantaethau Cymorth Mabwysiadu (Cymru) (2005).

3.40 Mae Deddf Safonau Gofal 2000 yn cynnwys darpariaeth sy'n golygu y caiff Gweinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi datganiadau o'r safonau gofynnol cenedlaethol sy'n berthnasol i sefydliadau neu asiantaethau. Mae'n ofynnol i'r awdurdod cofrestru ystyried y safonau wrth wneud penderfyniadau o dan Ran II o Ddeddf 2000. Ceir 14 o gyfresi o safonau gofynnol cenedlaethol manwl perthnasol ar hyn o bryd sy'n nodi gofynion penodol ar gyfer sefydliadau ac asiantaethau sy'n darparu gofal cymdeithasol i oedolion a phlant. Er enghraifft, mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Cartrefi Plant yn cynnwys 38 o safonau ar 92 o dudalennau.

Diben y ddeddfwriaeth

3.41 Mae'r ddeddfwriaeth yn cysylltu'r drefn reoleiddio ar gyfer gwasanaethau yn benodol ag Adran 8 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n ymwneud â'r cysyniad o ddatganiad llesiant a chanlyniadau cysylltiedig. Y bwriad, trwy fabwysiadu'r dull hwn, yw sicrhau bod y gwaith o reoleiddio gofal a chymorth yng Nghymru yn cyd-fynd â'r egwyddor sylfaenol a nodir mewn deddfwriaeth bresennol o gyflawni canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau. Bydd y Bil yn caniatáu i Weinidogion Cymru nodi, trwy reoliadau, y gofynion rheoleiddio a fydd yn cael eu gosod ar ddarparwyr gwasanaeth. Y bwriad yw y bydd y gofynion hynny'n sefydlu cyfres o safonau y bydd yn ofynnol i ddarparwyr gydymffurfio â hwy er mwyn bodloni'r rheoleiddiwr bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn unol â chanlyniadau llesiant defnyddwyr gwasanaethau.

Yr effaith a fwriedir

3.42 Er ei bod yn anodd asesu, mesur a rheoleiddio dangosyddion goddrychol o ansawdd gofal, maent yn rhoi arwydd cynnar o fethiannau gweithdrefnol a fydd yn y pen draw yn niweidio pobl. Er hynny, cânt eu hasesu fel arfer ar ôl i'r niwed ddigwydd (er enghraifft trwy adolygiadau achos difrifol ôl-weithredol) (Reader a Gillespie, 2013).

3.43 Hefyd, nid yw'r drefn reoleiddio bresennol a'r dulliau o ddarparu gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn cyd-fynd â'i gilydd. Er bod ymarfer gofal cymdeithasol yn symud tuag at fodel asesu, cynllunio ac adolygu sy'n canolbwyntio ar

ganlyniadau (Glendinning et al, 2006; Miller, 2010), gyda'r nod o gyflawni canlyniadau o safbwynt y defnyddiwr gwasanaethau, mae'r gwaith o arolygu a rheoleiddio gofal a chymorth yng Nghymru yn canolbwyntio'n bennaf ar gydymffurfio â phrosesau ac arferion penodedig, fel y rhai hynny a nodir mewn safonau gofynnol, gyda'r nod o sicrhau bod pobl sy'n agored i niwed yn ddiogel rhag niwed a chamdriniaeth.

3.44 Bwriad sylfaenol y Bil felly yw cysylltu'r cysyniad o lesiant a'r dull gweithredu sy'n seiliedig ar ganlyniadau o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 â'r drefn reoleiddio. Bydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru ailysgrifennu'r fframwaith safonau ar gyfer y sector, trwy reoliadau, a'u cysylltu'n eglur â'r syniad o ganlyniadau i bobl.

3.45 Bydd y Bil hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru leihau'r lefelau rheoleiddio'n sylweddol mewn gofal cymdeithasol. Y nod fydd cael gwared ar y naw cyfres o reoliadau a'r 14 cyfres o safonau gofynnol, a sefydlu yn eu lle ddwy gyfres o reoliadau yn nodi'r gofynion a'r safonau ansawdd y bydd yn ofynnol i'r holl wasanaethau gofal a chymorth lynu wrthynt, â chod yn sylfaen iddynt gyda'r bwriad o ddarparu canllawiau ar gyfer gwasanaethau penodol ynglŷn â sut i gyflawni'r safonau pan fo'n briodol. Bydd pob un o'r ddwy gyfres hyn o Reoliadau yn canolbwyntio ar un o'r ddau faes hyn - bydd un yn canolbwyntio ar lesiant yr unigolyn a'r llall yn ymdrin ag arferion gweithdrefnol y gwasanaeth. Yn y modd hwn, y bwriad yw symud pwyslais y drefn reoleiddio oddi wrth y mewnbynnau, i bwyslais ar ddeall y canlyniadau.

Adroddiadau blynyddol

Cefndir

3.46 Un o amcanion allweddol y ddogfen Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy oedd rhoi llais a rheolaeth wirioneddol i ddinasyddion. Er mwyn arfer y llais a'r rheolaeth hyn, cydnabyddir bod yn rhaid i wybodaeth gywir y gellir ei chymharu fod ar gael i ddinasyddion.

3.47 Ar hyn o bryd, nid yw dinasyddion yn gallu gweld yr wybodaeth a ddarperir gan ddarparwyr gwasanaethau annibynnol i reoleiddiwr y gwasanaeth, i'w galluogi i archwilio a chymharu'r wybodaeth hon â ddarparwyr gwasanaeth eraill. Nid ydynt yn

cael cyfle felly i ddefnyddio'r wybodaeth hon i benderfynu pa wasanaethau sydd orau ar gyfer eu hanghenion. Byddwn felly yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheoleiddiwr sicrhau bod gan ddinasyddion fodd syml o gael gafael ar wybodaeth ystyrion a thryloyw ynglŷn â darparwyr a staff gofal a chymorth. O ganlyniad i hyn, bydd dinesydd yn gallu deall ansawdd darparwr penodol yn well trwy gyfeirio at adroddiad blynyddol y darparwr a'r adroddiad arolygu perthnasol gan reoleiddiwr y gwasanaeth.

Y sefyllfa bresennol

3.48 Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau gofal a chymorth annibynnol roi Datganiad Hunanasesiad o'r Gwasanaeth ac Adroddiad Ansawdd i reoleiddiwr y gwasanaeth ar gyfer pob un o'u sefydliadau neu asiantaethau, pan ofynnir iddynt wneud hynny, ond nid oes gofyniad statudol yn y ddeddfwriaeth bresennol i'r rhain gael eu cwblhau'n flynyddol. Ni chaiff yr adroddiadau a gyflwynir gan ddarparwyr gwasanaeth annibynnol eu cyhoeddi ond cânt eu defnyddio wrth gynnal arolygiadau. Ar ôl cynnal arolygiad ac adolygu'r wybodaeth a ddarparwyd, mae rheoleiddiwr y gwasanaeth yn paratoi adroddiad arolygu ar gyfer pob sefydliad neu asiantaeth gofal a chymorth annibynnol.

Diben y ddeddfwriaeth

3.49 Nid yw'r system bresennol yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr a chadarn y gellir ei chymharu ynglŷn ag ansawdd y gwasanaethau gofal a chymorth, i ddefnyddwyr gwasanaethau na'r cyhoedd yn gyffredinol. Oherwydd y diffyg gwybodaeth, ni all defnyddwyr gwasanaethau na'r cyhoedd yn gyffredinol asesu na herio perfformiad darparwyr gwasanaeth. Rheoleiddiwr y gwasanaeth sy'n llwyr gyfrifol am hyn. Fel y nododd AGGCC et al (2011), mae swyddogaeth arolygu yn hanfodol o ran sicrhau ansawdd gwasanaethau gofal a chymorth o ystyried nad yw'r cyhoedd yn gallu gweld gwybodaeth gadarn ynglŷn ag ansawdd darpariaeth gofal a chymorth yng nghydestun marchnad gofal a chymorth nad yw'n un gystadleuol:

“Mae model Cymru o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn galw am rôl fwy sylweddol gan gyrff Arolygu, Archwilio a Rheoleiddio o ran rhoi sicrwydd ynghylch effeithlonrwydd, ansawdd a diogelwch gwasanaethau cyhoeddus oherwydd y diffyg cystadleuaeth, neu elfen o gystadleuaeth, ac yng nghydestun yr wybodaeth gyfyngedig ac amrywiol am berfformiad sydd ar gael i'r cyhoedd” (Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru et al, 2011:4).

3.50 Rydym yn cynnig creu fformat safonol ar gyfer yr holl adroddiadau blynyddol. Bydd cynnwys a fformat yr adroddiadau blynyddol hyn yn cael eu nodi yn y rheoliadau, ond byddem yn disgwyl iddynt fod yn seiliedig ar dystiolaeth a chynnwys gwybodaeth am feysydd fel:

- manylion a thystiolaeth ynglŷn â sut y mae darparwyr wedi darparu gofal gan gyfeirio at y canlyniadau ymarferol i ddefnyddwyr gwasanaethau, o ran eu llesiant;
- y staff a gyflogir, trosiant a datblygiad y staff; a
- nifer y cwynion a dderbyniwyd (gan ddinasyddion a staff) a'r camau a gymerwyd ynglŷn â'r cwynion hynny.

3.51 Byddai'n rhaid i'r adroddiadau gael eu llofnodi a'u cyflwyno gan y darparwr gwasanaeth cofrestredig, a fyddai'n atebol yn gyffredinol am gynnwys yr adroddiad hwn. Byddai'r Unigolyn Cyfrifol ar gyfer pob lleoliad lle y darperir gwasanaeth yn gyfrifol am gynnwys y rhan berthnasol o'r adroddiad. Byddai'n ofynnol i'r adroddiad hefyd gael ei gyflwyno o fewn amserlen benodedig.

3.52 Rydym yn bwriadu sicrhau bod yr adroddiadau yn cael eu cyflwyno a bod yr wybodaeth a ddarperir ynddynt gan ddarparwr y gwasanaeth yn gywir, trwy sefydlu dwy drosedd newydd. Yn gyntaf, trosedd o fethu â chyflwyno adroddiad blynyddol ac yn ail, darparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol yn yr adroddiad blynyddol. Bydd yn ofynnol i reoleiddiwr y gwasanaeth gyhoeddi'r adroddiad hwn. Ni fydd yn ofynnol i reoleiddiwr y gwasanaeth brofi a yw'r adroddiad yn wir cyn ei gyhoeddi. Fodd bynnag, os yw rheoleiddiwr gwasanaeth yn pryderu am unrhyw anghywirdebau yn yr adroddiad neu bethau perthnasol sydd wedi eu hepgor ohonynt, neu'n ymwybodol o broblemau o'r fath yn ystod ei waith arferol o gynnal arolygiadau neu drwy dderbyn sylwadau gan drydydd parti, bydd ganddo bwerau drwy'r rheoliadau i ofyn am wybodaeth ychwanegol, gofyn i'r darparwr gyflwyno adroddiad wedi'i ddiwygio neu gymryd mwy camau ychwanegol a allai arwain yn y pen draw at gamau sifil neu droseddol.

Yr effaith a fwriedir

3.53 Yn bwysig, rydym am sicrhau bod yr adroddiadau blynyddol hyn ar gael i'r cyhoedd, ochr yn ochr â'r adroddiadau arolygu gan y rheoleiddiwr. Rydym yn credu'n gryf bod gan ddinasyddion yr hawl i'r lefel hon o wybodaeth ynglŷn â'r gofal y gallant ddisgwyl

ei dderbyn. Mae'r tryloywder hwn yn hanfodol i'r dinesydd a byddwn felly yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheoleiddiwr ddarparu modd syml i ddinasyddion gael gweld gwybodaeth ystyrion a thryloyw ynglŷn â darparwyr a staff gofal a chymorth. Bydd dinasyddion wedyn yn gallu deall ansawdd gwasanaeth darparwr penodol yn well trwy gyfeirio at adroddiad blynyddol y darparwr a'r adroddiad perthnasol gan reoleiddiwr y gwasanaeth.

3.54 Yn y modd hwn, byddwn yn darparu gwybodaeth dryloyw y gellir ei chymharu a fydd yn gwella ac yn cryfhau llais a rheolaeth y cyhoedd. Bydd hyn yn rhoi lefel arall yn y system i wella gwasanaethau a chanlyniadau i unigolion.

Gofyniad i gofrestru, y broses o wneud cais, amrywio a chanslo cofrestriad

Cefndir

3.55 Er mwyn darparu pwerau a dyletswyddau priodol, yn ogystal ag eglurder a thryloywder, mae'n ofynnol nodi'r dull o reoleiddio gwasanaethau gofal a chymorth mewn deddfwriaeth.

Y sefyllfa bresennol

3.56 Mae Deddf Safonau Gofal 2000 yn darparu ar gyfer y broses bresennol o gofrestru. Mae'r gofyniad i gofrestru yn deillio o adran 11 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 sy'n ei gwneud yn drosedd i weithredu neu reoli sefydliad neu asiantaeth heb fod wedi cofrestru i wneud hynny. Mae hyn yn berthnasol i'r holl sefydliadau ac asiantaethau a reoleiddir o dan y Ddeddf heblaw am Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol, y mae eu prif swyddfa yn Lloegr.

Diben y deddfwriaeth

3.57 Mae'r Bil yn sefydlu cyfres o brosesau diwygiedig ar gyfer cofrestru darparwyr gwasanaeth. Mae'n cynnwys y gofyniad i gofrestru a phrosesau sy'n gysylltiedig â gwneud cais, amrywio a chanslo cofrestriad.

3.58 Yn y modd hwn, mae'r deddfwriaeth yn rhoi fframwaith i Weinidogion Cymru er mwyn gweithredu ei swyddogaethau o ran rheoleiddio gwasanaethau.

3.59 Mae'r prosesau diwygiedig hefyd yn gwireddu'r cyfle i'r drefn sy'n seiliedig ar wasanaethau symleiddio'r broses o gofrestru ar gyfer darparwyr. Ni fydd angen iddynt gofrestru ar wahân bellach ar gyfer pob gwasanaeth ym mhob lleoliad y darperir y gwasanaeth ynddo. Yn hytrach, bydd darparwr yn gwneud un cais i gofrestru y gellir ei amrywio i'w awdurdodi i ddarparu gwasanaethau ychwanegol mewn lleoliadau eraill.

Yr effaith a fwriedir

3.60 Effaith y ddeddfwriaeth fydd darparu fersiwn well a mwy hyblyg o'r system reoleiddio bresennol, sy'n llwyddiannus yn gyffredinol, ar sail y syniad sylfaenol ei bod yn ofynnol i ddarparwr gwasanaeth a reoleiddir yng Nghymru gofrestru yng Nghymru.

3.61 Mae'r ddeddfwriaeth yn adlewyrchu'r bwriad i symleiddio prosesau rheoleiddio cysylltiedig ar gyfer darparwyr. Yn hytrach na chofrestru sawl gwaith, un cais yn unig y bydd rhaid i ddarparwyr ei gyflwyno. Nod y dull newydd hwn o gofrestru yw

- Darparu hyblygrwydd i ddarparwyr o ran y gwasanaethau y maent yn dymuno'u darparu a'r lleoedd y maent yn dymuno eu darparu ynddynt
- Osgoi dyblygu gwybodaeth a dogfennau y mae'n rhaid eu cyflwyno i'r rheoleiddiwr
- Rhoi hyblygrwydd i'r rheoleiddiwr o ran y modd y mae'n cynnal y gweithdrefnau gorfodi

Gofynion o ran Hysbysiadau

Cefndir

3.62 Mae'r prosesau y mae'r rheoleiddiwr yn eu defnyddio i hysbysu ynglŷn â'i benderfyniadau a'i fwriadau, yn enwedig o ran camau gorfodi, yn elfennau allweddol o'r gwaith rheoleiddio.

Y sefyllfa bresennol

3.63 Ar hyn o bryd, pan nad yw darparwr gwasanaeth yn cydymffurfio â'r safonau a'r rheoliadau, caiff rheoleiddiwr y gwasanaeth gyflwyno hysbysiadau anstatudol o ddiffyg cydymffurfio. Mae hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio yn nodi'r meysydd y mae'n

ofynnol i ddarparwr y gwasanaeth gymryd camau i'w cywiro, yn ogystal ag amserlenni ar gyfer cyflawni'r camau hynny. Os bydd y camau cywiro'n cael eu cymryd, ni fydd rheoleiddiwr y gwasanaeth yn cymryd camau eraill. Os nad yw'r camau cywiro wedi eu cymryd, bydd rheoleiddiwr y gwasanaeth yn mynd â'r mater ymhellach drwy ddilyn y prosesau gwasanaeth sy'n peri pryder gyda'r bwriad o gymryd camau gorfodi i ganslo cofrestriad darparwr y gwasanaeth. Os bydd darparwr y gwasanaeth yn parhau i dorri'r rheoliadau er gwaethaf y prosesau gwasanaeth sy'n peri pryder, bydd rheoleiddiwr y gwasanaeth yn cyhoeddi Hysbysiad o Gynnig i ganslo cofrestriad y darparwr ac yn rhoi 28 diwrnod iddo gyflwyno sylwadau ysgrifenedig yn gwrthwynebu'r cynnig. Os na chyflwynir sylwadau, neu os bydd darparwr y gwasanaeth yn cadarnhau nad yw'n bwriadu cyflwyno rhai, cyhoeddir Hysbysiad o Benderfyniad. Mae gan y darparwr 28 diwrnod arall i apelio yn erbyn y penderfyniad hwn mewn tribiwnlys. Os gwneir gwelliannau ac os llwyddir i gydymffurfio â'r rheoliadau o fewn 28 diwrnod, ni all y rheoleiddiwr wneud dim hyd yn oed os bydd yn gwybod na fydd modd i'r darparwr barhau i gydymffurfio.

Diben y ddeddfwriaeth

- 3.64 Mae'r Bil yn rhoi pwerau ychwanegol i Weinidogion Cymru ymdrin â'r broblem pan fydd rheoleiddiwr yn nodi achos o ddiffyg cydymffurfio a bod y darparwr yn llwyddo i gydymffurfio yn y tymor byr ond nad yw'n gallu parhau i gydymffurfio, sy'n golygu eu bod yn peidio â bod yn bryder i'r rheoleiddiwr.
- 3.65 Bydd y cynnig hefyd yn rhoi mwy o gyfleoedd i reoleiddiwr y gwasanaeth weithio gyda darparwyr gwasanaeth i'w cynorthwyo i wella mewn meysydd a fydd yn golygu eu bod yn darparu gwasanaethau o ansawdd da i'r dinasyddion y maent yn eu gwasanaethu. Ni fydd y cynigion yn atal y rheoleiddiwr rhag cymryd camau brys os ydynt yn ofynnol, ond y bwriad yw cynorthwyo i gryfhau'r bartneriaeth rhwng y rheoleiddiwr a'r sector gan gynorthwyo i sbarduno gwelliannau yn ansawdd y gwasanaeth a'r dull o'i gyflwyno. Bydd y weithdrefn yn fwy tryloyw nag y mae ar hyn o bryd gan y bydd iddi sylfaen statudol.
- 3.66 Y cam statudol cyntaf i reoleiddiwr y gwasanaeth o ganlyniad i achosion penodol a phenodedig o dorri'r rheoliadau, pan fo angen gwneud gwelliannau, yw cyflwyno hysbysiad gwella. Mae gweddill y broses yn parhau yr un fath yn ei hanfod, ond un

newid pwysig yw bod y rheoleiddiwr bellach yn cael darparu amserlen, ar ôl i welliannau gael eu gwneud, gan fynnu bod y darparwr yn dangos o fewn y cyfnod amser hwnnw bod y gwelliannau'n gynaliadwy. Y diben yw rhoi dewis arall i reoleiddiwr y gwasanaeth yn hytrach na chanslo'r cofrestriad ar unwaith pan gymerir camau sifil yn erbyn darparwr gwasanaeth.

Yr effaith a fwriedir

3.67 Yr effaith gyffredinol a fwriedir yw rhoi ystod o bwerau a dyletswyddau hyblyg i Weinidogion Cymru er mwyn caniatáu dulliau addas a chymesur o reoleiddio sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth hawliau dynol.

3.68 Ein bwriad yw bod rheoleiddiwr y gwasanaeth yn gallu defnyddio ystod o ddulliau agored a thryloyw o ymdrin ag achosion o dorri'r rheoliadau. Maent yn cynnwys defnyddio hysbysiadau cosb benodedig ar gyfer rhai achosion penodol o dorri rheoliadau, er enghraifft peidio ag arddangos tystysgrif cofrestru. Ar gyfer mân achosion technegol o dorri'r rheoliadau, mae'r rheoleiddiwr yn parhau i allu defnyddio dulliau anstatudol o geisio sicrhau gwelliannau, er enghraifft trwy nodi sylwadau yn yr adroddiad arolygu. Fodd bynnag, ar gyfer unrhyw achosion mwy difrifol o dorri'r rheoliadau, dylid dechrau prosesau canslo a fydd wedyn yn cynnwys cyflwyno hysbysiad gwella a chofrestriad â therfyn amser, os yw'n briodol. Bydd hyn yn rhoi cyfle i ddarparwyr gwasanaeth ddangos a gweithredu unrhyw welliannau angenrheidiol i'r gwasanaethau y maent yn eu darparu o fewn cyfnod amser a benderfynir gan y rheoleiddiwr cyn i unrhyw gamau canslo gael eu cymryd.

3.69 Bwriad y pwyslais ar wella yw sicrhau bod y broses arolygu'n cyd-fynd â'r drefn arfaethedig o reoleiddio yn seiliedig ar berfformiad. Bydd yn ofynnol i arolygwyr ganolbwyntio ar feysydd lle y gellid gwneud gwelliannau, o ran canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau.

Unigolion Cyfrifol

Cefndir

3.70 Mae'n bwysig bod atebolrwydd yn cael ei briodoli'n briodol yn y sector gofal a chymorth. Roedd Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy (Llywodraeth Cymru, 2011) yn nodi,

'Mae'n rhaid i ni gydnabod yn fwy eglur bod y prif gyfrifoldeb am sicrhau ansawdd, llais clir a rheolaeth yn nwylo defnyddwyr y gwasanaethau, a hefyd am ddiogelu ac amddiffyn ar ysgwyddau'r cyrff eu hunain, y gweithwyr proffesiynol a'r rhai sy'n comisiynu'r gwasanaethau - nid ar ysgwyddau'r rheoleiddwyr a'r arolygwyr. Mae gan reoleiddio rôl bwysig i'w chwarae a disgwylw'n i reoleiddwyr gymryd camau pendant lle bo angen. Deallwn hefyd mai drwy ganolbwyntio ar y trefniadau ehangach y gellir sicrhau newidiadau a diogelwch yn y tymor hir. Dyma'r amser i newid y pwyslais ym maes rheoleiddio ac arolygu o'r pwynt lle caiff gwasanaethau eu darparu i'r cyrff sy'n darparu'r gwasanaethau hynny ac i weithwyr proffesiynol penodol o fewn y gweithlu.' (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011:29).

Y sefyllfa bresennol

3.71 Nid yw'r cysyniad o unigolyn cyfrifol yn un newydd. O dan yr amryw o reoliadau a luniwyd yn bwrpasol ar gyfer gwahanol leoliadau, ac sy'n berthnasol ar hyn o bryd i sefydliadau ac asiantaethau y mae'n ofynnol iddynt gofrestru o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000, mae'n ofynnol bod gan bob un o'r lleoliadau niferus unigolyn cyfrifol. Gweler, er enghraifft, reoliad 6 o Reoliadau Cartrefi Plant (Cymru) 2002 a rheoliad 8 o Reoliadau Asiantaethau Gofal Cartref (Cymru) 2004. Fodd bynnag, nid yw'r rheoliadau'n nodi'n benodol ar hyn o bryd bod yn rhaid i ddarparwyr gwasanaethau enwebu unigolyn cyfrifol, a fydd yn destun archwiliad addasrwydd a phriodoldeb, er mwyn cael cofrestru. Un o ganlyniadau hyn yw bod Gweinidogion Cymru'n cyfrannu at asesu'r sawl a enwebwyd i fod yn unigolyn cyfrifol ar yr adeg cofrestru, ond mai pwerau cyfyngedig sydd ganddynt, fel rheoleiddwyr, os ydynt o'r farn ar ôl cofrestru nad yw'r unigolyn cyfrifol cofrestredig yn addas mwyach.

3.72 Roedd Adroddiad Ymchwiliad Cyhoeddus Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canol Swydd Stafford, a gadeiriwyd gan Gwnsler y Frenhines, Roberts Francis (adroddiad ymchwiliad Francis) yn nodi llawer o argymhellion ynglŷn â chyfarwyddwyr a gallu'r rheoleiddiwr i gymryd camau yn erbyn cyfarwyddwyr. Ymateb Llywodraeth y DU i'r argymhellion hyn oedd diwygio Rheoliadau a wnaed yn unol â phwerau yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 i'w gwneud yn ofynnol i gyfarwyddwyr fodloni gofynion addasrwydd. I gyrrff y gwasanaeth iechyd yn unig y mae'r rheoliadau hyn yn berthnasol ar hyn o bryd, ond cânt eu hystyngiadau o fis Ebrill 2015 i'r holl ddarparwyr

gofal cymdeithasol i oedolion a gofal iechyd annibynnol sydd wedi eu cofrestru â'r Comisiwn Ansawdd Gofal. Gellid gosod amod ar gofrestrriad corff gwasanaeth iechyd gyda'r Comisiwn Ansawdd Gofal os yw'n methu â chydymffurfio â'r gofyniad hwn.

Diben y ddeddfwriaeth

3.73 Mae'r Bil yn sefydlu'r cysyniad o 'unigolyn cyfrifol' mewn deddfwriaeth sylfaenol. Bydd yr unigolyn hwn yn atebol yn uniongyrchol am amrywiaeth o ddyletswyddau a nodir mewn rheoliadau a wneir o dan bwerau yn y Bil. Bydd yn ofynnol i'r unigolyn hwn fod yn uwch gynrychiolydd ar ran y darparwr - un ai'r perchennog, partner, aelod o fwrdd y cwmni neu uwch swyddog o'r awdurdod lleol. Bydd gan Weinidogion Cymru y pŵer, trwy reoliadau, i osod dyletswyddau pwysig ar yr unigolyn cyfrifol, megis penodi rheolwr priodol ac addas, goruchwyllo'r rheolwyr, a chynnal ymweliadau rheolaidd â gwasanaethau neu gyflwyno adroddiadau i'r Bwrdd.

Yr effaith a fwriedir

3.74 Bwriad y trefniant newydd yw sicrhau bod pobl ar lefel briodol mewn sefydliad yn atebol am ansawdd y gwasanaeth a chydymffurfiad. Trwy roi dyletswyddau penodol i'r Unigolyn Cyfrifol, gall y rheoleiddiwr sicrhau bod y darparwr yn cymryd diddordeb byw yn y gwasanaethau a ddarperir. Cânt hefyd sicrwydd fod gan Fwrdd unrhyw gwmni sianel gyfathrebu eglur â rheng flaen y gwasanaethau a threfniadau eglur ar gyfer eu goruchwyllo, pan fydd yn gweithredu fel darparwr. Yn y modd hwn gallwn sicrhau nad yw'r camau gorfodi a gymerir gan y rheoleiddiwr (neu eraill) yn gyfyngedig, yn ymarferol, i'r rhai hynny sy'n darparu gwasanaethau, megis gweithwyr gofal cymdeithasol. Bydd rheolwyr cofrestredig a darparwyr corfforaethol yn parhau i fod yn atebol, ond bydd swyddogaeth statudol newydd yr Unigolyn Cyfrifol yn rhoi cadwyn eglur o atebolrwydd priodol rhwng ystafell y bwrdd a'r rheng flaen.

Camau brys

Cefndir

3.75 Er mai'n anaml iawn y bydd hyn yn digwydd, ceir achlysuron pan fo'r Arolygiaeth o'r farn bod angen cymryd camau brys oherwydd bod gwasanaeth yn methu mor sylweddol.

Y sefyllfa bresennol

3.76 Mae Deddf Safonau Gofal 2000 yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru allu gwneud cais i Ynad Heddwch ganslo gwasanaeth ar unwaith oherwydd risg difrifol i fywyd, iechyd neu lesiant unigolyn. Pur anaml y caiff y pŵer hwn ei weithredu (dwy neu dair gwaith y flwyddyn). Mae hwn bob amser yn ddewis terfynol ac eithriadol, gan ei fod yn dod â newid mawr i'r bobl hynny sy'n derbyn gwasanaethau ac yn achosi heriau logistaidd i awdurdodau lleol.

Diben y ddeddfwriaeth

3.77 Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth debyg gydag un newid pwysig. Mae'r Bil yn caniatáu i ynad heddwch roi peth hyblygrwydd o ran amseriad er mwyn i'r gorchymyn ddod i rym ar adeg arall y mae'r ynad heddwch yn ei ystyried yn briodol.

Yr effaith a fwriedir

3.78 Bwriad cyffredinol y ddeddfwriaeth yw cynnal y sefyllfa bresennol lle y caiff Gweinidogion Cymru, o dan amgylchiadau eithriadol, gymryd camau i derfynu gwasanaeth ac atal niwed sylweddol. Mae hyn yn rhoi lefel o sicrwydd i'r cyhoedd bod modd gweithredu'n gyflym ac yn bendant pan nodir pryderon difrifol.

3.79 Gwnaethpwyd y cais i ganiatáu cyfnod o amser cyn gweithredu'r gorchymyn yn benodol gan reoleiddiwr y gwasanaeth. Mae hyn oherwydd nad yw'r sefyllfa bresennol yn rhoi'r pŵer i'r Llys nodi pryd y bydd gorchymyn yn dod i rym. Y canlyniad yw y bydd darparwyr gwasanaeth yn gallu ymateb i geisiadau i ganslo gyda dadleuon sy'n seiliedig ar hawliau dynol ynglŷn â'r effaith niweidiol ar ddefnyddwyr gwasanaethau wrth gael eu symud o'u cartrefi mewn modd heb ei gynllunio os caiff y gwasanaeth ei derfynu ar y diwrnod y gwneir y gorchymyn. Rhagwelir y gallai ynad heddwch ddefnyddio'r gallu i 'ohirio'r' penderfyniad er mwyn gallu cynllunio'r broses o symud y defnyddwyr gwasanaethau, a chael yr effaith leiaf niweidiol ar eu llesiant.

3.80 Byddai dull o'r fath hefyd yn rhoi cyfle i ddarparwyr gofnodi apêl gyda'r Tribiwnlys Haen Gyntaf. Er bod modd apelio yn erbyn penderfyniad y Llys, ychydig iawn o effaith ymarferol a geir pan fydd gorchymyn i ganslo cofrestriad darparwr yn dod i rym ar y

diwrnod y gwneir y gorchymyn, gan achosi i fusnes y darparwr (yn y rhan fwyaf o achosion) ddod i ben ar y diwrnod hwnnw.

Gwybodaeth ac Arolygiadau

Cefndir

3.81 Er mwyn gwneud eu gwaith yn effeithiol, mae'n ofynnol bod gan Arolygwyr gyfres eglur o bwerau er mwyn archwilio gwasanaethau a chyflwyno adroddiadau ynglyn â'u heffeithiolrwydd.

Y sefyllfa bresennol

3.82 Mae gan Weinidogion Cymru amrywiaeth eang o bwerau arolygu o dan adran 31 a 32 o Ddeddf Safonau Gofal 2000. Mae'r pwerau'n cynnwys hawliau mynediad, chwilio ac ymafael. Mae Adran 32(5) yn nodi ei bod yn ofynnol i'r awdurdod cofrestru, pan fo wedi arolygu gwasanaeth gofal cymdeithasol o dan adran 31, baratoi adroddiad am yr arolygiad hwnnw, a darparu copiâu i'r unigolion cofrestredig. Rhaid sicrhau bod copiâu ar gael yn swyddfeydd yr awdurdod cofrestru hefyd, yn ogystal â chymryd unrhyw gamau eraill y maent yn eu hystyried yn briodol i sicrhau bod yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd. Yn ymarferol, cyhoeddir yr adroddiadau ar wefan rheoleiddiwr y gwasanaeth.

3.83 Ar hyn o bryd, nid yw arolygwyr yn ffurfio barn nac yn mesur ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Yn hytrach, mae'r adroddiadau arolygu yn cofnodi ansawdd y gwasanaethau penodol o dan bedair prif thema (Ansawdd Bywyd, Ansawdd Staffio, Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth ac Ansawdd yr Amgylchedd). O ganlyniad, nid yw'n rhwydd i'r rhai hynny sydd â diddordeb mewn ansawdd lleoliadau gwasanaeth unigol, megis defnyddwyr gwasanaethau a chomisiynwyr gwasanaeth, gymharu dau gartref gofal o faint a disgrifiad tebyg, er enghraifft.

Diben y ddeddfwriaeth

3.84 Mae'r system bresennol yn gweithredu'n dda ac nid oes angen newid sylweddol i bwerau cyffredinol Gweinidogion Cymru. Mae'r ddeddfwriaeth felly yn ailddatgan y pwerau hyn gan ddiweddarau peth o'r iaith, gan felly ganiatáu i arolygwyr gael gwybodaeth, arolygu gwasanaethau ac ymafael mewn dogfennau. Fodd bynnag,

darpariaeth ychwanegol allweddol yn y cynnig yw rhoi pwerau trwy reoliadau i Weinidogion Cymru gyflwyno 'graddau ansawdd' ar ôl arolygiad. Byddai'r meini prawf ar gyfer y graddau hyn a'r dull o gyflwyno apêl yn eu herbyn wedi eu nodi yn y rheoliadau.

Yr effaith a fwriedir

- 3.85 Y bwriad cyffredinol yw rhoi i'r arolygwyr yr un ystod o bwerau ag sydd ar gael iddynt ar hyn o bryd, er mwyn iddynt allu sicrhau bod ganddynt yr holl wybodaeth ofynnol ar gyfer eu gwaith. Er hyn, y newid mwyaf sylweddol y bydd y cynnig hwn yn ei sefydlu fydd y pŵer, drwy reoliadau, i Weinidogion Cymru raddio'r gwasanaethau ar ôl eu harolygu.
- 3.86 Cyn defnyddio'r pŵer hwn, ystyrir y bydd angen cynnal ymgynghoriad helaeth â rhanddeiliaid a'r cyhoedd er mwyn penderfynu ar y drefn gywir. Maes o law, y bwriad yw galluogi dinasyddion i ddeall ansawdd y ddarpariaeth yn eglur, ac wrth wneud hynny roi cymhelliant a fframwaith i ddarparwyr weithio tuag at unrhyw welliannau angenrheidiol. Nid yw'n fwriad creu unrhyw fath o dabl cynghrair ar gyfer darparwyr gofal a chymorth – y bwriad yw cefnogi ac ysbrydoli gwelliannau yng ngwasanaethau'r holl ddarparwyr.
- 3.87 Byddem yn disgwyl i reoleiddiwr y gwasanaeth fynegi'r dyfarniadau hyn yng nghydestun y disgwyliadau a'r canlyniadau ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth hwnnw a'u gofalu. Byddem yn disgwyl hefyd i'r dyfarniadau hyn fod yn rhan o'r adroddiad arolygu a bod ar gael i'r cyhoedd.
- 3.88 Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn yn dangos bod llawer o'r ymatebwyr o blaid cyflwyno dyfarniad ansawdd o'r fath, ond roedd rhai yn cynghori y dylid gofalu bod y fframwaith yn cael ei ddatblygu'n ofalus er mwyn gallu ffurfio dyfarniad dibynadwy a chyson am ansawdd y gwasanaeth a'r ffordd y caiff ei gyflwyno.

Swyddogaethau cyffredinol gan gynnwys ffioedd, cynnwys dinasyddion ac adroddiad blynyddol y rheoleiddiwr

Cefndir

3.89 Mae'r adran hon yn cyfuno pedwar gwahanol faes – darparu gwybodaeth i awdurdodau lleol, ffioedd, adroddiadau blynyddol ac ymgysylltiad â'r cyhoedd.

Y sefyllfa bresennol

- 3.90 O dan Ddeddf Safonau Gofal 2000, mae gan rheoleiddiwr y gwasanaeth (Gweinidogion Cymru) ddyletswydd i hysbysu awdurdodau lleol am ei ganfyddiadau o dan amgylchiadau penodol.
- 3.91 O ran cynnwys dinasyddion, polisi Llywodraeth Cymru yw ymgysylltu â dinasyddion wrth ddatblygu polisïau a'u rhoi ar waith. Mae rheoleiddiwr y gwasanaeth yn rhan o Lywodraeth Cymru ac felly mae'n ofynnol iddo gynnwys dinasyddion yn y gwaith y mae'n ei gyflawni. Mae Adran 39 yn pennu'r gofyniad i rheoleiddiwr y gwasanaeth sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd am y modd y mae'n arfer ei swyddogaethau rheoleiddiol, ac i baratoi a chyhoeddi datganiad o'r polisi sydd ganddo ar gynnwys y cyhoedd wrth arfer y swyddogaethau hynny.
- 3.92 Mae Cynllun Cyfranogi rheoleiddiwr y gwasanaeth (AGGCC, 2012) yn nodi'r newidiadau y mae rheoleiddiwr y gwasanaeth wedi eu gwneud i'w drefniadau llywodraethu a'i waith arolygu, gyda'r nod o roi llais i bobl yn y gwaith y mae'r rheoleiddiwr yn ei gyflawni a rheolaeth drosto. Un cam canolog i'r newidiadau hyn yw creu'r Bwrdd Cynghori Cenedlaethol, a fydd yn goruchwyllo'r gwaith y mae'r rheoleiddiwr yn ei gyflawni ac yn cynorthwyo i lunio blaenoriaethau. Yn ogystal, mae adroddiad blynyddol rheoleiddiwr y gwasanaeth (AGGCC, 2014) yn nodi'r bwriad i wneud mwy o ddefnydd o ymwelwyr annibynnol gyda'r nod o ddarparu safbwyntiau ychwanegol ar wasanaethau gofal a chymorth cymdeithasol.
- 3.93 Mae'r pwerau i godi ffioedd wedi eu gwasgaru trwy Ran I a Rhan II o Ddeddf Safonau Gofal 2000 ar hyn o bryd ac nid oes un ddarpariaeth unigol yn ymdrin â'r pŵer i godi ffioedd. Mae'r pŵer i godi ffioedd sy'n gysylltiedig â chais i gofrestru i'w gael yn adran 12(2) o Ddeddf Safonau Gofal 2000. Mae pwerau eraill sy'n gysylltiedig â gosod ffioedd yn cynnwys:
- adran 15(3) ac adran 15(5) – sy'n ymwneud ag amrywio neu gael gwared ar amod, canslo cofrestrriad, canslo amod i atal cofrestrriad dros dro;

- adran 16 (3) a (4) – ar gyfer gosod ffioedd ar gyfer cofrestru;
- adran 22 (i) – ar gyfer ffioedd sy'n gysylltiedig â hysbysiadau; ac
- adran 36(4) – i godi ffioedd mewn cysylltiad â chais am gopi o unrhyw gofrestr a gedwir.

3.94 Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod ffioedd yn flaenorol o dan Reoliadau Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Annibynnol (Ffioedd) (Cymru) 2002. Fodd bynnag, dirymwyd y rhain yn 2006 gan fod tystiolaeth yn awgrymu mai canran fach yn unig o'r darparwyr gwasanaeth oedd yn gorfod eu talu a'u bod o ganlyniad yn cynorthwyo i dalu am y gwaith o reoleiddio gweddill y sector.

3.95 Yn olaf, o ran adroddiad blynyddol, mae'n arferol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad o'r fath trwy ei gangen rheoleiddio gwasanaethau, er nad yw hyn yn ofyniad statudol. Fodd bynnag, nid yw fformat a chynnwys yr adroddiad hwn wedi ei nodi mewn rheoliadau ac nid yw wedi ei safoni.

Diben y ddeddfwriaeth

3.96 Mae'r cynnig yn cadw dyletswyddau presennol Gweinidogion Cymru i hysbysu awdurdodau lleol am gamau penodol. Mae'r cynnig yn rhoi pŵer cyffredinol ac eang i Weinidogion Cymru godi ffioedd am eu gweithgareddau rheoleiddio.

3.97 Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgysylltu â dinasyddion, wrth gyflawni swyddogaethau'r Bil. Bydd y modd y maent yn ymgysylltu â dinasyddion yn cael ei gynnwys yn y gofyniad newydd i Weinidogion Cymru gyflwyno adroddiad yn flynyddol ynglŷn â chyflawni swyddogaethau'r Bil hwn.

Yr effaith a fwriedir

3.98 Trwy gyflwyno system ffioedd, byddai Cymru'n dilyn yr un drefn â gweddill y DU, gan mai hi yw'r unig weinyddiaeth ar hyn o bryd nad yw'n codi ffi gymesur ar ddarparwyr gwasanaeth am gofrestru ond yn hytrach yn talu'r gost ariannol o gofrestru darparwyr yn gyfan gwbl trwy'r pwrs cyhoeddus. Nid yw'r cynnig yn ceisio trosglwyddo holl gostau ariannol y broses reoleiddio i'r sector, ond bydd yn rhoi'r pwerau i gyflwyno ffi gymesur, os penderfynir bod hynny'n briodol, a fydd o gymorth i wrthbwysu'r pwysau ariannol o ymestyn y gofrestr i fwy o wasanaethau yn y dyfodol.

Bydd unrhyw reoliadau a wneir o dan y ddarpariaeth hon yn gosod y ffioedd ar raddfeydd penodol sy'n wahanol ar gyfer gwahanol ddisgrifiadau gwasanaeth, ac yn pennu amser ar gyfer talu'r ffioedd. Yn y pen draw, maw Llywodraeth Cymru o'r farn bod rheoleiddio yn rhoi buddiannau sylweddol i ddarparwyr, a'i bod yn iawn iddynt gyfrannu at y gost. Mae rheoleiddio'n gwneud yn siŵr y gall darparwyr deimlo'n hyderus yn y sector. Gallant ddefnyddio'u statws rheoleiddio i ddenu a gweithredu gwasanaethau, ac i gynnig sicrwydd i gomisiynwyr a dinasyddion ynglŷn â'u hansawdd.

3.99 Mae rheoleiddio'n cynnig fframweithiau clir er mwyn gwella sgiliau staff, yn ogystal â rhaglenni hyfforddiant a chymwysterau. Mae'r broses o reoleiddio hefyd yn cynnig gwybodaeth eglur a diduedd y gellir ei defnyddio i wella gwasanaethau. Trwy nodi darpariaeth dda, mae'n cynnig gwybodaeth i'r sector ynglŷn ag arferion gorau a modelau gofal newydd. Yn olaf, trwy gael gwared ar arferion gwael a darpariaeth wael, mae'r broses reoleiddio'n cynnal ansawdd yn y sector ac yn cyfyngu ar y potensial i enw da'r sector gael ei ddiffinio gan ddarpariaeth wael.

3.100 Mae Llywodraeth Cymru hefyd o'r farn y bydd lefel ffioedd resymol yn newid y berthynas rhwng y darparwr a'r rheoleiddiwr, er gwell. Bydd yn creu perthynas fwy proffesiynol a chytbwys lle y mae'r ddwy ochr yn cydnabod gwerth cyfraniad y naill a'r llall at y sector. Yn y pen draw rydym o'r farn y gall trefn o godi ffioedd ddarparu nifer o fuddiannau, gan gynnwys:

- Perthynas fwy proffesiynol rhwng yr awdurdod cofrestru a'r darparwr;
- Gwneud iawn am rai gofynion ychwanegol gan y rheoleiddiwr, o ran adnoddau;
- Cydbwysedd agosach rhwng y sefyllfa i ddarparwyr yng Nghymru â rhannau eraill o'r DU; a
- canslo cofrestrïadau anweithredol odi ar y gofrestr (nid oes ysgogiad ar hyn o bryd i dynnu gwasanaeth neu ddarparwyr oddi ar y gofrestr).

3.101 Fodd bynnag, cydnabyddir y byddai'n rhaid deall costau, yn ogystal ag effaith, newid o'r fath wrth gyflwyno unrhyw drefn o godi ffioedd. Mae mwy o'r ddarpariaeth gofal cymdeithasol yn cael ei hariannu gan y pwrs cyhoeddus yng Nghymru nag yn Lloegr, ac mae potensial y gallai unrhyw drefn o godi ffioedd arwain at dderbyn arian ar y naill law gan y pwrs cyhoeddus a'i dalu allan ar y llaw arall trwy gostau contractau

uwch ar gyfer y ddarpariaeth. Mewn amgylchiadau o'r fath, byddai'r gost o gyflwyno biwrocratiaeth codi ffioedd yn ffordd aneffeithlon o ddefnyddio cyllid cyhoeddus. Yn ogystal rydym yn ymwybodol o'r pwysau a wynebir gan lawer o ddarparwyr preifat a gwirfoddol yng Nghymru. Ni ddylid ond cyflwyno ffioedd ar ôl deall a gweithio trwy'r effaith ar y farchnad. Am y rhesymau hyn bydd Llywodraeth Cymru'n ceisio gweithio'n agos â'r sector cyn penderfynu a ddylid cyflwyno trefn o godi ffioedd ai peidio. Sylweddolir y bydd angen ymgysylltiad sylweddol â sefydliadau ar draws y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru, yn enwedig y rhwydwaith o ddarparwyr, er mwyn cyflwyno'r newid hwn.

3.102 Mae nifer o fuddiannau posibl yn gysylltiedig â'i gwneud yn ofynnol i reoleiddiwr y gwasanaeth, fel un o'i amcanion, gynnwys dinasyddion yn ei waith ar lefelau strategol a gweithredol yn ogystal â chyflwyno adroddiadau cyhoeddus yn flynyddol ynglŷn â'r hyn a gyflawnwyd yn gysylltiedig â'r amcan hwnnw. Trwy gynnwys dinasyddion, gellir herio'r rheoleiddiwr a'i gynorthwyo i ddeall profiad dinasyddion yn y sector yn well, yn ogystal â sicrhau ei fod yn datblygu systemau sy'n adlewyrchu eu hanghenion. Trwy sefydlu gofyniad cyfreithiol, dylid sicrhau bod y momentwm presennol i gynnwys dinasyddion yn cael ei gynnal ac nad yw'n pylu.

3.103 Dylai'r gofyniad i reoleiddiwr y gwasanaeth gyflwyno adroddiad blynyddol i'r cyhoedd ynglŷn â'r hyn y mae wedi ei gyflawni o ran yr amcan i gynnwys y dinesydd yn ei waith, olygu bod y cyhoedd yn fwy ymwybodol o'r hyn y mae rheoleiddiwr y gwasanaeth yn bwriadu ei gyflawni o ran cynnwys dinasyddion ac i ba raddau y mae'n llwyddo i wneud hynny.

3.104 Trwy roi statws statudol i adroddiad blynyddol rheoleiddiwr y gwasanaeth, bydd y sector yn fwy tryloyw ynglŷn â sut y mae'r broses reoleiddio'n gweithio a'r hyn y mae'n ei ganfod yn ei waith. Mae hefyd yn darparu mecanwaith ar gyfer craffu ar y gwaith y mae'r rheoleiddiwr yn ei wneud.

Troseddau

Cefndir

3.105 Elfen allweddol o reoleiddio yw'r gallu i gymryd camau gorfodi priodol yn erbyn unrhyw achosion o dorri'r rheoliadau. Mae gorfodi'n cwmpasu camau sifil a throseddol.

Y sefyllfa bresennol

3.106 Mae Deddf Safonau Gofal 2000 yn darparu ar gyfer amrywiaeth o droseddau fel a ganlyn:

- Cynnal neu reoli asiantaeth heb fod wedi cofrestru i wneud hynny.
- Methu â chydymffurfio ag amodau'r cofrestriad heb esgus rhesymol.
- Cynnal neu reoli sefydliad neu asiantaeth pan fo cofrestriad wedi ei atal dros dro.
- Defnyddio disgrifiad anwir ar gyfer sefydliad neu asiantaeth.
- Gwneud datganiadau anwir mewn ceisiadau cofrestru.
- Methu ag arddangos tystysgrif cofrestru.
- Rhwystro'n fwriadol rhag arfer pŵer o dan adrannau 31 a 32 neu fethu, heb esgus rhesymol, â chydymffurfio â gofyniad a wnaed o dan yr adrannau hynny.

3.107 Mae Adran 25 o Ddeddf 2000 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer rheoliadau i ddarparu bod torri neu fethu â chydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth benodol yn y rheoliadau yn drosedd. Mae rheoliadau ar gyfer lleoliadau penodol a wnaed o dan y pŵer yn adran 22 yna'n sefydlu troseddau sy'n gysylltiedig â rheoliadau penodol. Er enghraifft mae rheoliad 40 o Reoliadau Cartrefi Plant (Cymru) 2002 yn darparu y bydd torri neu fethu â chydymffurfio â darpariaethau rheoliadau 4 i 37 yn drosedd.

3.108 Mae'r holl droseddau o dan Ddeddf 2000 yn droseddau diannod yn unig. Yn gyffredinol, dirwyon heb fod yn fwy na lefel 4 neu lefel 5 ar y raddfa safonol yw'r cosbau. Yr unig drosedd a all, mewn amgylchiadau penodol, arwain at gyfnod mewn carchar (am gyfnod heb fod yn fwy na 6 mis) yw gweithredu sefydliad neu asiantaeth heb fod wedi cofrestru i wneud hynny.

Diben y ddeddfwriaeth

3.109 Mae'r Bil yn nodi darpariaeth ar gyfer troseddau ynglŷn â rheoleiddio gwasanaethau. Y troseddau sy'n ymddangos ar wyneb y Bil ac y bwriedir iddynt fod yn rhai diannod yn unig yw:

- Methu â chyflwyno datganiad blynyddol.
- Methu ag arddangos tystysgrif cofrestru.

3.110 Y troseddau sydd i fod yn rhai neillog, y gellir mynd â hwy i achos llys mewn Llys Ynadon neu Lys y Goron yw:

- Darparu gwasanaeth a reoleiddir heb fod wedi cofrestru.
- Methu a chydymffurfio ag amod (gan gynnwys methu â sicrhau bod unigolyn cyfrifol wedi ei gofrestru ar gyfer lleoliad y mae darparwr gwasanaeth yn darparu gwasanaeth a reoleiddir ynddo, ohono neu'n gysylltiedig ag ef).
- Disgrifiadau anwir.
- datganiadau ffug Methu â darparu gwybodaeth.
- Rhwystro arolygydd yn fwriadol.
- Methu â chydymffurfio ag unrhyw ofynion a osodir ar unigolyn gan Arolygydd.

3.111 Hefyd, ceir darpariaeth debyg i adran 25 o Ddeddf 2000 i Weinidogion Cymru ddarparu mewn rheoliadau ei bod yn drosedd i ddarparwr gwasanaeth neu unigolyn cyfrifol dorri neu fethu â chydymffurfio â darpariaeth benodedig yn y rheoliadau.

3.112 Yr unigolion y ceir eu herlyn am y troseddau fydd yr unigolion cofrestredig. Hynny yw, y darparwr cofrestredig a phan fo hynny'n briodol, yr Unigolion Cyfrifol.

3.113 Y cynnig yw cadw'r pŵer presennol i wneud rheoliadau yn rhagnodi troseddau penodol y gellir chyflwyno hysbysiadau cosb benodedig ar eu cyfer yn hytrach nag erlyn. Ein bwriad yw yr ymdrinnir i ddechrau ag achosion o fethu â chyflwyno datganiad blynyddol neu wneud datganiadau anwir mewn adroddiad blynyddol trwy gyflwyno hysbysiad cosb benodedig.

Yr effaith a fwriedir

3.114 Yn gyffredinol, y bwriad yw sefydlu cosbau troseddol sy'n cyfateb "tebyg am debyg" i'r rhai hynny sydd eisoes yn Neddf 2000, ond er mwyn adlewyrchu pa mor ddifrifol yw'r amgylchiadau y cyflawnir rhai o'r troseddau penodol hynny ynddynt, bwriad y polisi yw nodi bod troseddau penodol yn rhai "neillog". Golyga hyn y gellid erlyn troseddau penodol yn Llys yr Ynadon neu yn Llys y Goron. O ganlyniad, bydd y dewisiadau gorfodi sydd ar gael i'r rheoleiddiwr yn cael eu cryfhau er mwyn i'r gosb

fod yn addas i'r drosedd. Yn achos erlyniadau diweddar gan reoleiddiwr y gwasanaeth yn erbyn unigolion cofrestredig, teimlir nad yw'r cosbau'n adlewyrchu difrifoldeb y drosedd a/neu ganlyniadau'r drosedd e.e. pan fo methiant darparwr i gydymffurfio â'r gofynion rheoleiddio (troseddau sy'n cael eu creu o ganlyniad i adran 25 o Ddeddf 2000) yn achosi marwolaeth neu anaf difrifol i ddefnyddiwr gwasanaethau. Y bwriad polisi yw gwneud darpariaeth fel bod modd erlyn troseddau o'r fath (sy'n rhai prin) yn Llys y Goron gan olygu felly bod modd iddynt ddenu dedfryd sy'n briodol o lym.

3.115 Mae troseddau naill ffordd neu'r llall yn y Bil yn gallu denu dirwy ddiderfyn neu gyfnod o hyd at 2 flynedd mewn carchar. Mae hyn yn golygu bod troseddau o dan y Bil yn cyd-fynd â throseddau sydd wedi eu sefydlu mewn deddfwriaeth lechyd a Diogelwch a chyfundrefnau rheoleiddio cymharol eraill.

b. Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol

3.116 Mae'r dull o reoleiddio gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn y cynnig hwn yn ceisio:

- Cydnabod y swyddogaeth statudol sydd gan awdurdodau lleol wrth ddarparu a/neu gaffael gofal a chymorth.
- Sicrhau bod ein system reoleiddio yn caniatáu inni ddeall yr effaith y mae gwasanaethau'n ei chael ar fywydau pobl.
- Symud y tu hwnt i ddull sy'n seiliedig ar gydymffurfiad tuag at un sydd hefyd yn adlewyrchu ansawdd y ddarpariaeth.
- Darparu mwy o dryloywder a'r gallu i gymharu gwahanol awdurdodau lleol yng Nghymru.
- Darparu dull costeffeithiol o reoleiddio gwasanaethau sy'n parhau i roi sicrwydd i'r cyhoedd.

3.117 Mae'n bwysig nodi y bydd yr adrannau sy'n berthnasol i wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn cael eu mewnosod trwy ddiwygiadau i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, o ystyried eu bod yn cyfateb i swyddogaethau awdurdodau lleol sydd wedi eu nodi yn y ddeddfwriaeth honno. Er mwyn sicrhau bod y statud yn gyson ac eglur, y farn yw y dylai'r darpariaethau hyn gael eu hychwanegu at y Ddeddf honno.

Adolygu ac ymchwilio i wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol

Cefndir

3.118 Mae gan Awdurdodau Lleol amrywiaeth o swyddogaethau statudol sy'n berthnasol i wasanaethau cymdeithasol. Maent wedi eu nodi mewn sawl darn o ddeddfwriaeth, yn bennaf yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae Gweinidogion Cymru'n adolygu sut y mae awdurdodau lleol yn cyflawni'r swyddogaethau hyn trwy waith arolygu a chyflwyno adroddiadau rheolaidd.

Y sefyllfa bresennol

3.119 Mae gan Weinidogion Cymru y swyddogaeth o adolygu ac ymchwilio i wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Nodir y pwerau hynny ym Mhennod 6 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (Deddf 2003). Mae hwn yn nodi swyddogaethau cyffredinol Gweinidogion Cymru o ran annog gwelliannau yn narpariaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol Cymru. Mae'r swyddogaethau a nodir yn cynnwys y pŵer i gynnal astudiaethau ac ymchwil, asesu perfformiad o gymharu â meini prawf penodedig a dyfarnu graddau perfformiad, codi ffioedd, hybu neu gynnal astudiaethau ynglŷn â pha mor ddarbodus ac effeithlon yw'r gwasanaeth.

3.120 Mae Deddf 2003 hefyd yn rhoi pwerau sylweddol i Weinidogion Cymru sy'n gysylltiedig ag arolygu awdurdodau lleol, gan gynnwys mynd i mewn a gweld dogfennau. Yn olaf, mae'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n darparu ar gyfer rhoi esboniad ynglŷn â dogfennau, gwybodaeth a ddarparwyd neu unrhyw fater arall ynglŷn â swyddogaethau Gweinidogion Cymru o dan y bennod honno o'r Ddeddf. Gwnaed Rheoliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Esboniadau ynghylch Gwasanaethau Cymdeithasol) 2005 yn unol â'r ddarpariaeth hon. Mae Deddf 2003 hefyd yn darparu ar gyfer troseddau sy'n deillio o dorri'r darpariaethau hyn.

3.121 Mae Deddf 2003 yn nodi'r ystyriaethau y mae angen eu hystyried wrth arfer y pwerau hyn, yn benodol:

- (a) y gwasanaethau sydd ar gael a mynediad atynt;
- (b) ansawdd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau;
- (c) rheolaeth y gwasanaethau;
- (ch) pa mor ddarbodus ac effeithlon yw'r ddarpariaeth, a'i gwerth am arian;
- (d) yr wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd am y gwasanaethau ac ansawdd yr wybodaeth honno;
- (dd) yr angen i ddiogelu a hybu hawliau a lles plant; a
- (e) pha mor effeithiol yw'r camau y mae awdurdodau lleol yn eu cymryd i'r diben a nodir ym mharagraff (dd).

3.122 Mae Gweinidogion Cymru yn arfer y pwerau hyn ar hyn o bryd drwy reoleiddiwr y gwasanaeth, sy'n adolygu ac yn arolygu gwasanaethau cymdeithasol i oedolion a phlant gan awdurdodau lleol ac yn cyflwyno adroddiadau ynglŷn ag effeithiolrwydd y gwasanaethau.

Diben y ddeddfwriaeth

3.123 Diben eang y Bil yw ailddatgan pwerau Deddf 2003, ond o fewn y statud deddfwriaethol diwygiedig i Gymru ar gyfer gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, cynigir rhai newidiadau.

3.124 Nid yw'r Bil yn ceisio ailddatgan y ddarpariaeth bresennol yn adran 95 o Ddeddf 2003 sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gynnal astudiaethau er mwyn nodi argymhellion i wneud y ddarpariaeth yn fwy effeithlon a darbodus.

3.125 Mae'r hyn y dylai Gweinidogion Cymru ei ystyried wrth gyflawni'r swyddogaethau hyn wedi ei ddiwygio rhywfaint hefyd er mwyn adlewyrchu newidiadau o ran dull gweithredu. Yr ystyriaethau newydd yw:

- Y gwasanaethau sydd ar gael a mynediad atynt.
- Ansawdd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau.
- Rheolaeth y gwasanaethau.
- Pa mor ddarbodus ac effeithlon yw'r gwasanaethau a'u gwerth am arian.
- Yr wybodaeth a ddarperir i'r cyhoedd ynglŷn â'r gwasanaethau ac ansawdd yr wybodaeth honno.

- Y dyletswyddau a osodir ar awdurdodau lleol gan adrannau 5 (dyletswydd i hybu llesiant), 6 (dyletswyddau cyffredinol eraill) a 7 (dyletswyddau sy'n ymwneud ag Egwyddorion a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig) i'r graddau y maent yn berthnasol i wasanaethau
- Pa mor effeithiolrwydd yw'r camau y mae awdurdodau lleol yn eu cymryd i gyflawni'r dyletswyddau hynny
- Yr angen i ddiogelu a hybu llesiant pobl.
- Pa mor effeithiolrwydd yw'r camau y mae awdurdodau lleol yn eu cymryd i ddiogelu a hybu llesiant pobl gan gyfeirio at y fframwaith canlyniadau.
- I ba raddau y mae awdurdod lleol wedi cynnwys pobl wrth gynllunio, darparu ac adolygu gwasanaethau.

Yr effaith a fwriedir

3.126 Bwriad y Bil yw cadw hawliau Gweinidogion Cymru i arolygu'n effeithiol a chyflwyno adroddiadau am y modd y mae awdurdodau lleol yn cyflawni eu swyddogaethau o ran gwasanaethau cymdeithasol. Ystyrir bod yr ystod bresennol o bwerau wedi darparu fframwaith effeithiol ar gyfer Gweinidogion Cymru (trwy reoleiddiwr y gwasanaeth) dros y degawd diwethaf ac y dylid eu cadw.

3.127 Bwriad y newidiadau a gynigir yw sicrhau bod y gyfraith yn cyd-fynd ag agweddau dulliau presennol tuag at ofal a chymorth, yn enwedig Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae hyn yn golygu bod yr hyn y mae angen ei ystyried bellach yn cynnwys cyfeiriad uniongyrchol at ganlyniadau ac ychwanegiad newydd ynglŷn â'r angen i awdurdodau lleol gynnwys pobl wrth gyflawni'r swyddogaethau hynny. Mae cyfeiriadau at blant wedi eu disodli gan bobl a chyfeiriadau at 'les' wedi eu disodli gan 'llesiant'.

3.128 Gwneir y cynnig i beidio ag ailddatgan adran 95 o Ddeddf 2003 ynglŷn ag astudiaethau ynglŷn â pha mor ddarbodus ac effeithlon yw gwasanaethau, oherwydd y bydd gan Ofal Cymdeithasol Cymru, fel un o'i swyddogaethau newydd, y pŵer i gynnal astudiaethau o'r fath ynglŷn â gwasanaethau gofal a chymorth. Bydd y corff newydd hwn felly yn gallu cynnal astudiaethau, yr arferai Gweinidogion Cymru eu cynnal, er mwyn nodi argymhellion ar gyfer gwella gwneud gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn fwy darbodus, effeithlon ac effeithiol. Hefyd, caiff

Gweinidogion Cymru ddefnyddio pwerau eraill i gyflawni astudiaethau, os yw'n angenrheidiol, megis Adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Adroddiadau blynyddol awdurdodau lleol

Cefndir

3.129 Mae'r adran hon o'r Bil yn ymdrin â'r gofynion ar awdurdodau lleol o ran cyflwyno adroddiadau ynglŷn â'u dyletswyddau statudol a'u sylwadau ar y farchnad gofal a chymorth yn eu hardal.

Y sefyllfa bresennol

3.130 Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol baratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol ar y gofal a'r cymorth y maent yn ei ddarparu, a gelwir hwn fel arfer yn Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol. Ar hyn o bryd, mae'r ddyletswydd hon wedi ei sefydlu mewn canllawiau a gyflwynwyd o dan adran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970 ynglŷn â Swyddogaeth a chyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. Caiff yr adroddiadau eu paratoi yn unol â Fframwaith Cyflwyno Adroddiadau Blynyddol y Cynghorau, sef pecyn cymorth anstatudol ar gyfer awdurdodau lleol, a'u bwriad yw dadansoddi pa mor effeithiol yw gofal a chymorth cymdeithasol ym mhob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae gan yr adroddiadau ddau ddiben allweddol:

- Darparu mecanwaith ar gyfer atebolrwydd. Mae'r adroddiad blynyddol yn rhoi cyfle i gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol hysbysu dinasyddion a rhanddeiliaid ynglŷn â pha mor dda y mae eu trefniadau ar gyfer darparu gofal a chymorth cymdeithasol yn gweithio, yn eu barn hwy, a chyfle hefyd iddynt nodi eu blaenoriaethau ar gyfer gwella.
- Rhoi gwybodaeth i reoleiddiwr y gwasanaeth a'i gynorthwyo i benderfynu ar bwyslais ei waith o arolygu gwasanaethau gofal a chymorth cymdeithasol awdurdodau lleol, ac amlygu camau penodol sy'n angenrheidiol er mwyn datrys unrhyw broblemau.

3.131 Mae rheoleiddiwr y gwasanaeth yn defnyddio Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, yn ogystal â gwybodaeth arall a ddarperir gan

awdurdodau lleol, fel data am berfformiad, wrth baratoi Adolygiad a Gwerthusiad Blyneddol o Berfformiad ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru. I sicrhau y caiff perfformiad awdurdodau lleol ei adolygu a'i werthuso mewn modd cyson, tryloyw a chymesur, mae rheoleiddiwr y gwasanaeth yn defnyddio cymedrolwr i gymedroli perfformiad pob awdurdod lleol.

3.132 Nid oes gofyniad statudol yng Nghymru i awdurdodau lleol wneud gwaith cynllunio ar gyfer y farchnad na datblygu datganiadau o sefyllfa'r farchnad. Mae cynllunio ar gyfer y farchnad yn rhan sylfaenol o gomisiynu ac mae'n ganolog i'r gwaith o wireddu nifer o amcanion strategol Llywodraeth Cymru ym maes gofal a chymorth cymdeithasol. Mae Fframwaith a Chanllawiau Comisiynu Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol (Llywodraeth Cymru, 2010) yn cydnabod, er enghraifft, bod comisiynu gofal cymdeithasol yn un o'r gweithgareddau mwyaf pwysig y mae awdurdodau lleol yn ei gyflawni. Mae'r canllawiau'n cynnwys safonau, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu a gweithredu cynlluniau comisiynu sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau; ac maent yn amlygu'r angen i gomisiynwyr farnu, ar sail eu dadansoddiad o'r farchnad gyfredol, pa ddulliau fyddai'n fwyaf priodol ar gyfer datblygu'r farchnad a chaffael yn eu hardal leol, gan gynnwys gwahanol fathau o contractau, grantiau neu ddarpariaeth fewnol.

3.133 Er hyn, mae'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol (2014) wedi cyflwyno canllawiau i awdurdodau lleol i'w cynorthwyo i ddatblygu datganiadau sefyllfa'r farchnad. Nodir bod gan ddatganiadau sefyllfa'r farchnad y nodweddion canlynol:

- Cyflwyno darlun o'r galw a'r cyflenwad cyfredol a thueddiadau posibl yn y dyfodol.
- Dogfen fer, ddadansoddol sy'n nodi'n eglur y gwahaniaeth rhwng disgrifiad a dadansoddiad. Mae'n esbonio blaenoriaethau'r awdurdod lleol yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r data a'r dystiolaeth.
- Cefnogi dadansoddiad trwy uno deunydd o amrywiaeth o ffynonellau megis Cydasesiadau Strategol o Anghenion, arolygon, gwaith monitro contractau, adolygiadau marchnad ac ystadegau mewn un ddogfen. Dylai'r data a gyflwynir gynorthwyo darparwyr i ddatblygu cynlluniau busnes effeithiol.

- Cwmpasu'r holl ddefnyddwyr posibl a gwir ddefnyddwyr y gwasanaethau yn yr ardal leol, nid yn unig y rhai hynny sy'n defnyddio cyllid y wladwriaeth.

3.134 Ar gyfer darparwyr y mae'r datganiadau am sefyllfa'r farchnad wedi eu bwriadu. Byddant yn gweithredu fel sail ar gyfer trafodaeth ynglŷn â bwriad comisiynu ac ar y sail honno, byddant yn ddogfennau cyhoeddus.

Diben y ddeddfwriaeth

3.135 Mae'r ddeddfwriaeth yn gosod gofyniad ar awdurdodau lleol i baratoi Adroddiad Blynnyddol. Mae'r ddeddfwriaeth yn nodi y dylai'r adroddiadau gynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r modd y maent yn cyflawni eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol statudol, a hefyd yn caniatáu ar gyfer rheoliadau i amlinellu'r adroddiad hwnnw. Defnyddir yr adroddiad hefyd i fodloni'r bwriad polisi i awdurdodau lleol gyflwyno adroddiad am y farchnad ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn eu hardal, ar y pryd ac yn y dyfodol.

Yr effaith a fwriedir

3.136 Er ei bod yn ofynnol i Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno adroddiad am amrywiaeth ragnodedig o bynciau, nid oes templed penodedig ar gyfer cyflwyno'r adroddiad. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i ddefnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd yn gyffredinol gymharu ansawdd gwasanaethau rhwng awdurdodau lleol. Mewn adolygiad diweddar o'r ddarpariaeth gofal a chymorth cymdeithasol mewn ardaloedd awdurdodau lleol ledled Cymru, gan ddefnyddio adroddiadau Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, nododd Garthwaite et al (2011), er enghraifft, eu bod yn wynebu heriau sylweddol o ran ymchwil wrth ddefnyddio'r adroddiadau fel ffynhonnell data ar gyfer eu dadansoddiad, gan fod hynny'n cynnwys dadansoddi dros 700 o dudalennau o destun rhydd. Byddai'n haws i reoleiddiwr y gwasanaeth ac i ddinasyddion gymharu gwasanaethau, rhwng awdurdodau lleol, pe byddai'r adroddiadau'n cael eu cyflwyno mewn dull safonol.

3.137 Bwriad y ddeddfwriaeth hon yw safoni'r gofynion o ran cyflwyno adroddiadau ym mhob awdurdod lleol a'u gwneud yn gymesur, er mwyn eu gwneud yn eglur a galluogi dinasyddion i'w cymharu'n rhwydd o ran canlyniadau ac effaith.

3.138 Bwriad arall i'r fframwaith cyflwyno adroddiadau yw darparu llwyfan ar gyfer gwybodaeth gan yr awdurdod lleol ynglŷn â'i ddull o ymdrin â gofal a chymorth yn yr ardal, ar y pryd ac yn y dyfodol. Bydd hyn yn atgyfnerthu gwaith y mae awdurdodau lleol yng Nghymru eisoes yn ei wneud gyda'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol i ddatblygu datganiadau sefyllfa'r farchnad. Mae'r rhesymau dros yr angen am adroddiad o'r fath yn deillio'n rhannol o fethiant darparwr mawr, Southern Cross yn 2011, a amlygodd yr heriau sy'n gysylltiedig â monitro a rheoli'r broses drosglwyddo a dilyniant gwasanaeth os yw darparwr sy'n gweithredu ledled y wlad â strwythurau ariannol cymhleth yn methu. Dangosodd methiant Southern Cross nad oedd system rhybudd cynnar yn bodoli i i ragweld diffygion ac i sefydlu cynlluniau i oruchwylio dilyniant gofal i bobl unigol a oedd yn derbyn gofal. Roedd yn dangos bod gan lawer o bobl wybodaeth rannol a allai fod yn ddefnyddiol i drefn oruchwylio ganolog ond nad oedd gan yr un parti unigol y darlun cyflawn na'r cyfrifoldeb i ragweld neu reoli methiant.

3.139 Ystyrir bod dealltwriaeth o'r farchnad gofal cymdeithasol – galw a chyflenwad – yn ffactor bwysig sy'n cyfrannu at bolisïau a gweithrediadau effeithiol. Y bwriad polisi yw na ddylid gadael i'r farchnad wneud fel y myn. Roedd Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy yn cydnabod bod darparwyr annibynnol â rhan allweddol mewn gofal cymdeithasol, ond na ddylid gadael i'r farchnad yn unig benderfynu ar y dewisiadau sydd ar gael i bobl.

c. Cadw golwg ar y farchnad

3.140 Ar hyn o bryd, nid oes gofyniad mewn deddfwriaeth sylfaenol sy'n caniatáu i'r rheoleiddiwr sefydlu system effeithiol o gadw golwg ar y farchnad gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r dull o gadw golwg ar y farchnad yn y Bil yn ceisio:

- Cydnabod bod gofal cymdeithasol yn sector sy'n cynnwys y sectorau preifat, gwirfoddol a chyhoeddus.
- Cydnabod na ddylai'r farchnad bennu blaenoriaethau mewn gofal cymdeithasol ac y dylem, ar y cyd, lunio'r farchnad, nid caniatáu i ddewisiadau'r farchnad ein harwain.
- Darparu gwybodaeth i ddarparwyr presennol, darparwyr arfaethedig ac awdurdodau lleol i ganiatáu i bawb sy'n rhan o'r sector ymateb i newidiadau yn y farchnad.

- Darparu dull costeffeithiol a chymesur o ymyrryd yn achos gwasanaethau y mae'n anodd cael rhai newydd yn eu lle.

3.141 Mae'n bwysig nodi bod cysylltiadau agos rhwng yr adran hon a'r darpariaethau ar gyfer methiant darparwr yn adran 189 i 191 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r darpariaethau hyn yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddiwallu anghenion oedolion yn ei ardal oherwydd i fusnes darparwr gwasanaeth fethu.

Diwydrwydd dyladwy ynglŷn â darparwyr strategol

Cefndir

3.142 Ar hyn o bryd nid oes mecanwaith ffurfiol ar gyfer cadarnhau pa mor dda yw sefyllfa darparwr gofal o ran ei drefn llywodraethu corfforaethol ac ariannol. O ganlyniad i hyn, nid oes rhybudd cynnar y gallai fod problem ac nid oes camau wedi eu sefydlu i leddfu problemau sy'n dilyn pan fydd darparwr ar fin methu.

3.143 Mae trafferthion ariannol Southern Cross (y darparwr gofal preswyl mwyaf yn y DU ar y pryd) a Castlebeck wedi amlygu'r angen i gadw mwy o olwg ar y farchnad gofal cymdeithasol er mwyn diogelu lles defnyddwyr gwasanaethau; a'r angen am gamau ychwanegol i gefnogi dilyniant gwasanaethau mewn achosion pan fo darparwr gwasanaethau gofal yn methu neu'n dewis gadael y farchnad. Heb oruchwyliaeth o'r fath, ceir risgiau sylweddol i gyflenwad y gwasanaethau gofal cymdeithasol, ond hefyd ceir costau o ran adnoddau yn gysylltiedig â chanfod gwasanaethau eraill. Yn fwy pwysig, mae'n debygol y byddai'n achosi pryder i ddefnyddwyr gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr gan effeithio'n sylweddol felly ar eu canlyniadau Llesiant ,pe byddai gwasanaethau'n cau yn annisgwyl.

Y sefyllfa bresennol

3.144 Bydd gan awdurdodau lleol bwerau a dyletswyddau cyfreithiol i drefnu i bobl barhau i dderbyn y gofal y mae arnynt ei angen os yw darparwr yn methu, a hynny trwy adrannau 189 i 192 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

(ar ôl iddi gael ei chychwyn). Mae adran 189(2) yn rhoi dyletswydd ar awdurdod lleol, cyhyd ag y mae'n ystyried hynny'n angenrheidiol, i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolyn a oedd yn arfer cael eu diwallu yn ardal yr awdurdod gan sefydliad neu asiantaeth a gofrestrwyd o dan Ran 2 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 cyn i'r sefydliad neu'r asiantaeth honno fethu â gwneud hynny oherwydd methiant y busnes. Mae'r ddyletswydd yn ddarostyngedig i nifer o eithriadau a nodir yn adran 190. Mae adran 191(1) yn rhoi'r ddyletswydd ar awdurdod lleol cyn gynted ag y mae'n dod yn ymwybodol o fethiant y busnes.

3.145 O ran swyddogaeth Gweinidogion Cymru, mae rheoleiddiwr y gwasanaeth ar hyn o bryd yn rheoleiddio sefydliadau ac asiantaethau sydd wedi eu cofrestru o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000. Mae'n rhaid i unrhyw unigolyn sy'n gweithredu neu'n rheoli sefydliad neu asiantaeth gofrestru gyda rheoleiddiwr y gwasanaeth a bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer ansawdd a diogelwch sydd wedi eu nodi mewn rheoliadau penodol ar gyfer gwahanol leoliadau, fel y'u rhestrwyd yn flaenorol. Mae Adran 22 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 yn nodi'r materion a gaiff fod yn destun rheoliadau ac mae isadran 2(j) yn darparu pŵer i wneud rheoliadau sy'n gosod gofynion ynglŷn â sefyllfa ariannol sefydliad neu asiantaeth. Hefyd, mae Adran 22(7) (b) yn nodi y caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynglŷn â chadw cyfrifon ac Adran 22(7)(h) ynglŷn â gwneud darpariaeth ar gyfer cyflwyno hysbysiad gan unigolyn a gofrestrwyd o ran sefydliad neu asiantaeth a weithredir gan gorff corfforaethol, am newidiadau i berchnogaeth y corff neu ei swyddogion. Mae pob un o'r rheoliadau sy'n ymwneud yn benodol â gwahanol leoliadau yna'n cynnwys darpariaethau ynglŷn â'r materion hyn.

3.146 Yn ymarferol, mae gan reoleiddiwr y gwasanaeth gysylltiadau gwaith â darparwyr mawr trwy ei swyddfeydd. Mae'r cysylltiadau hyn wedi eu defnyddio i nodi materion sy'n codi ac i sefydlu camau i liniaru'r effeithiau neu ymateb iddynt.

Diben y ddeddfwriaeth

3.147 Yn gyffredinol, diben y ddeddfwriaeth yw rhoi pwerau effeithiol ond cymesur i Weinidogion Cymru oruchwylio iechyd ariannol a chorfforaethol darparwyr mawr yn ffurfiol yn y farchnad gofal cymdeithasol yng Nghymru. Byddai pwerau o'r fath yn

galluogi'r rheoleiddiwr i ofyn am wybodaeth benodol gan y darparwyr hynny er mwyn cynnal adolygiad o'u trefniadau llywodraethu corfforaethol a/neu ariannol.

3.148 Ar ôl adolygiad o'r fath, byddai'r rheoleiddiwr mewn sefyllfa i'w gwneud yn ofynnol i'r darparwr hwnnw lunio cynlluniau wrth gefn er mwyn sefydlu trefniadau pe byddai'r busnes yn methu, neu fel arall ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr dderbyn adolygiad busnes annibynnol.

3.149 Y bwriad yw y byddai gan y rheoleiddiwr y pŵer i rannu gwybodaeth ag awdurdodau lleol ac y byddai pŵer i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol lunio drefniadau wrth gefn os yw'r rheoleiddiwr o'r farn bod y busnes yn debygol o fethu. Mae'r cynigion yn debyg i'r rhai hynny a sefydlwyd yn Lloegr yn Neddf Gofal 2014 ynglŷn â chadw golwg ar y farchnad.

Yr effaith a fwriedir

3.150 Bwriad y ddarpariaeth hon yw rhoi cyfleoedd i'r rheoleiddiwr nodi hynny a chymryd camau lliniaru pe byddai darparwr mawr yng Nghymru ar drothwy gadael y farchnad. Byddai awdurdodau lleol yn parhau i fod yn gyfrifol am gomisiynu a chaffael yn lleol, ac am sicrhau bod cyflenwyr yn gallu cyflawni gofynion y contract. Nid oes unrhyw fwriad i greu rhestr genedlaethol o gyflenwyr sydd wedi eu cymeradwyo.

3.151 Gan ddefnyddio'r ffigurau cyfredol, ystyrir ei bod yn annhebygol y bydd mwy na 15 o gyflenwyr yn y farchnad bresennol yn bodloni unrhyw feini prawf a ragwelir er mwyn i'r darpariaethau hyn fod yn berthnasol.

3.152 Rhagwelir y byddai proses pedwar cam yn cael ei sefydlu. Yn gyntaf, er mwyn bod yn ddarostyngedig i ddarpariaethau o'r fath, byddai'n ofynnol i ddarparwr fodloni meini prawf a fyddai wedi eu nodi mewn rheoliadau. Bydd y rheoleiddiwr yn cael yr wybodaeth hon o dair ffynhonnell ar wahân:

- Y gofrestr sydd ganddo o'r holl wasanaethau gofal a chymorth.
- Yr adroddiad sefydlogrwydd y sector a baratoir gan awdurdodau lleol.
- Gwybodaeth arall a gesglir yn rhan o'r gwaith o baratoi elfennau eraill ar yr adroddiad cenedlaethol am sefydlogrwydd y sector.

- 3.153 Mae'r meini prawf yn debygol o fod yn gysylltiedig â lefelau cyflenwad ond nid o reidrwydd yn ôl niferoedd gan y gallai fod darparwyr arbenigol yn y farchnad y byddai eu habsenoldeb yn achosi anawsterau o ran bodloni galw am wasanaeth o'r fath.
- 3.154 Y bwriad yw y bydd y rheoleiddiwr yn cael mynd at gyfrifon y darparwr ac unrhyw adroddiadau ariannol a baratowyd. Yna byddai'r rheoleiddiwr yn cynnal ymarfer "diwydrwydd dyladwy". Rhagwelir y gallai'r rheoleiddiwr gyflogi staff i gynnal adolygiad o'r fath, neu y gallai trydydd parti allanol, er enghraifft cwmni o gyfrifyddion, gynnal yr adolygiad. Diben yr adolygiad fyddai ffurfio barn broffesiynol am gyflwr y busnes. O'r safbwynt hwnnw, nodi dyfodol tebygol y busnes yw bwriad yr adroddiad, ac nid nodi ei sefyllfa hanesyddol.
- 3.155 Os yw'r asesiad hwnnw yn ogystal â'r wybodaeth arall sydd gan y rheoleiddiwr wedi arwain y rheoleiddiwr i ffurfio'r farn bod y busnes mewn perygl arwyddocaol o fethu, bydd gan y rheoleiddiwr y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i'r darparwr dderbyn adolygiad busnes a/neu ddarparu trefniadau cynllunio wrth gefn i'r rheoleiddiwr.
- 3.156 Os yw Gweinidogion Cymru, ar ôl derbyn adolygiad busnes a/neu gynlluniau wrth gefn, o'r farn bod y busnes yn methu neu'n debygol o fethu, bydd ganddynt ddyletswydd i hysbysu awdurdodau lleol sydd â dyletswyddau cyfatebol a nodir yn adrannau 189 i 192 o Ddeddf 2014 i reoli'r methiant hwnnw.
- 3.157 Nid ystyrir y bydd y Bil yn nodi o dan ba amgylchiadau y dylid hysbysu awdurdodau lleol bod busnes yn debygol o fethu. Y bwriad yw y dylai'r rheoleiddiwr sefydlu'r trothwy hwnnw ar ei gyfer ei hun gan fod llawer o wahanol ffactorau yn debygol o fod ynghlwm wrth y penderfyniad hwn. Cydnabyddir y bydd y penderfyniad i hysbysu awdurdod lleol yn cyflwyno risg o gyflymu neu achosi'r union broblem y mae'r ddarpariaeth hon yn ceisio ei hosgoi - h.y. cyflenwr mawr yn gadael y farchnad yn sydyn (oherwydd amharodrwydd awdurdod lleol i gomisiynu gwasanaethau gan wasanaeth sydd dan amheuaeth). Byddai hyn felly'n rhan o ystyriaeth y rheoleiddiwr wrth wneud penderfyniad i hysbysu awdurdod lleol.

3.158 O ystyried bod darpariaeth o'r fath yn newydd, a'u bod yn bwerau ac yn ddyletswyddau newydd ar reoleiddiwr y gwasanaeth, y bwriad polisi yw rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gyflwyno canllawiau ynglŷn ag arfer y swyddogaeth hon.

3.159 Er y rhagwelir mai'r prif ffactor a fydd yn ysgogi darparwyr i gydweithredu â darpariaethau o'r fath fyddai'r ffaith y byddent yn ofni'r effaith debygol ar hyder y farchnad yn y darparwr hwnnw, yn enwedig o du'r awdurdod lleol sy'n comisiynu, y bwriad yw y byddai methiant i gydymffurfio â gofynion o ran cadw golwg ar y farchnad yn sail i ganslo cofrestriad gwasanaeth neu ddarparwr neu unigolyn cyfrifol ar sail methiant i gydymffurfio â'r gofynion rheoleiddio perthnasol.

Adroddiad Cenedlaethol am Sefydlogrwydd y Farchnad

Cefndir

3.160 Mae gofal a chymorth wedi bod yn cael ei ddarparu'n fwyfwy trwy'r sector preifat a'r sector gwirfoddol yn ystod y degawdau diwethaf. Y dyddiau hyn, cyflogir oddeutu tri chwarter y gweithwyr gofal cymdeithasol gan y sectorau annibynnol. O ganlyniad i'r newid hwn, ochr yn ochr â newidiadau o ran demograffeg a disgwyliadau'r cyhoedd, yn ogystal â'r twf mewn taliadau uniongyrchol, mae'r farchnad gofal a chymorth wedi mynd yn un gymhleth sy'n newid yn gyflym. Nododd Llywodraeth Cymru, yn 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy':

“Rydym yn cydnabod bod rôl hanfodol i ddarparwyr preifat ac annibynnol ym maes gofal cymdeithasol ond nid ydym yn credu mai'r farchnad ddylai bennu blaenoriaethau. Credwn mai ni, gyda'n gilydd, ddylai ddylanwadu ar y farchnad yn hytrach na gadael i ddewisiadau'r farchnad ein harwain ni. Rhaid i ofal cymdeithasol gael ei ddarparu yng nghyd-destun ethos gwasanaeth cyhoeddus a byddwn yn disgwyl i'r rheini sydd am ddarparu gwasanaethau gofleidio'r gwerthoedd hynny (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011:12).”

Y sefyllfa bresennol

3.161 Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiadau bob blwyddyn ar y modd y caiff swyddogaethau eu cyflawni ynglŷn â rhannau perthnasol o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2003 a Deddf Safonau Gofal 2000. Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol i unrhyw adroddiadau gynnal dadansoddiad o'r farchnad gofal a chymorth ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

Diben y ddeddfwriaeth

3.162 Bydd y ddeddfwriaeth yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio adroddiad cenedlaethol am sefydlogrwydd y farchnad. Bwriedir i hwn fod yn adroddiad am y farchnad gofal cymdeithasol yng Nghymru a fydd yn cynnwys gwybodaeth o ba bynnag ffynhonnell yr ystyrir ei bod yn berthnasol, ond gyda golwg ar yr adroddiadau am y marchnadoedd lleol a lunnir gan awdurdodau lleol o dan ofynion a nodir mewn man arall yn y Bil hwn. Yn bwysig, mae'r Bil yn nodi y dylai Gweinidogion Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru weithio ar y cyd i baratoi'r adroddiad hwn. Mae'n rhaid i'r adroddiad gynnwys gwybodaeth megis:

- Digonolrwydd y gwasanaethau a ddarperir yng Nghymru.
- Manylion ynglŷn â graddau'r gwasanaethau a reoleiddir sy'n cael eu darparu gan y rhai hynny y mae'r darpariaethau a nodir mewn rhan arall o'r Bil hwn ynglŷn â chadw golwg ar y farchnad yn berthnasol iddynt.
- Unrhyw wybodaeth arall fel y'i nodir mewn rheoliadau.

Yr effaith a fwriedir

3.163 Bwriad y darpariaethau hyn yw sicrhau bod gan Weinidogion Cymru ac eraill yng Nghymru yr wybodaeth angenrheidiol am y farchnad gofal a chymorth a fydd yn caniatáu iddynt wneud penderfyniadau gweithredol a strategol. Rhagwelir y bydd Gweinidogion Cymru'n defnyddio'r wybodaeth fel sail i benderfyniadau polisi, ond ystyrir hefyd y bydd yr adroddiad yn ddefnyddiol i eraill, megis y sector annibynnol, wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â buddsoddi a hyfforddi yn y dyfodol.

3.164 Nid oes gwybodaeth o'r fath ar gael ar hyn o bryd, o anghenraid, ac ystyrir ei bod yn bwysig llenwi'r bwlch hwn.

3.165 Ni fwriedir i'r adroddiad wneud sylwadau am ansawdd ac effeithiolrwydd y gofal sydd ar gael. Y bwriad yw darparu darlun cenedlaethol o'r farchnad gofal a chymorth, gan gynnwys dadansoddiad o'r tueddiadau a'r cyfeiriad teithio yn y dyfodol.

ch. Gofal Cymdeithasol Cymru

3.166 Nod yr agwedd tuag at Ofal Cymdeithasol Cymru yn y cynnig hwn yw:

- Adeiladu ar lwyddiant Cyngor Gofal Cymru, sef rheoleiddiwr presennol y gweithlu.
- Datblygu cyfleoedd i gefnogi agwedd fwy strategol at welliannau ar draws y sector.
- Cydnabod natur eang y gweithlu yn y sector, gan gynnwys y rhai hynny sydd â gwaith goruchwyllo proffesiynol arall.
- Ystyried argymhellion Comisiwn y Gyfraith (2014) yn ei gwaith diweddar ar reoleiddio gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol.

3.167 Er nad yw'r gyfres hon o ddarpariaethau'n hir, mae'n rhan bwysig o'r Bil gan mai ei nod yw cyfnerthu'r pwerau a'r cylch gwaith yn sylweddol er mwyn trawsnewid corff corfforaethol sydd eisoes yn bodoli. Er eglurdeb, mae'r cynigion o ran gweithrediad a threfniadau llywodraethu'r corff newydd wedi eu nodi mewn Atodlen i'r Bil, ac o ganlyniad, ymdrinnir â hwy ar wahân.

Cefndir

3.168 Sefydlwyd rheoleiddiwr presennol y gweithlu o ganlyniad i gyflwyno Deddf Safonau Gofal 2000, i oruchwyllo'r broses o reoleiddio gweithwyr gofal cymdeithasol ac i hybu eu datblygiad. Nod y rhan hon o'r Bil yw ailenwi ac ailgyfansoddi rheoleiddiwr y gweithlu, i greu Gofal Cymdeithasol Cymru, ac ymestyn ei gylch gwaith.

Y sefyllfa bresennol

3.169 Mae rheoleiddiwr y gweithlu yn gorff corfforaethol a sefydlwyd o dan adran 54(1)(b) o Ddeddf Safonau Gofal 2000. Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yw rheoleiddiwr y gweithlu, ac o ganlyniad mae'n rhaid iddo gydymffurfio â datganiad llywodraethu sy'n nodi prosesau llywodraethu ac atebolrwydd, trefniadau rheoli, a chyfrifoldebau ariannol manwl.

3.170 Mae swyddogaethau rheoleiddiwr y gweithlu a nodir yn Neddf Safonau Gofal 2000 yn ymwneud â'r gweithlu gofal cymdeithasol. Y ddwy brif ddyletswydd a nodir yw hybu:

- Safonau ymarfer uchel ymysg gweithwyr gofal cymdeithasol.
- Safonau uchel o ran eu hyfforddiant.

3.171 Ariennir gwaith rheoleiddiwr y gweithlu bron yn gyfan gwbl trwy gyllid gan Lywodraeth Cymru, a chytunir arno bob blwyddyn trwy lythyr cylch gwaith a ddarperir gan Weinidogion Cymru.

3.172 Mae Gweinidogion Cymru hefyd yn cefnogi gwelliannau yn y sector trwy amrywiaeth o fentrau polisi a ffrydiau cyllido. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru'n ariannu pum sefydliad i gynorthwyo i wella gwasanaethau a datblygu'r gweithlu:

- **Yr Asiantaeth Gwella Gofal Cymdeithasol:** er mwyn cefnogi gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol i wella.
- **Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru:** er mwyn darparu arweinyddiaeth broffesiynol i gyfarwyddwyr.
- **Y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth:** er mwyn darparu'r sail dystiolaeth ar gyfer yr hyn sy'n gweithio yn ymarferol.
- **Cyngor Gofal Cymru:** er mwyn annog gwelliant yn y gweithlu gofal cymdeithasol, gan gynnwys ffrydiau cyllido ar gyfer bwrsariaethau gwaith cymdeithasol.
- **Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru:** er mwyn annog gwelliannau mewn gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol.

3.173 Yn ogystal â'r cyrff hyn, mae'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn rhan o Lywodraeth Cymru ac yn datblygu strategaeth a pholisi, gan ymgynghori â phartneriaid, ym maes gofal cymdeithasol a'r GIG yng Nghymru.

3.174 Darperir cyllid hefyd i awdurdodau lleol a sefydliadau'r sector annibynnol trwy'r grantiau canlynol:

- Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol.
- Grant Mudiadau Plant a Theuluoedd.
- Cronfa Bartneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy.

3.175 Mae'r dull tameidiog o wella gwasanaethau a datblygu'r gweithlu yn debygol o arwain at achosion o aneffeithlonrwydd oherwydd dyblygu gwaith a diffyg cydgysylltu.

Er enghraifft, mae gwaith ar ddatblygu'r gweithlu'n cael ei wneud gan reoleiddiwr y gweithlu a'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol, a chan awdurdodau lleol trwy ddefnyddio cyllid y rhaglen datblygu'r gweithlu. Yn yr un modd, mae posibilrwydd o ddyblygu gwaith a/neu ddiffyg cydgysylltu o safbwynt y gwaith gwella gwasanaethau a wneir gan yr Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol a rheoleiddiwr y gwasanaeth.

3.176 Ar yr un pryd, cyflawnir agweddau ar y broses o wella gwasanaethau, y mae cysylltiad annatod rhyngddynt, gan wahanol sefydliadau. Er enghraifft, mae'r broses o wella gwasanaethau'n dibynnu ar fod â gweithlu cymwysedig a phrofiadol sy'n seilio ei ymarfer ar dystiolaeth, ond cyflawnir gwaith gwella gwasanaethau, datblygu'r gweithlu ac ymchwil gan sawl sefydliad.

Diben y ddeddfwriaeth

3.177 Diben y ddeddfwriaeth yw cadw dyletswyddau, pwerau a swyddogaethau presennol rheoleiddiwr y gweithlu, ond gan eu hymestyn mewn meysydd pwysig. Mae amcanion y sefydliad wedi eu hymestyn, a byddant yn hybu:

- Safonau uchel o ran darpariaeth gwasanaethau gofal a chymorth.
- Safonau uchel o ran ymarfer ymysg gweithwyr gofal cymdeithasol.
- Safonau uchel o ran hyfforddiant gweithwyr gofal cymdeithasol.
- Ffydd y cyhoedd yn y gweithlu gofal cymdeithasol.

3.178 Ategir yr amcanion hyn gan swyddogaethau ychwanegol arfaethedig ar gyfer y sefydliad. Yn y bôn, mae'r rhain yn rhoi pŵer i'r sefydliad:

- Ddarparu gwybodaeth neu gyngor i bobl sy'n darparu gwasanaethau gofal a chymorth, er mwyn annog gwelliannau yn y gwasanaeth.
- Darparu grantiau a chymorth i bobl sy'n darparu gwasanaethau gofal a chymorth, er mwyn annog gwelliannau.
- Cynnal astudiaethau, er mwyn cynorthwyo gwasanaethau gofal a chymorth i ddod yn fwy effeithiol, effeithlon neu ddarbodus.

3.179 Gosodir dyletswydd ychwanegol ar y corff newydd i wneud yn siŵr bod gwybodaeth am ei waith ar gael i'r cyhoedd ac i ymgysylltu â'r cyhoedd ynglŷn â'i waith. Mae'r

ddyletswydd hon yn cyfateb i'r un a osodir ar Weinidogion Cymru ynglŷn â'u dyletswyddau hwy fel rheoleiddiwr y gwasanaeth mewn man arall yn y Bil.

Yr effaith a fwriedir

3.180 Bydd y gymysgedd o bwerau a dyletswyddau presennol a newydd a nodir yn caniatáu i'r corff newydd ddod yn sbardun strategol ar gyfer gwelliannau ar draws y sector, o safbwynt y gweithlu a gwasanaethau. Bydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyfuno ei gyllid ar gyfer gwelliannau trwy ariannu un corff unigol, gan wella effeithlonrwydd a sicrhau mwy o effaith.

3.181 Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn cyfuno llawer o'r elfennau sydd wedi bod yn ddarniog hyd yma. Rhagwelir y bydd Gofal Cymdeithasol Cymru'n defnyddio'r pwerau a'r swyddogaethau yn y Bil hwn i gyflawni'r gweithgareddau canlynol:

- Rheoleiddio'r gweithlu.
- Goruchwyllo gwaith cynllunio, safonau, datblygiad a chynlluniau dysgu'r gweithlu, gan gynnwys rheoleiddio hyfforddiant.
- Cefnogi datblygiad y gallu i gynnal gwaith ymchwil a gwaith ymchwil gymhwysol, a chynorthwyo llunwyr polisi yn lleol ac yn genedlaethol i ddatblygu arfer gorau.
- Cynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a dysgu oddi wrthynt.
- Galluogi sefydliadau i weithio mewn partneriaeth gydweithredol ar draws y sector gofal cymdeithasol, llywodraeth leol a'r sector ieched ehangach.
- Gweithredu fel canolbwynt ar gyfer gwybodaeth ym maes ymarfer gorau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, i gefnogi'r sector, a hybu'r ymarfer hwn ar draws y sector.
- Rhoi cynlluniau ar waith i wella gwasanaethau cymdeithasol er mwyn cyflawni blaenoriaethau gwella cenedlaethol, fel y'u nodwyd gan Lywodraeth Cymru trwy ei fframwaith gwella strategol ar gyfer llesiant.
- Darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am safonau a fframweithiau awdurdodol.
- Darparu gwybodaeth i'r cyhoedd, y cyfryngau a llywodraeth am ofal cymdeithasol a gwaith cymdeithasol.

- 3.182 Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru'n cyfrannu at hybu a chynnal rhagoriaeth o ran gofal a chymorth trwy sicrhau'r camau nesaf yn y broses o ddatblygu gwasanaethau a phroffesiynoldeb y gweithlu, heb roi unrhyw bwysau newydd sylweddol ar ein hadnoddau cyfyngedig. Bydd gwelliannau cynaliadwy'n digwydd lle y ceir dull integredig o feddwl ar gyfer datblygu gwasanaethau a'r gweithlu. O ganlyniad, bydd Gofal Cymdeithasol Cymru'n gweithredu fel canolbwynt cyfunol ar gyfer gwella, gan ddisodli dull gweithredu mwy gwasgarog a thameidiog y gorffennol.
- 3.183 Byddwn yn cyflawni swyddogaethau Gofal Cymdeithasol Cymru trwy ddatblygu gwaith presennol rheoleiddiwr y gweithlu. Y sefydliad hwn, gyda'i hanes o waith ym maes datblygu'r gweithlu a'i drefniadau llywodraethu eglur, yw'r cyfeiriad rhesymegol i fwrw ymlaen â'r dull gwaith hwn. Bydd rheoleiddiwr y gweithlu'n cael ei ailgyfansoddi er mwyn creu Gofal Cymdeithasol Cymru. Bydd yn cadw ei swyddogaethau presennol, gan gynnwys rheoleiddio'r gweithlu, ond bydd hefyd yn arwain yr agwedd integredig newydd at wella a nodwyd gennym. Bydd yn parhau i fod yn sefydliad a arweinir gan leygwyr, gyda bwrdd llai, ond byddwn yn disgwyl iddo sicrhau bod y proffesiynau'n teimlo mai eu cyfrifoldeb hwy yw'r gweithgareddau ar gyfer datblygu gwelliannau. Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru'n Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, ac mae hyn yn golygu y bydd ei drefniadau atebolrwydd i Weinidogion Cymru yn parhau.
- 3.184 Bydd gan Ofal Cymdeithasol Cymru'r hawl i ddarparu a chomisiynu gweithgareddau er mwyn cyflawni ei swyddogaethau. Yn y modd hwn, ni fydd Gofal Cymdeithasol Cymru o anghenraid yn disodli cyfraniad cyrff sy'n gweithio ar hyn o bryd ym maes gwella gwasanaeth, er enghraifft yr Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth. Bydd yn cael comisiynu eu gwasanaethau pan fo angen er mwyn gallu rhoi'r rhaglen wella ar waith.
- 3.185 Bydd gan Ofal Cymdeithasol Cymru swyddogaeth bwysig hefyd o ran cefnogi gwaith ymchwil a datblygu. Bydd mewn sefyllfa gref i ddiffinio ym mha feysydd y mae angen gwaith ymchwil a datblygu fel sail i weithredu blaenoriaethau gwella cenedlaethol, gan gynorthwyo llunwyr polisi yn lleol ac yn genedlaethol i ddatblygu arfer gorau. Bydd hefyd yn gwneud cyfraniad hollbwysig tuag at hwyluso'r camau i ymwreiddio diwylliant o sgiliau a gweithgarwch ymchwil o fewn ac ar draws y gweithlu gofal cymdeithasol.

d. Rheoleiddio'r gweithlu

3.186 Mae'r ffordd o ymdrin â rheoleiddio'r gweithlu yn y Bil hwn yn adeiladu ar lwyddiant gwaith rheoleiddio yn ystod y 15 mlynedd ddiwethaf. Ei nod yw:

- Cyfuno pwerau presennol mewn un ddarpariaeth statudol, fel bod dull Cymru o reoleiddio'r gweithlu i'w gael i gyd mewn un lle.
- Codi i ddeddfwriaeth sylfaenol yr egwyddorion a'r prosesau sylfaenol sy'n berthnasol i weithwyr cofrestredig. O ganlyniad, mae'r Bil hwn yn llawer mwy penodol na'r ddeddfwriaeth bresennol ynglŷn â'r gweithdrefnau ar gyfer y prosesau cofrestru ac addasrwydd i ymarfer.
- Darparu mwy o ymreolaeth i reoleiddiwr y gweithlu ddatblygu'r rheolau sy'n llywodraethu'r prosesau gweithrediadol, o fewn fframwaith mwy penodol deddfwriaeth sylfaenol.
- Pan fo'n briodol, rhoi ystyriaeth i adolygiad Comisiwn y Gyfraith (2014) o'r dull o reoleiddio gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Er nad oedd yr adolygiad hwn yn ymdrin â'r dull o reoleiddio gweithwyr proffesiynol ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru (gan eu bod wedi eu datganoli), fe wnaeth ddarparu tystiolaeth a chynghor sylweddol ynglŷn ag arfer deddfwriaethol gorau o ran rheoleiddio gweithwyr proffesiynol o'r fath.
- Sicrhau bod ein cyfundrefn reoleiddio yn cydymffurfio ag egwyddorion ac ymarfer y fframwaith hawliau dynol a sefydlwyd o dan y gyfraith.
- Darparu hyblygrwydd i'r gyfundrefn reoleiddio allu ymateb i newidiadau yn y sector gofal a chymorth yn y dyfodol.
- Cydnabod natur eang y gweithlu gofal cymdeithasol, a datblygu cyfundrefn reoleiddio sy'n gallu ymateb i'r ehangder hwnnw.
- Darparu dull costeffeithiol o reoleiddio'r gweithlu gan barhau i ddarparu sicrwydd i'r cyhoedd.

Cofrestru

Cefndir

3.187 Cwblhawyd ymarfer manwl a hir gan Gomisiwn y Gyfraith yn ddiweddar, â'r nod o ddarparu cysondeb a hybu arfer gorau ym maes rheoleiddio gweithwyr proffesiynol ym maes gofal cymdeithasol ac iechyd. Er nad oedd y gwaith hwn yn cynnwys gweithwyr

gofal cymdeithasol yng Nghymru, ystyriwyd ei fod wedi darparu tystiolaeth ac arweiniad sylweddol ar gyfer datblygu'r drefn o reoleiddio'r gweithlu yn y Bil hwn.

Y Sefyllfa Bresennol

3.188 Nid yw'r prosesau sy'n llywodraethu'r gwaith o reoleiddio'r gweithlu wedi eu nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol na rheoliadau. Yn hytrach, maent wedi eu nodi mewn rheolau y cytunwyd arnynt rhwng rheoleiddiwr y gweithlu a'r Gweinidog. Mae'r pŵer i greu rheolau, yn amodol ar gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru, yn deillio o Ddeddf Safonau Gofal 2000. Mae'r Bil yn cynnig cyfle i symleiddio'r prosesau hyn a'u gwneud yn fwy eglur, gan sicrhau yr adlewyrchir eu pwysigrwydd yn briodol mewn deddfwriaeth.

Diben y Ddeddfwriaeth

3.189 Diben y Bil yw gosod prif brosesau rheoleiddio'r gweithlu mewn deddfwriaeth sylfaenol.

3.190 Mae'r Bil yn nodi sut y bydd y gofrestr a'r prosesau ynglŷn â chyflwyno cais, fformat ac ati yn gweithio. Mae'r diagramau isod yn disgrifio'r prosesau diwygiedig a nodir yn y Bil. Ceir disgrifiad manwl o'r prosesau hyn yn y Nodiadau Esboniadol yn atodiad A (gweler paragraffau 113-191).

Beth yw'r Gofrestr?

Mae'n ofynnol o dan y gyfraith i reoleiddiwr y gweithlu gynnal a chyhoeddi cofrestr o weithwyr cymdeithasol, gweithwyr cymdeithasol sy'n ymweld o wledydd yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a rhai gweithwyr gofal a chymorth penodol. Mae'r gofrestr ar gael i unrhyw un gadarnhau statws cofrestrriad gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr gofal a chymorth. Bydd pawb ar y gofrestr wedi dangos eu bod yn addas i weithio fel gweithiwr gofal a chymorth. Rhaid i'r gofrestr ddangos y dyddiad y cofrestrwyd unigolyn a'r cymhwyster sy'n ei alluogi i weithio fel gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr gofal a chymorth. Gall y gofrestr hefyd ddangos gwybodaeth ynglŷn ag addasrwydd unigolyn i ymarfer, er enghraifft a yw unigolyn wedi ei atal dros dro.

Rhaid i reoleiddiwr y gweithlu gadw cofrestr o weithwyr cymdeithasol sy'n gweithio yng Nghymru, gweithwyr cymdeithasol Ewropeaidd sy'n ymarfer dros dro yng Nghymru ac unrhyw weithiwr gofal a chymorth arall a nodir yn y rheoliadau. Y bwriad yw nodi bod yn rhaid i reoleiddiwr y gweithlu gadw cofrestr o reolwyr gwasanaethau a reoleiddir, gweithwyr gofal mewn cartrefi plant a myfyrwyr gwaith cymdeithasol. Cyflwynir ceisiadau i gofrestru i'r cofrestrydd.

Pwy gaiff wneud cais i gofrestru?

Beth yw'r meini prawf ar gyfer bod ar y Gofrestr?

Ar ôl derbyn cais i gofrestru, caiff y cofrestrydd wrthod y cais neu ei ganiatáu. Er mwyn cael ei gofrestru rhaid i'r ymgeisydd ddangos bod ganddo gymwysterau priodol a'i fod yn addas i ymarfer.

Ceir tynnu unigolion sydd wedi eu cofrestru oddi ar y gofrestr os bydd panel addasrwydd i ymarfer yn canfod bod amhariad ar ei addasrwydd i ymarfer (Gweler y siart Addasrwydd i Ymarfer). Caiff y cofrestrydd hefyd dynnu unigolion sydd wedi eu cofrestru oddi ar y gofrestr o dan amgylchiadau penodol – os yw'r unigolyn yn gofyn am gael ei dynnu oddi ar y gofrestr ac nad yw'n destun ymchwiliad, ar ôl marwolaeth unigolyn sydd wedi ei gofrestru, os yw cofrestrriad yn seiliedig ar wybodaeth anwir neu gamarweiniol ac os oedd amhariad ar addasrwydd yr unigolyn i ymarfer ar yr adeg y cyflwynwyd y cais ond na nodwyd hynny ar y pryd.

Tynnu unigolion oddi ar y Gofrestr?

Aros ar y Gofrestr?

Rhaid adnewyddu'r cofrestriad o bryd i'w gilydd, yn unol â'r amserlenni a nodir yn rheolau rheoleiddiwr y gweithlu. Rhaid i'r cofrestrydd adnewyddu os yw'r unigolyn cofrestredig wedi cyflwyno cais priodol, wedi talu'r ffi, wedi cwblhau'r datblygiad proffesiynol parhaus gofynnol ac yn parhau i fod yn addas i ymarfer. Os na dderbynnir cais i adnewyddu, bydd cofrestriad yr unigolyn yn dod i ben heblaw bod achosion neu ymchwiliadau ar y gweill ynglŷn ag addasrwydd yr unigolyn i ymarfer.

Caiff unigolion sydd wedi eu tynnu oddi ar y gofrestr am resymau nad ydynt yn ymwneud â'u haddasrwydd i ymarfer wneud cais i gael eu hadfer i'r gofrestr. Yn achos pobl sy'n cael eu tynnu oddi ar y gofrestr ar ôl gwrandawriadau addasrwydd i ymarfer, caniateir eu hadfer ar ôl cyfnod o bum mlynedd yn unig, ac yna un cais yn unig i gael eu hadfer i'r gofrestr a ganiateir bob blwyddyn. Y panel addasrwydd i ymarfer yn unig a gaiff adfer unigolyn i'r gofrestr yn yr achosion hyn. Caiff panel addasrwydd i ymarfer atal dros dro hawl unigolyn i wneud cais i gael ei adfer i'r gofrestr ar ôl dau gais aflwyddiannus.

Adfer unigolion i'r Gofrestr?

Cyflwyno Apêl

Caiff unigolion o dan rai amgylchiadau penodol gyflwyno apêl yn erbyn penderfyniadau'r cofrestrydd i'r panel apelau cofrestru, sef panel sy'n cynnwys o leiaf dri pherson a benodwyd yn allanol, o fewn 28 diwrnod i unrhyw benderfyniad. Caiff unigolyn gyflwyno apêl i'r Tribiwnlys Safonau Gofal yn erbyn penderfyniad y panel apelau cofrestru.

Gellid ystyried bod addasrwydd gweithiwr gofal a chymorth i ymarfer wedi ei amharu oherwydd:

- Perfformiad diffygiol yn eu gwaith, gan gynnwys esgeulustod neu dorri ymgymeriad
- Camymddwyn difrifol yn y gwaith neu'r tu allan i'r gwaith Cael ei gynnwys ar restr o unigolion sydd wedi eu gwahardd
- Penderfyniad perthnasol gan reoleiddiwr arall
- Iechyd corfforol neu iechyd meddwl anffafriol Rhybudd neu gollfarn am drosedd

Pryd gallai addasrwydd i ymarfer fod wedi ei amharu?

Os penderfynir nad yw addasrwydd i ymarfer wedi ei amharu?

Ar ôl ymchwiliad caiff rheoleiddiwr y gweithlu

- Beidio â chymryd camau
- Rhoi cyngor i'r unigolyn cofrestredig neu unrhyw unigolyn arall dan sylw
- Cyflwyno rhybudd, gyda hawl i gael gwrandawriad
- Cytuno ar ymgymeriadau gyda'r unigolyn cofrestredig, yn unol â gweithdrefnau sydd wedi eu nodi yn y rheolau

Caiff rheoleiddiwr y gweithlu –

- Gyfeirio'r achos at y panel Addasrwydd i Ymarfer
- Gyfeirio'r achos at y panel Gorchmynion Dros Dro

Bydd gan Ofal Cymdeithasol Cymru hefyd bŵer newydd yn y Bil hwn i gyfryngu gyda'r unigolyn cofrestredig, yn unol â gweithdrefnau a nodir yn y rheoliadau.

Os penderfynir bod addasrwydd i ymarfer wedi ei amharu?

Y panel addasrwydd i ymarfer

Rhaid i'r panel Addasrwydd i Ymarfer benderfynu a yw addasrwydd unigolyn i ymarfer wedi ei amharu. Bydd y panel yn cynnwys pobl a benodwyd yn allanol, ac ni fydd y rhan fwyaf ohonynt yn gofrestredig nac wedi bod yn gofrestredig. Pan na chanfyddir amhariad caiff –

- Beidio â chymryd unrhyw gamau eraill
- Rhoi cyngor i unrhyw unigolyn perthnasol
- Rhoi rhybudd
- Cytuno i dynnu'r unigolyn yn wirfoddol oddi ar y gofrestr

Pan fo'r panel yn canfod amhariad caiff –

- Beidio â chymryd unrhyw gamau eraill
- Rhoi cyngor i unrhyw unigolyn perthnasol
- Rhoi rhybudd
- Cytuno i dynnu'r unigolyn yn wirfoddol oddi ar y gofrestr
- Cyflwyno gorchymyn cofrestru amodol (uchafswm o 3 blynedd)
- Atal y cofrestriad dros dro am hyd at 12 mis
- Tynnu'r unigolyn cofrestredig oddi ar y gofrestr (ond nid ar sail iechyd yn unig)

Ceir cyflwyno apêl i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn unrhyw benderfyniad gan y Panel Addasrwydd i Ymarfer, pan fo amhariad wedi ei ganfod.

penderfyniad y panel Addasrwydd i Ymarfer?

Panel gorchmynion dros dro

Caiff panel gorchmynion dros dro osod gorchymyn dros dro sydd i bob pwrpas yn atal unigolion cofrestredig dros dro ar unwaith neu'n gosod amodau ar unigolion cofrestredig pan fo'r panel o'r farn y bydd gorchymyn o'r fath yn –

- Amddiffyn y cyhoedd
- Er budd y cyhoedd
- Er budd yr unigolyn cofrestredig

Mae gorchmynion dros dro yn rhoi sicrwydd i'r cyhoedd y gellir cymryd camau ar unwaith pan fo'n angenrheidiol, gan hefyd sicrhau y gellir dilyn proses briodol. Rhaid i orchymyn dros dro gael ei ddirymu gan y panel Addasrwydd i Ymarfer pan fo'n ystyried yr achos.

Mae'r broses bresennol wedi ei nodi yn Rheolau Cyngor Gofal Cymru (Addasrwydd i Ymarfer) 2014. Bydd y weithdrefn bellach yn cael ei nodi ar wyneb y Bil a gwneir rhai newidiadau allweddol i'r broses –

- Ni chaiff gorchymyn dros dro ymestyn y tu hwnt i 18 mis heb fynd gerbron tribiwnlys annibynnol
- Rhaid cynnal adolygiad o unrhyw orchymyn bob chwe mis.

Dyletswydd i Sefydlu Paneli

Diben

3.191 Mae'r broses baneli yn ganolog i weithgarwch rheoleiddiwr y gweithlu, gan mai paneli fydd yn gwneud llawer o'r penderfyniadau allweddol ynglŷn â'r rhai sydd wedi cofrestru. Mae'r darpariaethau hyn yn sicrhau bod egwyddorion pwysig yn sail i'r modd y bydd paneli'n gweithredu.

Yr effaith a fwriedir

3.192 Mae'r darpariaethau yn effeithio ar faterion megis nifer yr aelodau a'r rheidrwydd i gael mwyafrif o aelodau llewg. Hefyd, caiff rhai pobl benodol ei heithrio rhag bod yn aelodau, er mwyn sicrhau bod y paneli'n ddiuedd yn eu gwaith. Y tu hwnt i'r egwyddorion sylfaenol hyn, mae gan reoleiddiwr y gweithlu ryddid i bennu mewn rheolau sut y bydd y paneli hyn yn gweithredu.

Adolygiadau

3.193 Mae'r Bil yn darparu ar gyfer amrywiaeth o brosesau adolygu newydd, er mwyn sicrhau bod penderfyniadau a wneir gan reoleiddiwr y gweithlu'n parhau i fod yn briodol ar gyfer amgylchiadau pob achos. Mae hyn yn adlewyrchu arfer da fel y'i nodir yn adolygiad Comisiwn y Gyfraith. Ceir manylion am y prosesau adolygu yn y Nodiadau Esboniadol yn atodiad A (gweler paragraffau 188-190).

Rheolau

3.194 Nid oes angen i unrhyw reolau a lunnir gan reoleiddiwr y gweithlu gael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru bellach. Yn lle hynny, mae'n ofynnol iddynt ymgynghori â Gweinidogion Cymru a chyda gweithwyr gofal cymdeithasol y gallai'r cynigion effeithio arnynt ac unrhyw unigolion perthnasol eraill.

Yr effaith a fwriedir

3.195 Mae'r ddeddfwriaeth yn sefydlu proses deg ar gyfer ystyried addasrwydd i ymarfer, trwy ddefnyddio dull a arweinir gan leygwyr.

3.196 Nod y ddeddfwriaeth yw darparu proses gam wrth gam o reoleiddio'r gweithlu, am y tro cyntaf, sy'n cyd-fynd â gofynion allweddol cyffredinol megis y Ddeddf Hawliau Dynol. Er bod cryn dipyn o'r Bil yn ailddatgan prosesau sy'n bodoli mewn rheolau, y

nod yw gwneud y broses yn fwy eglur mewn deddfwriaeth a sicrhau bod y system yn gadarn ac na fydd yn newid yn ddirybudd.

3.197 Un effaith allweddol a fwriedir trwy ddefnyddio'r datganiad manwl hwn o'r prosesau ar wyneb y Bil yw darparu fframwaith deddfwriaethol y gall rheoleiddiwr y gweithlu ei ddefnyddio ar gyfer datblygu ei reolau. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gymeradwyo rheolau rheoleiddiwr y gweithlu, ac o ganlyniad, mae angen i Weinidogion Cymru gymeradwyo unrhyw newid i'r rheolau, boent yn fach neu'n fawr. O dan y fframwaith cyffredinol newydd hwn yn y Bil, bydd rhwydd hynt i reoleiddiwr y gweithlu sefydlu ei weithdrefnau gweithredol ei hun, a chan hynny, leihau'n sylweddol y beichiau sydd arno ar hyn o bryd o ran cymeradwyaethau.

Cael gwared ar gofrestru gwirfoddol

Cefndir

3.198 Argymhellodd Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy y dylid cael gwared ar gofrestrau gwirfoddol, gan nad oes fawr o weithwyr gofal cartref a gweithwyr gofal cartrefi preswyl i oedolion wedi cofrestru'n wirfoddol ac y gall cofrestru gwirfoddol roi argraff gamarweiniol o ddiogelwch y gweithlu, gan danseilio o bosibl y sicrwydd a roddir i'r cyhoedd. Amcangyfrifir bod 47,163 o weithwyr gofal cartref a gweithwyr cartrefi gofal i oedolion yn gweithio yng Nghymru, a dim ond 1,226 ohonynt a oedd wedi eu cofrestru yn 2013 (Cyngor Gofal Cymru, 2013a).

Y sefyllfa bresennol

3.199 Caiff gweithwyr gofal cartref a gweithwyr gofal cartrefi preswyl i oedolion ddewis cofrestru â rheoleiddiwr y gweithlu, ond nid yw hynny'n orfodol. Mae'r broses gofrestru'n debyg i brosesau eraill ar gyfer cofrestru â rheoleiddiwr y gweithlu, ac mae wedi ei seilio ar y ffaith bod ganddynt y cymwysterau priodol, a'u bod yn bodloni gofynion o ran datblygiad proffesiynol parhaus ac yn dangos tystiolaeth eu bod yn addas i ymarfer.

Diben y ddeddfwriaeth

3.200 O dan ddarpariaeth yn y Bil, mae'n ddyletswydd ar reoleiddiwr y gweithlu i gadw cofrestr o weithwyr gofal cymdeithasol a nodir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau. O ganlyniad, gall Gweinidogion Cymru bennu pa gategoriâu o weithwyr gofal cymdeithasol y mae'n ofynnol i reoleiddiwr y gweithlu gadw cofrestr ohonynt.

Yr effaith a fwriedir

3.201 Mae'r gofrestr wirfoddol bresennol ar gyfer gweithwyr gofal cartref a gweithwyr cartrefi gofal yn gyfyngedig. O ganlyniad, nid oes unrhyw fwriad i nodi yn y rheoliadau bod rhaid i reoleiddiwr y gweithlu gadw cofrestr o weithwyr o'r fath. Oherwydd hynny, ni fydd gweithwyr gofal cartref a gweithwyr cartrefi gofal yn gallu cofrestru. Mae hyn yn cyd-fynd ag argymhelliad Comisiwn y Gyfraith sy'n nodi y dylid cael gwared ar bwerau'r rheoleiddwyr i gadw cofrestrau gwirfoddol (Comisiwn y Gyfraith 26).

Cael gwared ar gofrestru deuol ar gyfer rheolwyr

Cefndir

3.202 Mae'r adran hon yn ymdrin â'r ffordd y bwriedir i'r pwerau yn y Bil hwn gael eu defnyddio, yn hytrach na'r pwerau eu hunain.

3.203 Mae'r pwerau mewn rheoliadau a luniwyd yn sgil Deddf Safonau Gofal 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i reolwr cartref gofal preswyl neu wasanaeth gofal cartref gofrestru â rheoleiddwyr y gweithlu a'r gwasanaeth. Bwriedir i'r cofrestriad â rheoleiddiwr y gwasanaeth ddarparu sicrwydd ynglŷn ag ansawdd y rheolwyr yn ein gwasanaethau. I'r diben hwn, mae rheoleiddiwr y gwasanaeth yn cynnal cyfweiliadau ac archwiliadau eraill er mwyn bod yn ffyddiog fod y reolwr yn briodol ac yn gymwys i ymgymryd â'r swyddogaeth.

Y sefyllfa bresennol

3.204 Mae'n ofynnol gan reoleiddiwr y gweithlu i reolwyr cartrefi gofal preswyl a gwasanaethau gofal cartref gofrestru gan ddarparu tystiolaeth o gymwysterau perthnasol ac ati, ac mae'n rhaid adnewyddu hyn bob tair blynedd. Mae'n rhaid talu ffi flynyddol er mwyn cynnal y cofrestriad hwn.

3.205 Mae rheoleiddiwr y gwasanaeth yn asesu addasrwydd rheolwr ar gyfer swydd benodol drwy gyfweiliad, cyn i'r rheolwr ddechrau yn y swydd. Caniateir eithriadau ar hyn o bryd, fodd bynnag, oherwydd bod cynifer o achosion wedi cronni ac oherwydd prinder rheolwyr â chymwysterau addas.

3.206 Mae lobi sylweddol wedi bod er mwyn newid y system hon, am nifer o resymau:

- Mae'r system yn fiwrocraataidd a chymhleth heb fod angen.
- Nid yw'r system wedi gweithio. Mae cyfran sylweddol o'r ddarpariaeth ofal yn cael ei chyflwyno heb i unrhyw reolwr cofrestredig fod wedi ei benodi.
- Mae'r system yn rhwystro rheolwyr rhag symud o le i le yn ein sector. Mae angen ailgofrestru ac ati er mwyn i reolwyr symud.

- Oherwydd y pwyslais a roddir ar y rheolwyr, ystyrir mai hwy yw'r pwynt atebol yn ein system. Gall y rhai sy'n eu cyflogi osgoi bod yn destun craffu pan fydd pethau'n mynd o chwith.
- Mae'r system yn rhoi pwyslais ar gydymffurfiaid unigolion, yn hytrach nag ar ddatblygu carfan addas o weithwyr proffesiynol sydd â'r sgiliau priodol.

Diben y ddeddfwriaeth

3.207 Bydd y Bil yn rhoi fframwaith ar gyfer dyletswyddau eglur darparwyr gwasanaethau, unigolion cyfrifol a rheolwyr yn y gwaith o gyflwyno gwasanaethau a reoleiddir. Bydd y fframwaith hwn yn caniatáu i'r Gweinidogion newid pwyslais gwaith goruchwylio'r rheoleiddiwr tuag at ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol, gan gydnabod bod swyddogaeth rheolwr yn un broffesiynol a all gael ei rheoleiddio trwy reoleiddiwr y gweithlu.

Yr effaith a fwriedir

3.208 Bydd y Bil yn rhoi'r pwerau priodol i Weinidogion ailffurfio'r system o atebolrwydd a dyletswyddau o fewn y maes gofal a chymorth. Bydd system newydd felly'n golygu y gall y broses o gofrestru rheolwyr fod yn llwyr o fewn cylch gwaith rheoleiddiwr y gweithlu. Bydd rhaid i reolwyr ddangos eu bod yn bodloni'r gofynion cymhwyso, a nodir mewn Rheolau, ond byddwn yn disgwyl i reoleiddiwr y gweithlu edrych yn ofalus ar wneud mwy o gymwysterau rheoli cysylltiedig megis MBAs yn rhai cyfwerth.

3.209 Byddwn yn disgwyl i reoleiddiwr y gwasanaeth symud pwyslais ei ymdrechion tuag at ddarparwyr gofal a chymorth, Dylai ei broses o gyfweliadau trwyadl edrych ar swyddogaeth allweddol yr Unigolyn Cyfrifol (penodwr y rheolwr) a'i addasrwydd i weithredu yn ein sector. Disgwyliwn i reoleiddiwr y gwasanaeth roi llawer mwy o bwyslais ar oruchwylio darparwyr gofal a chymorth yn hytrach na gallu proffesiynol unigolion.

3.210 Byddwn yn disgwyl i reoleiddiwr y gweithlu ddefnyddio ei bwerau newydd a'i swyddogaeth ym maes hyfforddi a datblygu'r gweithlu i ganolbwyntio ar reolwyr gofal a gofal a chymorth - gan feithrin gallu i ddatblygu yng Nghymru a deall galw a chyflenwad yn y dyfodol.

Cofrestru'r gweithlu

Cefndir

3.211 Mae rheoleiddiwr y gweithlu'n cadw cofrestr sy'n cynnwys gweithwyr cymdeithasol a rhai grwpiau eraill o weithwyr gofal cymdeithasol. Nod y gofrestr yw sicrhau bod y grwpiau cofrestredig yn addas i weithio yn y maes gofal cymdeithasol. Mae'r gofrestr yn rhoi'r gweithlu cofrestredig yn yr un sefyllfa â phroffesiynau eraill y gwasanaethau cyhoeddus megis meddygaeth ac addysgu.

Y sefyllfa bresennol

3.212 Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i'r grwpiau gweithwyr canlynol gofrestru â rheoleiddiwr y gweithlu er mwyn ymarfer:

- Pobl sydd â chymhwyster gwaith cymdeithasol ac sydd un ai yn ymarfer gwaith gofal cymdeithasol neu'n galw eu hunain yn weithiwr cymdeithasol;
- Myfyrwyr sy'n cymryd rhan mewn cwrs gradd gwaith cymdeithasol cymeradwy yng Nghymru;
- Rheolwyr a gweithwyr gofal plant preswyl; a
- Rheolwyr cartrefi gofal oedolion a rheolwyr gwasanaeth gofal cartref.

3.213 Caiff y grwpiau canlynol o weithwyr gofal cymdeithasol gofrestru'n wirfoddol:

- Gweithwyr cartrefi gofal oedolion
- Gweithwyr gofal cartref

3.214 Amcangyfrifir bod 67,069 o bobl yn y gweithlu gofal a chymorth yng Nghymru, ac roedd 11,649 ohonynt wedi cofrestru â rheoleiddiwr y gweithlu ym mis Mawrth 2013 (Cyngor Gofal Cymru, 2013a). Mae hyn yn gyfystyr â 17% o'r gweithlu gofal a chymorth yng Nghymru⁵. Mae'r tabl isod yn dadansoddi'r grwpiau hyn.

⁵ Nid yw gweithwyr cymdeithasol cofrestredig o reidrwydd yn cael eu cyflogi yn y gweithlu gofal a chymorth.

Tabl 1: gweithlu gofal cofrestredig yn ôl grŵp

| Grŵp yn y gweithlu | Nifer wedi cofrestru |
|-------------------------------------|-----------------------------|
| Gweithwyr cymdeithasol cymwysedig* | 5,881 |
| Myfyriwr Gwaith Cymdeithasol | 769 |
| Rheolwyr gofal plant preswyl | 169 |
| Gweithwyr gofal plant preswyl | 2,088 |
| Rheolwyr cartrefi gofal oedolion | 1,211 |
| Gweithwyr cartrefi gofal oedolion | 464 |
| Rheolwyr gwasanaethau gofal cartref | 305 |
| Gweithwyr gofal cartref | 762 |
| Cyfanswm | 11,649 |

Ffynhonnell: Cyngor Gofal Cymru (2013a)

*Wedi cymhwyso yn y DU.

3.215 Mae'r gofrestr yn seiliedig ar gymwysterau ac mae wedi ei threfnu er mwyn gallu cynnwys unigolion sydd wedi dilyn gwahanol lwybrau i'r proffesiwn o'r tu mewn a'r tu allan i Gymru. Mae angen i'r rhai sydd wedi cofrestru ddangos datblygiad proffesiynol parhaus er mwyn adnewyddu eu cofrestriad o bryd i'w gilydd. Mae gan y rheoleiddiwr y pwerau i dynnu pobl oddi ar y gofrestr.

Diben y ddeddfwriaeth

3.216 Mae'r Bil hwn yn ei gwneud yn ofynnol i reoleiddiwr y gweithlu gynnal cofrestr o weithwyr cymdeithasol. Mae'n cadw pŵer Gweinidogion Cymru hefyd, drwy reoliadau, i bennu categorïau'r gweithlu sy'n cael cofrestru â rheoleiddiwr y gweithlu.

Yr effaith a fwriedir

3.217 Rhaid i'r rhai sy'n cofrestru ddangos bod ganddynt y cymwysterau priodol er mwyn cael eu rhoi ar y gofrestr. Bydd y cymwysterau priodol yn amrywio, yn ôl y math o weithiwr gofal cymdeithasol. Fel hyn mae modd i'r drefn reoleiddiol barhau i ddarparu'r sicrwydd i'r cyhoedd y bwriedir iddi ei darparu. Nid yw'r Gweinidogion yn bwriadu defnyddio'r pwerau hyn ar hyn o bryd i'w gwneud y ofynnol i fwy o grwpiau o'r gweithlu gofrestru, heblaw i sicrhau bod gan bob gwasanaeth a reoleiddir reolwr cofrestredig (dim ond i Ofal Cartref a Gofal Preswyl y mae hyn yn berthnasol ar hyn o bryd).

3.218 Bydd y Bil hefyd yn caniatáu i Weinidogion ymateb i newidiadau yn y sector gofal a chymorth yn y dyfodol. Bydd y Bil, drwy reoliadau cadarnhaol, yn caniatáu i Weinidogion ymestyn (neu leihau, ac eithrio gweithwyr cymdeithasol) y categorïau hynny o'r gweithlu sy'n cael cofrestru â rheoleiddiwr y gweithlu. Mae hyn yn diogelu'r ddeddfwriaeth at y dyfodol, gan roi digon o bwerau i Weinidogion Cymru allu ymateb wrth i'r gwasanaeth foderneiddio ac wrth i gategorïau newydd o weithwyr ddod o fewn y diffiniad o weithiwr cymdeithasol, ac wrth i wasanaethau gofal cymdeithasol newydd a modelau gofal newydd ddod i'r amlwg.

3.219 Bydd hyn yn golygu y gellir parhau i wneud y gweithlu'n un mwy proffesiynol ar gyflymder cynaliadwy, y mae modd ei gyflawni. Bydd yn ein cynorthwyo i ddatblygu gweithlu statws uchel, o ansawdd uchel, a fydd yn cyflawni ar gyfer pobl sydd ag angen gofal a chymorth yng Nghymru.

Amddiffyn teitl

Cefndir

3.220 Mae amddiffyn teitl yn agwedd bwysig ar reoleiddio'r gweithlu o ran cyfrannu at amddiffyn y cyhoedd.

Y sefyllfa bresennol

3.221 Mae Deddf Safonau Gofal 2000 yn amddiffyn teitl gweithiwr cymdeithasol, fel bod unrhyw un nad yw wedi cofrestru fel gweithiwr cymdeithasol ac sy'n defnyddio'r teitl â'r bwriad o dwyllo yn euog o drosedd.

Diben y ddeddfwriaeth

3.222 Mae Comisiwn y Gyfraith yn argymhell y canlynol,

“The protected titles and functions, and relevant offences, should be set out on the face of the draft Bill. The Government’s regulation-making powers should include the ability to amend or remove any of these titles and functions” (Comisiwn y Gyfraith 2014:221)

3.223 Bydd y Bil yn ailadrodd y sefyllfa bresennol a sefydlwyd yn Neddf Safonau Gofal 2000 ac yn rhoi pwerau i'r Gweinidogion ymestyn y drefn i amddiffyn teitl gweithwyr gofal cymdeithasol eraill.

Yr effaith a fwriedir

3.224 Bydd y Bil yn golygu bod modd parhau i amddiffyn teitl gwaith cymdeithasol ac yn caniatáu ar gyfer amddiffyn teitlau gweithwyr gofal cymdeithasol eraill yn y dyfodol os tybir bod hynny'n angenrheidiol i amddiffyn y cyhoedd.

Ymestyn y drefn o reoleiddio hyfforddiant y gweithlu

Cefndir

3.225 Mae adroddiad Comisiwn y Gyfraith (2014) ar reoleiddio'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol yn argymhell y dylai fod yn ofynnol i reoleiddwyr osod safonau addysg a hyfforddiant a sicrhau bod y safonau hynny'n cael eu cynnal (LC43). Mae'n rhoi cyfres o argymhellion eraill cysylltiedig â hyfforddi'r gweithlu hefyd. Mae'r Bil yn cynnwys nifer o'r argymhellion hyn.

Y sefyllfa bresennol

3.226 Caiff hyfforddiant i weithwyr cymdeithasol ei reoleiddio gan reoleiddiwr y gweithlu ar hyn o bryd. Fodd bynnag, nid yw hynny'n wir ar gyfer gweddill y gweithlu gofal cymdeithasol.

Diben y ddeddfwriaeth

3.227 Byddai'r Bil yn rhoi pwerau estynedig i reoleiddiwr y gweithlu reoleiddio addysg a hyfforddiant ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol, gosod safonau yn y meysydd hyn, a sicrhau bod y safonau hynny'n cael eu cynnal gan weddill y gweithlu gofal cymdeithasol. Mae hyn yn adlewyrchu argymhellion Comisiwn y Gyfraith yn y maes hwn, a bydd yn sicrhau bod sylw mwy cyson yn cael ei roi i ansawdd y cymwysterau ar draws y gweithlu gofal cymdeithasol.

Yr effaith a fwriedir

3.228 Bydd y pwerau hyn yn rhoi'r hyblygrwydd i reoleiddiwr y gweithlu sicrhau bod y cymwysterau gofal cymdeithasol sydd ar gael yn rhai o safon ddigon da. Bydd hefyd yn sicrhau bod digon o gapasiti yn y system i hyfforddi'r gweithlu. Yn fwy penodol, bydd yn cynorthwyo i sicrhau bod safon hyfforddiant y gweithlu cofrestredig nad ydynt yn weithwyr cymdeithasol yn ddigon da.

3.229 Pan y'i defnyddir, bydd y pŵer hwn yn cynnig y cyfle i reoleiddiwr y gweithlu ddatblygu dull strategol, tymor hir o wella ansawdd y gweithlu gofal a chymorth.

Gorchmynion Gwahardd

Cefndir

3.230 Mae'r defnydd o orchmynion gwahardd, neu 'gofrestru negyddol' wedi bod yn destun trafodaeth sylweddol ar draws systemau rheoleiddio yn ystod blynyddoedd diweddar. Yn ei hanfod mae cynllun o'r fath yn bodoli eisoes drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ond mae galw wedi bod am ddull penodol ar gyfer y sector gofal cymdeithasol a allai fynd y tu hwnt i feini prawf cyfyngedig y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

3.231 Ym mis Chwefror 2013 cyhoeddwyd adroddiad terfynol Ymchwiliad Cyhoeddus Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canolbarth Swydd Stafford. Agorodd hwn drafodaeth arall am gofrestru trwy argymell y dylai gweithwyr gofal cymorth gael eu cofrestru fel a ganlyn:

“A registration system...should be created under which no unregistered person should be permitted to provide, for reward, direct physical care to patients currently under the care and treatment of a registered nurse or a registered doctor, (or who are dependent on such care by reason of disability and/or infirmity). The system should apply to HCSWs whether they are working for the NHS or for independent healthcare providers, in the community, for agencies or as independent agents.”

3.232 Archwiliodd Comisiwn y Gyfraith y mater hwn yn ei ymgynghoriad yn 2014 ar reoleiddio gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol. Daeth i'r casgliad canlynol:

“The Government should have regulation-making powers to establish barring schemes, to be run by the regulators. Such a scheme could be introduced in respect of a prescribed health or social care profession, a specified field of activity, a role involving supervision or management, and prescribed title”

Y sefyllfa bresennol/Diben y ddeddfwriaeth

3.233 Mae'n debyg i ddull y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn yr ystyr ei bod yn gofrestr sy'n cynnwys eithrio pobl o wneud mathau penodol o waith yn unig, ond

mae'n wahanol i ddull y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn yr ystyr bod modd cyfeirio at safonau ymddygiad y dylai gweithwyr gadw atynt. Cyfeirir at y darpariaethau presennol yn y Bil fel 'gorchmynion gwahardd' ac maent yn debyg iawn i'r darpariaethau ym Mil Comisiwn y Gyfraith ar Reoleiddio Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol a Rheoleiddio Gweithwyr Gofal Cymdeithasol Proffesiynol yn Lloegr. Maent yn rhoi'r gallu i'r rheoleiddiwr dynnu oddi ar y gofrestr y rhai y mae eu hymddygiad yn golygu eu bod yn anaddas i aros yn y gweithlu, heb effeithio ar y gweithlu yn ei gyfanrwydd. Nid yw cynllun cofrestru negyddol fel hwn yn rhwystro pob rhag dechrau ymarfer, ond mae'n caniatáu ar gyfer cymryd camau yn erbyn pobl nad ydynt yn cydymffurfio â safonau ymddygiad priodol.

3.234 Mae'r darpariaethau'n nodi sut y gellir ychwanegu unigolion at restr o'r fath, ar ôl iddynt gael eu hystyried gan banel Addasrwydd i Ymarfer. Mae'r darpariaethau'n nodi na chaiff gweithwyr cymdeithasol na gweithwyr proffesiynol eraill fod ar y rhestr os yw'n ofynnol ar hyn o bryd iddynt gofrestru drwy bwerau llunio rheoliadau mewn rhan arall o'r bil.

3.235 Mae'r darpariaethau'n cynnwys pwerau llunio rheoliadau i Weinidogion Cymru allu:

- Dynodi gweithgareddau a gaiff fod yn destun gorchmynion gwahardd. Byddai'r gweithgareddau hyn yn berthnasol i rannau o'r gweithlu nad ydynt yn ddarostyngedig i gofrestriad statudol llawn. Felly gallai hyn fod yn gymwys, er enghraifft, i weithwyr gofal cartref.
- Sefydlu amodau ar gyfer llunio gorchymyn gwahardd. Mae'r amodau hyn yn cynnwys troseddau a ragnodir; cael eu cynnwys ar restr gweithwyr sydd wedi eu gwahardd, megis cofrestr y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; penderfyniad gan y rheoleiddiwr bod rhywbeth yn amharu ar addasrwydd yr unigolyn i ymarfer neu ei fod/bod wedi methu â chyrraedd y safon ymddygiad a nodir ar gyfer y cynllun.
- Sefydlu gorchmynion gwahardd dros dro y gellir eu gwneud ar unwaith wrth i'r rheoleiddiwr ystyried a ddylid gwneud gorchymyn gwahardd.
- Galluogi adolygiadau o orchmynion gwahardd ac apelau yn eu herbyn

- Sefydlu troseddau ar gyfer unigolion a chyflogwyr nad ydynt yn cydymffurfio â gorchmynion gwahardd.
- Cynnal rhestr o bersonau sy'n ddarostyngedig i orchmynion gwahardd
- Sefydlu safonau ymddygiad a allai arwain at orchymyn gwahardd pe byddent yn cael eu torri.

Yr effaith a fwriedir

3.236 Bwriad y darpariaethau hyn yw rhoi model arall i'r rheoleiddiwr ar wahân i gofrestriad llawn wrth geisio rhoi sicrwydd i'r cyhoedd ynglŷn â'r gweithlu sy'n gweithio yn y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru.

3.237 Bydd hwn yn un o'r opsiynau rheoleiddio sydd ar gael i Lywodraeth Cymru wrth i'r gweithlu gofal cymdeithasol newid ac addasu wrth i'r galw newid. Mae'r Bil yn rhoi amrywiaeth o opsiynau i'r rheoleiddiwr a Llywodraeth Cymru o ran rheoleiddio gweithlu amrywiol y maes gofal cymdeithasol, a bydd yn caniatáu ar gyfer ystyriaeth gymesur a chytbwys o'r opsiynau hyn os bydd angen dod â grwpiau newydd i mewn i'r drefn reoleiddio yn y dyfodol.

3.238 Fe'i hystyrir yn bosibl y gallai system o'r fath roi sicrwydd i'r cyhoedd ochr yn ochr â chost is i'r pwrs cyhoeddus, yn ogystal â bod yn llai o faich ar y bobl sy'n gweithio yn y sector.

3.239 O ystyried barn pobl yn y sector am y math hwn o reoleiddio, bwriad y Gweinidogion fyddai cynnal ymgynghoriad llawn ac agored ar draws y sector cyn cyflwyno cynllun o'r fath.

Cydweithrediad a gweithio ar y cyd rhwng y cyrff rheoleiddio

Cefndir

3.240 Nod yr agwedd at gydweithrediad a chydweithio yn y cynnig hwn yw:

- Caniatáu i'r cyrff rheoleiddio weithio gyda'i gilydd, o fewn cwmpas llawn y statud ehangach, a rhannu gwybodaeth er mwyn cyflawni eu hamcanion.

- Ei gwneud yn eglur yn y gyfraith pa mor bwysig yw proses o'r fath o gydweithio a rhannu gwybodaeth

3.241 Trwy gydol y broses ymgynghori, pwysleisiwyd drosodd a throsodd ar draws y sector bod angen cydweithrediad effeithiol rhwng y rheoleiddwyr eu hunain a rhwng y rheoleiddwyr ac eraill.

Y sefyllfa bresennol

3.242 Mae gan reoleiddwyr bwerau eang i rannu gwybodaeth, ond nid yw'r rhain wedi eu nodi'n benodol, yn gyffredinol, a chodwyd cwestiynau ar rai achlysuron ynghylch y sail gyfreithiol dros gydweithredu, rhannu gwybodaeth a chydweithio. Nid oes sôn am faterion o'r fath yn y Ddeddf Safonau Gofal, ar y cyfan.

Diben y ddeddfwriaeth

3.243 Mae'r ddeddfwriaeth wedi ei chynllunio i ddarparu pwerau penodol i'r rheoleiddwyr gydweithredu wrth gyflawni eu swyddogaethau, i gyflawni'r swyddogaethau hynny ar y cyd pe byddai'n fanteisiol, ac i ddirprwyo swyddogaethau i'w gilydd.

3.244 Yn ogystal, mae'r Bil yn nodi nifer o awdurdodau perthnasol y caiff rheoleiddwyr rannu gwybodaeth â hwy. Yn olaf, mae'r Bil yn rhoi dyletswydd bwerau ar reoleiddwyr i rannu gwybodaeth gydag unrhyw un arall pe byddai datgeliad o'r fath yn angenrheidiol neu'n fuddiol i amddiffyn llesiant unigolyn.

Yr effaith a fwriedir

3.245 Bwriad y rhan hon o'r Bil yw gwella'r dull o rannu gwybodaeth, gweithio ar y cyd a chydweithredu rhwng y rheoleiddwyr ac eraill. Mae'r wybodaeth a gesglir gan y rheoleiddwyr yn aml yr un fath, ac un o ddibenion allweddol y ddeddfwriaeth hon yw caniatáu iddynt weithio gyda'i gilydd i leihau'r costau a'r baich ar y rhai a reoleiddir. Fe'i hystyrir yn debygol hefyd, o rannu gwybodaeth o'r fath, y gellir darparu sicrwydd ynglŷn â'i chywirdeb. Y bwriad yw y bydd y darpariaethau hyn yn sicrhau bydd y rheoleiddwyr yn manteisio ar bob cyfle i weithio gyda'i gilydd fel mater o bolisi cyffredinol.

3.246 Yn yr un modd, mae'r darpariaethau sy'n caniatáu ar gyfer rhannu gwybodaeth gyda chyrff eraill yn annog dull gweithio mwy cydweithredol ar draws y sector. Mae'r gyfres derfynol o ddarpariaethau yn yr adran hon yn ymwneud â rhannu gwybodaeth pan fyddai hynny'n gwella llesiant. Mae hon yn ddyletswydd newydd bwerus ar y rheoleiddwyr – y diben yw newid ymddygiad y rheoleiddwyr gan eu gwneud yn fwy parod i rannu gwybodaeth a rhoi fframwaith deddfwriaethol eglur iddynt ar gyfer rhannu gwybodaeth yn y modd hwn.

Adran 4: Ymgynghori

Dyfodol Rheoleiddio ac Arolygu Gofal a Chymorth yng Nghymru – Papur Gwyn

- 4.1 Ar 30 Medi 2013, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Ddatganiad Gweinidogol Ysgrifenedig a lansiodd ymgynghoriad ar Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru “Dyfodol Rheoleiddio ac Arolygu Gofal a Chymorth yng Nghymru.” Cynhaliwyd yr ymgynghoriad am dros 12 wythnos a daeth i ben ar 6 Ionawr 2014. Er mwyn helpu i ymgysylltu â'r gynulleidfa fwyaf eang bosibl, comisiynodd Llywodraeth Cymru ddau sefydliad gwirfoddol (Anabledd Dysgu Cymru a Youth Friendly) i baratoi fersiwn Hawdd ei Darllen a fersiwn Plant a Phobl Ifanc o'r ddogfen ymgynghori i helpu plant ac oedolion sy'n agored i niwed i gymryd rhan yn y broses hon.
- 4.2 Daeth 99 o ymatebion i law ynghyd â nifer o gyfraniadau ychwanegol y tu allan i'r broses arferol. Yn ogystal â'r ymgynghoriad, cynhaliodd swyddogion nifer o ddigwyddiadau ledled Cymru, gan gynnwys tri digwyddiad mawr ar gyfer rhanddeiliaid (yng Nghaerdydd, Llanelli a Llandudno) a daeth dros 200 o unigolion iddynt. Yn ogystal â derbyn 99 o ymatebion ffurfiol, cynhaliodd swyddogion drafodaethau arwyddocaol ag adrannau eraill o Lywodraeth Cymru a chyrff a noddir, gan gynnwys Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC). Mae'r rhain, ynghyd â'r ymgysylltiad amrywiol a gafwyd yn sgil yr ymgynghoriad, wedi rhoi sail gyfoethog i Weinidogion Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu ein Bil arfaethedig ar reoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol yng Nghymru.
- 4.3 Daeth yr ymgynghoriad i'r canlyniad fod cefnogaeth eang ar y cyfan i'r cynigion a nodwyd yn y Papur Gwyn. Fodd bynnag, cafwyd rhai ceisiadau am eglurhad ychwanegol a mwy o fanylion ynglŷn â rhai elfennau a mynegodd nifer o ymatebwyr y byddent yn awyddus i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru wrth inni ddatblygu ein cynigion ymhellach. Roedd rhai rhannau o'r ymgynghoriad yn amhoblogaidd ymhlith yr ymatebwyr, fel y posibilrwydd o godi ffi ar ddarparwyr gwasanaeth am gofrestru.

Ymgynghoriadau eraill

4.4 Cafodd cynigion drafft y Bil (a oedd yn sail i'r ddogfen ymgynghori) eu llywio gan drafodaethau â rhanddeiliaid allweddol. Roedd hefyd yn cynnwys sylwadau o ddadleuon yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a manau eraill, ar ôl cyhoeddi Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011) ac wedi i Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) basio trwy broses ddeddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r broses o gyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol wedi parhau a chynhaliwyd y trafodaethau hyn trwy amrywiaeth o gyfarfodydd ag unigolion a chyfarfodydd grŵp rheolaidd ar ffurf fforwm cyffredinol a elwir y Grŵp Cynghori ar Bolisi.

4.5 Yn ystod misoedd Mehefin a Gorffennaf 2014, cynhaliodd swyddogion gyfres o weithgorau technegol gyda rhanddeiliaid i brofi meysydd polisi penodol allweddol a fyddai'n destun rheoliadau sy'n ofynnol er mwyn gweithredu'r Bil. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar feysydd polisi penodol o fewn pedwar prif faes y Bil, gan gynnwys:

- Gwasanaethau, Rheoleiddio a Gorfodi;
- Safonau;
- Sefydlogrwydd yn Sector; a
- Y gweithlu.

4.6 Yn y cyntaf o'r ddau gyfarfod, canolbwyntiwyd ar ofyn cwestiynau i'r rhanddeiliaid am bynciau penodol ym mhob un o'r meysydd polisi. Yna trafododd y rhanddeiliaid y cwestiynau hyn â'u cydweithwyr ac â'u partneriaid ehangach er mwyn rhoi adborth yn yr ail gyfarfod.

4.7 Roedd y cwestiynau a ofynnwyd i'r grŵp gwasanaethau, rheoleiddio a gorfodi yn ymwneud â'r cynigion ynglŷn â'r fframwaith dyfarnu ansawdd, y pwyslais newydd ar atebolrwydd, adroddiadau blynyddol, rheoleiddio yn seiliedig ar wasanaethau, cyfyngu'r amser cofrestru, atgyfnerthu troseddau, a chosbau cryfach; roedd y cwestiynau a ofynnwyd i'r grŵp safonau yn ymwneud â'r fframwaith safonau canlyniadau a'r risgiau a'r manteision cysylltiedig o safbwynt rheoleiddio ac arolygu; cafodd grŵp sefydlogrwydd y sector gwestiynau am yr adroddiadau ar sefydlogrwydd

y sector a'r cynigion ynghylch diwydrwydd dyladwy; a gofynnwyd i grŵp y gweithlu am eu barn ynglŷn â pha grwpiau o fewn y gweithlu y dylid eu rheoleiddio. Gofynnwyd iddynt hefyd am eu barn am ddiogelu rôl a swyddogaeth gweithwyr gofal cymdeithasol.

4.8 Yn ogystal â dadansoddi'r ymatebion ffurfiol i'r ymgynghoriad yn ofalus a pharhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, mae swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd wedi ystyried tystiolaeth y Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru (2010); adolygiad Comisiwn y Gyfraith o ddeddfwriaeth gofal cymdeithasol ar gyfer oedolion (2011); ac adolygiad Llywodraeth Cymru i ddiogelu (y Panel Cynghori ar Ddiogelu, 2013). Mae'r rhain hefyd wedi darparu tystiolaeth ychwanegol i'w defnyddio wrth ddatblygu cynigion y Bil terfynol.

4.9 Mae'r ddogfen ymgynghori lawn i'w gweld yn:

<http://wales.gov.uk/consultations/healthsocialcare/support/?skip=1&lang=cy>

4.10 Rhoddir crynodeb byr o'r ymatebion a dderbyniwyd ar gyfer pob un o'r prif feysydd isod.

Dull rheoleiddio ac arolygu sy'n seiliedig ar ganlyniadau

4.11 Roedd ymgynghoriad y Papur Gwyn yn gofyn am sylwadau ynglŷn â heriau a buddiannau posibl cyflwyno dull rheoleiddio ac arolygu sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Roedd yr ymateb i'r ymgynghoriad yn awgrymu y ceir cefnogaeth gref i'r syniad o newid i fformat wedi'i seilio ar ganlyniadau ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru. Roedd mwyafrif yr ymatebion yn canolbwyntio ar yr angen i unrhyw ddull seiliedig ar ganlyniadau weithredu mewn modd eglur a chyson ar draws y sector, a dilyn proses arolygu debyg sy'n sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal ac yn sbarduno gwelliannau, yn ogystal ag yn mesur sut y caiff y gwasanaethau hyn eu darparu o'u cymharu â'r canlyniadau.

Adroddiadau blynyddol

4.12 Roedd mwyafrif yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn croesawu'r cynigion ar gyfer trefn newydd flynyddol, unffurf o gyflwyno adroddiadau ar draws y sector gofal cymdeithasol (hynny yw, cyhoeddus, annibynnol a gwirfoddol). Y teimlad oedd y

byddai fformat wedi'i safoni, a fyddai'n rhwydd i bawb ei ddeall, hefyd yn darparu gwybodaeth mewn ffordd fwy tryloyw gan gynorthwyo darpar ddefnyddwyr gwasanaethau i gymharu'r gwasanaethau a gynigir gan y gwahanol ddarparwyr o fewn eu cymunedau. Fodd bynnag, tynnodd rhai ymatebion sylw at bryderon posibl gan ofyn a fyddai'r adroddiadau ar wahân i adroddiadau presennol gan y darparwyr gwasanaeth, neu'n ychwanegol atynt – yn enwedig o ran Awdurdodau Lleol. Roedd yn amlwg fod ymatebwyr o'r farn y dylai'r broses o lunio'r adroddiadau hyn leihau'r perygl fod darparwyr yn wynebu costau ychwanegol, neu'n gorfod ailadrodd gwybodaeth a ddarparwyd mewn adroddiadau eraill un ai i'r rheoleiddwyr neu Lywodraeth Cymru.

4.13 Mewn trafodaeth ychwanegol yn ystod y gweithgor technegol, gofynnwyd a fyddai modd datblygu cyfleuster 'dangosfwrdd ar-lein' i ddarparu siop un stop ar gyfer gwybodaeth. Gallai hyn helpu i symleiddio'r gofynion o ran cyflwyno adroddiadau ac o ran amseriad cyflwyno'r wybodaeth hon.

Y drosedd o ddarparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol

4.14 Roedd dros hanner yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn amlinellu eu cefnogaeth i'r syniad o ymestyn y drosedd o ddarparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol i gynnwys yr wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol. Roeddynt yn dadlau y dylai dinasyddion gael eu sicrhau bod yr wybodaeth a dderbyniant yn rhan o'r adroddiadau hyn yn gywir ac yn ddibynadwy, os mai pwrpas yr wybodaeth yn yr adroddiadau yw eu helpu i wneud penderfyniadau a dewisiadau cytbwys o ran y gwasanaethau y maent yn eu derbyn. Pe canfyddid ei bod yn anwir neu'n gamarweiniol, yna byddai'n rhoi sicrwydd iddynt y gallai'r rheoleiddiwr roi cosb briodol i'r rhai y cafwyd nad oeddynt yn cydymffurfio â'r gofyniad hwn.

Fframwaith dyfarnu ansawdd

4.15 Er bod cefnogaeth ysgubol i'r cynnig hwn, yn enwedig o ystyried y symudiad tuag at ddull wedi'i seilio ar ganlyniadau, amlinellodd rhai ymatebion yr angen am fframwaith arolygu cadarn a chryno a fyddai'n gallu cynnig dyfarniadau cyson a dibynadwy o ran ansawdd. Mynegwyd pryder y byddai gan wahanol arolygwyr farn wahanol ynglŷn â'r hyn a fyddai'n cael ei ystyried yn wasanaeth gwael neu ragorol oni bai bod ganddynt ganllawiau cadarn a chryno. Credai rhai o'r ymatebwyr hefyd y byddai'r fframwaith

dyfarniadau ansawdd cryno yn adnodd arall i ddinasyddion ei ddefnyddio i gymharu sefydliadau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt. Aeth un ymateb mor bell â thynnu sylw at y ffaith y byddai system raddio (e.e. gwael, digonol, rhagorol ac ati) yn darparu ffordd hawdd i ddinasyddion gymharu ansawdd a diogelwch gwasanaethau, ond hefyd yn meithrin diwylliant o fewn y sector gofal cymdeithasol a fyddai'n sbarduno sefydliadau i gyflwyno gwelliannau er mwyn rhagori, yn hytrach na gwneud dim mwy na bodloni cyfres o safonau gofynnol.

Cynnwys dinasyddion

4.16 Er y cafwyd rhai ymatebion cymysg i'r cynigion i gael dinasyddion i gymryd rhan yn y broses arolygu, roedd trwch yr ymatebion o blaid defnyddio dinasyddion â phrofiad blaenorol o wasanaethau gofal cymdeithasol i weithredu fel "ymwelwyr annibynnol" neu "arolygwyr lleyg" ac i weithio gyda'r rheoleiddiwr yn ystod y broses arolygu. Roeddynt yn teimlo y byddai eu cyfraniad o gymorth i gael dealltwriaeth ehangach o'r gwasanaeth a pha un a oedd yn cyflawni'r canlyniadau a gytunwyd ar gyfer defnyddwyr. Fodd bynnag, roeddynt yn pwysleisio y byddai angen penderfynu ar ddiffiniad eglur o ddiben ar y swyddogaethau hyn a datblygu canllawiau/fframwaith ar gyfer cyflwyno adroddiadau er mwyn sicrhau eu bod yn darparu cyfraniad defnyddiol tuag at arolygiadau.

4.17 Fodd bynnag, yn yr un modd â'r rhai a ddadleuodd yn erbyn y syniad, roedd mwyafrif yr ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn cydnabod y byddai costau ychwanegol ynghlwm â chyflwyno cynllun o'r fath ac mai i ran y rheoleiddiwr y byddai'n dod yn y pen draw. Y prif bryder oedd y byddai'n rhaid i'r rheoleiddiwr sicrhau bod hyfforddiant ac arweiniad digonol ar gael i bob darpar "ymwelydd annibynnol" neu "arolygwr lleyg" er mwyn osgoi arolygiadau (neu raddio) anghyson. Mynegodd nifer o ymatebwyr bryder hefyd bod posibilrwydd y byddai angen eiriolwr neu gymorth ar rai dinasyddion a hoffai ymgymryd â'r rôl, i'w helpu i gymryd rhan yn effeithiol yn y broses. Byddai angen ymchwilio'n ofalus i gost y cymorth hwn, a chost darparu hyfforddiant priodol, a sicrhau bod adnoddau ar gael.

Model rheoleiddio sy'n seiliedig ar wasanaethau

4.18 Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion i'r cynigion hyn yn gadarnhaol, er bod rhai ymatebwyr wedi ceisio mwy o eglurhad ynglŷn â pha fathau o wasanaethau fyddai'n

cael eu cynnwys yn y drefn newydd. Mae swyddogion wedi cynnal nifer o gyfarfodydd ag unigolion a gweithgorau technegol gyda rhanddeiliaid allweddol i helpu i egluro'r manylion ac i amlinellu'r mathau o wasanaethau a fyddai'n cael eu cynnwys yn y drefn newydd. Er bod rhai ymatebwyr o'r farn bod risg y gallai'r system newydd arwain at ymarfer ticio blychau neu osod baich gweinyddol ychwanegol ar y sector, roedd rhai'n teimlo bod mwy o fuddiannau i newid o'r fath. Teimlai rhai y byddai'r model rheoleiddio newydd yn fwy effeithlon a chost effeithiol, gan gynorthwyo'r rheoleiddiwr a'r darparwyr i arbed arian ar waith gweinyddol, o bosibl. Credai eraill fod y model wedi'i seilio ar wasanaethau'n darparu mwy o hyblygrwydd, gan arwain at well dilyniant busnes oherwydd y byddai'r cynigion yn golygu bod llai o darfu ar ddefnyddwyr y gwasanaeth pe byddai problemau'n codi mewn un yn unig o nifer o leoliadau sy'n eiddo i un darparwr; teimlwyd hefyd ei fod yn hybu modelau gwasanaeth newydd sy'n dod i'r amlwg.

4.19 Wrth ymateb i'r cwestiwn o ba wasanaethau ychwanegol y dylid eu cynnwys yn y drefn reoleiddio, nododd nifer o ymatebion y canlynol fel rhai o'r meysydd allweddol y dylid eu hystyried: gwasanaethau gofal dydd 'Grŵp' ar gyfer oedolion (e.e. canolfannau gofal dydd dementia), gwasanaethau eirioli, cynorthwywyr personol a gwasanaethau taliadau uniongyrchol. Mae trafodaethau ychwanegol gyda rhanddeiliaid allweddol trwy'r gweithgorau technegol wedi helpu i wneud rhai o fanylion y cynnig hwn yn fwy clir ac mae consensws yn awr ynglŷn â'r ffordd ymlaen.

Hysbysiadau gwella statudol

4.20 Ni chodwyd unrhyw faterion o ran cryfhau'r gosb am drosedd.

Cofrestru am gyfnod cyfyngedig

4.21 Daeth yn amlwg o'r ymgynghoriad bod y diffyg eglurder o ran y cynigion hyn yn y Papur Gwyn wedi achosi llawer o ddryswch a chamddeall ynglŷn â'r ystyr a roddwyd gan y swyddogion i "gofrestru am gyfnod cyfyngedig." Roedd rhai ymatebwyr yn ansicr a fyddai pob cofrestriad ond yn parhau am gyfnod cyfyngedig pe byddai system o gofrestru ar gyfer trwyddedau'n cael ei chyflwyno, gan arwain at ganlyniadau ariannol i fusnesau sy'n ceisio sicrhau buddsoddiad neu fenthyciadau gan sefydliadau ariannol ar gyfer gwelliannau. Roedd eraill yn ansicr pa un ai a fyddai'n cael ei ddefnyddio i docio gwasanaethau sydd ar ôl yr oes neu'n methu. Hyd yn oed pan

oedd ymatebwyr wedi deall y cynnig yn iawn, roeddynt yn cynghori y dylid cymryd gofal wrth ei ddefnyddio ac yn gofyn am ddatblygu enghreifftiau clir i ddangos pryd y dylid cyflwyno mesurau o'r fath. Os nad yw'n cael ei weithredu'n gywir, gallai gael effeithiau negyddol – hynny yw, gallai arwain at ddadgomisiynu gwasanaeth dilys os ceir argraff o risg sy'n rhwystro buddsoddiad ariannol.

4.22 Gwnaed mwy o waith ar y pwnc hwn yn y gweithgorau technegol ac er bod hyn wedi helpu i wneud y cynigion yn fwy eglur, ategodd y rhanddeiliaid yr angen am gyfres o amgylchiadau wedi'u diffinio'n glir a fyddai'n peri i reoleiddiwr fynnu bod sefydliad yn cofrestru am gyfnod cyfyngedig er mwyn helpu i sicrhau gwelliannau.

Ffioedd cofrestru ar gyfer darparwyr

4.23 Roedd trwch yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn gwrthwynebu'r syniad o gyflwyno ffioedd cofrestru. Yr hyn sydd yn peri syndod yw'r rheswm dros wrthwynebu a roddwyd gan rai ymatebwyr - sef nad gwrthwynebu'r gost ychwanegol i fusnesau yr oeddynt, ond eu bod yn cydnabod bod cyfran sylweddol o ofal cymdeithasol yng Nghymru'n cael ei brynu ag arian cyhoeddus o hyd. Roedd llawer yn dadlau mai'r cwbl y byddai'r cynnig yn ei gyflawni fyddai gorfodi'r sector annibynnol i basio cost unrhyw broses gofrestru ymlaen i'r awdurdodau lleol sy'n comisiynu, gan roi mwy o bwysau fyth ar ffrydiau cyllido tynn y sector cyhoeddus.

4.24 Roedd y nifer fechan o ymatebion a oedd yn cefnogi'r dull gwaith hwn yn dadlau y byddai gofyn i unrhyw ffioedd fod yn rhesymol ac yn gymesur er mwyn peidio â rhwystro sefydliadau rhag arloesi nac atal darparwyr newydd rhag cyflwyno'u modelau gwasanaeth newydd i'r farchnad a'u cofrestru. Teimlai rhai ymatebwyr y gellid defnyddio ffi i wrthbwysu'r costau ychwanegol a fyddai'n codi yn sgil gwirio'r cofrestrriad ac archwilio ansawdd y gwasanaethau y byddai'r sefydliad sy'n cofrestru yn ei ddarparu.

Datganiad blynyddol Awdurdodau Lleol am y farchnad gofal cymdeithasol

4.25 Roedd yr ymatebwyr yn cytuno y byddai'r wybodaeth hon yn adnodd defnyddiol i helpu i ddeall y farchnad ehangach yng Nghymru. Fodd bynnag, roedd llawer o ymatebwyr i'r ymgynghoriad a'r gweithgor technegol ar sefydlogrwydd yn y sector yn teimlo y byddai angen gofalu na fyddai hyn yn arwain at ddyblygu gwaith, gan fod

awdurdodau lleol eisoes yn darparu nifer o adroddiadau ar gyfer gwahanol grwpiau (rheoleiddiwr y gwasanaeth, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac ati). Cytunodd llawer y byddai gofyn hefyd am fwy o hyblygrwydd wrth ddyfeisio a chynllunio'r datganiad, gan y byddai gofyn iddo adlewyrchu'r newidiadau posibl i ffiniau awdurdodau lleol yn ogystal â'r defnydd cynyddol o drefniadau comisiynu rhanbarthol a buddiannau cynllunio ar y cyd â phartneriaid gofal iechyd. Teimlwyd y dylid dysgu gwersi oddi wrth ymdrechion cynharach i ddatblygu darlun ehangach o wasanaethau gofal cymdeithasol ar draws Cymru (hynny yw'r Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant a chronfa ddata Daffodil), ac oddi wrth waith arfaethedig Llywodraeth y DU yn Lloegr, a allai hefyd fod yn ddefnyddiol wrth i'r cynnig hwn fynd rhagddo.

Datganiad cenedlaethol blynyddol am y farchnad gofal cymdeithasol

4.26 Fel a grybwyllwyd uchod, cytunodd nifer ei bod yn syniad da meithrin gwell dealltwriaeth o'r farchnad ehangach a thueddiadau'r dyfodol. Fodd bynnag, cydnabuwyd y byddai angen arweinyddiaeth gref i fwrw ymlaen â hyn ond hefyd i ysgogi'r newid angenrheidiol yn niwylliant cynllunio gofal cymdeithasol.

4.27 Ystyriwyd mai rheoleiddiwr y gwasanaeth yw'r sefydliad priodol i lunio'r datganiadau am y farchnad a'u cadw, gan ei fod eisoes yn cadw gwybodaeth dda am y sector ac yn cwrdd â'r awdurdodau lleol a'r darparwyr gwasanaeth annibynnol a gwirfoddol yn rheolaidd. Byddai hefyd yn lle amlwg i gasglu'r holl adroddiadau blynyddol at ei gilydd a ffurfio darlun cenedlaethol o'r farchnad. Roedd hefyd mewn sefyllfa unigryw i ddeall y ffactorau ehangach fel polisiau Llywodraeth Cymru (a pholisiau Llywodraeth y DU pan fo'n briodol). Er hynny, roedd llawer o randdeiliaid allweddol yn cydnabod na fyddai modd cael darlun cywir o bosibl, gan nad oedd y farchnad yn gweithredu fel gwir farchnad trwy ymateb i bwysau cyflenwad a galw yn unig. Roedd hefyd yn wynebu amrywiaeth o bwysau eraill, gan gynnwys strategaethau a chyfarwyddebau newydd a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru (e.e. y cap £50 ar ofal yn y cartref, gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy ac ati) a byddai angen deall y rhain a rhoi ystyriaeth iddynt.

Diwydrwydd dyladwy ynglŷn â darparwyr allweddol

4.28 Dangosodd yr ymatebion i'r cynnig hwn yn ystod y gweithgor technegol pa mor bwysig yw hi i'r rheoleiddiwr gydnabod yr angen i fod â'r gallu, ond hefyd yr ewyllys i ystyried gwybodaeth a gafwyd y tu hwnt i unrhyw ymarferion diwydrwydd dyladwy ffurfiol. Cydnabuwyd y bydd y sector gofal cymdeithasol yn cyflwyno rhai heriau penodol yn y maes hwn, gan fod rhai modelau sefydliadol yn gymhleth (e.e. cwmnïau lloeren, rhiant-gwmnïau, masnachfreintiau ac ati) ac y byddant yn gwneud y broses o fonitro'n anodd. Felly bydd angen i unrhyw system fod yn ddigon hyblyg i ymdopi â'r holl gymhlethdodau hyn, yn ogystal â deall yr effeithiau gwahanol ar wahanol wasanaethau yn sgil terfynu darpariaeth yn sydyn. Ymestynnwyd yr hyblygrwydd hwn at rôl y rheoleiddiwr, gan fod rhanddeiliaid allweddol yn teimlo ei bod hi'n bwysig peidio â chyfyngu ar y rheoleiddiwr wrth iddo ystyried dichonoldeb darparwyr, ond y dylai allu bod yn hyblyg wrth ystyried materion yn ymwneud â chadernid ariannol a chorfforaethol.

4.29 Fodd bynnag, lleisiwyd rhai pryderon y gallai'r swyddogaeth hon greu methiant yn awtomatig gan y gallai unrhyw awgrym o 'ymchwiliad' i gwmni gael canlyniadau anfwriadol os na roddir digon o ystyriaeth i'r mater (e.e. os hysbysir yr awdurdod lleol sy'n comisiynu yn rhy gynnar, mae'n bosibl na fydd yn anfon neb at y sefydliad rhag ofn ei fod yn methu, gan beri i'r cwmni ddod yn llai hyfyw yn y pen draw). Er bod y cysylltiadau gwaith agos rhwng y rheoleiddiwr a'r awdurdodau lleol yn beth da, dylid diffinio'n eglur pryd y dylid rhannu gwybodaeth rhyngddynt er mwyn sicrhau nad yw'n creu problemau lle nad oeddynt yn bodoli cynt.

Cael gwared ar gofrestru gwirfoddol

4.30 Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr o blaid y cynnig i gael gwared ar gofrestrau gwirfoddol gyda llawer yn dadlau nad oeddynt yn rhoi unrhyw sicrwydd i'r cyhoedd bod sefydliadau ar gofrestrau o'r fath yn meddu ar y cymwysterau addas i ddarparu gwasanaethau o ansawdd. Er hynny, roedd eraill yn dadlau i'r gwrthwyneb gan dynnu sylw at fuddiannau posibl parhau â chofrestrau gwirfoddol, gan nodi eu bod yn gallu darparu ysgogiad i gyflogwyr a gweithwyr a'u hannog i ymrwymo i ddatblygu staff gan wella safonau o ganlyniad. Er bod y mwyafrif yn galw am gofrestru gorfodol, rhybuddiodd rhai ymatebwyr y byddai angen ystyried yn ddwys sut i liniaru'r effaith ar y rheiny sydd eisoes ar gofrestr wirfoddol, yn enwedig pe byddai'n golygu cosb

ariannol neu'n cynyddu'r argraff nad oeddynt wedi'u cymhwysu neu eu bod wedi gwneud rhywbeth o'i le.

4.31 Gwyntyllodd un ymatebwr y posibilrwydd y gallai cofrestrau gwirfoddol fod yn ddefnyddiol o ran profi effaith cofrestru ar grwpiau newydd a phwysu a mesur pa adnoddau y byddai eu hangen er mwyn cyflwyno trefn cofrestru gorfodol yn nes ymlaen. Roeddynt hefyd yn teimlo y gallai trefn wirfoddol gynnig cyfle i brofi gwahanol fodelau cofrestru er mwyn gweld a ellid datblygu modelau mwy cymesur a chost effeithiol. Ategwyd hyn gan ymatebwr arall a deimlai y gallai cofrestru gwirfoddol hefyd ganiatáu ar gyfer profi model gwahanol o gofrestru ar gyfer rhai grwpiau yn y dyfodol.

Cael gwared ar gofrestru deuol ar gyfer rheolwyr

4.32 Roedd mwyafrif y rhai a ymatebodd o blaid y cynnig hwn oherwydd y byddai'n unioni nifer o broblemau sy'n effeithio ar y broses gofrestru ar hyn o bryd, ac yn ei gwneud yn fwy cymesur a thryloyw – hynny yw yn symleiddio'r broses, lleihau'r gost ac yn osgoi dyblygu gwaith ac amser. Roedd rhai ymatebwyr yn mynegi'r farn mai rheoleiddiwr y gweithlu ddylai ymgymryd â dyletswyddau'r corff cofrestru, ond roeddynt yn argymhell y dylai'r drefn newydd gynnwys rhai elfennau o arferion cofrestru rheoleiddiwr y gwasanaeth a rheoleiddiwr y gweithlu, er mwyn parhau i ddarparu sicrwydd i'r cyhoedd bod rheolwyr yn meddu ar y cymwysterau priodol i gyflawni eu gwaith. Roedd ymatebwyr yn teimlo'n enwedig y dylai'r cyfweiliad unigolyn addas, cyfrifoldeb cyfreithiol a darpariaethau ar gyfer ymdrin ag achosion o ddiffyg cydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol, sy'n ddyletswyddau i reoleiddiwr y gwasanaeth, barhau i fod yn rhan annatod o'r broses gofrestru. Roedd rhai'n dadlau y byddai angen mwy o rannu gwybodaeth, a'i rhannu'n fwy effeithiol, rhwng y ddau reoleiddiwr, pe byddai rheoleiddiwr y gweithlu'n ymgymryd â'r prif gyfrifoldeb am gofrestru, er mwyn sicrhau bod unrhyw bryderon a godir yn ystod arolygiad y gwasanaeth yn cael eu dwyn i sylw'r corff cofrestru. Dadleuodd eraill y dylai'r gwaith o gofrestru fod dan ofal rheoleiddiwr y gwasanaeth yn unig, gan eu bod o'r farn y byddai'n anodd gwahanu rheolwr cofrestredig oddi wrth gyd-destun ei sefyllfa.

4.33 Derbyniwyd rhai sylwadau hefyd a oedd yn amlygu'r angen am hyblygrwydd yn y broses gofrestru o ran cymwysterau, gan gydnabod y byddai'r broses barhaus o

integreiddio o fewn y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn arwain at fwy o gyfleoedd i wasanaethau gael eu rheoli gan amrywiaeth ehangach o bobl broffesiynol â chefnidiroedd yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Teimlai rhai ei bod yn hanfodol gallu trosglwyddo cymwysterau, a bod y ddau sector yn eu derbyn.

Ymestyn cofrestrriad gorfodol y gweithlu

4.34 Roedd mwyafrif yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn gadarnhaol ynglŷn ag ymestyn y rheidrwydd i gofrestru i'r gweithlu gofal cymdeithasol cyfan, ond roeddynt yn rhybuddio y byddai angen gofal wrth ymestyn y gofrestr er mwyn lleihau unrhyw gostau i'r gweithlu, y sector a'r rheoleiddiwr. Tynnodd llawer ohonynt sylw at nifer o grwpiau yn y gweithlu nad ydynt wedi'u cofrestru ar hyn o bryd (gweithwyr gofal preswyl ac yn y cartref, cynorthwyrwyr gwaith cymdeithasol, staff gwasanaethau dyddiol ac ati) y dylid eu cofrestru'n orfodol; nododd nifer o ymatebion restr ehangach o grwpiau nag a amlinellwyd yn y Papur Gwyn fel rhai y dylid eu cofrestru (e.e. arolygwyr, cynorthwyrwyr personol, gweithwyr eirioli ac ati). Roedd y rhesymau dros ymestyn y gofrestr yn cynnwys y ffaith y byddai'n cryfhau gweithdrefnau diogelu, yn sicrhau bod y gweithlu i gyd yn gymwys yn eu gwaith, ac yn dylanwadu'n gadarnhaol ar ymddygiad ac agweddau. Bu eraill yn fwy penodol gan ganolbwyntio ar y ffaith y byddai'n gwneud lles i'r gweithlu oherwydd y byddai'n ychwanegu ymdeimlad o werth, yn cryfhau hunan-barch ac yn annog pobl i ymuno â'r gwasanaeth. Roeddynt hefyd yn dadlau y byddai o fudd i gyflogwyr am ei fod yn ddull defnyddiol o gadarnhau cyflogaeth a hyfforddiant blaenorol er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu i'r safonau cywir.

4.35 Mewn cyferbyniad â hyn, dywedodd nifer fechan o ymatebwyr nad yw cymwysterau o reidrwydd yn golygu bod staff cymwysedig yn rhydd rhag arfer gwael, os yw'r cynigion yn cyflwyno dull rheoleiddio sy'n seiliedig ar gymwysterau, nac yn golygu bod yr holl staff sy'n fedrus ond heb gymwysterau yn wael. Teimlai eraill fod nifer o risgiau posibl ynghlwm â cheisio cofrestru'r gweithlu cyfan, ar wahân i gostau uwch i gyflogwyr, y gweithlu a'r rheoleiddiwr. O ran y sector gofal cymdeithasol, roedd y rhain yn cynnwys y posibilrwydd y byddai'r cynnig yn cynyddu trosiant o fewn y gweithlu, neu'n rhwystro staff rhag symud rhwng y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Mewn ymateb i hyn, awgrymodd rhai tybed a ellid datrys y broblem trwy ganiatáu trawsgofrestru gan olygu na fyddai angen cofrestru ddwywaith a lleihau'r costau posibl

trwy ganolbwyntio sylw ar y rhai nad oeddynt wedi eu cofrestru rywle arall. Dadleuwyd hefyd y byddai cyflogwyr yn wynebu pwysau ariannol cynyddol i sicrhau bod eu staff yn bodloni'r gofynion gorfodol o ran datblygu staff, ac y byddai gweithwyr yn wynebu gorfod talu cost cofrestru. O ran y rheoleiddiwr, roedd posibilrwydd y byddai'n wynebu costau anghymesur wrth gofrestru nifer fawr o'r gweithlu gofal cymdeithasol, nid yn unig ar gyfer trefniadau pontio ond hefyd ar gyfer monitro a chofnodi hyfforddiant a chymwysterau'n barhaus.

Cynnwys categorïau ar y gofrestr

4.36 Yn ystod y gweithgor technegol ar reoleiddio'r gweithlu, mynegwyd peth pryder gan randdeiliaid allweddol ynglŷn â'r ffaith ei bod yn ymddangos yn anghyson i gynnig rheoleiddio staff mewn cartrefi plant ond nid y staff mewn cartrefi preswyl i oedolion. Er bod ymatebwyr yn deall bod y penderfyniad yn deillio'n fwy na thebyg o'r lefelau risg yn y ddau amgylchedd, eto mae tystiolaeth wedi dangos bod risg ddifrifol mewn lleoliadau gofal oedolion hefyd ac y dylai'r rhain felly gael eu hystyried ar gyfer cofrestru. Cytunwyd hefyd y dylid ystyried ychwanegu staff gofal yn y cartref, ond y dylid gwneud hyn yn y dyfodol oherwydd yr angen i adael i'r gofynion a gyflwynwyd yn ddiweddar ar gyfer rheolwyr gofal yn y cartref ymwreiddio a chael eu rhoi ar waith. Cytunwyd hefyd na ddylai grwpiau eraill, gan gynnwys arolygwyr, comisiynwyr, gofalwyr maeth, gofalwyr mewn lleoliadau ar gyfer oedolion, eiriolwyr, gweithwyr gofal cymdeithasol mewn lleoliadau preswyl ac yn y cartref, gofalwyr answyddogol a chynorthwyr personol, gael eu cynnwys mewn trefn reoleiddio newydd yn y dyfodol agos.

Ymestyn y drefn o reoleiddio hyfforddiant y gweithlu

4.37 Rydym wedi bod yn ymgysylltu â Chyngor Gofal Cymru ynglŷn â'r polisi hwn ers dros flwyddyn. Bu'r broses drafod hon yn un gadarnhaol ac adeiladol, ac mae'n adlewyrchu cytundeb cyffredinol ynglŷn â'r egwyddor o ymestyn y drefn o reoleiddio hyfforddiant y gweithlu i grwpiau eraill. Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd yn ystod y broses, ac mae Estyn hefyd wedi bod yn rhan o ddatblygu'r cynigion.

Ehangu gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer ac apelio mewn ymateb i benderfyniadau cofrestru

4.38 Ymgynghorodd Comisiwn y Gyfraith ynglŷn â drafft y 'Regulation of Social Care Professionals in England Bill' rhwng 1 Mawrth 2012 a 31 Mai 2012. Cynhaliwyd 44 o ddigwyddiadau ledled y wlad, yn cynnwys cynulleidfau eang, gan gynnwys cleifion, gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, academyddion, cyrff proffesiynol, cyrff rheoleiddio, cyfreithwyr, darparwyr gwasanaeth a chynrychiolwyr elusennau a sefydliadau ymgyrchu. Derbyniwyd 192 o ymatebion a chyhoeddwyd dadansoddiad yr ymgynghoriad ar 20 Chwefror 2013.

4.39 Un polisi yr ymgynghorwyd yn ei gyloch gan Gomisiwn y Gyfraith gydol y broses hon oedd ehangu'r meini prawf ar gyfer adolygu penderfyniadau addasrwydd i ymarfer. Ymgynghorwyd yn yr un modd ar y cynnig i sefydlu panel apelau cofrestru hefyd. Canfu Comisiwn y Gyfraith fod cefnogaeth gyffredinol i'r cynigion hyn.

Ymestyn swyddogaethau Cyngor Gofal Cymru

4.40 Er y cafwyd cefnogaeth sylweddol i nod y cynnig o greu agwedd fwy strategol a chydgysylltiedig tuag at wella a rheoleiddio, roedd rhai ymatebion yn cwestiynu'r enw a'r union ddull gweithredu. Yn benodol, roedd rhai'n cwestiynu pa un a ellid cyflawni hyn trwy ymestyn pwerau Cyngor Gofal Cymru yn hytrach na thrwy greu corff newydd, gan ddadlau bod y Cyngor eisoes wedi cymryd camau sylweddol o ran gwneud y gweithlu'n fwy proffesiynol. Roedd eraill yn cwestiynu a ddylid arafu'r momentwm hwn, gan y gallai'r Cyngor gael ei adael heb ddigon o gefnogaeth na chyllid digonol trwy ychwanegu rhagor o swyddogaethau heb gynllunio gofalus. Mewn gwrthgyferbyniad, mynegodd nifer o ymatebwyr eraill bryder fod y cynnig yn creu gwrthdaro buddiannau rhwng rheoleiddio, gwella a bod yn llais i'r proffesiwn. Dadleuodd rhai y gallai'r Cyngor golli golwg ar ei brif swyddogaeth – rheoleiddio'r gweithlu – ac y gallai danseilio gwaith cyrff eraill pe byddai swyddogaethau yr oeddynt yn arfer eu cyflawni yn cael eu trosglwyddo'n sydyn i'r "Sefydliad Cenedlaethol." Er mwyn osgoi hyn, argymhellodd rhai ymatebwyr y byddai'n well petai'r cynnig yn mynnu mwy o gydweithio, cydgysylltu a chydlynu rhwng Cyngor Gofal Cymru, rheoleidiwr y gwasanaeth a chyrff eraill (y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd, yr Uned Gwella yn Iechyd Cyhoeddus Cymru a Datblygu Staff y GIG ac ati), er mwyn helpu i osgoi dyblygu swyddogaethau a datblygu gwell cysylltiadau.

4.41 Dadleuodd eraill fod y cynigion yn cyflwyno cyfle uchelgeisiol a grymus i sicrhau bod blaenoriaethau gwella ac adnoddau'n cyd-fynd â'i gilydd, er mwyn sicrhau perthynas waith fwy clòs rhwng y rheoleiddiwr, cyrff proffesiynol a'r sector i wneud yn siŵr bod yr heriau y mae'n eu hwynebu'n cael eu cydnabod ac atebion yn cael eu datblygu a fydd yn cyflawni'r canlyniadau gorau i ddefnyddwyr gwasanaethau. Byddai gan y berthynas waith well hon nifer o fuddiannau i'r sector a'r boblogaeth yn gyffredinol – e.e. byddai'n helpu i dynnu sylw at faterion a allai achosi pryder ac i sbarduno gwelliant parhaus. Byddai hefyd yn helpu o ran ymchwilio i'r sector a chasglu gwybodaeth amdano er mwyn darparu gwybodaeth gyfoes i'w dadansoddi gan y cyhoedd, y cyfryngau a'r llywodraeth. Soniodd nifer o ymatebion y dylai'r "Sefydliad Cenedlaethol" chwarae rhan fwy gweithredol yng nghyngor sgiliau'r sector er mwyn sicrhau bod safbwyntiau darparwyr gwasanaeth yn cael eu clywed ac er mwyn cynorthwyo i ddatblygu ymarfer mwy cyson ar draws holl ffiniau'r DU.

Adran 5: Pŵer i lunio is-ddeddfwriaeth

| Rheoliadau a Rheolau | | | | | |
|---|--------------------|------------|---|-------------|--|
| Adran | Rhoi pŵer i | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
| 2(1)(i) – yn pennu unrhyw wasanaeth arall y mae angen ei gofrestru | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu unrhyw wasanaeth arall sy'n cynnwys darpariaeth gofal a chymorth yn wasanaeth y mae angen ei gofrestru â Gweinidogion Cymru. | Cadarnhaol | Mae effaith rheoleiddio ar fusnesau yn arwyddocaol ac felly ystyrir y dylai'r Cynulliad graffu'n llawn ar y penderfyniad i reoleiddio mwy o wasanaethau. |
| 2(3) – yn rhagnodi pethau NAD YDYNT i gael eu trin fel gwasanaethau a reoleiddir. | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru rhagnodi pethau NAD YDYNT i'w trin fel gwasanaethau a reoleiddir. Mae hon yn system reoleiddio newydd a gallai gwasanaethau ddod i'r amlwg y mae'r diffiniad o wasanaethau y mae angen eu cofrestru yn berthnasol iddynt, ond nad yw Gweinidogion Cymru yn bwriadu iddynt gael eu rheoleiddio. | Cadarnhaol | Mae effaith rheoleiddio ar fusnesau yn arwyddocaol ac felly ystyrir y dylai'r Cynulliad graffu'n llawn ar y penderfyniad i addasu diffiniad sy'n bodoli neu gymhwyso gwasanaeth newydd y bydd yn ofynnol iddo gofrestru. |
| 3(3) – yn rhagnodi pethau NAD YDYNT i gael eu trin fel gofal a chymorth | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru rhagnodi pethau nad ydynt i'w trin fel gofal a chymorth er gwaethaf y diffiniadau yn adran 3(1)(a) a (d). | Cadarnhaol | Mae effaith rheoleiddio ar fusnesau yn arwyddocaol ac felly ystyrir y dylai'r Cynulliad graffu'n llawn ar y penderfyniad i addasu diffiniad sy'n bodoli neu gymhwyso gwasanaeth newydd y bydd yn ofynnol iddo gofrestru. |
| 6(1)(d) – gwybodaeth | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru nodi gwybodaeth | Negyddol | Manyl yn gweinyddol yw hwn sy'n gymharol fach yn y cynllun |

| | | | | | |
|--|--------------------|------------|---|--|---|
| ychwanegol | | | ychwanegol y mae ei hangen mewn cais i gofrestru i ddarparu gwasanaeth gofal a chymorth. | | deddfwriaethol cyffredinol. |
| 6(2) – yn pennu ffurf y cais | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu ffurf cais a wneir o dan adran 7. | Negyddol | Mae hwn yn fanylyn gweinyddol sydd yn gymharol ddinod yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol. |
| 8(7) – amrywiol dystiolaeth sy'n rhaid ei hystyried wrth wneud penderfyniad ynghylch person addas a phriodol | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru amrywio'r dystiolaeth y mae'n rhaid iddynt ei hystyried wrth benderfynu a yw person yn berson addas a phriodol. | Cadarnhaol | Gall Gweinidogion Cymru ganslo cofrestru darparwr gwasanaeth os nad ydynt yn fodlon mwyach bod y darparwr gwasanaeth yn berson addas a phriodol. Felly, dylai unrhyw amrywiad yn y dystiolaeth sy'n rhaid ei ystyried wrth benderfynu a yw person yn berson addas a phriodol fod yn destun craffu llawn gan y Cynulliad. |
| 9(2)(viii) –rhagor o wybodaeth yn y datganiad blynyddol | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi ymhellach yr wybodaeth sy'n ofynnol ei chynnwys yn y datganiad blynyddol y dylai darparwyr ei baratoi. | Cadarnahol y tro cyntaf y cânt eu gwneud a negyddol wedi hynny | Mae'r rheoliadau yn mynd i'r afael â'r gofyniad i ragor o wybodaeth gael ei chynnwys yn y datganiad blynyddol sydd i'w baratoi gan y darparwr gwasanaeth. Mae'r prif ofynion wedi'u hamlinellu yn adran 9(2). Dylai unrhyw beth arall sy'n ofynnol fod yn destun craffu llawn gan y Cynulliad y tro cyntaf iddynt gael eu |

| | | | | | |
|---|--------------------|------------|--|------------|--|
| | | | | | gwneud oherwydd gallai'r cyfryw ofynion roi beichiau ychwanegol ar ddarparwyr. |
| 9(3) – ffurf y datganiad blynyddol | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi ffurf y datganiad blynyddol. | Negyddol | Mae adran 8(1) yn gosod dyletswydd ar ddarparwyr gwasanaethau a reoleiddir i gyflwyno datganiad blynyddol. Mater gweinyddol yw hwn ac ni fydd yn ddadleuol nac yn gosod beichiau ar y darparwr. |
| 9(4) – cyfyngiad amser ar gyfer y datganiad blynyddol | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu'r cyfyngiad amser y mae'n rhaid i ddarparwyr gyflwyno datganiad blynyddol oddi mewn iddo. | Negyddol | Mae'r pŵer hwn yn debygol o gael ei arfer ar y cyd â'r pŵer yn adran 9(3) ac mae'n fychan. Rhaid i'r datganiad gael ei gwblhau'n flynyddol; bydd y rheoliadau a wneir yn unol â'r ddarpariaeth hon yn nodi erbyn pa bryd y bydd rhaid ei gyflwyno. |
| 10(2)– cyfyngiad amser ar gais i amrywio cofrestriad darparwr | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi cyfyngiad amser ar wneud cais i amrywio cofrestriad darparwr, o dan amgylchiadau pan nad oes unigolyn cyfrifol mewn lleoliad y mae'r darparwr yn darparu gwasanaeth a reoleiddir ynddo, ohono neu mewn cysylltiad ag ef. | Cadarnhaol | Mae'n debygol yr ymdrinnir â'r pŵer hwn yn y gyfres o reoliadau sy'n rhoi dyletswyddau ar unigolion cyfrifol yn unol ag adran 27 sydd wedi eu pennu'n rhai cadarnhaol. Fodd bynnag, oherwydd bod potensial i gael effaith arwyddocaol ar gofrestrriad darparwyr gwasanaeth, dylai fod yn destun craffu llawn gan y |

| | | | | | |
|--|--------------------|------------|--|------------|---|
| | | | | | Cynulliad. |
| 10(3)(a)(ii) – manylion y mae gofyn eu cynnwys mewn cais i amrywio cofrestriad | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi'r manylion sydd eu hangen gan ddarparwr mewn cais i amrywio cofrestriad. | Negyddol | Manyl yn gweinyddol bach yw hwn y mae ei angen mewn cysylltiad â chofrestriad darparwr ac mae'n debyg i'r pŵer yn adran 6(1)(d) sydd wedi ei bennu'n negyddol. |
| 10(3)(b) – amrywio | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi ffurf y cais i amrywio. | Negyddol | Manyl yn gweinyddol bach yw hwn, tebyg i 9(3)(a)(ii) ac fe'i dynodwyd yn un negyddol. |
| 18(8) – amrywio'r terfynau amser sy'n gymwys i hysbysiadau o benderfyniadau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru. | Gweinidogion Cymru | | Bydd y pŵer hwn yn caniatáu diwygio'r terfyn amser 28 diwrnod yn is-adran (4) a'r terfyn amser 56 diwrnod yn is-adran 5(b). Dyma'r terfynau amser cyfredol y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru eu bodloni o ran cyhoeddi hybysiad o benderfyniad mewn perthynas ag hysbysiad o gynnig a roddir i ddarparwr gwasanaeth yn unol ag adran 17. | Negyddol | Manyl yn gweinyddol yw hwn, sy'n eithaf bychan o ran y cynllun deddfwriaethol cyfan. |
| 20(5) – addasrwydd i fod yn unigolyn cyfrifol | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi'r amgylchiadau lle gallai Gweinidogion Cymru ddynodi unigolyn cyfrifol er nad yw'r unigolyn hwnnw'n bodloni gofynion is-adrannau (2) a (4) ac i wneud darpariaeth i'r Rhan hon fod yn gymwys i unigolyn cyfrifol o'r fath gydag addasiadau rhagnodedig. | Cadarnhaol | Er mai manyln gweinyddol yw hwn – un eithaf bychan o ran y cynllun deddfwriaethol cyfan, mae manylion y Rheoliadau hyn wedi cael eu pennu fel rhai a ddylai fod yn destun craffu llawn gan y Cynulliad. |
| 26(1) – gofynion ar | Gweinidogion | Rheoliadau | Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i | Cadarnhaol | Rheoliadau a wneir gyda'r |

| | | | | | |
|---|--------------------|------------|--|------------|---|
| ddarparwyr gwasanaeth | Cymru | | Weinidogion Cymru ragnodi'r gofynion sydd i'w gosod ar ddarparwr gwasanaeth mewn cysylltiad â gwasanaeth a reoleiddir. | | pŵer hwn fydd y sail ar gyfer rheoleiddio'r gwasanaethau a nodir yn y Bil. Dylai'r Cynulliad graffu'n llawn ar fanylion rheoliadau o'r fath a'r baich a roddir ar ddarparwyr. |
| 27(1) – gofynion a osodir ar unigolyn cyfrifol | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi'r gofynion a osodir ar unigolyn cyfrifol. | Cadarnhaol | Dylai'r Cynulliad graffu'n llawn ar y dyletswyddau penodol sydd i gael eu gosod ar yr unigolyn cyfrifol, yn arbennig gan y bydd yn cyflawni troseddau os na fydd yn cydymffurfio â rhai o'r dyletswyddau hynny - gweler adran 44. |
| 29(1) – darparwyr gwasanaeth sy'n cael eu canslo. | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth bod yn rhaid i ddarparwyr gwasanaeth sy'n cael eu canslo hysbysu Gweinidog Cymru. | Negyddol | Manyl yn bach, gweinyddol yw hwn. |
| 30 (1) – darparwyr gwasanaeth a fu farw. | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynglŷn â darparwyr gwasanaeth a fu farw. | Negyddol | Manyl yn bach, gweinyddol yw hwn. |
| 32(3) – arolygu gwasanaeth | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi'r cymwysterau y mae'n rhaid i unigolyn a gaiff fod yn arolygydd feddu arnynt a'r amodau eraill y mae'n rhaid i unigolyn o'r fath eu bodloni. | Negyddol | Manyl yn bach, gweinyddol yw hwn nad oes gofynion rheoleiddiol ar ei gyfer ar hyn o bryd. |

| | | | | | |
|--|--------------------|-------------|--|------------|--|
| 32(4) – arolygu gwasanaeth | Gweinidogion Cymru | Cod ymarfer | Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyhoeddi cod ymarfer yn nodi sut y dylid cynnal arolygiadau (gan gynnwys pa mor aml y dylid eu cynnal). | Amh. | Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, ystyrir bod angen i'r Bil gynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi cod ymarfer sy'n pennu, mewn perthynas â'i bwerau arolygu, sut y dylid gweithredu'r swyddogaethau hynny. |
| 36(1) –graddau arolygiadau | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynglŷn â graddau y caiff arolygydd eu rhoi mewn cysylltiad ag ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan ddarparwr gwasanaeth sydd wedi ei arolygu. | Cadarnhaol | Byddid yn cael effaith sylweddol ar ddarparwyr gofal cymdeithasol trwy gyflwyno system o raddau. Dylai'r Cynulliad graffu'n llawn ar ddarpariaeth o'r fath. |
| 37(2)(g) - darparu gwybodaeth ychwanegol | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi gwybodaeth y ceir ei rhoi mewn cofnod ar y gofrestr. | Negyddol | Nodir prif ofynion cofnod yn y gofrestr yn is-adran (2). Mân reoliadau a wneir gyda'r pŵer hwn a byddant yn rhai gweinyddol o ran cymhwysio hawl i weld yr wybodaeth sydd ar gael yn y gofrestr gyhoeddus. |
| 37(5) – darparu gwybodaeth | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi gwybodaeth y ceir ei hepgor o'r gofrestr darparwyr gwasanaeth o dan | Negyddol | N Nodir prif ofynion cofnod yn y gofrestr yn is-adran (2). Mân reoliadau a wneir gyda'r pŵer hwn a byddant yn rhai |

| | | | | | |
|--|--------------------|------------|--|------------|---|
| | | | amgylchiadau penodedig neu i ragnodi o dan ba amgylchiadau y caiff y rheoleiddiwr wrthod cydymffurfio â chais am gopi o'r gofrestr darparwyr gwasanaeth neu ddarn ohoni. | | gweinyddol o ran cymhwysio hawl i weld yr wybodaeth sydd ar gael yn y gofrestr gyhoeddus. |
| 38(1)(g) – gofyniad i hysbysu awdurdodau lleol | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer digwyddiadau eraill a allai godi yn rhinwedd Rhan 2, neu reoliadau o dan Ran 2, a fydd yn sbarduno'r broses o roi gofynion ar Weinidogion Cymru i hysbysu pob awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr. | Negyddol | Mae adran 37eisoes yn darparu rhestr o faterion y bydd gofyn i Weinidogion Cymru roi gwybod i awdurdodau lleol amdanynt pan fyddant yn digwydd. Mae'r pŵer hwn yn caniatáu ar gyfer ychwanegu at y rhestr honno. Mae'n fanylyn bach ac nid yw'n effeithio ar ddarparwyr gwasanaeth. |
| 38(2) – gwybodaeth mewn hysbysiadau i awdurdodau lleol | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch pa wybodaeth y mae'n rhaid ei darparu mewn hysbysiadau i awdurdodau lleol o dan adran 41. | Negyddol | Mae'r pŵer hwn yn gysylltiedig â'r pŵer yn adran 37(1) (g). Rhestrir y materion y mae'n rhaid rhoi gwybod amdanynt yn adran 37. Bydd y rheoliadau'n ymhelaethu ar hyn ac yn rhoi manylion ynghylch y materion hynny y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru eu datgelu. |
| 39(1) – ffioedd ar gyfer cais i amrywio cofrestrriad | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol talu ffioedd ar gyfer y canlynol: | Cadarnhaol | Dylai'r Cynulliad graffu'n llawn ar y dull a bennir i'w gwneud yn ofynnol i dalu ffi, er mwyn sicrhau bod y lefelau a osodir |

| | | | | | |
|--|--------------------|------------|--|------------|---|
| | | | <p>(a) gwneud cais i gofrestru fel darparwr gwasanaeth;</p> <p>(b) gwneud cais i amrywio cofrestriad;</p> <p>(c) caniatáu i unigolyn barhau i fod wedi ei gofrestru fel darparwr gwasanaeth;</p> <p>(ch) copi o adroddiad arolygu;</p> <p>(d) copi o'r gofrestr neu ddarn ohoni.</p> | | <p>yn briodol o ystyried yr effaith ar ddarparwyr gwasanaeth. Wedi hynny, mae'n debygol mai pwrpas diwygiadau a wneir i'r rheoliadau hynny fyddai cynyddu'r ffioedd hynny neu osod ffioedd am wasanaethau gwahanol, a dylai'r Cynulliad hefyd graffu'n llawn ar hynny.</p> |
| 44 – trosedd i ddarparwr fethu â chydymffurfio â darpariaeth benodedig | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ei bod yn drosedd i ddarparwr gwasanaeth fethu â chydymffurfio â darpariaeth benodedig mewn rheoliadau a lunnir o dan adran 26. | Cadarnhaol | Mae hyn yn gysylltiedig â'r pŵer i lunio rheoliadau yn adran 26(1) a bydd yn sefydlu troseddau nad ydynt ar wyneb y Bil ar hyn o bryd. Rhaid i'r Cynulliad graffu'n llawn ar y troseddau a gaiff eu creu ar wyneb y Bil – dylai'r un fath fod yn wir yn achos unrhyw droseddau a gaiff eu creu drwy gyfrwng is-ddeddfwriaeth. |
| 45– trosedd i unigolyn cyfrifol fethu â chydymffurfio â darpariaeth benodedig. | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ei bod yn drosedd i unigolyn cyfrifol fethu â chydymffurfio â darpariaeth benodedig mewn rheoliadau a lunnir o dan adran 27. | Cadarnhaol | Mae hyn yn gysylltiedig â'r pŵer i lunio rheoliadau yn adran 27(1) a bydd yn sefydlu troseddau nad ydynt ar wyneb y Bil ar hyn o bryd. Rhaid i'r Cynulliad graffu'n llawn ar y troseddau a gaiff eu creu ar wyneb y Bil – dylai'r un fath fod yn wir yn achos unrhyw |

| | | | | | |
|---|--------------------|------------|--|--|--|
| | | | | | droseddau a gaiff eu creu drwy gyfrwng is-ddeddfwriaeth. |
| 51(1) – hysbysiadau cosb | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi hysbysiad cosb i berson os ydynt wedi'u bodloni bod y person wedi cyflawni trosedd benodedig. | Negyddol | Bydd y Rheoliadau a wneir gan ddefnyddio'r pŵer hwn yn rhai mân a gweinyddol. |
| 51(6) – hysbysiadau cosb | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth mewn perthynas â hysbysiadau cosb. | Negyddol | Ceir darpariaeth ar hyn o bryd yn Neddf Safonau Gofal 2000 sy'n caniatáu ar gyfer cyflwyno hysbysiadau cosb benodedig. Mae'r troseddau a gaiff fod yn destun hysbysiad cosb benodedig wedi eu nodi yn is-adran 2. Y rheoliadau a wneir o dan is-adran 6 sy'n darparu'r manylion ynglŷn â gweinyddu hysbysiadau cosb benodedig. |
| 55 – yn mewnosod adran 144A(2)(b) yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 - adroddiad blynyddol gan awdurdodau lleol | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Bydd y pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth mewn perthynas â gwybodaeth arall sydd i'w chynnwys yn yr adroddiad blynyddol y mae awdurdodau lleol yn ei baratoi ynglŷn ag arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. | Negyddol – ond cynhwysir y pŵer yn Neddf 2014. | Nodir y prif bethau y mae'n rhaid eu cynnwys o fewn yr adroddiad hwnnw yn is-adran 2(a). Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi manylion am yr wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen. |
| 55 - yn mewnosod adran 144A(4) yn Neddf | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Bydd y pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi ffurf yr adroddiad blynyddol y mae | Negyddol – ond cynhwysir y | Manyl yn gweinyddol yw hwn sy'n gymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol. |

| | | | | | |
|--|--------------------|------------|--|--|--|
| Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – ffurf yr adroddiad blynyddol | | | awdurdodau lleol yn ei baratoi o dan adran 144A | pŵer yn Neddf 2014. | |
| 55 - yn mewnosod adran 144B(1) yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Adroddiadau am sefydlogrwydd y farchnad leol | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Bydd y pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi'r cyfnod y mae'n rhaid i asesiad o sefydlogrwydd y farchnad leol fynd i'r afael â digonolrwydd y ddarpariaeth gofal a chymorth. | Negyddol – ond cynhwysir y pŵer yn Neddf 2014. | Manyl yn gweinyddol yw hwn sy'n gymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol. |
| 55 – yn mewnosod adran 144B(2)(a)(i) yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Adroddiadau am sefydlogrwydd y farchnad leol | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi'r cyfnod pan fydd gofyn asesu sefydlogrwydd y farchnad leol i farnu pa mor ddigonol yw'r ddarpariaeth o ofal a chymorth. | Negyddol – ond cynhwysir y pŵer yn Neddf 2014. | Manyl yn gweinyddol yw hwn sy'n gymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol. |
| 55 – yn mewnosod adran 144B(2)(a)(iii) yn Neddf Gwasanaethau | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth sy'n gwneud materion ychwanegol i'r rhai a restrir yn is-adran (2)(a)(i) a (ii) yn ofynnol yn yr adroddiad | Negyddol – ond cynhwysir y pŵer yn Neddf 2014. | Manyl yn gweinyddol yw hwn sy'n gymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol. |

| | | | | | |
|---|--------------------|------------|---|--|--|
| Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Adroddiadau am sefydlogrwydd y farchnad leol | | | am sefydlogrwydd y farchnad leol | | |
| 55 – yn mewnosod 144B(2)(a)(iv) yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad leol | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae adran 144B(2)(iv) yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol gynnwys asesiad o'r effaith y mae comisiynu gwasanaethau mewn perthynas â'i swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn ei chael ar y swyddogaethau hynny. Gall y pŵer gwneud rheoliadau ragnodi'r cyfnod y mae'n ofynnol darparu'r cyfryw wybodaeth yn ei gylch. | Negyddol – ond bydd y pŵer yn cael ei gynnwys yn Neddf 2014. | Manyl yn gweinyddol yw hwn sy'n eithaf bychan o ran y cynllun deddfwriaethol cyfan. |
| 55 – yn mewnosod adran 144B(3) yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Adroddiadau am sefydlogrwydd y farchnad leol | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi ffurf yr adroddiad am sefydlogrwydd y farchnad leol | Negyddol – ond cynhwysir y pŵer yn Neddf 2014. | Manyl yn gweinyddol yw hwn sy'n gymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol. |
| 56(1) – yn mewnosod adran 149B yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Bydd y pŵer hwn yn is-adran 4 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi'r meini prawf ar gyfer rhoi gradd mewn perthynas â'r safon y dylai swyddogaethau gwasanaethau | Cadarnhaol – ond cynhwysir y pŵer yn Neddf 2014 | Nid yw hon yn ddarpariaeth newydd yn yr ystyr ei bod yn dyblygu darpariaeth bresennol yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd |

| | | | | | |
|---|--------------------|------------|--|---|--|
| Llesiant (Cymru) 2014 – meini prawf graddio | | | cymdeithasol awdurdod lleol o fath penodedig ei chyrraedd. | | Cymunedol a Safonau) 2003. Fodd bynnag byddai defnyddio pŵer o'r fath yn beth newydd, ac er mwyn ymdrin â hi yn yr un modd â'r ddarpariaeth debyg o ran graddau ar gyfer darparwyr preifat yn adran 35 yna mae'n ymddangos yn rhesymegol y dylai'r Cynulliad graffu'n llawn ar y ddarpariaeth hon. |
| 56(1) – yn mewnosod adran 149C ymhellach yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 - ffi adolygiad | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer hwn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol dalu ffi am adolygiad a gynhelir gan Weinidogion Cymru o dan adran 149B(1) | Cadarnhaol – ond cynhwysir y pŵer yn Neddf 2014 | Dylai'r Cynulliad graffu'n llawn ar y dull a bennir i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol dalu ffioedd er mwyn sicrhau bod y lefelau a osodir yn briodol. Wedi hynny, mae'n debygol mai pwrpas diwygiadau a wneir i'r rheoliadau hynny fyddai cynyddu'r ffioedd hynny, a dylai'r Cynulliad hefyd graffu'n llawn ar hynny. |
| 56(2) – yn disodli adran 161 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae is-adran (4) o adran 161 yn rhoi pŵer i wneud darpariaeth ynghylch y cymwysterau mae'n rhaid i'r mathau o unigolion a gaiff fod yn arolygwyr feddu arnynt a'r amodau eraill y mae'n rhaid iddynt eu bodloni. | Negyddol – ond cynhwysir y pŵer yn Neddf 2014. | Manyl Bach, gweinyddol yw hwn. Mae'n cyfateb i adran 32(3) ac felly'n dilyn yr un weithdrefn. |
| | Gweinidogion | Cod | Bydd adran 161A yn caniatáu i | Amh. | Er mwyn sicrhau |

| | | | | | |
|--|--------------------|------------|--|---|--|
| 56(2) – yn mewnosod adran 161A yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. | Cymru | ymarfer | Weinidogion Cymru gyhoeddi cod ymarfer ynghylch sut y dylid cynnal arolygiadau (gan gynnwys pa mor aml y dylid eu cynnal). | | cydymffurfiaeth â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, ystyrir bod angen i'r Bil gynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi cod ymarfer sy'n pennu, mewn perthynas â'i bwerau arolygu, sut y dylid gweithredu'r swyddogaethau hynny. |
| 57 – yn mewnosod 94A a 94B yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae adran 94A(1) yn bŵer i wneud rheoliadau er mwyn gwneud darpariaeth ynglŷn â'r modd y mae awdurdodau lleol yn arfer swyddogaethau a roddir iddynt gan adran 81 (y ffyrdd y mae plant sy'n derbyn gofal i'w lletya a'u cynnal) neu reoliadau a wneir o dan adran 87 o'r math a grybwyllir yn adrannau 92(1), 93 neu 94 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. | Negyddol – ond cynhwysir y pŵer yn Neddf 2014. | Yn unol ag adran 196 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mae'r pwerau i wneud rheoliadau eu hunain sy'n rhoi'r swyddogaethau y cyfeirir arnynt yn y ddarpariaeth hon yn negyddol, felly mae'r pwerau hyn sy'n ymwneud ag arfer y swyddogaethau hynny yn dilyn yr un weithdrefn. |
| 57 – yn mewnosod adran 94B(1) i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae adran 94B(1) yn bŵer i wneud rheoliadau er mwyn darparu ei bod yn drosedd i unigolyn dorri neu fethu â chydymffurfio â darpariaeth benodedig mewn rheoliadau a wneir o dan adran 94A. | Cadarnhaol – ond cynhwysir y pŵer yn Neddf 2014 | Rhaid i'r Cynulliad graffu'n llawn ar y troseddau a grëwyd ar wyneb y Bil – dylai'r un peth fod yn wir am unrhyw droseddau a gaiff eu creu drwy is-ddeddfwriaeth. |
| 58(1) – meini prawf ar gyfer | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu'r meini | Cadarnhaol | Dylai'r Cynulliad graffu'n llawn ar y rheoliad ychwanegol y |

| | | | | | |
|---|--------------------|------------|--|------------|---|
| penderfynu a yw adran 60 yn berthnasol i ddarparwr gwasanaeth | | | prawf ar gyfer penderfynu a yw adran 60 (yn ddarostyngedig i reoliadau a wneir o dan is-adran (4)) yn gymwys i ddarparwr gwasanaeth o ran gwasanaethau a reoleiddir. | | bydd gwasanaethau a nodir yn unol â darpariaeth o'r fath yn ddarostyngedig iddo. |
| 58(4) – graddau cymhwysiad adran 60 | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddarparu nad yw adran 60 yn gymwys, neu ei fod yn gymwys yn unig i'r graddau a nodir, i ddarparwr gwasanaeth penodedig neu i ddarparwr gwasanaeth o ddisgrifiad penodedig. | Cadarnhaol | Dylai'r Cynulliad graffu'n llawn ar y rheoliad ychwanegol y bydd gwasanaethau a nodir yn unol â darpariaeth o'r fath yn ddarostyngedig iddo. |
| 60(6) – gwybodaeth i asesu cynaliadwyedd ariannol. | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ar gyfer gallu cael gwybodaeth gan bersonau y maent yn eu hystyried yn briodol, y maent yn credu y bydd yn eu cynorthwyo i asesu cynaliadwyedd ariannol ddarparwr gwasanaeth y mae'r adran hon yn gymwys iddo. | Cadarnhaol | Mae'r dulliau posibl o arfer y pŵer hwn yn eang o ran y gofyniad i gael gwybodaeth gan unrhyw unigolyn y mae Gweinidogion Cymru yn barnu eu bod yn briodol. O wybod natur eang bosibl y pŵer, mae angen i'r Cynulliad graffu'n llawn ar y rheoliadau. |
| 60(7) - asesiadau | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynglŷn â chynnal asesiadau. | Cadarnhaol | Mae cysylltiad agos rhwng y pŵer hwn a'r rhai yn adran 58(4) a 60(6) ac yn dilyn yr un weithdrefn o'r herwydd. |
| 185(1)– pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol, gysylltiedig, ddarfodol neu arbed. | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ganlyniadol, gysylltiedig, ddarfodol neu arbed fel y maent yn ystyried yn briodol mewn cysylltiad â'r Ddeddf. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn gwneud newidiadau i is-ddeddfwriaeth, er enghraifft o ganlyniad i newidiadau a ddaeth i rym yn sgil y Ddeddf. | Cadarnhaol pan fo deddfwriaeth sylfaenol yn cael ei diwygio neu ei diddymu, negyddol fel arall. | Dylai rheoliadau sy'n diwygio neu'n diddymu unrhyw ddeddfiad mewn deddfwriaeth sylfaenol fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Mae rheoliadau eraill a wneir o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol gan eu bod yn ymdrin â manylion. |
| Codau Ymarfer a chanllawiau | | | | | |
| Adran | Rhoi pŵer i | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
| 28 – cyfarwyddyd ynglŷn â rheoliadau o dan adrannau 30 a 31 | Gweinidogion Cymru | Canllawiau | Mae'r ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno cyfarwyddyd ynglŷn â sut y gall darparwyr gwasanaeth ac Unigolion Cyfrifol gydymffurfio â'r gofynion a gyflwynir o dan adrannau 30 a 31. | Amherthnasol | Amherthnasol |
| 75 – cyfarwyddyd wedi ei roi i Ofal Cymdeithasol | Gweinidogion Cymru | Canllawiau | Mae'r ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno a chyhoeddi cyfarwyddyd ar gyfer Gofal | Amherthnasol | Amherthnasol |

| | | | | | |
|---|--------------------------|-------------|--|---|--|
| Cymru | | | Cymdeithasol Cymru. | | |
| 111(1) – codau ymarfer ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol a chyflogwyr gweithwyr gofal cymdeithasol. | Gofal Cymdeithasol Cymru | Cod Ymarfer | Mae'r ddarpariaeth yn galluogi Gofal Cymdeithasol Cymru i gyflwyno codau ymarfer sy'n nodi'r safonau ymarfer sy'n ddisgwyliedig gan weithwyr gofal cymdeithasol a chyflogwyr gweithwyr o'r fath. Trwy gyflwyno'r gofynion ar ffurf cod, gellir defnyddio iaith haws i'w deall a gall Gofal Cymdeithasol Cymru roi mwy o fanylder, eglurhad ac enghreifftiau o'r safonau a ddisgwyliir. Bydd hefyd yn golygu y gellir diweddarau'r safonau'n rheolaidd er mwyn cynnwys datblygiadau o ran arfer gorau. Mae'n briodol i Ofal Cymdeithasol Cymru baratoi codau o'r fath gan y bydd ganddo'r arbenigedd a'r profiad i wybod beth sy'n cyfrif fel arfer da. | Rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru gydymffurfio â'r gofynion ymgynghori yn adran 76. | Ystyrir ei bod yn briodol i Ofal Cymdeithasol Cymru ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol ynglŷn â'r hyn y dylid ei gynnwys mewn codau ymarfer. |
| 111(3) – codau ymarfer ar gyfer ymarferwyr iechyd meddwl cymeradwy | Gofal Cymdeithasol Cymru | Cod Ymarfer | Mae'r ddarpariaeth yn galluogi Gofal Cymdeithasol Cymru i gyflwyno codau ymarfer sy'n nodi'r safonau ymarfer sy'n ddisgwyliedig gan weithwyr proffesiynol cymeradwy ym maes iechyd meddwl. Trwy gyflwyno'r gofynion ar ffurf cod, gellir defnyddio iaith haws i'w deall a gall Gofal Cymdeithasol Cymru roi mwy o fanylder, eglurhad ac enghreifftiau o'r safonau a ddisgwyliir. Bydd hefyd yn golygu y gellir diweddarau'r safonau'n rheolaidd er mwyn cynnwys | Rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru gydymffurfio â'r gofynion ymgynghori yn adran 76. | Ystyrir ei bod yn briodol i Ofal Cymdeithasol Cymru ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol ynglŷn â'r hyn y dylid ei gynnwys mewn codau ymarfer. |

| | | | | | |
|--|--------------------------|------------|---|---|--|
| | | | datblygiadau o ran arfer gorau. Mae'n briodol i Ofal Cymdeithasol Cymru baratoi codau o'r fath gan y bydd ganddo'r arbenigedd a'r profiad i wybod beth sy'n cyfrif fel arfer da. | | |
| 161(1) – cyfarwyddyd ynghylch addasrwydd i ymarfer | Gofal Cymdeithasol Cymru | Canllawiau | Mae'r ddarpariaeth yn galluogi Gofal Cymdeithasol Cymru i gyflwyno canllawiau i baneli addasrwydd i ymarfer a phaneli gorchmynion dros dro ynghylch y ffactorau y mae'n rhaid eu hystyried wrth benderfynu a amharwyd ar addasrwydd i ymarfer unigolyn. | Rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru gydymffurfio â'r gofynion ymgynghori yn adran 76. | Ystyrir ei bod yn briodol i Ofal Cymdeithasol Cymru ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol ynglŷn â'r hyn y dylid ei gynnwys mewn codau ymarfer. |

Adran 6: Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.1 Cwblhawyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn unol â Gorchymyn Sefydlog 26.6(vi) ar gyfer y Bil ac mae'n dilyn yn adran saith.

6.2 Mae Asesiad Cystadleuaeth ac Effeithiau Penodol wedi eu cynnwys yn Adran wyth.

6.3 Nid oes darpariaethau penodol yn y Bil sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru.

Rhan 2

Adran 7: Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Opsiynau, costau a manteision

- 7.1 Mae'r asesiad effaith rheoleiddiol hwn wedi ei strwythuro o amgylch pob un o elfennau'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru). Er hwylustod, mae'n cyflwyno cyfres o opsiynau ar gyfer pob elfen unigol, ac yna'r costau, y risgiau a'r manteision. Mae rhan olaf yr asesiad effaith rheoleiddiol yn darparu asesiad o effaith gronol y Bil ar ddarparwyr gwasanaethau, ar y gweithlu gofal cymdeithasol ac ar ddefnyddwyr gwasanaethau gofal.
- 7.2 Mae'r asesiad yn cyflwyno amcangyfrif gorau o gostau'r Bil yn seiliedig ar yr wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. Bu raid gwneud rhagdybiaethau ar gyfer nifer o'r elfennau er mwyn cynhyrchu'r amcangyfrifon. Yn gyffredinol, lle mae hyn wedi digwydd, mae'r costau wedi eu talgrynnu i'r £100 agosaf er mwyn lleihau'r risg o gywirdeb annilys.
- 7.3 Yn y rhan fwyaf o'r achosion, ni fu modd mesur y manteision sy'n gysylltiedig â'r amrywiol opsiynau a chyflwynwyd disgrifiad ansoddol yn lle hynny. Mae'r diffyg manteision mesuredig yn golygu ei bod yn anodd cymharu'r costau a'r manteision mewn modd gwrthrychol. Mewn sefyllfa o'r fath, rhaid dyfarnu a yw'r manteision yn cyfiawnhau'r costau ychwanegol.
- 7.4 Mae dau gynnig wedi eu nodi yn yr adran diben a'r effaith a fwriedir yn y Memorandwm Esboniadol na chyfrifwyd y costau ar eu cyfer. Y darpariaethau hyn yw: amddiffyn teitl a gorchmynion gwahardd. Mae'r darpariaethau hyn yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru Iunio is-ddeddfwriaeth. Ni fu modd darparu costau ar gyfer y darpariaethau hyn ar yr adeg hon gan nad oes manylion ar gael, ar hyn o bryd, yn glŷn â'r amryw ddulliau y gellid eu defnyddio i roi pob un o'r darpariaethau ar waith.
- 7.5 Fodd bynnag, bu modd amcangyfrif faint y byddai'n ei gostio i Lywodraeth Cymru ddatblygu is-ddeddfwriaeth mewn perthynas â gwarchod teitl a gorchmynion gwahardd.

Tabl 2: costau datblygu is-ddeddfwriaeth ar gyfer gorchmynion gwahardd

| Graddfa gyflogau Llywodraeth Cymru | Cyflog blynyddol gros | Amser (dyddiau) | Cost (£) |
|---|-----------------------|-----------------|---------------|
| Uwch-gyfreithiwr (Gradd 6) ⁶ | 85,884 | 5 | 1,865 |
| Cyfreithiwr (Gradd 7) ⁷ | 69,408 | 10 | 3,020 |
| Gradd 7 | 69,408 | 20 | 6,040 |
| Cyfanswm a amcangyfrifir | | | 10,925 |

Tabl 2: costau datblygu is-ddeddfwriaeth ar gyfer gwarchod teitl

| Graddfa gyflogau Llywodraeth Cymru | Cyflog blynyddol gros | Amser (dyddiau) | Cost (£) |
|------------------------------------|-----------------------|-----------------|--------------|
| Uwch-gyfreithiwr (Gradd 6) | 85,884 | 1 | 373 |
| Cyfreithiwr (Gradd 7) | 69,408 | 2 | 604 |
| Gradd 7 | 69,408 | 5 | 1,510 |
| Cyfanswm a amcangyfrifir | | | 2,487 |

7.6 Os defnyddir y pwerau hyn, byddant yn destun ymgynghoriad statudol a fydd yn rhoi cyfle i nodi'r manylion gweithredu a phennu'r costau cysylltiedig. Yn dilyn yr ymgynghoriad, cynhelir dadansoddiad cost a budd.

7.7 Mae disgwyl i nifer fechan o'r cynigion y rhoddir costau ar eu cyfer yn yr adran nesaf gael effaith sylweddol o'u cymharu â'r gweddill. Y newid i fodel rheoleiddio sy'n seiliedig ar wasanaethau er enghraifft – er na ddisgwylir y bydd llawer o effaith ar gostau rheolaidd gweithredu system reoleiddio gwbl newydd, rhagwelir y bydd costau pontio sylweddol yn enwedig i reoleiddiwr y gwasanaeth.

7.8 Cynigion eraill y byddem yn disgwyl iddynt gyflwyno costau mwy sylweddol fyddai'r rhai sy'n ymwneud â chyflwyno ffioedd cofrestru ac ymestyn y drefn cofrestru gorfodol y gweithlu gofal cymdeithasol. Mae'r cynigion hyn yn debygol o arwain at gostau ychwanegol sylweddol i'r sector, o ran darparwyr gwasanaethau a'r gweithlu, gyda rhai costau rheolaidd i reoleiddwyr y gweithlu a'r gwasanaeth yn sgil gweithredu'r systemau hyn.

⁶ Ar sail cyflog gros o £85,884 gyda chwech wythnos o wyliau blynyddol, mae'r gost ddyddiol gros tua £373.

⁷ Ar sail cyflog gros o £69,408 gyda chwech wythnos o wyliau blynyddol, mae'r gost ddyddiol gros tua £302.

7.9 Y cynigion i greu'r troseddau newydd yw'r rhai na fyddem yn disgwyl iddynt gael fawr o effaith ariannol ar y sector, rhanddeiliaid na'r rheolyddion. Y rheswm am hyn yw mai mewn amgylchiadau eithriadol iawn y byddent yn cael eu defnyddio.

7.10 Mae costau llawn y prif gynigion ym Mil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn dilyn. Mae trafodaethau'n parhau ar draws Llywodraeth Cymru ynglŷn â sut y bydd y costau hyn yn cael eu hariannu.

Rheoleiddio Gwasanaethau

Dull o reoleiddio ac arolygu sy'n seiliedig ar ganlyniadau

7.11 Gweler adran 26 o Fil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), sy'n cynnwys darpariaethau'n ymwed â rheoliadau yngylch gwasanaethau a reoleiddir.

Opsiynau

7.12 Yr opsiynau yw:

- Opsiwn un: peidio â gwneud dim.
- Opsiwn dau: datblygu cyfundrefn newydd, sy'n cyfuno elfennau sylfaenol amddiffyn ochr yn ochr â dull o reoleiddio sy'n seiliedig ar ganlyniadau.

Opsiwn un: peidio â gwneud dim

7.13 O dan yr opsiwn hwn, byddai'r drefn reoleiddio ac arolygu yn cynnal dull o reoleiddio ac arolygu sy'n canolbwyntio'n gyffredinol ar amddiffyn h.y. cynnal arolygiadau gan gyfeirio at y Rheoliadau yn ogystal â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae rheoleiddiwr y gwasanaeth yn symud, ar sail anstatudol, tuag at drefn sy'n integreiddio dull seiliedig ar ganlyniadau â'r dull amddiffynnol presennol.

7.14 Mae'r dull presennol hwn yn rhoi ystyriaeth i Reoliadau a Safonau Gofynnol Cenedlaethol, ac yn canolbwyntio ar brofiadau unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol mewn cysylltiad â'r themâu ansawdd canlynol:

- Ansawdd bywyd.
- Staffio.
- Arweinyddiaeth a rheolaeth.
- Yr amgylchedd.

Fodd bynnag, mae'r dull hwn wedi ei ddatblygu'n annibynnol ar y fframwaith canlyniadau a sefydlwyd o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

- 7.15 Mae profiad defnyddwyr o'r gofal cymdeithasol y maent yn ei dderbyn yn canolbwyntio'n bennaf ar ansawdd y broses o gyflwyno gofal cymdeithasol, yn hytrach na chanolbwyntio ar y canlyniadau i'r unigolyn. Hynny yw, mae'r pwyslais ar argraff defnyddiwr y gwasanaeth o'r modd y caiff y gwasanaeth ei gyflwyno, yn hytrach nag ar yr hyn y mae'r gwasanaeth yn galluogi'r unigolyn i'w gyflawni. Cyfeirir at y math o ddangosyddion a ddefnyddir er mwyn asesu teimladau defnyddiwr gwasanaethau ynglŷn â'r modd y caiff gwasanaethau eu cyflwyno fel dangosydd allbwn. Er enghraifft, nifer y bobl sy'n cael profiad o gyfathrebu ac ymgysylltiad da ag aelodau staff.
- 7.16 Er ei bod yn bwysig i brofiad defnyddwyr y gwasanaeth o'r ffordd y cyflwynir gwasanaethau gofal cymdeithasol fod yn gadarnhaol, megis eu teimladau ynglŷn â'r gofal personol y maent yn ei dderbyn, mae'n bwysig gwybod hefyd a yw'r gwasanaeth yn gwneud gwahaniaeth i fywydau defnyddwyr y gwasanaeth.
- 7.17 Y perygl gyda'r pwyslais presennol ar brofiad defnyddwyr gwasanaethau yw y gellir canfod bod darparwr yn darparu gwasanaeth da, o ran sut mae defnyddiwr y gwasanaeth yn teimlo ynglŷn â'r gofal cymdeithasol y mae'n ei dderbyn, ond nad yw'r gwasanaeth yn cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau'r defnyddiwr.
- 7.18 Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cyhoeddus a Llesiant (Cymru) wedi cyflwyno dull o ddarparu gofal cymdeithasol sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Mae'r dull hwn yn ystyried canlyniadau yn ogystal â sicrhau y cydymffurfir â'r safonau gofal disgwylidig. Nod y dull hwn yw sicrhau bod darparwyr gwasanaethau'n canolbwyntio ar y graddau y maent yn cyflawni canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau, gan sicrhau ar yr un pryd bod safonau'r sefydliad yn parhau yn uchel.
- 7.19 Mae'r dull hwn o reoleiddio eisoes yn cael ei ddatblygu gan awdurdodau lleol, o ran eu swyddogaethau statudol, trwy'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) sy'n cynnwys 20-30 mesur perfformiad canlyniadau a chwe safon. O dan y

drefn newydd, rhaid i awdurdodau lleol ddangos i ba raddau y maent wedi cyflawni'r mesurau perfformiad canlyniadau a'r safonau.

7.20 Fodd bynnag, nid yw'r drefn bresennol o reoleiddio darparwyr gwasanaethau annibynnol yn cyd-fynd ar hyn o bryd â'r dull a gyflwynwyd trwy'r Ddeddf Gwasanaethau Cyhoeddus a Llesiant (Cymru), sef y model gofal cymdeithasol sy'n rhoi pwyslais ar ganlyniadau.

Opsiwn dau: datblygu trefn newydd, gan gyfuno elfennau sylfaenol amddiffyniad â dull o reoleiddio sy'n seiliedig ar ganlyniadau

7.21 Mae'r opsiwn hwn yn golygu integreiddio trefn reoleiddio amddiffynnol â threfn reoleiddio seiliedig ar berfformiad sy'n rhoi pwyslais ar ganlyniad defnyddiwr y gwasanaeth o ran ei lesiant. Disgwylir y bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy fabwysiadu dull tebyg i'r hyn sy'n cael ei gyflwyno o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) mewn cysylltiad â swyddogaethau statudol awdurdodau lleol. Hynny yw, defnyddio safonau i asesu canlyniadau defnyddwyr gwasanaethau yn unol â'r Datganiad Llesiant ar gyfer Pobl sydd Angen Gofal a Chymorth a Gofalwyr sydd Angen Cymorth (Llywodraeth Cymru, 2013).

Costau

Opsiwn un: peidio â gwneud dim

Rheoleiddiwr y gwasanaeth

7.22 Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu cyllideb flynyddol £14.4 miliwn i reoleiddiwr y gwasanaeth, AGGCC, i wneud y gwaith o reoleiddio ac arolygu asiantaethau a sefydliadau gofal cymdeithasol. Priodolir £8,064,000 (56%) o'r swm hwn i swyddogaethau cofrestru, arolygu, gorfodi a gweinyddu mewn cysylltiad â'r meysydd hynny o wasanaethau plant ac oedolion sydd o fewn cwmpas y Bil.

7.23 Ni fu modd neilltuo'r union gostau sy'n gysylltiedig â model rheoleiddio amddiffynnol. Fodd bynnag, mae'n bosibl amcangyfrif costau'r prif weithgarwch sy'n

gysylltiedig â'r model rheoleiddio presennol. Dyma'r gost yr effeithir arni os cyflwynir unrhyw newidiadau i'r dull o reoleiddio.

7.24 Yn 2012-2013 cynhaliodd rheoleiddiwr y gwasanaeth 3,990 o arolygiadau (AGGCC, 2014). Amcangyfrifir mai £2,984,520⁸ yw cost cynnal yr arolygiadau hyn.

Darparwyr gwasanaethau

7.25 Mae darparwyr gwasanaethau'n cymryd rhan mewn nifer o dasgau sy'n gysylltiedig â'r drefn reoleiddio bresennol:

- Paratoi gwaith papur ar gyfer yr arolygiad.
- Casglu data er mwyn cyfrannu at yr arolygiad.
- Trefnu bod arolygwyr yn ymgynghori â defnyddwyr y gwasanaeth.
- Bod gyda'r arolygwyr yn ystod yr arolygiad.
- Ymateb i geisiadau am ddata, gwybodaeth ac eglurhad dilynol.
- Dilysu adroddiad drafft yr arolygiad.
- Gwneud newidiadau i adroddiad yr arolygiad o bosibl.

7.26 Ni fu modd cyfrifo union gostau'r drefn reoleiddio bresennol i ddarparwyr gwasanaethau, gan y bydd y costau hynny'n amrywio yn ôl maint y darparwyr ac yn ôl y prosesau a'r arferion penodol a fabwysiedir gan y darparwr.

Paratoi ar gyfer yr arolygiad

7.27 Nid oes costau uniongyrchol yn gysylltiedig â pharatoi ar gyfer arolygiadau. Mae Fforwm Gofal Cymru, sefydliad sy'n cynrychioli dros 450 o gartrefi gofal, cartrefi nyrsio a darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol annibynnol eraill ledled Cymru, wedi cadarnhau nad yw eu haelodau'n treulio unrhyw amser yn paratoi ar gyfer arolygiad, ar wahân i sicrhau bod y gwaith papur angenrheidiol wedi ei ddiweddarau, gan fod arolygiadau'n digwydd yn ddirybudd.

7.28 Bydd darparwyr gwasanaethau'n casglu data ar gyfer Datganiad Hunanasesu'r Gwasanaeth a'r Adroddiad Blynyddol ar Ansawdd y Gwasanaeth.

⁸ Yn seiliedig ar y dybiaeth bod un ymweliad arolygu'n cymryd un diwrnod a'i bod yn cymryd un diwrnod arall i baratoi ar gyfer yr arolygiad ac i ysgrifennu adroddiad yr arolygiad. Mae darparwr y gwasanaeth wedi rhoi pris o £374 y dydd am gynnal gweithgareddau cysylltiedig â rheoleiddio.

7.29 Mae'r hunanasesiad yn cynnwys pum prif gwestiwn, pob un â phedwar is-gwestiwn, sy'n gofyn am ddefnyddio amryfal ffynonellau data. Mae modd i ddarparwyr gwasanaethau ddewis y math o ddata a ffynhonnell y data er mwyn dangos yr hyn a gyflawnwyd o'i gymharu â'r cwestiynau a'r is-gwestiynau hunanasesu. Mae'n debygol mai allbwn fydd y rhan fwyaf o'r data, gan gyfeirio at brosesau a chanlyniadau. Gellir casglu'r data hyn o amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys adroddiadau, canlyniadau arolygon, cofnodion a chofnodlyfrau.

7.30 Mae'n anodd asesu faint yn union y mae'n ei gostio i ddarparwyr gwasanaethau gasglu a dadansoddi data, gan y bydd maint y sefydliad yn ogystal â'i arferion a phrosesau yn effeithio ar gostau.

7.31 Mae Cymdeithas Gofal Cartref y DU (UKHCA) wedi amcangyfrif y byddai'n cymryd tua 24 awr i ddarparwr gwasanaeth bychan annibynnol⁹ gwblhau'r hunanasesiad¹⁰, ac mai rheolwr y sefydliad neu'r asiantaeth fyddai'n ei wneud fel arfer. Amcangyfrifir mai cost cynhyrchu Datganiad Hunanasesu'r Gwasanaeth yw £565.90¹¹. Amcangyfrifir felly mai cyfanswm cost cynhyrchu'r 1,562 hunanasesiad i'r 946 darparwr gwasanaeth annibynnol yw tua £883,900 y flwyddyn.

7.32 Mae UKHCA wedi awgrymu y byddai'n cymryd tua phedwar diwrnod gwaith i ddarparwr gwasanaeth bach gasglu a dadansoddi'r data y mae eu hangen ar gyfer adroddiad blynyddol ar ansawdd y gwasanaeth. Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, casglu a dadansoddi data gweinyddol a data'r arolwg¹².

7.33 Mae rheolwr y gwasanaeth yn dirprwyo'r gwaith o gasglu a dadansoddi data i'r aelodau staff sydd yn y sefyllfa orau i wneud y dasg fel arfer¹³. Gan dybio bod y dasg yn cael ei dyrannu i aelod o staff sydd ar gyflog gweinyddol, amcangyfrifir mai tua

⁹ Asiantaethau gofal cartref yw'r rhan fwyaf o aelodau UKHCA.

¹⁰ Ffynhonnell: gohebiaeth â Chymdeithas Gofal Cartref y DU.

¹¹ Yn seiliedig ar gyflog blynyddol cyfartalog rheolwr gofal cartref o £30,766 (gweler Curtis, 2013) ac ar gostau o £9,366, gan roi cyfanswm cost cyflog o £40,132 y flwyddyn. Y gost wythnosol, gan gynnwys chwe wythnos o wyliau blynyddol sy'n cynnwys gwyliau'r banc yw £872.43. Gan dybio bod yr wythnos waith yn 37 awr (Curtis, 2013), y gost yr awr yw £23.60. Cyfanswm y gost am 24 awr felly yw £565.90.

¹² Mae darparwyr gwasanaethau'n cynnal arolwg sy'n canolbwyntio ar farn defnyddwyr y gwasanaeth, teuluoedd, gofalywyr, rheolwyr gofal a rhanddeiliaid er mwyn asesu ansawdd eu gwasanaeth. Caiiff canfyddiadau'r arolwg eu cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol ar Ansawdd y Gwasanaeth.

¹³ Ffynhonnell: gohebiaeth â Chymdeithas Gofal Cartref y DU.

£392¹⁴ fesul lleoliad fydd cost casglu a dadansoddi data ar gyfer yr arolwg o ansawdd y gwasanaeth. Felly cost flynyddol casglu a dadansoddi data ar gyfer y 1,562 lleoliad yng Nghymru i'r 946 darparwr gofal cymdeithasol annibynnol yw tua £612,300.

7.34 Amcangyfrifir mai cyfanswm y gost bresennol i ddarparwyr gwasanaethau sy'n gysylltiedig â chasglu, dadansoddi a chyflwyno data i gyfrannu at y broses arolygu yw tua £1,496,200 y flwyddyn.

7.35 Dyma'r amcangyfrif uchaf ar gyfer y gost gan fod UKHCA yn awgrymu y bydd gan sefydliadau mwy y gallu i gasglu a dadansoddi'r data gweinyddol yn awtomatig. Felly mae'n debygol y bydd y gost yn is i'r darparwyr mawr nag i sefydliadau llai.

Trefnu i arolygwyr ymgynghori â defnyddwyr y gwasanaeth

7.36 Bydd yr arolygwr yn siarad â defnyddwyr y gwasanaeth fel rhan o'r arolygiad. Cyfrifoldeb y darparwyr gwasanaethau yw trefnu hyn. Mae UKHCA wedi rhoi gwybod y gall defnyddwyr gwasanaethau fynd yn bryderus a gall fod arnynt angen ymweliad gan aelod o staff uwch i egluro pam mae arolygwr eisiau eu gweld. Gall ymweliadau o'r fath gymryd mwy na dwy awr.

Bod gydag arolygwyr yn ystod yr ymweliad

7.37 Mae Fforwm Gofal Cymru wedi rhoi gwybod ei bod yn beth cyffredin i aelod o staff mewn swydd uwch fod gyda'r arolygwr yn ystod yr arolygiad a gwneud nodiadau ynglŷn ag agweddau ar yr arolygiad er mwyn gallu cyfeirio atynt yn y dyfodol.

7.38 Ar sail y dybiaeth bod rheolwr y gwasanaeth yn treulio'r diwrnod gyda'r arolygwr, y gost fesul darparwr fyddai tua £87.24¹⁵. Yr amcangyfrif felly o gyfanswm y gost i ddarparwyr gwasanaethau annibynnol, yn gysylltiedig â hebrwng arolygwyr yn ystod ymweliadau, ar gyfer y 1,562 lleoliad yw tua £136,300 y flwyddyn.

¹⁴ Ym mis Ebrill 2013, roedd galwedigaethau gweinyddol ac ysgrifenyddol yn ennill £399.60 yr wythnos (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2013) neu £20,779.20 y flwyddyn. Cyfanswm y cyflog gan gynnwys argostau yw £22,549 y flwyddyn. Mae hyn yn seiliedig ar y dybiaeth nad yw'r cyflogwr yn cyfrannu at gynllun pensiwn. Gan dybio y rhoddir chwe wythnos o wyliau blynyddol, gan gynnwys gwyliau'r banc, y gost yw £490 yr wythnos neu £98 y dydd. Felly y gost am bedwar diwrnod yw £392.

¹⁵ Yn seiliedig ar gyflog blynyddol cyfartalog rheolwr gofal cartref o £30,766 ac ar gostau o £9,366, gan roi cyfanswm o £40,132 y flwyddyn am wythnos waith 37 awr (Curtis, 2013). Gan dybio y rhoddir chwe wythnos o wyliau blynyddol, y gost wythnosol yw £872.43 a chost diwrnod yw £87.24.

Ymateb i geisiadau am ddata dilynol, dilysu adroddiad drafft yr arolygiad ac ymateb i faterion a godwyd yn yr adroddiad

- 7.39 Mae UKHCA wedi rhoi gwybod y gellir gofyn i ddarparwyr gwasanaethau am wybodaeth ychwanegol ar ôl yr arolygiad. Yn ogystal, mae Fforwm Gofal Cymru wedi dweud y bydd darparwyr yn treulio amser yn darllen adroddiad yr arolygiad ac yn ymateb i unrhyw wallau a/neu faterion sy'n codi yn yr adroddiad.
- 7.40 Ar sail y dybiaeth bod y tasgau hyn yn cael eu cyflawni gan reolwr y gwasanaeth a'i bod yn cymryd un diwrnod i gyflawni'r dasg hon ar gyfartaledd, amcangyfrifir mai'r gost i'r darparwyr gwasanaeth unigol fyddai £87.24¹⁶. Amcangyfrifir felly mai cyfanswm y gost i ddarparwyr gwasanaethau annibynnol, yn gysylltiedig â darllen adroddiad drafft yr arolygiad ac ymateb i unrhyw wallau a/neu faterion sy'n codi yn yr adroddiad, yw £136,300.
- 7.41 Amcangyfrifir felly mai cyfanswm y gost sy'n gysylltiedig â'r broses arolygu bresennol i ddarparwyr gwasanaethau yw tua £1,768,800 y flwyddyn.
- 7.42 Ni fyddai unrhyw fanteision na chostau ychwanegol i gadw'r sefyllfa bresennol. Bydd defnyddwyr gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr, yr awdurdodau lleol a threthdalwyr yn parhau i gael y manteision a'r costau sy'n gysylltiedig â'r system reoleiddio bresennol.

Costau i awdurdodau lleol

- 7.43 Ar hyn o bryd mae'n rhaid i awdurdodau lleol baratoi Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ac, ar gyfer y gwasanaethau hynny a ddarperir yn uniongyrchol, adroddiad am ansawdd pob lleoliad gwasanaeth drwy Ddatganiad Hunanasesu'r Gwasanaeth a'r Adroddiad Blynyddol ar Ansawdd y Gwasanaeth.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol

- 7.44 Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru, yn Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, hysbysu pa mor effeithiol y mae

¹⁶ Yn seiliedig ar gyflog blynyddol cyfartalog rheolwr gofal cartref o £30,766 ac ar gostau o £9,366, gan roi cyfanswm o £40,132 y flwyddyn am wythnos waith 37 awr (Curtis, 2013). Gan dybio y rhoddir chwe wythnos o wyliau blynyddol, y gost wythnosol yw £872.43 a chost diwrnod yw £87.24.

gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod wedi bod o ran diwallu anghenion a chyflawni rhwymedigaethau statudol. Caiff yr adroddiadau eu paratoi yn unol â Fframwaith Adroddiadau Blynyddol y Cynghorau (Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol, 2009)¹⁷ ac mae'n golygu casglu a dadansoddi data sy'n ymwneud â thair thema:

- Capasiti'r sefydliad.
- Gwasanaeth cyffredinol (diogelu plant, diogelu oedolion, a gofalwyr).
- Gwasanaethau ar gyfer grwpiau penodol (gan gynnwys, er enghraifft, plant mewn angen a phobl ag anableddau corfforol).

7.45 Mae effeithiolrwydd yn cynnwys perfformiad fel y'i mesurir gan ddangosyddion perfformiad, ond mae hefyd yn cynnwys amrediad ehangach o faterion megis, sut y mae canlyniadau'n cael eu gwella i unigolion? Wrth wneud yr asesiad hwn, bydd awdurdodau lleol yn gofyn pedwar cwestiwn sylfaenol. O ran rheoleiddio sy'n seiliedig ar ganlyniadau, rhaid i awdurdodau lleol ystyried:

- A yw canlyniadau gweithredoedd y gwasanaeth yn cael eu monitro'n briodol ac a yw gwersi'n cael eu dysgu a chymau gweithredu'n cael eu cymryd? Hynny yw, a oes mecanweithiau da er mwyn asesu canlyniad/effaith yr hyn sy'n cael ei wneud?
- A yw'r sefydliad yn deall pa argraff sydd gan ei ddefnyddwyr o'r gwasanaeth y maent yn ei dderbyn ac a yw'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i wella gwasanaethau? Hynny yw, a oes adborth da ar brofiad gwirioneddol defnyddwyr? (Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol, 2009:13).

Datganiad Hunanasesu'r Gwasanaeth ac Adroddiad Blynyddol ar Ansawdd y Gwasanaeth

¹⁷ Mae'r gwaith ar ddatblygu'r fframwaith hwn ar gyfer adroddiadau blynyddol yn deillio o ymrwymiad gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i gyflwyno adroddiad agored a phrydlon ar effeithiolrwydd ac i gysylltu'r adroddiad hwnnw ar frys â gwelliant a gynllunnir a gwelliant parhaus.

7.46 Ni fu modd cyfrifo costau presennol paratoi Datganiad Hunanasesu'r Gwasanaeth a'r Adroddiad Blynyddol ar Ansawdd y Gwasanaeth i'r awdurdodau lleol¹⁸.

7.47 O dan opsiwn un, bydd y system bresennol yn cael ei chynnal. Ni fydd awdurdodau lleol felly yn ysgwyddo unrhyw gostau ychwanegol.

Tabl 4: crynodeb o'r costau sy'n gysylltiedig â chynnal y dull presennol o reoleiddio ac arolygu (opsiwn un)

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|--|------------------|------------------|------------------|------------------|------------------|
| Rheoleiddiwr y gwasanaeth ¹ | 2,984,520 | 2,984,520 | 2,984,520 | 2,984,520 | 2,984,520 |
| Darparwyr gwasanaethau ² | 1,768,800 | 1,768,800 | 1,768,800 | 1,768,800 | 1,768,800 |
| Cyfanswm y gost | 4,753,320 | 4,753,320 | 4,753,320 | 4,753,320 | 4,753,320 |

¹Y ffigur hwn yw'r amcangyfrif o gyfanswm y gost i reoleiddiwr y gwasanaeth wrth arolygu sefydliadau ac asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau.

²Y ffigur hwn yw'r amcangyfrif o gyfanswm y gost i ddarparwyr gwasanaethau annibynnol mewn cysylltiad ag arolygiadau. Fel y nodir uchod, ni fu modd cyfrifo faint mae'r dull presennol o reoleiddio ac arolygu yn ei gostio i awdurdodau lleol ar hyn o bryd.

Opsiwn dau: integreiddio model rheoleiddio sy'n seiliedig ar berfformiad â'r dull presennol o reoleiddio

Costau rheolaidd i reoleiddiwr y gwasanaeth

7.48 Caiff y canlyniadau i bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a'u profiadau o'r gwasanaeth hwnnw eu hasesu fel rhan o'r broses arolygu ar hyn o bryd. Mae'r graddau y caiff canlyniadau eu hasesu yn dibynnu ar y math o adolygiad sy'n cael ei gynnal. Mae arolygiadau sylfaenol, er enghraifft, yn systematig ac yn rhoi ystyriaeth i brofiadau a chanlyniadau'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth (AGGCC, 2013a). Mae arolygiadau rheolaidd â phwyslais penodol yn canolbwyntio ar un o'r pedair thema ansawdd. Mae'n golygu bod angen i arolygwyr siarad â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a defnyddio sgiliau arsylwi a gwranddo, a'u greddf.

¹⁸ Nid yw'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gallu cyfrifo costau paratoi'r adroddiadau blynyddol. Y rheswm am hyn yw bod arferion gwahanol awdurdodau yn amrywio'n sylweddol. Mae gan rai awdurdodau swyddogion arbennig sy'n gyfrifol am baratoi adroddiadau. Mae gan eraill swyddogion sy'n gwneud hyn fel rhan o swyddogaeth ehangach. Mae eraill yn dirprwyo'r dasg i nifer o aelodau staff sy'n paratoi agweddau penodol ar yr adroddiad er mwyn ei roi at ei gilydd rhywle arall. Yn ogystal, mae elfen o amser uwch reolwyr ac amser aelodau etholedig sy'n cyfrannu at y broses.

7.49 Mae AGGCC wedi cadarnhau na fydd unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig ag integreiddio dull o reoleiddio ac arolygu sy'n seiliedig ar ganlyniadau â'r dull presennol, gan ei bod wedi symud tuag at y dull hwn o reoleiddio ac arolygu yn sgil mabwysiadu'r Fframwaith Arsylwi Cryno ar gyfer Arolygu yn 2012. Ystyriwyd bod unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn yn rhan o'r broses o gyflwyno fframwaith dyfarnu ansawdd. Disgwylir felly y bydd y gost yn aros yr un fath i reoleiddiwr y gwasanaeth, sef £2,984,520 y flwyddyn.

Costau pontio i reoleiddiwr y gwasanaeth

7.50 Mae AGGCC wedi cadarnhau na fydd costau pontio'n deillio o weithredu dull o reoleiddio ac adolygu sy'n seiliedig ar ganlyniadau, gan fod y dull hwn yn cael ei weithredu ar hyn o bryd. Ystyriwyd bod unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn yn rhan o'r broses o gyflwyno fframwaith dyfarnu ansawdd.

Costau rheolaidd i ddarparwyr gwasanaethau

7.51 Ni chaiff unrhyw gostau rheolaidd ychwanegol eu creu i ddarparwyr gwasanaethau trwy gyflwyno dulliau rheoleiddio ac arolygu sy'n seiliedig ar berfformiad.

7.52 Mae rheoliadau presennol yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau sefydlu a chynnal system ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a roddir i bobl, ac adolygu ansawdd y gofal hwnnw a chyflwyno adroddiad i awdurdodau perthnasol. Mae darparwyr gwasanaethau yn cyflwyno adroddiad i reoleiddiwr y gwasanaeth trwy'r Datganiad Hunanasesu'r Gwasanaeth a'r Adroddiad Ansawdd Blynyddol.

7.53 Mae darparwyr gwasanaethau wedi bod yn symud yn raddol tuag at gyflwyno adroddiadau sy'n dangos i ba raddau y mae canlyniadau'n cael eu cyflawni i'r unigolion sy'n defnyddio eu gwasanaethau.

7.54 Fel y nodir yn ffurflen y Datganiad Hunanasesu'r Gwasanaeth, 'er y byddwn yn parhau i ystyried y safonau gofynnol, bydd ein harolygiadau'n canolbwyntio fwyfwy ar brofiad y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a'r canlyniadau iddynt' (AGGCC, nd:1).

7.55 Yn ogystal, mae darparwyr gwasanaethau yn defnyddio arolygon i gasglu data i'w cyflwyno yn eu hadroddiad blynyddol ar ansawdd y gofal. Mae'r arolwg yn casglu barn preswylwyr, eu cynrychiolwyr, gweithwyr proffesiynol ac aelodau staff. Mae darparwyr gwasanaethau felly eisoes yn defnyddio'r dull o gasglu data allweddol a ddefnyddir i gasglu data ynglŷn â chanlyniadau'r gwasanaeth i ddefnyddwyr y gwasanaeth. Disgwylir felly mai £1,768,800 y flwyddyn fydd y gost reolaidd i ddarparwyr gwasanaethau annibynnol o hyd.

Costau pontio i ddarparwyr gwasanaethau

7.56 Disgwylir y bydd rhai newidiadau i'r adnoddau a ddefnyddir gan ddarparwyr gwasanaethau i gasglu data ar hyn o bryd, o ran y cwestiynau a ofynnir¹⁹.

7.57 Gan gymryd y bydd angen i reolwr y gwasanaeth a gweinyddwr dreulio hanner diwrnod yr un yn addasu adnoddau casglu data presennol, amcangyfrifir mai'r gost cyfle fesul darparwr gwasanaeth fydd tua £136²⁰. Disgwylir mai tua £242,100 felly fydd cyfanswm y costau cyfle i'r 1,780 lleoliad yng Nghymru.

7.58 Yn ogystal, disgwylir y bydd yn rhaid i ddarparwyr gwasanaethau dreulio rhywfaint o amser yn ymgyswrtio â'r system newydd.

7.59 Gan gymryd y bydd angen i reolwr y gwasanaeth a gweinyddwr dreulio diwrnod yr un yn ymgyswrtio â'r anghenion casglu data a chyflwyno adroddiadau sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn, amcangyfrifir mai £272²¹ fydd y gost cyfle fesul darparwr

¹⁹ Mae UKHCA a Fforwm Gofal Cymru wedi awgrymu nad yw'n bosibl amcangyfrif yn gywir faint fydd y costau pontio cysylltiedig â gweithredu'r drefn newydd, o ran newid dogfennau, systemau ac arferion cysylltiedig â chasglu data a dadansoddi data. Y rheswm am hyn yw nad yw manylion y gofynion yn hysbys ar hyn o bryd.

²⁰ Yn seiliedig ar gyflog blynyddol cyfartalog rheolwr gofal cartref o £30,766 ac ar gostau o £9,366, gan roi cyfanswm o £40,132 y flwyddyn am wythnos waith o 37 awr (Curtis, 2013). Gan gymryd y rhoddir chwe wythnos o wyliau blynyddol, y gost wythnosol yw £872.43 a chost hanner diwrnod yw £87.24.

Ym mis Ebrill 2013, roedd galwedigaethau gweinyddol ac ysgrifenyddol yn ennill £399.60 yr wythnos (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2013) neu £20,779.20 y flwyddyn. Cyfanswm y cyflog gan gynnwys argostau yw £22,549 y flwyddyn. Mae hyn yn seiliedig ar y dybiaeth nad yw'r cyflogwr yn cyfrannu at gynllun pensiwn. Gan gymryd y rhoddir chwe wythnos o wyliau, gan gynnwys gwyliau'r banc, y gost wythnosol yw £490.16, sy'n rhoi cost amcangyfrifedig o £49 fesul hanner diwrnod.

²¹ Yn seiliedig ar gyflog blynyddol cyfartalog rheolwr gofal cartref o £30,766 ac ar gostau o £9,366, gan roi cyfanswm o £40,132 y flwyddyn am wythnos waith 37 awr (Curtis, 2013). Gan gymryd bod chwech wythnos o wyliau blynyddol, y gost wythnosol yw £872.43 a chost hanner diwrnod yw £87.24.

Ym mis Ebrill 2013, roedd galwedigaethau gweinyddol ac ysgrifenyddol yn ennill £399.60 yr wythnos (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2013) neu £20,779.20 y flwyddyn. Gan ddefnyddio cyfrifydd argostau Prifysgol Caerfaddon (Prifysgol Caerfaddon, 2014) cyfanswm y cyflog gan gynnwys argostau yw £22,549 y flwyddyn. Mae hyn yn seiliedig ar y dybiaeth nad yw'r cyflogwr yn cyfrannu at gynllun pensiwn. Gan gymryd y rhoddir chwe wythnos o wyliau, gan gynnwys gwyliau'r banc, y gost wythnosol yw £490.16, sy'n rhoi cost amcangyfrifedig o £49 fesul hanner diwrnod.

gwasanaeth. Disgwylir mai tua £484,200 fydd cyfanswm cost y cyfle i'r 1,780 lleoliad yng Nghymru felly.

7.60 Amcangyfrifir felly mai cyfanswm y gost pontio i ddarparwyr gwasanaethau fydd tua £726,300. Disgwylir i'r costau pontio hyn ddigwydd yn 2016-17.

Costau pontio i awdurdodau lleol mewn cysylltiad â'u swyddogaethau statudol

7.61 Ni fydd unrhyw gostau pontio i awdurdodau lleol mewn cysylltiad â'u swyddogaethau statudol o dan opsiwn dau. Cyflwynodd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) dull integredig o asesu perfformiad swyddogaethau gofal cymdeithasol statudol awdurdodau lleol.

7.62 Bydd dangosyddion perfformiad safonau a chanlyniadau'n cael eu defnyddio i asesu'r canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau o'u cymharu â'r Datganiad Llesiant ar gyfer Pobl sydd Angen Gofal a Chymorth a Gofalwyr sydd Angen Cymorth (Llywodraeth Cymru, 2013).

Tabl 5: crynodeb o'r costau sy'n gysylltiedig ag integreiddio model rheoleiddio seiliedig ar berfformiad â'r dull presennol o reoleiddio (opsiwn dau)

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|--|------------------|------------------|------------------|------------------|------------------|
| Rheoleiddiwr y gwasanaeth ¹ | 2,984,520 | 2,984,520 | 2,984,520 | 2,984,520 | 2,984,520 |
| Darparwyr gwasanaethau | | | | | |
| Pontio | 726,300 | | | | |
| Rheolaidd | 1,768,800 | 1,768,800 | 1,768,800 | 1,768,800 | 1,768,800 |
| Cyfanswm y gost | 5,479,620 | 4,753,320 | 4,753,320 | 4,753,320 | 4,753,320 |

¹Mae unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â gweithredu dull o reoleiddio seiliedig ar berfformiad wedi eu cynnwys yn y costau sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r Fframwaith Dyfarnu Ansawdd.

Manteision

Opsiwn un: peidio â gwneud dim

7.63 Ni fyddai unrhyw fanteision ychwanegol yn gysylltiedig â chadw'r system bresennol. Bydd manteision a chostau'r system reoleiddio bresennol yn dal yn berthnasol i ddefnyddwyr gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr, awdurdodau lleol a threthdalwyr.

Opsiwn dau: cyflwyno model rheoleiddio sy'n seiliedig ar ganlyniadau

7.64 Trafodir y manteision sy'n gysylltiedig ag opsiwn dau mewn perthynas â:

- Manteision cyflwyno dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau er mwyn cyfrannu at wella gwasanaethau a chyfrannu at ddyfarniadau ynglŷn ag ansawdd.
- Manteision integreiddio dull o reoleiddio sy'n seiliedig ar ganlyniadau â'r dull presennol.

Cyflwyno dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau er mwyn cyfrannu at wella gwasanaethau

7.65 At ddiben gwella gwasanaethau, ni fyddai data am ganlyniadau'n cael eu defnyddio fel mesur diffiniol o berfformiad. Yn hytrach, byddai'n cael ei ddefnyddio gan ddarparwyr gwasanaethau, comisiynwyr a rheoleiddiwr y gwasanaeth i ddangos lle y mae angen rhagor o ymchwil a gweithredu.

Darparwyr gwasanaethau

7.66 Byddai modd i ddarparwyr gwasanaethau werthuso'n rheolaidd i ba raddau y mae gweithgareddau a gynhelir yn gwneud gwahaniaeth i fywydau defnyddwyr y gwasanaeth. Byddai hyn yn rhoi cyfle i sefydlu strategaethau er mwyn sicrhau bod y dull o gyflwyno gwasanaethau'n canolbwyntio'r ar gyflawni canlyniadau. Byddai'n gyfle hefyd i ddangos i ba raddau mae'r gwasanaeth yn arwain at ganlyniad cadarnhaol i'w cleientiaid.

Comisiynwyr gwasanaethau

7.67 Mae comisiynwyr gwasanaethau hefyd yn debygol o elwa gan y bydd yn rhoi syniad yn rhwydd iddynt o allu darparwyr gwasanaethau i gyflawni canlyniadau ar gyfer grwpiau penodol o unigolion. Nid oes disgwyl y bydd hyn yn arwain at leihau'r costau i gomisiynwyr. Disgwylir yn hytrach y bydd yn cael ei ddefnyddio fel gwybodaeth ychwanegol pan fydd dogfennau tendro contractwr yn cael eu hasesu.

Rheoleiddwyr y gwasanaeth

7.68 Gallai rheoleiddiwr y gwasanaeth ddefnyddio'r data am ganlyniadau fel rhan o'r broses arolygu. Gallai'r data hyn alluogi rheoleiddiwr y gwasanaeth i asesu i ba raddau y mae canlyniadau'n cael eu cyflawni ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth, adnabod lle y mae angen gwneud mwy i sicrhau bod y modd y cyflwynir y gwasanaeth

yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau i gleientiaid, a holi pa gamau y bydd darparwyr yn eu cymryd i hwyluso unrhyw newidiadau angenrheidiol wrth drefnu adnoddau er mwyn cyflawni canlyniadau.

Defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr a'u teuluoedd

7.69 Byddai modd i ddefnyddwyr gwasanaethau, eu gofalwyr a'u teuluoedd ddefnyddio'r data perfformiad, a fyddai'n cael eu cyhoeddi mewn adroddiadau blynyddol, i gyfrannu at drafodaethau a phenderfyniadau ynglŷn â dewis darparwr gwasanaeth. Pan nad oes gan ddefnyddwyr y gwasanaeth ddewis pa ddarparwr i'w ddefnyddio, megis pan fydd gofal cartref yn cael ei ariannu o'r pwrs cyhoeddus, gellir cymharu perfformiad y darparwr â darparwyr eraill a/neu gallai defnyddwyr y gwasanaeth ddefnyddio'r wybodaeth i gefnogi'r galw am wella'r gwasanaeth.

7.70 Mae'r arian y gellid ei arbed i ddefnyddwyr gwasanaethau, eu gofalwyr a'u teuluoedd yn cynnwys costau'n gysylltiedig â theithio at lai o ddarparwyr gofal er mwyn asesu ansawdd y gofal. Cyfeirir at gostau o'r fath fel costau chwilio.

Darparwyr gwasanaethau

7.71 Mae darparwyr gwasanaethau sy'n darparu gwasanaethau o ansawdd uchel yn debygol o elwa hefyd, gan y bydd yn hawdd i gomisiynwyr a defnyddwyr gwasanaethau, eu gofalwyr a'u teuluoedd eu hadnabod.

Integreiddio dull o reoleiddio sy'n seiliedig ar ganlyniadau â'r model rheoleiddio presennol

7.72 Trwy gyflwyno model rheoleiddio sy'n seiliedig ar ganlyniadau, byddai pwyslais y gwaith rheoleiddio ac arolygu yn symud oddi wrth brofiad yr unigolion sy'n defnyddio gofal cymdeithasol ac oddi wrth gydymffurfio â safonau gofynnol a rheoliadau, at y canlyniadau i'r unigolion sy'n derbyn gofal cymdeithasol.

7.73 Er y gellir darparu'r 'darn coll o'r jig-so gwybodaeth' o ran arfarnu a gwella gwasanaethau gofal cymdeithasol a chynyddu atebolrwydd i'r cyhoedd ac i gyrrff rheoleiddio, trwy asesu o gymharu â chanlyniadau, nid yw'n ddigon ynddo'i hun.

- 7.74 Yn gyntaf, trwy gyfnewid trefn reoleiddio amddiffynnol am drefn sy'n seiliedig ar berfformiad byddai pwyslais y gwaith rheoleiddio ac arolygu yn symud at y canlyniadau i ddefnyddwyr y gwasanaethau, ond mae perygl y byddai'n gadael defnyddwyr gwasanaethau yn agored i'r posibilrwydd o gael eu hesgeuluso, trwy i wasanaethau beidio â chydymffurfio â safonau gofal gofynnol a chodau ymddygiad proffesiynol.
- 7.75 Yn ail, mae nifer o heriau sy'n gysylltiedig â'r defnydd ymarferol o drefn reoleiddio sy'n seiliedig ar berfformiad. Gall y broses arolygu fod yn llai pendant ac yn fwy cymhleth; gall tryloywder ac atebolrwydd fod yn anos; a gall gweithdrefnau o'r fath gael effeithiau ar ddarparwyr gwasanaethau a ran cydraddoldeb, a gwahanol effeithiau ar wahanol unigolion.
- 7.76 Yn drydydd, mae'n anos asesu canlyniadau nag asesu cydymffurfiad â safonau. Mae trefn sy'n seiliedig ar ganlyniadau'n golygu symud oddi wrth arolygiad sy'n seiliedig ar fesurau gwrthrychol, sy'n hawdd arsylwi arnynt a'u cofnodi, tuag at asesiad o berfformiad sy'n seiliedig ar ddata goddrychol, nad ydynt yn hawdd arsylwi arnynt na'u cofnodi.
- 7.77 Trwy gyfuno dull rheoleiddio amddiffynnol a rheoleiddio sy'n seiliedig ar berfformiad, ceir potensial i fanteisio ar gryfderau'r dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau yn ogystal â'r dull amddiffynnol (cydymffurfio â safonau) er mwyn cydbwysu'r cyfyngiadau a allai godi o ddefnyddio trefn reoleiddio sy'n seiliedig ar ganlyniadau yn unig.
- 7.78 Yn benodol, trwy gyfuno'r ddau ddull bydd modd canfod esgeulustod gweithdrefnol ac esgeulustod o ran gofal²² a bydd yn rhoi mwy o gyfle i ddod o hyd i achosion o gamdriniaeth. Hynny yw, trwy gyfuno'r ddau ddull bydd yn haws dod o hyd i ofal o

²² Mae esgeulustod gweithdrefnol yn cyfeirio at ddiffygion sy'n golygu nad yw gofal yn cyrraedd safonau sefydliadol a phroffesiynol y gellir eu harsylwi (megis codau ymarfer a safonau gofynnol). Gallai enghreifftiau o esgeulustod gweithdrefnol gynnwys peidio â bwydo/rhoi diod i ddefnyddwyr gwasanaethau neu beidio â chadw cofnodion cywir ar eu cyfer. Mae esgeulustod gweithdrefnol yn esgeulustod a ddynodir gan y system, gan y'i diffinnir gan dorri safon proffesiynol neu safon y sefydliad, ac mae'n rhoi pwyslais ar fesurau y gellir eu harsylwi a'u mesur yn hawdd. Mae esgeulustod o ran gofal yn cyfeirio at ddiffygion mewn gofal nad ydynt yn cyrraedd y trothwy i fod yn esgeulustod gweithdrefnol ac sy'n annhebygol o achosi niwed uniongyrchol, ond sy'n peri i ddefnyddwyr y gwasanaeth a'u teuluoedd gredu bod aelodau staff yn ddifater ynglŷn â lles emosiynol a chorfforol defnyddwyr y gwasanaeth. Gallai esgeulustod o ran gofal gynnwys peidio â thrin defnyddwyr gwasanaethau â pharch na thrugaredd, neu ddiystyru eu pryderon.

ansawdd gwael neu esgeulustod mewn dau ddimensiwn gofal: esgeulustod gweithdrefnol ac esgeulustod o ran gofal. Trwy gyfuno'r ddau ddull, dylai fod yn haws symud oddi wrth natur hynod gaeth gweithdrefnau amddiffynnol ac annog arloesedd.

Crynodeb a'r opsiwn a ffefrir

7.79 Mae'r newid ar draws y gwasanaethau cyhoeddus tuag at ddull gwaith sy'n seiliedig ar yr effaith ar fywydau pobl yn glir ac yn gyson. Cadarnhaodd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) mai dyma'r cyfeiriad mae gofal cymdeithasol yn mynd iddo yng Nghymru. Mae'r sefyllfa gyfreithiol bresennol yn dibynnu'n ormodol ar gyfres o safonau proses nad ydynt o reidrwydd yn gysylltiedig ag ansawdd bywyd yr unigolion sy'n derbyn gofal cymdeithasol. Mae'r rheoleiddiwr yn amlwg wedi sylweddoli beth yw cyfyngiadau'r system bresennol ac wedi cymryd camau breision er mwyn moderneiddio ei ddull gweithio. Mae Opsiwn dau felly yn cefnogi ac yn cyfnerthu'r agwedd hon ac yn cadw elfen amddiffynnol y drefn bresennol ar yr un pryd. Mae opsiwn dau hefyd yn cysoni trefn reoleiddio gwasanaethau â'r hyn a sefydlir yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

7.80 Am y rhesymau uchod, opsiwn dau yw'r dull a ffefrir.

Adroddiadau blynyddol

7.81 Gweler adrannau 34 a 55 o Fil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) ar gyfer y darpariaethau sy'n ymwneud â chynnwys adroddiadau blynyddol a'r gofynion o ran cyhoeddi.

Opsiynau

7.82 Yr opsiynau yw:

- Opsiwn un: peidio â gwneud dim.
- Opsiwn dau: cyflwyno adroddiadau blynyddol wedi'u safoni, sydd ar gael i'r cyhoedd, gan ddarparwyr gwasanaethau ac adroddiadau wedi'u safoni ar swyddogaethau statudol awdurdodau lleol.

Opsiwn un: peidio â gwneud dim

7.83 O dan yr opsiwn hwn, bydd darparwyr awdurdodau lleol a darparwyr annibynnol yn parhau i gyflwyno adroddiad i reoleiddiwr y gwasanaeth yn flynyddol trwy eu Datganiad Hunanasesu'r Gwasanaeth a'r Adroddiad Blynyddol ar Ansawdd y Gofal.

7.84 Ni fyddai'r adroddiadau a fyddai'n cael eu paratoi gan ddarparwyr gwasanaethau'n cael eu cyhoeddi fel mater o drefn, ond byddent yn dal i gael eu defnyddio gan reoleiddiwr y gwasanaeth i gyfrannu at yr arolygiad o'r gwasanaethau gofal cymdeithasol ac wrth baratoi'r adroddiad arolygu blynyddol.

7.85 Yn ogystal, byddai pob awdurdod lleol yn dal i allu dewis cynnwys a fformat yr adroddiad blynyddol (Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol) y mae'n ei baratoi ynglŷn â'r modd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau gofal cymdeithasol statudol.

Opsiwn dau: cyflwyno adroddiadau blynyddol sydd ar gael i'r cyhoedd

7.86 Bydd opsiwn dau yn ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr gwasanaeth baratoi adroddiadau blynyddol a bydd yn ofynnol i reoleiddiwr y gwasanaeth gyhoeddi'r adroddiadau blynyddol hynny.

7.87 Bydd yr adroddiadau blynyddol yn cael eu cyflwyno i reoleiddiwr y gwasanaeth, a byddant yn rhan o'r hyn sy'n ofynnol gan ddarparwyr gwasanaethau annibynnol er mwyn aros ar y gofrestr. Bydd yr adroddiadau hyn, yn ogystal â'r adroddiadau arolygu gan reoleiddiwr y gwasanaeth, ar gael i'r cyhoedd. Cynigir y gallai'r adroddiadau blynyddol gynnwys:

- Tystiolaeth ynglŷn â disgwyliadau a chanlyniadau i ddefnyddwyr a gofalwyr.
- Aelodau staff a gyflogir a'u datblygiad.
- Cofnod o gwynion a chamau a gymerwyd - gan aelodau staff a dinasyddion.
- Gwybodaeth ariannol briodol.
- Trefniadau llywodraethu corfforaethol.
- Trefniadau cynllunio wrth gefn.

7.88 Bydd fformat yr adroddiadau hyn yn cael ei sefydlu yn y rheoliadau a disgwyllir y byddant yn cael eu safoni ar draws y gwasanaethau.

7.89 Bydd opsiwn dau hefyd yn golygu bod Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ofyniad deddfwriaethol. Bydd cynnwys yr adroddiad yn cael ei sefydlu yn y rheoliadau er mwyn sicrhau ei fod yn gyson ar draws pob awdurdod lleol, gyda'r bwriad o'i gwneud yn haws cymharu ansawdd y ddarpariaeth ar draws awdurdodau lleol.

Costau

Opsiwn un: peidio â gwneud dim

Darparwyr gwasanaethau annibynnol

7.90 Mae UKHCA wedi amcangyfrif y byddai'n cymryd tua 24 awr o waith i ddarparwr gwasanaeth bach²³ gwblhau'r hunanasesiad. Rheolwr y sefydliad neu'r asiantaeth a fyddai'n gwneud hynny fel arfer. Amcangyfrifir mai £565.90²⁴ yw cost paratoi Datganiad Hunanasesu'r Gwasanaeth. Felly amcangyfrifir mai £883,900 y flwyddyn yw cost cwblhau'r 1,562 hunanasesiad i'r 946 darparwr gofal cymdeithasol.

7.91 Mae UKHCA wedi awgrymu y byddai'n cymryd tua phedwar diwrnod gwaith i ddarparwr gwasanaeth bach gasglu a dadansoddi'r data y mae eu hangen ar gyfer adroddiad blynyddol ar ansawdd y gwasanaeth. Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, casglu a dadansoddi data gweinyddol a data'r arolwg²⁵.

7.92 Mae rheolwr y gwasanaeth fel arfer yn dirprwyo'r gwaith o gasglu a dadansoddi data i'r aelodau staff sydd yn y sefyllfa orau i wneud y dasg²⁶. Gan dybio bod y dasg yn cael ei neilltuo i aelod o staff sydd ar gyflog gweinyddol, amcangyfrifir mai tua £392²⁷ fesul lleoliad fydd cost casglu a dadansoddi data ar gyfer yr hunanasesiad.

²³ Asiantaethau gofal cartref yw'r rhan fwyaf o aelodau UKHCA.

²⁴ Yn seiliedig ar gyflog blynyddol cyfartalog rheolwr gofal cartref o £30,766 (Curtis, 2013) ac ar gostau o £9,366, gan roi cyfanswm cost cyflog o £40,132 y flwyddyn. Y gost wythnosol, gan dybio y rhoddir chwe wythnos o wyliau blynyddol gan cynnwys gwyliau'r banc yw £872.43. Gan dybio bod yr wythnos waith yn 37 awr (Curtis, 2013), y gost yr awr yw £23.60. Cyfanswm y gost am 24 awr felly yw £565.90.

²⁵ Mae darparwyr gwasanaethau'n cynnal arolwg sy'n canolbwyntio ar farn defnyddwyr y gwasanaeth, teuluoedd, gofalwyr, rheolwyr gofal a rhanddeiliaid er mwyn asesu ansawdd eu gwasanaeth. Caiff canfyddiadau'r arolwg eu cynnwys yn adroddiad blynyddol y darparwr ar ansawdd y gwasanaeth.

²⁶ Ffynhonnell: gohebiaeth gyda Chymdeithas Gofal Cartref y DU.

²⁷ Ym mis Ebrill 2013, roedd galwedigaethau gweinyddol ac ysgrifenyddol yn ennill £399.60 yr wythnos (Swyddfa Ystaegau Gwladol, 2013) neu £20,779.20 y flwyddyn. Cyfanswm y cyflog gan gynnwys argostau yw £22,549 y flwyddyn. Mae hyn yn seiliedig ar y dybiaeth nad yw'r cyflogwr yn cyfrannu at gynllun pensiwn. Gan dybio y rhoddir chwe wythnos o wyliau blynyddol, gan gynnwys gwyliau'r banc, y gost yw £490 yr wythnos neu £98 y dydd. Felly y gost am bedwar diwrnod yw £392.

Felly cost flynyddol casglu a dadansoddi data ar gyfer y 1,562 o leoliadau yng Nghymru i'r 946 o ddarparwyr gofal cymdeithasol annibynnol yw £612,300 y flwyddyn.

7.93 Amcangyfrifir mai cyfanswm y gost bresennol i ddarparwyr gwasanaethau yn gysylltiedig â chasglu, dadansoddi a chyflwyno data i gyfrannu at y broses arolygu yw tua £1,496,200 y flwyddyn.

Awdurdodau lleol

7.94 Nid fu modd cyfrifo faint y mae'n ei gostio i awdurdodau lleol baratoi'r Datganiad Hunanasesu'r Gwasanaeth, yr Adroddiad Blynyddol ar Ansawdd y Gwasanaeth nac Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol²⁸.

Cost i reoleiddiwr y gwasanaeth

7.95 Mae rheoleiddiwr y gwasanaeth yn defnyddio Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, yn ogystal â gwybodaeth arall a ddarperir gan awdurdodau lleol megis data perfformiad, wrth baratoi Adolygiad Blynyddol a Gwerthusiad o Berfformiad pob awdurdod lleol yng Nghymru. Er mwyn sicrhau dull cyson, tryloyw a chymesur o adolygu a gwerthuso perfformiad awdurdodau lleol, mae rheoleiddiwr y gwasanaeth yn defnyddio cymedrolwyr annibynnol i gymedroli perfformiad pob awdurdod lleol.²⁹

7.96 Mae rheoleiddiwr y gwasanaeth wedi amcangyfrif bod tua 10% o gyfanswm eu costau blynyddol (£1,440,000) yn cael ei wario ar fonitro perfformiad swyddogaethau gwasanaeth cymdeithasol statudol awdurdodau lleol. Mae hyn yn cynnwys arolygiadau thematig, adolygiadau ac arolygiadau a gynhelir ar y cyd â chyrrff arolygu eraill. Caiff y gost o gynhyrchu'r Adolygiad a'r Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru ei ysgwyddo fel rhan o'r gwaith y mae rheoleiddiwr y gwasanaeth yn ymgymryd ag ef wrth fonitro perfformiad swyddogaethau statudol y gwasanaethau cymdeithasol.

²⁸ Nid yw'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gallu cyfrifo costau paratoi'r adroddiadau blynyddol. Y rheswm am hyn yw bod arferion gwahanol awdurdodau yn amrywio'n sylweddol. Mae gan rai awdurdodau swyddogion arbennig sy'n gyfrifol am baratoi adroddiadau. Mae gan eraill swyddogion sy'n gwneud hyn fel rhan o swyddogaeth ehangach. Mae eraill yn dirprwyo'r dasg i nifer o aelodau staff sy'n paratoi agweddau penodol ar yr adroddiad er mwyn ei roi at ei gilydd rhywle arall. Yn ogystal, mae elfen o amser uwch reolwyr ac amser aelodau etholedig sy'n cyfrannu at y broses.

²⁹ Cost y gwaith cymedroli annibynnol yw £2,000.

7.97 Mae cost paratoi Adolygiad Blynyddol a Gwerthusiad o Berfformiad ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru'n cael ei dalu fel rhan o'r gwaith a wneir gan reoleiddiwr y gwasanaeth i fonitro perfformiad swyddogaethau statudol y gwasanaeth cymdeithasol. Mae rheoleiddiwr y gwasanaeth wedi amcangyfrif mai £350,000 y flwyddyn yw cyfanswm y gost o baratoi Adolygiad Blynyddol a Gwerthusiad o Berfformiad ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru.

7.98 Er bod gofyn i Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cyhoeddus gyflwyno adroddiad am amrywiaeth benodedig o bynciau, nid oes templed penodol ar gyfer yr adroddiadau. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i ddefnyddwyr gwasanaethau ac i'r cyhoedd yn gyffredinol gymharu ansawdd gwasanaethau ar draws awdurdodau lleol. Nodwyd mewn adolygiad diweddar o ddarpariaeth gofal cymdeithasol mewn ardaloedd awdurdodau lleol ar draws Cymru (Garthwaite et al., 2011) ei bod yn anodd cymharu'r data a gesglir yn Adroddiadau Blynyddol Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol. Nododd Garthwaite et al. eu bod wedi wynebu heriau sylweddol yn nhermau ymchwil wrth ddefnyddio Adroddiadau Blynyddol Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol fel y ffynhonnell ddata ar gyfer eu dadansoddiad, gan y bu raid iddynt ddadansoddi dros 700 tudalen o destun rhydd. Trwy sefydlu dull safonol o gyflwyno adroddiadau, byddai'n haws i reoleiddiwr y gwasanaeth ac i ddinasyddion gymharu gwasanaethau ar draws awdurdodau lleol.

Defnyddwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol

7.99 Nid yw'r system bresennol yn rhoi gwybodaeth gynhwysfawr a chadarn i ddefnyddwyr gwasanaethau na'r cyhoedd yn gyffredinol, yn glŷn ag ansawdd y gwasanaethau gofal cymdeithasol. Nid oes modd i ddefnyddwyr y gwasanaethau na'r cyhoedd yn gyffredinol asesu, na herio, perfformiad darparwyr gwasanaethau oherwydd nad oes gwybodaeth gadarn ar gael. Mae hyn yn golygu mai rheoleiddiwr y gwasanaethau sy'n llwyr gyfrifol am hyn (Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru et al, 2011).

7.100 Mae'r costau posibl i ddefnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr a'u teuluoedd yn cynnwys costau sy'n gysylltiedig â gofal gwael ac, mewn achosion eithriadol, costau gorfod symud oddi wrth un darparwr gwasanaeth at un arall.

Tabl 6: costau'n gysylltiedig ag adroddiadau blynyddol: peidio â gwneud dim (opsiwn un)

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|--|----------------|----------------|----------------|----------------|----------------|
| Rheoleiddiwr y gwasanaeth | | | | | |
| Darparu gwasanaeth ¹ | | | | | |
| Swyddogaethau statudol yr ALI | 350,000 | 350,000 | 350,000 | 350,000 | 350,000 |
| Darparwyr gwasanaeth annibynnol ² | | | | | |
| Awdurdod lleol | | | | | |
| Darparu gwasanaeth | | | | | |
| Swyddogaethau statudol | | | | | |
| Cyfanswm y gost | 350,000 | 350,000 | 350,000 | 350,000 | 350,000 |

¹ Mae'r gost hon wedi ei chynnwys yn y gost o arolygu sefydliadau ac asiantaethau gwasanaeth a nodir o dan y dull o reoleiddio ac arolygu.

² Mae'r gost o oddeutu £1,496,200 y flwyddyn a nodwyd ym mharagraff 7.89 uchod wedi ei chynnwys yn y gost i ddarparwyr gwasanaeth annibynnol ar gyfer casglu data a chyflwyno adroddiadau mewn cysylltiad ag arolygiadau fel y'i nodir o dan y dull o reoleiddio ac arolygu.

Opsion dau: cyflwyno adroddiadau blynyddol sydd ar gael i'r cyhoedd

Costau rheolaidd: darparwyr gwasanaeth annibynnol ac awdurdodau lleol

7.101 Ni ddisgwylir i ddarparwyr gwasanaeth fynd i unrhyw gostau rheolaidd ychwanegol.

Fel y nodwyd uchod, mae eisoes yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaeth annibynnol gyflwyno adroddiad i'r rheoleiddiwr yn flynyddol. Bydd y gofyniad arfaethedig ar gyfer cyflwyno adroddiad blynyddol wedi'i safoni, a fydd ar gael i'r cyhoedd, yn disodli'r gofyniad presennol.

7.102 Er y gallai fod gofynion ychwanegol o ran gwybodaeth, rhagwelir y bydd yr wybodaeth hon ar gael yn rhwydd i ddarparwyr gwasanaeth. Byddai hyn yn cynnwys tystiolaeth, er enghraifft, o sut y cyflawnwyd canlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau a thystiolaeth o sut y mae darparwyr wedi cyflawni'r safonau ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau a nodir mewn rheoliadau.

7.103 Ni fydd rhaid i ddarparwyr baratoi dau adroddiad mwyach. Yn hytrach, bydd yr wybodaeth a ddarperir yn y Datganiad Hunanasesu'r Gwasanaeth ar hyn o bryd yn cael ei chynnwys yn yr un adroddiad blynyddol. Gallai hyn arwain at arbed rhywfaint o gostau.

7.104 Disgwylir y bydd angen i ddarparwyr gwasanaeth roi sylw ychwanegol wrth baratoi adroddiadau er mwyn gofalu eu bod o ansawdd priodol i'w cyhoeddi. Gan y gellir gwneud hyn wrth ddrafftio'r adroddiad, ni ddisgwylir y bydd yn arwain at gostau ychwanegol gan fod yr arian a arbedir trwy baratoi un adroddiad yn hytrach na dau yn debygol o wneud iawn am unrhyw gostau.

7.105 Rheoleiddiwr y gwasanaeth, yn hytrach na'r darparwyr unigol, fydd yn gorfod cyhoeddi'r adroddiadau blynyddol. Er efallai y bydd darparwyr gwasanaeth unigol yn dewis cyhoeddi eu hadroddiadau blynyddol, ni fydd yn ofynnol o dan y ddeddfwriaeth.

Costau pontio: darparwyr gwasanaeth annibynnol ac awdurdodau lleol

7.106 O dybio y bydd angen i reolwr y gwasanaeth a gweinyddwr dreulio tua hanner diwrnod yr un yn ymgyswddo â'r gofynion newydd o ran yr adroddiadau blynyddol, £136³⁰ fydd y gost cyfle a amcangyfrifir fesul darparwr gwasanaeth. Disgwylir felly mai £240,100 yw cyfanswm y gost cyfle ar gyfer y 1,780 o leoliadau yng Nghymru. Disgwylir i'r gost hon godi yn 2016-17.

Costau rheolaidd: awdurdodau lleol

7.107 Rhagwelir na fydd adroddiadau blynyddol yn arwain at unrhyw gostau rheolaidd ychwanegol. Fel y nodir uchod, mae pob awdurdod lleol yn paratoi ac yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ar hyn o bryd, ac mae hwnnw'n cynnwys hysbysu ynglŷn â chanlyniadau a phrofiadau defnyddwyr gwasanaethau. Ni ddisgwylir felly y bydd y gofyniad arfaethedig i awdurdodau lleol baratoi adroddiad blynyddol wedi'i safoni yn arwain at unrhyw gostau rheolaidd ychwanegol i awdurdodau lleol.

Costau pontio: awdurdodau lleol

7.108 Rhagwelir na fydd adroddiadau blynyddol yn arwain at unrhyw gostau pontio am yr un rhesymau â'r rhai a ddisgrifir yn y paragraff blaenorol.

³⁰ Yn seiliedig ar gyflog blynyddol cyfartalog o £30,766 i reolwr gofal cartref ac ar gostau o £9,366, gan roi cyfanswm o £40,132 y flwyddyn am wythnos waith o 37 awr (Curtis, 2013). Gan dybio y rhoddir chwe wythnos o wyliau blynyddol, £872.43 yw'r gost wythnosol ac £87.24 yw cost diwrnod. Ym mis Ebrill 2013, roedd galwedigaethau gweinyddol ac ysgrifenyddol yn ennill £399.60 yr wythnos (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2013) neu £20,779.20 y flwyddyn. Amcangyfrifir mai £22,549 y flwyddyn yw'r cyfanswm cyflog gan gynnwys argostau. Mae hyn yn seiliedig ar dybiaeth nad yw'r cyflogwr yn cyfrannu at gynllun pensiwn. Gan dybio y rhoddir chwe wythnos o wyliau blynyddol gan gynnwys gwyliau banc, £490.16 yw'r gost yr wythnos, gan roi cost amcangyfrifedig o £49 fesul hanner diwrnod.

Costau rheolaidd a phontio: rheoleiddiwr y gwasanaeth

7.109 Disgwylir y bydd cost reolaidd ychwanegol i reoleiddiwr y gwasanaeth oherwydd y gofyniad i gyhoeddi'r 1,780 o adroddiadau blynyddol gan ddarparwyr gwasanaeth.

7.110 Mae rheoleiddiwr y gwasanaeth wedi amcangyfrif mai £40,000 y flwyddyn yw'r gost o gyhoeddi adroddiadau blynyddol.

Tabl 7: crynodeb o'r costau sy'n gysylltiedig â chyflwyno adroddiadau blynyddol wedi'u safoni, sydd ar gael i'r cyhoedd (opsiwn dau)

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---------------------------------|----------------|----------------|----------------|----------------|----------------|
| Rheoleiddiwr y gwasanaeth | | | | | |
| Darparu gwasanaeth ² | | 40,000 | 40,000 | 40,000 | 40,000 |
| Swyddogaethau statudol yr ALI | 350,000 | 350,000 | 350,000 | 350,000 | 350,000 |
| Darparwyr gwasanaeth | | | | | |
| Pontio | 240,100 | | | | |
| Rheolaidd ³ | | | | | |
| Cyfanswm y gost | 590,100 | 390,000 | 390,000 | 390,000 | 390,000 |

¹ Cyfanswm y costau pontio yr amcangyfrifir y bydd rheoleiddiwr y gwasanaeth yn mynd iddynt o ran TGCh ac o ran datblygu a dosbarthu canllawiau a chynghor.

² Mae'r gost yn 2016-17 wedi ei chynnwys yn y gost o arolygu sefydliadau ac asiantaethau gwasanaeth fel y'i nodir o dan 'Y Dull o Reoleiddio ac Arolygu'.

³ Mae'r gost yn 2016-17 i ddarparwyr gwasanaeth annibynnol wedi ei chynnwys yn y gost i ddarparwyr gwasanaeth annibynnol am gasglu data.

Risgiau: defnyddwyr gwasanaethau

7.111 Ceir risg efallai na fydd yr wybodaeth a ddarperir yn ddefnyddiol i ddefnyddwyr gwasanaethau. Er mwyn i'r adroddiad fod o unrhyw fudd i ddefnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd, mae angen iddo gynnwys gwybodaeth y mae ganddynt ddiddordeb ynddi.

7.112 Os yw defnyddiwr y gwasanaeth a'i deulu'n gwneud penderfyniad, er enghraifft, ynglŷn â pha gartref gofal i fyw ynddo, yna bydd angen gwybodaeth y gellir ei chymharu.

7.113 Fodd bynnag, os bydd defnyddiwr y gwasanaeth a'i deulu eisiau trafod gwelliannau i'r gwasanaeth, efallai nad adroddiadau wedi'u safoni yw'r dull gorau. Yn hytrach, gallai fod yn well i ddarparwyr weithio gyda'u defnyddwyr gwasanaethau i ddatblygu gwybodaeth yr hoffent ei gweld (Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, 2010).

7.114 Er bod risg o ddarparu gwybodaeth na fydd o bosibl yn bodloni gofynion unigolion sy'n defnyddio gofal cymdeithasol, nid yw'r risg hon yn arwain at gost ychwanegol.

7.115 Hefyd, gallai darparwyr gwasanaeth ddewis ychwanegu cwestiynau at eu harolygon gan ymateb i ofynion defnyddwyr gwasanaethau am wybodaeth. Fodd bynnag, ni fyddai'r wybodaeth hon yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad blynyddol.

Manteision

Opsiwn un: peidio â gwneud dim

7.116 Nid oes unrhyw fanteision ychwanegol yn gysylltiedig ag opsiwn un.

Opsiwn dau: cyflwyno adroddiadau blynyddol wedi'u safoni sydd ar gael i'r cyhoedd

Defnyddwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol

7.117 Mae gan adroddiadau blynyddol ddwy fantais allweddol bosibl i ddefnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd:

7.118 Gallai adroddiadau blynyddol fod yn ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth pan fydd gan ddefnyddwyr gwasanaethau ddewis o ddarparwyr gwasanaeth, gan eu galluogi i gymharu darparwyr o ran ansawdd y gwasanaethau a ddarperir a chanlyniad y gwasanaethau hynny.

7.119 Efallai y bydd defnyddwyr gwasanaethau, eu teuluoedd a gofalwyr yn arbed ychydig o gostau mewn achosion lle mae unigolyn yn chwilio am wasanaethau a bod ganddo ddewis o leoliadau, er enghraifft yng nghyswllt gofal preswyl a ariennir gan awdurdodau lleol. Mae'r costau yn gysylltiedig â chostau chwilio a byddai darpar ddefnyddwyr gwasanaethau yn eu harbed trwy orfod treulio llai o amser yn asesu ansawdd gwasanaethau ac yn llunio rhestr fer, a thrwy ymweld â llai o gartrefi gofal

cyn gwneud penderfyniad. Efallai y byddent hefyd yn arbed trwy osgoi'r camgymeriad costus o ddewis y gwasanaeth anghywir ar gyfer unigolyn penodol. Nid yw'r arbedion hyn wedi cael eu cyfrifo ar wahân.

7.120 Pan nad oes dewis o ddarparwr ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau, er enghraifft yng nghyswllt gofal cartref, gallai adroddiadau blynyddol ddarparu gwybodaeth y gallai defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd ei defnyddio i bwysu am welliannau i safonau a chanlyniadau. Nid yw'r arbedion hyn wedi cael eu cyfrifo ar wahân.

Dinasyddion

7.121 Bydd adroddiadau wedi'u safoni yn datblygu'r adroddiadau blynyddol a gyflwynir ar hyn o bryd gan awdurdodau lleol trwy gynyddu tryloywder ac atebolrwydd. Mae gan adroddiadau wedi'u safoni y potensial i alluogi dinasyddion i gymharu'n rhwydd yr hyn y mae eu hawdurdodau lleol wedi ei gyflawni – o ran pa mor effeithiol yw'r gwasanaethau gofal cymdeithasol ac i ba raddau y maent yn rhoi gwerth am arian – â'r hyn a gyflawnwyd gan awdurdodau lleol eraill.

Darparwyr gwasanaeth

7.122 Gallai darparwyr gwasanaeth elwa o baratoi adroddiadau blynyddol hefyd, gan eu defnyddio ar gyfer cysylltiadau cyhoeddus a marchnata trwy gynnig tystiolaeth o'u perfformiad i ddarpar ddefnyddwyr gwasanaethau, a thrwy roi sicrwydd i ddefnyddwyr gwasanaethau presennol a darpar ddefnyddwyr gwasanaethau, eu gofalwyr a'u teuluoedd.

Awdurdodau lleol

7.123 Mae'n bosibl y gallai adroddiadau blynyddol wedi'u safoni gan ddarparwyr ei gwneud yn haws i awdurdodau lleol gomisiynu gwasanaethau, trwy roi syniad o'r graddau y mae darparwyr gwasanaeth yn sicrhau canlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau.

Rheoleiddiwr y gwasanaeth

7.124 Dylai rheoleiddiwr y gwasanaeth elwa hefyd o gyflwyno adroddiadau wedi'u safoni. Dylai adroddiadau wedi'u safoni alluogi rheoleiddiwr y gwasanaeth i asesu perfformiad darparwyr gwasanaeth annibynnol yn haws ac i nodi meysydd i'w gwella.

7.125 Fe allai rheoleiddiwr y gwasanaeth arbed costau o bosibl wrth lunio'r Adolygiad Blyneddol a Gwerthusiad o Berfformiad ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru, gan y dylai fod yn haws cael gfael ar yr wybodaeth a dylid gorfod treulio llai o amser yn safoni.

Crynodeb a'r opsiwn a ffefrir

7.126 Un o amcanion pwysig yr agenda i weddnewid gofal cymdeithasol yng Nghymru yw y dylai fod gan ddinasyddion a defnyddwyr fwy o lais a rheolaeth o ran darpariaeth gwasanaethau. Ystyrir na ellir ond cyflawni hyn pan fo gwybodaeth ddibynadwy, o ansawdd uchel ar gael i'r unigolyn am y gwasanaethau hynny. Mae'r drefn bresennol yn golygu nad yw gwybodaeth yn hygyrch yn aml a, phan fo ar gael, gall fod yn anodd cymharu gwahanol wasanaethau neu awdurdodau. Bydd adroddiadau blyneddol wedi'u safoni a'u cyhoeddi yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar ddinasyddion i allu cael llais a rheolaeth yn y sector gofal cymdeithasol. Hefyd, bydd y ffaith y cyhoeddir adroddiadau o'r fath yn gymhelliant i ddarparwyr ac awdurdodau gyflawni'r lefelau ansawdd uchaf posibl.

7.127 Am y rhesymau uchod, ystyrir mai opsiwn dau yw'r ffordd ymlaen a ffefrir.

Y drosedd o ddarparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol

7.128 Gweler adrannau 45 a 51 o Fil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) ar gyfer y darpariaethau sy'n ymwneud datganiadau anwir a hysbysiadau cosb.

Opsiynau

7.129 Trafodir tri opsiwn isod o ran ymestyn trosedd bresennol i gynnwys cywirdeb gwybodaeth a ddarperir mewn adroddiadau blynyddol darparwyr gwasanaeth a gwybodaeth a roddir i arolygydd mewn ymateb i ofyniad i ddarparu gwybodaeth i'r rheoleiddiwr:

- Opsiwn un: peidio â gwneud dim.
- Opsiwn dau: ymestyn trosedd bresennol i gynnwys darparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol mewn adroddiadau blynyddol ac ati gan ddefnyddio erlyniadau.
- Opsiwn tri: ymestyn trosedd bresennol i gynnwys darparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol mewn adroddiadau blynyddol ac ati gan ddefnyddio cosbau penodedig ac erlyniadau.

Opsiwn un: peidio â gwneud dim

7.130 Byddai'r sefyllfa bresennol yn parhau o dan yr opsiwn hwn. Hynny yw, ni ellid ymchwilio, cyhuddo a/neu erlyn unigolion sy'n darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol ac sy'n darparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol i reoleiddiwr y gwasanaeth yn eu hadroddiadau blynyddol.

Opsiwn dau: ymestyn y drosedd o wybodaeth anwir neu gamarweiniol gan ddefnyddio erlyniadau

7.131 O dan yr opsiwn hwn, byddai'r drosedd o ddarparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol yn cael ei hymestyn i gynnwys yr wybodaeth mewn adroddiadau blynyddol gan ddarparwyr gwasanaeth annibynnol ac awdurdodau lleol. Byddai hyn yn rhoi'r grym i reoleiddiwr y gwasanaeth ymchwilio, cyhuddo a/neu erlyn darparwr gwasanaeth sy'n cyflwyno gwybodaeth anwir neu gamarweiniol yn ei adroddiadau blynyddol.

Opsiwn tri: ymestyn y drosedd o wybodaeth anwir neu gamarweiniol gyda'r opsiwn i gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig

7.132 O dan opsiwn tri, byddai'r drosedd o ddarparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol yn cael ei hymestyn i gynnwys yr wybodaeth mewn adroddiadau blynyddol gan ddarparwyr gwasanaeth annibynnol ac awdurdodau lleol. Byddai hyn yn rhoi'r grym i rheoleiddiwr y gwasanaeth ymchwilio, cyhuddo a/neu erlyn darparwr gwasanaeth sy'n cyflwyno gwybodaeth anwir neu gamarweiniol yn ei adroddiadau blynyddol. Byddai gan rheoleiddiwr y gwasanaeth yr opsiwn o gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig yn ogystal ag erlyn yr achosion mwyaf difrifol drwy'r llysoedd.

Costau

Opsiwn un: peidio â gwneud dim

Rheoleiddiwr y gwasanaeth/darparwyr gwasanaeth

7.133 Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â pharhau â'r sefyllfa bresennol. Mae rheoleiddiwr y gwasanaeth yn gwario tua £4,400,000 y flwyddyn ar weithgarwch gorfodi ar hyn o bryd.

Defnyddwyr gwasanaethau

7.134 Ceir risg i ddefnyddwyr gwasanaethau o ran y posibilrwydd y gallent ddewis darparwr gofal cymdeithasol yn seiliedig ar wybodaeth anwir neu gamarweiniol.

Tabl 8: crynodeb o'r costau sy'n gysylltiedig â pharhau â'r sefyllfa bresennol (opsiwn un)

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|--|------------------|------------------|------------------|------------------|------------------|
| Rheoleiddiwr y gwasanaeth ¹ | 4,400,000 | 4,400,000 | 4,400,000 | 4,400,000 | 4,400,000 |
| Darparwyr gwasanaeth | | | | | |
| Yr Heddlu | | | | | |
| Gwasanaeth Erlyn y Goron | | | | | |
| Llysoedd | | | | | |
| Cyfanswm y gost | 4,400,000 | 4,400,000 | 4,400,000 | 4,400,000 | 4,400,000 |

¹ Dyma gyfanswm y gost i'r rheoleiddiwr o ran gweithgarwch gorfodi.

Opsiwn dau: ymestyn y drosedd o wybodaeth anwir neu gamarweiniol

- 7.135 Ceir 968 o ddarparwyr gwasanaeth yng Nghymru a byddai pob un ohonynt yn rhan o gwmpas y ddarpariaeth hon.
- 7.136 Disgwylir bod y mwyafrif llethol o ddarparwyr cofrestredig yn gwneud gwaith diwydrwydd dyladwy wrth ddarparu gwybodaeth i reoleiddiwr y gwasanaeth ac nad ydynt yn darparu gwybodaeth anghywir ar bwrpas neu'n ddi-hid.
- 7.137 Mae profiad o'r achosion o ddarparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol i reoleiddiwr y gwasanaeth yng Nghymru, o ran ceisiadau gan wasanaethau a cheisiadau gan reolwyr gwasanaeth, yn awgrymu y bydd nifer yr ymchwiliadau ac erlyniadau'n isel.
- 7.138 Ers 2002, dim ond dau gais i gofrestru sefydliadau ac asiantaethau y mae rheoleiddiwr y gwasanaeth wedi eu gwrthod oherwydd y darparwyd gwybodaeth anwir neu gamarweiniol. Aeth un yn ei flaen i'r Tribiwnlys Safonau Gofal ond cafodd ei dynnu'n ôl cyn y gwrandawriad.
- 7.139 Mae nifer y ceisiadau ar gyfer rheolwyr cofrestredig a wrthodwyd a nifer y cofrestriadau rheolwyr a ddiddymwyd gan reoleiddiwr y gwasanaeth ar sail gwybodaeth anwir neu gamarweiniol ychydig yn uwch. O ran ceisiadau i gofrestru rheolwyr, gwrthodwyd tri chais ar sail gwybodaeth anwir neu gamarweiniol. Cyflwynwyd sylwadau ynglŷn ag un yn unig o'r rhain, ond ni chyflwynwyd apêl wedi hynny i'r Tribiwnlys Safonau Gofal.
- 7.140 O ran canslo cofrestriad rheolwyr, dim ond tri achos y bwriwyd ymlaen â hwy. Yn un o'r achosion hyn, cynigiodd rheoleiddiwr y gwasanaeth ganslo'r cofrestriad ar sail gwybodaeth anwir neu gamarweiniol, ond tynnwyd y cofrestriad yn ôl wedi dod i gytundeb. Diddymwyd un cofrestriad heb i unrhyw sylwadau gael eu cyflwyno. Apeliodd y trydydd rheolwr cofrestredig i'r tribiwnlys, a chadarnhawyd penderfyniad rheoleiddiwr y gwasanaeth.
- 7.141 Hynny yw, mae rheoleiddiwr y gwasanaeth wedi cael profiad o wyth achos o wybodaeth anwir neu gamarweiniol ers 2002, sy'n ganran fach o'r sector. O ran

sefydliadau ac asiantaethau, ystyriwyd bod dau gais yn anwir neu'n gamarweiniol. Mae hyn yn 0.1% o'r 1,780 o sefydliadau ac asiantaethau yng Nghymru.

7.142 O ran rheolwyr, gwrthodwyd neu diddymwyd chwe chais. Mae hyn yn 0.4% o'r 1,542 o reolwyr sydd wedi eu cofrestru â rheoleiddiwr y gwasanaeth ar hyn o bryd.

7.143 Er bod yr achosion lle y cafwyd gwybodaeth anwir neu gamarweiniol mewn ceisiadau yn awgrymu bod potensial i orfod ymchwilio i rhwng 0.1% a 0.4% o ddarparwyr gwasanaeth ac, o bosibl, eu herlyn, mae'n debygol y bydd y ganran yn uwch. Bydd adroddiadau blynyddol yn cynnwys mwy o wybodaeth na cheisiadau cofrestru a bydd angen dadansoddi data ar eu cyfer. Oherwydd hyn, bydd mwy o bosibilrwydd o gyflwyno gwybodaeth anwir neu gamarweiniol mewn adroddiadau blynyddol nag mewn ceisiadau cofrestru. Amcangyfrif mwy realistig yw y bydd angen ymchwilio i rhwng 0% a 2% o ddarparwyr gwasanaeth ac, o bosibl, eu herlyn am ddarparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol yn yr adroddiadau blynyddol y maent yn eu cyflwyno i reoleiddiwr y gwasanaeth, gydag amcangyfrif gorau o 1%.

7.144 Hynny yw, byddai tua 10 o ymchwiliadau ac erlyniadau posibl bob blwyddyn, gydag amrediad posibl o rhwng 0 ac 20 ymchwiliad y flwyddyn (sef 2% o'r darparwyr gwasanaeth o bosibl).

Cyrff ymchwilio ac erlyn

7.145 Mae'n debygol mai gweithredoedd unigol gan aelodau'r cyhoedd, yn amlygu problem, neu reoleiddiwr y gwasanaeth yn canfod problemau yn ystod y broses arolygu bresennol fydd y mecanwaith ar gyfer nodi a yw darparwr gwasanaeth wedi darparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol. Ni ddisgwylir y bydd angen adnoddau ychwanegol i nodi'r potensial o ddiffyg cydymffurfiaid.

7.146 Fodd bynnag, bydd angen ymchwilio i unrhyw achos posibl o ddiffyg cydymffurfio. Gweinidogion Cymru fydd yr awdurdod erlyn ar gyfer y drosedd hon ac, fel y cyfryw, bydd adnoddau mewnol yn cael eu defnyddio ar gyfer yr ymchwiliad (reoleiddiwr y gwasanaeth) ac ar gyfer ystyried y dystiolaeth (Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru).

7.147 Gallai rhai darparwyr gael eu herlyn yn dilyn ymchwiliad. Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig y bydd y drosedd o gyflwyno gwybodaeth anwir neu gamarweiniol yn drosedd diannod. Oherwydd hynny, bydd unrhyw achos yn cael ei erlyn trwy Lysoedd Ynadon.

7.148 Rhagwelir mai cwnsleriaid cyfreithiol allanol a fydd yn ymdrin â'r nifer fach o achosion sy'n mynd yn eu blaenau i erlyniad, ac y byddant yn arwain at gostau sy'n gyfwerth â'r rhai a fyddai wedi codi pe bai'r Goron yn awdurdod erlyn. £110³¹ yw'r gost gyfartalog fesul amddiffynnydd i Wasanaeth Erlyn y Goron pan fydd achos yn cael ei gynnal drwy'r Llys Ynadon.

7.149 Yn seiliedig ar yr amcangyfrif y cynhelir 10 ymchwiliad y flwyddyn gydag amrediad o rhwng 0 ac 20, amcangyfrifir mai rhwng £0 and £2,200 fyddai'r costau i Lywodraeth Cymru gydag amcangyfrif gorau o £1,100 y flwyddyn.

Y system gyfiawnder

7.150 Fel y nodir uchod, byddai achosion yn cael eu barnu drwy'r Llys Ynadon neu Lys y Goron. Fodd bynnag, mae'r costau i Wasanaethau Llysoedd a Thriwlynlysoedd Ei Mawrhydi yn seiliedig ar y ffigurau sydd ar gael ar gyfer Llys y Goron, sy'n fwy costus. Oherwydd hyn, mae'r asesiad yn fwy tebygol o amcangyfrif y costau'n rhy uchel nag yn rhy isel.

7.151 Mae data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn awgrymu mai tua £3,000 (prisiau 2011-12) (Yr Adran Iechyd, 2013) yw'r costau i Wasanaethau Llysoedd a Thriwlynlysoedd Ei Mawrhydi fesul achos yn ymwneud â thwyll neu ffugiad yn Llysoedd y Goron. Yn seiliedig ar yr amcangyfrif y cynhelir 10 ymchwiliad y flwyddyn gydag amrediad o rhwng 0 ac 20, amcangyfrifir mai rhwng £0 a £60,000 fyddai'r costau i'r system gyfiawnder, gydag amcangyfrif gorau o £30,000 y flwyddyn.

7.152 Byddai modd i ddarparwyr gwasanaeth apelio ar ôl cael eu herlyn. Gan y disgwylir mai dim ond yr achosion hynny sy'n annhebygol o fod ag amddiffyniad diwydrwydd dyladwy fyddai'n cael eu barnu, disgwylir na fyddai nifer sylweddol o achosion amddiffyn.

³¹ Ym mis Mehefin 2014. Ffynhonnell: gohebiaeth uniongyrchol â Gwasanaeth Erlyn y Goron.

Darparwyr gwasanaeth

- 7.153 Pan fo digon o dystiolaeth a bod hynny er lles pennaf y cyhoedd, bydd rhai darparwyr yn cael eu cyhuddo ac yn mynd i'r llys. O ganlyniad, bydd costau cyfreithiol i'r darparwyr gwasanaeth hynny. Tybir y bydd yr amddiffyniad o leiaf yr un mor gostus â'r erlyniad, sef £110 yr achos ar gyfartaledd. Yn seiliedig ar dybiaeth yr amcangyfrifir y bydd 10 achos y flwyddyn gydag amrediad o rhwng 0 ac 20, amcangyfrifir mai rhwng £0 and £2,200 fyddai'r costau i'r darparwyr gwasanaeth (neu'r system gyfiawnder pryd y telir cymorth cyfreithiol) gydag amcangyfrif gorau o £1,100 y flwyddyn.
- 7.154 Mewn egwyddor, byddai cymorth cyfreithiol ar gael i gynorthwyo darparwyr gwasanaeth sy'n cael eu cyhuddo o ddarparu gwybodaeth anwir a chamarweiniol. Byddai'n rhaid i'r darparwr gwasanaeth fodloni'r prawf lles cyfiawnder a phrawf modd i fod yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol. Ni fydd ymgeiswyr ag incwm gwario o fwy na £37,500 yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol ar gyfer achos Llys Sirol (Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol, 2014).
- 7.155 Mae pa un ai'r darparwr gwasanaeth ynteu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n gyfrifol am y gost gyfreithiol hon yn dibynnu ar ba un a yw'r darparwr gwasanaeth unigol yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol ai peidio.
- 7.156 Disgwylir hefyd y bydd darparwyr gofal cymdeithasol yn wynebu costau, yn gysylltiedig â pharatoi amddiffyniad a theithio i weld cyfreithiwr ac i'r llys³².
- 7.157 Gan dybio y bydd y cyfarwyddwr yn treulio tair awr yn ymgyfarwyddo â gwybodaeth gefndir, tair awr yn trafod â chyfreithiwr, pedair awr yn teithio i weld y cyfreithiwr ac i'r llys ac un diwrnod yn mynd i'r llys, amcangyfrifir mai tua £500³³ yw gwerth cyfanswm yr amser y bydd cyfarwyddwr yn ei dreulio'n paratoi ar gyfer y llys a bod yn bresennol

³² Gofynnwyd i Gymdeithas Gofal Cartref y Deyrnas Unedig gynnig amcangyfrif o'r costau i'w haelodau yn sgil cael eu hymchwilio am ddarparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol yn eu hadroddiadau blynyddol. Ni allai'r Gymdeithas weld sefyllfa pryd y byddai darparwr yn cynnig gwybodaeth anwir neu gamarweiniol yn fwriadol, heblaw mewn camgymeriad, ac ni ddarparodd unrhyw fanylion o ran costau felly.

³³ Yn seiliedig ar gyflog cyfartalog rheolwyr, cyfarwyddwyr a swyddogion uwch ym mis Ebrill 2013 o £765.10 yr wythnos neu £39,785.20 y flwyddyn (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2013). Gan dybio bod y cyfarwyddwr yn rhan o gynllun pensiwn cwmni, amcangyfrifir mai £49,546 y flwyddyn yw'r cyflog gan gynnwys argostau. Gan dybio y rhoddir chwe wythnos o wyliau blynyddol, £1,077 yw'r gost wythnosol, £215 yw'r gyfradd ddyddiol a £29.11 yw'r gyfradd fesul awr.

yno. Amcangyfrifir felly mai rhwng £0 a £10,000, gydag amcangyfrif gorau o tua £5,000, fydd cyfanswm costau datblygu amddiffyniad a mynd i'r llys i ddarparwyr gwasanaeth.

7.158 Yn ogystal, disgwylir y bydd rheolwr yn treulio un diwrnod yn casglu gwybodaeth a data cefndir ac un diwrnod yn y llys. Tua £350³⁴ yw'r gost a amcangyfrifir fesul rheolwr, gyda chyfanswm y gost i ddarparwyr gwasanaeth rhwng £0 a £7,000 gydag amcangyfrif gorau o £3,500.

7.159 £8,500 y flwyddyn yw cyfanswm y gost a amcangyfrifir i ddarparwyr gwasanaeth felly. Caiff costau cyfreithiol o oddeutu £1,100 y flwyddyn eu talu gan naill ai'r darparwr gwasanaeth neu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, yn dibynnu a yw'r darparwr yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol.

Costau pontio: darparwyr gwasanaeth

7.160 Ni ddisgwylir y bydd unrhyw gostau pontio i ddarparwyr gwasanaeth.

Costau rheolaidd: rheoleiddiwr y gwasanaeth

7.161 Fel y nodir uchod, ni fu modd amcangyfrif y gost i reoleiddiwr y gwasanaeth yn sgil ymchwilio i achosion o wybodaeth anwir neu gamarweiniol.

Costau pontio: rheoleiddiwr y gwasanaeth

7.162 Mae rheoleiddiwr y gwasanaeth wedi amcangyfrif cost o £200,000 ar gyfer TGCh, datblygu canllawiau ac adnoddau, a dosbarthu gwybodaeth i'r cyhoedd, arolygwyr a darparwyr gwasanaeth. Disgwylir y bydd cyfran o'r arian hwn yn cael ei defnyddio ar gyfer costau pontio sy'n gysylltiedig ag ymestyn y drosedd o wybodaeth anwir neu gamarweiniol. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, hyfforddi arolygwyr, codi ymwybyddiaeth ymhlith darparwyr gofal cymdeithasol a gwneud newidiadau i arferion a phrosesau presennol.

Risgiau

³⁴ Yn seiliedig ar gyflog blynyddol cyfartalog o £30,766 i reolwr gofal cartref ac ar gostau o £9,366, gan roi cyfanswm o £40,132 y flwyddyn am wythnos waith o 37 awr (Curtis, 2013). Gan dybio y rhoddir chwe wythnos o wyliau blynyddol, £872.43 yw'r gost wythnosol a £174.50 yw cost diwrnod.

Canlyniadau anfwriadol

7.163 Gan fod darparwyr gwasanaeth yn mentro derbyn cosbau troseddol am ddarparu gwybodaeth anghywir neu fethu ag arfer diwydrwydd dyladwy, efallai y byddant yn cymryd mwy o amser i ddarparu gwybodaeth i reoleiddiwr y gwasanaeth. Gallai darparwyr gwasanaeth gysylltu nifer o gafeatau â gwybodaeth a data hefyd, gan ei gwneud yn anodd i ddefnyddwyr gwasanaethau, comisiynwyr a rheoleiddiwr y gwasanaeth eu deall a'u dehongli.

7.164 Gellid lliniaru'r canlyniadau anfwriadol hyn trwy ei gwneud yn ofyniad cyfreithiol i gyflwyno adroddiadau blynyddol i reoleiddiwr y gwasanaeth erbyn dyddiad penodol (gweler y drosedd arfaethedig o fethu â chyflwyno adroddiad blynyddol); a thrwy ddarparu canllawiau ar ddehongli gwybodaeth anwir neu gamarweiniol ac ar ddiwydrwydd dyladwy.

Diffyg effaith

7.165 Mae'n bosibl na fydd darparwyr gwasanaeth yn cymryd y ddarpariaeth cymaint o ddifrif ag y bwriedir iddynt ei wneud oherwydd y posibilrwydd na fydd gwybodaeth anwir neu gamarweiniol yn cael ei chanfod.

7.166 Ni fydd rheoleiddiwr y gwasanaeth yn sicrhau ansawdd yr wybodaeth mewn adroddiadau blynyddol yn systematig. Yn hytrach, disgwylir y bydd aelodau'r cyhoedd (er enghraifft gweithwyr proffesiynol, defnyddwyr gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr) yn hysbysu rheoleiddiwr y gwasanaeth am achosion posibl o wybodaeth anwir neu gamarweiniol; neu y bydd rheoleiddwyr y gwasanaeth yn eu canfod, er enghraifft trwy anghysondebau rhwng perfformiad a arsylwyd yn rhan o'r broses arolygu a pherfformiad a ddisgrifir yn adroddiad darparwr y gwasanaeth.

7.167 Cynhaliodd rheoleiddiwr y gwasanaeth 233 o arolygiadau dirybudd yn 2013-14 gan ymateb i gwynion a phryderon a godwyd gan aelodau'r cyhoedd a theuluoedd. Rhagwelir, lle'n briodol, y bydd rheoleiddiwr y gwasanaeth yn craffu ar yr adroddiadau blynyddol yn rhan o'r broses o arolygu darparwyr ar ôl derbyn pryderon neu gwynion.

7.168 Gan dybio y bydd rheoleiddiwr y gwasanaeth yn craffu ar rhwng 25% a 75% o adroddiadau blynyddol darparwyr o ganlyniad i arolygiad dirybudd, byddai'n craffu ar rhwng 58 a 175 adroddiad. Mae hyn yn golygu y byddai rheoleiddiwr y gwasanaeth yn craffu ar rhwng 4% a 12% o'r adroddiadau blynyddol. Pe bai rheoleiddiwr y gwasanaeth yn cyfleu i'r darparwyr gwasanaeth mai dyma fyddai'r tebygolrwydd, dylai hyn fod yn gymhelliant iddynt gymryd y drosedd o ddifrif.

Tabl 9: crynodeb o'r costau tebygol a amcangyfrifwyd trwy gyflwyno'r drosedd o ddarparu gwybodaeth anwir a chamarweiniol (opsiwn dau)

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|--|------------------|------------------|-------------------|-------------------|-------------------|
| Rheoleiddiwr y gwasanaeth | | | | | |
| Costau rheolaidd | 4,400,000 | 4,400,000 | 4,400,000 | 4,400,000 | 4,400,000 |
| Costau pontio ¹ | 200,000 | | | | |
| Costau erlyn Llywodraeth Cymru | | 1,000 | 1,000 | 1,000 | 1,000 |
| Llysoedd | | 30,000 | 30,000 | 30,000 | 30,000 |
| Cymorth cyfreithiol / darparwyr gwasanaeth | | 1,100 | 1,100 | 1,100 | 1,100 |
| Darparwyr gwasanaeth | | 8,500 | 8,500 | 8,500 | 8,500 |
| Cyfanswm y gost | 4,600,000 | 4,440,600 | 4,440, 600 | 4,440, 600 | 4,440, 600 |

¹ Cyfanswm y costau pontio yr amcangyfrifir y bydd rheoleiddiwr y gwasanaeth yn mynd iddynt o ran TGCh ac o ran darparu a rhannu canllawiau a chynghor ynglŷn â'r holl ddarpariaethau yn y Bil.

Manteision

Rheoleiddiwr y gwasanaeth

7.169 Defnyddir yr wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn adroddiadau blynyddol darparwyr gwasanaeth i gyfrannu at y broses arolygu. Felly, bydd rheoleiddiwr y gwasanaeth yn elwa o fwy o sicrwydd y bydd yr wybodaeth sy'n llywio'r broses arolygu yn gadarn ac yn adlewyrchiad cywir o'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu.

Darparwyr gwasanaeth

7.170 Bydd darparwyr gwasanaeth yn elwa o weithredu mewn amgylchedd o gystadleuaeth deg, lle y mae'r holl ddarparwyr gwasanaeth yn cyhoeddi gwybodaeth sy'n adlewyrchiad gwirioneddol o'r gwasanaethau y maent yn eu darparu.

Defnyddwyr gwasanaethau

7.171 Bydd gan ddefnyddwyr gwasanaethau y sicrwydd ychwanegol bod yr wybodaeth y maent yn ei derbyn gan ddarparwyr yn eu hadroddiadau blynyddol yn gywir. I unigolion sy'n chwilio am ddarparwr gwasanaeth, gallai'r broses o ddewis darparwr gwasanaeth gymryd llai o amser pe byddent yn sicr bod yr wybodaeth y maent yn seilio eu dewisiadau arni yn gywir.

Opsiwn tri: ymestyn y drosedd o wybodaeth anwir neu gamarweiniol gyda'r opsiwn o gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig

Costau rheolaidd

Rheoleiddiwr y gwasanaeth

7.172 Mae rheoleiddiwr y gwasanaeth wedi dynodi mai'r dull y byddai'n ei ffafrio o ymdrin â'r drosedd o wybodaeth anwir neu gamarweiniol fyddai cyflwyno hysbysiadau cosb benodedig yn y lle cyntaf, yn hytrach na dwyn achos drwy'r llysoedd.

7.173 Ceir 968 o ddarparwyr gwasanaeth yng Nghymru a byddai'r ddarpariaeth hon yn berthnasol i bob un ohonynt. Amcangyfrifir y byddai 5% o ddarparwyr gwasanaeth yn derbyn cosb benodedig am gyflwyno gwybodaeth anwir neu gamarweiniol yn eu hadroddiadau blynyddol. Hynny yw, byddai 48 o ddarparwyr gwasanaeth o fewn cwmpas y ddarpariaeth. Mae'r ffigur hwn yn uwch na'r ffigur ar gyfer erlyn drwy'r llysoedd gan y tybir y byddai'r meini prawf ar gyfer cyflwyno cosbau penodedig yn is na'r rhai ar gyfer erlyniad yn y llysoedd.

7.174 Mae rheoleiddiwr y gwasanaeth wedi amcangyfrif mai tua £411³⁵ fyddai'r gost weinyddol fesul cosb benodedig. Felly, tua £19,700 y flwyddyn fyddai cost cyflwyno 48 hysbysiad cosb benodedig. Mae hyn yn cynnwys costau yn sgil y ffaith y byddai 20% o gosbau penodedig yn cael eu herio.

7.175 Disgwylir y byddai nifer fechan o'r achosion hyn yn mynd i'r llys. Tybir y byddai 0.5-1% o'r 48 achos blynyddol yn mynd gerbron llys. Hynny yw, disgwylir y byddai rhwng 2 a 5 o ddarparwyr gwasanaeth yn cael eu heffeithio o bosibl bob deng mlynedd,

³⁵ Mae rheoleiddiwr y gwasanaeth wedi amcangyfrif y gellid cyflwyno a gweinyddu hysbysiadau cosb benodedig, os cânt eu talu'n brydlon, o fewn 0.5 diwrnod am £374 y diwrnod. Bydd amcangyfrif o 20% yn cael eu herio neu'n mynd i apêl. Caniatawyd 3.5 diwrnod ar gyfer achosion o'r fath.

gydag amcangyfrif gorau y byddai 3.5 achos ar gyfartaledd yn mynd i'r llys bob deng mlynedd.

Cyrrff ymchwilio ac erlyn

7.176 Gallai rhai darparwyr gael eu herlyn yn dilyn ymchwiliad. Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig y bydd y drosedd o wybodaeth anwir neu gamarweiniol yn drosedd neillog. Oherwydd hynny, bydd unrhyw achos yn cael ei erlyn trwy Lysoedd Ynadon.

7.177 Gweinidogion Cymru fydd yr awdurdod erlyn ar gyfer y drosedd hon ac, oherwydd hynny, bydd adnoddau mewnol yn cael eu defnyddio ar gyfer yr ymchwiliad (rheoleiddiwr y gwasanaeth) ac ar gyfer ystyried y dystiolaeth (Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru). Rhagwelir y bydd Cwnsler Cyfreithiol allanol yn ymdrin â'r nifer fach o achosion a fydd yn cael eu herlyn, gan arwain at gostau sy'n gyfwerth â chostau Gwasanaeth Erlyn y Goron.

7.178 Tua £110³⁶ yw'r gost gyfartalog i Wasanaeth Erlyn y Goron fesul amddiffynnydd yn y Llys Ynadon. Yn seiliedig ar yr amcangyfrif y bydd 2-5 achos yn cael eu dwyn yn ystod cyfnod o ddeng mlynedd, amcangyfrifir mai rhwng £220 a £550 fydd y gost i Wasanaeth Erlyn y Goron, gydag amcangyfrif gorau o tua £400 dros gyfnod o ddeng mlynedd. Hynny yw, amcangyfrifir mai rhwng tua £22 a £55 y flwyddyn fydd y gost ar gyfartaledd, gydag amcangyfrif gorau o tua £40 y flwyddyn.

Y system gyfiawnder

7.179 Fel y nodir uchod, byddai achosion yn cael eu barnu drwy'r Llys Ynadon neu Lys y Goron. Fodd bynnag, mae'r costau i Wasanaethau Llysoedd a Thriwilysoedd Ei Mawrhydi yn seiliedig ar y ffigurau sydd ar gael ar gyfer Llys y Goron, sy'n fwy costus. Oherwydd hyn, mae'r asesiad yn fwy tebygol o amcangyfrif y costau'n rhy uchel nag yn rhy isel.

7.180 Mae data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn awgrymu mai tua £3,000 (prisiau 2011-12) (Yr Adran Iechyd, 2013) yw'r costau i Wasanaethau Llysoedd a Thriwilysoedd Ei Mawrhydi fesul achos yn ymwneud â thwyll neu ffugiad yn Llysoedd y Goron. Yn seiliedig yr amcangyfrif y cynhelir 2-5 achos bob deng mlynedd, rhwng tua £6,000 a

³⁶ Ym mis Mehefin 2014. Ffynhonnell: gohebiaeth uniongyrchol â Gwasanaeth Erlyn y Goron.

£15,000 y flwyddyn fyddai'r costau i Wasanaethau Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi, gydag amcangyfrif gorau o £10,500. Hynny yw, amcangyfrifir mai rhwng £600 a £1,500 yw'r gost bob blwyddyn ar gyfartaledd i Wasanaethau Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi, gydag amcangyfrif gorau o £1,050 y flwyddyn.

7.181 Byddai modd i ddarparwyr gwasanaeth apelio ar ôl cael eu herlyn. Gan y disgwylir mai dim ond yr achosion hynny sy'n annhebygol o fod ag amddiffyniad diwydrwydd dyladwy fyddai'n cael eu barnu, disgwylir na fyddai nifer sylweddol o achosion amddiffyn.

Darparwyr gwasanaeth

7.182 Nid yw lefel y gosb benodedig wedi ei phennu. Yn hytrach, bydd yn cael ei nodi mewn rheoliadau a fydd yn destun ymgynghoriad ac asesiad effaith llawn. Hefyd, gan mai taliad trosglwyddo yw dirwy, ni ystyrir ei bod yn gost economaidd (Yr Adran Iechyd, 2013).

7.183 Pan fo digon o dystiolaeth a bod hynny er lles pennaf y cyhoedd, bydd rhai darparwyr yn cael eu cyhuddo ac yn mynd i'r llys. O ganlyniad, bydd angen iddynt gyflwyno amddiffyniad cyfreithiol. Tybir y bydd yr amddiffyniad o leiaf yr un mor gostus â'r erlyniad, sef tua £110 fesul amddiffynnydd ar gyfartaledd. Yn seiliedig ar y dybiaeth y bydd 2-5 achos yn cael eu dwyn bob deng mlynedd, rhwng £220 a £550 fyddai'r costau i'r darparwyr gwasanaeth (neu i'r system gyfiawnder pryd y telir cymorth cyfreithiol) gydag amcangyfrif gorau o £400 bob deng mlynedd. Hynny yw, amcangyfrifir mai'r gost flynyddol ar gyfartaledd fyddai'r rhwng £22 a £55, gydag amcangyfrif gorau o £40.

7.184 Mewn egwyddor, byddai cymorth cyfreithiol ar gael i gynorthwyo darparwyr gwasanaeth sy'n cael eu cyhuddo o ddarparu gwybodaeth anwir a chamarweiniol. Byddai'n rhaid i'r darparwr gwasanaeth fodloni'r prawf lles cyfiawnder a phrawf modd i fod yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol. Ni fydd ymgeiswyr ag incwm gwario o fwy na £37,500 yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol ar gyfer achos Llys Sirol (Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol, 2014).

7.185 Mae pa un ai'r darparwr gwasanaeth ynteu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n gyfrifol am y gost gyfreithiol hon yn dibynnu ar ba un a yw'r darparwr gwasanaeth unigol yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol ai peidio.

7.186 Disgwylir y bydd darparwyr gofal cymdeithasol yn wynebu costau, yn gysylltiedig â pharatoi amddiffyniad a theithio i weld cyfreithwyr ac i'r llys³⁷.

7.187 Gan dybio y bydd y cyfarwyddwr yn treulio tair awr yn ymgyfarwyddo â gwybodaeth gefndir, tair awr yn trafod gyda chyfreithiwr, pedair awr yn teithio i weld y cyfreithiwr ac i'r llys ac un diwrnod yn mynd i'r llys, amcangyfrifir mai tua £500³⁸ yw gwerth cyfanswm yr amser y bydd cyfarwyddwr yn ei dreulio'n paratoi ar gyfer y llys a bod yn bresennol yno. Amcangyfrifir, felly, mai cyfanswm y gost bob deng mlynedd i ddarparwyr gwasanaeth fyddai rhwng £1,000 a £2,500 â'r amcangyfrif gorau oddeutu £1,800. Hynny yw, amcangyfrifir mai'r gost flynyddol ar gyfartaledd i ddarparwyr gwasanaeth fyddai rhwng tua £100 a £250 gydag amcangyfrif gorau o oddeutu £180 y flwyddyn.

7.188 Yn ogystal, disgwylir y bydd rheolwr yn treulio un diwrnod yn casglu gwybodaeth a data cefndir ac un diwrnod yn y llys. Tua £350³⁹ yw'r gost a amcangyfrifir fesul rheolwr, a chost i ddarparwyr gwasanaeth o rhwng £700 a £1,800 bob deng mlynedd gydag amcangyfrif gorau o oddeutu £1,200. Hynny yw, amcangyfrifir mai'r gost flynyddol ar gyfartaledd i ddarparwyr gwasanaeth fyddai rhwng tua £70 a £180, gydag amcangyfrif gorau o oddeutu £120 y flwyddyn.

7.189 £300 y flwyddyn yw cyfanswm y gost yr amcangyfrif y bydd darparwyr gwasanaeth yn ei hwynebu wrth baratoi amddiffyniad a theithio at gyfreithwyr ac i'r llys. Caiff

³⁷ Gofynnwyd i Gymdeithas Gofal Cartref y Deyrnas Unedig gynnig amcangyfrif o'r costau i'w haelodau yn sgil cael eu hymchwilio am ddarparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol yn eu hadroddiadau blynyddol. Ni allai'r Gymdeithas weld sefyllfa pryd y byddai darparwr yn cynnig gwybodaeth anwir neu gamarweiniol yn fwriadol, heblaw mewn camgymeriad, ac ni ddarparodd unrhyw fanylion o ran costau felly.

³⁸ Yn seiliedig ar gyflog cyfartalog rheolwyr, cyfarwyddwyr a swyddogion uwch ym mis Ebrill 2013 o £765.10 yr wythnos neu £39,785.20 y flwyddyn (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2013). Gan dybio bod y cyfarwyddwr yn rhan o gynllun pensiwn cwmni, amcangyfrifir mai £49,546 y flwyddyn yw'r cyflog gan gynnwys argostau. Gan dybio y rhoddir chwe wythnos o wyliau blynyddol, £1,077 yw'r gost wythnosol, £215 yw'r gyfradd ddyddiol a £29.11 yw'r gyfradd fesul awr.

³⁹ Yn seiliedig ar gyflog blynyddol cyfartalog o £30,766 i reolwr gofal cartref ac ar gostau o £9,366, gan roi cyfanswm o £40,132 y flwyddyn am wythnos waith o 37 awr (Curtis, 2013). Gan dybio y rhoddir chwe wythnos o wyliau blynyddol, £872.43 yw'r gost wythnosol a thua £175 yw cost diwrnod.

costau cyfreithiol o oddeutu £40 eu talu gan naill ai'r darparwr gwasanaeth neu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, gan ddibynnu a yw'r darparwr yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol.

Tabl 10: crynodeb o'r costau tebygol a amcangyfrifir oherwydd cyflwyno'r drosedd o ddarparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol â'r opsiwn o gyflwyno hysbysiad cosb benodedig (opsiwn tri)

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|------------------|------------------|------------------|------------------|------------------|
| Rheoleiddiwr y gwasanaeth | 4,400,000 | 4,419,700 | 4,419,700 | 4,419,700 | 4,419,700 |
| Costau erlyn Llywodraeth Cymru | | 40 | 40 | 40 | 40 |
| Llysoedd | | 1,050 | 1,050 | 1,050 | 1,050 |
| Cymorth cyfreithiol/darparwr gwasanaeth | | 40 | 40 | 40 | 40 |
| Darparwr gwasanaeth | | 300 | 300 | 300 | 300 |
| Cyfanswm y gost | 4,400,000 | 4,421,130 | 4,421,130 | 4,421,130 | 4,421,130 |

Manteision

7.190 Gan ei bod yn debygol mai mân achosion fydd y mwyafrif o droseddau o gyflwyno gwybodaeth anwir neu gamarweiniol, bydd llai o amser yn cael ei dreulio'n paratoi ar gyfer erlyniadau trwy ganiatáu i'r rheoleiddiwr ymdrin â'r rhain trwy roi hysbysiad cosb benodedig yn hytrach na thrwy erlyniad.

Crynodeb a'r opsiwn a ffefrir

7.191 Ystyrir ei bod yn bwysig fod gan ddinasyddion a rheoleiddwyr hyder yn yr wybodaeth sydd ar gael iddynt. Er bod peth perygl o gamddefnydd, ystyrir ei bod yn debygol y bydd mwy o wybodaeth ar gael sydd wedi'i pharatoi'n fwy gofalus ac sy'n fwy dibynadwy a chywir trwy ymestyn y drosedd o ddarparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol i gynnwys adroddiadau blynyddol ac ati. Yn ogystal, bydd hysbysiadau cosb benodedig yn cyfyngu ar y costau posibl ac yn darparu dull cymesur o ymdrin â mân achosion o dorri'r rheolau.

7.192 Am y rhesymau a amlinellir uchod, opsiwn 3 yw'r un a ffefrir.

Y drosedd o beidio â darparu adroddiad blynyddol i reoleiddiwr y gwasanaeth

Opsiynau

7.193 Gweler adrannau 46 a 51 o Fil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) ar gyfer y darpariaethau sy'n ymwneud ag adroddiadau blynyddol a hysbysiadau cosb.

7.194 Trafodir tri opsiwn isod o ran darparu adroddiad blynyddol i reoleiddiwr y gwasanaeth:

- Opsiwn un: peidio â gwneud dim.
- Opsiwn dau: cyflwyno trosedd o beidio â darparu adroddiad blynyddol gan ddefnyddio erlyniadau.
- Opsiwn tri: cyflwyno trosedd o beidio â darparu adroddiad blynyddol gan ddefnyddio cosbau penodedig ac erlyniadau.

Opsiwn un: peidio â gwneud dim

7.195 O dan yr opsiwn hwn, byddai'r sefyllfa bresennol yn parhau. Hynny yw, ni fyddai modd ymchwilio, cyhuddo ac/neu erlyn unigolion sy'n darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol ac sy'n peidio â darparu adroddiad blynyddol i'r rheoleiddiwr.

Opsiwn dau: cyflwyno trosedd o beidio â darparu adroddiad blynyddol gan ddefnyddio erlyniadau

7.196 O dan yr opsiwn hwn, byddai trosedd o beidio â darparu adroddiad blynyddol i'r rheoleiddiwr gwasanaeth yn cael ei chyflwyno. Byddai hyn yn rhoi'r pŵer i reoleiddiwr y gwasanaeth ymchwilio, cyhuddo ac/neu erlyn darparwr gwasanaeth sy'n peidio â chyflwyno adroddiad blynyddol.

Opsiwn tri: cyflwyno trosedd o beidio â darparu adroddiad blynyddol dan ddefnyddio cosbau penodedig ac erlyniadau

7.197 O dan opsiwn tri, byddai trosedd o beidio â darparu adroddiad blynyddol i reoleiddiwr y gwasanaeth yn cael ei chyflwyno. Byddai hyn yn rhoi'r pŵer i reoleiddiwr y gwasanaeth ymchwilio, cyhuddo ac/neu erlyn darparwr gwasanaeth sy'n peidio â chyflwyno adroddiad blynyddol. Byddai gan reoleiddiwr y gwasanaeth y dewis i gyflwyno hysbysiad cosb benodedig yn ogystal ag erlyn yr achosion mwyaf difrifol trwy'r Llys Ynadon.

Costau

Opsiwn un: peidio â gwneud dim

Rheoleiddiwr y gwasanaeth/darparwyr gwasanaeth

7.198 Nid oes unrhyw gostau ychwanegol o ganlyniad i barhau â'r sefyllfa bresennol.

Defnyddwyr gwasanaeth

7.199 Mae peryglon posibl i ddefnyddwyr gwasanaethau, o ran dewis neu werthuso darparwr gofal cymdeithasol heb i'r wybodaeth berthnasol mewn adroddiad blynyddol fod ar gael iddynt.

Opsiwn dau: cyflwyno trosedd o beidio â darparu adroddiad blynyddol gan ddefnyddio erlyniadau

7.200 Fel y dywedwyd eisoes, disgwylir ymchwilio i rhwng 0% a 2% o ddarparwyr gwasanaeth, ac efallai eu herlyn, am ddarparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol yn yr adroddiadau blynyddol y maent yn eu cyflwyno i reoleiddiwr y gwasanaeth, gydag amcangyfrif gorau o 1%. Mae'r nifer sy'n peidio â darparu adroddiad blynyddol i reoleiddiwr y gwasanaeth yn debygol o fod yn uwch.

7.201 Er y disgwylir mai nifer fach o ddarparwyr gwasanaeth a fydd yn peidio â chyflwyno adroddiad blynyddol yn fwriadol, mae'n debygol y bydd darparwyr gwasanaeth yn dod ar draws nifer o broblemau a allai eu rhwystro rhag cyflwyno'r adroddiad. Gallai hyn, er enghraifft, gynnwys problemau technegol ac absenoldebau staff. At ddiben yr asesiad effaith hwn, tybiwyd y bydd rhwng 2% a 5% o ddarparwyr gwasanaeth yn peidio â chyflwyno'u hadroddiadau blynyddol. Hynny yw, fe allai rhwng 19 a 48 o ddarparwyr gwasanaeth ddod o fewn cwmpas y ddarpariaeth hon.

Cyrff ymchwilio ac erlyn

- 7.202 Ni ragwelir y bydd angen gwaith ymchwilio sylweddol o ran y drosedd o beidio â darparu adroddiad blynyddol i reoleiddiwr y gwasanaeth.
- 7.203 Gweinidogion Cymru fydd yr awdurdod erlyn ar gyfer y drosedd hon, ac oherwydd hynny, bydd adnoddau mewnol yn cael eu defnyddio ar gyfer yr ymchwiliad (rheoleiddiwr y gwasanaeth) ac ar gyfer ystyried y dystiolaeth (Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru). Rhagwelir y bydd Cwnsler Cyfreithiol allanol yn ymdrin â'r nifer fach o achosion a fydd yn cael eu herlyn, gan arwain at gostau sy'n gyfwerth â chostau Gwasanaeth Erlyn y Goron.
- 7.204 Mae'r gost fesul achos diannod (achos na ellir mo'i glywed heblaw mewn Llysoedd Ynadon) i Wasanaeth Erlyn y Goron yn dibynnu ar ba un a yw'r diffynnydd yn pledio'n euog cyn dyddiad yr achos llys ai peidio. Pan fo'r diffynnydd yn pledio'n euog cyn dyddiad yr achos llys, y gost fesul uned yw £60. Pan gynhelir achos llys, mae'r gost fesul achos yn £372 (Cymdeithas y Bar Troseddol yng Nghymru a Lloegr, 2013). Dyma gost achosion fesul diwrnod ar gyfartaledd, o ran amser a chost llysoedd a chymorth cyfreithiol. Disgwylir y bydd y mwyafrif o achosion yn cymryd llai na diwrnod. Seiliwyd y cyfrifiad canlynol ar y dybiaeth bod pob achos yn cymryd diwrnod ac mae, felly, yn debygol o oramcangyfrif y costau. Gan dybio cost o £216 yr achos ar gyfartaledd, amcangyfrifir mai cyfanswm y gost i Wasanaeth Erlyn y Goron fyddai rhwng £4,100 a £10,400 y flwyddyn, gydag amcangyfrif gorau o £7,200 y flwyddyn.

Y system gyfiawnder

- 7.205 Mae'n bosibl y bydd rhai darparwyr yn cael eu herlyn yn dilyn ymchwiliad. Byddai peidio â darparu adroddiad blynyddol i reoleiddiwr y gwasanaeth yn yr un categori â throseddau diannod 'rheoliadol' sy'n ymwneud â moduro a rhai eraill o'r fath. Ymdrinnir ag achosion o'r fath yn y Llys Ynadon ac mae'r gost fesul achos oddeutu £29 (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2014). Amcangyfrifir, felly, mai'r gost flynyddol i'r Llysoedd Ynadon yn sgil y drosedd o beidio â darparu adroddiad blynyddol fyddai rhwng £600 a £1,400 y flwyddyn, gydag amcangyfrif gorau o £1,000 y flwyddyn.

Darparwyr gwasanaeth⁴⁰

7.206 Bydd darparwyr gwasanaeth sydd yn gorfod mynd i'r llys yn wynebu costau'n gysylltiedig â pharatoi amddiffyniad. Tybir y bydd yr amddiffyniad o leiaf yr un mor gostus â'r erlyniad, sef amcangyfrif o £216 ar gyfartaledd. Yn seiliedig ar y dybiaeth y bydd rhwng 19 a 48 o achosion y flwyddyn, byddai'r gost i'r darparwyr gwasanaeth (neu i'r system gyfiawnder pryd y telir cymorth cyfreithiol) rhwng £4,100 a £10,400 y flwyddyn, gydag amcangyfrif gorau o £7,200 y flwyddyn. Pryd y caniateir cymorth cyfreithiol, cynhwysir hyn yng nghostau Gwasanaeth Erlyn y Goron a amlinellwyd uchod.

7.207 Disgwylir hefyd y bydd darparwyr gofal cymdeithasol yn wynebu costau'n gysylltiedig â pharatoi amddiffyniad a theithio i weld cyfreithwyr ac i'r llys.

7.208 Gan dybio bod y cyfarwyddwr yn treulio awr yn ymgyfarwyddo â gwybodaeth gefndir, awr yn trafod â chyfreithiwr, pedair awr yn teithio i weld y cyfreithiwr ac i'r llys, a dwy awr yn y llys, amcangyfrifir mai cyfanswm y gost am yr amser y byddai cyfarwyddwr yn ei dreulio'n paratoi ar gyfer achos ac yn mynd i'r llys yw tua £233⁴¹. Amcangyfrifir, felly, mai cyfanswm y gost i ddarparwyr gwasanaeth am drefnu amddiffyniad a mynd i'r llys fyddai rhwng £4,400 a £11,200 gydag amcangyfrif gorau o oddeutu £7,800.

7.209 Yn ogystal, disgwylir y bydd rheolwr yn treulio dwy awr yn casglu gwybodaeth gefndir, dwy awr yn y llys a thair awr yn teithio i'r llys. Oddeutu £165⁴² yw'r gost a amcangyfrifir fesul rheolwr, gyda chyfanswm y gost i ddarparwyr gwasanaeth rhwng £3,100 a £7,900 gydag amcangyfrif gorau o £5,500.

⁴⁰ Gofynnwyd i Gymdeithas Gofal Cartref y Deyrnas Unedig gynnig amcangyfrif o'r costau i'w haelodau yn sgil cael eu hymchwilio am ddarparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol yn eu hadroddiadau blynyddol. Ni allai'r Gymdeithas weld sefyllfa pryd y byddai darparwr yn cynnig gwybodaeth anwir neu gamarweiniol yn fwriadol, heblaw mewn camgymeriad, ac ni ddarparodd unrhyw fanylion o ran costau felly.

⁴¹ Yn seiliedig ar gyflog cyfartalog rheolwyr, cyfarwyddwyr a swyddogion uwch ym mis Ebrill 2013 o £765.10 yr wythnos neu £39,785.20 y flwyddyn (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2013). Gan dybio bod y cyfarwyddwr yn rhan o gynllun pensiwn cwmni, amcangyfrifir mai £49,546 y flwyddyn yw'r cyflog gan gynnwys argostau. Gan dybio y rhoddir chwe wythnos o wyliau blynyddol, £1,077 yw'r gost wythnosol, £215 yw'r gyfradd ddyddiol a £29.11 yw'r gyfradd fesul awr.

⁴² Yn seiliedig ar gyflog blynyddol cyfartalog o £30,766 i reolwr gofal cartref ac ar gostau o £9,366, gan roi cyfanswm o £40,132 y flwyddyn am wythnos waith o 37 awr (Curtis, 2013). Gan dybio y rhoddir chwe wythnos o wyliau blynyddol, £872.43 yw'r gost wythnosol a £23.58 yw cost awr.

7.210 A thybio taith gron o 50 milltir i fynd i'r llys a thaith gron o 20 milltir i gwrdd â chyfreithiwr, amcangyfrifir mai £33.75⁴³ yw'r costau teithio ar gyfer cyfarwyddwr a rheolwr. Amcangyfrifir felly y bydd cyfanswm y costau teithio ar gyfer darparwyr gwasanaeth rhwng oddeutu £600 a £1,600 gydag amcangyfrif gorau o oddeutu £1,100 y flwyddyn.

7.211 Amcangyfrifir, felly, mai rhwng £12,320 and £31,100 yw cyfanswm y costau i ddarparwyr gwasanaeth, gydag amcangyfrif gorau o £21,600 y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys amcangyfrif o gostau paratoi amddiffyniad, y gallai cymorth cyfreithiol fod ar gael ar eu cyfer. Lle bo cymorth cyfreithiol ar gael, amcangyfrifir mai'r gost i ddarparwyr gwasanaeth yw £14,400.

Costau pontio: darparwyr gwasanaeth

7.212 Ni ragwelir y bydd unrhyw gostau pontio i ddarparwyr gwasanaeth.

Costau pontio: rheoleiddiwr y gwasanaeth

7.213 Mae rheoleiddiwr y gwasanaeth wedi amcangyfrif cost o £200,000 ar gyfer TGCh, datblygu canllawiau ac adnoddau a dosbarthu gwybodaeth i'r cyhoedd, arolygwyr a darparwyr gwasanaeth. Disgwylir y bydd cyfran o'r arian hwn yn cael ei defnyddio ar gyfer costau pontio sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r drosedd o beidio â darparu adroddiad blynyddol. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, hyfforddi arolygwyr, codi ymwybyddiaeth ymhlith darparwyr gofal cymdeithasol a gwneud newidiadau i arferion a phrosesau presennol.

⁴³ 50 milltir ar raddfa o 45ceiniog y filltir yn seiliedig ar raddfeydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar gyfer gostyngiad yn y dreth wrth deithio ar gyfer busnes gan ddefnyddio eich cerbyd eich hun.

<http://www.hmrc.gov.uk/incometax/relief-mileage.htm#2>

Tabl 11: crynodeb o'r costau tebygol a amcangyfrifir oherwydd cyflwyno'r drosedd o beidio â darparu adroddiad blynyddol (opsiwn dau)

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|----------|---------------|---------------|---------------|---------------|
| Rheoleiddiwr y gwasanaeth ¹ | | | | | |
| Costau erlyn Llywodraeth Cymru | | 7,200 | 7,200 | 7,200 | 7,200 |
| Llysoedd | | 1,000 | 1,000 | 1,000 | 1,000 |
| Cymorth cyfreithiol/darparwr gwasanaeth | | 7,200 | 7,200 | 7,200 | 7,200 |
| Darparwr gwasanaeth | | 14,400 | 14,400 | 14,400 | 14,400 |
| Cyfanswm y gost | - | 29,800 | 29,800 | 29,800 | 29,800 |

¹ Mae'r gost o £200,000 sy'n gysylltiedig â TGCh a rhannu gwybodaeth yn cwmpasu pob darpariaeth yn y Bil. I osgoi cyfrif hyn ddwywaith, dim ond unwaith y defnyddiwyd y gost (gweler tabl 9).

Manteision

Rheoleiddiwr y gwasanaeth

7.214 Un o fanteision cyflwyno trosedd o beidio â darparu adroddiad blynyddol yw ei fod yn ymdrin ag un o'r risgiau sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r drosedd o ddarparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol mewn adroddiadau blynyddol. Fel yr amlinellwyd uchod, mae darparwyr gwasanaeth yn mentro derbyn cosb droseddol am enghreifftiau o wybodaeth anwir neu gamarweiniol neu am beidio ag arfer diwydrwydd dyladwy. O ganlyniad i hyn, fe allent fod yn orofalus a threulio amser anghymesur yn paratoi'r adroddiad, ac felly'n oedi cyn ei gyflwyno i'r rheoleiddiwr. Gellir lleihau'r risg hon trwy ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaeth gyflwyno adroddiad blynyddol erbyn dyddiad penodol.

7.215 Yn ogystal, bydd y gofyniad i ddarparu adroddiad blynyddol yn sicrhau bod yr holl ddarparwyr gwasanaeth yn darparu'r wybodaeth ofynnol i reoleiddiwr y gwasanaeth ac felly'n osgoi sefyllfa bosibl pryd y gallai darparwyr gwasanaeth gadw gwybodaeth yn ôl os nad oeddent yn dymuno'i chyhoeddi.

7.216 Defnyddir yr wybodaeth sydd mewn adroddiadau blynyddol darparwyr gwasanaeth i gyfrannu at y broses arolygu. Felly, bydd rheoleiddiwr y gwasanaeth yn elwa ar y sicrwydd y bydd yr wybodaeth sydd ei hangen i lywio'r broses arolygu yn cael ei darparu mewn da bryd.

Darparwyr gwasanaeth

7.217 Bydd darparwyr gwasanaeth yn elwa ar weithredu mewn amgylchedd o gystadleuaeth deg, lle y cyhoeddir gwybodaeth am yr holl ddarparwyr gwasanaeth sy'n adlewyrchiad cywir a diweddar o'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt.

Defnyddwyr gwasanaethau

7.218 Bydd defnyddwyr gwasanaethau yn elwa ar sicrwydd ychwanegol y bydd yr wybodaeth y mae arnynt ei hangen oddi wrth ddarparwyr gwasanaeth ar gael ac yn gyfoes.

Opsiwn tri: cyflwyno trosedd o beidio â darparu adroddiad blynyddol gan ddefnyddio cosbau penodedig ac erlyniadau

Costau rheolaidd

Rheoleiddiwr y gwasanaeth

7.219 Mae rheoleiddiwr y gwasanaeth wedi dynodi mai'r dull y byddai'n ei ffafrio o ymdrin â'r drosedd o beidio â darparu adroddiad blynyddol fyddai cyflwyno cosb benodedig yn y lle cyntaf, yn hytrach na dwyn achos drwy'r llysoedd.

7.220 Ceir 968 o ddarparwyr gwasanaeth yng Nghymru, a byddent i gyd o fewn cwmpas y ddarpariaeth hon. Amcangyfrifir y byddai 5% o ddarparwyr gwasanaeth yn derbyn cosb benodedig am beidio â darparu adroddiad blynyddol i reoleiddiwr y gwasanaeth. Hynny yw, byddai 48 o ddarparwyr gwasanaeth o fewn cwmpas y ddarpariaeth. Mae'r ffigur hwn ar ben uchaf nifer y darparwyr gwasanaeth y disgwylir y byddant yn cael eu herlyn yn y llysoedd oherwydd y tybir y bydd y meini prawf ar gyfer cyflwyno cosbau penodedig yn is na'r rhai ar gyfer erlyniad yn y llysoedd.

7.221 Mae rheoleiddiwr y gwasanaeth wedi amcangyfrif mai oddeutu £411⁴⁴ fyddai'r gost fesul cosb benodedig. Felly, tua £19,700 fyddai cost cyflwyno 48 o hysbysiadau cosb benodedig. Mae hyn yn cynnwys costau yn sgil y ffaith y byddai 20% o'r cosbau penodedig yn cael eu herio.

7.222 Disgwylir y byddai nifer fechan o'r achosion hyn yn mynd i'r llys. Gan dybio bod 0.5-1% o'r 48 o ddarparwyr gwasanaeth yn mynd i'r llys, mae'n bosibl y gellid effeithio ar rhwng dau a phump o ddarparwyr gwasanaeth pob deng mlynedd, gydag amcangyfrif gorau o 3.5 o achosion yn cyrraedd y llys bob deng mlynedd.

Cyrff ymchwilio ac erlyn

7.223 Ni ragwelir y bydd angen gwaith ymchwilio sylweddol i'r drosedd o beidio â darparu adroddiad blynyddol i reoleiddiwr y gwasanaeth.

7.224 Gweinidogion Cymru fydd yr awdurdod erlyn ar gyfer y drosedd hon, ac oherwydd hynny, bydd adnoddau mewnol yn cael eu defnyddio ar gyfer yr ymchwiliad (rheoleiddiwr y gwasanaeth) ac ar gyfer ystyried y dystiolaeth (Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru). Rhagwelir y bydd Cwnsler Cyfreithiol allanol yn ymdrin â'r nifer fach o achosion a fydd yn cael eu herlyn, gan arwain at gostau sy'n gyfwerth â chostau Gwasanaeth Erlyn y Goron.

7.225 Mae'r gost fesul achos diannod i Wasanaeth Erlyn y Goron yn dibynnu ar ba un a yw'r diffynnydd yn pledio'n euog cyn dyddiad yr achos llys ai peidio. Pan fo'r diffynnydd yn pledio'n euog cyn dyddiad yr achos llys, y gost fesul uned yw £60. Pan gynhelir achos llys, mae'r gost fesul achos yn £372 (Cymdeithas y Bar Troseddol yng Nghymru a Lloegr, 2013). Dyma gost achosion fesul diwrnod ar gyfartaledd, o ran amser a chost llysoedd a chymorth cyfreithiol. Disgwylir y bydd y mwyafrif o achosion yn cymryd llai na diwrnod. Seiliwyd y cyfrifiad canlynol ar y dybiaeth bod pob achos yn cymryd diwrnod ac mae, felly, yn debygol o oramcangyfrif y costau. Gan dybio cost o £216 yr achos ar gyfartaledd, amcangyfrifir mai cyfanswm y gost i Wasanaeth Erlyn y Goron fyddai rhwng £400 a £1,100 bob deng mlynedd, gydag amcangyfrif gorau o

⁴⁴ Mae rheoleiddiwr y gwasanaeth wedi amcangyfrif y gellir cyflwyno a gweinyddu hysbysiadau cosb benodol o fewn 0.5 diwrnod, am £374 fesul diwrnod, os cant eu talu mewn da bryd. Amcangyfrifir y bydd 20% yn cael eu herio neu'n mynd i apêl. Caniatawyd 3.5 diwrnod ar gyfer achosion o'r fath.

£750. Hynny yw amcangyfrifir mai'r gost flynyddol i Wasanaeth Erlyn y Goron fyddai rhwng oddeutu £40 a £100 gydag amcangyfrif gorau o oddeutu £75 y flwyddyn.

Y system gyfiawnder

7.226 Mae'n bosibl y bydd rhai darparwyr yn cael eu herlyn yn dilyn ymchwiliad. Byddai peidio â darparu adroddiad blynyddol i reoleiddiwr y gwasanaeth yn yr un categori â throeddau diannod 'rheoliadol' sy'n ymwneud â moduro a rhai eraill o'r fath. Ymdrinnir ag achosion o'r fath yn y Llys Ynadon ac mae'r gost fesul achos oddeutu £29 (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2014). Amcangyfrifir, felly, na fyddai'r gost flynyddol i'r Llysoedd Ynadon yn sgil cyflwyno trosedd o beidio â darparu adroddiad blynyddol yn fwy na £150 dros gyfnod o ddeng mlynedd, gydag amcangyfrif gorau o oddeutu £10 y flwyddyn.

Darparwyr gwasanaeth⁴⁵

7.227 Nid yw lefel y gosb benodedig wedi ei phennu. Yn hytrach, bydd yn cael ei nodi mewn rheoliadau a fydd yn destun ymgynghoriad ac asesiad effaith llawn. Hefyd, gan mai taliad trosglwyddo yw dirwy, ni ystyrir ei bod yn gost economaidd (Yr Adran Iechyd, 2013).

7.228 Bydd darparwyr gwasanaeth sy'n gorfod mynd i'r llys yn wynebu costau'n gysylltiedig â pharatoi amddiffyniad. Tybir y bydd yr amddiffyniad o leiaf yr un mor gostus â'r erlyniad, sef amcangyfrif o £216 ar gyfartaledd. Yn seiliedig ar y dybiaeth y bydd rhwng dau a phum achos bob deng mlynedd, byddai'r gost i'r darparwyr gwasanaeth (neu i'r system gyfiawnder pryd y telir cymorth cyfreithiol) rhwng £400 a £1,100 y flwyddyn, gydag amcangyfrif gorau o £750. Hynny yw, amcangyfrifir mai'r gost flynyddol ar gyfer darparwyr gwasanaeth fyddai rhwng oddeutu £40 a £100 gydag amcangyfrif gorau o oddeutu £75 y flwyddyn.

7.229 Disgwylir hefyd y bydd darparwyr gofal cymdeithasol yn wynebu costau'n gysylltiedig â pharatoi amddiffyniad a theithio i weld cyfreithwyr ac i'r llys.

⁴⁵ Gofynnwyd i Gymdeithas Gofal Cartref y Deyrnas Unedig gynnig amcangyfrif o'r costau i'w haelodau yn sgil cael eu hymchwilio am ddarparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol yn eu hadroddiadau blynyddol. Ni allai'r Gymdeithas weld sefyllfa pryd y byddai darparwr yn cynnig gwybodaeth anwir neu gamarweiniol yn fwriadol, heblaw mewn camgymeriad, ac ni ddarparodd unrhyw fanylion o ran costau felly.

7.230 Gan dybio bod y cyfarwyddwr yn treulio awr yn ymgyfarwyddo â gwybodaeth gefndir, awr yn trafod â chyfreithiwr, pedair awr yn teithio i weld y cyfreithiwr ac i'r llys, a dwy awr yn y llys, amcangyfrifir mai cyfanswm y gost am yr amser y byddai cyfarwyddwr yn ei dreulio'n paratoi ar gyfer achos ac yn mynd i'r llys yw tua £233⁴⁶. Amcangyfrifir, felly, mai cyfanswm y gost i ddarparwyr gwasanaeth am drefnu amddiffyniad a mynd i'r llys fyddai rhwng £450 a £1,200 bob deng mlynedd, gydag amcangyfrif gorau o oddeutu £800. Hynny yw, amcangyfrifir mai'r gost flynyddol ar gyfer darparwyr gwasanaeth fyddai rhwng oddeutu £45 a £120 ar gyfartaledd, gydag amcangyfrif gorau o oddeutu £80.

7.231 Yn ogystal, disgwylir y bydd rheolwr yn treulio dwy awr yn casglu gwybodaeth gefndir, dwy awr yn y llys a thair awr yn teithio i'r llys. Oddeutu £165⁴⁷ yw'r gost a amcangyfrifir fesul rheolwr. Amcangyfrifir felly mai cyfanswm y gost i ddarparwyr gwasanaeth bob deng mlynedd fyddai rhwng £300 a £825, a'r amcangyfrif gorau o'r gost flynyddol ar gyfartaledd fyddai oddeutu £60.

7.232 A thybio taith gron o 50 milltir i fynd i'r llys a thaith gron o 20 milltir i gwrdd â chyfreithiwr, amcangyfrifir mai £33.75⁴⁸ yw'r costau teithio ar gyfer cyfarwyddwr a rheolwr. O ystyried nifer yr achosion a ragwelir, amcangyfrifir mai'r costau teithio blynyddol ar gyfartaledd fydd oddeutu £10.

7.233 Felly, yr amcangyfrif gorau ar gyfer y gost flynyddol i ddarparwyr gwasanaeth yw oddeutu £150.

⁴⁶ Yn seiliedig ar gyflog cyfartalog rheolwyr, cyfarwyddwyr a swyddogion uwch ym mis Ebrill 2013 o £765.10 yr wythnos neu £39,785.20 y flwyddyn (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2013). Gan dybio bod y cyfarwyddwr yn rhan o gynllun pensiwn cwmni, amcangyfrifir mai £49,546 y flwyddyn yw'r cyflog gan gynnwys argostau. Gan dybio y rhoddir chwe wythnos o wyliau blynyddol, £1,077 yw'r gost wythnosol, £215 yw'r gyfradd ddyddiol a £29.11 yw'r gyfradd fesul awr.

⁴⁷ Yn seiliedig ar gyflog blynyddol cyfartalog o £30,766 i reolwr gofal cartref ac ar gostau o £9,366, gan roi cyfanswm o £40,132 y flwyddyn am wythnos waith o 37 awr (Curtis, 2013). Gan dybio y rhoddir chwe wythnos o wyliau blynyddol, £872.43 yw'r gost wythnosol a £23.58 yw cost awr.

⁴⁸ 50 milltir ar raddfa o 45ceiniog y filltir yn seiliedig ar raddfeydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar gyfer gostyngiad yn y dreth wrth deithio ar gyfer busnes gan ddefnyddio eich cerbyd eich hun.

<http://www.hmrc.gov.uk/incometax/relief-mileage.htm#2>

Tabl 12: crynodeb o'r costau tebygol a amcangyfrifir oherwydd cyflwyno'r drosedd o beidio â darparu adroddiad blynyddol â'r opsiwn i gyflwyno hysbysiad cosb benodedig (opsiwn tri)

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|--|----------------|----------------|----------------|----------------|----------------|
| Rheoleiddiwr y gwasanaeth | | 19,700 | 19,700 | 19,700 | 19,700 |
| Costau erlyn Llywodraeth Cymru | | 75 | 75 | 75 | 75 |
| Llysoedd | | 10 | 10 | 10 | 10 |
| Cymorth cyfreithiol/darparwyr gwasanaeth | | 75 | 75 | 75 | 75 |
| Darparwyr gwasanaeth | | 150 | 150 | 150 | 150 |
| Cyfanswm y gost | - | 20,010 | 20,010 | 20,010 | 20,010 |

Manteision

7.234 Gan ei bod yn debygol y bydd y mwyafrif o droseddau o gyflwyno gwybodaeth anghywir neu gamarweiniol yn fân achosion, gellir cwtogi'r amser y byddai angen ei dreulio'n paratoi ar gyfer erlyniadau'n trwy ganiatáu i'r rheoleiddiwr ymdrin â'r rhain trwy roi hysbysiad cosb benodedig yn hytrach na thrwy erlyniad.

Crynodeb a'r opsiwn a ffefrir

7.235 Er mwyn i ddinasyddion gael llais a rheolaeth ystyrllon yn y sector gofal cymdeithasol, mae'n rhaid bod gwybodaeth gywir a chyfoes ar gael iddynt. O dan y system bresennol, ni all dinasyddion na'r rheoleiddiwr fod yn ffyddiog y bydd gwybodaeth o'r fath ar gael iddynt ac felly mae angen ei newid. Mae opsiynau dau a thri ill dau'n darparu dull eglur o sicrhau bod gwybodaeth ar gael, ond mae gan opsiwn tri y fantais sylweddol o gostau is.

7.236 Am y rhesymau a amlinellwyd uchod, opsiwn tri yw'r dull a ffefrir.

Fframwaith dyfarnu ansawdd

7.237 Gweler adran 35 o Fil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) ar gyfer y darpariaethau sy'n ymwneud â graddau arolygu.

7.238 Yn ogystal ag asesu'r canlyniadau ar gyfer unigolion, gellir defnyddio dull rheoleiddio sy'n seiliedig ar ganlyniadau i ffurfio barn am wasanaeth. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, i ba raddau y mae'r darparwyr gwasanaeth yn cyrraedd lefel ansawdd sy'n rhagori ar y safon ofynnol yn unig. Mewn achosion o'r fath, defnyddir dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau i ddarparu mesur digamsyniol o berfformiad lle nad oes amheuaeth ynglŷn â phriodoli, ac y gellir ei gysylltu â chymhellion penodol i wobrwyo perfformiad da a chosbau ar gyfer perfformiad gwael (Raleigh a Foot, 2010).

7.239 Ar hyn o bryd, nid yw arolygwyr yn graddio ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Yn hytrach, mae'r adroddiadau arolygu'n darparu naratif ynglŷn ag ansawdd gwasanaethau penodol. O ganlyniad, nid yw'n hawdd i'r sawl sydd â diddordeb mewn ansawdd lleoliadau gwasanaeth unigol, megis defnyddwyr gwasanaethau a chomisiynwyr gwasanaethau, ddod i gasgliad ynglŷn ag effaith gyffredinol y gwasanaethau a ddarperir ar ddinasyddion. Nid yw'n hawdd ychwaith cynnal asesiad sydd, er enghraifft, yn cymharu dau leoliad gwasanaeth.

Opsiynau

7.240 Trafodir dau opsiwn mewn cysylltiad ag asesu ansawdd lleoliad gwasanaeth penodol:

- Opsiwn un: peidio â gwneud dim.
- Opsiwn dau: cyflwyno pŵer i wneud dyfarniadau ansawdd.

Opsiwn un: peidio â gwneud dim

7.241 O dan yr opsiwn hwn, byddai'r arfer presennol yn parhau. Bydd rheoleiddiwr y gwasanaeth yn parhau i gyflwyno adroddiad ynglŷn ag ansawdd gwasanaethau heb roi gradd gymharol i lefel y perfformiad.

Opsiwn dau: cyflwyno pŵer i wneud dyfarniadau ansawdd

7.242 O dan yr opsiwn hwn, byddai pŵer yn cael ei gyflwyno i alluogi rheoleiddiwr y gwasanaeth i asesu gradd gymharol yr ansawdd a ddarperir gan ddarparwr y gwasanaeth.

Costau

Opsiwn un

Costau rheolaidd: rheoleiddiwr y gwasanaeth

7.243 Yn 2012-2013 cynhaliwyd 3,990 o arolygiadau gan rheoleiddiwr y gwasanaeth (AGGCC, 2014). Amcangyfrifir mai cost cynnal yr arolygiadau hyn yw £2,984,520⁴⁹. Nid oes unrhyw gostau ychwanegol ynghlwm wrth gadw'r system bresennol.

Costau rheolaidd: darparwyr gwasanaeth

7.244 Yn seiliedig ar gostau a ddarparwyd gan Gymdeithas Gofal Cartref y Deyrnas Unedig, amcangyfrifir mai'r gost i ddarparwyr gwasanaeth ar hyn o bryd, o ran casglu, dadansoddi a chyflwyno data i gyfrannu at y broses arolygu yw oddeutu £1,496,200.

Costau rheolaidd: defnyddwyr gwasanaethau

7.245 Mae perygl y bydd hi'n anodd i ddefnyddwyr gwasanaethau a chomisiynwyr wahaniaethu rhwng y gwasanaethau hynny sy'n cael ei darparu i safon uchel a'r gwasanaethau sy'n cydymffurfio ond yn cael eu darparu i safon is. Mae'n debygol fod defnyddwyr gwasanaethau ar hyn o bryd yn treulio llawer o amser yn ceisio penderfynu pa wasanaethau sydd o ansawdd da. Petai dyfarniad ansawdd ar gael, byddai hynny'n cymryd llawer llai o amser.

Opsiwn dau: cyflwyno fframwaith dyfarnu ansawdd

Costau rheolaidd: rheoleiddiwr y gwasanaeth

7.246 Mae rheoleiddiwr y gwasanaeth wedi amcangyfrif mai oddeutu £1,443,500 y flwyddyn fydd y costau rheolaidd ychwanegol. Mae hyn yn cynnwys £563,500 ychwanegol sy'n deillio o'r angen i arolygwyr dreulio mwy o amser yn arsylwi a chasglu tystiolaeth i lywio'r dyfarniad.

7.247 Yn ogystal, mae rheoleiddiwr y gwasanaeth wedi amcangyfrif y byddai cynnydd o 20% mewn gweithgareddau gorfodi yn deillio o gyflwyno'r cynigion sydd yn y Bil gan amcangyfrif y byddai hynny'n costio £880,000. Gallai hyn gynnwys er enghraifft, y

⁴⁹ Mae hyn yn seiliedig ar y dybiaeth bod pob ymweliad arolygu'n cymryd diwrnod a bod angen diwrnod arall i baratoi ar gyfer yr arolygiad ac i ysgrifennu adroddiad yr arolygiad. Mae rheoleiddiwr y gwasanaeth wedi darparu cyfradd o £374 y dydd am gyflawni gweithgareddau'n ymwneud â rheoleiddio.

posibilrwydd y bydd darparwyr gwasanaeth yn herio'r dyfarniadau neu yn mynegi pryderon mewn ymateb i'r dyfarniadau.

7.248 Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd ansawdd hunanasesiadau'n gwella, yn sgil cyflwyno adroddiadau blynyddol ynghyd ag ymestyn y drosedd o roi gwybodaeth anwir a chamarweiniol, ac y bydd y rhain yn darparu sylfaen mwy cadarn i waith yr arolygwyr. Yn yr un modd, wrth i'r ystod helaeth o safonau gofynnol presennol gael ei ddiddymu, mae'n bosibl y bydd angen llai o amser i asesu prosesau mewnbynnu, gan ganiatáu i arolygwyr dreulio mwy o amser ar bethau eraill.

Costau pontio: rheoleiddiwr y gwasanaeth

7.249 Mae'n bosibl y bydd rheoleiddiwr y gwasanaeth yn wynebu rhai costau pontio.

Disgwylir i'r rhain gynnwys: datblygu'r fframwaith, darparu gwybodaeth i ddarparwyr a defnyddwyr gwasanaethau ynglŷn â'r fframwaith, a hyfforddi arolygwyr i ddefnyddio'r fframwaith.

7.250 Mae rheoleiddiwr y gwasanaeth ar hyn o bryd yn datblygu fframwaith dyfarniadau ansawdd ar gyfer darparwyr gofal dydd. Treialwyd fframwaith peilot yn gynnar yn 2014. Bydd fframwaith dyfarniadau ansawdd y gwasanaethau ar gyfer oedolion yn cael ei seilio ar y gwersi a ddysgwyd wrth gyflwyno fframwaith dyfarniadau ansawdd y gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc. Disgwylir y bydd y fframwaith yn cael ei datblygu a'i dreialu cyn cyflwyno'r Bil. Mae'r gost felly'n cael ei hystyried yn gost suddedig.

7.251 Mae rheoleiddiwr y gwasanaeth wedi cyfrifo mai £200,000 fyddai cyfanswm y costau pontio yn gysylltiedig â rhoi'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) ar waith. Disgwylir, felly, i gyfran o'r gost hon gael ei defnyddio i ledaenu gwybodaeth ymhlith y cyhoedd am y fframwaith dyfarniadau ansawdd ac i hyfforddi arolygwyr i ddefnyddio'r fframwaith.

Costau rheolaidd: darparwyr gwasanaeth

7.252 Mae'n bosibl y bydd darparwyr gwasanaeth yn wynebu rhai costau ychwanegol oherwydd bod staff yn gorfod treulio mwy o amser yn trafod â'r arolygwyr. Gan gymryd bod yr arolygwr yn treulio 30 munud yn ychwanegol gyda rheolwr y

gwasanaeth⁵⁰ a phedwar o weithwyr gofal⁵¹ mewn trafodaethau unigol, amcangyfrifir y bydd y gost ychwanegol yn £32 fesul lleoliad. Amcangyfrifir mai cyfanswm y gost i'r 968 darparwr ar gyfer y 1,780 lleoliad bob blwyddyn fydd oddeutu £57,000. O'r swm hwn, bydd oddeutu £49,900 yn gostau i'r sector preifat a £7,000 yn gostau i'r awdurdod lleol bob blwyddyn.

7.253 Bydd y darparwyr gwasanaeth sy'n mynegi pryder neu'n herio dyfarniad yn wynebu costau ychwanegol.

Costau pontio: darparwyr gwasanaeth

7.254 Ni ragwelir y bydd darparwyr gwasanaeth yn wynebu unrhyw gostau pontio ynghlwm â chyflwyno'r fframwaith dyfarnu ansawdd.

Tabl 3: crynodeb o'r costau tebygol a amcangyfrifir oherwydd cyflwyno fframwaith dyfarnu ansawdd (opsiwn dau)

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|--|---------|------------------|------------------|------------------|------------------|
| Rheoleiddiwr y gwasanaeth ¹ | - | 1,443,468 | 1,443,468 | 1,443,468 | 1,443,468 |
| Darparwyr gwasanaeth annibynnol | | | | | |
| Costau pontio | | | | | |
| Costau rheolaidd ² | | 49,900 | 49,900 | 49,900 | 49,900 |
| Darparwyr gwasanaeth awdurdodau lleol | | | | | |
| Costau pontio | | | | | |
| Costau rheolaidd | | 7,000 | 7,000 | 7,000 | 7,000 |
| Cyfanswm y gost | | 1,500,368 | 1,500,368 | 1,500,368 | 1,500,368 |

¹ Mae gost amcangyfrifedig o £2,984,500 ar gyfer 2016-17 wedi'i chynnwys yng nghost arolygu lleoliadau ac asiantaethau gwasanaeth fel y'i hamlinellwyd o dan y dull rheoleiddio ac arolygu (gweler tablau dau a thri). Mae'r gost o £200,000 sy'n gysylltiedig â TGCh a rhannu gwybodaeth yn cwmpasu pob darpariaeth yn y Bil. I osgoi cyfrif hyn ddwywaith, dim ond unwaith y defnyddiwyd y gost (gweler tabl 9).

² Cynhwysir y gost hon yn y gost i ddarparwyr gwasanaeth annibynnol yn sgil casglu data a chyflwyno adroddiadau mewn cysylltiad ag arolygiadau fel y'i hamlinellwyd o dan y dull rheoleiddio ac arolygu.

⁵⁰ Yn seiliedig ar gyflog cyfartalog blynyddol o £30,766 i reolwr gofal cartref ac ar gostau o £9,366, sy'n rhoi cyfanswm o £40,132 y flwyddyn am wythnos waith 37 awr (Curtis, 2013). Gan dybio y rhoddir chwe wythnos o wyliau blynyddol, y gost wythnosol yw £872.43 a'r gost fesul hanner awr yw £11.79.

⁵¹ Yn seiliedig ar gyflog blynyddol o £13,632 ac ar gostau o £3,574, sy'n rhoi cyfanswm o £17,206. Y gost fesul awr, gan dybio y rhoddir chwe wythnos o wyliau blynyddol gan gynnwys gwyliau banc, ac wythnos waith 37 awr, yw £10.11.

Risgiau

Sefydlogrwydd y farchnad

7.255 Mae perygl y gellid cael effaith niweidiol ar y farchnad gofal cymdeithasol trwy gyflwyno dyfarniad ansawdd. Mae'n bosibl, er enghraifft, y bydd defnyddwyr gwasanaethau'n symud oddi wrth wasanaethau y dyfernir eu bod o ansawdd gwael at y rhai y dyfernir eu bod o ansawdd uchel. Fe allai hyn olygu bod rhai lleoliadau'n cael eu tanddefnyddio, ac oherwydd hynny bydd ganddynt lai o adnoddau gan waethygu unrhyw broblemau ansawdd.

7.256 Disgwylir, fodd bynnag, y bydd yr holl ddarparwyr gwasanaeth yn cael eu hannog i wella ansawdd eu gwasanaethau yn sgil cyflwyno dyfarniad ansawdd. Y rheswm am hyn yw y bydd y fframwaith dyfarnu ansawdd wedi'i seilio ar ansawdd y darparwyr eu hunain, yn hytrach nag ar gymharu ansawdd y gwahanol ddarparwyr (tabl cynghrair). Yn y model hwn, gallai'r holl ddarparwyr dderbyn yr un radd. Felly, ystyrir bod y risg y bydd y dyfarniadau ansawdd yn creu ansefydlogrwydd yn y farchnad yn un fach. Yn hytrach, disgwylir y bydd defnyddwyr gwasanaethau'n elwa ar welliannau yn ansawdd y gwasanaethau.

Mynediad at wasanaethau o ansawdd

7.257 Mae posibilrwydd hefyd y gellid cael effaith andwyol ar y rhai sydd fwyaf agored i niwed trwy gyflwyno'r dyfarniadau, gan ei bod yn debyg bod llai o adnoddau gan ddefnyddwyr gwasanaethau o'r fath ac felly y byddant yn llai abl i sicrhau'r lleoliadau o ansawdd gwell. Fodd bynnag, ystyrir bod y risg yn un fach. Fel y dywedwyd uchod, disgwylir y bydd yr holl ddefnyddwyr gwasanaethau yn elwa ar welliannau yn ansawdd y gwasanaethau. Yn ogystal, bydd pobl sy'n cynorthwyo oedolion sy'n agored i niwed, megis gweithwyr cymdeithasol ac aelodau o'u teuluoedd, yn gallu gweithredu mewn ymateb i ddyfarniadau ansawdd ar ran defnyddwyr gwasanaethau agored i niwed.

Sicrwydd i'r cyhoedd

7.258 Mae risg y gellid, trwy gyflwyno dyfarniadau ansawdd, danseilio hyder y cyhoedd yng ngallu'r rheoleiddiwr i gyflawni ei swyddogaeth o ddarparu sicrwydd annibynnol ynglŷn ag ansawdd darpariaeth gofal cymdeithasol yng Nghymru. Gallai'r broblem hon

godi pryd y defnyddir y fframwaith dyfarnu ansawdd mewn modd anghyson ar draws gwasanaethau neu ar draws ardaloedd daearyddol yng Nghymru. Gallai diffyg cysondeb beri i ddarparwyr a defnyddwyr gwasanaethau gwestiynu gwerth y graddau a gwerth y broses arolygu ei hun.

7.259 Gall rheoleiddiwr y gwasanaeth leihau'r risg hon trwy ddarparu hyfforddiant i arolygwyr a thrwy gyflwyno arferion cymedroli.

Manteision

Awdurdodau lleol

7.260 Byddai dyfarniadau ansawdd yn ddarn ychwanegol o wybodaeth y gallai swyddogion awdurdodau lleol ei ddefnyddio wrth asesu dogfennau tendro yn rhan o'r broses gaffael.

Defnyddwyr gwasanaeth

7.261 Prif fantais fframwaith dyfarnu ansawdd yw y bydd yn darparu modd syml i gymharu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir gan wahanol ddarparwyr gwasanaeth. Unigolion sy'n chwilio am ddarparwr gwasanaeth sy'n fwyaf tebyg o elwa ar hyn. Gallai gymryd llawer llai o amser i ddewis darparwr gwasanaeth os oes ganddynt sicrwydd eu bod yn gallu seilio'u dewisiadau ar wybodaeth gywir.

7.262 Disgwylir i ddarparwyr gwasanaeth gael eu hannog i wella ansawdd eu gwasanaethau yn sgil cyflwyno dyfarniadau ansawdd. Felly, mae defnyddwyr gwasanaethau'n debyg o elwa ar y gwelliannau disgwylidig yn y gwasanaethau y maent yn eu derbyn.

Darparwyr gwasanaeth

7.263 Bydd darparwyr gwasanaeth yn elwa ar allu arddangos ansawdd y gwasanaeth y maent yn ei gyflwyno, o'i gymharu â darparwyr gwasanaeth eraill.

Crynodeb a'r opsiwn a ffefrir

7.264 Mae fframweithiau dyfarnu ansawdd eisoes yn rhan annatod o sawl rhan o'r sector cyhoeddus ac, mewn rhannau eraill o'r DU, ym maes gofal cymdeithasol. Nid yw'r

system bresennol yn cynnig gwybodaeth gyfleus i ddinasyddion ynglŷn ag ansawdd unrhyw ddarpariaeth benodol, ar wahân i'r ffaith ei bod yn cydymffurfio â'r lleiafswm sy'n ofynnol. O'i ddefnyddio'n briodol, gall fframwaith dyfarnu ansawdd da ysgogi gwelliannau mewn darpariaeth a chaniatáu i ddarparwyr da ddangos eu llwyddiant. Ceir risgiau, yn enwedig mewn sector nad yw wedi defnyddio fframweithiau o'r fath o'r blaen, ac mae'n debyg y byddai unrhyw newid yn cael ei gyflwyno'n raddol, gam wrth gam. Darparu'r pŵer i'r rheoleiddiwr ddatblygu a defnyddio fframweithiau o'r fath y mae'r Bil, yn hytrach na rhoi dyletswydd arno i wneud hynny. Mae felly'n caniatáu ar gyfer addasu'r drefn a bod yn hyblyg wrth symud ymlaen.

7.265 Ffefrir opsiwn dau, gan gydnabod efallai y bydd angen cyflwyno unrhyw fframwaith yn raddol, gam wrth gam. Cynhelir dadansoddiad arall o gostau a manteision pan ddefnyddir y pwerau i gyflwyno fframwaith dyfarnu ansawdd.

Cynnwys ein dinasyddion yn well

7.266 Gweler adran 39 o Fil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) ar gyfer y darpariaethau sy'n ymwneud ag ymgysylltu â'r cyhoedd.

Opsiynau

7.267 Trafodir dau opsiwn mewn cysylltiad â chynnwys dinasyddion yn y gwaith o lunio ac asesu gweithgareddau rheoleiddio:

- Opsiwn un: peidio â gwneud dim.
- Opsiwn dau: cyflwyno gofyniad i reoleiddiwr y gwasanaeth ymestyn trefniadau i gynnwys dinasyddion ar lefel strategol a gweithredol.

Opsiwn un: peidio â gwneud dim

7.268 O dan yr opsiwn hwn, bydd rheoleiddiwr y gwasanaeth yn parhau i ymgysylltu â dinasyddion pan fo'n teimlo ei bod yn briodol gwneud hynny, ond ni fydd yn ofynnol iddo wneud hynny. Mae trefniadau presennol y rheoleiddiwr yn cynnwys y Bwrdd Cyngori Cenedlaethol; erbyn mis Medi 2014 roedd y Bwrdd Cyngori Cenedlaethol wedi cyfarfod deirgwaith.

Opsiwn dau: cyflwyno gofyniad i reoleiddiwr y gwasanaeth ymestyn trefniadau i gynnwys dinasyddion ar lefel strategol a gweithredol

7.269 O dan yr opsiwn hwn, rhoddir dyletswydd ar reoleiddiwr y gwasanaeth i gynnwys dinasyddion yn ei waith, a rhoi eglurhad i ddinasyddion o sut y cyflawnwyd hyn yn ei Adroddiad Blynyddol.

Costau

Opsiwn un: peidio â gwneud dim

7.270 Mae ymgysylltu â dinasyddion trwy gyfrwng y Panel Cyngori Cenedlaethol ar hyn o bryd yn costio £57,000 y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys treuliau teithio a llety dros nos, cymorth ysgrifenyddol a hyfforddiant parhaus, er enghraifft.

7.271 Ni fyddai rheoleiddiwr y gwasanaeth yn wynebu unrhyw gostau ychwanegol pe cedwid at y system bresennol.

7.272 Er bod rheoleiddiwr y gwasanaeth yn cynnwys dinasyddion yn ei waith ar hyn o bryd, nid yw'n ofynnol iddo wneud hyn yn ôl y gyfraith. Hefyd, ni wneir llawer i gynnwys dinasyddion yn y broses arolygu ei hun. Ceir risg o gollu'r momentwm presennol tuag at gynnwys dinasyddion yng ngwaith y rheoleiddiwr, a/neu mae'n bosibl na fydd dinasyddion yn cael eu cynnwys i'r graddau disgwylidig, os nad yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith i reoleiddiwr y gwasanaeth gynnwys dinasyddion yn ei waith.

Tabl 14: crynodeb o'r amcangyfrif o gostau cadw'r dull presennol o gynnwys dinasyddion (opsiwn un)

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---------------------------|---------------|---------------|---------------|---------------|---------------|
| Rheoleiddiwr y gwasanaeth | 57,000 | 57,000 | 57,000 | 57,000 | 57,000 |
| Cyfanswm y gost | 57,000 | 57,000 | 57,000 | 57,000 | 57,000 |

Opsiwn dau: cyflwyno gofyniad i reoleiddiwr y gwasanaeth ymestyn trefniadau i gynnwys dinasyddion ar lefel strategol a gweithredol

Rheoleiddiwr y gwasanaeth

7.273 Mae rheoleiddiwr y gwasanaeth wedi amcangyfrif y byddai angen cyllideb o £100,000 y flwyddyn i ddatblygu dulliau integredig a chynaliadwy o gynnwys dinasyddion ar draws arolygiadau thematig awdurdodau lleol ac arolygiadau darparwyr gwasanaeth. Amcangyfrifir, felly, mai'r gost ychwanegol yn sgil cynnwys mwy ar ein dinasyddion yng ngwaith y rheoleiddiwr fyddai £43,000 y flwyddyn.

Tabl 15: crynodeb o'r amcangyfrif o gostau ymgysylltu mwy â'r dinasyddion (opsiwn dau)

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---------------------------|---------------|----------------|----------------|----------------|----------------|
| Rheoleiddiwr y gwasanaeth | 57,000 | 100,000 | 100,000 | 100,000 | 100,000 |
| Cyfanswm y gost | 57,000 | 100,000 | 100,000 | 100,000 | 100,000 |

Manteision

Opsiwn un: peidio â gwneud dim

7.274 Nid oes unrhyw fanteision ychwanegol i'r opsiwn hwn.

Opsiwn dau: cyflwyno gofyniad i reoleiddiwr y gwasanaeth ymestyn trefniadau i gynnwys dinasyddion ar lefel strategol a gweithredol

7.275 Mae'r manteision posibl sy'n gysylltiedig â chyflwyno gofyniad i reoleiddiwr y gwasanaeth gynnwys dinasyddion yn ei waith a chyflwyno adroddiad cyhoeddus bob blwyddyn ar yr hyn a gyflawnwyd mewn cysylltiad â'r amcan hwn, yn cynnwys y canlynol:

- Dylid gallu sicrhau y cynhelir y momentwm presennol ynglŷn â chynnwys dinasyddion trwy gyflwyno gofyniad cyfreithiol.
- Trwy ei gwneud yn ofynnol yn ôl y gyfraith i reoleiddiwr y gwasanaeth gynnwys dinasyddion yn ei waith a chyflwyno adroddiad am ymgysylltiad o'r fath, gellir rhoi mwy o sicrwydd i'r cyhoedd bod y rheoleiddiwr yn gwrando ar bryderon a syniadau dinasyddion ac yn ymateb iddynt, bod ei waith yn dryloyw ac y gellir ei herio a'i fod yn canolbwyntio ar effaith ei waith ar ddinasyddion.
- Gellir gwella gwaith y rheoleiddiwr yn sylweddol trwy gynnwys dinasyddion sy'n gallu ei herio a chynnig safbwyntiau gwahanol.

Crynodeb a'r opsiwn a ffefrir

7.276 Ceir consensws cyffredinol y gellir darparu amrywiaeth o fanteision trwy gynnwys dinasyddion wrth benderfynu sut i gynllunio a chyflwyno gwasanaethau cyhoeddus. Mae hyn yn wir hefyd o ran rheoleiddio, gan mai un o ddibenion allweddol y gwaith yw darparu sicrwydd cyhoeddus i'r dinasyddion ynglŷn â gwasanaethau o'r fath. Fodd bynnag, gall natur yr ymgysylltiad hwnnw newid dros amser am amrywiaeth o resymau ac felly fe'i hystyrir yn briodol nodi gofyniad cyffredinol yn hytrach nag un penodol yn y gyfraith.

7.277 Am y rhesymau uchod, opsiwn dau uchod yw'r dull a ffefrir.

Model rheoleiddio sy'n seiliedig ar wasanaethau

7.278 Gweler rhan un o Fil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) ar gyfer y darpariaethau sy'n ymwneud â rheoleiddio gwasanaethau a darparwyr gwasanaeth.

7.279 Ar hyn o bryd, mae gan Gymru fodel rheoleiddio ar sail lleoliadau, sy'n golygu bod darparwyr gwasanaeth yn gwneud ceisiadau unigol ar gyfer pob un o'u sefydliadau neu asiantaethau.

Opsiynau

7.280 Ceir dau opsiwn yn gysylltiedig â'r model ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau:

- Opsiwn un: peidio â gwneud dim.
- Opsiwn dau: newid i fodel rheoleiddio sy'n seiliedig ar wasanaethau, gan gynnwys ehangu swyddogaeth yr Unigolyn Cyfrifol.

Opsiwn un: peidio â gwneud dim

7.281 O dan yr opsiwn hwn, bydd y model presennol sy'n seiliedig ar sefydliadau ac asiantaethau'n parhau. Bydd darparwyr gwasanaeth yn parhau i wneud ceisiadau i gofrestru pob sefydliad neu asiantaeth unigol.

Opsiwn dau: newid i fodel rheoleiddio sy'n seiliedig ar wasanaethau

7.282 O dan yr opsiwn hwn, gwasanaethau gofal cymdeithasol fyddai'n cael eu cofrestru yn hytrach na sefydliadau neu asiantaethau, a bydd yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaeth enwebu Unigolyn Cyfrifol addas a phriodol, a fydd â dyletswyddau a chyfrifoldebau rheoleiddiol wedi eu diffinio'n eglur. Bydd rheoleiddiwr y gwasanaeth yn archwilio addasrwydd a phriodoldeb.

Costau

Opsiwn un: peidio â gwneud dim

Costau rheolaidd: rheoleiddiwr y gwasanaeth

7.283 Ni fyddai rheoleiddiwr y gwasanaeth yn wynebu unrhyw gostau rheolaidd ychwanegol yn gysylltiedig â pharhau â'r system bresennol. Mae cost rheoleiddio gan ddefnyddio'r model presennol sy'n seiliedig ar sefydliadau ac asiantaethau wedi ei

gynnwys yn yr £8,064,000. Amcangyfrifir bod £4,400,000 o hwn wedi ei neilltuo i weithgarwch gorfodi a thua £2,984,520⁵² wedi ei neilltuo i arolygu.

7.284 Mae'r £679,480 sy'n weddill, yn ôl yr amcangyfrif, wedi ei neilltuo ar gyfer cofrestru a gwaith gweinyddol cysylltiedig, sy'n cynnwys cofrestru rheolwyr gwasanaeth yn ogystal â cheisiadau newydd i gofrestru sefydliadau ac asiantaethau.

7.285 Mae'r gost reolaidd sy'n gysylltiedig â pharhau â'r model rheoleiddio presennol, yn berthnasol i gofrestru sefydliadau ac asiantaethau yn unig, ac nid i gofrestru rheolwyr. Gan na fu modd nodi'n gywir y gost ar gyfer y ddwy swyddogaeth benodol ar wahân, rydym wedi gorfod defnyddio'r ffigur o £679,480.

7.286 Er mwyn sicrhau nad yw'r un peth yn cael ei gyfrifo ddwywaith, ni fydd y costau rheolaidd ar gyfer cofrestru rheolwyr yn cael eu cynnwys yn y drafodaeth ar gofrestriad deul.

Costau rheolaidd: darparwyr gwasanaeth

7.287 Mae'r costau rheolaidd ar gyfer darparwyr gwasanaeth yn ymwneud â nifer y ceisiadau newydd i gofrestru. Yn 2012-13 cyflwynwyd 104 o geisiadau newydd i gofrestru (AGGCC, 2014).

7.288 Gan dybio ei bod yn cymryd 30 munud i reolwr gwasanaeth gofrestru lleoliad, y gost a amcangyfrifir ar gyfer cofrestru pob lleoliad unigol yw £11.80⁵³. Amcangyfrifir felly mai tua £1,200 oedd y gost ar gyfer cofrestru'r 104 o geisiadau.

Costau rheolaidd: defnyddwyr gwasanaethau

7.289 Mae cost reolaidd bosibl i ddefnyddwyr gwasanaethau yn gysylltiedig â chadw'r system bresennol.

⁵² Mae hwn wedi ei seilio ar y dybiaeth bod pob ymweliad arolygu yn cymryd un diwrnod a'i bod yn cymryd diwrnod arall i baratoi ar gyfer yr arolygiad ac ysgrifennu'r adroddiad arolygu. Mae rheoleiddiwr y gwasanaeth wedi rhoi cyfradd ddyddiol o £374 ar gyfer cyflawni gweithgareddau sy'n gysylltiedig â rheoleiddio.

⁵³ Yn seiliedig ar gyflog blynyddol cyfartalog o £30,766 i reolwr gofal cartref (Curtis, 2013) ac ar gostau o £9,366, gan roi cyfanswm o £40,132 y flwyddyn. Gan dybio y rhoddir chwe wythnos o wyliau blynyddol gan gynnwys gwyliau banc, £872.43 yw'r gost wythnosol. Gan dybio mai 37 awr yw'r wythnos waith, £23.60 yw'r gost fesul awr.

7.290 Gyda'r system bresennol, mae'n bosibl i asiantaethau gofal cartref yn Lloegr, sydd heb eu cofrestru ac nad ydynt yn cael eu rheoleiddio, ddarparu gwasanaethau yng Nghymru. Mae potensial felly i ddefnyddwyr gwasanaethau brofi gwasanaethau o ansawdd gwael neu fod mewn perygl o niwed.

7.291 Er ei bod yn bosibl, yn ddamcaniaethol, bod asiantaethau gofal cartref yn gweithredu yng Nghymru nad ydynt wedi eu cofrestru gan AGGCC nac yn cael eu harolygu ganddi, yn ymarferol mae'r risg yn fach.

7.292 Fel rhan o'r broses gomisiynu, disgwylir y byddai awdurdodau lleol yn cadarnhau bod asiantaethau gofal cartref wedi eu cofrestru gydag AGGCC. O dan gyfres benodol o amgylchiadau yn unig y mae'n bosibl felly i asiantaethau nad ydynt wedi eu cofrestru gydag AGGCC weithredu yng Nghymru – pan fo'r asiantaeth wedi ei lleoli yn Lloegr yn unig ac nad yw'n darparu unrhyw wasanaethau i awdurdodau lleol yng Nghymru.

7.293 Mae'r system bresennol hefyd yn cyfyngu ar allu'r rheoleiddiwr i gymryd camau gorfodi priodol. O dan y dull presennol, pe byddai gan ddarparwr leoliad sy'n methu, fe allai sicrhau ei fod yn cydymffurfio trwy symud adnoddau yno o leoliad arall. Hyd yn oed pan gymerir camau yn erbyn lleoliad penodol sy'n methu, nid yw hynny'n cael unrhyw effaith ar y lleoliad arall sy'n eiddo i'r un darparwr.

Tabl 16: crynodeb o'r costau sy'n gysylltiedig â chadw'r model rheoleiddio presennol sy'n seiliedig ar sefydliadau ac asiantaethau (opsiwn un)

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|--|----------------|----------------|----------------|----------------|----------------|
| Rheoleiddiwr y gwasanaeth ¹ | 679,480 | 679,480 | 679,480 | 679,480 | 679,480 |
| Darparwyr gwasanaeth | 1,200 | 1,200 | 1,200 | 1,200 | 1,200 |
| Cyfanswm y gost | 680,680 | 680,680 | 680,680 | 680,680 | 680,680 |

1. Hwn yw cyfanswm y costau yr amcangyfrifir y mae rheoleiddiwr y gwasanaeth yn eu hwynebu o ran cofrestru sefydliadau ac asiantaethau

Opsiw'n dau: newid i fodel rheoleiddio sy'n seiliedig ar wasanaethau, gan gynnwys ehangu swyddogaeth yr Unigolyn Cyfrifol

Costau rheolaidd: rheoleiddiwr y gwasanaeth

7.294 Mae rheoleiddiwr y gwasanaeth wedi cadarnhau na fyddai unrhyw gostau ychwanegol rheolaidd ynghlwm wrth weithredu model rheoleiddio sy'n seiliedig ar wasanaethau.

Costau pontio: rheoleiddiwr y gwasanaeth

7.295 Disgwylir i opsiwn dau arwain at gostau pontio sylweddol i reoleiddiwr y gwasanaeth.

7.296 Mae'n annhebygol y byddai rheoleiddiwr y gwasanaeth yn gallu ailstrwythuro'r data a gedwir ar hyn o bryd am ddarparwyr gwasanaeth yn unol â'r model rheoleiddio seiliedig ar wasanaethau, gan y bydd gwasanaethau'n debygol o gael eu hailddiffinio yn sgil newid i fodel rheoleiddio seiliedig ar wasanaethau.

7.297 Mae rheoleiddiwr y gwasanaeth wedi amcangyfrif mai tua £1,493,500 fydd y costau pontio ar gyfer opsiwn dau. Mae tua £1,471,000 o hwn yn ymwneud â gweithgarwch ailgofrestru (sy'n cynnwys cynnal ymweliad safle mewn 25% o leoliadau gofal preswyl a chyfweld yr holl unigolion cyfrifol)⁵⁴ (gweler tabl 17 isod) ac mae £22,500 yn ymwneud â pharatoi a dosbarthu canllawiau a chynnal gweithdai rhanbarthol⁵⁵. Mae rheoleiddiwr y gwasanaeth wedi cyfrifo y bydd y costau pontio sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn dod i gyfanswm o £200,000 ar gyfer TGCh, datblygu canllawiau ac adnoddau a dosbarthu gwybodaeth i'r cyhoedd, arolygwyr a darparwyr gwasanaeth. Mae'r ffigur hwn felly wedi ei dynnu o'r costau pontio sy'n gysylltiedig â chyflwyno model rheoleiddio seiliedig ar wasanaethau.

7.298 Amcangyfrifir felly mai oddeutu £1,471,000 fyddai'r costau pontio yn sgil cyflwyno model rheoleiddio sy'n seiliedig ar wasanaethau, heb gynnwys costau dosbarthu. Byddai'r gost hon yn codi yn 2016-17.

Costau rheolaidd: darparwyr gwasanaeth

⁵⁴ Cartrefi gofal preswyl i oedolion, cartrefi nyrsio, a gofal preswyl i blant a phobl ifanc.

⁵⁵ Ar sail 60 diwrnod am £374 y dydd.

7.299 Disgwylir na fyddai darparwyr gwasanaeth yn wynebu unrhyw gostau rheolaidd ychwanegol pe byddai model rheoleiddio sy'n seiliedig ar wasanaethau'n cael ei gyflwyno.

Costau pontio: darparwyr gwasanaeth

7.300 Disgwylir y bydd darparwyr gwasanaeth yn wynebu mân gostau pontio'n gysylltiedig ag opsiwn dau.

7.301 Mae opsiwn dau yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaeth ailgofrestru â rheoleiddiwr y gwasanaeth o dan fodel rheoleiddio sy'n seiliedig ar wasanaethau. Mae opsiwn dau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaeth enwebu Unigolyn Cyfrifol addas a phriodol a fydd yn derbyn asesiad addasrwydd a phriodoldeb gan reoleiddiwr y gwasanaeth.

Tabl 17: costau pontio i reoleiddiwr y gwasanaeth yn sgil cyflwyno model rheoleiddio sy'n seiliedig ar wasanaethau

| Gwasanaeth | Nifer y lleoliadau | Nifer y Dyddiau | Cyfanswm nifer y dyddiau | Cyfradd (£) | Cyfanswm (£) |
|---|---------------------------|---|---------------------------------|--------------------|---------------------|
| Gofal Nyrsio i Oedolion | 257 | 1.5 a 25% ymweliad safle 1 diwrnod i bob ymweliad | 449.75 | 374 | 168,206 |
| Cartref Oedolion | 875 | 1.5 a 25% ymweliad safle 1 diwrnod i bob ymweliad | 1531.25 | 374 | 572,687 |
| Cartref Plant | 129 | 1.5 a 25% ymweliad safle 1 diwrnod i bob ymweliad | 225.75 | 374 | 84,430 |
| Gofal Cartref | 422 | 1.5` | 633.00 | 374 | 236,742 |
| Maethu | 28 | 1.5 | 42.00 | 374 | 15,708 |
| Mabwysiadu | 1 | 1.5 | 1.500 | 374 | 561 |
| Lleoliadau Oedolion | 12 | 1.5 | 18.00 | 374 | 6,732 |
| Cyfanswm | 1,720 ⁵⁶ | | 2901.25 | 374 | 1,085,066 |
| Cymhlethdodau @ 2 ddiwrnod Amcangyfrif o 10% o'r gwasanaethau | 172 | 2 | 344.00 | 374 | 128,656 |
| Heriau mawr @ 4 diwrnod Amcangyfrif o 10% o'r gwasanaethau | 172 | 4 | 688.00 | 374 | 257,312 |
| Cyfanswm cyffredinol | 2,068 | | 3933.25 | | 1,471,036 |

⁵⁶ Mae'r gofrestr o asiantaethau a lleoliadau'n cael ei diweddarau'n barhaus. Nid yw nifer yr asiantaethau a'r lleoliadau sydd wedi eu cofrestru'n sefydlog felly, heblaw pan fydd y ffigyrau'n cael eu cyhoeddi bob blwyddyn. 1,720 yw gwir nifer y lleoliadau ar yr adeg y gwnaethpwyd y cyfrifiadau ac nid nifer y sefydliadau a gyhoeddwyd. Mae gwahaniaeth felly yn nifer y lleoliadau a nodwyd yn y tabl uchod a nifer y lleoliadau a ddefnyddir yn y ddogfen.

- 7.302 Gan dybio ei bod yn cymryd 30 munud i bob darparwr gwasanaeth ailgofrestru ei wasanaeth, amcangyfrifir y byddai'r gost yn £11.80⁵⁷. Amcangyfrifir felly mai tua £11,200 fyddai cyfanswm y gost ychwanegol i'r 946 o ddarparwyr gwasanaeth annibynnol i ailgofrestru eu 1,562 o leoliadau.
- 7.303 Byddai'r gost i bob un o'r 22 o awdurdodau lleol, gan dybio cyflog cyfwerth ag Uwch Swyddog Gweithredol Llywodraeth Cymru⁵⁸ tua £11.94. Amcangyfrifir felly mai tua £300 fyddai'r gost i awdurdodau lleol.
- 7.304 Disgwylir y bydd rheoleiddiwr y gwasanaeth yn cyfweld yr holl Unigolion Cyfrifol. Mae'n debygol y bydd tua 995 o Unigolion Cyfrifol. Gan dybio y gallai Unigolyn Cyfrifol fod yn gyfrifol am hyd at chwech o leoliadau gofal cymdeithasol, byddai tua 973 o Unigolion Cyfrifol annibynnol⁵⁹ a 22 o Unigolion Cyfrifol gan awdurdodau lleol.
- 7.305 Gan dybio y bydd y cyfweliad yn parhau am 75 munud ar gyfartaledd, amcangyfrifir mai tua £36,100⁶⁰ fyddai'r gost i 995 o Unigolion Cyfrifol ddod i gyfweliadau. Hefyd, amcangyfrifir y bydd Unigolion Cyfrifol yn treulio 80 munud ar gyfartaledd yn teithio i'r cyfweliad ac yn ôl. Amcangyfrifir mai £38.81 fydd y gost fesul Unigolyn Cyfrifol ar gyfer amser teithio, gan roi cyfanswm o oddeutu £38,600.
- 7.306 Hefyd, byddai Unigolion Cyfrifol yn wynebu costau teithio. Gan dybio y byddai taith gron yn 50 milltir fesul cyfweliad ar gyfartaledd, amcangyfrifir y byddai'r gost yn £22.50⁶¹ fesul Unigolyn Cyfrifol, gan roi cyfanswm o oddeutu £22,400.

⁵⁷ Yn seiliedig ar gyflog blynyddol cyfartalog o £30,766 i reolwr gofal cartref (Curtis, 2013) ac ar gostau o £9,366, gan roi cyfanswm o £40,132 y flwyddyn. Gan dybio y rhoddir chwe wythnos o wyliau blynyddol gan gynnwys gwyliau banc, £872.43 yw'r gost wythnosol. Gan dybio mai 37 awr yw'r wythnos waith, £23.60 yw'r gost fesul awr.

⁵⁸ Cyflog Gros o £40,632. Gan dybio y rhoddir chew wythnos o wyliau blynyddol, y gost wythnosol yw £883.30, gyda chyfradd fesul awr o £23.87 am wythnos waith 37 awr.

⁵⁹ Mae gan 926 o ddarparwyr hyd at 6 lleoliad, ac mae angen o leiaf un unigolyn cyfrifol (926); mae gan 15 o sefydliadau rhwng 7 a 12 o leoliadau, ac mae angen o leiaf 2 unigolyn cyfrifol (30); mae gan 3 sefydliad rhwng 13 a 18 o leoliadau, ac mae angen o leiaf 3 unigolyn cyfrifol (9); ac mae gan 2 sefydliad rhwng 19 a 24 o leoliadau, ac mae angen o leiaf 4 unigolyn cyfrifol (8).

⁶⁰ Yn seiliedig ar gyflog blynyddol cyfartalog rheolwyr, cyfarwyddwyr ac uwch swyddogion ym mis Ebrill 2013 o £765.10 yr wythnos neu £39,785.20 y flwyddyn (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2013). Gan dybio bod y cyfarwyddwr mewn cynllun pensiwn cwmni, amcangyfrifir y byddai'r cyflog gan gynnwys costau yn £49,546 y flwyddyn. Gan dybio y rhoddir chwe wythnos o wyliau blynyddol, y gost wythnosol yw £1,077, y gyfradd ddyddiol yw £215 a'r gyfradd fesul awr yw £29.11. Felly, tua £36.30 yw'r gyfradd ar gyfer 75 munud a thua £38.81 yw'r gyfradd ar gyfer 80 munud.

⁶¹ 50 milltir am 45 ceiniog y filltir (yn seiliedig ar gyfraddau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar gyfer gostyngiad yn y dreth ar filltiroedd busnes wrth ddefnyddio eu cerbyd eu hunain).

<http://www.hmrc.gov.uk/incometax/relief-mileage.htm#2>

7.307 Amcangyfrifir felly mai oddeutu £108,600 fyddai cyfanswm y costau ailgofrestru yn gysylltiedig â newid i fodel rheoleiddio sy'n seiliedig ar wasanaethau, gan gynnwys enwebu Unigolion Cyfrifol.

Tabl 18: crynodeb o'r costau tebygol a amcangyfrifir y sgil newid i fodel rheoleiddio sy'n seiliedig ar wasanaethau (opsiwn dau)

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---------------------------|------------------|----------------|----------------|----------------|----------------|
| Rheoleiddiwr y gwasanaeth | | | | | |
| Pontio | 1,471,000 | | | | |
| Rheolaidd | 679,480 | 679,480 | 679,480 | 679,480 | 679,480 |
| Darparwyr gwasanaeth | | | | | |
| Pontio | 108,600 | | | | |
| Rheolaidd | 1,200 | 1,200 | 1,200 | 1,200 | 1,200 |
| Cyfanswm y gost | 2,260,280 | 680,680 | 680,680 | 680,680 | 680,680 |
| | | | | | |

Manteision

Opsiwn dau: newid i fodel rheoleiddio sy'n seiliedig ar wasanaethau

Darparwyr gwasanaeth

7.308 O dan yr opsiwn hwn, bydd darparwyr gwasanaeth yn cofrestru'r gwasanaethau y maent yn eu darparu yn hytrach na'r asiantaethau a'r sefydliadau unigol y maent yn darparu'r gwasanaethau drwyddynt.

7.309 Bydd yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaeth lenwi un ffurflen gofrestru a fydd yn nodi'r holl wasanaethau a ddarperir, yn ogystal â'r holl leoliadau y darperir y gwasanaethau penodol ohonynt.

7.310 Disgwylir i opsiwn dau alluogi rhai darparwyr gwasanaeth annibynnol i arbed rhywfaint o gostau, a galluogi awdurdodau lleol i arbed mwy o gostau.

7.311 Yn ymarferol mae'r arian y byddant yn ei arbed gyda'r opsiwn hwn yn debygol o fod yn fach gan nad oes llawer o ddarparwyr â mwy nag un lleoliad. Ar sail proffil y

farchnad bresennol, mae'n debygol y bydd mwyafrif y ceisiadau newydd ar gyfer lleoliad unigol⁶².

7.312 Hefyd, ni fyddai'n ofynnol i ddarparwyr gwasanaeth sy'n dymuno agor mwy o leoliadau lenwi cais arall. Yn hytrach, dim ond cyflwyno cais i amrywio eu cofrestriad presennol y byddai'n rhaid iddynt ei wneud.

Rheoleiddiwr y gwasanaeth

7.313 O dan yr opsiwn hwn, byddai ystod ehangach o opsiynau gorfodi ar gael i'r rheoleiddiwr. Gan y byddai pob darparwr yn cofrestru unwaith ar gyfer ei holl wasanaethau, byddai modd i'r rheoleiddiwr dargedu'r camau ar y lefel fwyaf priodol - sef y lleoliad, y gwasanaeth neu'r darparwr.

7.314 Bydd y rheoleiddiwr hefyd yn gallu sicrhau bod modd i fodolau newydd o ddarparu gwasanaethau gael eu cynnwys yn gyflym yn y drefn reoleiddio, yn sgil datblygiad rheoliadau.

Defnyddwyr gwasanaethau

7.315 Dylai defnyddwyr gwasanaeth, eu teuluoedd a'u gofalwyr gael budd o'r cynnig i gyflwyno model rheoleiddio sy'n seiliedig ar wasanaethau.

7.316 Trwy newid i fodel rheoleiddio sy'n seiliedig ar wasanaethau, gellid sicrhau bod pob asiantaeth gofal cartref yn cael ei chofrestru a'i harchwilio gan AGGCC, ni waeth a yw wedi ei lleoli yng Nghymru neu yn Lloegr. Gall defnyddwyr gwasanaeth, eu teuluoedd a gofalwyr fod yn sicr felly bod y gwasanaeth a dderbyniant yn cael ei reoli gan unigolyn y mae'r rheoleiddiwr yn ei ystyried yn briodol ac yn addas i wneud hynny, ac yn cael ei gyflwyno gan staff sydd â'r sgiliau a'r cymwysterau gofynnol i ddarparu gofal o ansawdd da.

7.317 Bydd y model gwasanaethau hefyd yn caniatáu i'r system gynnwys modelau newydd o ran gofal a darpariaeth gwasanaethau yn haws na'r system bresennol. Wrth

⁶² Un lleoliad yn unig sydd gan 737 (78%) o'r 946 o ddarparwyr gwasanaeth annibynnol. Ni fyddai 737 o ddarparwyr gwasanaeth yn gweld unrhyw newid o gwbl felly, a byddai 209 o ddarparwyr yn cael budd o'r newid i raddau amrywiol, yn dibynnu ar nifer y lleoliadau sydd ganddynt. Mae gan ddarparwyr sydd â mwy nag un lleoliad, rhwng dau a 22 o leoliadau.

i ddulliau arloesol gael eu datblygu felly, bydd dinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau yn elwa ar allu'r model i ymateb yn gyflym er mwyn cynnwys gwasanaethau o'r fath yn y drefn reoleiddio.

Crynodeb a'r opsiwn a ffefrir

7.318 Defnyddir y model rheoleiddio sy'n seiliedig ar wasanaethau yn eang mewn gofal cymdeithasol yn y DU. Mae'n cynnig amrywiaeth o gamau gorfodi i'r rheoleiddiwr a fydd yn golygu y bydd y bobl hynny sy'n gyfrifol am y ddarpariaeth yn atebol mewn modd priodol am y ddarpariaeth honno, yn hytrach na chanolbwyntio atebolrwydd ar un lleoliad neu asiantaeth yn unig. Mae hefyd yn system sy'n naturiol yn ddigon hyblyg i allu cynnwys modelau gofal newydd yn y drefn reoleiddio wrth iddynt ddatblygu. Mae'r drefn sy'n seiliedig ar wasanaethau yn sicrhau bod gwasanaethau a ddarperir yng Nghymru yn cael eu rheoleiddio yng Nghymru. Hefyd, mae'r drefn sy'n seiliedig ar wasanaethau yn golygu bod y rheoleiddiwr yn gallu ystyried darpariaeth mewn ffordd fwy cyfannol, gan sicrhau y rhoddir sylw i fethiannau systemig ac y ceir atebolrwydd ar lefel briodol yn y sefydliad.

7.319 Yr opsiwn a ffefrir yw opsiwn dau am y rhesymau uchod.

Hysbysiadau gwella statudol

7.320 Gweler adran 14 o Fil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) ar gyfer y darpariaethau sy'n ymwneud â hysbysiadau gwella.

Opsiynau

7.321 Yr opsiynau a drafodwyd ynglŷn â'r hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yw:

- Opsiwn un: peidio â gwneud dim
- Opsiwn dau: cyflwyno hysbysiadau gwella statudol.

Opsiwn un: peidio â gwneud dim

7.322 O dan opsiwn un, cedwir at y system bresennol. Ar hyn o bryd, pan nad yw darparwr gwasanaeth yn cydymffurfio â safonau a rheoliadau, caiff rheoleiddiwr y gwasanaeth gyflwyno hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio, anstatudol. Cyflwynir hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio yn rhan o'r broses arolygu pan fo arolygydd yn nodi meysydd gwasanaeth nad ydynt yn cydymffurfio â safonau a rheoliadau. Ni chyflwynir hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio pan fo'r arolygydd yn ystyried bod risg sylweddol o niwed i ddefnyddwyr gwasanaeth. Mewn achosion o'r fath, byddai'r rheoleiddiwr yn ceisio canslo'r cofrestriad ar frys.

Opsiwn dau: cyflwyno hysbysiadau gwella statudol

7.323 O dan opsiwn dau, byddai gofyniad statudol yn cael ei gyflwyno a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i reoleiddiwr y gwasanaeth gyflwyno hysbysiad gwella cyn cymryd unrhyw gam nad yw'n gam brys i ganslo cofrestriad.

Costau

Opsiwn un: peidio â gwneud dim

Costau rheolaidd: rheoleiddiwr y gwasanaeth

7.324 Mae cost cyflwyno hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio, anstatudol wedi ei gynnwys yn yr amcangyfrif a ddarparwyd gan reoleiddiwr y gwasanaeth ar gyfer cost gweithgarwch gorfodi, sef £4,400,000. Cesglir yr wybodaeth ofynnol ar gyfer paratoi hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio, anstatudol yn rhan o'r broses arolygu.

Amcangyfrifir mai oddeutu £2,984,520⁶³ yw cyfanswm y gost bresennol ar gyfer cynnal arolygiadau.

Costau rheolaidd: darparwyr gwasanaeth

7.325 Mae darparwyr gwasanaeth yn wynebu costau wrth ymateb i hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio. Mae'n anodd amcangyfrif amrediad y costau i ddarparwyr gwasanaeth, o ystyried yr amrywiaeth o feysydd y gellid tybio nad ydynt yn cydymffurfio. Yn ogystal, gellir cyflwyno hysbysiadau ar gyfer un neu sawl achos o beidio â chydymffurfio â rheoliadau. O'r herwydd, ni ddarparwyd amcangyfrif o ran y costau y mae darparwyr gwasanaeth yn mynd iddynt wrth ymateb i hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio.

7.326 Ar hyn o bryd, mae'n bosibl bod hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio yn cael effaith andwyol ar bremymau yswiriant. Mae Fforwm Gofal Cymru wedi hysbysu Llywodraeth Cymru bod cwmnïau yswiriant, bellach, yn ystyried bod mwy o risg yn perthyn i'r sector, yn dilyn achosion proffil uchel diweddar megis Winterbourne View. Mae cwmnïau yswiriant yn ystyried bod hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio yn dystiolaeth o risg ychwanegol. O ganlyniad, gall cyflwyno hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio gael effaith andwyol ar bremymau yswiriant.

7.327 Nid oes unrhyw gostau rheolaidd ychwanegol yn deillio o gadw'r system bresennol.

Risgiau

7.328 Fodd bynnag, ceir dwy risg sy'n gysylltiedig â pharhau â'r system bresennol.

7.329 Y bwriad yw symud y model presennol o reoleiddio oddi wrth un sy'n seiliedig ar ddilyn rheolau a rheoliadau at un sy'n seiliedig ar wella perfformiad gwasanaethau, o ran eu canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth. Os cedwir hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio, ni fydd hynny'n cyd-fynd â'r newid arfaethedig i'r model rheoleiddio.

7.330 Mae risg hefyd na fyddai'r arfer presennol o gyflwyno hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio'n parhau, gan nad yw'r arfer yn un statudol. Yn hytrach, mae'r arfer wedi

⁶³ Mae hyn wedi ei seilio ar y dybiaeth bod pob ymweliad arolygu yn cymryd un diwrnod a'i bod yn cymryd un diwrnod ychwanegol i baratoi ar gyfer yr arolygiad ac i ysgrifennu'r adroddiad arolygu. Mae'r darparwr gwasanaeth wedi darparu cyfradd ddydd o £374 am gyflawni gweithgareddau sy'n ymwneud â rheoleiddio.

ei nodi mewn canllawiau y gallai rheoleiddiwr y gwasanaeth eu newid ar unrhyw adeg heb unrhyw ofyniad i ymgynghori'n ffurfiol â darparwyr gwasanaeth.

Opsiwn dau: cyflwyno hysbysiadau gwella statudol

Costau rheolaidd

7.331 Nid oes unrhyw gostau'n gysylltiedig â chyflwyno hysbysiadau gwella statudol gan fod hysbysiadau eisoes yn cael eu cyflwyno yn rhan o'r broses arolygu a gorfodi. Byddai'r opsiwn yn ffurfioli o fewn y gyfraith arfer sydd eisoes yn bodoli.

Costau pontio: rheoleiddiwr y gwasanaeth

7.332 Disgwylir y bydd rheoleiddiwr y gwasanaeth yn wynebu costau pontio bach yn gysylltiedig â gweithredu opsiwn dau. Bydd y costau pontio hyn yn codi wrth iddo hyfforddi a datblygu ei weithlu i roi'r broses ar waith. Ni fu modd amcangyfrif y costau pontio y bydd rheoleiddiwr y gwasanaeth yn eu hwynebu o ran hyfforddi a datblygu'r gweithlu ar gyfer pob agwedd ar y Bil. Yn hytrach, mae rheoleiddiwr y gwasanaeth wedi amcangyfrif cyfanswm cost ar gyfer hyfforddi a datblygu.

7.333 Mae rheoleiddiwr y gwasanaeth wedi amcangyfrif y bydd yn wynebu costau o £455,200 i hyfforddi ei weithlu ar y gyfraith newydd, pan gaiff ei phasio, ac i lunio canllawiau ymarfer ac adnoddau i gefnogi'r gwaith o roi Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)⁶⁴ ar waith.

7.334 Mae'r gost amcangyfrifedig o £455,200 yn cynnwys £52,500 i hyfforddi arolygwyr a staff allweddol, £1,000 i hyfforddi arolygwyr sy'n derbyn ffi a £5,000 i gynnal hyfforddiant ar y prosesau gweinyddol. Yn ogystal, mae rheoleiddiwr y gwasanaeth wedi neilltuo £392,700 o gostau cyfle i dalu am ddarpariaeth yn lle'r arolygwyr a'r staff allweddol pan fydd y rheini'n cael eu hyfforddi a £4,000 i dalu am ddarpariaeth yn lle arolygwyr sy'n derbyn ffi.

Costau pontio: darparwyr gwasanaeth

⁶⁴ Mae'r costau pontio o £455,200 ar gyfer hyfforddiant a chymorth wedi'u cynnwys yn y tablau sy'n crynhoi cyfanswm costau'r opsiynau a ffefrir. Gweler tablau 42 a 43.

7.335 Ni ddisgwylir y bydd darparwyr gwasanaeth yn wynebu unrhyw gostau pontio⁶⁵.

Manteision

7.336 Byddai opsiwn dau yn sicrhau bod hysbysiadau'n cyd-fynd â'r newid arfaethedig i fodel rheoleiddio sy'n seiliedig ar ganlyniadau.

7.337 Mae'r opsiwn hefyd yn sicrhau bod darparwyr gwasanaeth yn cael y cyfle i gymryd camau unioni cyn i reoleiddiwr y gwasanaeth gymryd camau gorfodi mwy difrifol.

7.338 Disgwylir y gellir gwneud y farchnad gofal cymdeithasol yng Nghymru yn fwy sefydlog trwy ei gwneud yn haws i ddarparwyr gwasanaeth wella eu gwasanaeth, yn hytrach na chael canslo eu cofrestrriad.

Crynodeb a'r opsiwn a ffefrir

7.339 Mae opsiwn dau yn cyd-fynd yn well â'r gyfundrefn reoleiddio newydd ac yn cyfnerthu arfer presennol trwy ei roi ar sail statudol.

7.340 Ystyrir mai opsiwn dau yw'r dull a ffefrir ar gyfer symud ymlaen.

⁶⁵ Ni ddarparodd Cymdeithas Gofal Cartref y Deyrnas Unedig gostau sy'n gysylltiedig â dod yn gyfarwydd â'r newid. Fodd bynnag, mae'n debygol na fydd y rhan fwyaf o'r darparwyr gwasanaeth ond yn dod yn gyfarwydd â'r gofynion sy'n ymwneud â gwella a chamau gorfodi pan fyddant yn destun camau o'r fath.

Cofrestriad am gyfnod cyfyngedig

7.341 Gweler adran 14(c) o Fil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) ar gyfer y ddarpariaeth sy'n ymwneud â chofrestriad am gyfnod cyfyngedig.

Opsiynau

7.342 Trafodir dau opsiwn ynglŷn ag ychwanegu at yr amodau presennol y gallai rheoleiddiwr y gwasanaeth eu gosod ar gofrestrriad darparwr gwasanaeth:

- Opsiwn un: peidio â gwneud dim.
- Opsiwn dau: cyflwyno cofrestriad am gyfnod cyfyngedig.

Opsiwn un: peidio â gwneud dim

7.343 O dan yr opsiwn hwn, bydd y sefyllfa bresennol yn parhau. Hynny yw, pan fo rheoleiddiwr y gwasanaeth yn cymryd camau gorfodi i ganslo cofrestriad darparwr gwasanaeth, ni fydd unrhyw newid i amrediad yr amodau y gallai rheoleiddiwr y gwasanaeth eu gosod ar gofrestrriad darparwr gwasanaeth pe byddai'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad o'r farn bod hynny'n briodol, yn hytrach na chymryd camau i ganslo. Mae amodau o'r fath yn cynnwys cyfyngiad ar nifer y gwelyau, er enghraifft.

Opsiwn dau: cyflwyno cofrestriad am gyfnod cyfyngedig

7.344 Pan fo darparwr gwasanaeth yn cyflwyno sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i hysbysiad i ganslo cofrestriad, mae gan rheoleiddiwr y gwasanaeth yr opsiwn i osod amod i roi cyfyngiad amser ar gofrestrriad darparwr y gwasanaeth, yn hytrach na chanslo, pe byddai'n briodol. O dan opsiwn dau, cyflwynir amod newydd o gofrestrriad am gyfnod cyfyngedig. Bydd hyn yn rhoi cyfle i ddarparwyr gwasanaeth wneud y gwelliannau angenrheidiol i'w gwasanaeth, cyn i'r rheoleiddiwr gymryd unrhyw gamau i ganslo cofrestriad darparwr y gwasanaeth.

Costau

Opsiwn un: peidio â gwneud dim

Costau rheolaidd: rheoleiddiwr y gwasanaeth

7.345 Mae'r gost sy'n gysylltiedig â'r system bresennol o osod amodau wedi ei chynnwys yn yr amcangyfrif a ddarparwyd gan reoleiddiwr y gwasanaeth ar gyfer cost bresennol gweithgarwch gorfodi, sef £4,400,000.

7.346 Nid oes unrhyw oblygiadau o ran costau ariannol ar gyfer cadw'r system bresennol.

Opsiwn dau: cyflwyno cofrestriad am gyfnod cyfyngedig

Costau rheolaidd: rheoleiddiwr y gwasanaeth

7.347 Gan y defnydddir amodau eisoes yn rhan o'r broses orfodi ac y rhoddir amserlenni ar gyfer cwblhau camau gweithredu mewn ymateb i hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio, ni ddisgwylir unrhyw gostau rheolaidd ychwanegol o ran cyflwyno cofrestru am gyfnod cyfyngedig.

Costau pontio: rheoleiddiwr y gwasanaeth

7.348 Disgwylir i reoleiddiwr y gwasanaeth wynebu mân gostau wrth weithredu opsiwn dau. Bydd hyn yn cynnwys gorfod ychwanegu'r amod at y system, hyfforddi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, a pharatoi arweiniad ar eu cyfer. Mae'r gost hon wedi ei chynnwys yn yr amcangyfrif a ddarparwyd gan reoleiddiwr y gwasanaeth ar gyfer hyfforddiant a diwygio systemau, sef £455,200⁶⁶.

Costau rheolaidd: darparwyr gwasanaeth

7.349 Gan y defnydddir amodau eisoes yn rhan o'r broses orfodi a gan y rhoddir amserlenni ar gyfer cwblhau camau gweithredu mewn ymateb i hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio, ni ddisgwylir unrhyw gostau rheolaidd ychwanegol o ran cyflwyno cofrestru am gyfnod cyfyngedig.

Costau rheolaidd: defnyddwyr gwasanaethau

7.350 Mae'n bosibl i gofrestru am gyfnod cyfyngedig gael dwy effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth.

⁶⁶ Mae'r costau pontio o £455,200 ar gyfer hyfforddiant a chymorth wedi'u cynnwys yn y tablau sy'n crynhoi cyfanswm costau'r opsiynau a ffefrir. Gweler tablau 42 a 43.

- 7.351 Ar un llaw, gallai cofrestru am gyfnod cyfyngedig roi sicrwydd i ddefnyddwyr gwasanaethau y bydd darparwr y gwasanaeth yn gwneud y gwelliannau angenrheidiol, gan fod cofrestru am gyfnod cyfyngedig yn dangos bod darparwr y gwasanaeth eisoes wedi gwneud ymrwymiad cychwynnol i wella'r gwasanaeth. Diben cofrestru am gyfnod cyfyngedig yw rhoi cyfle i ddarparwr y gwasanaeth ddangos bod y gwelliannau a gyflawnwyd eisoes yn gynaliadwy, ac y bydd yn parhau i gydymffurfio.
- 7.352 Ar y llaw arall, pan nad yw'r defnyddiwr gwasanaethau yn ffyddiog y bydd y darparwr yn gallu cynnal y gwelliannau, gellid dehongli'r amod cyfnod penodol fel y dyddiad y mae'r gwasanaeth yn debygol o roi'r gorau i fasnachu. Yn yr achos hwn, gallai'r defnyddiwr gwasanaethau benderfynu symud i wasanaeth arall cyn diwedd y cyfnod penodol. Byddai hyn yn creu goblygiadau ariannol i ddefnyddwyr gwasanaethau a hefyd mae ganddo'r potensial i greu ansefydlogrwydd yn y farchnad ofal.
- 7.353 Fodd bynnag, mae'r risg yn isel iawn gan y disgwylir i nifer yr amodau cyfnod penodol fod yn fach iawn. Yn ogystal, nid yw defnyddwyr gwasanaethau yn ymwybodol, yn gyffredinol, o hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio sy'n bodoli. O ganlyniad, nid yw'r gost i ddefnyddwyr gwasanaethau wedi ei chynnwys.
- 7.354 Yn yr achosion prin pan nad yw darparwyr gwasanaeth yn gallu cynnal y gwelliannau, bydd yn rhaid i ddefnyddwyr gwasanaethau ddod o hyd i wasanaethau eraill. Nid yw hyn yn debygol o arwain at fawr o gostau, os o gwbl, yn achos gofal cartref. Yn hytrach, yr awdurdod lleol fydd yn talu costau dod o hyd i ddarparwyr eraill yn y rhan fwyaf o'r achosion.
- 7.355 O ran cartrefi gofal preswyl i bobl hŷn, mae hyn yn debygol o olygu costau i ddefnyddwyr gwasanaethau ac i'r awdurdod lleol.
- 7.356 Yn achos gwasanaethau preswyl i blant a phobl ifanc, yr awdurdod lleol fydd yn talu'r costau.

7.357 Gan y disgwylir gweld llai nag un achos y flwyddyn lle nad yw darparwyr gwasanaeth yn gallu cynnal y gwelliannau, nid yw'r costau a'r manteision wedi eu mesur.

Risgiau

Darparwyr gwasanaeth

7.358 Os bydd defnyddwyr gwasanaethau yn ymwybodol o'r amod sy'n cyfyngu ar amser ac os nad oes ganddynt hyder y bydd y darparwr yn gallu cynnal y gwelliannau, mae risg fach y byddant yn chwilio am ddarparwyr gwasanaeth eraill. Gallai hynny roi pwysau ariannol ar ddarparwyr gwasanaeth a gallai hynny, yn ei dro gael effaith negyddol ar eu gallu i gynnal gwelliannau.

Manteision

Defnyddwyr gwasanaethau

7.359 Mae cofrestru am gyfnod cyfyngedig yn darparu opsiwn ychwanegol i reoleiddiwr y gwasanaeth mewn achosion pan gyflwynir hysbysiad gwella.

7.360 Diben yr amod yw goresgyn y sefyllfa lle y gall darparwr fod yn cydymffurfio cyn cyflwyno hysbysiad o benderfyniad i ganslo cofrestriad, ond nad yw'n cynnal hynny am unrhyw gyfnod o amser.

7.361 Yn benodol, bydd yr amod yn gallu mynd i'r afael â sefyllfaoedd lle y mae darparwr gwasanaeth yn cydymffurfio, ac yna'n peidio â chydymffurfio â rheoliad am yn ail, a hynny'n gyson. Pan fo gan reoleiddiwr y gwasanaeth dystiolaeth fod gan ddarparwr gwasanaeth hanes o beidio â chydymffurfio, bydd y rheoleiddiwr yn gallu cyflwyno amod cyfnod penodol ar gofrestriad y gwasanaeth hwnnw.

7.362 Defnyddwyr gwasanaeth, eu gofalwyr a'u teuluoedd yw'r rhai sy'n debygol o elwa fwyaf ar gyflwyno cofrestru am gyfnod cyfyngedig. Mae'r manteision o ran costau i ddefnyddwyr gwasanaethau yn cynnwys costau sy'n ymwneud â gofal gwael, ac

mewn achosion eithafol, y costau sy'n gysylltiedig â gorfod cael darparwr gwasanaeth arall.

Crynodeb a'r opsiwn a ffefrir

7.363 Fe allai cofrestru am gyfnod cyfyngedig fod yn elfen ychwanegol ddefnyddiol o'r pecyn ar gyfer rheoleiddiwr y gwasanaeth, ac mae'n annhebygol o arwain at gostau sylweddol. Mae'r rheoleiddiwr wedi gofyn am y pŵer ychwanegol hwn er mwyn gwella'r amrediad o opsiynau sydd ar gael iddo.

7.364 Oherwydd y rhesymau uchod, ystyrir mai opsiwn dau ddylid ei ffafrio fel y ffordd ymlaen.

Ffioedd cofrestru darparwyr

7.365 Gweler adran 38 o Fil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) ar gyfer y darpariaethau sy'n ymwneud â chodi ffioedd cofrestru darparwyr.

Opsiynau

7.366 Mae tri opsiwn yn gysylltiedig â ffioedd cofrestru darparwyr:

- Opsiwn un: peidio â gwneud dim: dyblygu pwerau sydd eisoes yn bodoli yn Neddf Safonau Gofal 2000 heb unrhyw fwriad brys i ddeddfu rheoliadau ar gyfer codi ffioedd cofrestru ar ddarparwyr.
- Opsiwn dau: canslo'r ddarpariaeth bresennol i ddeddfu rheoliadau ar gyfer codi ffioedd cofrestru ar ddarparwyr.
- Opsiwn tri: dyblygu'r pwerau presennol yn Neddf Safonau Gofal 2000 er mwyn deddfu rheoliadau ar gyfer codi ffioedd cofrestru ar ddarparwyr, gyda'r bwriad o gyflwyno rheoliadau, ac o ganlyniad, ffioedd cofrestru darparwyr gwasanaeth.

Opsiwn un: peidio â gwneud dim

7.367 O dan yr opsiwn hwn, cedwir y ddarpariaeth bresennol sydd yn Neddf Safonau Gofal 2000 i gyflwyno rheoliad ar gyfer codi ffioedd cofrestru ar ddarparwyr. Fel yn achos y sefyllfa bresennol, ni fyddai rheoliadau'n cael eu deddfu. O ganlyniad, ni fyddai darparwyr gwasanaeth yn gorfod talu ffi ar gyfer cofrestru a rheoleiddio.

Opsiwn dau: canslo'r ddarpariaeth bresennol i ddeddfu rheoliadau ar gyfer codi ffioedd cofrestru ar ddarparwyr

7.368 O dan yr opsiwn hwn, byddai'r ddarpariaeth bresennol i ddeddfu rheoliadau ar gyfer cyflwyno ffioedd cofrestru darparwyr yn cael ei diddymu. Mewn gwirionedd, byddai hyn yn cadw'r sefyllfa bresennol, gan na chodir ffi rheoleiddio ar ddarparwyr gwasanaeth ar hyn o bryd. Fodd bynnag, trwy ddiddymu'r ddarpariaeth bresennol byddid yn gwneud i ffwrdd â'r hyblygrwydd presennol i gyflwyno ffioedd cofrestru darparwyr yn y dyfodol, oni bai y rhoddir deddfwriaeth newydd ar waith.

Opsiwn tri: dyblygu'r pwerau presennol i ddeddfu rheoliadau ar gyfer codi ffioedd cofrestru ar ddarparwyr, gyda'r bwriad o gyflwyno rheoliadau, ac o ganlyniad, ffioedd cofrestru darparwyr gwasanaeth

7.369 O dan yr opsiwn hwn, byddai'r pŵer i ddeddfu rheoliadau yn parhau. Yn groes i'r sefyllfa bresennol, lle nad oes rheoliadau wedi eu deddfu, disgwylir y byddai rheoliadau'n cael eu deddfu ac y byddai ffioedd cofrestru darparwyr yn cael eu cyflwyno yn rhan o weithredu'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru).

7.370 Trafodir dau strwythur o ran ffioedd cofrestru darparwyr, sef:

- Mabwysiadu strwythur sy'n adennill costau'n llawn.
- Codi ffioedd sy'n gyfran o'r costau llawn.

Costau

Opsiwn un: peidio â gwneud dim

Costau rheolaidd: darparwyr gwasanaeth

7.371 Ni fyddai darparwyr gwasanaeth yn wynebu unrhyw gostau ychwanegol pe cynhelid yr arfer presennol.

Costau rheolaidd: rheoleiddiwr y gwasanaeth

7.372 Ni fyddai rheoleiddiwr y gwasanaeth yn wynebu unrhyw gostau ychwanegol pe cynhelid yr arfer presennol. Ar hyn o bryd, amcangyfrifir bod rheoleiddiwr y gwasanaeth yn gwario £8,064,000 ar gofrestru, arolygu, camau gorfodi a swyddogaethau gweinyddu o ran y gwasanaethau plant ac oedolion hynny sydd o fewn cwmpas y Bil.

Costau rheolaidd: dinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth

7.373 Ariennir cost rheoleiddio o'r pwrs cyhoeddus ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth Cymru'n ariannu rheoleiddiwr y gwasanaeth trwy gymorth grant. Mae hyn yn wahanol i'r arfer mewn sectorau eraill yng Nghymru ac i'r arfer yn Lloegr o ran gofal cymdeithasol.

7.374 Mae darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru, megis deintyddion ac ysbytai annibynnol, yn talu ffi gofrestru a ffi flynyddol⁶⁷ ar hyn o bryd.

7.375 Mae Lloegr wedi rhoi strwythur codi ffioedd ar waith sydd â'r nod o allu adennill yr holl gostau sy'n gysylltiedig â rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol. Mabwysiadwyd dull cynyddrannol ar gyfer adennill yr holl gostau.

7.376 Fel y dengys tabl 19, yn ystod 2013-14, adenillodd y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC) (2013) yn Lloegr 85% o'r gost o reoleiddio gwasanaethau gofal⁶⁸ ac 87% o'r gost o reoleiddio gwasanaethau gofal yn y gymuned⁶⁹. Adenillodd y Swyddfa Safonau mewn Addysg (Ofsted) 91% o'r costau o reoleiddio gofal preswyl i blant a phobl ifanc.

Tabl 19: costau rheoleiddio a adenillwyd gan CQC ac Ofsted 2013-14

| Categori darparwyr | Cost rheoleiddio | Incwm | Nifer y lleoliadau | Cost gyfartalog fesul lleoliad | Costau a adenillwyd |
|-------------------------------------|-------------------|-------------------|---------------------|--------------------------------|---------------------|
| | £ | £ | | £ | |
| Gwasanaethau gofal yn y gymuned | 6,000,000 | 5,200,000 | | | 87% |
| Gwasanaethau gofal | 64,500,000 | 54,900,000 | 26,263 | 2,456 | 85% |
| Gofal preswyl i blant a phobl ifanc | 4,133,703 | 3,775,288 | 1,718 ⁷⁰ | 2,406 | 91% |
| | | | | | |
| Cyfanswm | 74,633,703 | 63,875,288 | | | 86% |

Ffynonellau: CQC (2013); CQC(2014); Adran Addysg (dyddiad, 2014a); Adran Addysg (2014b).

7.377 Mae'r gost o reoleiddio ac arolygu gwasanaethau yn debygol o godi yn y dyfodol, mewn ymateb i'r galw cynyddol am wasanaethau gofal cymdeithasol. Heb gyfraniad gan ddarparwyr gwasanaeth, mae'n bosibl y bydd y gost yn rhy ddrud neu y bydd yn afresymol disgwyl i'r cyhoedd rhoi cymhorthdal ar gyfer y costau cynyddol.

7.378 Ar y llaw arall, mae perygl y bydd safon y gwaith o reoleiddio ac arolygu gwasanaethau'n gwaethygu os nad yw'r cyllid yn cynyddu i gyd-fynd â'r twf a ragwelir

⁶⁷ Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Ffioedd) (Cymru) 2011 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

⁶⁸ Cartrefi gofal heb nyrsio, cartrefi gofal â nyrsio, colegau arbenigol, hosbisau a gwasanaethau preswyl camddefnyddio sylweddau.

⁶⁹ Asiantaethau gofal cartref, gwasanaethau byw â chymorth ac asiantaethau nyrsys.

⁷⁰ Yn ôl cofrestr data Ofsted, oddeutu 2,050 yw cyfanswm nifer y cartrefi plant. Mae'r data hwn wedi ei 'lanhau' er mwyn peidio â chynnwys cartrefi diogel i blant, cartrefi plant sy'n darparu gofal seibiant neu seibiant byr yn unig, ac Ysgolion Preswyl Arbennig sydd wedi eu cofrestru fel cartrefi plant. Mae hyn wedi rhoi cyfanswm o 1,718 o gartrefi (yr Adran Addysg, 2014b).

yn y sector, gan osod defnyddwyr gwasanaethau mewn perygl o esgeulustod neu gamdriniaeth.

7.379 Yn ogystal, gan y bydd y rheoleiddiwr yn parhau i beidio â bod yn atebol i ddarparwyr gwasanaeth am ansawdd a gwerth am arian y gwasanaeth a ddarperir, nid yw'r opsiwn hwn yn annog rheoleiddiwr y gwasanaeth i weithredu'n fwy effeithlon.

Opsiwn dau: diddymu'r ddarpariaeth bresennol i ddeddfu rheoliadau ar gyfer codi ffi gofrestru ar ddarparwyr gwasanaeth

7.380 Mae'r costau sy'n ymwneud â diddymu'r ddarpariaeth bresennol i ddeddfu rheoliadau ar gyfer codi ffi gofrestru ar ddarparwyr gwasanaeth yr un â'r rhai hynny sy'n gysylltiedig â chadw'r ddarpariaeth bresennol a pheidio â chodi ffioedd cofrestru ar ddarparwyr (hynny yw, opsiwn un).

Opsiwn tri: codi ffi gofrestru ar ddarparwyr gwasanaeth

Costau rheolaidd: rheoleiddiwr y gwasanaeth

7.381 Os dewisir adennill costau llawn, byddai unrhyw gostau rheolaidd ychwanegol, megis y rhai hynny sy'n ymwneud â chasglu ffioedd, yn cael eu cynnwys yn ffioedd cofrestru'r darparwyr.

7.382 Os dewisir codi cyfran o'r gost o reoleiddio, byddai rheoleiddiwr y gwasanaeth yn wynebu costau rheolaidd o ganlyniad i gasglu ffioedd cofrestru. Gan hynny, mae'n bwysig bod y ffi a gesglir yn ddigon i gyfrannu at y gost o reoleiddio ac i dalu am y gost o gasglu'r ffi.

7.383 Ceir risg bosibl yn sgil cyflwyno ffioedd cofrestru y gallai annibyniaeth rheoleiddiwr y gwasanaeth gael ei herydu. Gallai hyn ddigwydd, er enghraifft, pan fo'r berthynas rhwng rheoleiddiwr y gwasanaeth a darparwr gwasanaeth yn symud o fod yn un o atebolrwydd i ddarparwr y gwasanaeth ac yn un sy'n ymateb i ddarparwr y gwasanaeth o ran dangos gwerth am arian, i un lle y mae rheoleiddiwr y gwasanaeth yn cael ei gipio gan ddarparwyr gwasanaeth. Pe byddai'r olaf yn digwydd, gallai annibyniaeth rheoleiddiwr y gwasanaeth gael ei herydu ac mae'n bosibl y byddai sicrwydd y cyhoedd yn gwanhau.

7.384 Fodd bynnag, mae'r risg hon yn fechan. Mae nifer o gyrff rheoleiddio yn codi ffioedd ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Cyngor Gofal Cymru ac, yn Lloegr, y Comisiwn Ansawdd Gofal. Nid oes unrhyw dystiolaeth ar gael i awgrymu bod annibyniaeth rheoleiddwyr wedi ei lleihau o ganlyniad i gyflwyno ffioedd.

Costau pontio: rheoleiddiwr y gwasanaeth

7.385 Bydd rheoleiddiwr y gwasanaeth yn wynebu costau pontio wrth sefydlu system ar gyfer casglu ffioedd cofrestru a darparu gwybodaeth am strwythur y ffi i ddarparwyr gwasanaeth.

Costau rheolaidd i ddarparwyr gwasanaeth

7.386 Mae'r gost i ddarparwyr gwasanaeth yn dibynnu ar y strwythur a sefydlir ar gyfer codi ffioedd. Trafodir dau opsiwn isod:

- Adennill costau llawn.
- Adennill costau rhannol.

a. Adennill costau llawn

7.387 Trwy gyflwyno trefn o adennill costau'n llawn, byddai'r swm o £8,064,000, sef y gost bresennol a amcangyfrifir, yn cael ei drosglwyddo o Lywodraeth Cymru, neu ddinasyddion, i ddarparwyr gwasanaeth. Nid yw'r gost hon yn cynnwys unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chasglu ffioedd cofrestru darparwyr.

7.388 Mae Tablau 17-19 yn rhoi enghreifftiau o'r strwythur ffioedd y gellid ei ddefnyddio yng Nghymru ar gyfer adennill y costau llawn a chyfran o'r costau. O ran gofal cartref, byddai ffi o rhwng £1,500 a £33,500 yn cael ei chodi ar ddarparwyr gwasanaeth. Byddai ffioedd o rhwng £1,300 a £23,500 yn cael eu codi ar ddarparwyr gwasanaethau gofal preswyl i oedolion, a rhwng £2,800 and £11,500⁷¹ ar ddarparwyr gofal preswyl i blant a phobl ifanc. Nid yw'r ffioedd hyn yn cynnwys costau sy'n gysylltiedig â chasglu'r ffioedd.

⁷¹ Mae'r ffioedd a amcangyfrifir yn nhablau 17-19 yn goramcangyfrif rhywfaint ar y ffioedd sydd eu hangen ar gyfer adennill costau llawn. Mae hyn oherwydd bod 73 o wasanaethau maethu nad ydynt wedi eu cynnwys yn y cyfrifon. Nid oedd modd cynnwys gwasanaethau maethu oherwydd nad ydynt wedi eu cynnwys yn y ffigurau a ddarparwyd gan CQC ac ESTYN. Gan nad yw gwasanaethau maethu ond yn 4% o'r lleoliadau yng Nghymru, ychydig iawn o effaith a geir ar lefel y ffi sydd ei hangen i adennill costau trwy gynnwys y ffioedd ar gyfer y gwasanaeth hwn.

b. Adennill costau rhannol

7.389 Dull arall yn hytrach nag adennill y costau llawn fyddai cyflwyno ffioedd ar lefel i adennill costau rhannol. Byddai hyn yn cadw cydbwysedd rhwng yr awydd i sicrhau bod darparwyr gwasanaeth yn cyfrannu at y gost o reoleiddio a'r angen i sicrhau nad yw ffioedd cofrestru yn effeithio'n negyddol ar ddarparwyr gwasanaeth, defnyddwyr gwasanaethau ac ar sefydlogrwydd y farchnad.

7.390 Mae Tablau 18-20 yn nodi amrediad o ffioedd posibl y gellid eu defnyddio er mwyn adennill costau rhannol.

Tabl 20: ffioedd enghreifftiol ar gyfer darparwyr gofal cartref, gan ddefnyddio strwythur ffioedd CQC

| Nifer yr asiantaethau | Nifer y darparwyr | Ffioedd CQC (£) - adennill 87% o'r gost | Ffioedd er mwyn adennill 187% o'r gost | Adennill 1 y gost lawn CQC | Ffioedd - adennill 1 y gost lawn | Cost i ddarparwyr - adennill y gost lawn | Ffioedd er mwyn adennill 120% o'r gost lawn | Cost i ddarparwyr - adennill 20% o'r gost lawn | Ffioedd er mwyn adennill 140% o'r gost lawn | Cost i ddarparwyr - adennill 40% o'r gost lawn | Ffioedd er mwyn adennill 160% o'r gost lawn | Cost i ddarparwyr - adennill 60% o'r gost lawn | Ffioedd er mwyn adennill 180% o'r gost lawn | Cost i ddarparwyr - adennill 80% o'r gost lawn |
|-----------------------|-------------------|---|--|----------------------------|----------------------------------|--|---|--|---|--|---|--|---|--|
| 1 | 293 | 720 | 1,294 | 828 | 1487 | 435,687 | 297 | 87,137 | 595 | 174,275 | 892 | 261,412 | 1190 | 348,549 |
| 2 | 27 | 2,000 | 3,594 | 2,299 | 4131 | 111,524 | 826 | 22,305 | 1,652 | 44,610 | 2,478 | 66,914 | 3304 | 89,219 |
| 3 | 4 | 2,000 | 3,594 | 2,299 | 4131 | 16,522 | 826 | 3,304 | 1,652 | 6,609 | 2,478 | 9,913 | 3304 | 13,218 |
| 4 | 8 | 4000 | 7,187 | 4,598 | 8261 | 66,088 | 1,652 | 13,218 | 3,304 | 26,435 | 4,957 | 39,653 | 6609 | 52,871 |
| 5 | 1 | 4,000 | 7,187 | 4,598 | 8261 | 8,261 | 1,652 | 1,652 | 3,304 | 3,304 | 4,957 | 4,957 | 6609 | 6,609 |
| 8 | 1 | 8,000 | 14,374 | 9,195 | 16,522 | 16,522 | 3,304 | 3,304 | 6,609 | 6,609 | 9,913 | 9,913 | 13,218 | 13,218 |
| 13 | 1 | 16,000 | 28,748 | 18,391 | 33,044 | 33,044 | 6,609 | 6,609 | 13,218 | 13,218 | 19,826 | 19,826 | 26,435 | 26,435 |
| 36 | 335 | | | | | 687,648 | | 137,530 | | 275,059 | | 412,589 | | 550,118 |

Tabl 21: ffioedd enghreifftiol ar gyfer darparwyr gofal preswyl i oedolion, gan ddefnyddio strwythur ffioedd CQC

| Uchafswm gwelyau cofrestredig | Nifer y darparwyr | Ffioedd CQC - adennill 185% o'r gost | Ffioedd er mwyn adennill 185% o'r gost | Adennill 1 y gost lawn CQC | Ffioedd - adennill 1 y gost lawn | Cost i ddarparwyr - adennill y gost lawn | Ffioedd er mwyn adennill 120% o'r gost lawn | Cost i ddarparwyr - adennill 20% o'r gost lawn | Ffioedd er mwyn adennill 140% o'r gost lawn | Cost i ddarparwyr - adennill 40% o'r gost lawn | Ffioedd er mwyn adennill 160% o'r gost lawn | Cost i ddarparwyr - adennill 60% o'r gost lawn | Ffioedd er mwyn adennill 180% o'r gost lawn | Cost i ddarparwyr - adennill 80% o'r gost lawn |
|-------------------------------|-------------------|--------------------------------------|--|----------------------------|----------------------------------|--|---|--|---|--|---|--|---|--|
| hyd at 10 | 417 | 650 | 1,168 | 765 | 1,374 | 572,959 | 275 | 114,592 | 550 | 229,184 | 824 | 343,776 | 1099 | 458,367 |
| 11 i 20 | 149 | 1600 | 2,875 | 1,882 | 3,382 | 503,942 | 676 | 100,788 | 1,353 | 201,577 | 2,029 | 302,365 | 2706 | 403,154 |
| 21 i 30 | 227 | 3,000 | 5,390 | 3,529 | 6,342 | 1,439,533 | 1,268 | 287,907 | 2,537 | 575,813 | 3,805 | 863,720 | 5073 | 1,151,626 |
| 31 i 40 | 178 | 4300 | 7,726 | 5,059 | 9,090 | 1,617,942 | 1,818 | 323,588 | 3,636 | 647,177 | 5,454 | 970,765 | 7272 | 1,294,353 |
| 41 i 60 | 99 | 5,600 | 10,062 | 6,588 | 11,838 | 1,171,919 | 2,368 | 234,384 | 4,735 | 468,768 | 7,103 | 703,151 | 9470 | 937,535 |
| > 60 | 62 | 11,100 | 19,944 | 13,059 | 23,464 | 1,454,752 | 4,693 | 290,950 | 9,385 | 581,901 | 14,078 | 872,851 | 18771 | 1,163,802 |
| | 1132 | | | | | 6,761,047 | | 1,352,209 | | 2,704,419 | | 4,056,628 | | 5,408,838 |

Tabl 22: ffioedd enghreifftiol ar gyfer darparwyr gofal preswyl i oedolion, gan ddefnyddio strwythur ffioedd ESTYN

| Nifer y gwelyau | Amcangyfrif o nifer y darparwyr | Ffioedd ESTYN (2014-15) Adennill y gost lawn (£) | Ffioedd – adennill y gost lawn | Cost i ddarparwyr – adennill y gost lawn | Ffioedd er mwyn adennill 20% o'r gost lawn | Cost i ddarparwyr - adennill 20% o'r gost lawn | Ffioedd er mwyn adennill 40% o'r gost lawn | Cost i ddarparwyr - adennill 40% o'r gost lawn | Ffioedd er mwyn adennill 60% o'r gost lawn | Cost i ddarparwyr - adennill 60% o'r gost lawn | Ffioedd er mwyn adennill 80% o'r gost lawn | Cost i ddarparwyr - adennill 80% o'r gost lawn |
|-----------------|---------------------------------|--|--------------------------------|--|--|--|--|--|--|--|--|--|
| hyd at 3 | 58 | 1,601 | 2,877 | 166,845 | 575 | 33,369 | 1,151 | 66,738 | 1,726 | 100,107 | 2,301 | 133,476 |
| 5 | 58 | 1,919 | 3,448 | 199,984 | 690 | 39,997 | 1,379 | 79,994 | 2,069 | 119,991 | 2,758 | 159,988 |
| 7 | 3 | 2,237 | 4,019 | 12,058 | 804 | 2,412 | 1,608 | 4,823 | 2,412 | 7,235 | 3,216 | 9,647 |
| 9 | 2 | 2,555 | 4,591 | 9,182 | 918 | 1,836 | 1,836 | 3,673 | 2,754 | 5,509 | 3,673 | 7,345 |
| 10 | 2 | 2,714 | 4,876 | 9,753 | 975 | 1,951 | 1,951 | 3,901 | 2,926 | 5,852 | 3,901 | 7,802 |
| 12 | 1 | 3,032 | 5,448 | 5,448 | 1,090 | 1,090 | 2,179 | 2,179 | 3,269 | 3,269 | 4,358 | 4,358 |
| 13 | 1 | 3,191 | 5,734 | 5,734 | 1,147 | 1,147 | 2,293 | 2,293 | 3,440 | 3,440 | 4,587 | 4,587 |
| 14 | 1 | 3,350 | 6,019 | 6,019 | 1,204 | 1,204 | 2,408 | 2,408 | 3,612 | 3,612 | 4,815 | 4,815 |
| 16 | 2 | 3,668 | 6,591 | 13,181 | 1,318 | 2,636 | 2,636 | 5,272 | 3,954 | 7,909 | 5,272 | 10,545 |
| 17 | 1 | 3,827 | 6,876 | 6,876 | 1,375 | 1,375 | 2,751 | 2,751 | 4,126 | 4,126 | 5,501 | 5,501 |
| 18 | 2 | 3,986 | 7,162 | 14,324 | 1,432 | 2,865 | 2,865 | 5,730 | 4,297 | 8,594 | 5,730 | 11,459 |
| 20 | 1 | 4,304 | 7,733 | 7,733 | 1,547 | 1,547 | 3,093 | 3,093 | 4,640 | 4,640 | 6,187 | 6,187 |
| 22 | 1 | 4,622 | 8,305 | 8,305 | 1,661 | 1,661 | 3,322 | 3,322 | 4,983 | 4,983 | 6,644 | 6,644 |
| 23 | 1 | 4,781 | 8,590 | 8,590 | 1,718 | 1,718 | 3,436 | 3,436 | 5,154 | 5,154 | 6,872 | 6,872 |
| 24 | 1 | 4,940 | 8,876 | 8,876 | 1,775 | 1,775 | 3,550 | 3,550 | 5,326 | 5,326 | 7,101 | 7,101 |
| 25 | 2 | 5,099 | 9,162 | 18,323 | 1,832 | 3,665 | 3,665 | 7,329 | 5,497 | 10,994 | 7,329 | 14,659 |
| 30 | 1 | 5,894 | 10,590 | 10,590 | 2,118 | 2,118 | 4,236 | 4,236 | 6,354 | 6,354 | 8,472 | 8,472 |
| >35 | 9 | 6,399 | 11,498 | 103,483 | 2,300 | 20,697 | 4,599 | 41,393 | 6,899 | 62,090 | 9,198 | 82,786 |
| | 147 | | 122,395 | 615,305 | | 123,061 | | 246,122 | | 369,183 | | 492,244 |

Risgiau

Mae nifer o risgiau wedi eu nodi ynglŷn â chyflwyno ffioedd cofrestru i ddarparwyr.

Adennill costau llawn

- 7.391 Mae risg y bydd y ffioedd cofrestru'n cael eu trosglwyddo i'r bobl sy'n talu am wasanaethau gofal cymdeithasol os ydynt yn cael eu pennu ar lefel sy'n adennill y costau llawn. Hynny yw, awdurdodau lleol ac unigolion sy'n talu'n breifat am ofal cymdeithasol.
- 7.392 Mae'r risg yn uwch y bydd cost y ffioedd cofrestru'n cael ei throsglwyddo i unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain nag i awdurdodau lleol oherwydd nad oes gan y bobl sy'n eu hariannu eu hunain yr un pwerau prynu cyfunol ag sydd gan awdurdodau lleol.
- 7.393 Os oes llai o ddefnyddwyr gwasanaethau yn ariannu eu gofal preswyl eu hunain na'r nifer sy'n cael eu hariannu gan yr awdurdod lleol, fel sy'n wir yn Lloegr⁷², byddai trosglwyddo cost ffioedd cofrestru i'r bobl sy'n ariannu eu gofal eu hunain yn effeithio'n sylweddol ar gost eu gofal. O ganlyniad, gellid cael effaith anghyfartal ar unigolion sy'n ariannu eu gofal cymdeithasol eu hunain trwy gyflwyno ffioedd sydd wedi eu seilio ar adennill costau llawn.
- 7.394 Ystyrir bod y risg hon yn isel oherwydd bod angen i ddarparwyr gwasanaeth fod yn gystadleuol. Pe byddai rhai darparwyr gwasanaeth yn trosglwyddo'r gost i ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n eu hariannu eu hunain, mae pobl yn debygol o ystyried eu bod yn darparu gwerth gwael am arian o'u cymharu â'r darparwyr gwasanaeth hynny nad ydynt yn trosglwyddo'r costau.
- 7.395 Y risg allweddol sy'n gysylltiedig ag adennill costau llawn yw'r effaith bosibl ar ddarparwyr gwasanaeth. Byddai ffioedd yn faich ariannol ychwanegol ar ddarparwyr, a gallent o bosibl gael eu rhoi ar waith heb ddigon o amser ymlaen llaw i ddarparwyr gwasanaeth ddod o hyd i ffordd i wneud iawn am y costau. Gallai hyn achosi

⁷² Canfu'r Sefydliad Gofal Cyhoeddus fod 44.9% o'r lleoedd mewn cartrefi gofal preswyl yn Lloegr yn eu hariannu eu hunain. Cyfran y lleoedd sy'n eu hariannu eu hunain mewn cartrefi gofal preswyl yw 39.6%, a 47.6% mewn cartrefi nyrsio (SCIE ac eraill, 2011).

gostyngiad mewn adnoddau yn y tymor byr, a gallai hynny yn ei dro gael effaith negyddol ar safonau gofal a chanlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth.

7.396 Mewn achosion eithriadol, gallai'r baich ariannol ychwanegol orfodi'r darparwyr gwasanaeth i adael y farchnad.

7.397 Ceir risg hefyd y gallai darparwyr gwasanaeth ystyried y ffi yn un gymharol uchel. Mae tablau 17-19 yn dangos bod y ffioedd sy'n ofynnol er mwyn talu'r gost gyfredol o reoleiddio yng Nghymru, heb gynnwys unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chasglu ffioedd, tua 1.8 o weithiau'n uwch na'r rhai hynny a godir yn Lloegr. Hynny yw, mae'n costio 80% yn fwy i reoleiddio gofal cymdeithasol yng Nghymru nag yn Lloegr.

Tabl 23: crynodeb o'r costau tebygol a amcangyfrifir yn sgil cyflwyno ffioedd cofrestru darparwyr gwasanaeth gan adennill costau llawn (opsiwn tri)

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|--|----------|------------------|------------------|------------------|------------------|
| Rheoleiddiwr y gwasanaeth ¹ | | | | | |
| Darparwyr gwasanaeth | | 8,064,000 | 8,064,000 | 8,064,000 | 8,064,000 |
| Cyfanswm y gost | - | 8,064,000 | 8,064,000 | 8,064,000 | 8,064,000 |
| | | | | | |
| Cyllid cyhoeddus | | 8,064,000 | 8,064,000 | 8,064,000 | 8,064,000 |
| Cyfanswm y fantais | | 8,064,000 | 8,064,000 | 8,064,000 | 8,064,000 |

¹ Mae'r gost yn 2016-17 wedi ei chynnwys yn i) cost cofrestru sefydliadau ac asiantaethau a osodwyd o dan y model rheoleiddio; ii) cost arolygu sefydliadau gwasanaeth ac asiantaethau a osodwyd dan y dull rheoleiddio ac arolygu a iii) gweithgarwch gorfodi a osodwyd o dan y drosedd o ddarparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol.

Adennill costau rhannol

7.398 Pan osodir ffioedd ar lefel y gall darparwyr gwasanaeth eu talu eu hunain, byddai'r risgiau sy'n gysylltiedig ag adennill costau llawn yn llai. Fodd bynnag, mae risg yn gysylltiedig â chyflwyno trefn o adennill ffioedd rhannol. Byddai angen gosod y ffioedd a gesglir ar gyfradd ddigon uchel i sicrhau eu bod yn talu'r costau gweinyddol sy'n gysylltiedig â chasglu ffioedd. Pe byddai'r ffioedd yn cael eu gosod yn rhy isel i gyflawni hyn, byddai'n cynyddu'r gost o reoleiddio.

Tabl 24: crynodeb o'r costau tebygol a amcangyfrifir yn sgil cyflwyno ffioedd cofrestru darparwyr gwasanaeth gan adennill 20% o'r gost (opsiwn tri)

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|--|----------------|------------------|------------------|------------------|------------------|
| Rheoleiddiwr y gwasanaeth ¹ | | 6,451,200 | 6,451,200 | 6,451,200 | 6,451,200 |
| Darparwyr gwasanaeth | | 1,612,800 | 1,612,800 | 1,612,800 | 1,612,800 |
| Cyfanswm y gost | - | 8,064,000 | 8,064,000 | 8,064,000 | 8,064,000 |
| | | | | | |
| Cyllid cyhoeddus | | 1,612,800 | 1,612,800 | 1,612,800 | 1,612,800 |
| Cyfanswm y fantais | | 1,612,800 | 1,612,800 | 1,612,800 | 1,612,800 |

¹ Mae'r gost yn 2016-17 wedi ei chynnwys yn i) cost cofrestru sefydliadau ac asiantaethau a osodwyd o dan y model rheoleiddio; ii) cost arolygu sefydliadau gwasanaeth ac asiantaethau a osodwyd dan y dull rheoleiddio ac arolygu a iii) gweithgarwch gorfodi a osodwyd o dan y drosedd o ddarparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol.

Manteision

Dinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth

7.399 Fel y nodwyd uchod, mae'r ffi gofrestru yn daliad trosglwyddo gan ddarparwr y gwasanaeth i'r rheoleiddiwr i dalu am y costau sy'n gysylltiedig â rheoleiddio.

Amcangyfrifir mai £8,064,000 y flwyddyn yw'r costau hyn. Gellid defnyddio'r arian hwn i dalu am gynnydd mewn darpariaeth gofal cymdeithasol neu gellid ei ddefnyddio i dalu am fentrau sydd â'r nod o wella ansawdd gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, nid yw'n eglur a fyddai'r manteision sy'n gysylltiedig â chael mwy o arian yn fwy na'r manteision sy'n gysylltiedig â threfn reoleiddio a ariennir o'r pwrs cyhoeddus.

7.400 Mae nifer o risgiau sylweddol yn gysylltiedig ag adennill y gost o reoleiddio gan ddarparwyr gwasanaeth, a gallai'r rhain effeithio ar ansawdd a chyflenwad gofal cymdeithasol. Hefyd, mae'r cyd-destun ariannol presennol yn awgrymu na fyddai'n ddoeth i gyflwyno ffioedd cofrestru darparwyr yn y dyfodol agos. Mae sefydliadau sy'n cynrychioli darparwyr, er enghraifft UKHCA, yn dadlau nad yw cyfraddau ffioedd awdurdodau lleol yn ddigon i dalu cost y gofal. Yng nghyd-destun y gostyngiad diweddar yn y cyllid grant bloc i awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru, nid yw awdurdodau lleol yn debygol o fod â'r gallu ariannol i gynyddu cyfraddau'r ffioedd. Felly, pe byddai ffioedd yn cael eu cyflwyno, mae'n debygol y byddid yn cael effaith

negyddol ar ddarparwyr gwasanaeth ac, yn ei dro, ar ansawdd a chyflenwad gofal cymdeithasol.

7.401 Gellid defnyddio'r ffioedd hefyd fel offeryn polisi i hybu ansawdd. Er enghraifft, gellid hepgor y ffi ar gyfer unrhyw ddarparwr sy'n cyflawni safonau ansawdd sy'n uwch na throthwy/dyfarniad ansawdd penodol.

7.402 Hefyd, byddai gofyn i reoleiddiwr y gwasanaeth ddangos gwerth am arian i'r darparwyr gwasanaeth yn sgil cyflwyno trefn o adennill costau llawn a byddai gan hyn, yn ei dro, y potensial o gynyddu effeithlonrwydd a gwella safonau. Byddai defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd yn elwa o ganlyniad, o ran sicrwydd ynglŷn ag ansawdd y gwasanaethau gofal cymdeithasol a dderbynnir.

Rheoleiddiwr y gwasanaeth

7.403 O dan y system bresennol o gofrestru, mae darparwyr gwasanaeth, mewn egwyddor, wedi eu cofrestru am byth ac nid oes unrhyw gymhelliant i ddarparwyr gwasanaeth hysbysu rheoleiddiwr y gwasanaeth pan eu bod yn gadael y farchnad neu'n lleihau eu darpariaeth. O ganlyniad, nid yw'r gofrestr yn ffynhonnell ddata ddibynadwy ynglŷn â darpariaeth gwasanaethau yng Nghymru.

7.404 Byddai ffioedd yn rhoi cymhelliant i ddarparwyr gwasanaeth hysbysu'r rheoleiddiwr am newidiadau yn eu darpariaeth. O ganlyniad, byddai'n haws i reoleiddiwr y gwasanaeth gadw cofrestr sy'n gyfredol ac sy'n rhoi darlun cywir o'r farchnad gofal cymdeithasol yng Nghymru yn sgil cyflwyno ffioedd.

Darparwyr gwasanaeth

7.405 Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gymhelliant i reoleiddiwr y gwasanaeth ddangos i ddarparwyr gwasanaeth ei fod yn darparu gwasanaeth o ansawdd uchel nac yn rhoi gwerth am arian.

7.406 Trwy gyflwyno ffioedd cofrestru i ddarparwyr gwasanaeth, ar sail adennill costau, bydd y berthynas rhwng darparwyr gwasanaeth a'r rheoleiddiwr yn newid mewn ffordd sydd â'r potensial i wneud rheoleiddiwr y gwasanaeth yn fwy atebol i ddarparwyr gwasanaeth, o ran ansawdd a gwerth am arian ei wasanaeth. Trwy hyn, mae'n bosibl

annog rheoleiddiwr y gwasanaeth i arbed arian trwy weithio'n fwy effeithlon ac i wella ansawdd ei wasanaeth.

7.407 Er y cydnabyddir nad oes gan reoleiddiwr y gwasanaeth yng Nghymru yr un cyfleoedd i sicrhau arbedion maint â'r rheoleiddwyr yn Lloegr, mae'r dadansoddiad o'r costau'n awgrymu ei bod yn costio oddeutu 80% yn fwy yng Nghymru nag yn Lloegr i reoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Adennill costau rhannol

7.408 Byddai manteision tebyg yn deillio o gyflwyno trefn o adennill costau rhannol ag o gyflwyno trefn o adennill costau llawn (trafodwyd uchod). Byddai graddfa unrhyw fanteision yn dibynnu ar lefel y ffioedd a godir.

Crynodeb a'r opsiwn a ffefrir

7.409 I ddarparwyr, mae rheoleiddio'n sicrhau eu bod yn gallu gweithredu â lefel o hyder yn y sector. Gallant ddefnyddio eu statws rheoleiddiol i ddenu a gweithredu gwasanaethau ac i gynnig sicrwydd i gomisiynwyr a dinasyddion ynglŷn â'u hansawdd. Mae rheoleiddio'n cynnig fframweithiau eglur ar gyfer gwella sgiliau eu staff, ynghyd â rhaglenni hyfforddi a chymwysterau. Mae rheoleiddio hefyd yn cynnig gwybodaeth glir, ddiuedd i ddarparwyr y gellir ei defnyddio i wella eu gwasanaethau. Trwy nodi darpariaeth dda, mae'n cynnig gwybodaeth i'r sector am arferion gorau a modelau gofal newydd. Yn olaf, trwy gael gwared ag ymarfer gwael a gwneud i ffwrdd â darpariaeth wael, mae rheoleiddio'n cynnal ansawdd da yn y sector ac yn cyfyngu ar y posibilrwydd y gallai enw'r sector gael ei ddiffinio gan ddarpariaeth wael. Oherwydd hyn, ystyrir ei y gallai fod yn briodol ceisio rhannu baich y costau rheoleiddio â darparwyr yn y dyfodol, gan leihau'r gost i ddinasyddion Cymru. Er y teimlir nad yw'n briodol cyflwyno ffioedd cofrestru ar yr adeg hon, o bosibl, cydnabyddir y bydd ffioedd yn sicrhau cofrestr gyfredol sy'n gadarn ac yn fwy cywir. Bydd ffioedd hefyd yn newid, er gwell, y berthynas rhwng y rheoleiddiwr a'r darparwyr. I gloi, trwy godi ffioedd gellir cysoni'r gyfundrefn yng Nghymru â'r systemau y mae darparwyr yn gweithredu oddi tanynt mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Rydym felly yn dymuno cadw'r pwerau i gyflwyno ffioedd.

7.410 Y dull a ffefrir, oherwydd y rhesymau uchod, yw opsiwn tri.

Datganiadau blynyddol awdurdodau lleol am y farchnad gofal cymdeithasol

7.411 Gweler adran 55 o Fil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) ar gyfer y darpariaethau sy'n ymwneud ag adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad.

Opsiynau

7.412 Trafodir dau opsiwn ynghylch datganiadau blynyddol gan awdurdodau lleol am y farchnad gofal cymdeithasol:

- Opsiwn un: peidio â gwneud dim.
- Opsiwn dau: cyflwyno datganiadau blynyddol gan awdurdodau lleol am y farchnad gofal cymdeithasol.

Opsiwn un: peidio â gwneud dim

7.413 O dan yr opsiwn hwn, bydd yr awdurdodau lleol yn parhau i symud i gyfeiriad datblygu darlun cywir o'r anghenion a'r marchnadoedd ym maes gofal cymdeithasol trwy ddatblygu adroddiadau awdurdod lleol am y farchnad bresennol ac yn y dyfodol ar gyfer gofal cymdeithasol (a elwir fel arfer yn ddatganiadau sefyllfa'r farchnad) ar sail anstatudol. Cyflwynwyd y gwaith hwn am y tro cyntaf yng Nghynllun Gweithredu Llywodraeth Leol (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, 2012), mewn ymateb i 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy: Fframwaith Gweithredu' (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011).

7.414 Mae'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cyflwyno canllawiau i'r awdurdodau lleol i'w cynorthwyo i ddatblygu datganiadau o sefyllfa'r farchnad.

Opsiwn dau: cyflwyno datganiadau blynyddol awdurdodau lleol am y farchnad gofal cymdeithasol

7.415 O dan yr opsiwn hwn, bydd gofyniad statudol ar yr awdurdodau lleol i baratoi datganiad blynyddol am y farchnad gofal cymdeithasol yn ardal eu hawdurdodaeth ac i ddarparu rhagolwg o sut y gallai'r farchnad gofal cymdeithasol edrych ar wahanol adegau yn y dyfodol. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, rhagamcanu'r cyflenwad a'r galw yn y dyfodol ar gyfer gofal cymdeithasol ymhen pum mlynedd, 10 mlynedd a 15 mlynedd i'r dyfodol.

Costau

Opsiwn un: peidio â gwneud dim

7.416 Ni fu modd amcangyfrif y costau presennol sy'n gysylltiedig â datblygu datganiadau awdurdodau lleol ar sefyllfa'r farchnad oherwydd amrywiaeth y datganiadau o ran cwmpas a chynnwys⁷³.

Y farchnad gofal cymdeithasol

7.417 Os nad oes unrhyw ofyniad cyfreithiol i awdurdodau lleol ddatblygu datganiadau blynyddol am y farchnad gofal cymdeithasol sydd yn ardal eu hawdurdodaeth, mae risg y collir y momentwm a ddatblygwyd eisoes trwy i awdurdodau lleol baratoi datganiadau am sefyllfa'r farchnad. O ganlyniad, collir cyfleoedd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i ddatblygu ymatebion effeithiol wrth i'r galwadau ym maes gofal cymdeithasol newid.

7.418 Pe byddai hyn yn digwydd, byddai'n cael effaith negyddol ar gomisiynu effeithiol ac ar effeithlonrwydd cyflenwad y gwasanaethau, gan na fyddai'r awdurdodau lleol a'r darparwyr gwasanaeth yn gallu cynllunio a darparu gwasanaethau'n effeithiol yn ôl y galw presennol a rhagamcanol.

7.419 Mae amgylchedd gofal cymdeithasol yn newid yn gyflym ac ni fydd y modelau a ddefnyddir heddiw yn ddigonol ar gyfer y dyfodol.

Risgiau

Darparwyr gwasanaeth

7.420 Os nad yw awdurdodau lleol yn datblygu datganiadau awdurdodau lleol am sefyllfa'r farchnad, ceir risg y gallai darparwyr gwasanaeth dreulio amser a defnyddio adnoddau yn datblygu gwasanaethau ac yn cynyddu nifer y lleoedd mewn gwasanaethau arbennig nad oes eu hangen.

⁷³ Gofynnwyd i'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, yr Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Sefydliad Gofal Cyhoeddus am y gost o ddatblygu datganiadau sefyllfa.

Defnyddwyr gwasanaeth

7.421 Os nad yw awdurdodau lleol yn datblygu datganiadau awdurdodau lleol am sefyllfa'r farchnad, mae'n bosibl y bydd yn effeithio ar effeithlonrwydd y farchnad gofal cymdeithasol yng Nghymru. Pan nad yw'r cyflenwad yn bodloni'r galw, bydd hyn yn effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaethau o ran y gwasanaethau sydd ar gael iddynt. Yn ogystal, gallai diffyg cyflenwad arwain at godiadau ym mhris gwasanaethau gofal cymdeithasol.

7.422 Gallai diffyg datganiadau lleol hefyd effeithio ar effeithlonrwydd a chywirdeb unrhyw ddull cenedlaethol o ddeall y farchnad gofal cymdeithasol yn y dyfodol, gan arwain at y risg na fydd polisiau cenedlaethol wedi eu seilio ar yr holl wybodaeth a'u bod yn colli cyfleoedd pwysig.

Awdurdodau lleol

7.423 Mae gan unrhyw effeithiau ar effeithlonrwydd y farchnad gofal cymdeithasol oblygiadau posibl i awdurdodau lleol o ran eu gallu i gyflawni dyletswyddau cyfreithiol i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol. Pan fo diffyg cyflenwad gwasanaethau gofal cymdeithasol penodol, neu pan nad yw cyflenwad y gwasanaethau gofal cymdeithasol yn gyffredinol yn bodloni'r galw, mae'n bosibl i hyn effeithio ar allu awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau statudol.

7.424 Os nad yw awdurdodau lleol yn datblygu datganiadau awdurdodau lleol am sefyllfa'r farchnad, byddant yn colli'r cyfle i lunio'r farchnad gofal cymdeithasol o ran annog darparwyr i ddarparu gwasanaethau o'r nifer a'r math y bydd eu hangen yn y dyfodol.

Opsiwn dau: cyflwyno datganiadau blynyddol awdurdodau lleol am y farchnad gofal cymdeithasol

7.425 Disgwylir y bydd costau cyflwyno datganiadau am y farchnad gofal cymdeithasol yn debyg i gostau datblygu datganiadau awdurdodau lleol am sefyllfa'r farchnad. Felly, disgwylir na fydd costau ychwanegol i'r awdurdodau lleol hynny sy'n cynhyrchu datganiadau awdurdodau lleol am sefyllfa'r farchnad.

7.426 Bydd yr awdurdodau lleol hynny nad ydynt ar hyn o bryd yn datblygu datganiadau blynyddol am y farchnad gofal cymdeithasol sydd yn ardal eu hawdurdodaeth yn wynebu costau ychwanegol mewn perthynas â chynhyrchu datganiad blynyddol yr awdurdod lleol ar y farchnad gofal cymdeithasol leol.

7.427 Ni fu modd amcangyfrif y costau y bydd awdurdodau lleol yn eu hwynebu wrth gynhyrchu'r datganiadau presennol ar sefyllfa'r farchnad nac ychwaith y costau a fyddai ynghlwm wrth gynhyrchu datganiad arfaethedig yr awdurdodau lleol ar y farchnad gofal cymdeithasol.

Manteision

Opsiwn un: peidio â gwneud dim

7.428 O dan yr opsiwn hwn, ni fydd unrhyw rwymedigaeth ar yr awdurdodau lleol i ddatblygu datganiadau am y farchnad gofal cymdeithasol sydd yn ardal eu hawdurdodaeth, ac felly, byddant yn cadw'r hyblygrwydd i'w datblygu neu beidio yn unol â'u barn eu hunain ynglŷn â'r costau o'u cymharu â'r manteision.

Opsiwn dau: cyflwyno datganiadau blynyddol awdurdodau lleol am y farchnad gofal cymdeithasol

Marchnad gofal cymdeithasol effeithlon

7.429 Trwy ei gwneud yn orfodol i awdurdodau lleol ddatblygu datganiadau blynyddol am y marchnadoedd gofal cymdeithasol sydd yn ardal eu hawdurdodaethau, dylid hwyluso gweithrediad effeithiol y farchnad gofal cymdeithasol o ran cyflenwad y gwasanaethau gofal cymdeithasol o'i gymharu â'r galw amdanynt.

7.430 Bydd darparwyr gofal cymdeithasol yn ymwybodol o strategaethau comisiynu awdurdodau lleol ar gyfer y dyfodol, ac o ganlyniad, byddant yn gallu dylunio a chynllunio nifer a math y gwasanaethau a ddarperir mewn ymateb i'r galw presennol a'r galw yn y dyfodol. Dylai hyn ei gwneud yn haws dyrannu adnoddau'n fwy effeithlon yn y farchnad gofal cymdeithasol.

Darparwyr gwasanaeth

7.431 Dylai datganiadau blynyddol am y farchnad gofal cymdeithasol leihau'r risg y gallai darparwyr gwasanaeth fod yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau nad oes ar gomisiynwyr gwasanaethau na defnyddwyr gwasanaethau mo'u hangen.

7.432 Dylai'r datganiadau blynyddol roi syniad o nifer a mathau'r gofal cymdeithasol y mae'r awdurdodau lleol yn debygol o'u comisiynu oddi wrth ddarparwyr gwasanaeth. Bydd hyn yn darparu gwybodaeth ar gyfer y darparwyr gwasanaeth ac yn lleihau'r risg y gallent fod yn treulio amser ac adnoddau eraill yn ehangu cyflenwad neu'n datblygu gwasanaethau diangen.

7.433 Gallai'r datganiadau ddarparu tystiolaeth ychwanegol ar gyfer darparwyr sy'n dymuno sicrhau buddsoddiad gan drydydd partïon er mwyn datblygu gwasanaeth.

Defnyddwyr gwasanaeth

7.434 Defnyddwyr gwasanaethau sy'n fwyaf tebygol o elwa ar gyflwyno datganiadau blynyddol am y farchnad gofal cymdeithasol. Pan fo datganiadau blynyddol am y farchnad gofal cymdeithasol yn llwyddo i annog darparwyr gwasanaeth i ddarparu gwasanaethau mewn ymateb i'r galw amdanynt, dylai defnyddwyr gwasanaethau elwa oherwydd bod y gwasanaethau y mae arnynt eu hangen ar gael iddynt. Yn ogystal, i'r unigolion hynny sy'n ariannu eu gofal cymdeithasol eu hunain, dylai marchnadoedd effeithlon arwain at gostau sefydlog am wasanaethau gofal cymdeithasol.

Awdurdodau lleol

7.435 Dylai datganiadau blynyddol am ofal cymdeithasol fod o fudd trwy gynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau statudol i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol, trwy ei gwneud yn haws sicrhau cyflenwad o wasanaethau sy'n bodloni galw o fewn cyd-destun costau sefydlog.

7.436 Yn ogystal, mae'r datganiadau blynyddol yn rhoi'r cyfle i awdurdodau lleol lunio'r farchnad gofal cymdeithasol o ran y math o wasanaethau a ddarperir, yn ogystal â nifer y gwasanaethau hynny.

Llywodraeth Cymru

7.437 Pe byddai adroddiadau lleol yn cael eu paratoi ledled Cymru, gellid eu cyfuno â thystiolaeth arall i gynorthwyo Gweinidogion Cymru ac eraill i wneud penderfyniadau polisi mwy cytbwys ynglŷn â gofal cymdeithasol.

Crynodeb a'r opsiwn a ffefrir

7.438 Bydd datganiadau blynyddol am y farchnad gofal cymdeithasol gan awdurdodau lleol yn rhan o ymgais y Bil i greu darlun llawer gwell at y dyfodol o sefyllfa'r ddarpariaeth a'r ffordd y mae'n rhaid iddi newid. Bydd adroddiadau o'r fath yn ei gwneud hi'n fwy tebygol y gall awdurdodau lleol a darparwyr weithio gyda'i gilydd i ddatblygu adnoddau priodol wrth symud ymlaen. Yn olaf, byddai'r adroddiadau hyn yn rhoi dealltwriaeth lawer mwy eglur i lunwyr polisi ac eraill ar lefel genedlaethol o'r cyfeiriad y mae gofal cymdeithasol yn debygol o fynd iddo yn y dyfodol.

7.439 Oherwydd y rhesymau uchod, ffefrir opsiwn dau.

Datganiad blynyddol cenedlaethol am y farchnad gofal a chymorth

7.440 Gweler adran 62 o Fil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) ar gyfer y darpariaethau sy'n ymwneud ag adroddiadau ynghylch sefydlogrwydd y farchnad genedlaethol.

Opsiynau

7.441 Trafodir dau opsiwn ynglŷn â chyflwyno datganiad blynyddol cenedlaethol am y farchnad gofal cymdeithasol yng Nghymru:

- Opsiwn un: peidio â gwneud dim
- Opsiwn dau: ei gwneud yn ofynnol i reoleiddiwr y gwasanaeth lunio datganiad blynyddol cenedlaethol am y farchnad gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Opsiwn un: peidio â gwneud dim

7.442 O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai unrhyw newid yn cael ei gyflwyno. Hynny yw, ni fyddai unrhyw waith yn cael ei wneud i gyfuno'r wybodaeth a gesglir ar hyn o bryd gan awdurdodau lleol, er enghraifft yn eu datganiadau am sefyllfa'r farchnad neu wybodaeth arall a gedwir yn rhywle arall.

Opsiwn dau: ei gwneud yn ofynnol i reoleiddiwr y gwasanaeth lunio datganiad blynyddol cenedlaethol am y farchnad gofal cymdeithasol yng Nghymru

7.443 O dan yr opsiwn hwn, byddai gofyn i reoleiddiwr y gwasanaeth lunio datganiad cenedlaethol am y farchnad gofal cymdeithasol yng Nghymru ar sail yr wybodaeth a nodir yn natganiadau blynyddol arfaethedig yr awdurdod lleol am y farchnad gofal cymdeithasol, yn ogystal â gwybodaeth o fannau arall.

Costau

Opsiwn un: peidio â gwneud dim

7.444 Mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â pheidio â chyflwyno datganiad cenedlaethol am y farchnad gofal cymdeithasol yn gyfystyr â pheidio â chyflwyno datganiadau lleol am y farchnad gofal cymdeithasol.

7.445 Mae'r risg benodol ar y lefel genedlaethol yn ymwneud â'r costau sydd ynghlwm wrth methu â chynllunio ar lefel genedlaethol. Byddai hyn yn effeithio ar allu Llywodraeth Cymru i gynllunio'n strategol a datblygu polisi ynglŷn â gwasanaethau gofal cymdeithasol ar sail yr holl wybodaeth. Nid yw'r costau sy'n gysylltiedig â'r risg hon wedi eu hamcangyfrif.

7.446 Byddai effaith negyddol ar y darparwyr hynny sy'n gweithredu ar draws ffiniau awdurdodau lleol. Yn hytrach na chael un ddogfen genedlaethol i gyfeirio ati wrth gynllunio ar gyfer darparu gwasanaethau ar draws ffiniau, byddai'n rhaid i'r darparwyr gwasanaeth gyfeirio at hyd at 22 o ddogfennau.

7.447 Yn ogystal, gellid colli cyfleoedd i hwyluso ac annog cydweithrediad ar draws ffiniau awdurdodau lleol.

Opsiwn dau: ei gwneud yn ofynnol i reoleiddiwr y gwasanaeth lunio datganiad blynyddol cenedlaethol am y farchnad gofal cymdeithasol yng Nghymru

7.448 Bydd gan reoleiddiwr y gwasanaeth lawer o'r data angenrheidiol ar gyfer llunio'r adroddiad blynyddol am y farchnad gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys data am ddarparwyr gwasanaeth o ran y math o wasanaeth, eu lleoliad a nifer y lleoedd. Yn ogystal bydd datganiadau blynyddol awdurdodau lleol am y farchnad gofal cymdeithasol yn darparu dadansoddiad o'r galw a'r cyflenwad cyfredol, ynghyd ag amcanestyniadau o'r galw a'r cyflenwad yn y dyfodol, ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru.

7.449 Fodd bynnag, ni fydd yr wybodaeth i gyd gan reoleiddiwr y gwasanaeth. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys data am dueddiadau cyfredol a rhai a ragamcanir ar gyfer y dyfodol ynglŷn ag, er enghraifft, gallu/hyblygrwydd darparwyr, proffidioldeb darparwyr a'r economi yng Nghymru.

7.450 Yn ogystal, disgwylir y bydd angen sgiliau ymchwil arbenigol, yn enwedig sgiliau sy'n ymwneud â modelu, er mwyn cynnal y dadansoddiad angenrheidiol o'r farchnad gofal cymdeithasol yng Nghymru. O ganlyniad, mae'n bosibl y bydd y rheoleiddwyr yn rhoi'r darn hwn o waith i sefydliad ymchwil o dan gontract.

7.451 Mae rheoleiddiwr y gwasanaeth wedi cadarnhau mai £200,000 y flwyddyn yw'r costau rheolaidd a amcangyfrifir ar gyfer yr opsiwn hwn, er mwyn gweithredu diwydrwydd dyladwy (a drafodir yn nes ymlaen) ac i baratoi a chyhoeddi'r datganiad blynyddol cenedlaethol am y farchnad gofal cymdeithasol.

Tabl 25: crynodeb o'r costau tebygol a amcangyfrifir yn sgil cyflwyno datganiad blynyddol cenedlaethol am y farchnad gofal cymdeithasol yng Nghymru (opsiwn dau)

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|--|----------|----------------|----------------|----------------|----------------|
| Rheoleiddiwr y gwasanaeth ¹ | | 200,000 | 200,000 | 200,000 | 200,000 |
| Cyfanswm y gost | - | 200,000 | 200,000 | 200,000 | 200,000 |

¹ Mae'r ffigwr hwn yn cwmpasu'r gost i reoleiddiwr y gwasanaeth am baratoi'r datganiad blynyddol cenedlaethol am y farchnad gofal a chymorth yng Nghymru ac am gynnal gweithgarwch diwydrwydd dyladwy.

Manteision

7.452 Bydd manteision yr adroddiad cenedlaethol am y farchnad gofal cymdeithasol yn gyfystyr i adroddiadau'r awdurdodau lleol am y farchnad gofal cymdeithasol ar lefel leol.

7.453 Bydd yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth y mae ar lunwyr polisi a darparwyr gwasanaeth ei hangen er mwyn cyflawni gwaith cynllunio strategol cenedlaethol i ddiwallu anghenion gofal cymdeithasol yn y dyfodol ledled Cymru.

7.454 Bydd yr adroddiad hefyd yn darparu gwybodaeth y bydd ar reoleiddiwr y gwasanaeth ei hangen i gyflawni gweithgarwch diwydrwydd dyladwy ynglŷn â darparwyr allweddol.

Crynodeb a'r opsiwn a ffefrir

7.455 Mae'r sector gofal cymdeithasol yn newid yn syfrdanol, wrth i ddemograffeg, disgwyliadau'r cyhoedd a modelau gwasanaethau newid. Fodd bynnag, nid oes gwybodaeth am y newidiadau hyn a dadansoddiad ohonynt ar gael mewn unrhyw leoliad eglur, fel sail i benderfyniadau gweithrediadol a strategol. Byddai adroddiad cenedlaethol yn darparu tystiolaeth eglur i bawb sydd yn y sector o'r cyfeiriad y mae'r sector yn symud iddo. Ystyrir hefyd y bydd y gwerth ychwanegol a ddarperir trwy gasglu'r wybodaeth at ei gilydd yn mwy na gwneud iawn am y buddsoddiad

cyfyngedig sydd ei angen, o dderbyn bod y rhan fwyaf o'r wybodaeth eisoes ar gael, ond mewn amryw o wahanol ffurfiau.

7.456 Opsiwn dau yw'r ffordd ymlaen a ffefrir, oherwydd y rhesymau uchod.

Diwydrwydd dyladwy ynglŷn â darparwyr allweddol

7.457 Gweler pennod saith o Fil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) ar gyfer y darpariaethau sy'n ymwneud â diwydrwydd dyladwy gan ddarparwyr allweddol.

Opsiynau

7.458 Ceir dau opsiwn sy'n gysylltiedig â diwydrwydd dyladwy ynglŷn â darparwyr allweddol:

- Opsiwn un: peidio â gwneud dim
- Opsiwn dau: cyflwyno gofyniad i reoleiddiwr y gwasanaeth weithredu diwydrwydd dyladwy ynglŷn â darparwyr allweddol.

Opsiwn un: peidio â gwneud dim

7.459 O dan yr opsiwn hwn, bydd y system bresennol o nodi'r darparwyr gwasanaeth hynny sydd â'r potensial i adael y farchnad yn parhau. Nodir y darparwyr sydd â'r potensial i adael y farchnad, neu sy'n debygol o gau lleoliadau penodol, yn ystod y broses arolygu neu drwy ddulliau eraill anffurfiol.

Opsiwn dau: cyflwyno gofyniad i reoleiddiwr y gwasanaeth weithredu diwydrwydd dyladwy ynglŷn â darparwyr allweddol

7.460 O dan yr opsiwn hwn, byddai'n ofynnol i reoleiddiwr y gwasanaeth weithredu diwydrwydd dyladwy ynglŷn â'r darparwyr hynny a fyddai'n cael effaith sylweddol a negyddol ar gyflenwad gwasanaethau gofal cymdeithasol, pe byddent yn gadael y farchnad. Disgwylir mai'r rhai hynny sy'n darparu gwasanaethau i nifer sylweddol o ddefnyddwyr ar draws awdurdodau lleol neu sy'n darparu gwasanaethau arbenigol y byddai'n anodd cael rhai eraill yn eu lle ar lefel genedlaethol fyddai'r darparwyr hyn. Byddai'r awdurdodau lleol yn cadw eu cyfrifoldebau statudol o ran methiant darparwyr.

Costau

Opsiwn un: peidio â gwneud dim

Rheoleiddiwr y gwasanaeth

7.461 Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i reoleiddiwr y gwasanaeth o dan yr opsiwn hwn.

Defnyddwyr gwasanaethau a chomisiynwyr gwasanaeth

7.462 Fe allai costau sylweddol ac annisgwyl godi pe byddai darparwr pwysig yn gadael y farchnad yn ddisymwth.

7.463 Ceir risg na fydd darparwyr sy'n debygol o adael y farchnad, neu sy'n debygol o gau lleoliadau arbennig, yn cael eu nodi hyd nes y bydd methiannau wedi digwydd a bod y gwasanaeth yn debygol o gau'n weddol fuan. Mewn amgylchiadau o'r fath, gall y broses o gau'r gwasanaeth gael ei rheoli'n wael. Mae goblygiadau ariannol ynghlwm wrth hyn i ddefnyddwyr gwasanaethau ac awdurdodau lleol. Dyma oedd y risg a gododd ynghylch Southern Cross yn 2011 lle yr oedd angen cymryd camau brys sylweddol.

7.464 Mae tystiolaeth yn awgrymu y gall achosi llawer iawn o bryder i unigolion, gofalwyr a'u teuluoedd pan fo darpariaeth gofal cymdeithasol yn cau mewn modd anhrefnus (Scourfield, 2004; Woolham, 2001). Os yw'r broses yn cael ei rheoli'n wael, mae risg sylweddol o effaith niweidiol ar iechyd, llesiant ac urddas defnyddwyr.

7.465 Amcangyfrifwyd y gost bosibl i lesiant defnyddwyr gwasanaethau yng Nghymru ar sail un o'r deg darparwr gofal preswyl mwyaf yng Nghymru yn gadael y farchnad mewn modd heb ei reoli.

7.466 Mae gan y deg darparwr gwasanaeth preswyl mwyaf yng Nghymru, ar gyfartaledd, hyd at 105 o welyau. Pe byddai un o'r darparwyr gwasanaeth hyn yn gadael y farchnad yn ddisymwth, y gost a amcangyfrifir i'r defnyddwyr gwasanaethau unigol yw £8,790. O ganlyniad, cyfanswm y gost a amcangyfrifir yw oddeutu £923,000⁷⁴.

7.467 Nid yw'n hysbys pa gyfran o breswylwyr a fyddai'n llwyr ymwybodol o unrhyw bwysau ariannol, ac oherwydd hynny, a fyddai'n profi pryder. Os yw darparwyr yn

⁷⁴ Mae'r Adran Iechyd (2013) wedi amcangyfrif bod yr effaith o ran lles yn sgil ymdrin yn drefnus â methiant darparwr gofal yn 0.1465 o flynyddoedd bywyd wedi eu haddasu o ran ansawdd (QALYs) fesul defnyddiwr gwasanaeth gofal yr effeithir arno. Gyda gwerth QALY o £60,000, byddai hyn yn darparu budd disgwylidig â gwerth ariannol iddo o £8,790 fesul defnyddiwr gofal (=0.1465*£60,000).

cyrraedd y pwynt o fethiant yn o ddifrif, disgwylir y byddai'r gyfran yn uchel. Mae'r dadansoddiad yn cymryd yn ganiataol bod yr holl breswylwyr mewn cartrefi yr effeithir arnynt yn dioddef rhyw effaith. Er y gallai hwn fod yn oramcangyfrif, mae profiad Southern Cross yn awgrymu ei fod yn fwy tebygol o fod yn danamcangyfrif. Mae profiad Southern Cross yn dangos y gall methiant darparwr pwysig gael achosi pryder i breswylwyr sefydliadau eraill, ac i ofalwyr a pherthnasau yn y gymdeithas ehangach. Ni phennwyd gwerth arian ar yr effeithiau cymdeithasol ehangach.

Awdurdodau lleol

7.468 Mae'r gost bosibl i awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaeth eraill (megis Gwasanaethau Ambiwylans Cymru) pan fo darparwyr allweddol yn gadael y farchnad, yn gysylltiedig â gorfod chwilio am lety arall, a hynny, o bosibl, o fewn cyd-destun cyflenwad prin, ac o fewn y ddarpariaeth ddeddfwriaethol a gyflwynwyd o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Ni phennwyd gwerth ariannol i'r costau hyn.

Opsiwn dau: cyflwyno gofyniad i reoleiddiwr y gwasanaeth weithredu diwydrwydd dyladwy ynglŷn â darparwyr allweddol

Rheoleiddiwr y gwasanaeth

7.469 Amcangyfrifwyd y costau sy'n gysylltiedig â chyflwyno gofyniad i reoleiddiwr y gwasanaeth weithredu diwydrwydd dyladwy, trwy ddefnyddio'r rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr Adran Iechyd wrth amcangyfrif costau cyflwyno diwydrwydd dyladwy ynglŷn â darparwyr allweddol yn Lloegr.

7.470 Amcangyfrif yr Adran Iechyd oedd y byddai'n costio oddeutu £1.3 miliwn i'r rheoleiddiwr weithredu diwydrwydd dyladwy ynglŷn â 60 o sefydliadau yn ystod y flwyddyn gyntaf, ac £1.2 miliwn y flwyddyn ar ôl hynny. Fodd bynnag, byddai'r union gost yn dibynnu ar y gyfundrefn a ddefnyddid.

7.471 O ganlyniad, y gost o weithredu diwydrwydd dyladwy ynglŷn â sefydliad unigol yw £21,700 ar gyfer y flwyddyn gyntaf ac £20,000 y flwyddyn ar ôl hynny.

7.472 Ceir 12 o sefydliadau yng Nghymru sydd â 10 neu fwy o leoliadau. Cymdeithasau tai yw dau o'r sefydliadau hyn, ac nid ydynt wedi eu cynnwys yn y gost a amcangyfrifwyd gan fod cymdeithasau tai eisoes yn destun diwydrwydd dyladwy.

7.473 Trwy ddefnyddio'r un rhagdybiaethau cost a fabwysiadwyd gan yr Adran Iechyd, oddeutu £217,000 fyddai cost gweithredu diwydrwydd dyladwy yng Nghymru yn ystod y flwyddyn gyntaf a £200,000 ar ôl hynny, yn dibynnu ar yr union gyfundrefn a ddefnyddid. Fodd bynnag, ystyrir bod y rhain yn amcangyfrifon uchel, gan y bydd llawer o'r darparwyr yn destun cyfundrefnau diwydrwydd dyladwy tebyg mewn lleoedd eraill, megis Lloegr. Gallai dull trawsffiniol effeithiol o ymdrin â'r problemau hyn leihau baich y gost ar reoleiddiwr y gwasanaeth yn sylweddol.

7.474 Mae rheoleiddiwr y gwasanaeth wedi amcangyfrif mai £200,000 y flwyddyn yw'r costau rheolaidd ar gyfer yr opsiwn hwn i weithredu diwydrwydd dyladwy, ac i baratoi a chyhoeddi'r datganiad blynyddol cenedlaethol am y farchnad gofal cymdeithasol.

Darparwyr gwasanaeth

7.475 Bydd yr wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer asesiad diwydrwydd dyladwy ar gael yn rhwydd i ddarparwyr gwasanaeth, ac mae'n debygol o gynnwys gwybodaeth a ddarperir eisoes i gyfrifydd ar gyfer paratoi datganiadau treth incwm a/neu ddatganiadau ar gyfer Tŷ'r Cwmnïau.

7.476 Ceir risg eglur y gallai comisiynwyr a phrynwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol gollu hyder mewn darparwr penodol, pe byddai pryderon amdano'n cael eu codi trwy'r broses diwydrwydd dyladwy. Gallai'r effaith hon arwain at y canlyniadau y bwriedir i'r polisi hwn eu hatal. Hynny yw, darparwr pwysig yn gadael y farchnad yn ddisymwth.

Manteision

Opsiwn un: peidio â gwneud dim

7.477 Nid oes unrhyw fanteision ychwanegol trwy gadw'r system bresennol.

Opsiwn dau: cyflwyno gofyniad i reoleiddiwr y gwasanaeth weithredu diwydrwydd dyladwy ynglŷn â darparwyr allweddol

Awdurdodau lleol

7.478 Yn gyntaf, dylai awdurdodau lleol elwa mewn dwy ffordd yn sgil cyflwyno diwydrwydd dyladwy. Yn gyntaf, bydd y rheoleiddiwr yn cefnogi awdurdodau lleol i reoli'r methiant yn effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys casglu gwybodaeth a'i dosbarthu'n amserol i'r awdurdodau lleol am yr unigolion sy'n derbyn gwasanaethau gan y darparwr diffygiol.

7.479 Yn ail, gwyddom oherwydd Winterbourne View y gall pris gofal godi'n syfrdanol pan fo awdurdodau lleol yn gorfod prynu'r gofal hwnnw ar gyfer nifer fawr o unigolion ar fyr rybudd, ac y gall pobl gael eu lleoli mewn gofal dros dro, drud iawn tra bo'r sefyllfa'n cael ei datrys (yr Adran Iechyd, 2013). Dylid atal hyn i ryw raddau trwy gau gwasanaethau darparwyr gofal cymdeithasol mewn modd trefnus. Ni phennwyd gwerth arian i'r manteision hyn.

Defnyddwyr gwasanaeth

7.480 Fel y nodwyd uchod, amcangyfrifwyd mai oddeutu £923,000 yw'r costau posibl o ran llesiant i ddefnyddwyr gwasanaethau pan fo cartref gofal preswyl yn cau mewn modd anhrefnus. O ganlyniad, mae potensial i arbed £923,000 o gostau yn sgil cyflwyno diwydrwydd dyladwy os yw'n atal cartref gofal preswyl mawr rhag cau mewn modd anhrefnus.

7.481 Fodd bynnag, nid oes rhaid i bethau fod fel hyn. Pan reolir y broses o gau yn dda, gall cleientiaid elwa ar eu gofal newydd sydd, o bosibl, yn fwy priodol. Nid oes rhaid iddynt brofi pryder os bydd y cyfnod trosglwyddo'n cael ei reoli'n dda. Dangosir hyn gan astudiaeth ym Mirmingham lle y cyfwelwyd 70 o breswylwyr, yn ystod ac ar ôl cyfnod o gau gwasanaethau (gan gynnwys cau cartrefi gofal)⁷⁵. Mae'r astudiaeth hon yn awgrymu na ddylai fod unrhyw effaith negyddol ar iechyd a llesiant unigolion pan fo awdurdod lleol yn rheoli'r broses yn dda. Yn wir, gallai fod o fudd os yw'n arwain at ofal o ansawdd uwch.

⁷⁵ Mae tystiolaeth gan y Ganolfan Rheoli Gwasanaethau Iechyd ym Mhrifysgol Birmingham wedi canfod bod arfer da yn cyfyngu ar effeithiau negyddol posibl ar iechyd a lles unigolion y gallai, i rai pobl, ddarparu gwelliannau bychain mewn canlyniadau. Gweler: *Achieving closure: Good practice in supporting older people during residential care closures*, Gorffennaf 2011. Mae hwn yn gyhoeddiad ar y cyd gan y Ganolfan Rheoli Gwasanaethau Iechyd ym Mhrifysgol Birmingham ac ADASS, mewn cydweithrediad â SCIE.

7.482 Fodd bynnag, ystyrir mai risg isel sydd y byddai un o'r deg darparwr gwasanaeth preswyl mwyaf yng Nghymru yn gadael y farchnad yn sydyn. Ar sail tybiaeth y byddai hyn yn digwydd unwaith bob deng mlynedd, amcangyfrifir y byddai defnyddwyr gwasanaethau yn osgoi cost llesiant o £92,300 ar gyfartaledd.

Crynodeb a'r opsiwn a ffefrir

7.483 Er i achos Southern Cross gael ei reoli'n llwyddiannus yn y pen draw, dangosodd y risgiau mawr wrth i ddarparwyr pwysig adael y farchnad yn ddisymwth. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cydnabod bygythiadau o'r fath mewn meysydd eraill o'i hawdurdodaeth, megis tai. O dan gyfundrefn newydd y model seiliedig ar wasanaethau, bydd rheoleiddiwr y gwasanaeth yn datblygu perthynas agosach â'r darparwyr nag ar hyn o bryd, ac mae'r cam i gyfeiriad sefyllfa lle y gall weithredu diwydrwydd dyladwy ynglŷn â'r darparwyr mwy yn cyd-fynd â'r newid hwnnw. Mae'r newid hwn yn cyfateb i newidiadau tebyg mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

7.484 Bydd angen datblygu rheolau priodol a chadarn ynglŷn â'r broses, ond ar y cyfan, ystyrir bod manteision sylweddol i opsiwn dau, ac mai hwnnw, o ganlyniad, yw'r ffordd ymlaen a ffefrir.

Rheoleiddio'r Gweithlu

Cael gwared ar gofrestru gwirfoddol

7.485 Gweler rhan pedwar o Fil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) ar gyfer y darpariaethau sy'n ymwneud â chofrestru gweithwyr gofal cymdeithasol.

Opsiynau

7.486 Trafodir dau opsiwn ynglŷn â chofrestru gwirfoddol:

- Opsiwn un: peidio â gwneud dim.
- Opsiwn dau: cael gwared ar allu gweithwyr gofal cartref a gweithwyr cartrefi gofal i oedolion i gofrestru'n wirfoddol.

Opsiwn un: peidio â gwneud dim

7.487 O dan yr opsiwn hwn, bydd gweithwyr gofal cartref a gweithwyr gofal preswyl i oedolion yn parhau i allu cofrestru'n wirfoddol â rheoleiddiwr y gweithlu. Dim ond 1,226 (2.6%) o'r 47,163 o weithwyr gofal cartref a gweithwyr gofal preswyl i oedolion a oedd wedi eu cofrestru yn 2013 (Cyngor Gofal Cymru, 2013).

Opsiwn dau: cael gwared ar allu gweithwyr gofal cartref a gweithwyr gofal preswyl i oedolion i gofrestru'n wirfoddol

7.488 O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai gweithwyr gofal cartref a gweithwyr gofal preswyl i oedolion yn gallu cofrestru'n wirfoddol â rheoleiddiwr y gweithlu mwyach.

Costau

Opsiwn un: peidio â gwneud dim

Costau rheolaidd: rheoleiddiwr y gweithlu

7.489 Amcangyfrifir bod cofrestru gwirfoddol yn costio tua £15,000 y flwyddyn i Gyngor Gofal Cymru⁷⁶.

Costau rheolaidd: gweithwyr gofal cymdeithasol

⁷⁶ Darparwyd yr wybodaeth gan Gyngor Gofal Cymru.

7.490 Mae gweithwyr gofal cymdeithasol sy'n cofrestru'n wirfoddol ar hyn o bryd yn talu £10 o ffi y flwyddyn. Ar hyn o bryd, mae 1,226 o weithwyr gofal wedi dewis cofrestru'n wirfoddol. Felly, mae cofrestru gwirfoddol yn costio £12,260 gros y flwyddyn i weithwyr gofal⁷⁷.

7.491 Yn ogystal ceir cost cyfle i weithwyr gofal, yn gysylltiedig â'r broses gofrestru⁷⁸. Amcangyfrifir bod gweithiwr yn treulio oddeutu 30 munud yn cwblhau'r broses gofrestru. Yn seiliedig ar gyflog gros cyfartalog yr awr o £6.80⁷⁹, amcangyfrifir mai oddeutu £4,200 yw'r gost. Mae'r cofrestriad mewn grym am dair blynedd, ac o ganlyniad, amcangyfrifir mai £1,400 yw'r gost cyfle fesul blwyddyn ar gyfer y rhai hynny sydd wedi cofrestru'n wirfoddol.

7.492 O ganlyniad, amcangyfrifir mai £13,660 y flwyddyn yw cyfanswm y gost ar gyfer gweithwyr gofal.

Risgiau

7.493 O dan y trefniadau presennol, ceir risg y gallai costau gynyddu'n sylweddol pe byddai'r holl weithwyr gofal cymdeithasol nad oes angen iddynt gofrestru yn penderfynu cofrestru'n wirfoddol.

Opsiwn dau: cael gwared ar allu gweithwyr gofal cartref a gweithwyr cartrefi gofal i oedolion i gofrestru'n wirfoddol

Rheoleiddiwr y gweithlu: costau rheolaidd

7.494 Ni fyddai rheoleiddiwr y gweithlu'n wynebu unrhyw gostau rheolaidd yn sgil cael gwared ar y drefn cofrestru gwirfoddol.

Rheoleiddiwr y gweithlu: costau pontio

7.495 Mae Cyngor Gofal Cymru yn amcangyfrif y byddai'n costio oddeutu £2,000 i roi'r gorau i weithredu'r system o gofrestru gwirfoddol. Mae'r gost yn gyfwerth â chyflog

⁷⁷ Mae'r ffioedd cofrestru yn ddi-dreth ar gyfer pobl sy'n talu treth yn y Deyrnas Unedig.

⁷⁸ Mae hefyd yn bosibl bod darparwyr gwasanaeth wedi dewis cofrestru eu gweithlu yn wirfoddol. O ganlyniad, byddai unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chofrestru gwirfoddol yn cael eu talu gan y darparwyr gwasanaeth yn hytrach na'r gweithwyr.

⁷⁹ Y cyflog blyneddol canolrif ar gyfer gweithiwr gofal yn y sector cyhoeddus a'r sector annibynnol ym mis Awst 2013 oedd £13,632, gyda chyflog gros fesul awr o £6.80. Gweler Curtis (2013).

cynorthwy-ydd gweinyddol am un mis, a byddai'n galluogi rheoleiddiwr y gwasanaeth i ymdrin ag ymholiadau, cau cyfrifon, canslo debydau uniongyrchol a rhoi ad-daliadau.

Manteision

Opsiw un: peidio â gwneud dim

7.496 Gall y gofrestr ddarparu fframwaith proffesiynol i ryw raddau ar gyfer rhannau o'r gweithlu nad oes angen iddynt gofrestru. Fodd bynnag, mae'r ffaith fod cyn lleied yn cofrestru'n dangos nad yw hyn yn gymhelliant mawr i'r gweithlu presennol.

7.497 Mae'r gofrestr hefyd yn darparu peth data i'r rheoleiddiwr ynglŷn â'r unigolion hynny yn y gweithlu sydd wedi dewis cofrestru'n wirfoddol. Fodd bynnag, mae'r niferoedd isel yn cyfyngu'n sylweddol ar y fantais hon.

Opsiw dau: cael gwared ar allu gweithwyr gofal cartref a gweithwyr cartrefi gofal i oedolion i gofrestru'n wirfoddol

Rheoleiddiwr y gweithlu

Byddai cael gwared ar y opsiwn o gofrestru'n wirfoddol yn golygu bod Cyngor Gofal Cymru yn arbed tua £15,000 y flwyddyn.

Gweithwyr gofal cymdeithasol

7.498 Byddai gweithwyr gofal cymdeithasol yn elwa ar beidio â thalu £13,360 y flwyddyn, sef y costau presennol sy'n gysylltiedig â chofrestru.

Defnyddwyr gwasanaethau a dinasyddion

7.499 Trwy gael gwared ar y gofrestr, bydd yn fwy eglur i'r cyhoedd beth yw unigolyn cofrestredig, a lefel y sicrwydd y mae hyn yn ei awgrymu.

Tabl 26: crynodeb o'r costau a amcangyfrifir a'r manteision sy'n gysylltiedig â chael gwared ar gofrestru gwirfoddol (opsiw dau)

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|-------------------------|---------|---------|---------|---------|---------|
| Rheoleiddiwr y gweithlu | | | | | |

| | | | | | |
|---------------------------------|---------------|--------------|---|---|---|
| Pontio | | 2,000 | | | |
| Rheolaidd ¹ | 15,000 | - | - | - | - |
| Gweithwyr gofal cymdeithasol | 13,360 | | | | |
| Cyfanswm y costau | 28,360 | 2,000 | - | - | - |
| | | | | | |

Crynodeb a'r opsiwn a ffefrir

7.500 Mae wedi bod yn ymrwymiad allweddol gan Lywodraeth Cymru i ddod â chofrestru gwirfoddol i ben mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol ers cyhoeddi Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy: Fframwaith Gweithredu (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011). Nid yw'r opsiwn i gofrestru'n wirfoddol yn cynnig fawr ddim sicrwydd i'r cyhoedd, a gall, o bosibl, gynnig sicrwydd ffug. Mae hefyd yn llyncu adnoddau'r rheoleiddiwr, heb unrhyw fudd sylweddol.

7.501 Opsiwn dau yw'r ffordd ymlaen a ffefrir.

Cael gwared ar gofrestru deul ar gyfer rheolwyr

7.502 Gweler rhan pedwar o Fil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) ar gyfer y darpariaethau sy'n ymwneud â chofrestru gweithwyr gofal cymdeithasol.

Opsiynau

7.503 Ceir dau opsiwn sy'n gysylltiedig â chofrestru rheolwyr:

- Opsiwn un: peidio â gwneud dim.
- Opsiwn dau: cael gwared ar gofrestru deul.

Opsiwn un: peidio â gwneud dim

7.504 O dan yr opsiwn hwn, bydd y rheolwyr yn parhau i orfod cofrestru â rheoleiddiwr y gweithlu a rheoleiddiwr y gwasanaeth.

Opsiwn dau: cael gwared ar gofrestru deul

7.505 O dan yr opsiwn hwn, bydd yn ofynnol i'r rheolwyr gofrestru â rheoleiddiwr y gweithlu yn unig.

Costau

Opsiwn un: peidio â gwneud dim

Costau rheolaidd i reoleiddiwr y gwasanaeth

7.506 Fel y nodwyd uchod, mae'r gost o gofrestru rheolwyr wedi ei chynnwys yn yr opsiwn peidio â gwneud dim sy'n gysylltiedig â model rheoleiddio seiliedig ar wasanaethau. Mae hyn oherwydd nad oedd modd gwahanu'n gywir y gost o gofrestru rheolwyr gwasanaeth oddi wrth y gost a neilltuwyd, sef £679,480, ar gyfer cofrestru rheolwyr gwasanaeth, sefydliadau ac asiantaethau newydd, a gwaith gweinyddu cysylltiedig.

Costau rheolaidd: rheoleiddiwr y gweithlu

7.507 Mae rheoleiddiwr y gweithlu wedi amcangyfrif mai £143,000 y flwyddyn yw'r gost ar gyfer cofrestru rheolwyr⁸⁰.

Costau rheolaidd: rheolwyr⁸¹

Cofrestru gyda rheoleiddiwr y gwasanaeth: ceisiadau heb eu cwblhau

7.508 Mae rheoleiddiwr y gwasanaeth ar hyn o bryd wedi cofrestru 1,542 o reolwyr o'r 1,685 o reolwyr sydd wedi eu cofrestru gyda chofrestr y gweithlu. Mae felly 143 o reolwyr sydd wedi eu cofrestru gyda rheoleiddiwr y gweithlu nad ydynt wedi eu cofrestru gyda rheoleiddiwr y gwasanaeth. Ni fydd pob un o'r rheolwyr hynny sydd wedi eu cofrestru ar gofrestr y gweithlu yn ymarfer⁸². Os yw'r arferion presennol yn parhau, bydd rhwng 0 a 143 o reolwyr, gydag amcangyfrif gorau o 72, y bydd angen iddynt gofrestru gydag AGGCC⁸³.

7.509 Gan dybio bod rheolwr yn treulio 2.5 o oriau ar gyfartaledd yn llenwi'r ffurflen, 2.5 o oriau ar gyfartaledd mewn cyfweiliad ac 1 awr ac 20 munud ar gyfartaledd yn teithio i'r cyfweiliad ac yn ôl, amcangyfrifir y byddai rheolwr, ar gyfartaledd, yn treulio 6 awr ac 20 munud yn gwneud gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chofrestru. Amcangyfrifir y byddai'r gost fesul rheolwr tua £149⁸⁴, gan roi cyfanswm o rhwng tua £0 a £21,300, gydag amcangyfrif gorau o tua £10,650. Cost untro yw hon gan nad yw rheolwyr yn cofrestru gyda rheoleiddiwr y gwasanaeth am gyfnod penodedig o amser.

7.510 Hefyd, byddai rheolwyr gwasanaeth yn wynebu costau teithio. Gan dybio y byddai rheolwyr yn teithio 25 milltir ar gyfartaledd i ddod i'r cyfweiliad, amcangyfrifir mai

⁸⁰ Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys costau ar gyfer safleoedd, gorbenion a dyraniad cymorth. Nid yw ychwaith yn cynnwys unrhyw gostau sy'n gysylltiedig ag ymddygiad neu addasrwydd i ymarfer.

⁸¹ Nid yw hwn wedi ei gynnwys yn y gost i ddarparwyr gwasanaeth gan ei fod yn berthnasol i'r gofyniad i reolwyr ymarfer.

⁸² Mae'n bosibl i reolwyr gymryd seibiant gyrfa neu adael y gweithlu gofal a chymorth ac aros ar y gofrestr.

⁸³ Y ffigur hwn yw nifer y rheolwyr sy'n aros i gael eu cofrestru. Nid yw'n cynnwys ceisiadau newydd a allai gael eu cyflwyno yn ystod y flwyddyn.

⁸⁴ Yn seiliedig ar gyflog blynyddol cyfartalog ar gyfer rheolwr gofal cartref o £30,766 (Curtis, 2013) ac ar gostau o £9,366, gan roi cyfanswm cost cyflog o £40,132 y flwyddyn. Y gost wythnosol, gan dybio y rhoddir chwe wythnos o wyliau blynyddol gan gynnwys gwyliau banc, yw £872.43. Gan dybio bod y wythnos waith yn 37 awr, y gost fesul awr yw £23.60.

£22.50⁸⁵ fesul rheolwr yw'r gost, gan roi cyfanswm o rhwng tua £0 a £3,200, gydag amcangyfrif gorau o £1,600.

7.511 Amcangyfrifir felly y bydd cyfanswm y gost i reolwyr ar gyfer ceisiadau heb eu cwblhau rhwng £0 a £24,500, gydag amcangyfrif gorau o £12,250. Cost untro yw hon gan nad yw rheolwyr yn cofrestru gyda rheoleiddiwr y gwasanaeth am gyfnod penodedig o amser.

7.512 At ddibenion neilltuo costau fesul blwyddyn yn y tabl isod, tybiwyd y byddai'r achosion sydd wedi cronni yn cael eu clirio o fewn blwyddyn.

Cofrestru gyda rheoleiddiwr y gwasanaeth

7.513 Amcangyfrifir bod 372 o reolwyr yn gwneud cais i gofrestru bob blwyddyn⁸⁶.

7.514 Gan dybio bod rheolwr yn treulio cyfartaledd o 2.5 o oriau yn llenwi'r ffurflen gais, 2.5 o oriau ar gyfartaledd mewn cyfweliad ac 1 awr ac 20 munud ar gyfartaledd yn teithio i'r cyfweliad ac yn ôl, amcangyfrifir y byddai rheolwr, ar gyfartaledd, yn treulio 6 awr ac 20 munud ar weithgareddau sy'n gysylltiedig â chofrestru. Amcangyfrifir y byddai'r gost fesul rheolwr tua £149⁸⁷, gan roi cyfanswm o ryw £55,400 ar gyfer y 372 o reolwyr y disgwylir iddynt wneud cais i gofrestru bob blwyddyn. Cost untro yw hon gan nad yw rheolwyr yn cofrestru gyda rheoleiddiwr y gwasanaeth am gyfnod penodedig o amser.

7.515 Hefyd, byddai rheolwyr gwasanaeth yn wynebu costau teithio. Gan dybio y byddai rheolwyr yn teithio 25 milltir ar gyfartaledd i ddod i'r cyfweliad, amcangyfrifir mai £22.50⁸⁸ yw'r gost fesul rheolwr, gan roi cyfanswm ar gyfer 372 o reolwyr o ryw £8,400.

⁸⁵ 50 milltir am 45 ceiniog y filltir. Yn seiliedig ar gyfraddau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar gyfer gostyngiadau treth ar filltiroedd busnes pan fyddant yn defnyddio eu cerbydau eu hunain

<http://www.hmrc.gov.uk/incometax/relief-mileage.htm#2>

⁸⁶ Yn seiliedig ar nifer y ceisiadau i AGGCC yn ystod 2013/14.

⁸⁷ Yn seiliedig ar gyflog blynyddol cyfartalog ar gyfer rheolwr gofal cartref o £30,766 (Curtis, 2013) ac ar gostau o £9,366, gan roi cyfanswm cost cyflog o £40,132 fesul blwyddyn. Y gost wythnosol, gan gymryd y rhoddir chwe wythnos o wyliau blynyddol gan gynnwys gwyliau banc, yw £872.43. Gan dybio bod yr wythnos waith yn 37 awr, y gost fesul awr yw £23.60.

⁸⁸ 50 milltir am 45 ceiniog y filltir. Wedi ei seilio ar gyfraddau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar gyfer gostyngiadau treth ar filltiroedd busnes pan fyddant yn defnyddio eu cerbydau eu hunain

7.516 Amcangyfrifir felly mai cyfanswm y gost i reolwyr am geisiadau newydd yw £63,800 y flwyddyn. Gan nad yw rheolwyr yn cofrestru gyda rheoleiddiwr y gwasanaeth am gyfnod penodedig o amser, dim ond unwaith y byddai'n ofynnol i bob rheolwr dalu'r costau sy'n gysylltiedig â chofrestru gyda rheoleiddiwr y gwasanaeth.

Cofrestru gyda rheoleiddiwr y gweithlu: cofrestru parhaus i reolwyr cyfredol

7.517 Hefyd, bydd yn parhau i fod yn ofynnol i reolwyr gofrestru gyda rheoleiddiwr y gweithlu yn ogystal â rheoleiddiwr y gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys llenwi ffurflen gofrestru bob tair blynedd a thalu ffi cofrestru flynyddol o £30. Gan dybio bod rheolwr yn treulio 2.5 o oriau'n llenwi'r ffurflen, amcangyfrifir mai tua £59 fesul rheolwr bob tair blynedd yw'r gost, gyda chyfanswm o ryw £99,400 ar gyfer y 1,685 o reolwyr. O ystyried mai dim ond bob tair blynedd y bydd angen i reolwyr gofrestru, amcangyfrifir mai'r gost flynyddol ar gyfartaledd fydd oddeutu £33,100. Amcangyfrifir mai £50,550 fydd cyfanswm ffioedd cofrestru blynyddol y 1,685 o reolwyr cofrestredig.

7.518 Felly, cyfanswm y gost i reolwyr yw £83,650.

Cofrestru gyda rheoleiddiwr y gweithlu: cofrestru o'r newydd

7.519 O dan yr opsiwn hwn, bydd yn ofynnol i'r 372 o reolwyr newydd hynny y disgwylir iddynt gofrestru gyda rheoleiddiwr y gwasanaeth bob blwyddyn, gofrestru hefyd gyda rheoleiddiwr y gweithlu. Fel yn achos rheolwyr cyfredol, mae hyn yn golygu llenwi ffurflen gais bob tair blynedd a thalu ffi cofrestru flynyddol o £30. Gan dybio bod rheolwr yn treulio 2.5 o oriau yn llenwi'r ffurflen gais, amcangyfrifir mai'r gost fesul rheolwr yw tua £59. Gan dybio bod 372 o reolwyr ychwanegol yn cofrestru bob blwyddyn, cyfanswm y gost amcangyfrifedig yw tua £21,900 y flwyddyn.

7.520 Amcangyfrifir mai oddeutu £11,200 fydd cyfanswm ffioedd cofrestru blynyddol y 372 o reolwyr sy'n cofrestru o'r newydd.

7.521 Amcangyfrifir felly mai £33,100 fydd cyfanswm y gost i reolwyr am geisiadau i gofrestru â rheoleiddiwr y gweithlu.

7.522 Mae cyfanswm costau rheolaidd cofrestriad deuol i reolwyr, felly, yn cynnwys dau fath o gostau: costau untro ar gyfer cofrestru â rheoleiddiwr y gwasanaeth a chostau rheolaidd gyda rheoleiddiwr y gweithlu. Rhoddir manylion y rhain yn y tabl isod.

7.523 I osgoi goramcangyfrif y costau blynyddol i ddarparwyr gwasanaeth, mae'r gost o £11,200 ar gyfer ffioedd cofrestru ceisiadau newydd wedi ei chynnwys yn y gost i reolwyr gwasanaeth pan fyddant yn gwneud ceisiadau newydd i reoleiddiwr y gweithlu, ond mae wedi ei didynnu o'r costau rheolaidd o £83,650 i reolwyr am barhau i fod wedi eu cofrestru gyda rheoleiddiwr y gweithlu. Felly, amcangyfrifir mai £72,500 yw'r gost reolaidd i reolwyr.

7.524 Pe na byddai'r costau'n cael eu didynnu, byddai'n achosi goramcangyfrif yn y costau blynyddol, gan y byddai'n tybio bod 372 yn fwy o reolwyr bob blwyddyn. Mewn gwirionedd, mae rheolwyr sy'n cofrestru am y tro cyntaf yn debygol o fod yn disodli rhai o'r rheolwyr cofrestredig presennol.

Tabl 27: crynodeb o'r costau sy'n gysylltiedig â chynnal cofrestriad deuol (opsiwn un)

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|--|----------------|----------------|----------------|----------------|----------------|
| Rheoleiddiwr y gwasanaeth ¹ | | | | | |
| Rheoleiddiwr y gweithlu | 143,000 | 143,000 | 143,000 | 143,000 | 143,000 |
| Rheolwyr â cheisiadau heb eu cwblhau gyda rheoleiddiwr y gwasanaeth | 12,500 | | 0 | 0 | 0 |
| Rheolwyr sy'n gwneud ceisiadau newydd i reoleiddiwr y gwasanaeth | 63,800 | 63,800 | 63,800 | 63,800 | 63,800 |
| Rheolwyr sy'n gwneud ceisiadau newydd i reoleiddiwr y gweithlu | 33,100 | 33,100 | 33,100 | 33,100 | 33,100 |
| Costau rheolaidd i reolwyr barhau i fod wedi eu cofrestru gyda rheoleiddiwr y gweithlu | 72,500 | 72,500 | 72,500 | 72,500 | 72,500 |
| Cyfanswm y gost | 324,900 | 312,400 | 312,400 | 312,400 | 312,400 |

¹ Mae'r gost hon wedi ei chynnwys yn y gost o gofrestru sefydliadau ac asiantaethau a nodir yn y 'Model Rheoleiddio'.

Opsiwn dau: cael gwared ar gofrestru deuol

Costau rheolaidd: rheoleiddiwr y gweithlu

7.525 Mae rheoleiddiwr y gweithlu wedi amcangyfrif costau rheolaidd ychwanegol o £22,500. Mae'n disgwyl wynebu'r gost hon godi oherwydd cynnydd yn yr amser sy'n

cael ei dreulio'n prosesu ceisiadau a mwy o waith dilynol i gael gwybodaeth i gefnogi ceisiadau⁸⁹. Bydd yn rhaid i reoleiddiwr y gweithlu wella'r arferion presennol gan nad yw rheoleiddiwr y gwasanaeth yn cynnal cyfweiliadau bellach fel rhan o'r prawf addasrwydd i ymarfer. Amcangyfrifir felly mai oddeutu £165,500 fydd cyfanswm y gost flynyddol i reoleiddiwr y gweithlu am gofrestru rheolwyr.

⁸⁹ Nid yw'r gost hon yn cynnwys gorbention, costau gweinyddu a chymorth.

Costau pontio: rheoleiddiwr y gweithlu

7.526 Mae rheoleiddiwr y gweithlu wedi amcangyfrif mai oddeutu £1,800 fydd y costau pontio. Disgwylir i'r gost hon godi oherwydd yr angen i ddiwygio cronfa ddata bresennol y gweithlu.

Costau pontio: rheoleiddiwr y gwasanaeth

7.527 Nid oes unrhyw gostau pontio i reoleiddiwr y gwasanaeth.

Costau pontio: rheolwyr

7.528 Nid oes unrhyw gostau pontio i reolwyr.

Costau rheolaidd: rheolwyr

7.529 Bydd y costau i reolwyr yn sgil llenwi ffurflen gofrestru rheoleiddiwr y gweithlu yr un fath ag ar gyfer opsiwn un. Yn yr un modd, bydd y ffi flynyddol a delir gan y rheolwr i reoleiddiwr y gweithlu yr un fath ag ar gyfer opsiwn un. Felly, amcangyfrifir mai cyfanswm y gost flynyddol ar gyfartaledd i reolwyr i barhau ar y gofrestr yw £72,500.

7.530 Bydd y gost i reolwyr sy'n gwneud ceisiadau newydd i gofrestru gyda'r gweithlu yr un fath ag opsiwn un. Hynny yw, £33,100. Felly, cyfanswm y gost i reolwyr o dan opsiwn dau fyddai £105,600.

7.531 O dan yr opsiwn hwn, ni fydd rheolwyr newydd bellach yn talu'r costau sy'n gysylltiedig â chofrestru gyda rheoleiddiwr y gwasanaeth.

Manteision

Opsiwn un: peidio â gwneud dim

7.532 Mantais cadw'r system bresennol o gofrestriad deuol yw'r sicrwydd a ddarperir trwy gynnal cyfweiliad ac asesiad addasrwydd i ymarfer.

Opsiwn dau: cael gwared ar gofrestru deuol

Rheoleiddiwr y gwasanaeth

7.533 Bydd y bobl hynny nad ydynt wedi cofrestru gyda rheoleiddiwr y gwasanaeth yn arbed costau. Mae 1,685 wedi cofrestru gyda rheoleiddiwr y gweithlu a dim ond 1,542 wedi cofrestru gyda rheoleiddiwr y gwasanaeth.

7.534 Amcangyfrifir y byddai rheoleiddiwr y gwasanaeth yn arbed tua £20,900 mewn costau pe na byddai'r 143 o reolwyr gwasanaeth presennol yn cofrestru. Mae'r ffigur hwn yn seiliedig ar dybio bod Swyddog Gweithredol yn treulio 1 awr ar gyfartaledd yn prosesu'r cais a Phennaeth Cangen yn treulio tua 2.5 o oriau yn cynnal cyfweiliad a 30 munud ar gyfartaledd yn paratoi ar gyfer cyfweiliad. Hynny yw, mae cost o £23.87 yn gysylltiedig â phrosesu cais⁹⁰ ac amcangyfrifir bod cost o £122.34⁹¹ yn gysylltiedig â phob un o'r cyfweiliadau a'r gwaith paratoi cysylltiedig.

Rheolwyr

7.535 Byddai'r 143 o reolwyr gwasanaeth nad ydynt wedi cofrestru gyda rheoleiddiwr y gwasanaeth hyd yn hyn yn gwneud arbediad untro o £12,500.

7.536 Byddai rheolwyr yn arbed £63,800 y flwyddyn drwy beidio â gorfod cofrestru gyda rheoleiddiwr y gwasanaeth.

Tabl 28: crynodeb o'r costau a amcangyfrifir sy'n gysylltiedig â chael gwared ar gofrestru deul (opsiwn dau)

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---------------------------|----------------|----------------|----------------|----------------|----------------|
| Rheoleiddiwr y gwasanaeth | | | | | |
| Rheoleiddiwr y gweithlu | | | | | |
| Pontio | 1,800 | | | | |
| Rheolaidd | 143,000 | 165,500 | 165,500 | 165,500 | 165,500 |
| Rheolwyr | 181,900 | 105,600 | 105,600 | 105,600 | 105,600 |
| Cyfanswm y gost | 326,700 | 271,100 | 271,100 | 271,100 | 271,100 |
| | | | | | |

⁹⁰ Yn seiliedig ar gyflog gros o £40,632 gyda chwe wythnos o wyliau blynyddol, y gost wythnosol yw £883.30, gyda chyfradd fesul awr o £23.87 am wythnos waith 37 awr.

⁹¹ Yn seiliedig ar gyflog gros o £69,408 gyda chwe wythnos o wyliau blynyddol ac wythnos waith 37 awr, y gyfradd fesul awr yw £40.78.

Crynodeb a'r opsiwn a ffefrir

7.537 Trwy gydol yr ymgynghoriad, nodwyd bod cofrestriad deul rheolwyr yn broblem yn y drefn bresennol. Dywedwyd ei fod yn ddrud ac yn cymryd amser. Dylai'r swyddogaeth fod yn un broffesiynol yn ei hanfod, ond o dan y system bresennol mae'r rheidrwydd i fodloni'r gofynion addasrwydd i ymarfer a bennir gan reoleiddiwr y gwasanaeth yn cymhlethu hyn. Drwy newid i roi dyletswyddau statudol penodol i Unigolion Cyfrifol y darparwyr, mae'n amlwg y dylai'r pwyslais rheoleiddio o safbwynt rheolwyr symud i'w statws proffesiynol. Bydd hyn yn caniatáu i'r gweithlu rheoli fod yn fwy hyblyg a chreu cronfa o weithwyr proffesiynol yn y sector.

7.538 Opsiwn dau, cael gwared ar gofrestru deul, yw'r opsiwn a ffefrir.

Ymestyn cofrestrriad gorfodol y gweithlu gofal cymdeithasol

Opsiynau

7.539 Gweler rhan pedwar o Fil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) ar gyfer y darpariaethau sy'n ymwneud â chofrestru gweithwyr gofal cymdeithasol ynghyd ag adran 79(1)(b) sy'n darparu bod yn rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru gynnal cofrestr o weithwyr gofal cymdeithasol fel y pennir gan Weinidogion Cymru.

7.540 Trafodir tri opsiwn⁹² o ran rheoleiddio gorfodol y gweithlu:

- Opsiwn un: peidio â gwneud dim.
- Opsiwn dau: ymestyn y model presennol o gofrestru gorfodol i'r holl weithlu gofal cymdeithasol gan ddefnyddio'r strwythur ffioedd cofrestru presennol
- Opsiwn tri: ymestyn y model presennol o gofrestru gorfodol i'r holl weithlu gofal cymdeithasol gyda chynnydd yn y ffioedd cofrestru⁹³.

Opsiwn un: peidio â gwneud dim

7.541 O dan y cynnig hwn, byddai'r gweithwyr gofal cymdeithasol y mae'n orfodol iddynt gofrestru gyda rheoleiddiwr y gweithlu, yn parhau i fod wedi eu cyfyngu i grwpiau penodol o'r gweithlu – gweithwyr cymdeithasol, myfyrwyr gwaith cymdeithasol, rheolwyr gofal cartref, rheolwyr cartrefi gofal preswyl i oedolion, rheolwyr gofal preswyl i blant a phobl ifanc a gweithwyr gofal preswyl i blant a phobl ifanc.

7.542 Mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif bod 67,069 o bobl yn y gweithlu gofal cymdeithasol. O'r rhain, amcangyfrifir mai dim ond 11,526 (17%) sy'n gorfod cofrestru gyda rheoleiddiwr y gweithlu. Nid yw'r 55,543 (83%) sy'n weddill wedi eu cofrestru gan reoleiddiwr y gweithlu ac nid ydynt yn cael eu rheoleiddio ganddo. Mae hyn yn cynnwys cynorthwywyr personol, gweithwyr gofal dydd, rheolwyr gofal dydd, gofalywyr lleoliadau oedolion, eiriolwyr, arolygwyr, gweithwyr gofal cartref a gweithwyr gofal preswyl i oedolion.

⁹² Mae'r opsiynau a drafodir yn yr adran hon yn cymryd y bydd y model rheoleiddio presennol yn parhau. Byddai'n bosibl, er hyn, gweithredu modelau rheoleiddio eraill ar gyfer grwpiau newydd y mae'n orfodol iddynt gofrestru. Gallai hyn gynnwys modelau cofrestru sy'n llai beichus, a fyddai felly yn llai drud na'r model presennol.

⁹³ Nid yw ffioedd cofrestru wedi newid dros y 12 mlynedd diwethaf.

7.543 O dan yr opsiwn hwn, byddai darparwyr gwasanaeth yn parhau i fod yn gyfrifol am sicrhau bod y gweithwyr gofal hyn nad ydynt wedi eu cofrestru yn addas i wneud y tasgau y maent yn eu cyflawni. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gweithwyr gofal cymdeithasol yn addas ac yn briodol ar gyfer y dasg (er enghraifft, trwy ddatgeliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) a bod ganddynt y sgiliau a'r cymwysterau gofynnol i ddarparu gofal o ansawdd da.

Opsiwn dau: rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ymestyn y model presennol o gofrestru gorfodol i'r holl weithlu gofal cymdeithasol gan ddefnyddio'r strwythur ffioedd presennol

7.544 Bydd opsiwn dau yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ymestyn y drefn cofrestru gorfodol i bob aelod o'r gweithlu gofal cymdeithasol. Pe byddai'r pwerau hyn yn cael eu gweithredu, byddai'r model presennol o reoleiddio, lle y mae cyflogwyr yn gyfrifol am sicrhau bod y rhan fwyaf o'r gweithlu gofal cymdeithasol (83%) yn addas i wneud y tasgau y maent yn eu cyflawni, yn cael ei ddisodli gan reoleiddio drwy reoleiddiwr y gweithlu. Byddai hyn yn safoni'r dull o gofrestru a rheoleiddio'r gweithlu ym mhob grŵp o'r gweithlu gofal cymdeithasol.

7.545 O dan yr opsiwn hwn, byddai'r strwythur ffioedd blynyddol presennol yn parhau. Ar hyn o bryd, mae ffioedd myfyrwyr gwaith cymdeithasol yn £10, ffioedd gweithwyr cymdeithasol yn £30, ffioedd rheolwr gofal cymdeithasol yn £30 a ffioedd gweithwyr gofal cymdeithasol yn £10.

Opsiwn tri: rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ymestyn y model presennol o reoleiddio gorfodol i'r holl weithlu gofal cymdeithasol gyda chynnydd yn y ffioedd cofrestru

7.546 Byddai opsiwn tri yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ymestyn y drefn cofrestru gorfodol i'r holl weithlu gofal cymdeithasol ond gan gynyddu'r ffioedd cofrestru presennol.

7.547 Y strwythur ffioedd a gynigir yw £25 y flwyddyn i fyfyrwyr gwaith cymdeithasol a gweithwyr gofal cymdeithasol; a £75 y flwyddyn i weithwyr cymdeithasol a rheolwyr gofal cymdeithasol.

Costau

Opsiwn un: peidio â gwneud dim

Risg i unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol

7.548 Mae'r ffaith bod defnyddwyr gwasanaethau yn agored i niwed, ac nad oes dull safonol o reoleiddio'r gweithlu, wedi achosi pryderon nad yw rhai grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaethau yn cael eu hamddiffyn cystal ag eraill.

7.549 Ni fu modd asesu'r union risg i unigolion sy'n derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol gan weithwyr gofal nad ydynt wedi eu cofrestru, gan nad yw data am atgyfeiriadau a cholffarnau'n cael eu casglu'n rheolaidd am weithwyr gofal nad ydynt yn cael eu cofrestru.

7.550 Er hyn, mae'n bosibl amcangyfrif y risg bosibl gan ddefnyddio data y mae Cyngor Gofal Cymru'n eu casglu am hysbysiadau a dderbynnir gan heddluoedd Cymru trwy'r Cynllun Swyddi Hysbysadwy.

7.551 Mae'r Cynllun Swyddi Hysbysadwy yn berthnasol i broffesiynau neu swyddi sydd â chyfrifoldeb arbennig neu yr ymddiriedir yn arbennig ynddynt, pan fo'n fwy pwysig yn gyffredinol, er lles y cyhoedd, i'r heddlu ddatgelu collfarnau a gwybodaeth arall yn hytrach na chyflawni'r ddyletswydd arferol tuag at yr unigolyn hwnnw o gadw cyfrinachedd. Gwneir hysbysiadau yn gyffredinol am gollfarnau, ceryddon a rhybuddion olaf ynglŷn â throeddau cofnodadwy.

7.552 Yn ystod y cyfnod rhwng mis Mehefin 2008 a mis Mawrth 2013, cyflwynwyd 1,982 o hysbysiadau. Mae hyn oddeutu 417 o hysbysiadau'r flwyddyn ar gyfartaledd. Gan dybio mai dim ond un hysbysiad a dderbynnir ar gyfer pob unigolyn, derbyniwyd hysbysiadau am gollfarnau, ceryddau a rhybuddion olaf ynglŷn ag oddeutu 0.75% ar gyfartaledd o'r amcangyfrif o 55,543 o'r gweithlu gofal cymdeithasol nad ydynt wedi eu cofrestru, bob blwyddyn.

7.553 O 2010-2011 hyd 2013-14 derbyniodd Cyngor Gofal Cymru 101 o atgyfeiriadau ynglŷn â cholffarnau a rhybuddion. Hynny yw, 25 o atgyfeiriadau'r flwyddyn ar

gyfartaledd. Gan dybio mai dim ond un atgyfeiriad a dderbynnir ar gyfer pob gweithiwr gofal cymdeithasol cofrestredig, derbyniwyd atgyfeiriadau ynglŷn ag oddeutu 0.2% o'r gweithlu gofal cymdeithasol cofrestredig o 11,526 bob blwyddyn (Cyngor Gofal Cymru, 2013a).

7.554 Er nad oes modd cymharu'n uniongyrchol gyfraddau'r hysbysiadau fesul gweithiwr gofal cymdeithasol nad yw wedi ei gofrestru â chyfraddau'r atgyfeiriadau fesul gweithiwr gofal cymdeithasol cofrestredig, mae'r data hyn yn darparu peth tystiolaeth sy'n awgrymu y gallai nifer y colfarnau a rhybuddion fod yn uwch ymhlith y gweithlu gofal cymdeithasol nad ydynt wedi eu cofrestru na'r gweithlu cofrestredig.

Rheoleiddiwr y gweithlu

7.555 Darparodd Cyngor Gofal Cymru wybodaeth am gost rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol. Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2012-13, cost rheoleiddio'r gweithlu, ar sail cofrestr o 11,599 o unigolion cofrestredig oedd £3,170,175. Mae rheoleiddio'n cyfeirio at reoleiddio, monitro a gorfodi. Amcangyfrifir felly mai £273.31 y flwyddyn yw cost rheoleiddio fesul unigolyn cofrestredig.

7.556 Codir ffi flynyddol o £10 neu £30 ar y gweithwyr gofal cymdeithasol hynny y mae'n ofynnol iddynt gofrestru ar hyn o bryd, yn dibynnu ar y gwaith y maent yn ei gyflawni. Mae cofrestriad yn parhau am dair blynedd fel arfer ond codir ffi flynyddol i dalu cost y gweithgareddau rheoleiddio parhaus.

7.557 O ystyried y ffi flynyddol, mae'r gwaith o reoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol yn cael cymhorthdal cyhoeddus ar raddfa o £263.31 neu £243.31 fesul unigolyn cofrestredig.

7.558 Y refeniw rhagamcanol o'r ffioedd ar gyfer 2012-13 oedd £264,350, gan olygu bod angen cymhorthdal cyhoeddus o £2,905,825. Caiff hwn ei gyllido gan Lywodraeth Cymru drwy gymorth grant.

Y gweithlu

7.559 Mae cost cyfle'n gysylltiedig â'r amser y mae pob gweithiwr yn ei gymryd i gwblhau'r broses gofrestru. Amcangyfrifir bod y broses yn cymryd tua 30 munud i bob

gweithiwr. Gweithwyr cymdeithasol a rheolwyr yw mwyafrif helaeth y gweithwyr cofrestredig⁹⁴. Gan dybio cyflog cyfartalog o £23.90 yr awr, amcangyfrifir mai oddeutu £11.95 fesul gweithiwr yw cost gyfartalog y broses gofrestru.

7.560 Mae cofrestriad yn parhau am dair blynedd fel arfer ac felly tybir ei bod yn ofynnol i un rhan o dair o'r gweithlu perthnasol (3,866) gofrestru bob blwyddyn. Amcangyfrifir felly mai oddeutu £46,200 y flwyddyn yw cyfanswm y gost sy'n gysylltiedig â'r amser y mae'n ei gymryd i gofrestru.

7.561 Fel y nodir uchod, mae'r gweithwyr hynny sy'n gorfod cofrestru yn talu ffi o £10 neu £30 y flwyddyn. Mae'r ffi flynyddol yn gyfraniad tuag at y costau cofrestru cychwynnol a'r costau rheoleiddio parhaus a wynebwr gan reoleiddiwr y gweithlu. Yn seiliedig ar ddata 2012-13, amcangyfrifwyd mai £264,350 oedd cyfanswm y ffioedd blynyddol a dalwyd gan y gweithlu.

7.562 Amcangyfrifir felly mai £310,550 yw cyfanswm y gost flynyddol i'r gweithlu.

Tabl 29: crynodeb o'r costau amcangyfrifedig sy'n gysylltiedig â chadw'r dull presennol o gofrestru'r gweithlu (opsiwn un)

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|------------------------|------------------|------------------|------------------|------------------|------------------|
| Cyllid cyhoeddus | 2,905,825 | 2,905,825 | 2,905,825 | 2,905,825 | 2,905,825 |
| Gweithwyr cofrestredig | 310,550 | 310,550 | 310,550 | 310,550 | 310,550 |
| Cyfanswm y gost | 3,216,375 | 3,216,375 | 3,216,375 | 3,216,375 | 3,216,375 |

Opsiwn dau: rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ymestyn y model presennol o gofrestru gorfodol i'r holl weithlu gofal cymdeithasol gan ddefnyddio'r strwythur ffioedd presennol

7.563 Mae'r gost sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn yn dibynnu a fydd Gweinidogion Cymru yn gweithredu'r pwerau ac yn ymestyn y drefn cofrestru gorfodol i'r holl weithlu gofal cymdeithasol. Nid oes cynlluniau i ymestyn y drefn cofrestru gorfodol ar hyn o bryd.

⁹⁴ Yn seiliedig ar gyflog blynyddol cyfartalog rheolwr gofal cartref, sef £30,766 (Curtis, 2013) ac ar gostau o £9,366, gan roi cyfanswm cost cyflog o £40,132 y flwyddyn. Mae'r gost wythnosol, gan dybio y rhoddir chwe wythnos o wyliau blynyddol gan gynnwys gwyliau banc, yn £872.43. Gan dybio mai 37 awr yw'r wythnos waith, y gost fesul awr yw £23.60.

Yn seiliedig ar gyflog gros cymedrig o £31,824 ac ar gostau cyflog o £9,388 y flwyddyn, gan roi cyfanswm cost gros o £41,212. Gan dybio chwe wythnos o wyliau blynyddol ac wythnos waith o 37 awr, y gost gros fesul awr yw tua £24.20.

Os na weithredir y pwerau a bod y drefn bresennol yn parhau, byddai'r costau fel y nodir o dan opsiwn un (peidio â gwneud dim).

7.564 Mae'r adrannau canlynol yn rhoi'r amcangyfrif gorau o'r costau tebygol pe byddai Gweinidogion Cymru yn ymestyn y drefn cofrestru gorfodol. At ddibenion yr asesiad effaith rheoleiddiol hwn, tybir y byddai'r gweithlu yn cael eu hysbysu am y newid yn y gofynion cofrestru yn 2016-17 ac y byddai'r cofrestriad yn cael ei gyflwyno'n raddol dros gyfnod o dair blynedd (2017-18 i 2019-20) gan gofrestru niferoedd eithaf cyfartal o weithwyr ym mhob un o'r tair blynedd.

Costau rheolaidd

Rheoleiddiwr y gweithlu

7.565 Mae Cyngor Gofal Cymru yn amcangyfrif mai £4,705,100 y flwyddyn fyddai cyfanswm y gost o ymestyn y drefn cofrestru gorfodol i'r holl weithlu gofal cymdeithasol, yn seiliedig ar amcangyfrif bod tua 55,199 yn rhan o'r gweithlu (gweler tabl 47, atodiad B). Mae hyn yn cyfateb i gost flynyddol gyfartalog fesul unigolyn cofrestredig o £85.24. Oddeutu £273.31 yw'r gost gyfartalog bresennol fesul cofrestriad. Mae rheoleiddiwr y gweithlu felly yn amcangyfrif y byddai'r costau oddeutu £188 yn is fesul unigolyn cofrestredig pe byddid yn ymestyn yr angen i gofrestru ar draws y gweithlu cyfan. Mae'r gost is y pen yn seiliedig ar y costau ymylol⁹⁵ isel sy'n gysylltiedig â phob unigolyn ychwanegol a fyddai'n cofrestru. O ganlyniad, gellir sicrhau arbedion maint sylweddol trwy ymestyn yr angen i gofrestru ar draws y gweithlu gofal cymdeithasol.

7.566 Amcangyfrifir mai oddeutu £682,500⁹⁶ fyddai'r incwm, yn seiliedig ar lefelau'r ffioedd presennol, gan 55,199 o unigolion cofrestredig. Byddai angen cymorth grant o oddeutu £4,022,600 y flwyddyn felly i ymestyn y drefn cofrestru gorfodol.

⁹⁵ Mae costau ymylol yn cyfeirio at gost yr uned nesaf neu un uned ychwanegol o allbwn. Yn yr achos hwn, mae 11,199 o bobl ar y gofrestr. Y gost ymylol, felly, yw'r gost sy'n gysylltiedig â chofrestru unigolyn rhif 11,200. Gan y byddai modd cofrestru unigolyn rhif 11,200 heb gynyddu'r costau amrywiol na sefydlog yn sylweddol, byddai cost cofrestru unigolyn rhif 11,200 yn llawer is na'r cyfartaledd presennol. O ganlyniad, byddai'r gost ar gyfartaledd fesul unigolyn sy'n cofrestru yn gostwng.

⁹⁶ Incwm amcangyfrifedig yn seiliedig ar ffi gyfartalog o £12.36 fesul unigolyn sy'n cofrestru.

7.567 Y grant presennol a delir i Gyngor Gofal Cymru yw £2,905,825. Amcangyfrifir felly y byddai'r gost ychwanegol yn sgil ymestyn y drefn cofrestru gorfodol ar gyfer gweithlu yr amcangyfrifir ei fod yn 55,199, oddeutu £1,116,800.

Dadansoddiad o sensitifrwydd costau rheoleiddiwr y gweithlu

7.568 Fel y nodir uchod, mae gwaith dadansoddi a wnaed gan Lywodraeth Cymru yn rhan o'r dadansoddiad effaith rheoleiddiol hwn, yn awgrymu bod y gweithlu gofal cymdeithasol yn cynnwys cyfanswm o 67,069 o unigolion. Gallai fod goblygiadau sylweddol o ran cost ychwanegol ymestyn y drefn cofrestru gorfodol os yw'r gweithlu gofal cymdeithasol yn cael ei danamcangyfrif.

7.569 Byddai'r gost o gofrestru 67,069 o unigolion am £85.24 tua £5,717,000. Yn seiliedig ar y ffioedd presennol, amcangyfrifir mai oddeutu £829,000⁹⁷ fyddai'r incwm gan 67,069 o unigolion cofrestredig, sy'n golygu y byddai angen cymorth grant o £4,887,700. Byddai angen grant ychwanegol, yn seiliedig ar weithlu o 67,069 am gost o £85.24 fesul unigolyn cofrestredig, o oddeutu £1,981,900.

7.570 Mae hefyd y risg na fydd yr arbedion effeithlonrwydd a ddisgwyllir yn cael eu gwireddu. Ni chynhaliwyd dadansoddiad o'r gost ymylol. Nid yw'n sicr felly i ba raddau y gellid ymestyn y gofrestr cyn i'r costau sefydlog gynyddu. Mae'n bosibl felly y goramcangyfrifwyd y gostyngiad yn y gost fesul unigolyn cofrestredig, yn deillio o arbedion maint. Mae'n debygol y bydd y gost fesul unigolyn cofrestredig, o ganlyniad i ymestyn yr angen i gofrestru ar draws y gweithlu gofal cymdeithasol, rywle rhwng yr £85.24 a amcangyfrifwyd a'r lefel bresennol o £273.31. Gan gymryd bod y gost fesul unigolyn cofrestredig yn y canol rhwng y ddau, fe allai'r gost fesul unigolyn cofrestredig fod oddeutu £180. Yn yr achos hwn, fe allai'r gost o gofrestru 67,069 o bobl fod tua £12,072,400, yn hytrach na'r £5,717,000 a amcangyfrifwyd. Oddeutu £829,000⁹⁸ fyddai'r incwm ar lefel y ffioedd presennol. Byddai angen cymorth grant felly o oddeutu £11,243,400, sy'n golygu y byddai angen grant ychwanegol o oddeutu £8,337,600.

Y gweithlu

⁹⁷ Amcangyfrif o'r incwm yn seiliedig ar ffi gyfartalog o £12.36 fesul unigolyn cofrestredig.

⁹⁸ Amcangyfrif o'r incwm yn seiliedig ar ffi gyfartalog o £12.36 fesul unigolyn cofrestredig.

7.571 Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i 17% o'r gweithlu gofal cymdeithasol gofrestru gyda rheoleiddiwr y gweithlu. Ni fydd yr opsiwn hwn yn effeithio ar y gweithwyr hynny. Fodd bynnag, byddai'r 83% o'r gweithlu sy'n weddill yn wynebu cost ychwanegol.

7.572 Fel yn achos opsiwn un, mae cost cyfle yn gysylltiedig â'r amser y mae gweithiwr gofal cymdeithasol yn ei gymryd i gwblhau'r broses gofrestru. Amcangyfrifir ei bod yn cymryd tua 30 munud i bob gweithiwr gwblhau'r broses gofrestru. Yn seiliedig ar gyflog cyfartalog o £6.80⁹⁹ yr awr, mae hyn yn cyfateb i gost o £3.40 fesul gweithiwr. Trwy gyflwyno'r gofyniad i gofrestru'n raddol a defnyddio'r amcanestyniadau a ddarparwyd gan Gyngor Gofal Cymru, disgwylir i oddeutu 14,530 o weithwyr ychwanegol gofrestru bob blwyddyn rhwng 2017-18 a 2019-20. Mae hyn yn cyfateb i gost ychwanegol o oddeutu £49,400 y flwyddyn.

7.573 Amcangyfrifir y byddai'r gweithlu'n talu ffioedd ychwanegol o £139,400 yn 2017-18, £278,800 yn 2018-19 a £418,200 yn 2019-20 pe byddai trefn o gofrestru gorfodol yn cael ei chyflwyno'n raddol.

Costau pontio

Rheoleiddiwr y gweithlu

7.574 Byddai rheoleiddiwr y gweithlu'n wynebu costau pontio yn gysylltiedig â diwygio'r system bresennol a chyfathrebu'r newid i'r gweithlu. Amcangyfrifir mai'r gost o ddiwygio'r system bresennol yw £1,800. Ni ddisgwylir i'r costau sy'n gysylltiedig â hysbysu'r gweithlu am y newid fod yn uchel iawn. Disgwylir y bydd rheoleiddiwr y gweithlu yn hysbysu darparwyr gofal cymdeithasol am y newid ac y byddant hwythau'n hysbysu'r gweithwyr gofal cymdeithasol am y newid arfaethedig. Yn achos aelodau presennol o staff, gellid gwneud hyn mewn cylchlythyr neu e-bost. Yn achos staff newydd, mae'n debygol y byddai hyn yn rhan o'r broses sefydlu.

⁹⁹ Cyflog canolrifol cyfartalog gweithiwr gofal yn y sector cyhoeddus ac annibynnol ym mis Awst 2013 oedd £13,632, sef cyflog gros yr awr o £6.80 (Curtis, 2013).

Tabl 30: crynodeb o'r costau amcangyfrifedig sy'n gysylltiedig ag ymestyn y drefn cofrestru gorfodol gan ddefnyddio'r strwythur ffioedd presennol (opsiwn dau)

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|--|-------------------------|-------------------------|--------------------------|--------------------------|--------------------------|
| Cyllid cyhoeddus | | | | | |
| Pontio | | | | | |
| Rheolaidd | 2,905,825 | 4,022,600 | 4,022, 600 | 4,022, 600 | 4,022, 600 |
| Gweithwyr cofrestredig (ffioedd yn unig) | 264,350 | 682,500 | 682, 500 | 682, 500 | 682, 500 |
| <i>Cyfanswm y gost heb gynnwys costau cyfle</i> | <i>3,170,175</i> | <i>4,705,100</i> | <i>4,705, 100</i> | <i>4,705, 100</i> | <i>4,705, 100</i> |
| Gweithwyr cofrestredig (cyfleoedd cyfle) | 46,200 | 95,600 | 95,600 | 95,600 | 95,600 |
| Cyfanswm y costau gan gynnwys costau cyfle | 3,216,375 | 4,800,700 | 4,800, 700 | 4,800, 700 | 4,800, 700 |

Opsiwn tri: ymestyn y model presennol o gofrestru gorfodol i'r holl weithlu gofal cymdeithasol gyda chynnydd yn y ffioedd cofrestru

7.575 Mae Cyngor Gofal Cymru wedi cynnig codi'r strwythur ffioedd presennol o £10 a £30 i £25 a £75 i ariannu cost ymestyn y drefn cofrestru gorfodol i'r gweithlu, sef amcangyfrif o 55,199 o weithwyr gofal cymdeithasol.

7.576 O dan yr opsiwn hwn, mae Cyngor Gofal Cymru'n amcangyfrif mai oddeutu £1,830,900 fyddai'r incwm o'r ffioedd uwch. Gan dynnu incwm y ffioedd o'r gost a amcangyfrifir o gofrestru'r gweithlu, sef £4,705,100 (sef £85.24 fesul unigolion cofrestredig), byddai angen £2,874,200 o gymorth grant. Byddai hyn yn arwain at ostyngiad o £31,600 yn y grant cyffredinol.

7.577 Fel yn achos opsiwn dau, ceir risg bod maint y gweithlu a chost cofrestru wedi eu tanamcangyfrif. Gan gymryd yr amcangyfrifir mai £85.24 yw'r gost fesul unigolyn cofrestredig, byddai'n costio £5,717,000 i reoleiddio gweithlu o 67,069. Byddai'r strwythur ffioedd uwch yn darparu incwm amcangyfrifedig o £2,072,100, gan olygu y byddai angen £3,644,900 o gymorth grant. Byddai'r cynnydd yn y gost oddeutu £739,000.

7.578 Os mai £180, yn hytrach na'r £85.24 a amcangyfrifwyd, yw'r gost fesul unigolyn cofrestredig byddai'n costio tua £12,072,400 i gofrestru gweithlu o 67,069. Gydag incwm ffioedd uwch o tua £2,072,100, byddai angen cymorth grant o oddeutu £10,000,300. Byddai'r gost ychwanegol felly oddeutu £7,094,500.

7.579 Nid yw'r cyfrifiadau uchod yn ystyried trosiant staff sy'n gymharol uchel yn yr holl weithlu gofal cymdeithasol, yn enwedig ymhlith gweithwyr gofal¹⁰⁰.

7.580 Gan gymryd bod modd llwyddo i arbed £31,600 yn gyffredinol, fel yr awgrymodd Cyngor Gofal Cymru, mae'n bosibl na fydd yr opsiwn hwn yn ymarferol yn ariannol yn yr hirdymor. Rhagwelir y bydd y gweithlu gofal cymdeithasol yn cynyddu rhwng 12.5% a 62.5% erbyn 2025 (Skills for Care, 2010). Pe byddai'r gweithlu yng Nghymru'n cynyddu yn unol â'r amcanestyniad hwn, byddai'n cynyddu o amcangyfrif o 67,069 i rhwng 75,453 a 108,987 erbyn 2025. Byddai hyn yn cael effaith sylweddol ar y gost i'r cyhoedd o ganlyniad i gofrestru'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Y gweithlu

7.581 Fel yn achos opsiwn dau, mae cost cyfle'n gysylltiedig â'r amser y mae pob gweithiwr yn ei gymryd i gwblhau'r broses. Amcangyfrifir y bydd yn cymryd tua 30 munud i bob gweithiwr gwblhau'r broses o wneud cais. Yn seiliedig ar gyflog o £6.80¹⁰¹ yr awr, mae hyn yn cyfateb i gost o £3.40 fesul gweithiwr. Trwy gyflwyno'r gofyniad i gofrestru yn raddol gan ddefnyddio'r amcanestyniadau a ddarparwyd gan Gyngor Gofal Cymru, disgwylir i oddeutu 14,530 o weithwyr ychwanegol gofrestru bob blwyddyn rhwng 2017-18 a 2019-20. Mae hyn yn cyfateb i gost ychwanegol o oddeutu £49,400 y flwyddyn.

7.582 Amcangyfrifir mai oddeutu £522,200¹⁰² fyddai'r ffi ychwanegol y byddai'r gweithlu'n ei thalu yn 2017-18, pe byddai trefn cofrestru gorfodol yn cael ei chyflwyno'n raddol, £1,044,400 yn 2018-19 a £1,566,500 yn 2019-20.

Darparwyr gwasanaeth a gweithwyr gofal cymdeithasol

¹⁰⁰ Roedd cyfradd trosiant cyfartalog y sector Gofal a Chymorth Cymdeithasol yn 2012 yn 24% (Ekosgen a Skills for Care, 2013).

¹⁰¹ Cyflog blynyddol canolrifol gweithiwr gofal yn y sector cyhoeddus ac annibynnol ym mis Awst 2013 oedd £13,632 sef cyflog gros o £6.80 yr awr (Curtis, 2013).

¹⁰² $(1,830,875 - 264,350) / 3$

- 7.583 Mae darparwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol wedi mynegi pryderon ynglyn â chofrestru'r gweithlu oherwydd yr effaith bosibl ar y gallu i recriwtio a chadw staff yng nghyd-destun tâl isel a throshiant staff uchel¹⁰³ (McGregor, 2009). O ganlyniad, mae darparwyr wedi mynegi pryder na fyddai gweithwyr gofal yn gallu fforddio hyn, a chan nad yw'n debygol y bydd awdurdodau lleol yn helpu darparwyr i dalu'r gost, y darparwyr gwasanaethau fyddai'n talu'r gost o gofrestru.
- 7.584 Yn ogystal â chostau uniongyrchol cofrestru, gallai gweithwyr gofal cymdeithasol, cyflogwyr gofal cymdeithasol, awdurdodau lleol a defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd wynebu costau anuniongyrchol yn sgil rheoleiddio gorfodol y gweithlu gofal cymdeithasol.
- 7.585 Ystyrir bod y gofynion presennol i reoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol wedi achosi rhai problemau o ran recriwtio a chadw staff. Mae oedi a chostau, sy'n gysylltiedig â chofrestru a gofynion rheoleiddio eraill a orfodir ar weithwyr gofal, (ynghyd â'r cyfraddau tâl isel yn y sector) yn atal darpar ymgeiswyr, a byddai llawer o weithwyr gofal cymdeithasol posibl yn dewis y gweithdrefnau ymgeisio symlach a'r manteision ariannol mwy a gynigir yn y sectorau gwasanaethu a masnachu (Lathlean et al, 2006).
- 7.586 Mae problemau o ran recriwtio a chadw staff yn cyfyngu ar ymdrechion i wella sgiliau a statws (Eborall, 2005) a gall hynny, yn ei dro, effeithio ar ansawdd y gofal cymdeithasol a ddarperir.
- 7.587 Daeth yr Adran Iechyd i'r casgliad (2009) fod angen tystiolaeth gadarn sy'n dangos y gellid, trwy ymestyn y drefn reoleiddio, wella diogelwch y cyhoedd ac ychwanegu buddion nad ydynt ar gael trwy ddulliau anstatudol, o ystyried y risgiau posibl sy'n gysylltiedig â chofrestru'r gweithlu gofal cymdeithasol (Adran Iechyd, 2009).

¹⁰³ Roedd cyfradd trosiant cyfartalog y sector Gofal a Chymorth Cymdeithasol yn 2012 yn 24% (Ekosgen a Skills for Care, 2013) Why are Some Employers more Successful than Others in Retaining their Workforce?

Tabl 4: crynodeb o'r costau amcangyfrifedig sy'n gysylltiedig ag ymestyn y drefn cofrestru gorfodol gan ddefnyddio strwythur ffioedd uwch (opsiwn tri)

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|--|------------------|------------------|------------------|------------------|------------------|
| Cyllid cyhoeddus | | | | | |
| Pontio | | | | | |
| Rheolaidd | 2,905,825 | 2,874,200 | 2,874,200 | 2,874,200 | 2,874,200 |
| Gweithwyr cofrestredig (ffioedd yn unig) | 264,350 | 1,830,900 | 1,830,900 | 1,830,900 | 1,830,900 |
| <i>Cyfanswm y gost heb gynnwys y costau cyfle</i> | 3,170,175 | 4,705,100 | 4,705,100 | 4,705,100 | 4,705,100 |
| Gweithwyr cofrestredig (costau cyfle) | 46,200 | 95,600 | 95,600 | 95,600 | 95,600 |
| Cyfanswm y costau gan gynnwys costau cyfle | 3,216,375 | 4,800,700 | 4,800,700 | 4,800,700 | 4,800,700 |
| | | | | | |
| Cyllid cyhoeddus | | 31,600 | 31,600 | 31,600 | 31,600 |
| Cyfanswm y fantais | - | 31,600 | 31,600 | 31,600 | 31,600 |

Manteision

Opsion un: peidio â gwneud dim

7.588 Mae'r system bresennol o reoleiddio'r rhan fwyaf o'r gweithwyr gofal cymdeithasol trwy gyfrwng cyflogwyr gofal cymdeithasol, yn rhoi'r cyfrifoldeb ar gyflogwyr i sicrhau bod y gweithwyr gofal cymdeithasol a gyflogir yn addas i wneud y tasgau y maent yn eu cyflawni. Mantais y model yw ei fod yn annog darparwyr gwasanaeth i wella sgiliau'r gweithlu ac, yn ei dro, ansawdd y gofal a ddarperir.

7.589 Mae'r arferion presennol yn gyson â'r bwriad polisi a nodir yn Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy (Llywodraeth Cymru, 2011), sy'n egluro mai darparwyr gwasanaeth, gweithwyr proffesiynol a chomisiynwyr gwasanaethau sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd, diogelu ac amddiffyn, ac nid rheoleiddwyr ac arolygwyr yn bennaf.

7.590 Fel rhan o hyn, mae disgwyl i sefydliadau sy'n darparu gofal cymdeithasol fod yn gyfrifol am lywio, hyfforddi a chefnogi'r gweithwyr gofal cymdeithasol y maent yn eu cyflogi.

7.591 Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy: fframwaith gweithredu (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011) yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i newid pwyslais y gwaith rheoleiddio ac arolygu o fan darparu'r gwasanaeth i'r sefydliad sy'n darparu'r gwasanaeth, ac i swyddogaethau proffesiynol penodol yn y gweithlu. Diben y newid hwn yw lleihau'r baich rheoleiddio a faint ohono a wneir.

Opsiwn dau: ymestyn y model presennol o gofrestru gorfodol i'r holl weithlu gofal cymdeithasol gan ddefnyddio'r strwythur ffioedd presennol

Defnyddwyr gwasanaeth

7.592 Ceir tystiolaeth bod pobl yn ystyried bod y drefn bresennol o reoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol wedi cael effaith gadarnhaol. Canfu Lathlean et al (2006), er enghraifft, fod yr holl randdeiliaid o'r farn bod y drefn o gofrestru'r gweithlu gofal cymdeithasol, trwy reoleiddio a hyfforddi, wedi cynorthwyo i amddiffyn defnyddwyr gwasanaethau yn well, gwella safon yr ymarfer gofal, a gwella hyder mewn gweithwyr proffesiynol a gweithwyr gofal, a'r canfyddiad ohonynt.

7.593 Er y ceir cefnogaeth i'r drefn o gofrestru a rheoleiddio'r gweithlu, ychydig iawn o dystiolaeth empirig sydd ar gael i ddangos bod ymarfer yn gwella a'r cyhoedd yn cael eu hamddiffyn yn well yn sgil rheoleiddio'r gweithlu. Mewn papur a oedd yn ystyried modelau posibl ar gyfer rheoleiddio'r gweithlu cymorth gofal iechyd, canfu Griffiths a Robinson (2010), er enghraifft, nad oedd modd dangos yn ddigamsyniol bod gweithlu cymorth gofal iechyd heb ei reoleiddio yn peri risg i ddiogelwch y cyhoedd ac y byddai rheoleiddio'n atal y risg hwn.

7.594 Yn annhebyg i weithwyr gofal cymdeithasol cofrestredig, nid yw'n bosibl sicrhau bod gweithwyr gofal cymdeithasol nad ydynt wedi eu cofrestru yn glynu wrth god ymarfer. Pe byddai trefn gofrestru'n cael ei chyflwyno, byddai modd i reoleiddiwr y gweithlu ddefnyddio safonau, a nodir mewn cod ymarfer, wrth ystyried materion camymddwyn ac wrth benderfynu ar gosbau priodol er enghraifft a ddylai gweithiwr cofrestredig aros ar y gofrestr.

7.595 Gallai cod ymarfer fel rhan o drefn gofrestru genedlaethol orfodol fod o fudd i ddefnyddwyr gwasanaethau, eu teuluoedd a gweithwyr gofal cymdeithasol. Byddai

defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd yn gwybod bod gweithwyr gofal cymdeithasol yn addas i ymarfer, oherwydd y datgeliadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gynhelir ar hyn o bryd ac yn ogystal oherwydd bod rhaid iddynt lynu wrth yr egwyddorion yn eu cod ymarfer.

Darparwyr a chomisiynwyr gofal cymdeithasol

- 7.596 Gallai gweithwyr gofal cymdeithasol gael budd hefyd o unrhyw welliannau yn yr hyder mewn gweithwyr gofal cymdeithasol, a'r farn amdanynt. Pe byddai barn pobl am weithwyr gofal cymdeithasol yn gwella yn sgil cofrestru, gallai hyn fod o fudd i gyflogwyr gan y gallai fod yn haws recriwtio a chadw gweithwyr gofal cymdeithasol. Mae recriwtio a chadw gweithwyr gofal cymdeithasol yn dod yn fater allweddol o ran cynaliadwyedd darpariaeth gofal cymdeithasol (gweler y drafodaeth uchod).
- 7.597 Mantais arall yw y gall rheoleiddio fod yn fodd o fynnu bod gan staff lefelau cymwysterau gofynnol, gan gefnogi'r broses o wneud y gweithlu'n fwy proffesiynol.
- 7.598 Trwy gofrestru gofal cymdeithasol, byddai cyfres ddata werthfawr yn cael ei darparu ar gyfer cyflogwyr, awdurdodau lleol, rheoleiddwyr a Llywodraeth Cymru i'w cynorthwyo i ddeall y gweithlu ac i lywio'r gwaith o gynllunio'r gweithlu. Yn Lloegr, amcangyfrifir y bydd y gweithlu gofal cymdeithasol i oedolion yn tyfu o'r 1.6 miliwn ar hyn o bryd i rhwng 1.8 miliwn a 2.6 miliwn (rhwng 12.5% a 62.5%) erbyn 2025 (Skills for Care, 2010). Yng Nghymru, gan dybio y byddai'r modelu yr un fath, byddai'r gweithlu'n tyfu o'r 67,069 a amcangyfrifir i rhwng 75,453 a 108,987 erbyn 2025.
- 7.599 Er mwyn sicrhau bod gofynion gofal cymdeithasol yn cael eu bodloni yn y dyfodol, mae angen proses effeithiol o gomisiynu'r gweithlu. Mae'r broses hon yn cynnwys rhagweld y galw yn y dyfodol am wahanol fathau o weithwyr, a sicrhau bod cyflenwad priodol ar gael (Skills for Care, 2010). Awdurdodau lleol, gan eu bod yn comisiynu gwasanaethau gofal cymdeithasol, sy'n comisiynu'r gweithlu sy'n darparu'r gwasanaeth. Mae proses gomisiynu effeithiol felly wedi ei seilio ar system sy'n comisiynu'r gwasanaethau gofal cymdeithasol eu hunain, a hefyd yn rhagweld y galw yn y dyfodol am grwpiau penodol o weithwyr gofal a chymorth i gyd-fynd â'r galw a ragwelir am wasanaethau gofal cymdeithasol (gweler Skills for Care, 2010). Byddai

cyfres ddata genedlaethol felly, yn ddefnyddiol i awdurdodau lleol wrth ragweld a yw'r galw yn y dyfodol am weithwyr gofal cymdeithasol yn debygol o gael ei fodloni.

Rheoleiddiwr y gweithlu

- 7.600 Byddai manteision i'r rheoleiddiwr yn sgil ei gwneud yn orfodol i weithwyr gofal gofrestru, gan y byddai'n bosibl dadansoddi'r gyfres ddata a chyhoeddi gwybodaeth fwy cynhwysfawr am nodweddion y gweithlu ac am dueddiadau o ran recriwtio a chadw staff. Byddai'r wybodaeth hon yn galluogi'r rheoleiddwyr y gweithlu a'r gwasanaeth i ddeall cymwysterau, profiad a sefydlogrwydd y gweithlu gofal cymdeithasol.
- 7.601 Er hyn, byddai modd casglu data am y gweithlu gofal cymdeithasol trwy reoleiddio'r darparwyr gwasanaeth heb ei gwneud yn orfodol i gofrestru. Yn 2005, cyflwynwyd Cyfres Ddata Ofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Cymdeithasol Skills for Care yn Lloegr, ac ystyrir mai hon yw'r ffynhonnell ddata fwyaf awdurdodedig a dibynadwy am y gweithlu gofal cymdeithasol yn Lloegr (Hussein a Manthorpe, 2014). Cyflwynwyd y gyfres ddata i wella gwybodaeth am y sector gofal yn Lloegr, sy'n fawr ac yn amrywiol. Cynhelir hon gan Skills for Care. Mae'r data wedi eu seilio ar wybodaeth a ddarperir bob mis gan filoedd o gyflogwyr gofal sy'n cyflwyno gwybodaeth gyfanredol am eu holl staff yn ogystal â disgrifiad diennw manwl o bob un o'r gweithwyr hyn neu rai ohonynt. Mater gwirfoddol oedd cyfrannu at y gyfres ddata i ddechrau ond bellach mae'n orfodol ers 2012.
- 7.602 Pe byddai dull tebyg yn cael ei weithredu yng Nghymru, byddai'n darparu data am y gweithlu gofal cymdeithasol heb ei gwneud yn ofynnol i'w cofrestru. Ni fyddai hyn felly'n cael effaith negyddol ar y gweithlu gofal cymdeithasol (gweler y risgiau isod). Byddai'r gost o ddarparu data yn cael ei thalu gan ddarparwr y gwasanaeth yn hytrach na'r gweithiwr cyflogedig neu'r cyhoedd. Mae nifer o risgiau'n gysylltiedig â chasglu data gan ddarparwyr gwasanaeth yn hytrach na chasglu gwybodaeth gan weithwyr gofal cymdeithasol unigol. Gallai'r ffaith bod data'n cael eu casglu am nifer y gweithwyr, eu profiad a'u cymwysterau, a pha mor hir y maent wedi bod yn gweithio i'r cwmni roi cymhelliant rhyfedd i ddarparwyr gwasanaeth ddarparu gwybodaeth anwir, gamarweiniol neu anghyflawn, gan fod data o'r fath am weithwyr yn cael eu defnyddio

at ddibenion arolygu. Mae risg hefyd y bydd y data'n mynd yn hen yn gyflym gan fod trosiant staff yn y sector yn gymharol uchel.

Opsiwn tri: ymestyn y model presennol o gofrestru gorfodol i'r holl weithlu gofal cymdeithasol gyda chynnydd yn y ffioedd cofrestru

7.603 Bydd gan opsiwn tri yr un manteision ag opsiwn dau, gyda'r fantais ychwanegol y byddai'r cynnydd yn y ffioedd yn gwneud y syniad o ymestyn y drefn cofrestru gorfodol yn fwy ymarferol yn ariannol a chynaliadwy.

Crynodeb a'r opsiwn a ffefrir

7.604 Mae'r egwyddor o ymestyn y drefn cofrestru gorfodol yn ddadl gyfartal iawn. Yn ystod y trafodaethau â'r sector yn ystod y cyfnod o ddatblygu'r Bil, mynegwyd amrywiaeth o safbwyntiau, ond yn y pen draw y farn fwyaf cyffredin oedd y dylid cadw'r model cofrestru presennol heb ei ymestyn yn sylweddol. Byddai'r dull hwn yn golygu y gallai'r drefn gymharol newydd o gofrestru rheolwyr ymwreiddio cyn cynnwys grwpiau eraill. Yn y pen draw manteision cymysg sydd i ymestyn y drefn gofrestru, a cheir pryderon ynglŷn â throsglwyddo atebolrwydd am ansawdd a pherfformiad staff o gyflogwyr i reoleiddwyr.

7.605 Mae'r dadleuon hyn, o'u cydbwysu â'r costau sylweddol i gyflogwyr, rheoleiddwyr a'r gweithlu, yn golygu mai'r opsiwn a ffefrir yw cadw'r drefn bresennol, a gweithredu opsiwn un. Er hyn, cydnabyddir y gallai'r cydbwysedd rhwng cost a manteision newid ar ôl i'r system bresennol ymwreiddio ac felly ystyrir ei bod yn bwysig i Lywodraeth Cymru gadw pwerau i ailystyried y penderfyniad hwn yn y dyfodol. Cynhelir dadansoddiad arall o'r costau a'r manteision os a phan ddefnyddir y pwerau i ymestyn y drefn orfodol o gofrestru'r gweithlu.

Rheoleiddio hyfforddiant penodol i'r grwpiau o'r gweithlu sydd ar y gofrestr

7.606 Gweler adran 113 o Fil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) ar gyfer y darpariaethau sy'n ymwneud â chymeradwyo cyrsiau.

Opsiynau

7.607 Mae dau opsiwn yn gysylltiedig â rheoleiddio hyfforddiant i'r gweithlu:

- Opsiwn un: peidio â gwneud dim (hynny yw, cadw'r trefniadau presennol ar gyfer rheoleiddio gwaith cymdeithasol)
- Opsiwn dau: cadw'r trefniadau presennol ar gyfer rheoleiddio hyfforddiant gwaith cymdeithasol ac ymestyn y fethodoleg honno i reoleiddio hyfforddiant ac addysg gofal cymdeithasol i'r grwpiau eraill o'r gweithlu sydd ar y gofrestr.

Opsiwn Un

7.608 Mae Deddf Safonau Gofal 2000 yn nodi'r trefniadau ar gyfer cymeradwyo cyrsiau hyfforddiant gweithwyr cymdeithasol cyn ac ar ôl iddynt dderbyn eu cymhwyster.

Mae'r broses hon yn nodi'r gofynion ar gyfer cynnwys ac ansawdd yr hyfforddiant ac arolygu rhaglenni i sicrhau eu bod yn bodloni'r safonau gofynnol. Mae hyn yn cynnwys nodi gofynion ar gyfer:

- Cynnwys y cyrsiau a dulliau o gwblhau'r cyrsiau.
- Darparu gwybodaeth am y cyrsiau i'r cyngor.
- Pobl sy'n cael dilyn cyrsiau neu rannau o gyrsiau a nodir yn y rheolau.
- Nifer y bobl sy'n cael dilyn y cyrsiau.
- Trefniadau'r Cyngor ar gyfer rhoi tystysgrifau wedi i unigolion gwblhau'r cyrsiau'n llwyddiannus.
- Terfynu ac adnewyddu cymeradwyaeth.
- Tynnu cymeradwyaeth yn ôl.

7.609 Mae darpariaethau hefyd ar gyfer ymweld â lleoedd lle y cynhelir cyrsiau neu arholiadau ar gyfer cyrsiau penodol.

7.610 Mae'r broses hon wedi gweithio'n effeithiol ers ei sefydlu yn dilyn Deddf Safonau Gofal 2000 ac mae'r gofynion wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r polisïau a'r arferion presennol. Nid oes unrhyw gynlluniau i newid y broses hon.

7.611 Mae rheoleiddiwr y gweithlu gofal cymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl grwpiau staff ar y gofrestr fod â chymwysterau penodol. Er ei fod yn rheoleiddio

ansawdd yr hyfforddiant gwaith cymdeithasol (fel y nodir uchod), nid yw'n rheoleiddio hyfforddiant a chymwysterau grwpiau eraill o staff. Mae profiad o hyfforddiant a chymwysterau grwpiau eraill o staff wedi dangos bod yr ansawdd yn amrywio a bod angen mwy o ymyriad i sicrhau bod yr addysg hon o'r ansawdd angenrheidiol i fod yn sail i ymarfer y staff hyn.

Opsiwn dau

7.612 Mae opsiwn dau yn cynnwys ymestyn y trefniadau presennol ar gyfer rheoleiddio hyfforddiant gwaith cymdeithasol, i reoleiddio hyfforddiant ac addysg gofal cymdeithasol i'r grwpiau eraill o'r gweithlu. Mae hyn yn cynnwys rheolwyr cofrestredig a gweithwyr gofal cymdeithasol sy'n gweithio mewn cartrefi gofal preswyl i blant a phobl ifanc. Gallai hyn gynnwys nodi gofynion ar gyfer cynnwys ac ansawdd yr hyfforddiant ac arolygu rhaglenni i sicrhau eu bod yn bodloni'r safonau gofynnol, fel y disgrifir uchod ynglŷn â hyfforddiant gwaith cymdeithasol.

Costau

Opsiwn un

Costau rheolaidd

Rheoleiddiwr y gweithlu

7.613 Cost rheoleiddio hyfforddiant gwaith cymdeithasol yn ystod 2013-14 oedd £90,000¹⁰⁴.

Darparwyr hyfforddiant ac addysg

7.614 Mae costau presennol rheoleiddio hyfforddiant gwaith cymdeithasol yn effeithio ar wyth o ddarparwyr rhaglenni yn y dulliau canlynol:

- Pan fo prifysgol yn dymuno darparu cwrs cymhwyso neu ôl-gymhwyso i weithwyr cymdeithasol rhaid i'r cwrs gael ei ddilysu gan y brifysgol a'i gymeradwyo gan reoleiddiwr y gweithlu.

¹⁰⁴ Ffynhonnell: Cyngor Gofal Cymru. Nid yw hyn yn cynnwys gorbenion, na chostau gwaith gweinyddol a chymorth.

- I gael ei gymeradwyo gan reoleiddiwr y gweithlu, rhaid i'r darparwr ddangos ei fod wedi bodloni'r rheolau a'r gofynion sydd wedi eu cyhoeddi. Mae'r rheolau a'r gofynion yn nodi materion ynglŷn â threfniadau partneriaeth a rheoli, darpariaeth adnoddau, gweithdrefnau dethol, polisïau a gweithdrefnau angenrheidiol, meini prawf dysgu, meini prawf asesu a threfniadau sicrhau ansawdd.
- Cynhelir ymweliad â'r rhaglenni fel rhan o'r broses gymeradwyo ac yna maent yn destun trefniadau sicrhau ansawdd parhaus.
- Ar ôl eu cymeradwyo, y tair ffordd o sicrhau ansawdd yw:
 - Monitro blynyddol, lle mae'r rhaglen yn darparu ystod o wybodaeth ystadegol ac ansoddol i'r rheoleiddiwr ei harchwilio. Bydd y rheoleiddiwr yn gwneud mwy o ymholiadau trwy gynnal ymweliad blynyddol ac yn darparu ymateb ysgrifenedig yn nodi unrhyw argymhellion ar gyfer gwella.
 - Cynhelir adolygiadau bob pum mlynedd, sy'n rhai manwl er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn parhau i fodloni pob agwedd ar y meini prawf cymeradwyo.
 - Adolygiadau thematig pan fydd y rheoleiddiwr yn ystyried agwedd ar yr addysg. Er enghraifft, sut yr ymdrinnir ag anghenion gofaluwr trwy raglenni gradd gwaith cymdeithasol.
- Os oes gan y rheoleiddiwr bryderon ar unrhyw adeg nad yw rhaglen yn bodloni'r gofynion ar gyfer cael ei chymeradwyo, caiff gynnal ymchwiliad neu arolygiad â phwyslais penodol. Gellid diddymu'r gymeradwyaeth o ganlyniad i hynny.

7.615 Mae problem yn codi o ran pennu faint y bydd yn ei gostio i sefydliadau addysg uwch gael cymeradwyaeth rheoleiddiwr y gweithlu ar gyfer cyrsiau gradd mewn gwaith cymdeithasol. Y rheswm am hynny yw nad yw'n bosibl gwahanu cost cael cymeradwyaeth y rheoleiddiwr i gwrs a chost y broses o ddilysu gradd prifysgol.

7.616 Felly, ni fu modd amcangyfrif faint y mae cael cymeradwyaeth yn ei gostio ar hyn o bryd i ddarparwyr graddau mewn gwaith cymdeithasol.

7.617 Fodd bynnag, mae cost rheoleiddio wedi'i chynllunio gyda'r bwriad o gadw'r costau cyn ised â phosibl. Er enghraifft, mae llawer o'r wybodaeth a ddefnyddir gan reoleiddiwr y gweithlu, yr un fath â'r wybodaeth a ddarperir gan brifysgolion at ddibenion dilysu neu sicrhau ansawdd.

Y gweithlu

7.618 Nid oes goblygiadau cost uniongyrchol i'r gweithlu.

Defnyddwyr gwasanaeth/dinasyddion

7.619 Nid oes goblygiadau cost uniongyrchol i ddefnyddwyr gwasanaeth/dinasyddion.

Tabl 32: crynodeb o'r costau amcangyfrifedig sy'n gysylltiedig â chynnal y drefn bresennol o reoleiddio hyfforddiant (opsiwn un)

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|-------------------------|---------------|---------------|---------------|---------------|---------------|
| Rheoleiddiwr y gweithlu | 90,000 | 90,000 | 90,000 | 90,000 | 90,000 |
| Cyfanswm y gost | 90,000 | 90,000 | 90,000 | 90,000 | 90,000 |

Opsiwn dau

Costau rheolaidd

Rheoleiddiwr y gweithlu

7.620 O ran rheoleiddio hyfforddiant ac addysg gwaith cymdeithasol ar gyfer y grwpiau eraill o'r gweithlu sydd ar y gofrestr, ceir tua 80 o ddarparwyr addysg ac ystod eang o gyrsiau (wyth Diploma lefel 5, Diploma Lefel 3 ar gyfer Gweithwyr Gofal Preswyl i Blant a'r Fframwaith Sefydlu, sy'n caniatáu i weithwyr gofal preswyl i blant gofrestru am y tro cyntaf).

7.621 Mae rheoleiddiwr y gweithlu wedi amcangyfrif mai £90,000 y flwyddyn fyddai cost ymestyn y drefn o reoleiddio hyfforddiant gofal cymdeithasol i'r grwpiau eraill o'r gweithlu sydd ar y gofrestr. Byddai hyn yn ariannu rheolwr a gweinyddwr¹⁰⁵.

7.622 Mae cost rheoleiddio hyfforddiant i weithwyr cymdeithasol yn gymharol ddrutach na chost ddisgwyliedig rheoleiddio hyfforddiant ar gyfer y grwpiau eraill o'r gweithlu sydd wedi eu cofrestru, oherwydd maint cyfraniad rheoleiddiwr y gweithlu.

7.623 Mae hyfforddiant ac addysg gwaith cymdeithasol yn cael ei ddatblygu ar y cyd ar hyn o bryd. Mae prifysgolion yn achredu'r cyrsiau ac mae rheoleiddiwr y gweithlu'n cymeradwyo eu bod yn addas ar gyfer y tasgau y mae gweithwyr cymdeithasol yn eu cyflawni.

7.624 Ar y llaw arall, ni fydd y broses o gymeradwyo hyfforddiant y grwpiau eraill o'r gweithlu sydd wedi eu cofrestru mor feichus. Fel rhan o'r broses o gofrestru cyrsiau gyda rheoleiddiwr y gweithlu, bydd yn ofynnol i ddarparwyr hyfforddiant ddangos bod

¹⁰⁵ Ffynhonnell: Cyngor Gofal Cymru. Nid yw hwn yn cynnwys gorbenion, na chostau gwaith gweinyddol a chymorth.

eu cyrsiau yn addas ar gyfer grwpiau penodol o'r gweithlu. Bydd rheoleiddiwr y gweithlu yn gwneud asesiad ar sail yr wybodaeth a ddarperir.

Darparwyr hyfforddiant ac addysg

7.625 Pe bai'r trefniadau presennol ar gyfer rheoleiddio hyfforddiant gwaith cymdeithasol yn cael eu hystreyn i gynnwys y cyrsiau hyfforddiant ac addysg ehangach hyn, byddai hyn yn golygu costau ychwanegol i oddeutu 80 o ddarparwyr addysg (sef colegau addysg bellach a darparwyr hyfforddiant annibynnol yn bennaf) ac i reoleiddiwr y gweithlu. Mae rheoleiddiwr y gweithlu wedi rhoi gwybod y byddai unrhyw gostau rheolaidd i ddarparwyr addysg yn dibynnu ar y model sy'n cael ei fabwysiadu ar gyfer rheoleiddio hyfforddiant. Gan nad oes penderfyniad wedi'i wneud ynglŷn â'r union fodel rheoleiddio, ni fu modd amcangyfrif unrhyw gostau ychwanegol y gallai darparwyr hyfforddiant eu hwynebu. Fodd bynnag, disgwylir i'r costau i ddarparwyr hyfforddiant fod yn isel gan y byddant yn gyfarwydd â gwneud cais i achredu eu cyrsiau gydag asiantaethau dyfarnu ym maes addysg bellach. Bydd y gost i reoleiddiwr y gweithlu yn cynyddu yn gymesur â nifer y darparwyr hyfforddiant sydd wedi'u cymeradwyo. Fel yn achos cyrsiau gradd mewn gwaith cymdeithasol, byddai rheoleiddiwr y gweithlu yn ceisio cadw'r costau cyn ised â phosibl drwy osgoi'r angen i ddyblygu gwybodaeth. Byddai'n gwneud hynny drwy ddefnyddio'r deunydd a baratoir gan ddarparwyr ar gyfer achrediad gan gorff dyfarnu neu at ddibenion sicrhau ansawdd yn fewnol. Felly, bydd yr wybodaeth y gofynnir amdani gan reoleiddiwr y gweithlu ar gael yn rhwydd i'r darparwyr hyfforddiant.

Y gweithlu

7.626 Nid oes unrhyw oblygiadau cost uniongyrchol i'r gweithlu. Tybir nad yw cyflogwyr gofal cymdeithasol yn cynnig dewis o gyrsiau neu ddarparwyr i'w gweithwyr ar hyn o bryd, pan fyddant yn trefnu hyfforddiant ar gyfer y cymwysterau galwedigaethol y mae'n ofynnol i weithwyr eu cael i ddangos bod y sgiliau ganddynt i wneud eu swyddi.

Cyflogwyr gofal cymdeithasol

7.627 Mae'n bosibl y byddai cost y cyrsiau'n cynyddu i adlewyrchu'r cynnydd yn y costau y byddai'r darparwyr y eu hwynebu o ganlyniad i'r gofynion rheoleiddio ychwanegol.

Defnyddwyr gwasanaeth/dinasyddion

7.628 Nid oes goblygiadau cost uniongyrchol i ddefnyddwyr gwasanaeth/dinasyddion.

Tabl 5: crynodeb o'r costau tebygol a amcangyfrifwyd trwy ymestyn y drefn o reoleiddio hyfforddiant y gweithlu (opsiwn dau)

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|-------------------------|----------------|----------------|----------------|----------------|----------------|
| Rheoleiddiwr y gweithlu | 90,000 | 180,000 | 180,000 | 180,000 | 180,000 |
| Cyfanswm y gost | 90,000 | 180,000 | 180,000 | 180,000 | 180,000 |

Manteision

Opsiwn un

Rheoleiddiwr y gweithlu

7.629 Bydd rheoleiddiwr y gweithlu'n gallu parhau i weithredu proses sydd wedi ei hen sefydlu ac sydd ag enw da ar gyfer rheoleiddio hyfforddiant gwaith cymdeithasol. Byddai etifeddiaeth gadarnhaol rheoleiddio hyfforddiant gwaith cymdeithasol yn parhau i sicrhau ansawdd yr hyfforddiant yn y dyfodol. Byddai rheoleiddiwr y gweithlu yn parhau i fireinio ei ddull gwaith, gan sicrhau bod yr hyfforddiant gwaith cymdeithasol yn cyd-fynd â gofynion cyfredol o ran y gyfraith ac ymarfer.

7.630 Bydd rheoleiddiwr y gweithlu'n gallu cyfrannu ei arbenigedd at gorff ehangach o hyfforddiant gofal cymdeithasol, trwy ddefnyddio mecanweithiau rheoleiddio presennol yn fwy effeithiol.

Y gweithlu

7.631 Bydd gweithwyr cymdeithasol yn parhau i dderbyn hyfforddiant o ansawdd uchel sy'n cyd-fynd â gofynion cyfredol o ran y gyfraith ac ymarfer.

7.632 Byddai gweithwyr gofal cymdeithasol cofrestredig eraill yn cael budd o hyfforddiant o ansawdd uwch sy'n cyd-fynd â gofynion o ran ymarfer gan y byddai gan reoleiddiwr y gweithlu fwy o ddylanwad ar yr hyfforddiant hwn trwy'r mecanweithiau presennol ar gyfer sicrhau ansawdd.

Defnyddwyr gwasanaeth/dinasyddion

7.633 Bydd defnyddwyr gwasanaethau yn elwa oherwydd bod gweithwyr cymdeithasol wedi eu hyfforddi i safon sy'n gyson dda.

7.634 Bydd defnyddwyr gwasanaethau yn elwa oherwydd bod gweithwyr gofal cymdeithasol cofrestredig wedi eu paratoi'n well ar gyfer bodloni gofynion o ran ymarfer.

Opsiwn dau

Rheoleiddiwr y gweithlu

7.635 Bydd rheoleiddiwr y gweithlu'n gallu parhau i weithredu proses sydd wedi ei hen sefydlu ac sydd ag enw da ar gyfer rheoleiddio hyfforddiant gwaith cymdeithasol.

7.636 Bydd rheoleiddiwr y gweithlu'n gallu ymestyn yr un fethodoleg i gyfrannu ei arbenigedd at gorff ehangach o hyfforddiant gofal cymdeithasol.

Y gweithlu

7.637 Bydd gweithwyr cymdeithasol yn parhau i dderbyn hyfforddiant o ansawdd uchel sy'n cyd-fynd â gofynion cyfredol o ran y gyfraith ac ymarfer.

7.638 Bydd gweithwyr gofal cymdeithasol cofrestredig eraill yn elwa ar hyfforddiant o ansawdd uwch sy'n cyd-fynd â gofynion o ran ymarfer, o ganlyniad i'r gofynion rheoleiddio uniongyrchol a roddir ar ddarparwyr gwasanaeth gan reoleiddiwr y gweithlu.

Defnyddwyr gwasanaeth/dinasyddion

7.639 Bydd defnyddwyr gwasanaethau yn elwa oherwydd bod gweithwyr cymdeithasol wedi eu hyfforddi i safon sy'n gyson dda.

7.640 Bydd defnyddwyr gwasanaethau yn elwa oherwydd bod gweithwyr gofal cymdeithasol eraill wedi eu paratoi'n well ar gyfer bodloni gofynion o ran ymarfer.

Crynodeb a'r opsiwn a ffefrir

7.641 Mae dau opsiwn ar gyfer rheoleiddio hyfforddiant gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr gofal cymdeithasol cofrestredig eraill yn y dyfodol.

7.642 Nod y ddau opsiwn yw llwyddo i:

- Roi sail i ddatblygu'r gweithlu ymhellach a'i wneud yn fwy proffesiynol drwy wella safonau hyfforddiant a chymwysterau.
- Sicrhau bod pawb sy'n gweithio yn y maes yn derbyn hyfforddiant addas a bod ganddynt y sgiliau priodol.
- Gwella safonau a gwella hyder y cyhoedd.
- Ad-drefnu nifer y cyrsiau.
- Lleihau'r dyblygu o fewn y cyrsiau.
- Rhoi cyfle teg i weithwyr ddatblygu eu gyrfaeodd.

7.643 Yr opsiwn cyntaf yw parhau â'r dull sydd wedi ei brofi'n drylwyr o reoleiddio hyfforddiant gweithwyr cymdeithasol.

7.644 Yr ail opsiwn yw parhau â'r dull presennol o reoleiddio hyfforddiant gweithwyr cymdeithasol a defnyddio'r dull hwn o reoleiddio ansawdd yr hyfforddiant ar gyfer hyfforddiant gweithwyr gofal cymdeithasol cofrestredig eraill.

7.645 Yr opsiwn cyntaf yw'r un a ffefrir gan fod hwn yn ymarferol gyda'r adnoddau presennol ac yn optimeiddio yn hytrach nag yn dyblygu mecanweithiau rheoleiddio presennol. Mae datblygiadau calonogol eisoes ar waith ac mae'n syniad da rhoi cyfle i ystyried a yw'r mecanweithiau presennol yn ddigonol i gyflawni'r amcan polisi. Bydd yn werthfawr cael pwerau i ymestyn y model ar gyfer rheoleiddio hyfforddiant gwaith cymdeithasol i gynnwys hyfforddiant gweithwyr gofal cymdeithasol cofrestredig eraill, os yw'n ymddangos nad yw'r mecanweithiau rheoleiddio presennol yn ddigonol er mwyn cyflawni'r amcan polisi. Cynhelir dadansoddiad arall o gostau a manteision os bwriedir defnyddio'r pwerau yn y dyfodol.

Apelau mewn ymateb i benderfyniadau cofrestru

7.646 Gweler rhan pedwar o Fil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) ar gyfer y darpariaethau sy'n ymwneud ag apelio i banel apelau cofrestru ac apelau i'r tribiwnlys.

Opsiynau

7.647 Ceir tri opsiwn:

- Opsiwn un: cadw'r trefniadau presennol.
- Opsiwn dau: creu panel apelau cofrestru i ystyried penderfyniadau cofrestru a chadw'r hawl i apelio i'r Tribiwnlys Safonau Gofal.
- Opsiwn tri: creu panel apelau cofrestru a newid yr hawl i apelio o'r Tribiwnlys Safonau Gofal i'r Uchel Lys.

Opsiwn un

7.648 Mae Deddf Safonau Gofal 2000 yn rhoi'r cyfrifoldeb i reoleiddiwr y gweithlu benderfynu a ddylid caniatáu ceisiadau i gofrestru ai peidio ac os cânt eu caniatáu a ddylid gosod amodau arnynt. Os bydd y sawl sy'n cofrestru yn anfodlon ar benderfyniad y rheoleiddiwr, caiff gyflwyno apêl i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Safonau Gofal). Nid oes mecanwaith ar gyfer cyflwyno apêl yn fewnol i'r rheoleiddiwr.

Opsiwn dau

7.649 Bydd yr opsiwn hwn yn sefydlu mecanwaith apelio mewnol ychwanegol ar gyfer unigolion sy'n cofrestru, er mwyn i banel annibynnol ailystyried penderfyniadau ynglŷn â chaniatáu ceisiadau i gofrestru neu benderfyniadau i adfer cofrestriad. Y tu hwnt i hyn, byddai unigolion sy'n cofrestru yn parhau i allu mynd at y Tribiwnlys Safonau Gofal.

Opsiwn tri

7.650 Byddai'r opsiwn hwn yn darparu'r mecanwaith ychwanegol ar gyfer cyflwyno apêl fewnol ond byddai hefyd yn newid yr hawl ychwanegol i apêl o'r Tribiwnlys Safonau Gofal i'r Uchel Lys.

7.651 Caiff unigolion sy'n cofrestru gyda'r rheoleiddiwr iechyd a Chyngor Proffesiynau Gofal Iechyd gyflwyno apêl i'r Uchel Lys yng Nghymru a Lloegr. Mae Comisiwn y Gyfraith (2014) yn atgyfnerthu'r hawl i gyflwyno apêl i'r Uchel Lys a byddai'r opsiwn hwn yn sicrhau bod y broses yn cyd-fynd â'r rheoleiddwyr eraill.

Costau

Opsiwn Un

Rheoleiddiwr y Gweithlu

7.652 Mae rheoleiddiwr y gweithlu'n talu cost fesul achos apêl o oddeutu £7,800¹⁰⁶ ar gyfartaledd. Nid yw'r gost hon yn cynnwys adnoddau mewnol i gefnogi'r broses apêl. Yn hytrach, mae'n cyfeirio at y costau allanol, sef costau cyfreithiol yn bennaf.

7.653 Cyflwynwyd tua un apêl bob dwy flynedd ar gyfartaledd i'r Tribiwnlys Safonau Gofal. Y gost flynyddol ar hyn o bryd felly i rheoleiddiwr y gweithlu yw tua £3,900. Tybir y bydd y gweithlu yn wynebu costau tebyg i'r rhai a ysgwyddir gan y Tribiwnlys Safonau Gofal pan wneir apêl, Hynny yw, amcangyfrifir mai'r gost flynyddol i'r gweithlu fydd oddeutu £3,900.

Defnyddwyr gwasanaeth/dinasyddion

7.654 Nid oes goblygiadau cost uniongyrchol i ddefnyddwyr gwasanaeth/dinasyddion.

Tabl 34: crynodeb o'r costau amcangyfrifedig sy'n gysylltiedig â chadw'r broses apêl bresennol (opsiwn un)

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|-------------------------|--------------|--------------|--------------|--------------|--------------|
| Rheoleiddiwr y gweithlu | 3,900 | 3,900 | 3,900 | 3,900 | 3,900 |
| Y gweithlu | 3,900 | 3,900 | 3,900 | 3,900 | 3,900 |
| Cyfanswm y gost | 7,800 | 7,800 | 7,800 | 7,800 | 7,800 |

¹⁰⁶ Costau allanol yn unig y mae'r gost hon yn eu cynnwys, sef rhai cyfreithiol yn bennaf ac nid adnodd mewnol i gefnogi'r broses apêl.

Mae'r gost fesul achos wedi amrywio o £5,400 i £26,000. Mae'r gost ddrutaf o'r rhain yn eithriad ac felly ni chafodd hon ei chynnwys wrth gyfrifo'r gost gyfartalog.

Opsiwn Dau

Rheoleiddiwr y gweithlu

7.655 Byddai'r opsiwn hwn yn cynnwys cost ychwanegol mecanwaith apelau mewnol newydd.

7.656 Fel y nodir uchod, cyflwynwyd tua un apêl bob dwy flynedd i'r Tribiwnlys Safonau Gofal ar gyfartaledd. Mae Cyngor Gofal Cymru wedi hysbysu y byddai mecanwaith apelau mewnol yn debygol o ddenu lefel debyg o weithgarwch. Gan y bydd proses y panel apelau'n debyg i'r broses ar gyfer gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer, mae Cyngor Gofal Cymru wedi hysbysu y gellir amcangyfrif cost gweithredu'r mecanwaith hwn gan ddefnyddio cost apelio i'r Tribiwnlys Safonau Gofal.

7.657 Amcangyfrifir felly mai oddeutu £3,900 y flwyddyn fydd cost cyflwyno mecanwaith apelau mewnol i reoleiddiwr y gweithlu.

7.658 Pe byddai'r mecanwaith apelau hwn yn cael ei sefydlu ar gyfer nifer o reoleiddwyr gweithlu, gellid bod rhywfaint o annibyniaeth ac arbedion maint trwy rannu adnoddau gan leihau'r costau gweithredu o bosibl.

7.659 Tybir y bydd y gweithlu yn wynebu costau tebyg i'r rhai y byddai rheoleiddiwr y gweithlu yn eu hwynebu wrth wneud apêl. Hynny yw, amcangyfrifir mai oddeutu £3,900 fyddai'r gost flynyddol i'r gweithlu.

Costau pontio

7.660 Ni ddisgwylir y bydd unrhyw gostau pontio yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Byddai'r un prosesau yn cael eu mabwysiadu ar gyfer gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer. Byddai unigolion cofrestredig yn cael gwybod am y system newydd yn y llythyr safonol a anfonir ar hyn o bryd at unigolion cofrestredig sy'n destun gwrandawriad addasrwydd i ymarfer.

Defnyddwyr gwasanaeth/dinasyddion

7.661 Nid oes goblygiadau cost uniongyrchol i ddefnyddwyr gwasanaeth/dinasyddion.

Tabl 35: crynodeb o'r costau tebygol a amcangyfrifir o ganlyniad i gyflwyno mecanwaith apelau mewnol (opsiwn dau)

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|-------------------------|--------------|---------------|---------------|---------------|---------------|
| Rheoleiddiwr y gweithlu | 3,900 | 7,800 | 7,800 | 7,800 | 7,800 |
| Y gweithlu | 3,900 | 7,800 | 7,800 | 7,800 | 7,800 |
| Cyfanswm y gost | 7,800 | 15,600 | 15,600 | 15,600 | 15,600 |

Opsiwn Tri

Rheoleiddiwr y gweithlu

7.662 Byddai'r opsiwn hwn yn cynnwys y gost ychwanegol o sefydlu mecanwaith apelau mewnol newydd, fel y nodir uchod, ac amcangyfrifir mai oddeutu £83,400 y flwyddyn fyddai'r gost ychwanegol i reoleiddiwr y gweithlu.

7.663 Hefyd, byddai'n cynnwys y gost o amddiffyn achosion yn yr Uchel Lys. Mae rheoleiddiwr y gweithlu yn talu i gyfreithwyr gymryd rhan yng ngwrandawriadau'r Tribiwnlys Safonau Gofal ar hyn o bryd. Byddai'r gost o amddiffyn apelau yn yr Uchel Lys yn fwy, gan y byddai'n cynnwys cyflogi bargyfreithiwr i weithredu ar ei ran.

7.664 Mae rheoleiddiwr y gweithlu wedi amcangyfrif mai oddeutu £1,500 fyddai'r gost o gyflogi bargyfreithiwr fesul gwrandawriad fesul diwrnod, gyda chostau paratoi o oddeutu £1,000 fesul gwrandawriad. Hefyd, byddai cost y cyfarfod cyn y gwrandawriad tua £500.

7.665 Gan gymryd bod achos apêl yn parhau am un diwrnod, byddai £1,500 yn costio cyfanswm o £3,000 fesul achos. Gan gymryd y byddai 0.5 o achosion yn cael eu cynnal y flwyddyn, fel yn achos apelau i'r tribiwnlys, £1,500 y flwyddyn fyddai'r gost ychwanegol sy'n gysylltiedig â gwrandawriadau yn yr Uchel Lys.

7.666 Amcangyfrifir mai cyfanswm y gost i reoleiddiwr y gweithlu, felly, fyddai £5,400 y flwyddyn.

Y gweithlu

7.667 Tybir y bydd y gweithlu yn wynebu costau tebyg i'r rhai a ysgwyddir gan reoleiddiwr y gweithlu wrth wneud apêl. Hynny yw, bydd y gost flynyddol i'r

gweithlu yn cynnwys oddeutu £3,900 am wasanaeth cyfreithiwr ac oddeutu £1,500 am wasanaeth bargyfreithiwr.

Yn ogystal, byddai'n ofynnol i unigolion cofrestredig sy'n cyflwyno apêl i'r Uchel Lys dalu ffi am wneud cais i'r Uchel Lys (£480 ar hyn o bryd).

Defnyddwyr gwasanaeth/dinasyddion

7.668 Nid oes goblygiadau cost uniongyrchol i ddefnyddwyr gwasanaethau / dinasyddion.

Tabl 36: crynodeb o'r costau tebygol a amcangyfrifir o ganlyniad i gyflwyno mecanwaith apelau mewnol a hawl i gyflwyno apêl i'r Uchel Lys (opsiwn tri)

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|-------------------------|----------------|----------------|----------------|----------------|----------------|
| Rheoleiddiwr y gweithlu | 3,900 | 5,400 | 5,400 | 5,400 | 5,400 |
| Y gweithlu | 3,900 | 5,580 | 5,580 | 5,580 | 5,580 |
| Llysoedd | | | | | |
| Cyfanswm y gost | 7,880 | 11,280 | 11,280 | 11,280 | 11,280 |

Manteision

Opsiwn Un

Rheoleiddiwr y gweithlu

7.669 Ni fyddai angen newid na datblygu'r trefniadau presennol ar gyfer yr opsiwn hwn.

Y gweithlu

7.670 Byddai'r gweithlu yn parhau i fod yn gyfarwydd â'r trefniadau presennol a'u gweithredu.

Defnyddwyr gwasanaeth/dinasyddion

7.671 Byddai'r defnyddwyr gwasanaeth/dinasyddion yn parhau i elwa ar drefn gadarn o reoleiddio'r gweithlu sy'n cynnwys mecanwaith ar gyfer ymdrin ag anfodlonrwydd ynglŷn â phenderfyniadau addasrwydd i ymarfer.

Opsiwn Dau

Rheoleiddiwr y gweithlu

7.672 Byddai'r opsiwn hwn yn sicrhau bod rheoleiddiwr y gweithlu yn cyd-fynd ag arferion gorau mewn gwaith rheoleiddio gweithluoedd.

Y gweithlu

7.673 Byddai'r opsiwn hwn yn darparu modd hawdd o gyflwyno apêl yn erbyn penderfyniad a wnaed gan y rheoleiddiwr ynglŷn ag addasrwydd i ymarfer, pe byddai unigolyn cofrestredig yn anfodlon ar y penderfyniad.

Defnyddwyr gwasanaeth/dinasyddion

7.674 Byddai'r opsiwn hwn yn gwneud gwaith rheoleiddio'r gweithlu yn fwy cadarn, a byddai felly'n amddiffyn y cyhoedd yn well ac yn gwella ansawdd y ddarpariaeth.

Opsiwn Tri

Rheoleiddiwr y gweithlu

7.675 Yn ogystal â manteision opsiwn un, byddai'r opsiwn hwn yn sicrhau bod y broses apelau i'r Uchel Lys yn cyd-fynd â'r broses o gyflwyno cais i gyrff rheoleiddio proffesiynol eraill.

Y gweithlu

7.676 Byddai'n rhoi modd allanol ac annibynnol o gyflwyno apêl sydd ar gael yn eang i weithwyr proffesiynol eraill.

Defnyddwyr gwasanaeth/dinasyddion

7.677 Nid oes unrhyw fanteision uniongyrchol i ddefnyddwyr gwasanaeth/dinasyddion.

Crynodeb a'r opsiwn a ffefrir

7.678 Mae opsiwn status quo ar gael yn ogystal â dau opsiwn i gryfhau'r cyfleoedd i unigolion cofrestredig gyflwyno apêl yn erbyn penderfyniadau'r cofrestrydd. Mae'r ail opsiwn yn ychwanegu mecanwaith apelau mewnol y gallai unigolion cofrestredig ei ddewis cyn cyflwyno apêl i gorff allanol. Mae'r trydydd opsiwn yn adeiladu ar yr ail opsiwn trwy newid y mecanwaith apelau allanol o'r Tribiwnlys Safonau Gofal i'r Uchel Lys. Yr ail opsiwn yw'r un a ffefrir gan fod hwn yn cynnig lefel o ddilyniant ond hefyd yn cadw'r costau i reoleiddwyr ac unigolion cofrestredig yn is nag yn achos opsiwn tri. Byddai'r dull hwn yn sicrhau bod yr un cyfle'n parhau i fod ar gael i fanteisio ar y system gyfiawnder.

Ehangu'r prosesau addaswydd i ymarfer

7.679 Gweler rhan chwech o Fil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) ar gyfer y darpariaethau sy'n ymwneud ag addaswydd gweithwyr gofal cymdeithasol i ymarfer.

Opsiynau

7.680 Ceir dau opsiwn:

- Opsiwn un: peidio â gwneud dim.
- Opsiwn dau: ymestyn yr amrywiaeth o benderfyniadau y caiff rheoleiddiwr y gweithlu eu hadolygu.

Opsiwn un

7.681 Bydd y meini prawf presennol ar gyfer cynnal adolygiad pan fo'n ymddangos bod penderfyniad yn ddiffygiol mewn modd perthnasol, boed hynny o safbwynt gweithdrefnau, yn gyfreithiol neu'n ffeithiol, yn parhau i gael eu dilyn ac ni fydd yr amrywiaeth o benderfyniadau y ceir eu hadolygu yn newid.

Opsiwn dau

7.682 Bydd yr amrywiaeth o benderfyniadau y ceir eu hadolygu yn cael eu hymestyn er mwyn cynnwys y canlynol:

- Peidio ag atgyfeirio honiad ar gyfer ymchwiliad ar ôl ystyriaeth gychwynnol.
- Peidio ag atgyfeirio achos i banel addaswydd i ymarfer a pheidio â chymryd camau ychwanegol.
- Penderfynu achos ar ôl cynnal ymchwiliad trwy roi cyngor, cyflwyno rhybudd, cytuno ar ymgymeriadau, caniatáu dilead gwirfoddol neu atgyfeiriad at wasanaeth cyfryngu pan fo hynny'n berthnasol.

Costau

Opsiwn un: peidio â gwneud dim

Rheoleiddiwr y gweithlu

7.683 Yn 2013-14 roedd gan reoleiddiwr y gweithlu gyllideb gyffredinol o £10,259,000.

Gwariwyd £3,593,000 o'r arian hwn ar reoleiddio sy'n cynnwys £771,000 a wariwyd yn benodol ar brosesau addasrwydd i ymarfer. Mae hyn yn cynnwys y costau sydd ynghlwm ag adolygu penderfyniadau ynglŷn ag addasrwydd i ymarfer.

Tabl 37: crynodeb o'r costau amcangyfrifedig sy'n gysylltiedig â chadw'r meini prawf presennol a ddefnyddir gan reoleiddiwr y gweithlu i adolygu penderfyniadau (opsiwn un)

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|-------------------------|----------------|----------------|----------------|----------------|----------------|
| Rheoleiddiwr y gweithlu | 771,000 | 771,000 | 771,000 | 771,000 | 771,000 |
| Cyfanswm y gost | 771,000 | 771,000 | 771,000 | 771,000 | 771,000 |

Opsiw'n Dau

Costau rheolaidd: rheoleiddiwr y gweithlu

7.684 O ran ymestyn yr amrywiaeth o benderfyniadau y ceir eu hadolygu, mae rheoleiddiwr y gweithlu yn amcangyfrif y byddai hyn yn digwydd ddwywaith neu deirgwaith y flwyddyn. Amcangyfrifir, o ran costau staffio uniongyrchol, y byddai hyn yn costio £1,000 ychwanegol bob blwyddyn¹⁰⁷.

Costau pontio: rheoleiddiwr y gweithlu

7.685 Gan mai ymestyn yr arfer presennol yn unig y byddai hyn, ni ddisgwylir y bydd unrhyw gostau pontio.

Tabl 38: crynodeb o'r costau tebygol a amcangyfrifir o ganlyniad i ymestyn yr amrywiaeth o benderfyniadau y caiff rheoleiddiwr y gweithlu eu hadolygu (opsiwn dau)

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|-------------------------|----------------|----------------|----------------|----------------|----------------|
| Rheoleiddiwr y gweithlu | 771,000 | 772,000 | 772,000 | 772,000 | 772,000 |
| Cyfanswm y gost | 771,000 | 772,000 | 772,000 | 772,000 | 772,000 |

Manteision

Opsiw'n Un

Rheoleiddiwr y gweithlu

¹⁰⁷ Mae'r rhain yn gostau uniongyrchol ac nid ydynt yn cynnwys gorbenion a chostau cymorth.

7.686 Mae'r opsiwn hwn yn darparu dull rheoleiddio ymatebol er mwyn i un o bwyllgorau'r rheoleiddiwr allu newid penderfyniadau pan fo tystiolaeth newydd yn dod i'r amlwg neu pan fo collfarn droseddol wedi ei diddymu.

Y gweithlu

7.687 Mae'r opsiwn hwn yn caniatáu i unigolyn cofrestredig gael newid penderfyniad sy'n effeithio ar ei gofrestrriad proffesiynol, pan fo tystiolaeth newydd yn dod i'r amlwg neu pan fo collfarn droseddol wedi ei diddymu.

Defnyddwyr gwasanaeth/dinasyddion

7.688 Mae'r opsiwn hwn yn darparu dull rheoleiddio cywir sy'n gallu rhoi ystyriaeth i dystiolaeth newydd sy'n dod i'r amlwg neu'r ffaith fod collfarnau troseddol wedi eu diddymu.

Opsiwn Dau

Rheoleiddiwr y gweithlu

7.689 Mae'r opsiwn hwn yn darparu dull rheoleiddio mwy hyblyg er mwyn gallu ailystyried ystod ehangach o benderfyniadau, i sicrhau eu bod wedi eu gwneud yn briodol ac i ymateb i bryderon dilys. Ystyrir ei bod yn debygol y bydd modd ymdrin yn fwy effeithiol ac effeithlon â rhai achosion, a fyddai'n golygu y gellid osgoi'r angen am gamau ychwanegol, mwy drud.

Y gweithlu

7.690 Mae'r opsiwn hwn yn caniatáu i unigolyn cofrestredig gael ailystyried amrywiaeth ehangach o benderfyniadau sy'n effeithio ar ei gofrestrriad proffesiynol er mwyn sicrhau eu bod wedi eu gwneud yn briodol ac er mwyn ymateb i bryderon dilys. Golyga hyn y bydd unigolion cofrestredig, nad yw eu haddasrwydd i ymarfer yn ddiffygiol, yn fwy tebygol o allu dychwelyd i ymarfer.

Defnyddwyr gwasanaeth/dinasyddion

7.691 Mae'r opsiwn hwn yn darparu dull rheoleiddio mwy hyblyg a chywir sy'n gallu rhoi ystyriaeth i bryderon dilys mewn amrywiaeth ehangach o benderfyniadau rheoleiddio.

Crynodeb a'r opsiwn a ffefrir

7.692 Mae opsiwn un yn cadw'r ddarpariaeth bresennol i adolygu penderfyniadau addasrwydd i ymarfer pan fo tystiolaeth newydd wedi dod i'r amlwg neu pan fo collfarn droseddol wedi ei diddymu. Mae opsiwn dau yn ymestyn yr hyblygrwydd hwn trwy ddarparu ar gyfer ailystyried amrywiaeth ehangach o benderfyniadau er mwyn sicrhau eu bod wedi eu gwneud yn briodol ac er mwyn ymateb i bryderon dilys. Gwerthfawrogir yr hyblygrwydd ehangach hwn ac mae'n cyd-fynd â barn Comisiwn y Gyfraith. Mae'n sicrhau bod y system reoleiddio'n gallu darparu mwy o degwch i unigolion cofrestredig a chaniatáu i fwy o weithwyr â chymwysterau priodol ddychwelyd i ymarfer. Gan hynny, opsiwn dau yw'r opsiwn a ffefrir.

Pŵer i wysio gwybodaeth

7.693 Gweler adran 31 o Fil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) ar gyfer y darpariaethau sy'n ymwneud â'r pŵer i ofyn am wybodaeth.

Opsiynau

7.694 Mae dau opsiwn:

- Opsiwn un: peidio â gwneud dim.
- Opsiwn dau: rhoi'r pŵer i reoleiddiwr y gweithlu ei gwneud yn ofynnol i ddarparu gwybodaeth.

Opsiwn un: peidio â gwneud dim

7.695 Mae gallu rheoleiddiwr y gweithlu i weld yr holl dystiolaeth berthnasol sydd ar gael, i asesu achosion unigol, yn allweddol er mwyn i'r prosesau addasrwydd i ymarfer fod yn effeithiol. Ar hyn o bryd, mae hyn yn dibynnu ar ofynion sydd eisoes yn bodoli ynghylch cyfrifoldebau darparwr gwasanaeth o ran diogelwch y cyhoedd ac arferion da. O dan opsiwn un, byddai'r trefniadau hyn yn parhau.

Opsiwn dau: pŵer i'w gwneud yn ofynnol i ddarparu gwybodaeth

7.696 Mae achosion wedi bod pan fo partiön penodol wedi bod yn amharod i ryddhau tystiolaeth allweddol, gan fentro tanseilio gallu'r rheoleiddiwr i ddarparu'r lefel uchaf o

sicrwydd i'r cyhoedd. Yn unol â chyrff rheoleiddio eraill, mae'r opsiwn hwn yn rhoi pŵer i'r rheoleiddiwr wysio gwybodaeth. Y Tribiwnlys Safonau Gofal, sef tribiwnlys haen gyntaf a weinyddir gan Lysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi, un o bedwar o dribiwnlysoedd yn y Siambr Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol, a fyddai'n gorfodi hyn. Byddai'n cael ei ddefnyddio fel y dull o orfodi yng Nghymru. Byddai angen i reoleiddiwr y gweithlu dalu ffi i'r tribiwnlys am bob achos y mae'n ei gyfeirio. Mae hyn yn cyd-fynd â'r argymhelliad canlynol gan Gomisiwn y Gyfraith:

'The regulators should be given a power to require the disclosure of relevant information by any person (including the registrant) in fitness to practise proceedings. However, a person cannot be required to supply any information or documents which are prohibited by or under any enactment. The regulators should have powers to seek an order for disclosure from the High Court in England and Wales' (Comisiwn y Gyfraith, 2014:134).

Costau

Opsiwn un: peidio â gwneud dim

Rheoleiddiwr y gweithlu

7.697 Mae costau opsiwn un yn cynnwys costau gweinyddol gwneud gwaith dilynol ynglŷn â cheisiadau am wybodaeth, ac aildrefnu prosesau a phaneli rheoleiddio pan na ddarperir gwybodaeth.

7.698 Mae hyn yn cyfateb i tua un diwrnod o amser gweinyddol fesul achos ar gyfradd o £128 y dydd. Rydym yn amcangyfrif y ceir anawsterau wrth gael gwybodaeth mewn tua 25 o achosion y flwyddyn. Y gost felly yw tua £3,200 y flwyddyn.

Opsiwn dau: darparu pŵer i'w gwneud yn ofynnol i ddarparu gwybodaeth

Rheoleiddiwr y gweithlu

7.699 Mae tua 25 o achosion y flwyddyn, fel yr uchod, yn cael eu rhwystro gan anawsterau o ran cael gwybodaeth. Rhagwelir y bydd y pŵer hwn yn cael effaith sylweddol o ran annog partïon i gydweithredu a darparu gwybodaeth yn brydlon. Mae'n annhebygol felly y bydd angen defnyddio'r pŵer ym mhob achos lle y mae'r

rheoleiddiwr yn profi anhawster ar hyn o bryd o ran cael gwybodaeth. Amcangyfrifir mai hyd at chwe gwaith y flwyddyn yn unig y byddai angen cyfeirio achosion at y tribiwnlys. Mae cais i'r tribiwnlys yn costio £50 i'r rheoleiddiwr, a byddai'r costau cyfreithiol cysylltiedig i'r rheoleiddiwr oddeutu £1,500 fesul achos. Amcangyfrifir felly mai oddeutu £9,300 y flwyddyn fyddai cyfanswm y gost i rheoleiddiwr y gweithlu ar gyfer chwe achos.

7.700 Fodd bynnag, mae'r gost ychwanegol bosibl hon yn debygol o gael ei gwrthbwysu'n rhannol gan y costau gweinyddol a arbedir trwy beidio â gorfod gwneud gwaith dilynol ar geisiadau am wybodaeth ac ad-drefnu prosesau a phaneli rheoleiddio pan na ddarperir gwybodaeth, fel a ddisgrifir uchod. Byddai hyn yn arwain at gynnydd net yn y gost o £6,100.

Tribiwnlys

7.701 Fel yr uchod, rydym yn amcangyfrif y gellid profi peth anhawster wrth gael gwybodaeth gyda 25 o achosion bob blwyddyn. Fodd bynnag, oherwydd yr effaith ataliol y rhagwelir y bydd y pŵer hwn yn ei chael, rydym yn amcangyfrif mai hyd at ryw chwe gwaith y flwyddyn yn unig y byddai angen cyfeirio achosion at y tribiwnlys. Cost ddyddiol staff y tribiwnlys ar gyfartaledd yw £327, a chost ddyddiol aelodau barnwrol ar gyfartaledd yw £891¹⁰⁸, sef cyfanswm o £1,218. Rydym yn amcangyfrif felly mai oddeutu £7,300 y flwyddyn fyddai uchafswm y gost i'r tribiwnlys.

Manteision

Opsiwn un: Peidio â gwneud dim

7.702 Nid oes manteision i gadw'r system bresennol.

Opsiwn dau: darparu pŵer i'w gwneud yn ofynnol i ddarparu gwybodaeth

Rheoleiddiwr y gweithlu

¹⁰⁸ Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi 2013-14

7.703 Bydd yr opsiwn hwn yn gwneud y broses reoleiddio'n fwy effeithlon ac effeithiol gan y byddai modd gwneud penderfyniadau rheoleiddio'n brydlon ar sail tystiolaeth berthnasol. Pan fo unrhyw unigolyn yn oedi cyn darparu gwybodaeth angenrheidiol sy'n berthnasol i weithdrefnau rheoleiddio, bydd y rheoleiddiwr yn gallu cyfeirio'r achos at y tribiwnlys er mwyn ei orfodi i ddarparu'r wybodaeth.

Y gweithlu

7.704 Bydd yr opsiwn hwn o gymorth i sicrhau y gellir ystyried cwynion yn erbyn unigolion cofrestredig mewn modd effeithlon ac effeithiol, ac y bydd yn llai tebygol y ceir oedi oherwydd bod y rheoleiddiwr yn ei chael yn anodd cael gafael ar y dogfennau angenrheidiol.

Defnyddwyr gwasanaethau / dinasyddion

7.705 Bydd yr opsiwn hwn o gymorth i sicrhau y gellir ystyried cwynion yn erbyn unigolion cofrestredig mewn modd effeithlon ac effeithiol, ac y bydd yn llai tebygol y ceir oedi oherwydd bod y rheoleiddiwr yn ei chael yn anodd cael gafael ar y dogfennau angenrheidiol. Bydd defnyddwyr gwasanaethau a dinasyddion yn elwa o gael mwy o sicrwydd cyhoeddus, gan y bydd modd ymchwilio i gwynion o'r fath a dod i gasgliad yn eu cylch yn fwy prydlon.

Crynodeb a'r opsiwn a ffeirir

7.706 Mae dau opsiwn. Un yw cadw'r system bresennol lle y bydd rheoleiddiwr y gweithlu'n gofyn am yr wybodaeth sy'n angenrheidiol er mwyn symud ymlaen â gweithdrefnau rheoleiddio drwy ddibynnu ar gyfrifoldebau darparwyr gwasanaeth. Fodd bynnag, mae hyn wedi bod yn annigonol mewn nifer o achosion, gan arwain at oedi ac aneffeithlonrwydd ar gamau allweddol o'r broses reoleiddio. Mae opsiwn dau yn rhoi'r pŵer i'r rheoleiddiwr ei gwneud yn ofynnol i ddarparu gwybodaeth trwy gyfeirio at y tribiwnlys. Rydym yn rhagweld y bydd bodolaeth y pŵer hwn ynddo'i hun yn annog pobl i gydweithredu â'r rheoleiddiwr. Ond byddai'r gallu i droi at y tribiwnlys yn werthfawr pe na byddai darparwr yn cydweithredu. Opsiwn dau felly yw'r un a ffeirir.

Gofal Cymdeithasol Cymru – ymestyn swyddogaethau Cyngor Gofal Cymru

7.707 Gweler rhan tri o Fil Rheoleiddo ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) ar gyfer y darpariaethau sy'n ymwneud â Gofal Cymdeithasol Cymru.

7.708 Mae dau opsiwn yn gysylltiedig â chyflawni agenda Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Opsiynau

Opsiwn un: peidio â gwneud dim a pharhau â'r trefniadau presennol

7.709 Cyfrifoldeb y sefydliadau canlynol yw rheoleiddio a gwella'r gweithlu presennol yn ogystal â gwaith ymchwil a gwella gwasanaethau:

- **Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd.**
- **Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol:** cynorthwyo gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol i wella.
- **Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru:** darparu arweinyddiaeth broffesiynol i gyfarwyddwyr.
- **Y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth:** darparu sail dystiolaeth ar gyfer yr hyn sy'n gweithio'n ymarferol.
- **Cyngor Gofal Cymru:** annog gwelliannau yn y gweithlu gofal cymdeithasol, gan gynnwys ffrydiau cyllido bwrsariaethau gwaith cymdeithasol.
- **Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru:** annog gwelliannau mewn gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol.

7.710 Mae opsiwn un yn cynnwys cadw'r trefniadau presennol uchod yn ddarostyngedig i benderfyniadau parhaus gan Weinidogion.

Opsiwn dau: sefydlu Gofal Cymdeithasol Cymru trwy ymestyn swyddogaethau presennol Cyngor Gofal Cymru

7.711 Bydd y sefydliad arfaethedig, Gofal Cymdeithasol Cymru, yn dod â llawer o'r swyddogaethau gwella, a gyflawnir gan wahanol sefydliadau ar hyn o bryd, ynghyd mewn un sefydliad. Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru'n gyfrifol am y canlynol:

- Darparu arweinyddiaeth i'r agenda ar gyfer gwella ym mhob rhan o'r sector.

- Llunio a gweithredu cynlluniau gwella gwasanaethau cymdeithasol er mwyn cyflawni blaenoriaethau gwella cenedlaethol, fel y'u nodwyd gan Lywodraeth Cymru trwy ei fframwaith gwella strategol ar gyfer llesiant.
- Goruchwyllo safonau, cynlluniau datblygu a dysgu, a'r broses o gofrestru a chynllunio'r gweithlu, gan gynnwys rheoleiddio hyfforddiant.
- Cefnogi datblygiad y gallu i gynnal gwaith ymchwil ac ymchwil cymhwysol, a chynorthwyo gwneuthurwyr polisiau lleol a chenedlaethol i ddatblygu ymarfer yn seiliedig ar dystiolaeth.
- Gweithredu fel canolfan wybodaeth ar gyfer ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth a hybu'r ymarfer hwn ym mhob rhan o'r sector.
- Darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am fframweithiau awdurdodol a safonau.
- Darparu gwybodaeth am ofal cymdeithasol a gwaith cymdeithasol i'r cyhoedd, y cyfryngau a'r llywodraeth.
- Dysgu gan ddinasyddion sy'n defnyddio gwasanaethau a'u cynnwys.
- Galluogi gwaith partneriaeth cydweithredol ym mhob rhan o'r sector gofal cymdeithasol, y sector llywodraeth leol ehangach a'r sector iechyd.

7.712 Yn hytrach na sefydlu sefydliad newydd, bydd swyddogaethau presennol Cyngor Gofal Cymru yn cael eu hymestyn er mwyn cynnwys y swyddogaethau a restrir uchod. Pan gyflawnir y swyddogaethau hyn gan sefydliadau eraill, bydd cyllid Llywodraeth Cymru, fel y bo'n briodol, yn cael ei drosglwyddo i Gyngor Gofal Cymru ar yr un pryd ag y bydd y swyddogaethau'n cael eu trosglwyddo. Caiff y swyddogaethau eu cyflawni'n uniongyrchol neu eu comisiynu gan y Cyngor Gofal estynedig. Y bwriad yw mabwysiadu dull strategol o wella darpariaeth gwasanaethau yng Nghymru ac un sy'n osgoi'r rhaniadau, y dyblygu a'r aneffeithiolrwydd presennol.

Costau

Costau rheolaidd

Opsiwn un

7.713 Ni fydd costau ychwanegol. Ar gyfer 2014-15, mae'r dyraniad cyllid cyffredinol gan Lywodraeth Cymru dros £19,400,000. Dangosir y ffrydiau cyllido wedi'u dadgyfuno yn nhabl 41.

Rheoleiddiwr y gweithlu

7.714 Ni fydd costau ychwanegol.

Y gweithlu

7.715 Ni fydd costau uniongyrchol ychwanegol i'r gweithlu.

Defnyddwyr gwasanaeth/dinasyddion

7.716 Ni fydd goblygiadau cost ychwanegol uniongyrchol i ddefnyddwyr gwasanaethau / dinasyddion.

Tabl 39: crynodeb o'r costau amcangyfrifedig sy'n gysylltiedig â chadw'r system bresennol (opsiwn un)

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|------------------------|-------------------|-------------------|-------------------|-------------------|-------------------|
| Cyllid cyhoeddus | 19,458,575 | 19,458,575 | 19,458,575 | 19,458,575 | 19,458,575 |
| Cyfanswm y gost | 19,458,575 | 19,458,575 | 19,458,575 | 19,458,575 | 19,458,575 |

Costau

Opsiwn dau

7.717 Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru'n cael ei ariannu gan ddefnyddio'r £19,458,575 a roddir ar hyn o bryd i gefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau ac i ddatblygu'r gweithlu. Mae hyn yn cynnwys £10,029,000 a roddir i Gyngor Gofal Cymru, £895,075 a roddir i'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol a £123,500 a roddir i'r Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth. Bydd y cyfrifoldeb am reoli a gweinyddu cyllid Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol sef £8,411,000 yn cael ei drosglwyddo o Lywodraeth Cymru i Ofal Cymdeithasol Cymru (gweler y manylion yn nhabl 41). Ni fydd hyn yn effeithio'n ariannol ar y sefydliadau sy'n derbyn cyllid ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru gan y byddant yn parhau i dderbyn yr un faint o gyllid. Bydd y newid a welir gan y sefydliadau sy'n derbyn grant yn ymwneud â sut y rheolir y grantiau.

Rheoleiddiwr y gweithlu

7.718 Rhoddir manylion y costau yn nhabl 40.

Y gweithlu

7.719 Ni fydd costau uniongyrchol ychwanegol i'r gweithlu.

Defnyddwyr gwasanaeth/dinasyddion

7.720 Ni fydd goblygiadau cost ychwanegol uniongyrchol i ddefnyddwyr gwasanaeth/dinasyddion.

Tabl 40: crynodeb o'r costau tebygol a amcangyfrifwyd o ganlyniad i gyflwyno Gofal Cymdeithasol Cymru (opsiwn dau)

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|------------------------|-------------------|-------------------|-------------------|-------------------|-------------------|
| Cyllid cyhoeddus | | | | | |
| Pontio | 100,000 | | | | |
| Rheolaidd | 19,458,575 | 19,458,575 | 19,458,575 | 19,458,575 | 19,458,575 |
| Cyfanswm y gost | 19,458,575 | 19,458,575 | 19,458,575 | 19,458,575 | 19,458,575 |

Tabl 41: Cyllid Llywodraeth Cymru i sefydliadau sy'n ymwneud â gwella gwasanaethau a datblygu'r gweithlu

| Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol | |
|--|---|
| £895,075 (2014-15) | Mae Llywodraeth Cymru'n darparu grant i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ariannu'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol i gefnogi'r awdurdodau lleol â'u hagenda ar gyfer gwella. |
| Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol | |
| £8,411,000 (2014-15) | Mae Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid trwy grant Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol. Amcan y grant yw cynyddu cyfran y staff gofal cymdeithasol sydd â'r cymwysterau, y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i wneud y gwaith y maent yn ei gyflawni. Mae'r grant yn rhaglen arian cyfatebol, ac mae elfen Llywodraeth Cymru yn darparu 70% o gost y rhaglen. |
| Y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth | |
| £123,500 (2014-15) | Mae'r Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth yn cynnal gwaith ymchwil er mwyn hysbysu datblygiad adnoddau a gwasanaethau gyda'r nod o wella gwybodaeth a sgiliau'r bobl hynny sy'n gweithio yn y gwasanaethau gofal. Mae'r cyllid yn galluogi Llywodraeth Cymru i fanteisio ar waith ymchwil a gwasanaethau'r Sefydliad. |
| Cyngor Gofal Cymru | |
| £10,029,000 (2014-15) | Mae Llywodraeth Cymru'n darparu grant i Gyngor Gofal Cymru, sy'n rheoleiddio'r proffesiwn gofal cymdeithasol, gyda'r nod o sicrhau bod y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru yn ddiogel i ymarfer; bod ganddynt y sgiliau a'r cymwysterau cywir er mwyn gweithio i safon broffesiynol uchel; ac yn denu'r nifer briodol o bobl i'r gweithlu i ddarparu gofal o ansawdd da nawr ac yn y dyfodol. |

Opsiw 2

Costau pontio

7.721 Nid oes modd darparu amcangyfrifon manwl o'r costau sy'n gysylltiedig â phontio ar hyn o bryd. Er hyn, gellir gwneud cymariaethau cynnar â'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gynhaliwyd ar gyfer Deddf Addysg (Cymru) 2014. Roedd hwn yn amcangyfrif bod y costau pontio wrth symud o Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru i Gyngor y Gweithlu Addysg yn llai na £100,000¹⁰⁹. Mae unrhyw gostau o'r fath yn debygol o fod yn gysylltiedig â phrosesau gweinyddol, swyddogaethau a llywodraethu, yn ogystal â gweithgarwch cyfathrebu a marchnata.

Manteision

Opsiwn un

7.722 Trwy gynnal y sefyllfa bresennol, bydd y drefn bresennol o ran swyddogaethau yn parhau ac ni wynebwr costau pontio. Byddai'n osgoi ansicrwydd ac ansefydlogrwydd yn y sector hefyd.

Opsiwn dau

7.723 Nod Gofal Cymdeithasol Cymru yw gwneud y dull presennol o wella gwasanaethau a datblygu'r gweithlu yn fwy effeithlon ac effeithiol. Diben canoli'r strwythur presennol yw sicrhau bod llai o waith yn cael ei ddyblygu, cydgysylltu'r gwaith yn well, a'i gwneud yn haws datblygu dull cenedlaethol o wella gwasanaethau a datblygu'r gweithlu – dull sy'n cael ei ddehongli a'i weithredu'n gyson ym mhob agwedd ar ddarpariaeth y gwasanaethau.

7.724 Dylai fod manteision i'r holl randdeiliaid o ganlyniad. Yn benodol, dylai cleientiaid, eu gofalwyr a'u teuluoedd elwa o welliannau yn narpariaeth gwasanaethau. Dylai darparwyr gwasanaeth elwa o'r ffaith bod gan y gweithlu'r cymwysterau, y sgiliau a'r profiad priodol, ac o'r ffaith eu bod yn deall yn eglur pa welliannau a ddisgwylir ganddynt fel darparwyr gwasanaethau.

¹⁰⁹ <http://www.senedd.assemblywales.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IID=7186>

Crynodeb a'r opsiwn a ffefrir

7.725 Ymestyn swyddogaethau Cyngor Gofal Cymru fel y nodir o dan opsiwn dau yw'r opsiwn a ffefrir. Er mai mantais cadw'r sefyllfa bresennol (peidio â gwneud dim o dan opsiwn un) fyddai sicrhau sefydlogrwydd y sector, ni fydd yn darparu'r arweinyddiaeth genedlaethol a gweddnewidiol i fwrw ymlaen ag agenda Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella gofal cymdeithasol yng Nghymru. Byddai dull darniog o weithredu yn debygol o barhau hefyd. Bydd opsiwn dau yn cefnogi'r broses o fabwysiadu dull gweithredu mwy cydgysylltiedig a strategol, â'r nod o osgoi dyblygu gwaith a sicrhau darpariaeth gwasanaeth mwy cyson.

Crynodeb o gostau a manteision cyflwyno'r opsiynau a ffefrir dros gyfnod o bum mlynedd

7.726 Mae tablau 42 a 43 isod yn rhoi crynodeb o'r costau a amcangyfrifir ar gyfer yr opsiynau a ffefrir dros gyfnod o bum mlynedd, fesul opsiwn a fesul grŵp yr effeithir arno. Amcangyfrifir mai cyfanswm cost yr opsiynau a ffefrir ar gyfer y cyfnod o bum mlynedd 2016/17-2020/21 yw tua £181,162,200, sef £3,318,400 o gostau pontio a £177,843,800 o gostau rheolaidd.

7.727 Amcangyfrifir mai £171,167,600 yw'r costau presennol dros y cyfnod o bum mlynedd 2016/17-2020/21. Felly, amcangyfrifir y bydd yr opsiynau a ffefrir yn arwain at gostau rheolaidd ychwanegol o tua £9,994,600 yn ystod y cyfnod 2016/17-2020/21.

7.728 Y gost fesul blwyddyn, o 2017/18, o gyflwyno'r opsiynau a ffefrir yw £35,902,600. Y gost bresennol fesul blwyddyn yw £34,233,500. Felly, disgwylir y bydd cyflwyno'r opsiynau a ffefrir yn arwain at £1,669,100 yn ychwanegol bob blwyddyn.

7.729 Yr opsiwn a ffefrir sydd â'r effaith fwyaf sylweddol o ran costau ychwanegol yw cyflwyno fframwaith dyfarnu ansawdd. Amcangyfrifwyd y byddai hynny'n costio £6,001,500 dros y cyfnod o bum mlynedd 2016/17-2020/21. O ran costau pontio, mae'r gost fwyaf sylweddol yn gysylltiedig â chyflwyno model cofrestru sy'n seiliedig ar wasanaethau. Amcangyfrifir bod hyn tua £1,579,600.

- 7.730 Rheoleiddiwr y gwasanaeth yw'r grŵp y bydd yr opsiynau a ffefrir yn effeithio fwyaf arno. Amcangyfrifir y bydd yn costio swm ychwanegol o tua £9,189,700 i reoleiddiwr y gwasanaeth dros y cyfnod o bum mlynedd 2016/17-2020/21, sef £2,126,200 o gostau pontio a tua £7,063,500 o gostau rheolaidd.
- 7.731 Ar hyn o bryd, mae rheoleiddiwr y gwasanaeth yn wynebu costau o tua £8,471,000 y flwyddyn. Ar ôl cyflwyno'r opsiynau a ffefrir, amcangyfrifir y bydd rheoleiddiwr y gwasanaeth yn wynebu costau o tua £10,236,900 y flwyddyn. Hynny yw, amcangyfrifir y bydd rheoleiddiwr y gwasanaeth yn wynebu costau ychwanegol o tua £1,765,900 y flwyddyn. O hyn, bydd £1,443,500 y flwyddyn yn deillio o gyflwyno fframwaith dyfarnu ansawdd. Byddai dadansoddiad pellach o'r costau/manteision hyn yn cael ei gynnal os penderfynir defnyddio'r pwerau hyn.
- 7.732 Bydd darparwyr gwasanaeth yn wynebu costau ychwanegol o ganlyniad i weithredu'r opsiynau a ffefrir. Amcangyfrifir mai cyfanswm y gost i ddarparwyr gwasanaeth dros y cyfnod o bum mlynedd 2016/17-2020/21 yw £10,154,400 sef £1,075,000 o gostau pontio a £9,079,400 o gostau rheolaidd. Amcangyfrifir mai swm y costau rheolaidd presennol dros y cyfnod o bum mlynedd ar gyfer darparwyr gwasanaeth yw £8,850,000. Felly, y costau ychwanegol i ddarparwyr gwasanaethau dros y cyfnod o bum mlynedd yw £229,400.
- 7.733 Amcangyfrifir bod y gost reolaidd bresennol i ddarparwyr gwasanaeth tua £1,770,000 y flwyddyn. Ar ôl cyflwyno'r opsiynau a ffefrir, bydd y gost rheolaidd i ddarparwyr gwasanaeth yn codi i tua £1,827,400. Felly, amcangyfrifir bod y gost ychwanegol i ddarparwyr gwasanaeth tua £57,400 y flwyddyn. Amcangyfrifir bod hyn yn gost ychwanegol o tua £60 y flwyddyn i bob un o'r 968 o ddarparwyr gwasanaeth.
- 7.734 Bydd manteision i ddefnyddwyr gwasanaeth, gweithwyr gofal cymdeithasol a rheoleiddiwr y gweithlu yn sgil cyflwyno'r opsiynau a ffefrir. Er mai'r defnyddwyr gwasanaethau ddylai gael y budd mwyaf o gyflwyno'r opsiynau a ffefrir, ni fu modd pennu costau i'r manteision, ac eithrio pan lwyddir i osgoi cau cartref gofal yn anhrefnus. Disgwylir hefyd i weithwyr gofal cymdeithasol gael budd o gyflwyno'r opsiynau a ffefrir. Ar ôl eu cyflwyno, amcangyfrifir y bydd gweithwyr gofal cymdeithasol cofrestredig yn gweld gostyngiad o tua £85,700 y flwyddyn mewn

costau. Mae hyn yn ostyngiad o tua £7 y flwyddyn mewn costau ar gyfer pob un o'r 11,526 o weithwyr gofal cymdeithasol cofrestredig.

Tabl 42: crynodeb o'r costau a'r manteision fesul opsiwn a ffefrir

| | Tabl | 2016-17 | | | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | | |
|--|--------------|---------------------|--|-----------------------------|-----------|-----------|-----------|-----------|---|-----------------------|
| | | Peidio â gwneud dim | | Cyflwyno'r opsiwn a ffefrir | | | | | | |
| Model rheoleiddio | | Rheolaidd | Cyfanswm y 5 mlynedd – peidio â gwneud dim | Pontio | Rheolaidd | Rheolaidd | Rheolaidd | Rheolaidd | Cyfanswm y 5 mlynedd – opsiwn a ffefrir | Gwahaniaeth mewn cost |
| Rheoleiddiwr y gwasanaeth Darparwyr gwasanaeth | 16, 17 ac 18 | 679,480 | 3,397,400 | 1,471,000 | 679,480 | 679,480 | 679,480 | 679,480 | 4,868,400 | 1,471,000 |
| Ffioedd cofrestru darparwyr | | | | | | | | | | |
| Rheoleiddiwr y gwasanaeth Darparwyr gwasanaeth | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Rheoleiddiwr y gwasanaeth Darparwyr gwasanaeth | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cofrestr wirfoddol | 26 | | | | | | | | | |
| Rheoleiddiwr y gweithlu | | 15,000 | 75,000 | 2,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 17,000 | -58,000 |
| Gweithwyr gofal a chymorth | | 13,360 | 66,800 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 13,360 | -53,440 |
| Cofrestrriad deuil | 27 a 28 | | | | | | | | | |
| Rheoleiddiwr y gwasanaeth | | - | | | - | - | - | - | - | - |
| Rheoleiddiwr y gweithlu | | 143,000 | 715,000 | 1,800 | 165,500 | 165,500 | 165,500 | 165,500 | 806,800 | 91,800 |
| Gweithwyr gofal a chymorth | | 181,900 | 909,500 | 0 | 105,600 | 105,600 | 105,600 | 105,600 | 604,300 | -305,200 |
| Cyfanswm cofrestru | | 1,033,940 | 5,169,700 | 1,583,400 | 951,780 | 951,780 | 951,780 | 951,780 | 6,424,460 | 1,254,760 |
| Dull o reoleiddio ac arolygu | 4 a 5 | | | | | | | | | |
| Rheoleiddiwr y gwasanaeth | | 2,984,520 | 14,922,600 | | 2,984,520 | 2,984,520 | 2,984,520 | 2,984,520 | 14,922,600 | 0 |
| Darparwyr gwasanaeth | | 1,768,800 | 8,844,000 | 726,300 | 1,768,800 | 1,768,800 | 1,768,800 | 1,768,800 | 9,570,300 | 726,300 |
| Adroddiadau blynyddol | 6 a 7 | | | | | | | | | |
| Rheoleiddiwr y gwasanaeth | | 350,000 | 1,750,000 | 0 | 390,000 | 390,000 | 390,000 | 390,000 | 1,910,000 | 160,000 |
| Darparwyr gwasanaeth | | 0 | 0 | 240,100 | 0 | 0 | 0 | 0 | 240,100 | 240,100 |
| Fframwaith dyfarnu ansawdd | 13 | | | | | | | | | |
| Rheoleiddiwr y gwasanaeth | | 0 | 0 | 0 | 1,443,468 | 1,443,468 | 1,443,468 | 1,443,468 | 5,773,872 | 5,773,872 |
| Darparwyr gwasanaeth annibynnol | | 0 | 0 | 0 | 49,900 | 49,900 | 49,900 | 49,900 | 199,600 | 199,600 |

| | | | | | | | | | | |
|--|---------|-----------|------------|---------|-----------|-----------|-----------|-----------|------------|-----------|
| Darparwyr gwasanaeth awdurdod lleol | | 0 | 0 | 0 | 7,000 | 7,000 | 7,000 | 7,000 | 28,000 | 28,000 |
| Cynnwys dinasyddion | 14 a 15 | | | | | | | | | |
| Rheoleiddiwr y gwasanaeth | | 57,000 | 285,000 | 0 | 100,000 | 100,000 | 100,000 | 100,000 | 457,000 | 172,000 |
| Cyfanswm arolygu | | 5,160,320 | 25,801,600 | 966,400 | 6,743,688 | 6,703,688 | 6,743,688 | 6,743,688 | 33,101,472 | 7,299,872 |
| Trosedd o wybodaeth anwir neu gamarweiniol | 8 a 9 | | | | | | | | | |
| Rheoleiddiwr y gwasanaeth | | 4,400,000 | 22,000,000 | 200,000 | 4,419,700 | 4,419,700 | 4,419,700 | 4,419,700 | 22,278,800 | 278,800 |
| Llywodraeth Cymru | | 0 | 0 | 0 | 40 | 40 | 40 | 40 | 160 | 160 |
| Llysoedd | | 0 | 0 | 0 | 1,050 | 1,050 | 1,050 | 1,050 | 4,200 | 4,200 |
| Cymorth cyfreithiol/darparwyr gwasanaeth | | 0 | 0 | 0 | 40 | 40 | 40 | 40 | 160 | 160 |
| Darparwyr gwasanaeth | | 0 | 0 | 0 | 300 | 300 | 300 | 300 | 1,200 | 1,200 |
| Methu â darparu adroddiad blynyddol | 11 a 12 | | | | | | | | | |
| Rheoleiddiwr y gwasanaeth | | 0 | 0 | 0 | 19,700 | 19,700 | 19,700 | 19,700 | 78,800 | 78,800 |
| Llywodraeth Cymru | | 0 | 0 | 0 | 75 | 75 | 75 | 75 | 300 | 300 |
| Llysoedd | | 0 | 0 | 0 | 10 | 10 | 10 | 10 | 40 | 40 |
| Cymorth cyfreithiol/darparwyr gwasanaeth | | 0 | 0 | 0 | 75 | 75 | 75 | 75 | 300 | 300 |
| Darparwyr gwasanaeth | | 0 | 0 | 0 | 150 | 150 | 150 | 150 | 600 | 600 |
| Hysbysiadau gorfodi | | | | | | | | | | |
| Rheoleiddiwr y gwasanaeth | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Darparwyr gwasanaeth | | 0 | 0 | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Amodau cofrestru | | | | | | | | | | |
| Rheoleiddiwr y gwasanaeth | | - | - | 455,200 | - | - | - | - | 455,200 | 455,200 |
| Cyfanswm gorfodi | | 4,400,000 | 22,000,000 | 655,200 | 4,441,140 | 4,441,140 | 4,441,140 | 4,441,140 | 22,819,760 | 819,760 |

| | | | | | | | | | | |
|---|-------------|-----------|------------|--------|-----------|-----------|-----------|-----------|------------|----------|
| Datganiadau cenedlaethol am y farchnad gofal a chymorth | | | | | | | | | | |
| Rheoleiddiwr y gwasanaeth | | 0 | 0 | 0 | 200,000 | 200,000 | 200,000 | 200,000 | 800,000 | 800,000 |
| Diwydrwydd dyladwy ynglŷn â darparwyr gwasanaeth allweddol | | | | | | | | | | |
| Rheoleiddiwr y gwasanaeth | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Defnyddwyr gwasanaeth | | 92,300 | 461,500 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 92,300 | -369,200 |
| Cyfanswm y farchnad | | 92,300 | 461,500 | 0 | 200,000 | 200,000 | 200,000 | 200,000 | 892,300 | 430,800 |
| Cofrestru'r gweithlu | 29, 30 a 31 | | | | | | | | | |
| Llywodraeth Cymru | | 2,905,825 | 14,529,125 | 0 | 2,905,825 | 2,905,825 | 2,905,825 | 2,905,825 | 14,529,125 | 0 |
| Gweithwyr cofrestredig | | 310,550 | 1,552,750 | 0 | 310,550 | 310,550 | 310,550 | 310,550 | 1,552,750 | 0 |
| Gwarchod teitl | | | | | | | | | | |
| Llywodraeth Cymru | | 0 | 0 | 2,487 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2,487 | 0 |
| Gorchmynion gwahardd | | | | | | | | | | |
| Llywodraeth Cymru | | 0 | 0 | 10,925 | 0 | 0 | 0 | 0 | 10,925 | 0 |
| Hyfforddi'r gweithlu | 32 a 33 | | | | | | | | | |
| Rheoleiddiwr y gweithlu | | 90,000 | 450,000 | 0 | 90,000 | 90,000 | 90,000 | 90,000 | 450,000 | 0 |
| Apelau mewn ymateb i benderfyniadau addasrwydd i ymarfer | 34, 35 a 36 | | | | | | | | | |
| Rheoleiddiwr y gweithlu | | 3,900 | 19,500 | 0 | 7,800 | 7,800 | 7,800 | 7,800 | 35,100 | 15,600 |
| Gweithwyr cofrestredig | | 3,900 | 19,500 | 0 | 7,800 | 7,800 | 7,800 | 7,800 | 35,100 | 15,600 |
| Prosesau addasrwydd i ymarfer uwch | 37 a 38 | | | | | | | | | |
| Rheoleiddiwr y gweithlu | | 771,000 | 3,855,000 | 0 | 772,000 | 772,000 | 772,000 | 772,000 | 3,859,000 | 4,000 |
| Pŵer i wysio gwybodaeth | | | | | | | | | | |
| Rheoleiddiwr y gweithlu | | 3,200 | 16,000 | 0 | 6,100 | 6,100 | 6,100 | 6,100 | 27,600 | 11,600 |
| Llysoedd | | 0 | 0 | 0 | 7,300 | 7,300 | 7,300 | 7,300 | 29,200 | 29,200 |
| Sefydliad Cenedlaethol | 39, 40 a 41 | | | | | | | | | |
| Cyllid cyhoeddus | | | 97,292,875 | | | | | | | 100,000 |

| | | | | | | | | | | |
|---------------------|--|------------|-------------|----------|------------|------------|------------|------------|-------------|-----------|
| | | 19,458,575 | | 100,000 | 19,458,575 | 19,458,575 | 19,458,575 | 19,458,575 | 97,392,875 | |
| Cyfanswm y gweithlu | | 23,546,950 | 117,734,750 | 113,412 | 23,565,950 | 23,565,950 | 23,565,950 | 23,565,950 | 117,924,162 | 189,412 |
| Cyfanswm | | 34,233,510 | 171,167,550 | 3,18,412 | 35,382,412 | 35,902,558 | 35,902,558 | 35,902,558 | 181,162,154 | 9,994,604 |

Tabl 6: crynodeb o'r costau a'r manteision fesul grŵp yr effeithir arno

| | 2016-17 | | | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | | |
|----------------------------------|---------------------|--|----------------------------|------------|------------|------------|------------|--|-----------------------|
| | Peidio â gwneud dim | | Cyflwyno'r opsiwn a ffefir | | | | | | |
| | Rheolaidd | Cyfanswm y 5 mlynedd – peidio â gwneud dim | Pontio | Rheolaidd | Rheolaidd | Rheolaidd | Rheolaidd | Cyfanswm y 5 mlynedd – opsiwn a ffefir | Gwahaniaeth mewn cost |
| Rheoleiddiwr y gwasanaeth | | | | | | | | | |
| Cofrestru | 679,480 | 3,397,400 | 1,471,000 | 679,480 | 679,480 | 679,480 | 679,480 | 4,868,400 | 1,471,000 |
| Arolygu | 3,391,520 | 16,957,600 | 0 | 4,917,988 | 4,917,988 | 4,917,988 | 4,917,988 | 23,063,472 | 6,105,872 |
| Gorfodi | 4,400,000 | 22,000,000 | 655,200 | 4,439,400 | 4,439,400 | 4,439,400 | 4,439,400 | 22,812,800 | 812,800 |
| Y Farchnad | 0 | 0 | 0 | 200,000 | 200,000 | 200,000 | 200,000 | 800,000 | 800,000 |
| Y Gweithlu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm | 8,471,000 | 42,355,000 | 2,126,200 | 10,236,868 | 10,236,868 | 10,236,868 | 10,236,868 | 51,544,672 | 9,189,672 |
| Darparwyr gwasanaeth | | | | | | | | | |
| Cofrestru | 1200 | 6,000 | 108,600 | 1,200 | 1,200 | 1,200 | 1,200 | 114,600 | 108,600 |
| Arolygu | 1,768,800 | 8,844,000 | 966,400 | 1,825,700 | 1,825,700 | 1,825,700 | 1,825,700 | 10,038,000 | 1,194,000 |
| Gorfodi | 0 | 0 | 0 | 450 | 450 | 450 | 450 | 1,800 | 1,800 |
| Y Farchnad | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Y Gweithlu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm | 1,770,000 | 8,850,000 | 1,075,000 | 1,827,350 | 1,827,350 | 1,827,350 | 1,827,350 | 10,154,400 | 1,304,400 |
| Rheoleiddiwr y gweithlu | | | | | | | | | |
| Cofrestru | 158,000 | 790,000 | 3,800 | 165,500 | 165,500 | 165,500 | 165,500 | 828,800 | 33,800 |

| | | | | | | | | | |
|-----------------------------------|-----------|-----------|-------|-----------|-----------|-----------|-----------|-----------|----------|
| Arolygu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gorfodi | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Y Farchnad | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Y Gweithlu | 868,100 | 4,340,500 | 0 | 875,900 | 875,900 | 875,900 | 875,900 | 4,371,700 | 31,200 |
| Cyfanswm | 1,026,100 | 5,130,500 | 3,800 | 1,041,400 | 1,041,400 | 1,041,400 | 1,041,400 | 5,195,500 | 65,000 |
| Gweithwyr gofal a chymorth | | | | | | | | | |
| Cofrestru | 195,260 | 976,300 | 0 | 105,600 | 105,600 | 105,600 | 105,600 | 617,660 | -358,640 |
| Arolygu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gorfodi | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Y Farchnad | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Y Gweithlu | 314,450 | 1,572,250 | 0 | 318,350 | 318,350 | 318,350 | 318,350 | 1,587,850 | 15,600 |
| Cyfanswm | 509,710 | 2,548,550 | 0 | 423,950 | 423,950 | 423,950 | 423,950 | 2,205,510 | -343,040 |
| Defnyddwyr gwasanaeth | | | | | | | | | |
| Cofrestru | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Arolygu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gorfodi | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Y Farchnad | 92,300 | 461,500 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 92,300 | -369,200 |
| Y Gweithlu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm | 92,300 | 461,500 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 92,300 | -369,200 |
| Llywodraeth Cymru | | | | | | | | | |
| Cofrestru | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| | | | | | | | | | |
|----------------------------------|------------|-------------|-----------|------------|------------|------------|------------|-------------|-----------|
| Arolygu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gorfodi | 0 | 0 | - | 115 | 115 | 115 | 115 | 460 | 460 |
| Y Farchnad | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Y Gweithlu | 22,364,400 | 111,822,000 | 113,412 | 22,364,400 | 22,364,400 | 22,364,400 | 22,364,400 | 111,935,412 | 113,412 |
| Cyfanswm | 22,364,400 | 110,267,000 | 113,412 | 22,364,515 | 22,364,515 | 22,364,515 | 22,364,515 | 111,935,872 | 113,872 |
| System cyfiawnder troseddol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cofrestru | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Arolygu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gorfodi | 0 | 0 | 0 | 1,175 | 1,175 | 1,175 | 1,175 | 4,700 | 4,700 |
| Y Farchnad | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Y Gweithlu | 0 | 0 | 0 | 7,300 | 7,300 | 7,300 | 7,300 | 29,200 | 29,200 |
| Cyfanswm | 0 | 0 | 0 | 8,475 | 8,475 | 8,475 | 8,475 | 33,900 | 33,900 |
| Cyfanswm – opsiynau a ffefrir | 34,233,510 | 171,167,550 | 3,318,412 | 35,902,558 | 35,902,558 | 35,902,558 | 35,902,558 | 181,162,154 | 9,994,604 |

Adran 8: Asesu Cystadleuaeth ac Effeithiau Penodol

Asesu Cystadleuaeth

| Prawf hidl cystadleuaeth | |
|--|-----------|
| Cwestiwn | Ateb |
| C1: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliadau newydd yn effeithio arnynt, a oes gan unrhyw gwmni gyfran sy'n fwy na 10% o'r farchnad? | Nac oes |
| C2: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliadau newydd yn effeithio arnynt, a oes gan unrhyw gwmni gyfran sy'n fwy nag 20% o'r farchnad? | Nac oes |
| C3: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliadau newydd yn effeithio arnynt, a yw cyfran y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd yn 50% o'r farchnad o leiaf? | Nac ydy |
| C4: A fyddai cost y rheoleiddio yn effeithio lawer yn fwy ar rai cwmnïau nag eraill? | Na fyddai |
| C5: A yw'r rheoleiddio'n debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint cwmnïau? | Nac ydy |
| C6: A fyddai'r rheoleiddio'n arwain at gostau sefydlu uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, na fyddai'n ofynnol i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai |
| C7: A fyddai'r rheoleiddio'n arwain at gostau rheolaidd uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, na fyddai'n ofynnol i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai |
| C8: A yw newid technolegol cyflym yn nodwedd o'r sector? | Nac ydy |
| C9: A fyddai'r rheoleiddio'n cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu cynhyrchion? | Na fyddai |

8.1 Er bod tystiolaeth ar gael sy'n dangos mai'r tueddiad yw bod llai o ddarparwyr yn rheoli cyfran gynyddol o'r farchnad gofal cymdeithasol yn Lloegr (Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 2011), nid yw'n amlwg i ba raddau y mae hyn yn digwydd yng Nghymru. Nid yw data'n cael eu casglu ar hyn o bryd sy'n ein galluogi i ddadansoddi pa ganran o gyfanswm y gofal a ddarperir gan gyflenwyr unigol¹¹⁰. Mae hyn yn benodol yn wir am ddarparwyr gofal cartref, sy'n cael eu rhannu'n ddau gategori ar hyn o bryd sef rhai sy'n darparu llai na 200 awr o ofal neu rhai sy'n darparu 200 awr neu fwy o ofal bob wythnos.

¹¹⁰ Fel rhan o'r broses o benderfynu pa sefydliadau fydd yn ddarostyngedig i ddiwydrwydd dyladwy, bydd yn ofynnol i reoleiddiwr y gwasanaeth gasglu data er mwyn gallu cynnal dadansoddiad o gyfrannau'r farchnad.

8.2 Fodd bynnag, rydym yn gwybod mwy am gyfrannau'r farchnad o ran darpariaeth gofal preswyl i oedolion. Mae'r wybodaeth sydd ar gael yn dangos bod cyfran unrhyw ddarparwr unigol o'r farchnad yn fach. Un sefydliad sydd gan 504 (78%) o'r 645 o ddarparwyr gofal preswyl. Chwe darparwr yn unig sydd â mwy na 10 o sefydliadau. Hefyd, mae cartrefi gofal i oedolion yn fach yn gyffredinol¹¹¹. O'r 1,132 o gartrefi gofal preswyl, mae 417 (37%) yn fach, 256 (23%) yn ganolig, 458 (40%) yn fawr a phump (0.4%) yn fawr iawn. Hynny yw, mae gan 60% o gartrefi gofal preswyl yng Nghymru 25 neu lai o leoedd.

8.3 Gan dybio bod gofal cartref yn debyg i ofal preswyl, ni ddisgwylir bod gan un darparwr gyfran o fwy na 10% o'r farchnad gofal cymdeithasol genedlaethol yng Nghymru.

8.4 Gall y broses reoleiddio gael effaith anghymesur ar ddarparwyr bach. O ystyried strwythur y farchnad gofal cymdeithasol yng Nghymru, gellid cael effaith anghymesur ar nifer fawr o ddarparwyr pe byddem yn cynyddu'r baich rheoleiddio. O ran cost rheoleiddio i ddarparwyr gwasanaeth, y gwaith arolygu sy'n cael yr effaith fwyaf. Mae gweithgareddau sy'n ymwneud ag arolygu'n costio £1,768,800 y flwyddyn i ddarparwyr gwasanaeth ar hyn o bryd. Mae'r gweithgareddau dan sylw'n cynnwys casglu data, hebrwng arolygwyr yn ystod eu hymweliadau, trafod gydag arolygwyr ac ymateb i'r adroddiad arolygu drafft.

8.5 Nod y cynigion yw peidio â rhoi unrhyw faich ychwanegol ar ddarparwyr gwasanaeth. Y newid mwyaf arwyddocaol i ddarparwyr gwasanaeth fydd y newid yn y drefn reoleiddio, o un sy'n canolbwyntio ar brosesau ac allbynnau i un sy'n cyfuno dull rheoleiddio sy'n seiliedig ar ganlyniadau â phrosesau ac allbynnau. Fel y mae tabl 42 yn ei ddangos, bydd darparwyr gwasanaeth yn wynebu costau pontio o £726,300 wrth weithredu'r newid.

8.6 Mae'r costau pontio sy'n gysylltiedig â gweithredu'r newid i'r drefn reoleiddio yn adlewyrchu'n bennaf yr amser y bydd rheolwyr gwasanaeth a gweinyddwyr yn ei dreulio'n ymgyfarwyddo â'r gofynion rheoleiddio a'r anghenion casglu data newydd.

¹¹¹ Diffinnir cartrefi gofal bach fel rhai â 10 neu lai o welyau, cartrefi gofal canolig â 11-25, cartrefi gofal mwy â 26-100 a chartrefi gofal mawr iawn yn rhai â mwy na 100 o welyau.

Tybir bod y gost pontio'n un sefydlog, ac y byddai'n cael effaith anghymesur ar ddarparwyr llai (gan y byddai angen i bob darparwr dreulio'r un nifer o ddiwrnodau, beth bynnag fo'u maint), mae'r gost fesul darparwr yn gymharol fach, sef tua £750.

- 8.7 Disgwylir i'r costau rheolaidd sy'n gysylltiedig â'r drefn reoleiddio aros yr un fath gan na fydd unrhyw faich ychwanegol yn cael ei roi ar ddarparwyr gwasanaeth. Bydd yn rhaid parhau i gasglu data, ond bydd y math o ddata'n newid i fod yn ddata am ganlyniadau yn bennaf.
- 8.8 Yn gyffredinol, disgwylir y bydd cynnydd bach yn y costau rheolaidd i ddarparwyr gwasanaeth os cyflwynir yr holl opsiynau a ffefrir. Fel y mae tabl 43 uchod yn ei ddangos, disgwylir y bydd y costau ychwanegol i ddarparwyr gwasanaeth oddeutu £1,257,500 dros y cyfnod o bum mlynedd, a chostau pontio yw £1,074,000 o hwn. Amcangyfrifir felly y bydd y costau rheolaidd dros y cyfnod o bum mlynedd oddeutu £183, 520. Y gost fesul defnyddiwr gwasanaeth, pe byddai'r holl opsiynau a ffefrir yn cael eu cyflwyno, fyddai tua £40 y flwyddyn.
- 8.9 Ni ddisgwylir i'r newidiadau i'r dull o reoleiddio gael effaith arwyddocaol ar allu darparwyr newydd i ddod i mewn i'r farchnad. Mae'r gofynion ar gyfer darparwyr sy'n dod i mewn i'r farchnad yr un fath ag ar gyfer cyflenwyr presennol. Byddai darparwyr sy'n dod i mewn i'r farchnad felly yn talu'r un costau â darparwyr gwasanaeth presennol.
- 8.10 Un o ddibenion rheoleiddio gofal cymdeithasol yw sicrhau nad yw ansawdd gofal yn gostwng yn is na safon benodol. Mae rheoleiddio felly yn cyfyngu ar allu darparwyr i ddewis ansawdd y gofal a ddarperir. Mae'r safonau presennol wedi eu nodi mewn Safonau Gofynnol Cenedlaethol, a bydd y rhain yn cael eu disodli gan Safonau Ansawdd a nodir mewn is-ddeddfwriaeth. Nid yw'r opsiynau a ffefrir yn ychwanegu unrhyw gyfyngiadau eraill ar allu'r darparwr i ddewis ansawdd y gofal a ddarperir, er mai nod y darpariaethau yw annog darparwyr gwasanaeth i ganolbwyntio ar ansawdd eu gofal, o safbwynt canlyniadau, yn y modd y maent yn cyflwyno'u gwasanaethau. I gydbwyso unrhyw gyfyngiadau y gallai'r pwyslais ar ganlyniadau eu cael ar ddewis darparwyr, o ran ansawdd y gofal, bwriedir lleihau'r cyfyngiadau presennol ar ddewis darparwyr o ran mewnbynnau. O ganlyniad, bydd

gan ddarparwyr gwasanaeth fwy o ddewis o ran sut y maent yn neilltuo adnoddau er mwyn cyflawni'r safonau ansawdd gofynnol. Yn y modd hwn, bydd gan ddarparwyr gwasanaeth fwy o ddewis o ran sut y maent yn neilltuo adnoddau er mwyn cyflawni'r safonau ansawdd gofynnol.

- 8.11 Ni fydd yr opsiynau a ffefrir yn cyfyngu ar allu darparwyr i ddewis pris, amrywiaeth na lleoliad eu gwasanaethau. Er hyn, nod yr opsiynau a ffefrir yw annog darparwyr gwasanaeth i gynhyrchu gwasanaethau sy'n cyd-fynd ag anghenion defnyddwyr gwasanaeth.

Effeithiau Penodol

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

- 8.12 Fel rhan o'r broses o sgrinio polisïau ar gyfer y Bil, rhoddwyd ystyriaeth ofalus i gyfrifoldebau cyfreithiol Llywodraeth Cymru i ymgysylltu â phobl â nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
- 8.13 Fel rhan o'n hymarfer ymgynghori ar y Papur Gwyn, ymgysylltwyd ag amrywiaeth eang o randdeiliaid a grwpiau, rhai ohonynt yn cynrychioli sawl un o'r grwpiau â nodweddion gwarchoddedig, trwy'r broses ffurfiol ac mewn tri sesiwn gweithdy a gynhaliwyd ledled Cymru. Dadansoddwyd yr holl sylwadau a dderbyniwyd gan y grwpiau hyn i gynorthwyo ein modd o feddwl wrth ddatblygu mwy ar y cynigion. Parhawyd i ymgysylltu â'r holl rhanddeiliaid allweddol a'r partion sydd â buddiant trwy gydol y broses o ddatblygu'r Bil.
- 8.14 Bydd gan y cynigion yn y Bil nifer o effeithiau cadarnhaol a negyddol i'r holl ddinasyddion, gan gynnwys y rhai hynny â nodweddion gwarchoddedig, a bydd angen ystyried yr effeithiau hyn yn ofalus wrth i'r cynigion gael eu gweithredu. Er enghraifft, bydd y pwyslais ar ganolbwyntio ar yr unigolyn yn cyflwyno budd cadarnhaol i'r holl ddinasyddion, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchoddedig, gan y bydd yn rhoi mwy o lais a rheolaeth iddynt fel rhan o'r broses o gynllunio'r gwasanaethau gofal cymdeithasol y maent yn eu derbyn ac sy'n cael eu darparu iddynt, trwy sicrhau eu bod yn canolbwyntio mwy ar fodloni eu hanghenion llesiant

unigol. Gallai'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol i gyflwyno adroddiadau blynyddol effeithio ar bobl ifanc, pobl hŷn a phobl ag anabledd dysgu o bosibl, os ydynt yn rhy gymhleth neu os na chânt eu cyhoeddi mewn modd sy'n rhwydd i bawb eu deall; gan felly danseilio'r nod o gynyddu llais a rheolaeth dinasyddion yn y gwasanaethau y maent yn eu derbyn. Fe allai'r adroddiadau blynyddol hefyd fod o fudd i'r grwpiau â nodweddion gwarchoddedig trwy nodi bylchau yn y ddarpariaeth nad ydynt o bosibl wedi eu nodi eisoes (e.e. eiriolaeth, yr Iaith Gymraeg) neu ddarpariaeth a allai fod wedi dod i ben dros amser os nad oedd y gwasanaethau'n cael eu defnyddio.

Hawliau Plant

8.15 Mae'r Bil yn cynnwys nifer o feysydd a fydd yn effeithio ar blant a phobl ifanc, a chynhaliwyd asesiad o effaith y cynigion yn y Bil hwn.

8.16 Bydd y Bil yn sicrhau bod y drefn reoleiddio ac arolygu yn rhoi mwy o lais a rheolaeth i ddinasyddion, gan gynnwys plant a phobl ifanc. Ystyrir y bydd y cynigion yn y Bil yn effeithio ar nifer o erthyglau'r Confensiwn, sef:

- **Erthygl 3:** Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio tuag at yr hyn sydd orau ar gyfer pob plentyn.
- **Erthygl 12:** Mae gan blant yr hawl i fynegi'r hyn a ddylai ddigwydd yn eu barn hwy, pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, a'r hawl i'w safbwyntiau gael eu hystyried.
- **Erthygl 13:** Mae gan blant yr hawl i gael a rhannu gwybodaeth ar yr amod nad yw'r wybodaeth yn niweidiol iddynt hwy ac i eraill.
- **Erthygl 23:** Dylai plant sydd ag unrhyw fath o anabledd gael gofal a chymorth arbennig er mwyn gallu byw bywydau llawn ac annibynnol.
- **Erthygl 25:** Dylai plant sy'n derbyn gofal gan eu hawdurdod lleol, yn hytrach na'u rhieni, gael adolygu eu sefyllfa'n rheolaidd.

8.17 Dyma enghreifftiau o rai o'r cynigion sy'n ymdrin â'r effeithiau hyn:

- bydd system o gyflwyno adroddiadau sy'n seiliedig ar ganlyniadau hefyd yn helpu i ad-drefnu prosesau arolygu'r rheoleiddiwr er mwyn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaeth roi tystiolaeth i ddangos sut y mae eu gwasanaethau'n diwallu anghenion y bobl hynny sy'n eu derbyn, yn hytrach na sicrhau bod y gwasanaethau hynny'n bodloni safonau penodedig;
- bydd tystiolaeth a gesglir fel rhan o'r drefn newydd yn rhoi darlun cyffredinol o lefel y gwasanaeth a ddarperir i blant a phobl ifanc, a gellir defnyddio'r dystiolaeth honno wedyn i benderfynu a oes meysydd y mae angen rhoi sylw iddynt neu sy'n cyflawni ymarfer da y gellid ei rannu ag eraill. Bydd hyn yn ei dro yn cynorthwyo i ganolbwyntio'r ymdrech i gyflawni mwy o welliannau neu roi enghraifft i eraill geisio ei efelychu; a
- rhoddir dyletswydd ar ddarparwyr a chomisiynwyr gwasanaethau (awdurdodau lleol) i baratoi adroddiad blynyddol cyfunol ar ffurf wedi'i safoni, ar ansawdd y gwasanaethau y maent yn eu darparu, nid yn unig ar eu nifer a nifer y lleoliadau lle cânt eu darparu.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Hŷn a Datganiad Llywodraeth Cymru ar Hawliau Pobl Hŷn

- 8.18 Er yr ystyrir bod y Bil yn cynnwys nifer o feysydd a fydd yn effeithio ar bobl hŷn, rydym o'r farn y bydd y fframwaith canlyniadau llesiant a gynigir gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn cwmpasu llawer o'r materion hyn. Bydd y Bil hefyd yn darparu'r un buddion i bobl hŷn â'r rhai yr ydym wedi eu nodi ar gyfer plant a phobl ifanc, gan y byddai'n sicrhau y bydd y drefn reoleiddio ac arolygu yn rhoi mwy o lais a rheolaeth i ddinasyddion.
- 8.19 Er nad yw Datganiad Llywodraeth Cymru ar Hawliau Pobl Hŷn yng Nghymru yn rhwymo'n gyfreithiol, mae'n nodi'n eglur hawliau pobl hŷn yng Nghymru ar sail y gyfraith sydd eisoes yn bodoli – h.y. Deddf Hawliau Dynol 1998 a Deddf Cydraddoldeb 2010. Er hyn, mae'r Datganiad yn rhoi dyletswydd foisol ar wasanaethau a sefydliadau cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i bobl hŷn i gadw mewn cof ac ystyried gweithredu gweithdrefnau sy'n gwella hawliau pobl hŷn ym mhopeth y maent yn ei wneud. Mae hefyd yn rhoi cyfeiriad pendant i bobl hŷn a'r cyrff sy'n eu gwasanaethu yng Nghymru ynglŷn â'r hyn y dylid ei wneud pan fo

risg y gallai'r ddeddfwriaeth hon gael ei thorri. Cynlluniwyd yr hyn a nodir yn y Datganiad yn fwriadol i fod yn eang ei gwmpas, gan nad yw'n fwriad ymdrin â phob 'hawl' ym mhob sefyllfa. Y bwriad yn hytrach yw rhoi cymorth i ddeall natur yr hawliau hynny. Er hyn, caiff y datganiadau eu cryfhau ymhellach gan eu cysylltiadau â'r meysydd a amlinellir yn Natganiad Llesiant Llywodraeth Cymru (a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2013) a'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol a amlinellwyd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Bydd y Bil hefyd yn datblygu fframwaith canlyniadau ar gyfer y sectorau gofal cymdeithasol annibynnol a gwirfoddol i gyd-fynd â'r Fframwaith Cenedlaethol.

Yr effaith ar yr iaith Gymraeg

8.20 O dan Gynllun iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru mae'n ofynnol cynnal asesiad o effeithiau pob Bil ar yr iaith Gymraeg. Cynhaliwyd asesiad o effaith Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) ar yr iaith Gymraeg a chanfuwyd, fel yn achos yr asesiadau effaith a drafodwyd eisoes, y gallai fod effeithiau cadarnhaol a negyddol.

8.21 Dyma enghreifftiau o rai cynigion sy'n mynd i'r afael â'r effeithiau hyn:

- Mae'r cynigion i roi dyletswydd ar ddarparwyr i baratoi adroddiadau blynyddol a fydd yn cynnwys tystiolaeth ynglŷn â sut y maent wedi cyflawni'r canlyniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer eu defnyddwyr gwasanaeth, yn rhan o'r broses o roi mwy o lais a rheolaeth i'r defnyddwyr gwasanaethau hynny. Bydd hyn o gymorth i rymuso siaradwyr y Gymraeg i siarad â darparwyr gwasanaeth yn yr iaith y maent yn ei dewis; bydd hefyd yn rhoi mwy o ddyletswydd ar weithwyr proffesiynol a darparwyr gwasanaeth i weithio gyda defnyddwyr a'u teuluoedd a'u gofalwyr i sicrhau bod anghenion y defnyddwyr yn cael eu hystyried fel rhan annatod o'r broses o gynllunio gwasanaethau.
- Mwy o bartneriaeth rhwng yr holl bartïon – e.e. Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, darparwyr gwasanaeth a'r rheoleiddwyr; a chyda Chyngor Gofal Cymru i nodi anghenion addysgol eu gweithlu.
- Bydd y cynigion i roi dyletswydd ar reoleiddiwr y gwasanaeth (Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru) i gynnwys dinasyddion a'u

teuluoedd/gofalwyr yn eu prosesau a'u harferion, hefyd yn rhoi mwy o lais a rheolaeth i unigolion, gan y byddant yn gallu cyfrannu eu sylwadau'n uniongyrchol ynglŷn â'r gwasanaethau y maent yn eu derbyn.

- Bydd y cynigion i ad-drefnu Cyngor Gofal Cymru a ffurfio Gofal Cymdeithasol Cymru yn uno nifer o feysydd gwaith a chyllid gan greu strwythur mwy cydlynol, a bydd hyn yn caniatáu i'r "Sefydliad" addasu ei ymdrechion i ymdrin â meysydd penodol fel sy'n ofynnol a chynorthwyo i sbarduno gwelliannau parhaus yn y gweithlu gofal cymdeithasol. Bydd hyn yn cyd-fynd â'r ddelfryd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), sy'n rhoi mwy o lais a rheolaeth i'r dinesydd, a bydd yn agwedd bwysig ar y drefn reoleiddio ac arolygu newydd.

8.22 Bydd yr holl feysydd gwaith hyn yn cael effaith gadarnhaol i siaradwyr y Gymraeg, ond gallai achosi mwy o oblygiadau ariannol i'r rheoleiddwyr (e.e. mae'r Arolygiaeth yn amcangyfrif y gallai'r gost o argraffu ei holl adroddiadau'n ddwyieithog fod dros bum gwaith yn fwy na'r lefel bresennol) a gallai fod yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaeth ystyried a oes angen mwy o adnoddau er mwyn darparu gwasanaethau yn yr iaith Gymraeg.

Datblygiad cynaliadwy

8.23 Ar ôl ystyried y canllawiau ynglŷn â chynnal Asesiad Effaith Amgylcheddol, penderfynwyd na fyddai'r Bil arfaethedig hwn yn effeithio ar unrhyw faterion amgylcheddol.

Prawfesur polisïau o safbwynt anghenion cefn gwlad

8.24 Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymrwymiad i sicrhau bod ei holl bolisïau a'i raglenni yn ystyried anghenion cymunedau gwledig wrth eu llunio a'u rhoi ar waith. Er mwyn deall a fydd y cynigion yn cael unrhyw effaith ar ardaloedd gwledig Cymru, rydym wedi cynnal asesiad effaith prawfesur polisïau gwledig o Fil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru).

8.25 Nod y Bil yw creu trefn reoleiddio ar gyfer gofal cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau llesiant y defnyddwyr gwasanaethau ac ar y gwasanaethau sy'n cael eu darparu i gyflawni'r canlyniadau hyn. Er na fydd yn

newid y fethodoleg bresennol o ddarparu gwasanaethau, bydd yn diwygio'r drefn reoleiddio ac arolygu ac yn gosod y dinesydd wrth wraidd y broses ac rydym wedi nodi bod potensial i'r cynigion gael effaith negyddol a chadarnhaol ar gymunedau gwledig. Mae tystiolaeth anecdotaidd ac ymchwil yn dangos bod llawer o gymunedau gwledig eisoes yn ei chael yn anodd cael gafael ar rai gwasanaethau'n rhwydd, a bod angen i bobl wario eu harian eu hunain neu ddefnyddio arian cyhoeddus deithio'n llawer pellach neu symud i ffwrdd er mwyn eu derbyn. Er nad oes modd bob amser darparu gwasanaethau o'r fath yn lleol, bydd y cynigion o gymorth i sicrhau bod darparwyr a chomisiynwyr gwasanaethau (awdurdodau lleol) yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio mwy ar anghenion yr unigolyn, gan gynnwys ystyried a yw'n bosibl eu darparu yn y gymuned neu'n agos ati. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod awdurdodau lleol eisoes yn ystyried dulliau o leihau costau a darparu gwasanaethau trwy gydweithio mwy â phartneriaid ym meysydd llywodraeth leol, gofal iechyd a'r trydydd sector.

Iechyd a Llesiant

- 8.26 Yn dilyn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), a fydd yn gweddnewid y modd y darperir gwasanaethau gofal cymdeithasol, gan hybu annibyniaeth pobl er mwyn rhoi llais a rheolaeth gryfach iddynt, bydd y Bil hwn yn sicrhau bod y drefn reoleiddio yng Nghymru yn adlewyrchu'r newidiadau hyn yn gywir, gan gynnwys newidiadau mewn ymarfer cyfoes sy'n digwydd yn y sector, i sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys yn y fframwaith rheoleiddio ac yn darparu sicrwydd i'r cyhoedd bod gwasanaethau'n cael eu monitro a'u darparu i safon uchel.
- 8.27 Os na weithredir y newidiadau a amlinellir yn y Bil hwn, ceir effaith niweidiol ar yr holl ddefnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd a'u gofalwyr, oherwydd y bydd yn atal y rheoleiddiwr rhag sicrhau y gall fonitro'r sector gofal cymdeithasol a sicrhau bod y sector hwnnw'n darparu gwasanaethau o ansawdd uchel ac yn cyflawni'r canlyniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer unigolion sy'n agored i niwed; ond bydd goblygiadau difrifol hefyd o ran gwella llais defnyddwyr a'u rheolaeth dros y gwasanaethau y maent yn eu derbyn.

Yr effaith ar breifatrwydd

8.28 Mae'r Bil wedi ei gynllunio i gefnogi'r rheoleiddwyr i gyflawni eu dyletswyddau a disgwyliadau Llywodraeth Cymru, sef sicrhau llesiant dinasyddion a gwella ansawdd gofal cymdeithasol, mewn amgylchedd sy'n newid yn barhaus lle y mae modelau gwasanaeth newydd yn datblygu nad ydynt yn rhwydd eu diffinio o fewn dosbarthiadau'r drefn reoleiddio ac arolygu bresennol. Heb y camau hyn bydd ein trefniadau rheoleiddio'n gyflym yn mynd yn hen ac yn gyfyngedig. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn nodi trefniadau newydd ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru, a'r hyn sydd wrth eu gwraidd yw dull o ddarparu gwasanaethau sy'n seiliedig ar ganlyniadau ac sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion. Rhaid i'n gwaith o reoleiddio ac arolygu'r gofal cymdeithasol hwn hefyd fod yn seiliedig ar yr effaith y bydd y gwasanaethau hyn yn ei chael ar yr holl ddinasyddion y mae arnynt eu hangen, nid ar gyfres o safonau gofynnol.

8.29 Yn rhan o'r drefn reoleiddio newydd, bydd y Bil yn cynnwys pwerau a fydd yn caniatáu i'r rheoleiddwyr (Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Chyngor Gofal Cymru) gynnwys modelau gwasanaeth sy'n dod i'r amlwg yn y fframwaith rheoleiddio – gan gynnwys cofrestru'r gweithlu. Mae'r pwerau hyn eisoes yn bodoli o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 ac maent yn ddarostyngedig i'r rheoliadau a nodir yn Neddf Diogelu Data 1998; a byddai unrhyw ychwanegiadau at y gofrestr yn ddarostyngedig i'r un camau diogelu a gynigir gan y ddeddfwriaeth hon.

Yr effaith ar y sector gwirfoddol

8.30 Mae nifer o sefydliadau yn y sector gwirfoddol sy'n darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol yn uniongyrchol i bobl Cymru ac ar ran awdurdodau lleol sy'n comisiynu'r gwasanaethau. Pan fyddant yn darparu gwasanaethau ar ran awdurdodau lleol, maent yn derbyn arian cyhoeddus i wneud hynny. Byddant, fel eu cydweithwyr yn y sectorau cyhoeddus ac annibynnol sy'n darparu gwasanaethau, yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau newydd y bydd y Bil yn eu cynnig a bydd yn ofynnol iddynt ddangos tystiolaeth i'r rheoleiddwyr ynglŷn â sut y mae eu gwasanaethau'n cyflawni canlyniadau llesiant y cytunwyd arnynt ar gyfer eu defnyddwyr. Bydd trefn o gyflwyno adroddiadau sy'n seiliedig ar ganlyniadau, yn hytrach na'r un bresennol sy'n seiliedig ar safonau gofynnol, yn cynorthwyo'r

rheoleiddwyr a'r darparwyr gwasanaeth i weld sut y mae'r gwasanaethau'n diwallu anghenion y bobl hynny sy'n eu derbyn. Bydd hyn yn ei dro yn cynorthwyo i ganolbwyntio'r ymdrech i gyflwyno mwy o welliannau neu'n darparu enghraifft i bobl eraill geisio eu hefelychu.

Adran 9: Adolygiad ôl-weithredu

9.1 Mae gan Lywodraeth Cymru ddau nod polisi eglur ynglŷn â rheoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Nodau cyffredinol y Bil hwn yw:

- Sicrhau llesiant dinasyddion.
- Gwella ansawdd gofal cymdeithasol.

9.2 Mae'r Bil yn darparu ar gyfer nifer o ddulliau allweddol o gyflwyno adroddiadau a fydd yn cynnig tystiolaeth eglur i gyfrannu at yr adolygiad ar ôl gweithredu a phennu pa mor llwyddiannus y bu'r Bil o ran cyflawni'r ddau nod hyn. Mae'r dulliau o gyflwyno adroddiadau yn cynnwys:

- Adroddiadau blynyddol gan ddarparwyr gwasanaeth.
- Adroddiadau blynyddol gan awdurdodau lleol ac adolygiad o'r adroddiadau hynny yn yr Adolygiad Blynyddol o Berfformiad a Gwerthusiad o Berfformiad gan reoleiddiwr y gwasanaeth.
- Adroddiad blynyddol gan Weinidogion Cymru yn eu swyddogaeth fel rheoleiddiwr y gwasanaeth.
- Adroddiad blynyddol rheoleiddiwr y gweithlu.

9.3 Hefyd, mae fframwaith mesur perfformiad yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno adroddiad sy'n cymharu eu perfformiad â hwn o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Rhagwelir y bydd yr wybodaeth a gesglir yn sgil yr adroddiad ychwanegol hwn yn cyfrannu at adolygiad ôl-weithredu'r Bil hwn.

9.4 Mae'r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth fel bod modd i reoleiddiwr y gwasanaeth gyflwyno dyfarniadau ansawdd i ddarparwyr gwasanaeth fel rhan o'u prosesau arolygu. Er nad bwriad y dyfarniadau ansawdd hyn yw creu system gynghrair gyffredinol, rhagwelir y byddant yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol o ran asesu sut y mae'r Bil yn cyflawni ei amcanion.

Atodiad A: Nodiadau Esboniadol

BIL RHEOLEIDDIO AC AROLYGU GOFAL CYMDEITHASOL (CYMRU)

NODIADAU ESBONIADOL

CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 23 Chwefror 2015. Fe'u lluniwyd gan Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Bil. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Bil ond nid ydynt yn rhan ohono.

CEFNDIR POLISI

2. Nododd Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2011 gyfeiriad polisi Llywodraeth Cymru tuag at newid y system gofal cymdeithasol yng Nghymru yn llwyr. Prif nodau'r ddogfen honno oedd -
 - Darparu gwell gwasanaethau cymdeithasol drwy roi llais llawer cryfach i ddefnyddwyr a gofalwyr ynghyd â mwy o reolaeth dros y gwasanaethau y maent yn eu cael.
 - Sicrhau bod pobl yn cael y cymorth y mae ei angen arnynt i fyw bywyd llawn.
3. Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") oedd yr offeryn deddfwriaethol cyntaf a wnaed i gyflawni'r nodau hyn. Newidiodd y Ddeddf hon y sector cyfan yn llwyr, gan osod llesiant wrth wraidd gofal a chymorth a chodi'r disgwyliadau a oedd ar wasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.
4. Roedd y newidiadau a gyflwynwyd fel rhan o Ddeddf 2014 yn golygu bod angen ailwampio'n llwyr y system reoleiddio yng Nghymru mewn cysylltiad â gofal cymdeithasol a chyflwyno'r Bil hwn. Felly, mae nodau'r Bil hwn ar amryw lefelau wedi eu cysylltu'n sylfaenol â'r newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf 2014. Nodau'r Bil hwn yw-
 - Rhoi'r dinesydd wrth wraidd y system.
 - Creu system sy'n deall effaith gwasanaethau ar fywydau pobl.

- Sicrhau bod darparwyr gwasanaethau yn briodol atebol.
 - Gwella rhannu gwybodaeth a chydweithredu.
 - Deall y dyfodol yn well ac osgoi methiannau annisgwyl.
 - Gwneud newid sylweddol yn yr agenda wella.
 - Cefnogi datblygiad y gweithlu gorau posibl.
 - Darparu system reoleiddio ar gyfer darparwyr gwasanaethau a'r gweithlu sy'n gadarn ac yn dryloyw.
 - Lleihau cymhlethdod y gyfraith a darparu hyblygrwydd ar gyfer y dyfodol.
5. Yn ogystal, mae'n bwysig dysgu o'r digwyddiadau difrifol fel Southern Cross, Canolbarth Swydd Stafford a Winterbourne View. Roedd y rhain i gyd yn enghreifftiau o'r troseddau o gam-drin ac esgeuluso oedolion sy'n hyglwyf yn Lloegr. Nid ydym yn ddiogel rhag digwyddiadau difrifol yng Nghymru a rhaid inni hefyd ddysgu o'r gwersi a ddaeth i'r amlwg yn Ymgyrch Jasmine, sydd ar hyn o bryd yn destun adolygiad annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i gam-drin ac esgeulustod mewn cartrefi gofal preswyl yn Ne Cymru.
6. Gan gydnabod na ddylem adeiladu ein systemau rheoleiddio yn seiliedig ar fethiant, nid oes modd inni anwybyddu'r llu o wersi clir sydd wedi dod i'r amlwg yn yr achosion hyn. Yn sgil Southern Cross, rhaid inni ddeall nad yw gofal cymdeithasol yn ddiogel rhag effaith y farchnad, a rhaid inni ddeall y risgiau sy'n gysylltiedig â methiant darparwr. Yn sgil Canolbarth Swydd Stafford, rhaid inni sicrhau nad yw gwybodaeth wahanol yn cael ei diystyru a'n bod yn gwranddo ar y rhai hynny sy'n ymwneud fwyaf uniongyrchol â'n gwasanaethau gofal. Yn sgil Winterbourne, rydym wedi cydnabod nad dim ond y rhai hynny sydd ar flaen y gad sydd ar fai am gam-drin. Mae'r gwersi uchod ynghyd ag ymgysylltu ac ymgynghori'n helaeth â rhanddeiliaid wedi ein harwain at ddatblygu'r systemau rheoleiddio a sefydlir gan y Bil hwn.
7. Gwnaeth Adroddiad Ymchwiliad Cyhoeddus Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canolbarth Swydd Stafford o dan gadeiryddiaeth Roberts Francis C.F. (adroddiad ymchwiliad Francis) nifer o argymhellion mewn perthynas â chyfarwyddwyr a gallu'r rheoleiddiwr i ddwyn achos yn erbyn cyfarwyddwyr. Mewn ymateb i'r argymhellion hynny, diwygiodd Llywodraeth y DU Reoliadau a wnaed yn unol â'r pwerau sydd wedi eu cynnwys yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 i'w gwneud yn ofynnol i gyfarwyddwyr fodloni gofyniad o ran addasrwydd. Ar hyn o bryd, dim ond i gyrff gwasanaeth iechyd y mae'r rheoliadau hynny'n gymwys. Er hynny, o fis Ebrill 2015 ymlaen, byddant yn cael eu hestyn i bob darparwr gofal iechyd annibynnol a phob darparwr annibynnol gofal cymdeithasol i oedolion sydd wedi eu cofrestru â'r Comisiwn Ansawdd Gofal. Os bydd corff gwasanaeth iechyd yn methu â chydymffurfio â'r gofyniad hwn, gallai fod amod yn cael ei osod wrth ei gofrestriad â'r Comisiwn Ansawdd Gofal.

TROSOLWG CYFFREDINOL O'R BIL

8. Mae'r Bil wedi ei rannu'n 11 o Rannau a thair Atodlen -

- Rhan 1 - Rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol
- Rhan 2 - Trosolwg o Rannau 3 i 8 a'u Dehongli
- Rhan 3 - Gofal Cymdeithasol Cymru
- Rhan 4 - Gweithwyr Gofal Cymdeithasol
- Rhan 5 - Gweithwyr Gofal Cymdeithasol: Safonau ymddygiad, addysg etc.
- Rhan 6 - Gweithwyr Gofal Cymdeithasol: Addasrwydd i ymarfer
- Rhan 7 - Gorchmynion sy'n gwahardd gwaith mewn gofal cymdeithasol: Personau anghofrestredig
- Rhan 8 - Gofal Cymdeithasol Cymru: Dyletswydd i sefydlu paneli etc.
- Rhan 9 - Cydweithredu a chydweithio gan y cyrff rheoleiddiol etc.
- Rhan 10 - Amrywiol a chyffredinol
- Rhan 11 - Darpariaethau terfynol

9. Mae'r Bil yn cyflwyno system newydd o reoleiddio gwasanaethau gofal a chymorth, gan ddisodli'r un sy'n gweithredu ar hyn o bryd o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 ("Deddf 2000"). Mae Rhan 1 o'r Bil yn nodi'r prosesau rheoleiddio sy'n gymwys i berson sy'n dymuno darparu gwasanaeth rheoleiddiedig yng Nghymru. Mae hefyd yn darparu manylion mewn cysylltiad â rheoleiddio swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ac yn sefydlu'r prosesau newydd ar gyfer awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru iddynt wneud asesiad o'r farchnad gofal a chymorth.

10. Mae Rhan 3 o'r Bil yn ailenwi Cyngor Gofal Cymru yn Gofal Cymdeithasol Cymru. Ni fydd Gofal Cymdeithasol Cymru ond yn cyflawni swyddogaethau rheoleiddiwr y gweithlu ond bydd yn cyflawni rôl bwysig yn y gwaith o wella'r gweithlu a'r gwasanaeth.

11. Mae Rhannau 4 - 8 yn ailddatgan llawer o'r darpariaethau perthnasol yn Neddf 2000 sy'n ymwneud â chofrestru gweithwyr gofal cymdeithasol, addasrwydd i ymarfer etc. Mae'r Rhannau hyn wedi eu llywio hefyd gan adroddiad diweddar Comisiwn y Gyfraith ar reoleiddio gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol ac mae'r gyfundrefn reoleiddio wedi ei diweddarau i adlewyrchu llawer o'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad hwn.

12. Mae Rhan 9 yn sefydlu prosesau manylach ar gyfer rhannu gwybodaeth a chydweithio rhwng cyrff rheoleiddiol.

13. Mae Rhan 10 yn manylu ar bwerau Gweinidogion Cymru i gychwyn ymchwiliad i unrhyw fater sy'n ymwneud â darparu gofal a chymorth.

14. Mae Rhan 11 yn darparu manylion mewn cysylltiad â mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol a'r rheoliadau sydd i'w gwneud. Mae hefyd yn darparu manylion mewn cysylltiad â chychwyn y Bil hwn a mynegai a diffiniadau o ymadroddion sy'n cael eu defnyddio ynddo.

SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

Rhan 1 - Rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol

Pennod 1 - Cyflwyniad

Adran 2 - Ystyr "gwasanaeth rheoleiddiedig"

15. Mae Rhan 1 (Penodau 1-5 a 7) o'r Bil yn disodli'r model presennol o gofrestru sefydliad ac asiantaeth yn Neddf 2000 at ddiben rheoleiddio gofal cymdeithasol yng Nghymru. Yn lle hynny, mae adran 2(1) yn rhestru'r "gwasanaethau rheoleiddiedig" a fydd yn destun rheoleiddio gan Weinidogion Cymru yn unol â Rhan 1. Manylir ar ystyr pob cofnod yn y rhestr yn Atodlen 1. Mae'r gwasanaethau sy'n cael eu rhestru yn Atodlen 1 yn cyfateb yn fras i'r sefydliadau a'r asiantaethau sy'n cael eu rheoleiddio ar hyn o bryd yn unol â darpariaeth yn Neddf 2000 ac yn ymwneud â'r mathau o wasanaethau sy'n darparu gofal a chymorth i bersonau ym maes gofal cymdeithasol. Yn y dyfodol, efallai y bydd yn ddymunol rheoleiddio gwasanaethau eraill sy'n darparu gofal a chymorth, er enghraifft, gwasanaethau eirioli. Mae is-adran 1(h) yn darparu'r pŵer i ychwanegu at y rhestr honno.
16. Mae'n bosibl bod rhai pethau nas ystyrid yn un o'r gwasanaethau rheoleiddiedig hynny pan fo rhesymau da dros beidio â'u rheoleiddio drwy'r Bil hwn. Felly, mae is-adran (3) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n nodi nad yw gwasanaethau a fyddai'n dod o fewn y rhestr yn is-adran (1) fel arall i'w trin fel gwasanaethau rheoleiddiedig. Mae adran 186(2)(a) yn pennu bod rhaid i reoliadau sy'n cael eu gwneud o dan yr adran hon gael eu gwneud drwy ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol.

Adran 3 - Termau allweddol eraill

17. Mae'r adran hon yn diffinio nifer o dermau pwysig sy'n cael eu defnyddio yn y Rhan hon o'r Bil, gan gynnwys y termau "gofal" a "cymorth". Mae hwn yn ddull gwahanol i'r dull a welir yn Neddf 2014 pan na ddiffinnir y termau hynny fel bod y rhwymedigaethau i asesu anghenion person a darparu ar eu cyfer yn ystyried yr ystod ehangaf bosibl o ofal a chymorth y gall fod eu hangen ar berson. Yn gyferbyniol, mae'r Bil hwn yn gosod cyfundrefn reoleiddiol ar bersonau sy'n darparu gwasanaeth sy'n gyfystyr â darparu gofal a chymorth. Felly, mae'n bwysig bod peth sicrwydd ynghylch ystyr gofal a chymorth fel bod darparwr gwasanaeth yn ymwybodol ei fod yn darparu gwasanaeth y caniateir iddo gael ei reoleiddio. Yn ogystal, mae'n golygu bod unrhyw wasanaethau yn y dyfodol y caniateir iddynt gael eu rhagnodi yn unol â'r pŵer sydd yn adran 2(1)(h) yn

gyfyngedig i'r rhai hynny sy'n darparu gofal a chymorth fel y'u disgrifir yn yr adran hon.

18. Efallai y bydd gwasanaethau sy'n dod o fewn y diffiniadau o ofal a chymorth y mae angen iddynt gael eu heithrio fel nad ydynt yn dod o dan gyfundrefn reoleiddiol y Bil ac fel bod gan bersonau sy'n ymwneud â'r pethau hynny sicrwydd bod hynny'n wir. Mae adran 3(3) felly yn darparu'r pŵer i Weinidogion Cymru drwy reoliadau i nodi'r pethau nad ydynt i'w hystyried yn wasanaethau rheoleiddiedig oherwydd eu bod eisoes, efallai, yn ddarostyngedig i gyfundrefn reoleiddiol arall, er enghraifft tai neu iechyd.

Atodlen 1

19. Mae'r diffiniad o wasanaeth cartref gofal ym mharagraff 1 yn cwmpasu cartrefi plant a chartrefi i oedolion. Nid yw ysbytai nac ysgolion wedi eu cynnwys gan eu bod yn cael eu rheoleiddio drwy'r system iechyd a'r system addysg yn y drefn honno. Mae'r eithriadau eraill yn is-baragraff (2) oll yn cael eu trin fel mathau ar wahân o wasanaethau rheoleiddiedig. Mae hyn yn golygu bod modd gosod gofynion gwahanol ar y mathau gwahanol o wasanaethau (er enghraifft, drwy reoliadau o dan adran 26).
20. Ym mharagraff 5, nid yw gwasanaethau maethu a ddarperir gan awdurdodau lleol wedi eu cynnwys gan fod gwasanaethau awdurdodau lleol i'w rheoleiddio o dan adran 94A o Ddeddf 2014 sy'n cael ei mewnosod gan adran 57 o'r Bil hwn.
21. Mae paragraff 7(2) yn nodi eithriadau i'r hyn sydd i'w ystyried yn wasanaeth gofal cartref. Os darperir y gofal a'r cymorth gan berson (perthynas, ffrind neu gymydog o bosibl) nad yw ond yn darparu gofal a chymorth i un person penodol a'i fod yn gwneud hynny ar sail bersonol (h.y. nid yw'n rhan o fusnes neu wasanaeth ffurfiol) yna nid yw'r ddarpariaeth honno o ofal a chymorth yn cael ei rheoleiddio o dan y Bil. Mae paragraff 7(3) yn darparu eithriad pellach fel na fydd y rheini nad ydynt ond yn cyflwyno person i unigolyn y mae'n ofynnol iddo gael gofal cartref yn gymwys i'w reoleiddio o dan y Bil. Y brif agwedd ar yr eithriad yma yw bod diffyg rôl barhaus mewn perthynas â chyfarwyddo neu reoli'r ddarpariaeth o ofal a chymorth.

Adrannau 5-28 - Pennod 2 - Cofrestru etc. darparwyr gwasanaethau

Gofyniad i gofrestru (Adran 5)

22. Dyma'r rheol sylfaenol sy'n sail i'r broses o reoleiddio gwasanaethau gofal a chymorth. Rhaid i unrhyw berson sy'n darparu un o'r gwasanaethau rheoleiddiedig a restrir yn adran 2(1) gofrestru gyda Gweinidogion Cymru. Mae darparu un o'r gwasanaethau hynny pan nad ydych wedi eich cofrestru yn drosedd ac mae modd ei chosbi â dirwy ddiderfyn neu garchar am hyd at 2 flynedd (neu'r ddau) (gweler adran 50(1)).

Cais i gofrestru fel darparwr gwasanaeth (Adran 6)

23. Mae adran 6 yn nodi'r broses y caiff person wneud cais i Weinidogion Cymru drwyddi i ddod yn ddarparwr gwasanaeth.
24. Mae is-adran (1)(b) yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd bennu'r "mannau hynny y mae'r gwasanaeth i'w ddarparu ynddynt, ohonynt neu mewn perthynas â hwy". O ran ceisiadau i gofrestru, mae'r dull a ddefnyddir yn y Bil hwn yn newydd ac wedi ei anelu at:
- ddarparu hyblygrwydd i ddarparwyr o ran y gwasanaethau y maent yn ceisio eu darparu a'r mannau y dymunant ddarparu'r gwasanaethau ynddynt;
 - osgoi dyblygu mewn perthynas â'r wybodaeth a'r ddogfennaeth y mae rhaid eu darparu i'r rheoleiddiwr wrth geisio darparu gwasanaeth; a
 - darparu hyblygrwydd i'r rheoleiddiwr yn y ffordd y mae'n cyflawni'r gweithdrefnau gorfodi.
25. Bwriedir i'r ymadrodd "ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef" gwmpasu'r holl ffyrdd y gall gwasanaeth gael ei ddarparu. Bwriedir i'r ymadrodd "ynddo" gwmpasu pethau fel gwasanaeth cartref gofal pan fo'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu o fewn mangre benodol. Bwriedir i'r ymadrodd "ohono" gwmpasu'r swyddfeydd lle y mae'r rhai hynny sy'n darparu'r gwasanaethau wedi eu lleoli o bosibl ond eu bod yn teithio oddi yno i ddarparu gwasanaeth (er enghraifft gwasanaeth maethu neu wasanaeth cymorth cartref). Gall man fel hyn hefyd fod yn fan y mae pobl yn teithio iddo o dro i dro er mwyn cael y gwasanaeth. Bwriedir i'r ymadrodd "mewn perthynas ag ef" gwmpasu'r ardaloedd daearyddol lle y mae gwasanaeth yn cael ei ddarparu, er enghraifft, yr ardal y mae darparwr gwasanaeth maethu neu wasanaeth cymorth cartref yn ei chwmpasu. Er enghraifft, caiff person wneud cais i fod yn ddarparwr gwasanaeth gofal cartref o swyddfa ym Mhen-y-bont ar Ogwr gyda'r bwriad o ddarparu'r gwasanaeth hwnnw mewn perthynas â Bwrdeistrefi Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot.
26. Mae'r gofyniad i'r darparwr gwasanaeth ddynodi unigolyn i'w gofrestru fel yr unigolyn cyfrifol yn is-adran (1)(c) hefyd yn newydd. Mae'r Bil yn gwyro oddi wrth y system gofrestru a geir yn Neddf 2000 sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n ceisio rheoli sefydliad neu asiantaeth gofrestru gyda Gweinidogion Cymru. Mae adran 19 yn gosod cyfyngiadau ar y mathau o unigolion y gellir eu pennu, ac unwaith y pennir hwy, bydd unigolion cyfrifol yn ddarostyngedig i ofynion penodol o dan reoliadau a wneir yn unol ag adran 27.

Caniatáu neu wrthod cofrestriad fel darparwr gwasanaeth (Adran 7)

27. Mae adran 7 yn nodi'r camau y mae rhaid i Weinidogion Cymru eu cymryd mewn cysylltiad â chais a geir yn unol ag adran 6. Rhaid caniatáu'r cais os yw'r ymgeisydd yn bodloni'r meini prawf yn is-adran (1).

28. O ran caniatáu'r cais, mae is-adran (3)(a)(i) yn pennu bod rhaid iddo fod yn ddarostyngedig i amod sy'n pennu'r manau hynny y mae'r gwasanaeth i'w ddarparu "ynddynt, ohonynt neu mewn perthynas â hwy". Mae hyn i adlewyrchu'r dull newydd o gynnal y broses geisiadau pan gaiff person sy'n gwneud cais i fod yn ddarparwr gwasanaeth bennu bwriad i ddarparu mwy nag un gwasanaeth mewn mwy nag un man. Mae gosod yr amod hwn yn ei gwneud yn glir mai dim ond yn y manau hynny a bennir gan Weinidogion Cymru y mae modd darparu gwasanaeth.
29. Mewn geiriau eraill, wrth ddyfarnu ar y cais hwnnw, caiff Gweinidogion Cymru ganiatáu agwedd benodol ar y cais gan wrthod agweddau eraill. Er enghraifft, caiff darparwr wneud cais i ddarparu gwasanaeth cartref gofal a gwasanaeth cymorth cartref. Wrth ddyfarnu ar y cais efallai y bydd Gweinidogion Cymru o'r farn nad yw'r darparwr yn gallu bodloni'r gofynion rheoleiddiol yn unol ag adran 26 mewn cysylltiad â'r gwasanaeth gofal cartref ac felly dim ond y cais i ddarparu gwasanaeth cartref gofal y byddant yn ei ganiatáu gan wrthod y cais mewn cysylltiad â darparu gwasanaeth gofal cartref.
30. Os yw darparwr yn bodloni'r gofynion mewn cysylltiad â'r ddau fath o wasanaeth rhaid i Weinidogion Cymru nodi'r rhai hynny fel amod cofrestru oherwydd ni chofrestrir y darparwr i ddarparu unrhyw wasanaeth rheoleiddiedig mewn unrhyw fan. Rhaid i unrhyw wasanaeth neu fan ychwanegol y mae'r darparwr yn ceisio darparu gwasanaeth ohono yn y dyfodol gael ei ychwanegu at gofrestriad y person hwnnw. Mae'r darparwr yn gwneud hyn drwy wneud cais i amrywio ei gofrestriad (gweler adran 9).
31. Fel gyda'r amod am fannau, gallai Gweinidogion Cymru fod wedi eu bodloni ynghylch yr unigolyn a ddynodir fel yr unigolyn cyfrifol mewn cysylltiad â rhai manau ond nid mewn cysylltiad â manau eraill. Bwriad cofrestru'r darparwr gwasanaeth yw caniatáu i unigolyn fod yn unigolyn cyfrifol mewn perthynas â manau a bennir ar dystysgrif gofrestru'r person hwnnw yn unig. Mae is-adran 3(a)(ii) yn pennu bod rhaid i achos o ganiatáu cais gan Weinidogion Cymru fod yn ddarostyngedig i amod sy'n pennu'r unigolyn cyfrifol ar gyfer yr holl fannau hynny y mae gwasanaeth i'w ddarparu ynddynt, ohonynt neu mewn perthynas â hwy. Rhaid ychwanegu unigolyn cyfrifol newydd neu wneud unigolyn cyfrifol sydd eisoes yn unigolyn cyfrifol yn gyfrifol am fan ychwanegol drwy wneud cais i'r cofrestriad gael ei amrywio o dan adran 9.
32. Yn ychwanegol at yr amodau mandadol ynghylch manau ac unigolion cyfrifol, gall Gweinidogion Cymru osod amodau eraill ar gofrestriad. Mae hyn yn adlewyrchu pŵer presennol Gweinidogion Cymru i osod amodau o dan adran 13(3) o Ddeddf 2000. Mae'r mathau o amodau y gellid eu gosod o dan is-adran (3)(b) yn cynnwys gosod cyfyngiad ar nifer y preswylwyr sydd mewn gwasanaeth cartref gofal neu gyfyngiad ar oedran y preswylwyr hynny, gofyniad am gyfyngiadau priodol ar staffio, megis gofyniad am nifer penodol o staff nyrsio, neu

yn achos gwasanaeth cymorth cartref, cyfyngu ar dderbyn unrhyw becynnau gofal newydd.

Cais i amrywio cofrestriad fel darparwr gwasanaeth (Adran 9)

33. Os yw darparwr gwasanaeth am amrywio unrhyw un neu ragor o ffiniau ei gofrestrriad (ee. drwy ychwanegu gwasanaeth rheoleiddiedig newydd neu fan newydd neu newid yr unigolion cyfrifol sydd wedi eu cofrestru) rhaid iddo wneud cais am amrywio ei gofrestrriad o dan yr adran hon.

34. Pŵer i wneud rheoliadau yw is-adran (2) sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru nodi terfyn amser ar gyfer gwneud cais gan y darparwr gwasanaeth i amrywio ei gofrestrriad i ddynodi person newydd yn unigolyn cyfrifol mewn cysylltiad â'r gwasanaeth hwnnw neu fan y cyflawnir gwaith y gwasanaeth ynddo. Os yw unigolyn cyfrifol yn marw neu'n peidio â gallu cyflawni'r rôl, neu os caiff dynodiad yr unigolyn ei ganslo gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 20 gan nad yw'n bodloni'r gofynion yn adran 19 mwyach, rhaid bod gan y darparwr gwasanaeth unigolyn arall i gymryd ei le neu byddai'n cyflawni trosedd o dan adran 41. Felly, mae'n rhesymol darparu ar gyfer cyfnod penodol pan allai fod bwlch wrth gofrestru unigolyn cyfrifol newydd. Bwriad y pŵer hwn i wneud rheoliadau yw darparu ar gyfer hyn a chaiff bennu terfynau amser gwahanol o dan amgylchiadau gwahanol (er enghraifft, gallai fod yn rhesymol i'w gwneud yn ofynnol i ddarparwr gwasanaeth weithredu'n gyflym i ddod o hyd i unigolyn cyfrifol arall pan fo wedi bod yn glir ers peth amser fod cofrestriad yr unigolyn cyfrifol presennol yn mynd i gael ei ganslo. Wedi dweud hyn, efallai y caniateir bwlch hwy pan fo unigolyn cyfrifol yn marw'n annisgwyl).

Caniatáu neu wrthod cais am amrywiad (Adran 10)

35. Mewn achos pan fo darparwr gwasanaeth wedi gwneud cais i amrywio neu ddileu amod a osodir gan Weinidogion Cymru o dan adran 9(1)(b), mae is-adran (2) yn ei gwneud yn glir y gallai Gweinidogion Cymru benderfynu amrywio'r amod mewn modd sy'n wahanol i'r hyn a bennir yn y cais, neu yn wir, gallent osod amod cwbl wahanol (naill ai yn ychwanegol at yr amod a nodir yn y cais neu yn ei le). O gofio ystod eang yr amodau a allai fod yn ddarostyngedig i gais amrywio, mae'n briodol i Weinidogion Cymru gael y pŵer i gymryd pa gamau bynnag y maent yn eu hystyried yn fwyaf priodol o dan yr amgylchiadau. Fel arall, byddai Gweinidogion Cymru yn gyfyngedig i ganiatáu neu wrthod y cais ar ei delerau ac yna yn gorfod defnyddio gweithdrefn wahanol o dan adran 11 i wneud unrhyw amrywiad ychwanegol.

36. Mae is-adran (4) yn sicrhau bod rhaid i Weinidogion Cymru roi hysbysiad o'r hyn y maent yn bwriadu ei wneud mewn cysylltiad â chais o dan yr adran hon ymlaen llaw i ddarparwr. Rhaid iddynt hefyd roi hysbysiad am y penderfyniad yn y pen draw er mwyn iddo gymryd effaith (gweler adrannau 16 i 18).

Amrywio heb gais (Adran 11)

37. Hyd yn oed os nad oes cais i amrywio cofrestriad wedi ei wneud, efallai y bydd Gweinidogion Cymru ystyried ei bod yn angenrheidiol gwneud amrywiad (er enghraifft, efallai fod arolygiad o dan adran 32 wedi tynnu sylw Gweinidogion Cymru at y ffaith bod angen amrywio'r cofrestriad).
38. Mae'r adran hon yn pennu'r amgylchiadau pan fo Gweinidogion Cymru yn gallu amrywio cofrestriad darparwr gwasanaeth heb gael cais ganddo.
39. O ganlyniad i'r dull newydd o gofrestru gwasanaethau, mae'r gallu i amrywio cofrestriad yn caniatáu i Weinidogion Cymru ganslo gwasanaeth penodol tra bo darparwr yn parhau i allu darparu gwasanaethau eraill, neu i ganslo man y darperir gwasanaeth ohono neu mewn perthynas ag ef gan gadw cofrestriad y manau eraill.
40. Er enghraifft, efallai fod darparwr wedi ei gofrestru i ddarparu gwasanaeth cartref gofal mewn dau fan, un yng Nghaerdydd a'r llall yn Abertawe. Efallai y bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried nad yw'r gwasanaeth gofal cartref a ddarperir yng Nghaerdydd yn cydymffurfio â'r gofynion rheoleiddiol perthnasol ac y dylid ei ganslo. Ar hyn o bryd, oherwydd ei bod yn ofynnol cael cais a thystysgrif gofrestru ar wahân i bob sefydliad ac asiantaeth, byddai'r camau y byddai'n ofynnol i Weinidogion Cymru eu cymryd i ddod â'r cofrestriad hwnnw i ben yn golygu canslo cofrestriad y darparwr mewn cysylltiad â chartref gofal Caerdydd. O dan y gyfundrefn reoleiddiol newydd hon, bydd yn golygu amrywio cofrestriad y darparwr i ddileu un man lle y darperir y gwasanaeth cartref gofal (Caerdydd) oddi ar y dystysgrif gofrestru gan gadw'r man arall arni (Abertawe). Mae hyn oherwydd mai dim ond un dystysgrif gofrestru a fydd gan ddarparwr mewn cysylltiad â'r holl wasanaethau ac yn yr holl fannau y darperir pob un o'r gwasanaethau hynny ynddynt.
41. Fel gydag amrywiadau o dan adran 10, rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi hysbysiad o gynnig yn gyntaf cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i amrywio cofrestriad darparwr gwasanaeth.

Ceisiadau i ganslo cofrestriad fel darparwr gwasanaeth (Adran 12)

42. Mae'r adran hon yn caniatáu i geisiadau gael eu gwneud i ganslo cofrestriad ond dim ond os nad yw Gweinidogion Cymru eisoes wedi cychwyn cymryd camau i ganslo cofrestriad darparwr o dan adran 13 neu 21. Mae'r cyfyngiad hwnnw yn atal darparwr rhag mynd y tu allan i'r gweithdrefnau canslo o dan yr adrannau hynny sy'n cynnwys nodi'r seiliau dros ganslo gan Weinidogion Cymru. Pan fo Gweinidogion Cymru wedi cymryd camau i ganslo cofrestriad efallai fod rhesymau pwysig er budd y cyhoedd dros nodi'r seiliau i gymryd y camau hynny.

Canslo heb gais (Adran 13)

43. Mae adran 13 yn nodi pwerau Gweinidogion Cymru i ganslo cofrestriad darparwr gwasanaeth yn llwyr. Gallai hyn olygu canslo sawl gwasanaeth a ddarperir mewn

sawl man a dyma'r camau mwyaf difrifol y bydd Gweinidogion Cymru yn eu cymryd mewn cysylltiad â chofrestriad person fel darparwr gwasanaeth. Gan mai pŵer yw hwn, Gweinidogion Cymru fydd yn penderfynu, ym mhob achos, a yw canslo yn briodol ar ba sail bynnag o'r seiliau a restrir yn is-adran (1) sy'n gymwys.

44. Mae is-adran (3) yn gwahardd Gweinidogion Cymru rhag gallu canslo cofrestriad darparwr oni chydymffurfiwyd â'r weithdrefn hysbysiad gwella yn adrannau 14 a 15, er na fydd y weithdrefn honno yn gymwys i unrhyw gais brys i ganslo neu amrywio cofrestriad a wneir yn unol ag adran 21.

Hysbysiadau gwella (adran 14), hysbysiad o benderfyniad yn dilyn hysbysiad gwella (Adran 15)

45. Ar hyn o bryd, mae Gweinidogion Cymru yn gweithredu gweithdrefn anstatudol debyg cyn arfer y pŵer i ddyroddi hysbysiad o gynnig i ganslo cofrestriad yn unol ag adran 17 o Ddeddf 2000. Mae'r Bil yn sicrhau ei bod yn ofynnol yn ôl y gyfraith i Weinidogion Cymru roi hysbysiad ymlaen llaw o gynigion a phenderfyniadau ac mewn achosion penodol roi hysbysiad o fwriad i ganslo cofrestriad a chaniatáu i'r darparwr gywiro'r hyn a aeth o'i le.
46. Mae adran 14 yn darparu ar gyfer hysbysiad o fwriad i amrywio neu ganslo ac yn rhoi cyfle i'r darparwr gywiro pethau. Yn unol ag adran 14(3)(c) bydd hysbysiad gwella yn pennu terfyn amser ar gyfer gwneud y camau a nodir yn angenrheidiol gan Weinidogion Cymru er mwyn osgoi canslo'r cofrestriad.
47. Os nad yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod y camau wedi eu cymryd ar ddiwedd y terfyn amser hwnnw, gall Gweinidogion Cymru wneud un o dri pheth. Efallai y byddant yn mynd ati ar unwaith i wneud penderfyniad i ganslo neu amrywio'r cofrestriad. Os yw Gweinidogion Cymru yn gwneud hyn, yna rhaid iddynt ddyroddi hysbysiad o benderfyniad i'r darparwr gan esbonio'r hawl sydd ganddo i apelio a roddir gan adran 24. O dan amgylchiadau pan fo Gweinidogion Cymru yn penderfynu bod cydymffurfedd foddhaol wedi bod ni allant barhau i ganslo a rhaid darparu hysbysiad i'r darparwr gan roi gwybod iddo am hyn.
48. Fel arall, gall fod rhai achosion pan fo Gweinidogion Cymru o'r farn, ar ôl i'r terfyn amser ddod i ben, fod camau penodol wedi eu cymryd ond nad yw'r holl gamau wedi eu cymryd, neu fod camau wedi eu cymryd ond nad yw Gweinidogion Cymru yn hyderus bod y darparwr wedi cydymffurfio â'r gofynion rheoleiddiol. Mae adran 15(3)(b) yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i bennu dyddiad, sydd efallai 3 i 6 mis yn y dyfodol, ac ar ôl y dyddiad hwnnw, maent yn bwriadu canslo neu amrywio os nad ydynt wedi eu bodloni o hyd bod y camau a bennir yn yr hysbysiad gwella wedi eu cymryd. Ar ddiwedd y cyfnod hwnnw, os yw Gweinidogion Cymru o'r farn bod diffyg cydymffurfedd o hyd a'u bod yn dymuno parhau i ganslo, rhaid iddynt gynnal arolygiad o dan is-adran (5). Os yw Gweinidogion Cymru yn dymuno parhau i ganslo ar ôl cynnal yr arolygiad hwnnw, yna rhaid iddynt ddyroddi hysbysiad o benderfyniad i ganslo neu amrywio.

49. Bydd gan ddarparwr hawl i apelio yn erbyn penderfyniad Gweinidogion Cymru i ganslo neu amrywio a rhoddir yr hawl honno iddo drwy adran 24.
50. Mae'r diagram a ganlyn yn dangos y weithdrefn hysbysiad gwella.

Gweithdrefn hysbysiad gwella

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu canslo cofrestriad darparwr gwasanaeth yn unol ag adran 13 neu amrywio cofrestriad darparwr o dan adran 11(3) neu o dan adran 11(4).

Rhaid rhoi hysbysiad gwella i ddarparwr gwasanaeth a **rhaid** iddo bennu (adran 14(3)):

- y seiliau dros ganslo/amrywio
- y camau neu'r wybodaeth sy'n ofynnol gan y darparwr gwasanaeth i osgoi'r canslo/amrywio
- terfyn amser y mae rhaid cymryd y camau hyn o'i fewn.

Caiff darparwr gwasanaeth gyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru cyn i'r terfyn amser a bennir yn yr hysbysiad gwella ddod i ben (adran 14(4)).

Mae'r darparwr gwasanaeth yn cymryd y camau/darparu'r wybodaeth fel a bennir yn yr hysbysiad gwella.

Nid yw'r darparwr gwasanaeth yn cymryd y camau gofynnol yn unol ag adran 14(4).

Rhaid dyroddi Hysbysiad o Benderfyniad i'r darparwr gwasanaeth sy'n ei hysbysu am y penderfyniad i beidio â chanslo neu amrywio cofrestriad y darparwr (adran 15(1)).

Dyroddir Hysbysiad o Benderfyniad o dan adran 15(3)(a) sy'n rhoi gwybod am fwriad Gweinidogion Cymru i barhau i ganslo/amrywio cofrestriad. Hysbysir y darparwr am yr hawl i apelio a roddir gan adran 24(1).

Canateir i hysbysiad gael ei ddyroddi i ddarparwr sy'n pennu terfyn amser pellach i'r darparwr gymryd y camau sy'n ofynnol (gweler adran 15(3)(b)).

Rhaid cynnal adolygiad pellach ar ôl y terfyn amser pellach a bennir yn 15(3)(b) (gweler adran 15(3)(b)(iii)).

Os cymerir y camau, yna rhaid i Weinidogion Cymru beidio â pharhau i ganslo/amrywio cofrestriad darparwr (gweler adran 15(4)) a hysbysu'r darparwr.

Os na chymerir y camau a bod Gweinidogion Cymru yn dymuno parhau i ganslo/amrywio cofrestriad darparwr gwasanaeth, yna dyroddir Hysbysiad o Benderfyniad pellach o dan adran 15(5) a hysbysir y darparwr am yr hawl i apelio a roddir gan adran 24.

Hysbysiad o gynnig (adran 16), hysbysiad o benderfyniad yn dilyn hysbysiad o gynnig (Adran 17)

51. Mae'r darpariaethau hyn yn atgynhyrchu'r weithdrefn gyfredol y mae Gweinidogion Cymru yn ei gweithredu yn unol ag adrannau 17 i 19 o Ddeddf 2000. Cyn gwneud penderfyniadau penodol, rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi hysbysiad sy'n rhoi gwybod i'r darparwr gwasanaeth o'r penderfyniad y maent yn bwriadu ei gymryd gan roi cyfle i'r darparwr gwasanaeth gyflwyno sylwadau ysgrifenedig o fewn cyfnod penodol o amser, a rhaid i'r cyfnod hwnnw fod yn 28 o ddiwrnodau o leiaf. Mae'r weithdrefn ychydig yn wahanol i'r weithdrefn gyfredol yn yr ystyr bod modd i hysbysiad o'r fath roi cyfle i'r darparwr i gywiro'r sefyllfa drwy ddarparu terfyn amser ar gyfer gwneud pethau penodol i osgoi bod y camau yn cael eu cymryd (gweler adran 16(3)).
52. Rhaid i Weinidogion Cymru ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir ac yn dilyn hynny rhaid iddynt wneud penderfyniad yn unol ag adran 17(5).
53. Mae'r diagram a ganlyn yn dangos y gweithdrefnau hysbysiad o gynnig:

Gweithdrefn hysbysiad o gynnig

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu caniatáu cais i gofrestru yn ddarostyngedig i amod na chytunwyd arno ymlaen llaw yn ysgrifenedig gyda'r ymgeisydd (adran 16(1)(a)).

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwrthod cais i gofrestru neu i amrywio (adran 16(1)(b)).

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu amrywio cofrestrriad ac eithrio yn unol â chais (adran 16(1)(c)).

Rhaid i Weinidogion Cymru roi hysbysiad o gynnig i'r darparwr gwasanaeth a rhaid iddo bennu:

- Y camau y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu eu cymryd;
- Y rhesymau dros y cynnig; a
- Therfyn amser y caiff darparwyr gwasanaethau gyflwyno sylwadau o'i fewn (adran 16(2)(c)) a chaiff bennu terfyn amser y caiff y darparwr gwasanaeth gymryd camau o'i fewn i osgoi bod Gweinidogion Cymru yn cymryd y camau a nodir yn yr hysbysiad o gynnig (adran 17(3)).

Rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i unrhyw sylwadau a gyflwynir (adran 17(2)).

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod y darparwr gwasanaeth wedi cymryd y camau gofynnol.

NID yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod y darparwr gwasanaeth wedi cymryd y camau gofynnol.

Dyroddi Hysbysiad o Benderfyniad yn unol ag adran 17(5) yn nodi nad oes unrhyw gamau pellach i'w cymryd.

Dyroddi Hysbysiad o Benderfyniad yn unol ag adran 17(5) i barhau â'r cynnig. Rhesymau i gael eu rhoi ynghyd â hawl i apelio a roddir gan adran 24.

Os gwneir apêl, mae'r penderfyniad yn cymryd effaith ar y dyddiad a bennir gan y tribiwnlys wrth benderfynu ar yr apêl (adran 17(6)(b)).

Os na wneir apêl, mae'r penderfyniad yn cymryd effaith y diwrnod ar ôl y cyfnod o 28 o ddiwrnodau yn adran 24(2) (a17(6)(a)).

Unigolion cyfrifol (Adran 19), canslo dynodiad unigolyn cyfrifol (Adran 20)

54. Nid yw'r cysyniad o unigolyn cyfrifol yn newydd. Mae pob un o'r nifer o reoliadau sy'n ymwneud â lleoliadau penodol ac sy'n gymwys ar hyn o bryd i'r sefydliadau a'r asiantaethau y mae'n ofynnol iddynt gofrestru o dan Ddeddf 2000 yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gael unigolyn cyfrifol. Gweler, er enghraifft, reoliad 6 o Reoliadau Cartrefi Plant (Cymru) 2002 a rheoliad 8 o Reoliadau Asiantaethau Gofal Cartref (Cymru) 2004. Er hynny, o dan y gyfundrefn gyfredol, er bod gan Weinidogion Cymru rôl i asesu'r unigolyn cyfrifol ar adeg ei gofrestru, pwerau cyfyngedig sydd ar gael iddynt fel rheoleiddiwr os ydynt yn ystyried bod yr unigolyn cyfrifol cofrestredig yn dod yn anaddas i gyflawni'r rôl honno; os yw'r unigolyn cyfrifol a benodir ar yr adeg cofrestru yn ymddiswyddo o'r sefydliad gan adael y sefydliad neu'r asiantaeth heb unigolyn cyfrifol mewn swydd; neu fod unigolyn cyfrifol arall yn cael ei enwebu gan ddarparwr sy'n anaddas i gyflawni'r rôl honno ym marn y rheoleiddiwr.
55. Mae adrannau 19 ac 20 o'r Bil yn ddull o roi nifer o'r argymhellion yn Adroddiad Ymchwiliad Francis ar waith yng Nghymru mewn perthynas â rôl cyfarwyddwyr.
56. O'u cymryd gyda'i gilydd, mae adrannau 7 a 19 yn ei gwneud yn ofynnol bod rhaid penodi person fel unigolyn cyfrifol sydd wedi ei ddynodi gan y darparwr fel rhan o'i gofrestriad. Mae adran 19 yn pennu bod rhaid i'r unigolyn cyfrifol fodloni gofynion penodol. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r unigolyn cyfrifol fod yn rhywun mewn swydd ddigon uchel o fewn y cwmni neu'r sefydliad sy'n rhedeg y gwasanaeth.
57. Bydd rhaid i'r unigolyn cyfrifol fodloni prawf "addasrwydd" hefyd a fydd yn cael ei nodi mewn rheoliadau o dan is-adran (4) o adran 19.
58. Bwriedir i'r unigolyn cyfrifol gael cyfrifoldebau penodol am y gwasanaeth y mae'r person hwnnw wedi ei gofrestru mewn cysylltiad ag ef. Nodir y dyletswyddau hynny mewn rheoliadau a wneir yn unol ag adran 27. Ar yr adeg pan fo'r darparwr gwasanaeth yn gwneud cais i gael ei gofrestru, rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi eu bodloni bod y person a ddynodir fel unigolyn cyfrifol yn gallu cyflawni'r dyletswyddau hynny (gweler adran 7(1)(b)). Un o'r agweddau allweddol ar y rheoliadau o dan adran 19(4) fydd pennu bod rhaid i unigolyn cyfrifol allu bodloni'r gofynion a osodir gan reoliadau o dan adran 27 mewn perthynas â'r math o wasanaeth y mae'r unigolyn i gael ei gofrestru yn unigolyn cyfrifol ar ei gyfer.
59. Mae adran 19(5) yn caniatáu i'r un person fod yn unigolyn cyfrifol mewn cysylltiad â mwy nag un man y darperir gwasanaeth ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef. Fodd bynnag, dim ond os yw Gweinidogion Cymru yn gallu bod wedi eu bodloni y gall y person gyflawni ei ddyletswydd fel unigolyn cyfrifol mewn cysylltiad â phob man y bydd hyn yn bosibl .

60. Os nad yw unigolyn yn bodloni'r gofynion i fod yn unigolyn cyfrifol, mae adran 20 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i ganslo dynodiad unigolyn cyfrifol. Os caiff y cofrestriad ei ganslo oherwydd bod yr unigolyn wedi methu â bodloni'r gofynion ynghylch "addasrwydd" mewn rheoliadau o dan adran 19(4), yna rhoddir cyfle i'r unigolyn gywiro pethau yn gyntaf fel ei fod yn dangos ei fod yn addas i fod yn unigolyn cyfrifol (gweler adran 20(3)(b)).
61. Er enghraifft, caiff darparwr ddynodi'r un person i fod yn unigolyn cyfrifol mewn cysylltiad â gwasanaeth cartref gofal yng Nghaerdydd a gwasanaeth cartref gofal ym Mangor. Un o'r prif ddyletswyddau a osodir ar yr unigolyn cyfrifol yn y rheoliadau a wneir yn unol ag adran 27 yw'r gofyniad i oruchwylio'r gwaith o reoli'r gwasanaeth. Mae hyn o bwys arbennig oherwydd cydnabyddir y gall rheolwyr fod yn allweddol i lwyddiant gwasanaeth neu i'w fethiant. Caiff Gweinidogion Cymru ystyried na fyddai'r un person yn gallu goruchwylio'r gwaith o reoli'r gwasanaeth yn y ddau fan hynny. Os nad yw'r person yn gallu gwneud hynny, ym marn Gweinidogion Cymru, yna bydd yn ofynnol i'r darparwr ddynodi person gwahanol i bob man.
62. Gan ddefnyddio'r un enghraifft, caiff Gweinidogion Cymru benderfynu ar adeg y cofrestriad cyntaf y gallai'r un person ddangos ei fod yn gallu bodloni'r gofynion yn adran 19(2) ac mewn rheoliadau o dan adran 19(4) a chofrestru'r person hwnnw yn unigolyn cyfrifol mewn cysylltiad â'r gwasanaeth cartref gofal yng Nghaerdydd a Bangor. Er hynny, ar ôl cofrestru, efallai y daw tystiolaeth i'r amlwg sy'n dangos, mewn gwirionedd, nad oedd yn gallu gwneud hynny. Er enghraifft, efallai fod yr oruchwyliwr o ran rheoli'r gwasanaeth cartref gofal yng Nghaerdydd yn foddhaol ond nad yw hynny'n wir am y gwasanaeth a ddarperir ym Mangor. Gallai Gweinidogion Cymru, yn unol ag adran 20, ganslo cofrestriad yr unigolyn cyfrifol mewn cysylltiad â gwasanaeth cartref gofal Bangor, gan gadw cofrestriad y person hwnnw fel yr unigolyn cyfrifol mewn cysylltiad â gwasanaeth cartref gofal Caerdydd, ond byddai rhaid iddynt roi hysbysiad gwella i'r unigolyn er mwyn rhoi cyfle iddo i gywiro pethau cyn i Weinidogion Cymru barhau â'r canslo.

Canslo neu amrywio gwasanaethau neu fannau ar frys (Adran 21)

63. Bydd amgylchiadau a fydd mor ddifrifol fel ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru gymryd camau ar frys. Er ei bod yn debygol mai prin iawn fydd yr amgylchiadau hynny, mae adran 21 yn darparu'r pŵer i Weinidogion Cymru i gymryd y camau hynny drwy wneud cais i'r llys ynadon i ganslo cofrestriad yn llwyr ar frys neu, fel arall, ganslo man y darperir gwasanaeth ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef (ond dim ond os oes perygl i fywyd person neu ei iechyd corfforol neu ei iechyd meddwl neu fod perygl i'r person hwnnw ddiodef camdriniaeth neu esgeulustod).
64. Ar hyn o bryd, rhaid i berson sy'n ceisio cynnal neu reoli sefydliad neu asiantaeth o dan Ddeddf 2000 gyflwyno cais ar wahân mewn cysylltiad â'r ddau beth. Mewn achos pan fo Gweinidogion Cymru yn bwriadu canslo'r holl wasanaethau a ddarperir gan un darparwr, byddai'n ofynnol iddynt wneud nifer o geisiadau i

ganslo pob sefydliad neu asiantaeth a gynhelir gan yr un darparwr, gan ddarparu tystiolaeth ategol ar wahân mewn cysylltiad â phob cais. Rhagwelir y bydd yr adolygiad annibynnol a gynhelir ar hyn o bryd i Ymgyrch Jasmine yn nodi bod hyn yn fater sy'n cymhlethu pethau'n sylweddol.

65. Bydd y system newydd o gofrestru yn golygu bod un cais yn gallu cael ei wneud i ganslo cofrestriad darparwr yn llwyr o dan amgylchiadau pan fo'r sail dros ganslo yn systemig ac yn berthnasol i bob gwasanaeth a phob man y mae darparwr wedi ei gofrestru ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef.
66. Un o nodau'r system gofrestru newydd, a chanlyniad iddi, yw na fyddai cais i ganslo cofrestriad darparwr yn llwyr yn methu'n llwyr o dan yr amgylchiadau pan na fo'r meini prawf yn adran 21(2) wedi eu bodloni mewn cysylltiad â phob man y darperir pob gwasanaeth ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef. Er enghraifft, efallai y bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud cais i ganslo cofrestriad darparwr sy'n darparu gwasanaeth cartref gofal mewn tri man. Efallai y bydd y Llys wedi ei fodloni bod y meini prawf yn adran 21(2) wedi eu bodloni mewn cysylltiad â dau o'r tri man hynny ond nid mewn cysylltiad â'r trydydd man. Mae adran 21 yn darparu'r pŵer i'r Llys i amrywio cofrestriad y darparwr drwy ddileu dau o'r manau yr oedd y gwasanaeth gofal cartref yn cael ei ddarparu ynddynt gan gynnal cofrestriad y gwasanaeth cartref gofal mewn cysylltiad â'r trydydd man yn hytrach na gwrthod cais Gweinidogion Cymru yn llwyr.
67. Nid yw'r weithdrefn hysbysiad gwella yn adrannau 14 a 15 yn gymwys i geisiadau brys (gweler adran 13(3)).

Amrywio cofrestriad ar frys: amodau eraill (Adran 23)

68. Mewn achos pan allai bywyd, iechyd corfforol neu iechyd meddwl person fod mewn perygl neu pan fo perygl i gamdriniaeth neu esgeulustod ddigwydd, efallai mai'r camau mwyaf effeithiol a chymesur i'w cymryd fyddai parhau i ddarparu'r gwasanaeth wrth sicrhau ar yr un pryd fod darparwr yn cydymffurfio â'r gofynion rheoleiddiol drwy osod amod brys ar gofrestrriad darparwr. Dim ond os oes perygl o'r fath yn bodoli y gellir arfer pŵer o'r fath (gweler is-adran (1)). Bydd hawl i apelio'n dal i fodoli ond mae gwahaniaeth pwysig yma rhwng hyn a chamau gorfodi eraill a gymerir gan Weinidogion Cymru, sef y bydd penderfyniad o'r fath yn cymryd effaith ar unwaith. Mae darpariaeth debyg eisoes yn bodoli yn adran 20B o Ddeddf 2000.

Rheoliadau ynghylch gwasanaethau rheoleiddiedig (Adran 26), rheoliadau ynghylch unigolion cyfrifol (Adran 27), canllawiau ynghylch rheoliadau o dan adrannau 26 a 27 (Adran 28)

69. Rheoliadau a wneir yn unol ag adran 26 fydd y sail reoleiddio gan Weinidogion Cymru. Y ddarpariaeth gyfatebol yn Neddf 2000 yw adran 22 sy'n nodi rhestr nad yw'n hollgynhwysfawr o'r materion y caiff rheoliadau a wneir o dan y ddarpariaeth honno ymdrin â hwy. Ar hyn o bryd, mae setiau niferus o reoliadau sy'n gymwys i bob sefydliad ac asiantaeth sy'n gwneud cofrestru o dan Ddeddf

2000 yn ofynnol. Yn ei hanfod wedyn, mae pob set o reoliadau yn ailadrodd yr un gofynion gyda rhai amrywiadau, gan ddibynnu ar y math o sefydliad neu asiantaeth y maent yn ymwneud â hwy.

70. Gellid defnyddio adran 26 i wneud rheoliadau i'r un perwyl. Ond bydd hefyd yn bosibl mynd ati mewn ffordd wahanol. Y bwriad ar hyn o bryd yw mai dim ond dwy set o reoliadau fydd yn cael eu gwneud yn unol ag adran 26. Yn gyntaf, bydd set o "safonau ansawdd" a fydd yn gymwys i ddarparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig. Bwriedir i'r safonau ansawdd hynny fod yn gysylltiedig â'r datganiad ynghylch canlyniadau llesiant a ddyroddir gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 8 o Ddeddf 2014. Diben y set hon o reoliadau yw ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gofal a chymorth ganolbwyntio ar ganlyniadau llesiant unigol pob defnyddiwr gwasanaeth a galluogi Gweinidogion Cymru i asesu safon y gofal gan gyfeirio at ba mor dda y mae'r darparwr yn darparu gofal a/neu gymorth yn unol â'r canlyniadau hynny. Yn ail, bydd set arall o reoliadau a fydd yn sefydlu dyletswyddau tebyg i'r rheini a restrir yn adran 22(2) o Ddeddf 2000 ar hyn o bryd. Dyma rai enghreifftiau: y gofyniad i gael rheolwr "addas" ynghyd â'r meini prawf ar gyfer addasrwydd y rheolwr a'r staff; y gofyniad i lunio datganiad o ddiben; y gofyniad i gadw cofnodion a chyfrifon a hysbysu am ddigwyddiadau.
71. Bydd rheoliadau a wneir yn unol ag adran 27 yn nodi'r dyletswyddau sydd i'w gosod yn benodol ar yr unigolyn cyfrifol. Bwriedir i'r dyletswyddau hynny gynnwys y gofyniad i benodi rheolwr priodol ac addas ac i roi gwybod am y penodiad hwnnw i ba ran bynnag o sefydliad y darparwr gwasanaeth sydd â rheolaeth gyffredinol ar y corff (h.y. bwrdd y cyfarwyddwyr neu debyg yn achos cwmni; y partneriaid yn achos partneriaeth neu'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn achos awdurdod lleol). Yn ogystal, bydd yr unigolyn cyfrifol yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o reoli'r gwasanaeth yn y man y mae wedi ei gofrestru yn unigolyn cyfrifol ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef. Bydd yn ofynnol iddo wirio cywirdeb y cofnodion a gedwir, cynnal arolygiadau rheolaidd, cwblhau'r adran berthnasol o adroddiad blynyddol y darparwr gwasanaeth a lunnir yn unol ag adran 8 a llofnodi datganiad o wirionedd mewn cysylltiad â'u hadran hwy o'r adroddiad hwnnw, ac adrodd, mewn modd amserol, ar unrhyw bryderon sydd ganddynt o bosibl am y gwasanaeth rheoleiddiedig i fwrdd y cyfarwyddwyr, i'r bartneriaeth neu Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. Bwriedir ymhellach y bydd y pŵer a geir yn adran 44 yn cael ei ddefnyddio i wneud darpariaeth y bydd methu â chydymffurfio â rhai o'r dyletswyddau hynny yn drosedd. Er enghraifft, mae methiant i ymgymryd ag arolygiadau o'r gwasanaeth neu fethiant i sicrhau bod y cofnodion a gedwir yn y gwasanaeth yn gywir.
72. Ar hyn o bryd, yn unol ag adran 23 o Ddeddf 2000, caiff Gweinidogion Cymru lunio a chyhoeddi datganiad o safonau gofynnol cenedlaethol y mae'n ofynnol eu hystyried wrth i Weinidogion Cymru, y Llys neu'r tribiwnlys wneud penderfyniadau. Fodd bynnag, yr hyn nad yw adran 23 yn ei wneud yw gosod dyletswydd ar ddarparwyr i roi sylw i'r safonau gofynnol hynny wrth gynnal

sefydliad neu asiantaeth. Mae dull gwahanol yn adran 28 o'r Bil. Bydd yn gosod dyletswydd ar ddarparwyr i roi sylw i ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 28 ei hun. Bwriedir i'r canllawiau roi gwybod i ddarparwyr sut y maent yn gallu bodloni'r gofynion rheoleiddiol yn adrannau 26 a 27 mewn cysylltiad â phob math o wasanaeth rheoleiddiedig. Mae is-adran (2) yn gosod dyletswydd ar ddarparwyr i ystyried y canllawiau hynny.

Adrannau 31-35 - Pennod 3 - Gwybodaeth ac arolygiadau

Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i gael gwybodaeth (Adrannau 31-35), arolygu gwasanaethau (Adran 32), arolygu gwasanaethau: pwerau'r arolygydd (Adran 33), adroddiadau arolygu (Adran 34), graddau arolygu (Adran 35)

73. Gellir dod o hyd i'r pwerau sydd gan Weinidogion Cymru ar hyn o bryd i'w gwneud yn ofynnol i gael gwybodaeth oddi wrth ddarparwyr gwasanaethau ac arolygu mangreoedd yn adrannau 31 a 32 o Ddeddf 2000. Mae adrannau 31 i 34 o'r Bil yn deillio o'r darpariaethau hynny ond maent wedi eu diweddarau er mwyn sicrhau bod modd cymharu'r darpariaethau sy'n gymwys i ddarparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig â'r pwerau sydd ar gael i Weinidogion Cymru wrth iddynt arfer eu swyddogaethau rheoleiddiol eraill o dan y Bil, sef rheoleiddio swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.
74. Mae adran 35 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i sefydlu system raddio mewn cysylltiad ag ansawdd y gofal a ddarperir gan wasanaethau rheoleiddiedig. Os cyflwynir system o'r fath, yna mae adran 34(2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r arolygydd roi'r radd honno yn yr adroddiad arolygu y mae rhaid ei gyhoeddi. Mae adran 185(2) yn darparu bod rhaid gwneud rheoliadau a wneir o dan yr adran hon drwy ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol.

Adrannau 36-40 - Pennod 4 - Swyddogaethau cyffredinol

Cofrestr o ddarparwyr gwasanaethau (Adran 36), hysbysu awdurdodau lleol am gamau penodol a gymerir o dan y Rhan hon (Adran 37), codi ffioedd (Adran 38), ymgysylltu â'r cyhoedd (Adran 39), adroddiad blynyddol ar swyddogaethau rheoleiddiol (Adran 40)

75. Mae adran 36 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnal cofrestr o ddarparwyr gwasanaethau. Mae is-adran (2) yn nodi pa wybodaeth y mae rhaid i bob cofnod ei dangos ac mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i'r gofrestr gael ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae is-adran (5) yn bŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i hepgor gwybodaeth benodol o'r gofrestr o dan amgylchiadau penodol ac i wrthod ceisiadau a wneir am gopïau neu rannau o'r gofrestr o dan amgylchiadau penodol. Mae'r pŵer hwn yn atgynhyrchu pŵer sydd eisoes yn bodoli yn adran 36(3) o Ddeddf 2000. Rhagwelir y byddai pŵer o'r fath yn cael ei ddefnyddio, er enghraifft, i gyfyngu ar gyhoeddi gwybodaeth feddygol am ddarparwyr neu fanylion am sefydliadau mewn cysylltiad â phant.
76. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswyddau statudol i asesu a darparu (pa un ai'n uniongyrchol neu fel arall) gofal a chymorth i'r rheini y mae angen y gwasanaethau hynny arnynt ac sy'n gymwys. Maent hefyd yn gomisiynwyr gwasanaethau rheoleiddiedig. Nod adran 37 yw sicrhau bod awdurdodau lleol yn ymwybodol pan fo'r rheoleiddiwr yn cymryd camau penodol yn erbyn ddarparwyr

gwasanaethau rheoleiddiedig, o gofio y bydd hyn, o bosibl, yn achos canslo yn effeithio ar gynaliadwyedd y gwasanaeth hwnnw. Mae angen i awdurdodau lleol asesu a gwneud gwaith cynllunio mewn achosion pan fo camau o'r fath gan y rheoleiddiwr yn cael effaith ar y gwasanaethau sydd ar gael yn yr ardal leol.

Adrannau 41-54 - Pennod 5 - Troseddau a chosbau

Methiant i gydymffurfio ag amod (Adran 41), disgrifiadau anwir (Adran 42), methiant gan ddarparwr gwasanaeth i gydymffurfio â gofynion mewn rheoliadau (Adran 43), methiant gan unigolyn cyfrifol i gydymffurfio â gofynion mewn rheoliadau (Adran 44), datganiadau anwir (Adran 45), methiant i gyflwyno datganiad blynyddol (Adran 46), methiant i ddangos tystysgrif gofrestru (Adran 47), methiant i ddarparu gwybodaeth (Adran 48), troseddau sy'n gysylltiedig ag arolygiadau (Adran 49), cosbau ar gollfarn (Adran 50), hysbysiadau cosb (Adran 51), troseddau gan gyrff corfforaethol (Adran 52), troseddau gan gyrff anghorfforedig (Adran 53), achosion am droseddau (Adran 54)

77. Dyma'r troseddau yn y Bil a ddosberthir yn droseddau diannod:

- gwneud datganiad anwir mewn dogfen (Adran 45)
- methiant i gyflwyno datganiad blynyddol (Adran 46)
- methiant i ddangos tystysgrif gofrestru (Adran 47)
- methiant i ddarparu gwybodaeth (Adran 48).

78. Bwriedir i'r drosedd yn adran 45(d) o wneud datganiad anwir mewn ymateb i gais am wybodaeth gan Weinidogion Cymru o dan adran 31(1) ymwneud â gwybodaeth ar lafar yn yr un modd â'r drosedd o fethu â darparu gwybodaeth yn adran 48.

79. Dyma'r troseddau yn y Bil a ddosberthir yn droseddau neillog:

- darparu gwasanaeth rheoleiddiedig heb fod wedi ei gofrestru (adran 5)
- methiant i gydymffurfio ag amod (adran 41)
- disgrifiad anwir gyda'r bwriad o dwyllo (adran 42)
- rhwystro arolygydd neu fethu â chydymffurfio â gofyniad a osodir ganddo (adran 49).

80. Mae gwahaniaeth rhwng y drosedd yn adran 5 o ddarparu gwasanaeth rheoleiddiedig heb fod wedi ei gofrestru a'r drosedd yn adran 42 o esgus bod yn ddarparwr gwasanaeth neu esgus bod man yn un y mae gwasanaeth rheoleiddiedig yn cael ei ddarparu ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef. Byddai adran 5 yn cael ei defnyddio pe byddai person yn cynnal gwasanaeth rheoleiddiedig heb fod wedi ei gofrestru â Gweinidogion Cymru. Fodd bynnag, efallai y byddai trosedd o dan adran 42(1)(a) yn cael ei chyflawni pe byddai person yn esgus ei fod wedi ei gofrestru er mwyn cael contract awdurdod lleol er enghraifft. O ran adran 42(1)(b) mae'r drosedd yn gymwys yn achos person sy'n dweud bod man yn fan lle y mae'r person hwnnw wedi ei gofrestru i ddarparu

gwasanaeth pan nad yw wedi ei gofrestru felly mewn gwirionedd. Er enghraifft, efallai fod gan berson ddau gartref gofal, y naill yng Nghaerdydd a'r llall ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Efallai fod y person hwnnw wedi ei gofrestru i ddarparu gwasanaeth cartref gofal yng Nghaerdydd ond heb ei gofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw mewn man ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Ni fyddai'r person hwnnw'n cyflawni trosedd o dan adran 5 oherwydd byddai wedi ei gofrestru i ddarparu gwasanaeth cartref gofal yng Nghaerdydd ond byddai'n cyflawni trosedd o dan adran 42(1)(b) oherwydd byddai'r person hwnnw yn esgus ei fod wedi ei gofrestru i ddarparu gwasanaeth cartref gofal ym Mhen-y-bont ar Ogwr pan nad oedd wedi ei gofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw yno.

81. Caiff y troseddau neillog gario dedfryd o garchar o hyd at 2 flynedd os yw'r drosedd yn ddigon difrifol i'w phrofi ar ddiad. Mae dirwy ddiderfyn ar gael i'r Llys sy'n dedfrydu ym mhob achos.
82. Mae adrannau 43 a 44 yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru i sefydlu troseddau pellach mewn perthynas ag unrhyw un neu ragor o'r gofynion rheoleiddiol a sefydlir yn y rheoliadau a wneir mewn cysylltiad â'r darparwr a'r unigolion cyfrifol yn adrannau 26 a 27. Mae hyn yn debyg i'r pŵer cyfredol yn adran 25 o Ddeddf 2000.
83. Mae adran 51 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i roi hysbysiad o gosb yn lle dwyn achos am drosedd, ond dim ond mewn perthynas â'r troseddau hynny a ragnodir mewn rheoliadau. Mae is-adran (2) yn cyfyngu ar arfer y pŵer hwnnw i wneud rheoliadau i droseddau penodol yn unig, sef datganiadau anwir mewn dogfennau, methiant i gyflwyno datganiad blynyddol, methiant i ddangos tystysgrif gofrestru neu fethiant i ddarparu gwybodaeth.

Adrannau 55-57 - Pennod 6 - Gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol

84. Mae Deddf 2014 yn gosod dyletswyddau statudol ar awdurdodau lleol mewn cysylltiad â'u swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a restrir yn Atodlen 2 i'r Ddeddf honno. Ar hyn o bryd, mae Gweinidogion Cymru yn rheoleiddio awdurdodau lleol mewn cysylltiad â'r swyddogaethau hynny gan ddefnyddio'r pwerau a geir ar hyn o bryd ym Mhennod 6 o Ran 2 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 ("Deddf 2003").

Adroddiadau blynyddol ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol (Adran 55)

85. Mae adran 144 o Ddeddf 2014 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i benodi cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol at ddiben eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Man cychwyn unrhyw adolygiad y mae Gweinidogion Cymru yn ei gynnal ar hyn o bryd mewn cysylltiad ag awdurdod lleol fydd adolygu'r adroddiad blynyddol a lunnir gan Gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r gofyniad i lunio'r adroddiad blynyddol hwnnw i'w gael ar hyn o bryd mewn canllawiau. Mae adran 55 yn mewniod

adran 144A i Ddeddf 2014 ac yn gosod dyletswydd i lunio adroddiad blynyddol o'r fath ar sail statudol.

Dyletswydd gyffredinol Gweinidogion Cymru (Adran 55), adolygiadau, ymchwiliadau ac arolygiadau (Adran 56)

86. Gan fod bwriad i Ddeddf 2014 fod yn ddarn o ddeddfwriaeth sy'n sefyll ar ei phen ei hun mewn perthynas â swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, mae adrannau 55 i 57 yn mewnosod darpariaethau i'r Ddeddf honno sy'n ymwneud â phwerau rheoleiddiol Gweinidogion Cymru mewn cysylltiad â'r swyddogaethau hynny.
87. Mae Pennod 6 o Ran 2 o Ddeddf 2003 y cyfeirir ati uchod i'w diddymu (gweler adran 183 a pharagraff 18 o Ran 1 o Atodlen 3). Mae'r pwerau hynny wedi eu hailddatgan gyda diwygiadau yn adrannau 55 a 56 sy'n mewnosod adran 144A i C, adrannau 149A i D yn rhoi adran 161 newydd ac yn mewnosod adrannau 161A i C.
88. Wrth ddod â'r pwerau yn Neddf 2003 drosodd i Ddeddf 2014 bu angen diwygio rhai o'r pwerau ymyrryd yn Rhan 8 o Ddeddf 2014 er mwyn darparu cysondeb mewn perthynas â'r pwerau sydd ar gael i Weinidogion Cymru ar ddechrau'r broses reoleiddio (y cyfnod adolygu) i gyfnodau diweddarach y broses (y cyfnod ymyrryd).

Rheoleiddio swyddogaethau awdurdodau lleol sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya (Adran 57)

89. Mae Rhan III o Ddeddf 2000 ar hyn o bryd yn rhoi i Weinidogion Cymru y swyddogaeth o reoleiddio "swyddogaethau maethu perthnasol." Mae Rhan 6 o Ddeddf 2014 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya ac mae nifer o bwerau gwneud rheoliadau yn cael eu darparu i Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth ynghylch arfer y swyddogaethau hynny.
90. Felly, mae'r swyddogaethau hynny o dan Ran 6 i'w rheoleiddio o dan adrannau newydd 94A a 94B sy'n cael eu mewnosod i Ddeddf 2014 gan adran 57. Mae adran 94A yn nodi bod rheoliadau yn gallu gwneud darpariaeth ar gyfer rheoleiddio swyddogaethau awdurdodau lleol mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya ac mae adran 94B yn darparu ar gyfer rheoliadau i bennu y gall torri'r rheoliadau o dan adran 94A fod yn drosedd. Fel gyda throseddau'n ymwneud â thorri'r gofynion o dan Ran 1 o'r Bil (gweler adrannau 43, 44 a 50) mae trosedd o dan adran 94B o Ddeddf 2014 yn drosedd neillog y mae modd ei chosbi â 2 flynedd ar y mwyaf yn y carchar, dirwy ddiderfyn neu'r ddau. Mae hyn yn disodli'r darpariaethau ynghylch rheoleiddio "swyddogaethau maethu perthnasol" yn Neddf 2000 sydd i'w diddymu o ran Cymru.

Adrannau 58-62 - Rhan 3 - Trosolwg o'r farchnad

Pennu meini prawf ar gyfer cymhwys cyfundrefn sy'n rhoi trosolwg o'r farchnad (Adran 58), dyfarnu a yw meini prawf yn gymwys i ddarparwr gwasanaeth (Adran 59), asesu cynaliadwyedd ariannol darparwr gwasanaeth (Adran 60), hysbysu awdurdodau

lleol pan fo methiant darparwr gwasanaeth yn debygol (Adran 61), adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad genedlaethol (Adran 62)

91. Mae adrannau 189 i 191 o Ddeddf 2014 yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol i ddiwallu anghenion pobl sy'n cael gwasanaeth gan berson sydd wedi ei gofrestru mewn cysylltiad â sefydliad neu asiantaeth o dan Ran 2 o Ddeddf 2000 ond ei fod yn methu â chynnal neu reoli'r sefydliad neu'r asiantaeth oherwydd methiant busnes.
92. Cyfres o ddarpariaethau yw adrannau 58 i 62 sydd â'r nod o nodi'r darparwyr hynny o wasanaethau rheoleiddiedig sy'n darparu gwasanaeth a fyddai, pe bai'n methu, yn cael effaith ar y farchnad gofal a chymorth yng Nghymru ac yn drothwy ar gyfer arfer dyletswyddau'r awdurdod lleol o dan adrannau 189 i 191 o Ddeddf 2014.
93. Mae adrannau 58 i 61 yn deillio o'r darpariaethau trosolwg o'r farchnad yn Neddf Gofal 2014. Mae adran 58 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru i sefydlu meini prawf mewn rheoliadau a gaiff eu defnyddio i nodi darparwyr a fydd yn ddarostyngedig i'r darpariaethau trosolwg o'r farchnad yn y Bil. Pan fo'r meini prawf yn gymwys i ddarparwr penodol, mae adran 60 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru asesu cynaliadwyedd ariannol busnes y darparwr. Pan ddeuir i'r casgliad bod perygl sylweddol i'r busnes hwnnw, mae'r pwerau yn adran 60(3) yn caniatáu i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr gwasanaeth ddatblygu cynllun ar gyfer sut i liniaru'r peryglon hynny neu sut i gael gwared â hwy neu drefnu'n uniongyrchol, neu ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr drefnu, i adolygiad annibynnol o'r busnes gael ei gynnal.
94. Mae is-adran (6) o adran 60 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n eu galluogi i gael gwybodaeth oddi wrth bersonau penodol a allai fod yn ddefnyddiol iddynt wrth asesu cynaliadwyedd ariannol y darparwr. Mae'n debygol y bydd y math o wybodaeth y gall fod ei hangen ar Weinidogion Cymru yn ymwneud â chyllid y darparwr gofal neu wybodaeth mewn perthynas â sefyllfa ariannol yr endid penodol - os yw'r darparwr gofal yn ddibynnol yn ariannol ar endid o'r fath. Caiff y math o berson y caniateir iddynt gael eu rhagnodi yn y rheoliadau gynnwys cwmnïau o fewn yr un grŵp â'r darparwr a chwmnïau sydd â chyfran berchenogaeth sylweddol yn y darparwr.
95. Nid yw'r gofyniad i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad genedlaethol yn adran 62 yn deillio o ddarpariaethau Deddf Gofal 2014. Nod yr adroddiad hwn yw darparu gwybodaeth i ddarparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig presennol a phosibl ac awdurdodau lleol am y farchnad gofal cymdeithasol yng Nghymru yn gyffredinol. Ni fydd yr wybodaeth yn yr adroddiad hwn yn gyfyngedig i wybodaeth am ddarparwyr sy'n ddarostyngedig i'r darpariaethau trosolwg o'r farchnad ond bwriedir iddi roi darlun o ran lle y mae darpariaeth ddigonol o wasanaethau penodol a lle y mae prinder yn debygol yn y ddarpariaeth o fathau penodol o wasanaethau. Mae adran 62(2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r adroddiad hwn gael ei lunio wrth ymgynghori â

Gofal Cymdeithasol Cymru o gofio mai prif amcan Gofal Cymdeithasol Cymru yw diogelu, hybu a chynnal diogelwch a llesiant y cyhoedd yng Nghymru (gweler y nodyn esboniadol sy'n dod gydag adran 67 am fanylion ynghylch amcanion Gofal Cymdeithasol Cymru).

Adrannau 64-65 - Rhan 2 - Trosolwg o Rannau 3 i 8 a'u Dehongli
Trosolwg o Rannau 3 i 8 (adran 64), dehongli Rhannau 3 i 8 (adran 65)

Adrannau 66-77 - Rhan 3 - Gofal Cymdeithasol Cymru

Gofal Cymdeithasol Cymru (Adran 66), amcanion GCC (Adran 67), cyngor a chynhorthwy mewn perthynas â gwasanaethau gofal a chymorth (Adran 68), astudiaethau o ran darbodaeth, effeithlonrwydd etc. (Adran 69), ymgysylltu â'r cyhoedd a gweithwyr gofal cymdeithasol (Adran 70), datganiad polisi mewn cysylltiad â dwyn achosion troseddol (Adran 71), rheolau: cyffredinol (Adran 72), rheolau: ffioedd (Adran 73), ymgynghori cyn gwneud rheolau etc. (Adran 74), canllawiau (Adran 75), cyfarwyddydau (Adran 76), pwerau diofyn Gweinidogion Cymru (Adran 77)

96. Sefydlwyd Cyngor Gofal Cymru ("y Cyngor") gan Ran 4 o Ddeddf 2000 at ddiben:
a) hybu safonau ymddygiad ac ymarfer uchel ymhlith gweithwyr gofal cymdeithasol; a b) hybu safonau uchel yn eu hyfforddiant. Mae'r Bil hwn yn ailddatgan ac yn addasu swyddogaethau presennol y Cyngor o dan Ran 4 o Ddeddf 2000, ac mae'n rhoi swyddogaethau ychwanegol iddo (mae rhagor o wybodaeth am hyn isod).
97. Pan ddaw Rhannau 3 i 8 o'r Bil hwn i rym, ni fydd Rhan 4 o Ddeddf 2000 bellach yn gymwys o ran Cymru (gweler y diddymiaidau perthnasol yn Rhan 2 o Atodlen 3). Mae adran 66 yn darparu bod y Cyngor yn parhau o dan enw newydd, er gwaethaf diddymu adran 54 o Ddeddf 2000; enw'r Cyngor o hyn ymlaen fydd "Gofal Cymdeithasol Cymru". Mae'r enw yn newid o ganlyniad i roi swyddogaethau newydd i Ofal Cymdeithasol Cymru; gweler adrannau 68 a 69 a'r ddarpariaeth ynghylch gorchmynion gwahardd yn Rhan 7 yn benodol.
98. Mae Atodlen 2 yn gwneud darpariaeth ynghylch aelodaeth a threfniadau gweithredol Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae hyn yn disodli'r ddarpariaeth a wneir gan Atodlen 1 i Ddeddf 2000 (a rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru odani (Rheoliadau Cyngor Gofal Cymru (Penodi, Aelodaeth a Gweithdrefn) 2001) ar gyfer aelodaeth a gweithrediad y Cyngor; bydd Atodlen 2 i'r Ddeddf hon yn cymryd lle'r darpariaethau hyn yn Neddf 2000 pan ddaw adran 66(4) i rym.
99. Bydd Gweinidogion Cymru yn penodi 15 person ar y mwyaf yn aelodau Gofal Cymdeithasol Cymru, sef gan gynnwys aelod-gadeirydd: ar hyn o bryd, caiff Gweinidogion Cymru benodi hyd at 25 o aelodau i'r Cyngor, nifer sydd wedi ei phrofi i fod yn ddiangen o uchel. Mae'r ddarpariaeth a wneir gan baragraff 2(6) o Atodlen 2 wedi ei chynnwys er mwyn osgoi sefyllfa pan fo'r rhan fwyaf o aelodau Gofal Cymdeithasol Cymru yn gynrychiolwyr gweithwyr gofal cymdeithasol (gweler adran 78) y bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn arfer ei swyddogaethau mewn cysylltiad â hwy.

100. Mae rhan sylweddol o rôl y Cyngor o dan Ran 4 o Ddeddf 2000 yn ymwneud â chynnal cofrestr o fathau penodol o weithiwr gofal cymdeithasol, gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol. Mae llawer o'r manylion am y system a sefydlir gan Ran 4 yn cael eu gadael i reolau a wneir gan y Cyngor; mae'r rheolau hyn yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.
101. Mae'r gofyniad i gynnal cofrestr wedi ei gadw yn y Bil, ond mae'r system sydd wedi ei hailddatgan yn llai dibynnol ar gynnwys rheolau a wneir gan Ofal Cymdeithasol Cymru; gwelir y darpariaethau manwl yn Rhan 4 o'r Bil hwn y mae esboniad ohonynt isod.
102. Ymhlith y swyddogaethau eraill o bwys a roddir i'r Cyngor gan Ran 4 o Ddeddf 2000 mae: a) y pŵer i ddyroddi codau ymarfer sy'n nodi safonau ymddygiad ac ymarfer y disgwylir i weithwyr gofal cymdeithasol eu cyrraedd, yn ogystal â safonau y disgwylir i bersonau sy'n cyflogi gweithwyr gofal cymdeithasol eu cyrraedd; b) pwerau mewn perthynas â chymeradwyo cyrsiau ar gyfer darpar weithwyr cymdeithasol, a threfnu arolygiadau mewn perthynas â'r cyrsiau hynny.
103. Eto, mae'r swyddogaethau hyn wedi eu cadw yn ddarostyngedig i rai addasiadau. Rhan 5 (Gweithwyr gofal cymdeithasol: safonau ymddygiad, addysg etc.) yw'r rhan berthnasol o'r Bil a cheir esboniad isod.
104. Mae swyddogaethau newydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn adrannau 68 a 69 yn ymwneud â'r gwasanaethau hynny a reoleiddir o dan Ran 1 o'r Bil hwn (gweler y nodyn esboniadol ar gyfer adran 2) yn ogystal ag unrhyw wasanaeth arall yng Nghymru sy'n ymwneud â darparu gofal a chymorth gan weithwyr gofal cymdeithasol (gyda'i gilydd, "gwasanaethau gofal a chymorth"). Gallai gwasanaethau eraill o'r fath gynnwys gwasanaethau eirioli sy'n darparu cymorth i hybu llesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt ond nid ydynt yn cael eu rheoleiddio o dan y Ddeddf hon. Mae adran 69 yn ailddatgan gydag addasiad swyddogaeth Gweinidogion Cymru yn adran 95(1) o Ddeddf 2003 (bydd adran 95 yn cael ei diddymu gan Atodlen 3 i'r Ddeddf hon pan ddaw adran 69 i rym). Mae adran 69 yn ehangach nag adran 95 o Ddeddf 2003; tra bo adran 95 yn gyfyngedig i swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, mae adran 69 yn gymwys i unrhyw wasanaeth gofal a chymorth. Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn gallu gwneud neu gomisiynu gwaith ymchwil er mwyn canfod blaenoriaethau gwella ac arferion gorau ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth; yn rhinwedd adran 68 bydd Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd yn gallu cydweithio â gwasanaethau gofal a chymorth i roi unrhyw argymhellion y mae'n eu nodi ar waith.
105. Mae adran 70 yn ei gwneud yn ofynnol i Ofal Cymdeithasol Cymru godi a chynnal ymwybyddiaeth o'r hyn y mae'n ei wneud ymhlith: a) y cyhoedd; a b) gweithwyr gofal cymdeithasol yn gyffredinol. Gellid sicrhau bod gwybodaeth ar gael drwy gyhoeddi gwybodaeth yn electronig (a fyddai yn ôl bob tebyg yn golygu cyhoeddi gwybodaeth ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru) neu mewn unrhyw ffordd arall

y mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn ystyried ei bod yn briodol (er enghraifft, drwy gyfarfodydd neu ddigwyddiadau cyhoeddus). Mae'r adran hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Ofal Cymdeithasol Cymru ddatblygu a chyhoeddi polisi ar gynnwys y cyhoedd a gweithwyr gofal cymdeithasol yn y gwaith o arfer ei swyddogaethau. Mater i Ofal Cymdeithasol Cymru benderfynu arno yw'r ffordd y mae'n gwneud hynny pan fydd yn datblygu ei bolisi, a chaiff hyn amrywio gan ddibynnu ar natur y swyddogaeth o dan sylw; ond mae adran 74 hefyd yn berthnasol yma: mae'n ei gwneud yn ofynnol i Ofal Cymdeithasol Cymru ymgynghori cyn dyroddi dogfennau penodol, gan gynnwys rheolau a wneir o dan bwerau mewn mannau eraill yn y Bil hwn.

106. O dan Ddeddf 2000, mae gan y Cyngor bwerau eang i wneud rheolau sy'n manylu ar y system a sefydlwyd o dan Ran 4 o Ddeddf 2000. Rhaid i Weinidogion Cymru gymeradwyo'r rheolau hyn cyn iddynt gael eu gwneud. Mae'r broses gymeradwyo yn hynod ddwys o ran amser ac yn cyfyngu ar allu'r Cyngor i ymateb i newid. Mae'r system sydd ar hyn o bryd wedi ei nodi mewn rheolau bellach wedi ei nodi yn y Bil i bob pwrpas; a bydd pwerau Gofal Cymdeithasol Cymru i wneud rheolau yn canolbwyntio ar drefniadau gweithdrefnol. O ganlyniad, nid yw'r gofyniad am gymeradwyaeth Weinidogol wedi cael ei ailddatgan. Felly, gall Gofal Cymdeithasol Cymru wneud neu ddiwygio rheolau heb gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.
107. Gyda Gofal Cymdeithasol Cymru yn cael mwy o ymreolaeth, mae angen sicrhau ei fod yn atebol i'r cyhoedd, rhanddeiliaid allweddol a Gweinidogion Cymru. Felly, mae'n ofynnol i Ofal Cymdeithasol Cymru ymgynghori cyn gwneud neu amrywio unrhyw reolau neu ddyroddi unrhyw godau neu ganllawiau o dan y Ddeddf. Mae rhai sefyllfaoedd pan na fyddai ymgynghoriad cyhoeddus llawn yn briodol, o bosibl, er enghraifft oherwydd bod angen diwygio'r rheolau i adlewyrchu newid yng nghyfraith yr UE neu i gywiro camgymeriad. O dan amgylchiadau o'r fath, gall Gweinidogion Cymru gytuno nad oes angen ymgynghoriad.
108. O ganlyniad i'r fframwaith newydd, mae adran 124 o Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 ("Deddf 2008") ac Atodlen 9 iddi wedi eu diddymu (gweler Rhan 2 o Atodlen 3). Darparodd hyn bŵer i Weinidogion Cymru i addasu rheoleiddio gweithwyr gofal cymdeithasol drwy reoliadau. Bellach, pennir y system o reoleiddio gweithwyr gofal cymdeithasol drwy ddarpariaethau yn y Ddeddf yn hytrach na thrwy reoliadau. Felly, nid yw'r pŵer hwn yn briodol mwyach yng nghyd-destun y diwygio a gyflwynir gan y Ddeddf.
109. Mae'n ofynnol i Ofal Cymdeithasol Cymru roi sylw i'r canllawiau a roddir iddo gan Weinidogion Cymru a chydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddydau y mae Gweinidogion Cymru yn eu dyroddi (gweler adrannau 75 a 76). Gallai canllawiau gynnwys bod Gweinidogion Cymru yn nodi'r ffordd y dylai Gofal Cymdeithasol Cymru fynd ati i wneud adolygiad blynyddol o gyflogau staff. Gallai Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd o dan amgylchiadau pan fu ganddynt

bryderon ynghylch y modd y mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn cael ei lywodraethu neu'r ffordd y mae'n cyflawni ei weithgareddau.

110. Mae adran 77 yn rhoi pwerau diofyn i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â Gofal Cymdeithasol Cymru. Ar hyn o bryd mae gan Weinidogion Cymru yr un pwerau mewn perthynas â'r Cyngor. Gellid dibynnu ar y pŵer hwn pe bai Gofal Cymdeithasol Cymru er enghraifft yn methu â chydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddydau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 76 neu pe bai Gofal Cymdeithasol Cymru yn gweithredu'n groes i gyfraith yr Undeb Ewropeaidd.

Adrannau 78-110 - Rhan 4 - Gweithwyr gofal cymdeithasol

Ystyr "gweithiwr gofal cymdeithasol" etc. (Adran 78)

111. Mae adran 78 yn nodi'r personau hynny sy'n "gweithwyr gofal cymdeithasol" at ddibenion y Bil hwn. Mae is-adran (1) yn deillio o'r diffiniad o weithiwr gofal cymdeithasol yn adran 55 o Ddeddf 2000. Mae'r gweithwyr gofal cymdeithasol a restrir ym mharagraffau (b) i (d) yn rheoli neu'n darparu gofal a chymorth mewn cysylltiad â gwasanaethau rheoleiddiedig; felly mae angen darllen yr adran hon ar y cyd ag adran 2. Ni fydd y diffiniad yn ymwneud â phersonau nad ydynt yn ymwneud â darparu gofal a chymorth ond sydd wedi eu cyflogi mewn manau lle y darperir gofal a chymorth; er enghraifft, nid yw personau sydd wedi eu cyflogi fel garddwyr neu drydanwyr mewn cartref gofal yn cael eu hystyried yn "gweithwyr gofal cymdeithasol".
112. Mae is-adran (2) o adran 78 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i drin categorïau eraill o bersonau yn weithwyr gofal cymdeithasol at ddibenion y Bil hwn, a rhestrir y categorïau hynny yn is-adran (4). Mae'r rhain yn cynnwys personau fel yr unigolion cyfrifol hynny a ddynodir gan ddarparwyr gwasanaethau, gweithiwr cymdeithasol o dan hyfforddiant, arolygwyr gwasanaethau gofal a phersonau sy'n darparu gofal a chymorth mewn cysylltiad â gwasanaethau gofal a chymorth nad ydynt yn "gwasanaethau rheoleiddiedig". Bwriedir i hyn ymwneud â'r ystod o bersonau sy'n gweithio yn y sector gofal cymdeithasol ac sy'n gwneud pethau sy'n ymwneud â gofal a chymorth ac felly, efallai y byddai angen ymdrin â hwy fel gweithwyr gofal cymdeithasol, er enghraifft at ddiben rhoi cyngor neu at ddibenion hyfforddiant. Mae'r rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddynodi categorïau o fewn disgrifiad penodol o bersonau a restrir yn is-adran (3) sydd i'w trin fel gweithwyr gofal cymdeithasol.

Y gofrestr (Adran 79), dyletswydd i benodi cofrestrydd (Adran 80), cais i gofrestru (Adran 81), cofrestru (Adran 82), "wedi ei gymhwyso'n briodol" (Adran 83), cymwysterau a geir y tu allan i Gymru (Adran 84), adnewyddu cofrestriad (Adran 85), cofrestriad yn dod i ben (Adran 86), rheolau ynghylch ceisiadau ar gyfer cofrestru neu adnewyddu (Adran 87), hysbysiad o benderfyniadau mewn cysylltiad â chofrestru neu adnewyddu (Adran 88), gweithwyr cymdeithasol sydd ar ymweliad o Wladwriaethau Ewropeaidd perthnasol (Adran 89), cynnwys y gofrestr (Adran 90)

113. Mae cofrestru wrth wraidd rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol. Mae'r Rhan hon yn gosod y fframwaith mewn perthynas â'r gofrestr. Mae adran 79 yn ailddatgan adran 56 o Ddeddf 2000 ac yn ei gwneud yn ofynnol i Ofal Cymdeithasol Cymru gadw cofrestr o weithwyr cymdeithasol perthnasol, gweithwyr cymdeithasol sydd ar ymweliad o Wladwriaethau Ewropeaidd perthnasol a gweithwyr gofal cymdeithasol o unrhyw ddisgrifiad arall a bennir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau. Felly, gall Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i Ofal Cymdeithasol Cymru gadw cofrestr o reolwyr gwasanaethau rheoleiddiedig neu'r rhai sydd wedi eu cyflogi mewn gwasanaeth rheoleiddiedig.
114. Bydd y gofrestr mewn rhannau; rhan ar gyfer gweithwyr cymdeithasol perthnasol; rhan ar gyfer pob disgrifiad o weithwyr gofal cymdeithasol a bennir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau; a rhan ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sydd ar ymweliad. Os yw Gweinidogion Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i Ofal Cymdeithasol Cymru gadw cofrestr o reolwyr gwasanaethau rheoleiddiedig a'r rhai sydd wedi eu cyflogi mewn gwasanaeth rheoleiddiedig er enghraifft, rhaid bod un rhan o'r gofrestr ar gyfer rheolwyr ac un arall ar gyfer y rhai sydd wedi eu cyflogi mewn gwasanaeth rheoleiddiedig.
115. Yn rhinwedd adran 110 rhaid i weithwyr cymdeithasol sy'n dymuno eu galw eu hunain yn weithwyr cymdeithasol neu'n dweud eu bod yn weithwyr cymdeithasol cofrestredig gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru neu reoleiddiwr cyfatebol yn y DU (mae esboniad pellach ar hyn isod). Mae gweithwyr cymdeithasol yn darparu cynhorthwy i aelodau hyglwyf o'r cyhoedd ac felly mae cofrestru yn ffordd o sicrhau bod unrhyw bersonau sy'n eu galw eu hunain yn weithwyr cymdeithasol wedi eu hasesu fel person sy'n addas i ymarfer gwaith cymdeithasol.
116. Nid yw Deddf 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i weithwyr gofal cymdeithasol o ddisgrifiadau eraill gofrestru. Mae'n ofynnol i gategoriâu penodol o weithwyr gofal cymdeithasol gofrestru yn rhinwedd gofynion a nodir mewn rheoliadau a wneir yn unol ag adran 22 o Ddeddf 2000. Er enghraifft mae rheoliad 9(6) o Reoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002 (O.S. 2002/324) yn nodi nad yw person yn addas i reoli cartref gofal oni bai bod y person wedi ei gofrestru fel rheolwr cartref gofal gyda'r Cyngor. Y bwriad yw y bydd rheoliadau a wneir o dan adran 26 a 27 o'r Bil yn nodi gofynion tebyg. Gweler y nodiadau esboniadol ar gyfer adrannau 26 a 27 am ragor o fanylion. Gallai'r meini prawf ar gyfer addasrwydd rheolwyr a staff gwasanaethau rheoleiddiedig gynnwys bod rhaid iddynt fod wedi eu cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Y bwriad yw y bydd yn ofynnol i'r rhai hynny y mae'n ofynnol iddynt gofrestru gyda'r Cyngor ar hyn o bryd yn rhinwedd rheoliadau a wneir o dan Ddeddf 2000 barhau i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Felly, bydd yn ofynnol i reolwyr gwasanaethau rheoleiddiedig a gweithwyr cartref gofal sy'n cael eu penodi i weithio mewn cartrefi gofal plant gofrestru.
117. Gallai Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i gategoriâu pellach o weithwyr gofal cymdeithasol gofrestru yn rhinwedd rheoliadau a wneir o dan adrannau 26

neu 27 os ydynt yn ystyried bod angen hynny am resymau diogelu'r cyhoedd. Gallai Gweinidogion Cymru hefyd osod gofyniad ar categorïau eraill o weithwyr gofal cymdeithasol i gofrestru drwy estyn diogelwch y teitl a roddir i weithwyr cymdeithasol yn rhinwedd adran 110 i categorïau eraill o weithwyr gofal cymdeithasol. Mae is-adran (2) yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i ddarparu ei bod yn drosedd i gategori o weithiwr gofal cymdeithasol megis rheolwyr gwasanaeth rheoleiddiedig, alw ei hunan neu ddweud ei fod yn rheolwr cofrestredig os nad yw wedi ei gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru neu reoleiddiwr cyfatebol.

118. Er mai dyletswydd a osodir ar Ofal Cymdeithasol Cymru yw cynnal y gofrestr, bydd yn ofynnol iddo benodi cofrestrydd (gweler adran 80). Bydd y cofrestrydd yn aelod o staff Gofal Cymdeithasol Cymru a bydd ganddo gyfrifoldebau amrywiol mewn perthynas â chofrestru; mae'r rhan fwyaf o'r cyfrifoldebau hyn wedi eu nodi yn y Bil, ond mae'n debygol y bydd rhan fwyaf cyfrifoldebau ychwanegol yn cael eu pennu mewn rheolau a wneir gan Ofal Cymdeithasol Cymru. Bydd y cofrestrydd yn atebol i Ofal Cymdeithasol Cymru mewn perthynas â'r ffordd y mae swyddogaethau amrywiol y swydd honno yn cael eu harfer. Mae'r ddyletswydd i benodi cofrestrydd yn ofyniad newydd nad yw'n gymwys i'r Cyngor ar hyn o bryd o dan Ddeddf 2000 (er bod y Cyngor wedi dewis defnyddio ei brif weithredwr yn gofrestrydd). O dan y trefniadau newydd, gallai prif weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru gyflawni'r rôl ond mater i Ofal Cymdeithasol Cymru benderfynu arno yw hwnnw.

Ceisiadau i gofrestru

119. Rhestr o weithwyr gofal cymdeithasol y mae'r cofrestrydd yn ystyried eu bod yn addas i weithio yn y sector gofal cymdeithasol yw'r gofrestr. Bydd y cofrestrydd yn dyfarnu ar hynny drwy gyfeirio at dri maen prawf; er mwyn i berson gael ei gofrestru, rhaid iddo fodloni'r cofrestrydd ei fod: a) wedi ei gymhwyso'n briodol ("amod 1"); b) yn addas i ymarfer ("amod 2") ac, c) yn bwriadu ymarfer gwaith y mae ei gofnod yn ymwneud ag ef ("amod 3"). Gellir cael rhagor o wybodaeth am y meini prawf hyn isod. Er mwyn cael eu cofrestru yn y rhan gweithwyr cymdeithasol o'r gofrestr neu mewn rhan ychwanegol o'r gofrestr, rhaid i ymgeiswyr fodloni'r tri amod. Nid yw'r amodau yn gymwys i'r rhai hynny sy'n dymuno cael eu cofrestru yn y rhan ar gyfer gweithwyr cymdeithasol ar ymweliad; mae manylion am sut y maent hwy yn cael eu cofrestru isod.

Amod 1: wedi ei gymhwyso'n briodol

120. Mae adran 83 yn nodi sut y gall ymgeiswyr ddangos eu bod wedi eu cymhwyso'n briodol at ddiben cofrestru. Bydd hyn yn dibynnu a yw'r ymgeisydd yn weithiwr cymdeithasol neu'n weithiwr gofal cymdeithasol.

Gweithwyr cymdeithasol

121. Mae paragraff (a)(i) yn darparu yr ystyrir bod gweithwyr cymdeithasol wedi eu cymhwyso'n briodol os ydynt wedi ymgymryd â chwrs sydd wedi ei gymeradwyo gan Ofal Cymdeithasol Cymru o dan adran 113. Ar hyn o bryd, y Cyngor sy'n rhoi

cymeradwyaeth mewn cysylltiad â chyrsgiau ar gyfer hyfforddi gweithwyr cymdeithasol o dan adran 63 o Ddeddf 2000. Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn cadw'r swyddogaeth hon. Bydd cyrsiau yn cael eu cymeradwyo gan Ofal Cymdeithasol Cymru os yw wedi ei fodloni y bydd y cwrs yn galluogi'r personau sy'n ei gwblhau i gyrraedd y safon ofynnol o hyfedredd mewn gwaith cymdeithasol (safon a fydd yn cael ei phennu mewn rheolau a wneir gan Ofal Cymdeithasol Cymru). Gall Gofal Cymdeithasol Cymru fod wedi ei fodloni felly bod graddedigion o gyrsiau o'r fath yn cyrraedd ei safonau hyfedredd ac felly'n gymwys i gofrestru.

122. Mae paragraff (a)(ii) yn darparu yr ystyrir bod gweithwyr cymdeithasol wedi eu cymhwyso'n briodol os ydynt yn bodloni gofynion adran 84. Mae adran 84 o'r Bil hwn yn ymwneud â chydabod cymwysterau mewn gwaith cymdeithasol a geir mewn rhannau eraill o'r DU a rhannau eraill o'r byd. Felly, mae'r adran hon yn berthnasol i weithwyr cymdeithasol sydd â chymhwyster o Loegr er enghraifft. Os yw Gofal Cymdeithasol Cymru o'r farn bod cymhwyster a geir y tu allan i Gymru o safon gyfatebol i gymhwyster sy'n cael ei gymeradwyo ganddo, yna ystyrir bod ymgeisydd sy'n meddu ar y cymhwyster hwnnw wedi ei gymhwyso'n briodol. Felly mae graddedigion o gwrs gradd gwaith cymdeithasol yn Lloegr yn bodloni amod 1 os yw'r cymhwyster hwnnw yn cyrraedd safon hyfedredd Gofal Cymdeithasol Cymru. Os yw Gofal Cymdeithasol Cymru o'r farn bod gwahaniaeth sylweddol rhwng y cymhwyster proffesiynol a geir y tu allan i Gymru a'r rhai hynny a gymeradwyir ganddo, gall ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd ddangos ei hyfedredd mewn ffyrdd eraill er mwyn bodloni amod 1. Bydd sut y gall ymgeisydd ddangos ei hyfedredd yn dibynnu ar y man y daw'r ymgeisydd ohono.
123. Ar gyfer ymgeiswyr sy'n dod o wlad o fewn Ardal Economaidd Ewropeaidd ("Gwladwriaethau'r AEE") a'r Swistir, gall Gofal Cymdeithasol Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd gwblhau cyfnod ymaddasu neu basio prawf tueddfryd. Mae Gwladwriaethau'r AEE yn cynnwys pob Aelod-wladwriaeth yr Undeb Ewropeaidd a Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy. Felly, gallai Gofal Cymdeithasol Cymru ei gwneud yn ofynnol i ymgeisydd o'r Alban neu Ffrainc basio prawf tueddfryd i ddangos ei sgiliau a'i allu i ymarfer gwaith cymdeithasol. Fel arfer bydd yn ofynnol i ymgeiswyr gwblhau cyfnod ymaddasu neu basio prawf tueddfryd os oedd hyfforddiant yr ymgeisydd gryn dipyn yn fyrrach na'r hyfforddiant yng Nghymru neu os nad oedd yn cwmpasu'r ystod o weithgareddau sydd yn y cyrsiau a gymeradwyir gan Ofal Cymdeithasol Cymru. Gall ymgeiswyr apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn penderfyniad Gofal Cymdeithasol Cymru i'w gwneud yn ofynnol iddynt gwblhau cyfnod ymaddasu neu basio prawf tueddfryd (gweler adran 104).
124. Ar gyfer ymgeiswyr o unrhyw wlad arall, gall Gofal Cymdeithasol Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd wneud unrhyw hyfforddiant arall y mae'n ei ystyried yn briodol er mwyn i'r ymgeisydd gyrraedd safon hyfedredd Gofal Cymdeithasol Cymru (gweler is-adran (2) o adran 84). Felly, er enghraifft, gallai

Gofal Cymdeithasol Cymru ei gwneud yn ofynnol i weithiwr cymdeithasol cymwysedig o Asia neu America gwblhau hyfforddiant seiliedig ar waith ymarferol er mwyn deall rôl broffesiynol gweithwyr cymdeithasol yng Nghymru.

125. Ystyrir bod ymgeiswyr wedi eu cymhwyso'n briodol os ydynt yn cwblhau unrhyw ofynion ychwanegol a osodir gan Ofal Cymdeithasol Cymru o dan adran 84.
126. Os nad yw gweithiwr cymdeithasol wedi cwblhau cwrs a gymeradwyir nac yn bodloni gofynion adran 84 gall ddangos ei fod wedi ei gymhwyso'n briodol os yw'n bodloni unrhyw amodau hyfforddiant a nodir gan Ofal Cymdeithasol Cymru mewn rheolau (adran 83(a)(iii)). Ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor bŵer tebyg i wneud rheolau ac mae'n defnyddio'r pŵer hwn i gydnabod ymgeiswyr sy'n meddu ar gymwysterau nad ydynt yn cael eu cynnig bellach mewn prifysgolion neu golegau. Felly, mae cymwysterau a gafwyd yn yr 1970au, er enghraifft, nad ydynt bellach yn cael eu cynnig, yn dystiolaeth o hyfforddiant boddhaol.

Gweithwyr Gofal Cymdeithasol

127. Mae paragraff (b)(i) yn darparu yr ystyrir bod gweithwyr gofal cymdeithasol wedi eu cymhwyso'n briodol os ydynt wedi gwneud cwrs sydd wedi ei gymeradwyo gan Ofal Cymdeithasol Cymru o dan adran 113. Ar hyn o bryd, dim ond cyrsiau ar gyfer gweithwyr cymdeithasol y gall y Cyngor eu cymeradwyo. Bydd y ddarpariaeth a wneir yn adran 113 mewn perthynas â chymeradwyo cyrsiau bellach yn gymwys mewn cysylltiad â chysiau ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol o unrhyw ddisgrifiad. Felly, bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn gallu cymeradwyo cyrsiau ar gyfer rheolwr gwasanaethau rheoleiddiedig, er enghraifft. Bydd cwblhau cwrs sydd wedi ei gymeradwyo yn bodloni Gofal Cymdeithasol Cymru bod gweithiwr gofal cymdeithasol wedi ei gymhwyso'n briodol.
128. Gan nad yw'r Cyngor yn cymeradwyo cyrsiau ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol, nid oes cyrsiau wedi eu cymeradwyo ar gael ar hyn o bryd. Felly, mae adran 83(b)(ii) yn galluogi gweithwyr gofal cymdeithasol i ddangos eu bod wedi eu cymhwyso'n briodol os ydynt yn bodloni unrhyw ofynion hyfforddiant a nodir mewn rheolau gan Ofal Cymdeithasol Cymru. Dyma'r dull a ddefnyddir gan y Cyngor ar hyn o bryd ar gyfer asesu a yw gweithwyr gofal cymdeithasol wedi eu cymhwyso'n briodol. Mae'r rheolau yn nodi'r cymwysterau a'r hyfforddiant y mae'r Cyngor yn eu cydnabod. Mae hyn yn wahanol gan ddibynnu ar y disgrifiad o weithiwr gofal cymdeithasol. Felly, er enghraifft, mae rhestr o gymwysterau y maerhaid i reolwr feddu arnynt er mwyn bod yn gymwys i gofrestru.

Amod 2: "addas i ymarfer"

129. Mae'r cysyniad o addasrwydd i ymarfer o bwysigrwydd canolog i reoleiddio gweithwyr gofal cymdeithasol. Yn rhinwedd eu gwaith, mae gan weithwyr gofal cymdeithasol fynediad at rai o aelodau mwyaf hyglwyf y gymdeithas. Mae hawl gan y cyhoedd i ddisgwyl, felly, fod gweithwyr gofal cymdeithasol cofrestredig yn

addas i arfer cyfrifoldebau eu rôl. Nid yw addasrwydd i ymarfer yn ymwneud â pherfformiad proffesiynol a sicrhau bod aelodau cofrestredig yn gymwys yn eu gwaith yn unig. Mae hefyd yn ymwneud â sicrhau hyder y cyhoedd yn y proffesiwn. Bydd yn ofynnol i'r cofrestrydd ddyfarnu a yw ymgeiswyr yn addas i ymarfer. Mae adran 58 o Ddeddf 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr fod o gymeriad da ac yn addas yn gorfforol ac yn feddyliol i wneud y gwaith y mae eu cofrestriad yn ymwneud ag ef. Bydd asesiadau o addasrwydd ymgeisydd i ymarfer yn cael eu gwneud bellach drwy gyfeirio at y seiliau amhariad a nodir yn adran 116. Categoriâu o ymddygiad neu resymau sylfaenol dros yr amhariad yw'r seiliau statudol. Rhaid i'r cofrestrydd fod wedi ei fodloni nad oes amhariad ar addasrwydd yr ymgeisydd i ymarfer ar unrhyw un neu ragor o'r seiliau hynny.

130. Mae addasrwydd i ymarfer yn ofyniad parhaus. Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn ymchwilio i unrhyw honiad neu awgrym bod amhariad ar addasrwydd i ymarfer unrhyw berson sydd wedi ei gofrestru ar y gofrestr a gynhelir gan Ofal Cymdeithasol Cymru ("person cofrestredig"). Os yw Gofal Cymdeithasol Cymru yn ystyried y gall fod amhariad ar addasrwydd person cofrestredig i ymarfer, rhaid iddo atgyfeirio'r mater i'r panel addasrwydd i ymarfer iddo ef gael ei ystyried. Gall paneli addasrwydd i ymarfer ddileu personau cofrestredig o'r gofrestr os ystyrir nad ydynt yn addas i ymarfer bellach; gall paneli hefyd osod sanctiynau ar bersonau cofrestredig i gyfyngu ar eu gallu i ymarfer eu gwaith. Gweler y nodiadau esboniadol sy'n mynd gyda Rhan 6 am fanylion pellach ynghylch achosion am addasrwydd i ymarfer.

Amod 3: bwriad i ymarfer

131. Mae'r gofrestr yn ffordd o reoleiddio'r rhai hynny sy'n ymarfer neu'n bwriadu ymarfer gwaith gofal cymdeithasol. Felly, er mwyn i berson fod yn gymwys i gael ei gofrestru, rhaid i'r cofrestrydd hefyd fod wedi ei fodloni bod y person yn bwriadu ymarfer gwaith y mae ei gofnod yn ymwneud ag ef. Gallai fod yn ofynnol i ymgeiswyr lofnodi datganiad, er enghraifft, sy'n cadarnhau eu bod yn bwriadu ymarfer fel gweithiwr cymdeithasol.

Caniatáu neu wrthod ceisiadau

132. Rhaid i geisiadau i gofrestru sy'n bodloni gofynion adran 82 gael eu caniatáu gan y cofrestrydd. Mae hawl gan unrhyw berson y mae ei gais i gofrestru wedi ei wrthod apelio yn erbyn penderfyniad y cofrestrydd i'r panel apelau cofrestru a fydd yn adolygu'r penderfyniad (gweler adrannau 100 i 102).
133. Nid yw'r amodau cofrestru yn adrannau 82 i 83 yn gymwys i weithwyr cymdeithasol sydd ar ymweliad. Mae'r ymadrodd "gweithwyr cymdeithasol sydd ar ymweliad" yn cyfeirio at weithwyr cymdeithasol o Wladwriaeth AEE neu'r Swistir sydd wedi eu sefydlu'n gyfreithlon i ymarfer gwaith cymdeithasol yn eu gwlad eu hunan ond sy'n ymarfer yn y Deyrnas Unedig dros dro neu'n achlysurol (gweler adran 89). Am esboniad o Wladwriaethau'r AEE gweler y nodyn esboniadol ym mharagraff 123 uchod. Nid yw'n ofynnol i weithwyr cymdeithasol sydd ar ymweliad ddangos eu bod wedi eu cymhwysu'n briodol neu'n addas i

ymarfer. Ar yr amod y caniateir iddynt ymarfer yn gyfreithlon yn eu gwlad eu hun ac mai dim ond dros dro y maent yn ymarfer yn y Deyrnas Unedig, rhaid iddynt gael eu cofrestru gan y cofrestrydd ac ymddangos yn y rhan ymwelwyr Ewropeaidd o'r gofrestr.

134. Mae'r hyn sy'n gyfystyr ag ymarfer dros dro neu'n achlysurol yn gwestiwn ffeithiol a fydd yn amrywio o achos i achos a mater i Ofal Cymdeithasol Cymru benderfynu arno fydd hyn, er y gall ymgeiswyr apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn penderfyniad Gofal Cymdeithasol Cymru (gweler adran 104). Mae'r gyfraith berthnasol ar hyn wedi ei chynnwys yn Rhan 2 o'r Rheoliadau Systemau Cyffredinol (gweler y diffiniad yn is-adran (8)). Mae'r Rheoliadau Systemau Cyffredinol yn system ar gyfer cydnabod cymwysterau proffesiynol a gyflwynwyd gan Gyfarwyddeb 89/48/EEC ac a ategwyd gan Gyfarwyddeb 92/51/EEC. Mae hyn i alluogi cymwysterau'r rhai hynny sydd wedi'u cymhwyso i ymarfer proffesiwn mewn un wlad AEE a'r Swistir i gael eu cydnabod mewn gwlad AEE arall neu'r Swistir, er mwyn iddynt ymarfer yno. Mae gweithwyr cymdeithasol sydd ar ymweliad yn parhau i fod wedi eu sefydlu fel gweithwyr cymdeithasol yn eu gwlad eu hun; am y rheswm hwn, nid oes rhaid asesu eu cymwysterau a'u profiad i ddyfarnu a ydynt yn cyrraedd y safonau hyfedredd ar gyfer ymarfer yng Nghymru. Mae hyn yn wahanol i sefydlu yng Nghymru a bod yn gofrestredig yn y rhan o'r gofrestr i weithwyr cymdeithasol. Er mwyn cofrestru yn y rhan o'r gofrestr i weithwyr cymdeithasol, mae'n ofynnol i weithwyr cymdeithasol sydd wedi cymhwyso y tu allan i Gymru fodloni'r amodau cofrestru y cyfeirir atynt uchod.
135. Bydd cofnod ar gyfer ymgeiswyr y mae eu ceisiadau i gofrestru wedi eu caniatáu yn cael eu cynnwys yn y rhan honno o'r gofrestr y mae eu gwaith yn ymwneud â hi. Mae adran 90 yn nodi'r wybodaeth a fydd yn ymddangos ar y gofrestr mewn cysylltiad â'r rhai sy'n cael eu cofrestru. Gall Gweinidogion Cymru nodi mewn rheoliadau fod rhaid i'r gofrestr ddangos y cymwysterau neu'r profiad ychwanegol sydd gan y person cofrestredig. Gallai Gofal Cymdeithasol Cymru felly anodi cofnod i ddangos bod y person cofrestredig wedi cael cymhwyster ychwanegol y mae ei ansawdd wedi ei sicrhau gan Ofal Cymdeithasol Cymru. Gallai anodi'r gofrestr i adlewyrchu lefelau gwahanol o gymwysterau gael ei ddefnyddio i ategu'r broses o roi model strwythur gyrfaedd ar waith ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol. Gallai'r gofrestr gael ei hanodi, er enghraifft, i ddangos bod gweithiwr cymdeithasol wedi cwblhau rhaglen gwaith cymdeithasol uwch. Gall Gofal Cymdeithasol Cymru wneud rheolau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cofrestrydd gynnwys gwybodaeth arall mewn cofnod yn y gofrestr neu sy'n ei awdurdodi i iddo wneud hynny. Mae'r gofrestr a gynhelir gan y Cyngor yn cynnwys y dref neu'r wlad y mae'r sawl a gofrestrir wedi ei gyflogi ynddi neu'n darparu gwasanaethau ohoni. Gallai'r rheolau a wneir o dan yr adran hon hefyd ei gwneud yn ofynnol i'r cofrestrydd gynnwys gwybodaeth o'r fath yn y gofrestr. Gallai'r rheolau a wneir o dan yr adran hon hefyd ei gwneud yn ofynnol i'r cofrestrydd gynnwys gwybodaeth yn y gofrestr am sgiliau Cymraeg personau cofrestredig.

136. Bydd gan Ofal Cymdeithasol Cymru y pŵer yn ôl rheolau i'w gwneud yn ofynnol i berson adnewyddu ei gofrestrriad yn gyfnodol. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i berson adnewyddu cofrestrriad fesul 3 blynedd, ond caiff Gofal Cymdeithasol Cymru adolygu hyn a phenderfynu ar gyfnod gwahanol. Byddai'n bosibl hefyd i Ofal Cymdeithasol Cymru bennu y gallai cyfnodau gwahanol gael eu pennu ar gyfer categorïau gwahanol o weithiwr gofal cymdeithasol. Ar gyfer adnewyddu, nid oes rhaid i bersonau cofrestredig ddangos eu bod wedi cymhwyso'n briodol gan eu bod wedi gorfod dangos hyn eisoes wrth wneud cais i gofrestru am y tro cyntaf. Yn hytrach, rhaid iddynt ddangos eu bod wedi cydymffurfio ag unrhyw ofynion datblygu proffesiynol parhaus sy'n cael eu gosod gan Ofal Cymdeithasol Cymru o dan adran 112. Gallai hyn gynnwys dysgu seiliedig ar waith, seminarau, addysgu neu weithgareddau eraill sydd wedi eu hanelu at ehangu datblygiad proffesiynol person cofrestredig.
137. Bydd cofnodion yn y gofrestr nad ydynt yn cael eu hadnewyddu yn dod i ben yn awtomatig (adran 86). Fodd bynnag, ni fydd hyn yn wir os yw'r person cofrestredig yn destun achos addasrwydd i ymarfer neu fod panel addasrwydd i ymarfer wedi dyfarnu bod amhariad ar eu gallu i ymarfer (gweler y nodiadau esboniadol ar Ran 6 am esboniad o'r gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer). Gwneir hyn er mwyn osgoi sefyllfa pan all person cofrestredig adael i'w gofrestrriad ddod i ben fel ffordd o osgoi bod eu hachos yn cael ei archwilio a bod posibilrwydd bod sancsiwn yn cael ei osod arnynt.

Dileu drwy gytundeb (Adran 91), marwolaeth person cofrestredig (Adran 92), cofnodion sy'n seiliedig ar wybodaeth anwir neu gamarweiniol (Adran 93)

138. Mae'n ofynnol i'r cofrestrydd sicrhau bod y gofrestr yn gywir ac yn gyfredol. Ar hyn o bryd, nodir y gweithdrefnau y mae'r Cyngor yn eu dilyn ar gyfer diweddarau'r gofrestr yn y rheolau. Mae'r manylion hyn bellach wedi eu nodi yn adrannau 91 i 93; byddai adran 91, er enghraifft, yn caniatáu i Ofal Cymdeithasol Cymru wneud rheolau ynghylch dileu cofnod ar ymddeoliad person o ymarfer fel gweithiwr gofal cymdeithasol.

Dyletswydd i adfer cofnod ar gofrestr (Adran 94), pŵer i adfer cofnod ar gofrestr (Adran 95), adfer yn dilyn achos addasrwydd i ymarfer (Adran 96), achosion adfer (Adran 97), adolygu ataliad dros dro o'r hawl i wneud cais i adfer (Adran 98), pŵer i wneud rheolau ynghylch ceisiadau o dan adran 95 ac 96 (Adran 99)

139. Gall person y mae ei gofnod wedi ei ddileu o'r gofrestr wneud cais iddo gael ei adfer i'r gofrestr. Er enghraifft, gallai gweithiwr cymdeithasol sydd wedi ymddeol ac yn dymuno dychwelyd i weithio wneud cais adfer. Rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru nodi'r weithdrefn ar gyfer gwneud ceisiadau o'r fath mewn rheolau (gweler adran 99). Gallai'r rheolau ddarparu, er enghraifft, fod yr holl geisiadau i'w trin fel cais cyntaf i gofrestru.
140. Pan fo cofnod person wedi cael ei ddileu o'r gofrestr gan banel addasrwydd i ymarfer gan nad oedd yn cael ei ystyried yn addas i ymarfer, rhaid i banel apelau cofrestru wneud y penderfyniad ynghylch pa un a ddylid caniatáu adfer enw'r

person hwnnw i'r gofrestr Mae adran 172 yn darparu bod rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru sefydlu system dyfarnu drwy banel at ddiben apelau sy'n ymwneud â'r gofrestr. Rhaid darllen yr adran hon ar y cyd ag adran 173 sydd, gyda'i gilydd, yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfansoddiad, gweithrediad a gweithdrefn y panel. Mae'n ofynnol i banel apelau cofrestru adolygu'r penderfyniadau a wneir gan y cofrestrydd mewn perthynas â chofrestru a gwneud penderfyniadau ynghylch pa un a ddylai enwau unigolion gael eu hadfer i'r gofrestr. Nid oes modd gwneud ceisiadau adfer yn dilyn achos o ddileu gan banel addasrwydd i ymarfer hyd nes i 5 mlynedd fynd heibio ar ôl i enw'r ymgeisydd gael ei ddileu o'r gofrestr ac wedyn dim ond un cais y flwyddyn y mae modd ei wneud. Bwriedir i'r cyfnod lleiaf hwn adlewyrchu difrifoldeb a natur barhaol penderfyniad i ddileu person o'r gofrestr. (Gweler y nodiadau esboniadol ar Ran 6 am esboniad o'r gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer).

141. Os gwrthodir dau neu ragor o geisiadau i adfer, gall panel apelau cofrestru roi cyfarwyddyd bod y person wedi ei atal dros dro rhag gwneud cais pellach i adfer ei gofnod i'r gofrestr (gweler adran 97(4)). Felly, rhwystrir y person hwnnw rhag gwneud unrhyw gais pellach i adfer. Fodd bynnag,, dair blynedd i ddyddiad y cyfarwyddyd, gall yr ymgeisidd wneud cais i'r cofrestrydd i banel apelau cofrestru adolygu'r ataliad dros dro hwnnw (gweler adran 98(2)). Os yw'r panel apelau cofrestru yn dirymu'r cyfarwyddyd, mae rhwydd hynt i'r ymgeisydd wneud cais i adfer unwaith eto. Fodd bynnag, os yw panel apelau cofrestru yn ystyried y dylai'r cyfarwyddyd aros yn ei le ni all yr ymgeisydd wneud cais arall i adfer. Fodd bynnag, gall y ymgeisydd wneud cais am adolygiad pellach ar ôl i dair blynedd ddod i ben.

Apelau yn erbyn penderfyniadau'r cofrestrydd (Adran 100), apelau i'r panel apelau cofrestru: y weithdrefn (Adran 101), penderfyniadau ar apêl i'r panel apelau cofrestru (Adran 102), apelau yn erbyn penderfyniadau panel apelau cofrestru (Adran 103), apelau eraill: penderfyniadau a wneir o dan y Rheoliadau Systemau Cyffredinol (Adran 104)

142. Mae'n ofynnol i baneli apelau cofrestru adolygu'r penderfyniadau a wneir gan y cofrestrydd mewn perthynas â chofrestru a gwneud penderfyniadau ynghylch pa un a ddylai cofnodion unigolion gael eu hadfer i'r gofrestr ar ôl iddynt gael eu dileu gan banel addasrwydd i ymarfer.
143. Mae adran 103 yn cyflwyno hawl bellach i apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf. Gall y Tribiwnlys glywed apelau ar faterion cyfreithiol a ffeithiol ac mae ganddo siambr sy'n arbenigo mewn materion gofal cymdeithasol.

Dyletswydd i hysbysu'r cofrestrydd am newidiadau i wybodaeth gofrestru (Adran 105), ceisiadau am wybodaeth sy'n ymwneud ag addasrwydd i ymarfer (Adran 106), cyhoeddi etc. y gofrestr (Adran 107), cyhoeddi penderfyniadau penodol panel apelau cofrestru (Adran 108), rhestr o bersonau sydd wedi eu tynnu oddi ar y gofrestr (Adran 109), defnyddio teitl "gweithiwr cymdeithasol" etc. (Adran 110)

144. Mae'n bwysig bod y wybodaeth ddiweddaraf ar y gofrestr a'i bod mor gywir â phosibl. Felly, mae'n ofynnol i Ofal Cymdeithasol Cymru drwy reolau ei gwneud

yn ofynnol i bersonau cofrestredig roi gwybod i'r cofrestrydd am unrhyw newidiadau i'r wybodaeth sydd wedi ei chofnodi amdano ar y gofrestr. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys rhoi gwybod i'r cofrestrydd am newid cyflogwr os yw'r rheolau a wneir gan Ofal Cymdeithasol Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r wybodaeth honno ymddangos ar y gofrestr.

145. Mae adran 106 yn galluogi Gofal Cymdeithasol Cymru i fwrw ati mewn ffordd ragweithiol mewn cysylltiad ag addasrwydd personau cofrestredig i ymarfer; yn hytrach nag aros i honiad gael ei wneud neu i wybodaeth ddod i'w sylw mewn ffordd arall sy'n nodi bod amhariad ar addasrwydd person i ymarfer, mae adran 106 yn galluogi Gofal Cymdeithasol Cymru i gynnal arolygon cyfnodol o bersonau cofrestredig er mwyn ei fodloni ei hun nad oes amhariad ar eu haddasrwydd i ymarfer. Pe bai'r cofrestrydd yn dod yn ymwybodol o unrhyw faterion drwy'r broses hon gallai hysbysu Gofal Cymdeithasol Cymru a allai atgyfeirio'r mater am ymchwiliadau pellach o dan Bennod 2 o Ran 6 (gweler y nodyn esboniadol sy'n mynd gyda Rhan 6 am ragor o wybodaeth).
146. Oherwydd rhesymau'n ymwneud â diogelu'r cyhoedd, gall y gofrestr adlewyrchu'r sancsiynau hynny a osodwyd gan y panel addasrwydd i ymarfer ar berson sydd wedi ei gofrestru (gweler adran 90). Fodd bynnag, ni fydd y gofrestr yn dangos bod cofnod person wedi ei ddileu. Felly, mae'n ofynnol i Ofal Cymdeithasol Cymru gadw rhestr o'r personau hynny y mae eu cofnodion wedi eu dileu. Pe bai gan aelodau o'r cyhoedd bryderon am weithiwr cymdeithasol ac yn methu â dod o hyd i'w enw ar y gofrestr, gallent chwilio am enw'r person ar y rhestr o bersonau sydd wedi eu dileu o'r gofrestr i weld a oeddent wedi cael eu dileu mewn gwirionedd ar y sail eu bod yn anaddas i ymarfer.
147. Mae adran 110 yn darparu diogelwch teitl "gweithiwr cymdeithasol". Mae hyn yn cael ei ddiogelu ar hyn o bryd o dan adran 61 o Ddeddf 2000. Mae is-adran (2) yn darparu pŵer gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru allu ychwanegu disgrifiadau eraill o weithwyr gofal cymdeithasol y gallai fod angen diogelu eu teitl. Er enghraifft, gallai rheoliadau ei gwneud yn drosedd i berson nad yw wedi ei gofrestru fel rheolwr gwasanaeth rheoleiddiedig ddefnyddio'r teitl hwnnw neu ddweud ei fod yn gofrestrdig gyda'r bwriad o dwyllo. Mae'n ofynnol i Ofal Cymdeithasol Cymru nodi ei bolisi ar erlyn troseddau o dan adran 110 (gweler adran 71). Gallai hyn nodi, er enghraifft, y bydd ei fod yn gadael i Wasanaeth Erlyn y Goron ddwyn achos, neu mewn achosion penodol y bydd yn dwyn erlyniadau preifat.

Adrannau 111-115 - Rhan 5 - Gweithwyr Gofal Cymdeithasol: Safonau ymddygiad, addysg etc.

Codau ymarfer (Adran 111)

148. Mae datblygu codau ymarfer yn agwedd bwysig ar reoleiddio gweithlu gan fod y codau yn nodi ac yn disgrifio'r safonau ymarfer y disgwylir i weithwyr gofal cymdeithasol eu cyrraedd. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn cynhyrchu codau o dan adran 62 o Ddeddf 2000. Cedwir y swyddogaeth hon. Bydd y codau yn berthnasol

pan fo cwynion wedi eu gwneud am addasrwydd gweithiwr gofal cymdeithasol i ymarfer; gall methu â chydymffurfio â safon mewn cod fod yn dystiolaeth o anaddasrwydd person i ymarfer. Gallai codau osod safonau ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol yn gyffredinol neu gallai Gofal Cymdeithasol Cymru wneud codau penodol yn berthnasol i gategorïau penodol o weithwyr gofal cymdeithasol yn unig, er enghraifft cod ymarfer ar gyfer rheolwyr gwasanaethau rheoleiddiedig.

149. Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd yn gallu cynhyrchu codau ymarfer ar gyfer gweithwyr proffesiynol iechyd meddwl (GPIM) a gymeradwywyd. Mae GPIM yn arfer swyddogaethau o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 ("Deddf 1983"). Mae'r swyddogaethau hynny yn ymwneud â phenderfyniadau a wneir am unigolion sydd ag anhwylderau meddwl, gan gynnwys y penderfyniad i wneud cais i orfodi claf i fynd i'r ysbyty. Gall gweithwyr cymdeithasol hyfforddi i fod yn GPIM ac felly gall Gofal Cymdeithasol Cymru nodi'r safonau y disgwylir i weithwyr cymdeithasol o'r fath eu cyrraedd. Mae gan y Cyngor y swyddogaeth o gymeradwyo cyrsiau i GPIM o dan adran 114A o Ddeddf 1983. Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn cadw'r swyddogaeth hon.
150. Mae amgylchedd gwaith yn dylanwadu ar berfformiad gweithwyr a bydd yn bwysig i Ofal Cymdeithasol Cymru allu nodi'r safonau y disgwylir i'r rhai hynny sy'n cyflogi gweithwyr gofal cymdeithasol eu cyrraedd; mae adran 111 yn caniatáu i'r safonau hyn gael eu gosod. Efallai y bydd safonau o'r fath yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr sicrhau nad yw ond yn ofynnol i gyflogeion wneud gwaith sy'n briodol neu'n addas ar eu cyfer gan roi sylw i'w cymwysterau a'u profiad. Bydd angen cadw'r holl godau ymarfer yn gyfredol er mwyn iddynt adlewyrchu'r datblygiadau diweddaraf mewn maes sy'n gallu newid yn gyflym; i'r perwyl hwnnw, bydd yn ofynnol i Ofal Cymdeithasol Cymru adolygu'r codau a'u hamrwio pan fo hynny'n briodol.

Datblygiad proffesiynol parhaus (Adran 112)

151. Diben yr hyfforddiant y caniateir iddo fod yn ofynnol o dan yr adran hon fydd sicrhau bod gweithwyr gofal cymdeithasol yn cynnal ac yn diweddarau eu gwybodaeth a'u cymhwysedd mewn amgylchedd sy'n datblygu o hyd. Bydd angen i bersonau cofrestredig gydymffurfio ag unrhyw ofynion datblygiad proffesiynol parhaus er mwyn adnewyddu eu cofrestriad (gweler adran 85). Rhaid i reolau a wneir gan Ofal Cymdeithasol Cymru mewn perthynas â hyfforddiant o'r fath ystyried unrhyw hyfforddiant y mae gweithiwr cymdeithasol sydd ar ymweliad o wlad AEE neu'r Swistir wedi ei wneud yn ei wlad ei hun i sicrhau nad oes gwahaniaethu yn erbyn gweithwyr o'r fath.

Cymeradwyo cyrsiau etc. (Adran 113)

152. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn cymeradwyo cyrsiau cymhwysu a chysiau ôl-gymhwysu mewn gwaith cymdeithasol. Mae adran 113 yn cadw'r swyddogaeth hon ond hefyd yn darparu'r pŵer i Ofal Cymdeithasol Cymru i gymeradwyo cyrsiau sy'n addas i weithwyr gofal cymdeithasol eraill. Mae ei gwneud yn ofynnol i weithwyr gofal cymdeithasol gael cymwysterau penodol er mwyn cofrestru yn

ffordd o sicrhau bod gweithwyr wedi eu cymhwyso ond nid yw hynny ynddo'i hun yn gwarantu ansawdd y cyrsiau sy'n arwain at y cymwysterau. Bwriad rhoi rôl o ran cymeradwyo cyrsiau o'r fath i Ofal Cymdeithasol Cymru yw cynnal safon uchel yn ansawdd yr addysg a ddarperir i weithwyr gofal cymdeithasol presennol a darpar weithwyr gofal cymdeithasol.

Arolygiadau mewn cysylltiad â chyrsgiau penodol (Adran 114)

153. Fel rhan o'i bŵer i gymeradwyo cyrsiau hyfforddi mewn gwaith gofal cymdeithasol, bydd angen i Ofal Cymdeithasol Cymru allu ymweld â'r manau sy'n darparu'r hyfforddiant hwn ac adrodd arnynt. Bydd angen hefyd iddo asesu'n barhaus a yw darparwyr yn parhau i gyrraedd safonau sy'n ofynnol ar gyfer cymeradwyaeth fel rhan o'r broses sicrhau ansawdd. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn arolygu darparwyr cyrsiau mewn gwaith cymdeithasol. Mae adran 114 yn galluogi Gofal Cymdeithasol Cymru i barhau i wneud hyn ond mae hefyd yn ei alluogi i arolygu darparwyr cyrsiau ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol eraill. Gellid defnyddio'r pŵer hwn i ymweld â sefydliadau addysg ond hefyd, er enghraifft, gellid ei ddefnyddio i ymweld â lleoliadau ymarfer y mae myfyrwyr yn mynd iddynt i ddatblygu eu sgiliau ymarferol.

Swyddogaethau eraill Gofal Cymdeithasol Cymru mewn cysylltiad ag addysg a hyfforddiant (Adran 115)

154. Bydd is-adran (1) yn caniatáu i Ofal Cymdeithasol Cymru wneud darpariaeth ar gyfer hyfforddiant gweithwyr gofal cymdeithasol a darpar weithwyr; gallai hynny fod drwy ddarparu hyfforddiant ei hun, neu drwy gomisiynu cyrsiau priodol gan berson arall. Gallai'r sefyllfa hon godi pe bai Gofal Cymdeithasol Cymru o'r farn bod nifer y cyrsiau hyfforddi sydd ar gael i weithwyr gofal cymdeithasol dan hyfforddiant o'r fath neu ansawdd y cyrsiau hynny yn cael effaith andwyol ar ansawdd y gofal a'r cymorth a gynigir yng Nghymru.

Adrannau 116-162 - Rhan 6 - Gweithwyr gofal cymdeithasol: Addasrwydd i ymarfer Pennod 1 - Seiliau amhariad

Addasrwydd i ymarfer (Adran 116)

155. Mae'r Rhan hon yn nodi'r fframwaith ar gyfer ymchwilio i honiadau o amhariad ar addasrwydd i ymarfer a'r fframwaith sy'n llywodraethu gwrandawiaid addasrwydd i ymarfer. Mae'r system gyfredol a weithredir gan y Cyngor wedi ei nodi mewn rheolau a wnaed o dan Ddeddf 2000. Mae'r system hon bellach wedi ei nodi'n fanwl yn y Rhan hon (er y bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn gwneud rheolau o hyd; bydd y rhain yn ategu'r hyn a welir yn y Rhan hon a bydd yn ymwneud â materion gweithdrefnol yn bennaf).

156. Bydd paneli addasrwydd i ymarfer yn gwneud penderfyniadau ynghylch a oes amhariad ar addasrwydd person cofrestredig i ymarfer. Mae'r paneli hyn hefyd yn penderfynu ar ba sancsiynau sy'n briodol yn dilyn ystyriaeth o achos (gweler adran 172 am ddarpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i Ofal Cymdeithasol Cymru sefydlu paneli addasrwydd i ymarfer a'r nodyn esboniadol sy'n mynd gydag adrannau 172 a 173 am esboniad o gyfansoddiad a gweithdrefnau'r paneli).

157. Mae adran 116 yn darparu mai dim ond am un neu ragor o'r seiliau a bennir yn is-adran (1) y caniateir ystyried bod amhariad ar addasrwydd person i ymarfer.
158. Yn is-adran (1)(a), mae'n debygol y bydd tystiolaeth o "perfformiad diffygiol fel gweithiwr gofal cymdeithasol" yn cynnwys methiannau i gydymffurfio â'r safonau ymddygiad ac ymarfer y disgwylir i weithwyr gofal cymdeithasol eu cyrraedd, a nodir yn y codau ymarfer a ddyroddir gan Ofal Cymdeithasol Cymru o dan adran 111. Er na fydd personau sy'n gwerthuso perfformiad gweithiwr gofal cymdeithasol wedi eu cyfyngu i ystyried cydymffurfedd â'r codau yn unig. Bwriedir i'r sail hon ymwneud â methiannau difrifol neu fynych i ddilyn y safonau ymddygiad y disgwylir i weithwyr gofal cymdeithasol sy'n ymarfer eu cyrraedd. Felly gallai un achos o driniaeth esgeulus fod yn gyfystyr â pherfformiad diffygiol, yn yr un modd ag y gallai methiannau technegol mynych neu fynd oddi wrth arferion da dro ar ôl tro.
159. Yn is-adran (1)(b), mae camymddwyn difrifol yn cyfeirio at ymddygiad a all fod yn gysylltiedig ag arfer sgiliau proffesiynol neu ddim, ond bod yr ymddygiad hwnnw'n dwyn gwarth ar y person cofrestredig ac felly yn gwneud niwed i allu'r person hwnnw i ymarfer yn ddiogel ac i enw da'r proffesiwn. Felly mae modd i ymddygiad gweithiwr gofal cymdeithasol y tu allan i'w waith proffesiynol arwain at gamau pan fo posibilrwydd y bydd hyder y cyhoedd mewn gweithwyr gofal cymdeithasol yn cael ei danseilio os na chymerir camau.
160. Yn is-adran (1)(c), mae "rhestr wahardd" yn cyfeirio at restr o unigolion y bernir eu bod yn anaddas i weithio gyda phlant neu oedolion hyglwyf. Mae'r rhestr yn cael ei chynnal yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd o dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006. Yn yr Alban cynhelir y rhestr gan Disclosure Scotland o dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf (Yr Alban) 2007. Yn nodweddiadol mae personau wedi eu gwahardd oherwydd iddynt gyflawni troseddau sy'n ymwneud â cham-drin plant neu oedolion hyglwyf.
161. Mae dyfarniadau gan gorff perthnasol yn ddyfarniadau a wneir gan reoleiddwyr cyfatebol gweithwyr gofal cymdeithasol. Felly, er enghraifft, pe bai rheoleiddiwr gweithwyr cymdeithasol yn Lloegr, sef y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal, yn penderfynu nad oedd gweithiwr cymdeithasol yn addas i ymarfer, gallai'r cofrestrydd ddibynnu ar y penderfyniad hwnnw i wrthod cais y gweithiwr cymdeithasol hwnnw i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Bydd hyn yn rhwystro personau rhag osgoi penderfyniad un rheoleiddiwr drwy gofrestru ag un arall. Yn yr un modd, caiff canfyddiadau a wneir yn y cyd-destun Cymreig ynghylch addasrwydd person i ymarfer lywio penderfyniadau mewn perthynas â chofrestrau sy'n cael eu cynnal gan reoleiddwyr eraill yn y Deyrnas Unedig a thu hwnt.
162. Mewn cysylltiad ag is-adran (1)(e), ni fydd angen i Ofal Cymdeithasol Cymru gymryd rhan o reidrwydd dim ond oherwydd bod gweithiwr gofal cymdeithasol

yn sâl. Dim ond os oes gan weithiwr gofal cymdeithasol gyflwr meddygol (gan gynnwys bod yn gaeth i gyffuriau ac alcohol) sy'n cael effaith ar ei allu i ymarfer i safon dderbyniol y dylid dibynnu ar y sail hon.

163. Ni fydd pob canfyddiad o amhariad o dan is-adran (1) yn golygu'n awtomatig fod amhariad ar addasrwydd y sawl sydd wedi ei gofrestru i ymarfer. Ystyrir ffactorau perthnasol eraill gan gynnwys, er enghraifft mewn achos sy'n ymwneud â pherfformiad diffygiol, pa un a oes modd datrys y problemau o dan sylw yn hawdd neu a oes camau wedi eu cymryd i fynd i'r afael â'r broblem.

Pennod 2 - Gweithdrefnau rhagarweiniol

Atgyfeirio honiadau etc. o amhariad ar addasrwydd i ymarfer (Adran 117), ystyriaeth ragarweiniol (Adran 118), cymhwystra ar gyfer atgyfeirio ymlaen (Adran 119), atgyfeirio'n uniongyrchol i banel addasrwydd i ymarfer (Adran 120), hysbysiad: anghymhwystra ar gyfer atgyfeirio ymlaen (Adran 121), hysbysiad: atgyfeirio ymlaen (Adran 122), hysbysiad: atgyfeirio i banel gorchmynion interim (Adran 123)

164. Mae'r Bennod hon yn nodi'r fframwaith ar gyfer ymchwilio i honiadau o amhariad ar addasrwydd i ymarfer sy'n cael eu gwneud i Ofal Cymdeithasol Cymru mewn cysylltiad â pherson cofrestredig; mae'r Bennod hon hefyd yn gymwys pan fo gan Ofal Cymdeithasol Cymru seiliau eraill dros gredu y gall fod amhariad ar addasrwydd person (er enghraifft, os daw Gofal Cymdeithasol Cymru i wybod drwy adroddiad yn y cyfryngau fod gweithiwr cymdeithasol wedi cael ei arestio neu ei ddiswyddo).
165. Mae ystyriaeth ragarweiniol yn cyfeirio at y broses o ystyried honiadau neu'r wybodaeth i ddyfarnu pa un a ddylid rhoi ystyriaeth bellach i'r achos ai peidio. Dyma fydd proses Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer sgrinio honiadau a gwybodaeth o'r fath; a gallai'r broses hon gael ei chynnal gan aelod neu aelodau o staff Gofal Cymdeithasol Cymru neu gan bersonau eraill sydd wedi eu penodi at y diben hwnnw. Gall Gofal Cymdeithasol Cymru drin unrhyw wybodaeth sy'n cael ei dwyn i'w sylw fel honiad posibl ac nid oes gofynion llym ynghylch ffurf yr honiadau (adran 117).
166. Diben ystyriaeth ragarweiniol yw penderfynu a yw'r mater yn haeddu ymchwilio pellach, neu atgyfeiriad uniongyrchol i banel addasrwydd i ymarfer oherwydd ei ddifrifoldeb. Mae adran 119 yn nodi'r meini prawf cymhwystra ar gyfer atgyfeirio ymlaen i ymchwilio neu ystyriaeth y panel ar unwaith.
167. Os oes mater sy'n gymwys i'w atgyfeirio ymlaen rhaid iddo gael ei atgyfeirio am ymchwiliad neu'n uniongyrchol i banel addasrwydd i ymarfer. Rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru atgyfeirio honiadau ynghylch collfarnau am droseddau y gosodwyd neu y gellid bod wedi gosod dedfryd o garchar mewn cysylltiad â hwy yn uniongyrchol i banel addasrwydd i ymarfer a bydd ganddo'r pwerau i bennu mewn rheolau unrhyw gategorïau eraill o achosion y mae rhaid eu atgyfeirio'n uniongyrchol. Mae hyn oherwydd nad oes angen ymchwilio i'r ffeithiau sy'n arwain at gollfarnau fel hyn a bydd rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru allu

gweithredu'n gyflym i ymdrin â phersonau cofrestredig sydd wedi eu collfarnu o droseddau difrifol.

168. Ar unrhyw adeg yn y broses addasrwydd i ymarfer, gan gynnwys ystyriaeth ragarweiniol, gellir atgyfeirio achos person cofrestredig i banel gorchmynion interim. Mae paneli gorchmynion interim yn ystyried a oes angen unrhyw fesurau ar unwaith i warchod y cyhoedd neu'r person cofrestredig tra bo'r materion yn cael eu hystyried neu tra ymchwilir iddynt. Gallai'r mesurau hyn gynnwys cyfyngu ar ystod y gweithgareddau y caniateir i'r person cofrestredig eu gwneud, neu atal dros dro gofrestriad y person cofrestredig; mae darpariaethau manwl sy'n ymwneud â mesurau interim i'w gweld ym Mhennod 4 o'r Rhan hon ac maent yn cael eu hesbonio isod.

Dyletswydd i ymchwilio (Adran 124), pwerau yn dilyn ymchwiliad (Adran 125), hysbysiad: atgyfeirio neu waredu (Adran 126), rhybuddion (Adran 127), ymgymeriadau (Adran 128), cyfryngu (Adran 129)

169. Mae adrannau 124-129 yn darparu i Ofal Cymdeithasol Cymru ymchwilio i honiadau o amhariad ar addasrwydd i ymarfer, neu i bersonau sy'n gweithredu ar ran Gofal Cymdeithasol Cymru ymchwilio iddynt. Er enghraifft, gallai Gofal Cymdeithasol Cymru ddarparu bod pob math o ymchwiliad neu fathau penodol o ymchwiliadau i'w cynnal gan aelodau o staff neu gan unigolion eraill sydd wedi eu penodi at y diben hwnnw. Fel arall, gallai sefydlu pwyllgor ymchwilio i gynnal ymchwiliadau. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn defnyddio pwyllgor ymchwilio i ymchwilio i gwynion. Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd yn gallu penodi cynghorwyr megis cynghorwyr ieched. Efallai y bydd angen hyn wrth ymchwilio i honiadau y gall fod amhariad ar addasrwydd person cofrestredig i ymarfer oherwydd cyflwr ieched a'i bod yn ofynnol deall y cyflwr neu asesu ei alluedd.
170. Ar ddiwedd yr ymchwiliad, rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru atgyfeirio'r mater i banel addasrwydd i ymarfer os yw'r mater yn bodloni'r prawf rhagolwg realistig a geir yn adran 125(2)(a) a'i bod er budd y cyhoedd i atgyfeirio'r mater.
171. Pan na fo achos yn cael ei atgyfeirio i banel addasrwydd i ymarfer, bydd gan Ofal Cymdeithasol Cymru ystod o opsiynau ar gael iddo i waredu'r achos; mae'r rhain wedi eu nodi yn adran 125. Pan fo Gofal Cymdeithasol Cymru yn penderfynu y gall rhybuddio'r person cofrestredig am ei ymddygiad fod yn briodol, mae hawl gan y person cofrestredig i ofyn am wrandawriad llafar. Mae hyn i roi cyfle i'r person i gyflwyno sylwadau os yw'n teimlo nad yw rhybudd yn briodol: gall rhybudd sydd wedi ei ddyroddi gael ei gofnodi ar y cofnod yn y gofrestr sy'n ymwneud â'r person hwnnw. Gall Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd gytuno ar ymgymeriadau gyda phersonau cofrestredig. Er enghraifft, gallai hyn fod yn gytundeb bod rhaid i'r person cofrestredig gwblhau cwrs hyfforddi pan fo'r ymchwiliad wedi datgelu y gall gael budd o hyfforddiant ychwanegol.
172. Mae darpariaeth yn adran 129 ar gyfer cyflwyno cyfryngu fel ffordd o waredu achosion a atgyfeirir ar gyfer ymchwiliad. Dim ond os oes darpariaeth yn cael ei

gwneud drwy reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru y mae modd cyflwyno cyfryngu. Mae cyfryngu yn gysyniad sy'n dod i'r amlwg mewn achosion addasrwydd i ymarfer. Nid yw'r ffordd hon wedi ennill ei phlwyf o ran datrys materion addasrwydd i ymarfer ac felly nid yw ei defnydd yn y broses wedi ei asesu a'i ddadansoddi yn llawn. Teimlir y dylai asesiad o'r fath ddigwydd cyn iddo gael ei gyflwyno i broses addasrwydd i ymarfer Gofal Cymdeithasol Cymru. Fodd bynnag, gallai cyfryngu fod yn fuddiol mewn achosion pan na fo'r honiadau yn gyfystyr ag amhariad ar addasrwydd i ymarfer ond bod angen datrys materion rhwng y person cofrestredig a'r achwynydd sy'n debygol o gael effaith niweidiol a pharhaus ar berthynas barhaus. Pe byddai cyfryngu'n cael ei gyflwyno, byddai rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol gymeradwyo rheoliadau drafft cyn eu gwneud (gweler adran 185(2)).

Adolygu penderfyniadau gan GCC (Adran 130), canslo atgyfeiriad i banel addasrwydd i ymarfer (Adran 131), atgyfeirio gan GCC ar gyfer achos adolygu (Adran 132)

173. Mae adran 130 yn darparu mecanwaith ar gyfer adolygu penderfyniadau penodol ar ddiwedd ystyriaeth ragarweiniol ac ymchwiliad. Mae hyn yn galluogi Gofal Cymdeithasol Cymru i ailystyried penderfyniadau i sicrhau eu bod yn cael eu gwneud yn briodol neu i ailystyried penderfyniadau yng ngoleuni gwybodaeth newydd nad oedd ar gael pan wnaed y penderfyniad gwreiddiol. Gall unrhyw un sydd â buddiant yn y penderfyniad ym marn Gofal Cymdeithasol Cymru wneud cais am adolygiad. Nid yw'r pŵer adolygu yn cynnwys penderfyniadau i atgyfeirio achosion i banel gorchmynion interim neu banel addasrwydd i ymarfer. Mae gan Ofal Cymdeithasol Cymru bŵer ar wahân i ganslo atgyfeiriadau o'r fath yn adran 131.
174. Mae adran 130 yn ei gwneud yn ofynnol i Ofal Cymdeithasol Cymru adolygu penderfyniad a grybwyllir yn is-adran (2) os ymddengys i Ofal Cymdeithasol Cymru fod nam perthnasol ar y penderfyniad. Gallai hyn fod oherwydd gwall a wnaed gan Ofal Cymdeithasol Cymru wrth weinyddu'r achos sy'n tanseilio'r penderfyniad, megis colli tystiolaeth berthnasol, neu gamfarn neu wall ymresymu ar ran gwneuthurwr y penderfyniad. Mae gan Ofal Cymdeithasol Cymru bŵer eang i wneud rheolau i benderfynu ar y broses a fydd yn gymwys i adolygiadau o dan adran 130. Er enghraifft, gallai Gofal Cymdeithasol Cymru ddarparu mai'r cofrestrydd sy'n gwneud y penderfyniad terfynol.
175. Ar derfyn ymchwiliad neu yn dilyn ystyriaeth gan banel addasrwydd i ymarfer, gellir gosod sancsiynau ar berson cofrestredig. Mae'r rhain yn cynnwys gosod amodau ar gofrestrriad person cofrestredig, er enghraifft cyfyngu ar y meysydd y gall ymarfer ynddynt, atal dros dro'r person cofrestredig am gyfnod o amser neu ei gwneud yn ofynnol i'r person cofrestredig gytuno i ymgymeriad (gweler y nodiadau esboniadol sy'n mynd gydag adrannau 125 ac adrannau 134-154). Bydd buddiant cyhoeddus sylweddol yn gysylltiedig ag adolygu sancsiynau er mwyn sicrhau cydymffurfedd â'r sancsiynau ac er mwyn asesu addasrwydd person cofrestredig i ymarfer yn sgil y sancsiynau sydd wedi eu gosod. Mae Pennod 5 yn nodi'r system ar gyfer adolygu gorchmynion cofrestru amodol, gorchmynion atal

dros dro ac ymgymeriadau. Cynhelir gwrandawriadau adolygu gan baneli addasrwydd i ymarfer ac mae dwy ffordd y gellir cychwyn adolygiad.

176. Y ffordd gyntaf yw bod rhaid i adolygiad gael ei gynnal os oes cyfarwyddyd i wneud hynny yn y gorchymyn neu'r ymgymeriad gwreiddiol. Er enghraifft, mae ymgymeriad y cytunir arno rhwng person cofrestredig a phanel addasrwydd i ymarfer i gwblhau cwrs hyfforddi yn ei gwneud yn ofynnol i adolygiad gael ei gynnal ar ôl 6 mis i asesu cydymffurfedd â'r ymgymeriad. Mae is-adrannau (1)-(6) o adran 150 yn ei gwneud yn ofynnol i baneli addasrwydd i ymarfer gynnal adolygiadau pan fo hynny yn ofynnol gan yr ymgymeriad, y gorchymyn cofrestru amodol neu'r gorchymyn atal dros dro. Gweler y nodyn esboniadol sy'n mynd gyda Pennod 5.
177. Mae adran 132 yn nodi'r ail ffordd o gychwyn adolygiad. Gofal Cymdeithasol Cymru sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfedd ag amodau, ataliadau dros dro ac ymgymeriadau. Mae adran 132(3) yn gosod dyletswydd ar Ofal Cymdeithasol Cymru i atgyfeirio achosion i baneli addasrwydd i ymarfer i gynnal adolygiad os oes ganddo reswm dros gredu bod person cofrestredig wedi torri ymgymeriad neu amod. Er enghraifft, os daw Gofal Cymdeithasol Cymru yn ymwybodol bod person cofrestredig yn methu â chydymffurfio â gorchymyn cofrestru amodol a'i fod yn ymarfer mewn maes y mae wedi ei wahardd rhag ymarfer ynddo, byddai'n ofynnol i Ofal Cymdeithasol Cymru atgyfeirio'r mater i'w adolygu. Ni fyddai'r wybodaeth hon yn cael ei thrin fel honiad newydd ac ymchwilir iddi yn unol â hynny. Byddai'n cael ei atgyfeirio ar unwaith i banel addasrwydd i ymarfer i'w adolygu.
178. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd yn gallu atgyfeirio materion ar gyfer achosion adolygu ar unrhyw adeg os yw'n ystyried bod adolygiad yn ddymunol (adran 132(2)). Gallai hyn fod oherwydd bod Gofal Cymdeithasol Cymru wedi cael honiad bod person cofrestredig sy'n ddarostyngedig i orchymyn cofrestru amodol yn ymddwyn mewn ffordd sy'n rhoi amheuaeth ar ei addasrwydd i ymarfer. Unwaith eto, ni fydd y honiad hwn yn cael ei drin fel honiad newydd, yn hytrach fe'i hatgyfeirir ar unwaith i banel addasrwydd i ymarfer i'w adolygu.

Pennod 3 - Gwaredu achosion addasrwydd i ymarfer

Cwmpas Pennod 3 a'i dehongli (Adran 133), dileu o'r gofrestr ar sail gydsyniol (Adran 134), gwaredu cydsyniol arall gan banel addasrwydd i ymarfer: ymgymeriadau (Adran 135), gwarediadau gan banel addasrwydd i ymarfer: canfyddiad o ddim amhariad (Adran 136), gwarediadau gan banel addasrwydd i ymarfer: canfyddiad o amhariad (Adran 137), gwarediadau: darpariaeth bellach ynghylch gorchymynion cofrestru amodol, atal dros dro a dileu (Adran 138), gorchymynion effaith ar unwaith ar gyfer cofrestru amodol neu atal dros dro (Adran 139), penderfyniadau addasrwydd i ymarfer: hysbysu a chymryd effaith (Adran 140), rheoliadau ynghylch gwarediadau gan baneli addasrwydd i ymarfer (Adran 141)

179. Mae paneli addasrwydd i ymarfer yn ystyried honiadau bod amhariad ar addasrwydd person cofrestredig i ymarfer. Mae'r Bennod hon yn nodi'r amrywiol bwerau sydd gan y paneli i waredu achosion.
180. Rhaid i baneli addasrwydd i ymarfer ddyfarnu a oes amhariad ar addasrwydd person i ymarfer ar unrhyw un neu ragor o'r seiliau sail a restrir yn adran 116. Mae gan y panel y pŵer i osod sancsiynau yn dilyn canfyddiad o amhariad (gweler adran 137). Prif ddiben sancsiwn yw amddiffyn y cyhoedd yn hytrach na chosbi, er y gall gael effaith gosbi hefyd. Pan fo panel wedi canfod nad oes amhariad ar addasrwydd person cofrestredig i ymarfer, mae gan y panel ystod o opsiynau o ran sut i waredu'r achos; mae'r rhain yn cynnwys rhybuddio'r person cofrestredig am ei ymddygiad neu roi cyngor am newid ei ymddygiad yn y dyfodol (gweler adrannau 134 a 136). Gall Gofal Cymdeithasol Cymru gyhoeddi canllawiau y bydd yn ofynnol i baneli addasrwydd i ymarfer eu hystyried wrth osod sancsiynau neu waredu achosion (gweler adran 160). Er enghraifft, gallai'r canllawiau nodi'r ffactorau y dylai'r panel eu hystyried wrth ystyried a ddylid dyroddi rhybudd.
181. Dim ond am gyfnod o 3 blynedd yn y lle cyntaf y gellir gosod unrhyw amodau a osodir ar gofrestrriad person cofrestredig gan banel addasrwydd i ymarfer a dim ond am 12 mis yn y lle cyntaf drwy orchymyn atal dros dro y gellir atal dros dro gofrestrriad person cofrestredig. Mae manylion am y broses adolygu ar gyfer adolygu amodau ac ataliadau dros dro i'w gweld ym Mhennod 5 ac mae'n cael ei hesbonio isod. Gall amodau ac ataliadau dros dro gael eu hestyn heibio'r terfynau amser a osodir gan banel addasrwydd i ymarfer yn sgil adolygiad. Gallai gweithiwr cymdeithasol, er enghraifft, gael ei atal dros dro rhag ymarfer fel gweithiwr cymdeithasol am 12 mis gan banel addasrwydd i ymarfer; wrth wneud y gorchymyn atal dros dro gallai'r panel bennu y byddai'r gorchymyn atal dros dro yn cael ei adolygu gan banel addasrwydd i ymarfer arall fis cyn i'r gorchymyn ddod i ben. Pe bai'r panel a oedd yn cynnal yr adolygiad yn ystyried bod yr amhariad yn parhau i fod ar addasrwydd y person i ymarfer, gallai ddefnyddio adran 153 i estyn y gorchymyn atal dros dro am flwyddyn arall. Fodd bynnag, ni allai ddefnyddio adran 153 i estyn yr ataliad dros dro am gyfnod hwy na 12 mis. Yn yr un ffordd, ni allai estyn gorchymyn cofrestru amodol am gyfnod pellach sy'n hwy na 3 blynedd. Nid oes modd i estyniadau fod yn fwy na'r terfynau amser a osodir yn adran 138.
182. Wedi dweud hynny, mae amgylchiadau pan fo modd estyn gorchymynion atal dros dro am gyfnod sy'n hwy na 12 mis. Gall personau cofrestredig y mae amhariad ar eu haddasrwydd i ymarfer ar seiliau iechyd gael eu atal am gyfnod amhenodol ar ôl cael eu hatal dros dro am gyfnod o ddwy flynedd. Gweler y nodiadau esboniadol ar gyfer Pennod 5 am esboniad pellach.
183. Gall personau cofrestredig apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn unrhyw sancsiwn a osodir gan banel addasrwydd i ymarfer yn dilyn canfyddiad o amhariad (adran 156). Mae adrannau 139 a 140 yn rhoi'r pŵer i baneli addasrwydd i ymarfer ddyroddi gorchymynion amodol effaith ar unwaith a gorchymynion atal

dros dro effaith ar unwaith wrth aros am ganlyniad unrhyw apêl i'r Tribiwnlys. Mae diben gorchmynion o'r fath yr un â gorchmynion interim. Fodd bynnag, maent yn gweithredu mewn ffyrdd gwahanol. Nid yw gorchmynion effaith ar unwaith yn cael eu hadolygu'n gyfnodol fel gorchmynion interim ac mae eu cyfnod para yn gysylltiedig â'r broses apelio. (Gweler y nodyn esboniadol ar gyfer Pennod 4 o'r Rhan hon am ragor o wybodaeth am orchmynion interim.) Felly, gellid gosod gorchmyn atal dros dro effaith ar unwaith os yw panel addasrwydd i ymarfer wedi gorchmyn bod cofnod sy'n ymwneud â pherson cofrestredig yn cael ei ddileu o'r gofrestr. Ni fydd y dileu hwn yn dod i rym tan i'r cyfnod apelio fynd heibio neu fod apêl wedi dod i ben; felly byddai gorchmyn ar unwaith yn gam a gymerir i ddiogelu'r cyhoedd yn y cyfnod cyfamserol.

Pennod 4 - Gorchmynion interim ac adolygu gorchmynion interim

Cwmpas Pennod 4 a'i dehongli (Adran 142), gorchmynion interim (Adran 143), apelau yn erbyn gorchmynion interim (Adran 144), adolygiadau o orchmynion interim: amseriad (Adran 145), adolygiadau o orchmynion interim: penderfyniadau posibl (Adran 146), estyn gorchmynion interim gan y tribiwnlys (Adran 147), dirymu gorchmynion interim (Adran 148)

184. Diben gorchmynion interim yw galluogi i osod cyfyngiadau dros dro gael eu gosod mewn cysylltiad â pherson cofrestredig tra bo ymchwiliadau'n cael eu gwneud i honiadau a wneir yn erbyn y sawl sydd wedi ei gofrestru ar gyfer diogelwch y cyhoedd. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn gweithredu system debyg ar gyfer gosod gorchmynion fel hyn; mae'r ddarpariaeth berthnasol ynghylch y gorchmynion hyn i'w gweld mewn rheolau a wneir gan y Cyngor o dan Ran 4 o Ddeddf 2000.
185. Mae'n ofynnol i Ofal Cymdeithasol Cymru, yn adran 172, wneud rheolau ar gyfer sefydlu paneli gorchmynion interim; yn fras, rôl y paneli hyn fydd gosod ac adolygu gorchmynion interim. Mae dau fath o orchmynion interim; gorchmynion cofrestru amodol interim sy'n caniatáu i'r person cofrestredig barhau i ymarfer gyda chymhwyster cyfyngedig; a gorchmynion atal dros dro interim sy'n atal y person cofrestredig rhag ymarfer o gwbl hyd nes y ceir dyfarniad terfynol ar ei achos.
186. Nid yw'r panel sy'n gosod neu'n adolygu gorchmynion interim yn gyfrifol am wneud dyfarniad terfynol ynghylch a yw'r honiadau am anaddasrwydd person i ymarfer yn wir. Y prawf ar gyfer gosod, neu gadarnhau gorchmynion yn sgil adolygiad, yw a oes angen y gorchmynion er mwyn diogelu'r cyhoedd neu a yw er budd y cyhoedd neu'r person cofrestredig fel arall.
187. Mae gorchmynion interim yn cymryd effaith ar unwaith a gellir eu gosod am hyd at 18 mis; mae gan berson y mae gorchmynion yn cael ei wneud mewn cysylltiad ag ef hawl i apelio o dan adran 144; byddai unrhyw apêl yn cael ei hystyried gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf. Rhaid i banel gorchmynion interim adolygu'r gorchmynion sydd mewn grym yn unol â gofynion adran 145; gellir estyn gorchmynion os yw Gofal Cymdeithasol Cymru yn credu bod angen hynny drwy wneud cais i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf.

Pennod 5 - Achosion adolygu

Achosion adolygu: dehongli a chyffredinol (Adran 149), achosion adolygu (Adran 150), adolygu ymgymeriadau: gwarediadau gan baneli addasrwydd i ymarfer (Adran 151), adolygu gorchmynion cofrestru amodol: gwarediadau gan banel addasrwydd i ymarfer (Adran 152), adolygu gorchmynion atal dros dro: gwarediadau gan banel addasrwydd i ymarfer (Adran 153), adolygu gorchmynion atal dros dro amhenodol (Adran 154), penderfyniadau mewn achosion adolygu: hysbysu a chymryd effaith (Adran 155)

188. Mae'r Bennod hon yn nodi'r system ar gyfer adolygu amodau ymarfer, gorchmynion atal dros dro ac ymgymeriadau. Bydd pob gwrandawriad adolygu o dan y Bennod hon yn cael ei gynnal gan baneli addasrwydd i ymarfer. Rhaid i wrandawriadau ddigwydd os yw hyn wedi cael ei gyfarwyddo gan y panel gwreiddiol, neu os cytunwyd arno yn achos ymgymeriad. Felly, gallai gorchmyn cofrestru amodol i gwblhau cwrs hyfforddi o fewn 6 mis ddarparu bod rhaid i adolygiad gael ei gynnal cyn i'r gorchmyn ddod i ben i sicrhau bod y person cofrestredig wedi cwblhau'r cwrs. Dylid cynnal gwrandawriadau hefyd os daw Gofal Cymdeithasol Cymru i wybod am dystiolaeth newydd sy'n awgrymu y dylid adolygu sancsiwn a osodwyd ar berson. Er enghraifft, os daw Gofal Cymdeithasol Cymru i wybod am honiad bod gweithiwr cymdeithasol sydd wedi ei atal dros dro yn ymarfer, dylid cynnal gwrandawriad adolygu. Gweler y nodyn esboniadol ar gyfer adrannau 130-132 am fanylion pellach.
189. Mae paneli yn gallu penderfynu y dylai gorchmyn gwreiddiol, boed hwnnw yn orchmyn cofrestru amodol, gorchmyn atal dros dro, neu ymgymeriad, gael ei gadarnhau neu ei ddirymu, y dylid estyn neu leihau cyfnod y gorchmyn neu addasu neu ddileu unrhyw un neu ragor o'i amodau. Gall y panel hefyd osod unrhyw sancsiwn neu ffurf arall ar warediad y mae'n ei ystyried yn fwy priodol. Er enghraifft, efallai y bydd torri'r amodau'n fynych ac yn ddifrifol yn golygu bod angen gorchmyn dileu.
190. Wrth adolygu gorchmyn atal dros dro, gall paneli estyn y gorchmyn am gyfnod amhenodol os yw person cofrestredig wedi cael ei atal dros dro am gyfnod o ddwy flynedd o leiaf ond dim ond oherwydd iechyd gwael. Gall y rhai hynny sy'n ddarostyngedig i orchmynion atal dros dro amhenodol ofyn i banel addasrwydd i ymarfer adolygu'r gorchmyn. Ni ellir gwneud y cais cyntaf i adolygu hyd nes bod 2 flynedd wedi mynd heibio ers gwneud y gorchmyn; ac mae ceisiadau adolygu dilynol yn ddarostyngedig i gyfyngiadau tebyg: unwaith y mae cais aflwyddiannus wedi ei wneud, rhaid i berson aros am gyfnod o 2 flynedd cyn gwneud cais arall. Byddai hyn yn berthnasol i weithwyr a allai fod yn dioddef o salwch hirdymor ac na allant ymarfer am gyfnod sylweddol ac felly nad yw adolygiadau rheolaidd yn briodol yn eu hachos hwy.

Pennod 6 - Apelau ac atgyfeiriadau i'r tribiwnlys

Apelau yn erbyn penderfyniadau panel addasrwydd i ymarfer (Adran 156)

191. Mae adran 156 yn darparu bod apelau yn erbyn penderfyniadau panel addasrwydd i ymarfer yn dod gerbron y Tribiwnlys Haen Gyntaf. Felly, gallai personau cofrestredig sy'n anfodlon ar amod sydd wedi ei osod neu ar y ffaith eu

bod wedi eu dileu o'r gofrestr, er enghraifft, ofyn i'r Tribiwnlys edrych ar y penderfyniad hwn.

Pennod 7 - Cyffredinol ac atodol

Datgelu gwybodaeth am addasrwydd i ymarfer (Adran 157), pŵer i'w gwneud yn ofynnol i gael gwybodaeth (Adran 158), cyhoeddi penderfyniadau addasrwydd i ymarfer (Adran 159), canllawiau ynghylch addasrwydd i ymarfer (Adran 160), atal dros dro: atodol (Adran 161), ystyr "person cofrestredig" yn Rhan 6 (Adran 162)

192. Mae'n hanfodol bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei rhoi mewn modd amserol er mwyn i'r broses addasrwydd i ymarfer weithio'n effeithlon ac yn effeithiol. Gallai achosion o bersonau cofrestredig neu eu cyflogwyr yn oedi neu'n gwrthod rhoi gwybodaeth yn golygu ei bod yn anodd parhau gydag achosion a'u dirwyn i ben. Mae adran 158 yn galluogi Gofal Cymdeithasol Cymru i'w gwneud yn ofynnol i bersonau gyflwyno gwybodaeth ac, mewn achos o ddiffyg cydymffurfedd, wneud cais i'r Tribiwnlys iddo ei gwneud yn ofynnol i'r wybodaeth a gedwir yn ôl gael ei datgelu. Fodd bynnag, ni all fod yn ofynnol i bersonau gyflwyno gwybodaeth sydd wedi ei diogelu rhag cael ei datgelu gan ddeddfwriaeth neu reol gyfreithiol arall. Ni allai cais am wybodaeth drechu unrhyw beth sy'n gwahardd datgelu yn Neddf Diogelu Data 1998, er enghraifft.
193. Mae adran 159 yn ei gwneud yn ofynnol i Ofal Cymdeithasol Cymru gyhoeddi bob penderfyniad a wneir gan baneli addasrwydd i ymarfer a phaneli gorchmynion interim, ac eithrio penderfyniadau i beidio â chymryd camau. Mae hyn hefyd yn gymwys i benderfyniadau a wneir yn sgil adolygiad. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y broses yn dryloyw a bod yr wybodaeth ar gael i'r cyhoedd.
194. Mae adran 161 yn darparu, yn ddarostyngedig i'r eithriadau yn is-adran (3), nad yw personau i gael eu trin fel personau cofrestredig os ydynt yn ddarostyngedig i orchymyn atal dros dro er gwaethaf y ffaith bod eu henwau'n parhau i fod ar y gofrestr. Bydd hyn yn sicrhau nad oes modd i weithwyr gofal cymdeithasol sy'n ddarostyngedig i orchymyn atal dros dro eu galw eu hunain yn weithwyr gofal cymdeithasol cofrestredig na dweud eu bod yn gofrestrdig.

Adrannau 163-171- Rhan 7 - Gorchmynion sy'n gwahardd gwaith mewn gofal cymdeithasol: personau anghofrestredig

Dynodi gweithgaredd rheoleiddiedig (Adran 163), yr amodau ar gyfer gwneud gorchymyn gwahardd (Adran 164), gorchymyn gwahardd interim (Adran 165), gorchmynion gwahardd: darpariaeth atodol (Adran 166), gorchmynion gwahardd interim: adolygu (Adran 167), apelau (Adran 168), troseddau (Adran 169), rhestr o bersonau sydd wedi eu gwahardd (Adran 170), safonau ymddygiad (Adran 171)

195. Mae darpariaethau o dan Ran 8 yn galluogi Gweinidogion Cymru i sefydlu cynllun gwahardd drwy reoliadau. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn cynnal cofrestr ar gyfer categorïau o weithwyr gofal cymdeithasol nad oes gofyniad cyfreithiol arnynt i gofrestru. Felly, gall gweithwyr gofal cymdeithasol o'r fath gofrestru'n wirfoddol. Nid yw cofrestru gwirfoddol yn rhoi sicrwydd i'r cyhoedd ac mae wedi arwain at ddryswch ynghylch statws gweithwyr o'r fath. Felly, ni fydd Gofal Cymdeithasol Cymru ond yn cynnal cofrestr o'r gweithwyr gofal cymdeithasol hynny y mae'n

ofynnol iddynt gofrestru. Ni fydd gweithwyr gofal cymdeithasol yn gallu cofrestru'n wirfoddol gyda'r Gofal Cymdeithasol Cymru mwyach. Mae cyflwyno cynllun gwahardd yn ffordd o reoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol nad oes rhan iddo yn y gofrestr er mwyn sicrhau bod gweithwyr gofal cymdeithasol yn gymwys ac yn addas i ddarparu gofal i'r cyhoedd. Byddai paneli addasrwydd i ymarfer yn gwneud hyn drwy wneud gorchmynion sy'n gwahardd unigolion penodol rhag gwneud gweithgareddau a ddynodir drwy reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Felly, ni fydd y cynllun yn cyfyngu ar fynediad i ymarfer ond bydd yn caniatáu i Ofal Cymdeithasol Cymru gymryd camau yn erbyn person sy'n methu â chydymffurfio â'r safonau ymddygiad priodol.

196. Bwriedir i "gweithgareddau dynodedig" gynnwys y gweithgareddau hynny sydd fel arfer yn cael eu gwneud gan weithwyr gofal cymdeithasol nad ydynt wedi cofrestru sy'n ymwneud â darparu gofal a chymorth i bersonau hyglwyf gan gynnwys plant. Gallai hyn, er enghraifft, gynnwys darparu cymorth eirioli i ddiwallu anghenion gofal a chymorth personau hyglwyf neu ddarparu gofal cartref i bersonau hyglwyf. Ni ellir gwneud rheoliadau sy'n dynodi gweithgareddau rheoleiddiedig at ddibenion gorchmynion gwahardd oni bai eu bod yn cael eu cymeradwyo ar ffurf ddrafft gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (gweler adran 185(2)).
197. Gall rheoliadau nodi pa amodau y mae rhaid i berson eu bodloni cyn y gall paneli addasrwydd i ymarfer wneud gorchymyn gwahardd mewn cysylltiad â pherson. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys bod y person wedi ei gollfarnu o drosedd o fath penodol. Fel gyda'r broses addasrwydd i ymarfer yn Rhan 7, mae darpariaeth ar gyfer gwneud gorchmynion gwahardd interim i ddiogelu'r cyhoedd ar unwaith tra ymchwilir i achosion. Mae torri gorchymyn gwahardd neu orchymyn gwahardd interim yn drosedd a gwrandewir achos yn y llys ynadon yn unig. Bydd collfarn yn golygu dirwy ddiderfyn. Bydd Gweinidogion Cymru hefyd yn gallu gwneud rheoliadau sy'n peri ei bod yn drosedd i bersonau gyflogi neu benodi personau sy'n ddarostyngedig i orchmynion gwahardd fel gweithiwr gofal cymdeithasol. Bydd rhaid i unrhyw reoliadau o'r fath gael eu cymeradwyo ar ffurf ddrafft gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru cyn iddynt gael eu gwneud (gweler adran 185(2)).

Adranau 172-173 - Rhan 8 - Gofal Cymdeithasol Cymru: Dyletswydd i sefydlu paneli etc.

Dyletswydd i sefydlu paneli etc. (Adran 172), achosion gerbron paneli (Adran 173)

198. Mae adran 172 yn darparu bod rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru wneud darpariaeth i gael paneli apelau cofrestru, paneli gorchmynion interim a phaneli addasrwydd i ymarfer. Mae adran 172 a rheolau a wneir odani yn nodi sut y mae pob un o'r paneli i'w gyfansoddi. Bwriedir i'r darpariaethau sicrhau bod mesurau diogelwch yn eu lle i sicrhau bod aelodau'r panel yn ddiudedd ac yn gallu gwneud penderfyniad heb fod gwrthdaro buddiannau yn effeithio arnynt. O dan is-adran (5)(b), gall Gweinidogion Cymru ragnodi personau a waherddir rhag bod yn aelodau o baneli. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys person nad yw'n aelod o staff Gofal Cymdeithasol Cymru (a fyddai wedi ei wahardd yn rhinwedd paragraff (a))

ond sydd wedi rhoi ystyriaeth ragarweiniol i fater, neu berson sydd wedi bod ar banel o fath gwahanol.

199. Mae adran 173 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn cysylltiad ag achosion gerbron y paneli. Nodir gweithdrefnau achosion panel cyfredol y Cyngor mewn rheolau a wneir o dan Ran 4 o Ddeddf 2000. Gallai'r rheoliadau, er enghraifft, nodi pwerau rheoli achos Gofal Cymdeithasol Cymru a materion gweithdrefnol eraill sy'n ymwneud â gwrandawiadau gerbron paneli. Gallai'r rheoliadau ddarparu bod gweithdrefnau gwahanol yn gymwys i baneli gwahanol fel bod rhai achosion pan fo rhaid i baneli gorchmynion interim glywed achosion yn breifat.
200. Mae adran 125 o Ddeddf 2008 yn darparu mai'r safon brofi sifil yw'r safon brofi sy'n gymwys i achosion sy'n ymwneud â chofrestru gweithwyr gofal cymdeithasol gerbron y Cyngor neu bwyllgor o'r Cyngor neu swyddog o'r Cyngor. Mae'r adran hon wedi ei diddymu (gweler Rhan 2 o Atodlen 3). Mae is-adran (4) o adran 173 yn darparu y bydd yr un safon brofi yn gymwys i achosion pob panel a sefydlir o dan y Bil hwn. Felly, bydd yn ofynnol i baneli ddyfarnu ar gwestiynau ffeithiol yn ôl pwysau tebygolrwydd.

Adrannau 175-181 - Rhan 9 - Cydweithredu a chydweithio gan y cyrff rheoleiddiol ayb.
Y cyrff rheoleiddiol (Adran 175), awdurdodau perthnasol (Adran 176), cydweithredu wrth arfer swyddogaethau (Adran 177), arfer swyddogaethau ar y cyd (Adran 178), dirprwyo swyddogaethau i gorff rheoleiddiol arall (Adran 179), rhannu gwybodaeth (Adran 180), rhannu gwybodaeth er mwyn diogelu llesiant (Adran 181)

201. Mae adrannau 175 i 181 yn gymwys i Weinidogion Cymru wrth iddynt arfer eu swyddogaethau fel rheoleiddiwr gwasanaethau o dan y Bil, ac i Ofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r adrannau hyn hefyd yn gymwys i Weinidogion Cymru wrth iddynt arfer eu swyddogaethau o dan adran 15 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 mewn cysylltiad ag arolygu mangreoedd sy'n ymwneud â gwasanaethau mabwysiadu, ac i rai o'u swyddogaethau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae adran 177 hefyd yn gymwys i'r awdurdodau perthnasol a restrir yn adran 176. Nod y set hon o ddarpariaethau yw darparu sicrwydd cyfreithiol i'r rheoleiddiwr gwasanaethau (AGGCC fel adran o Lywodraeth Cymru sy'n gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru), rheoleiddiwr y gweithlu (Gofal Cymdeithasol Cymru) a'r awdurdodau perthnasol mewn perthynas â graddau eu dyletswyddau i gydweithredu a gweithio gyda'i gilydd wrth arfer eu priod swyddogaethau.
202. Mae gwreiddiau'r darpariaethau hyn i'w gweld yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar Reoleiddio Proffesiynau Gofal Iechyd a Rheoleiddio Proffesiynau Gofal Cymdeithasolyn Lloegr. Mae'r Comisiwn yn cyfeirio at yr adroddiad ar yr ymchwiliad cyhoeddus i'r digwyddiadau yn Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canolbarth Swydd Stafford, y mae'n dweud iddo danlinellu pwysigrwydd cydweithredu rhwng y rheoleiddwyr a rhannu gwybodaeth yn effeithiol rhwng y rheoleiddwyr a'r sefydliadau addysg a hyfforddiant. Mae'r darpariaethau hyn yn

ei gwneud yn glir bod hawlogaeth gyfreithiol gan yr awdurdodau cyhoeddus perthnasol i gydweithio ag awdurdodau cyhoeddus eraill ac yn wir, bod rhaid iddynt wneud hynny pan fo hynny'n gyson â'u priod swyddogaethau.

203. Rhaid i Weinidogion Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru gydweithredu â'i gilydd bob amser wrth arfer y swyddogaethau a grybwyllir uchod os ydynt yn meddwl y bydd gwneud hynny yn dod â'r manteision a grybwyllir yn adran 177. Mae adran 176 yn cynnwys rhestr o awdurdodau perthnasol y mae'n ofynnol iddynt gydweithredu â'r rheoleiddwyr o dan adran 177, ond dim ond pan ofynnir iddynt wneud hynny. Ni chaniateir i gais o'r fath gael ei wneud oni bai bod y rheoleiddiwr o dan sylw yn meddwl y bydd y cydweithredu yn cael effaith gadarnhaol ar y modd y mae ei swyddogaethau yn cael eu harfer, neu y bydd yn ei helpu i gyflawni ei amcanion cyffredinol fel y'u nodir yn adrannau 4 a 67 o'r Bil. Mae'r swyddogaethau a'r amcanion hynny yn gymwys o ran Cymru yn unig. Bydd dyletswydd o'r fath yn gymwys oni bai bod yr amgylchiadau a nodir yn adran 177(3) yn gymwys (gweler isod). Mae adran 177(4) yn ddyletswydd ddwyochrog ar y rheoleiddwyr i gydweithredu â'r awdurdodau perthnasol pan ofynnir iddynt wneud hynny.
204. Nid yw adran 177 yn cyfyngu'n benodol ar yr hyn a olygir wrth gydweithredu. Mae wedi ei lunio i gynnwys unrhyw fath o gymorth y gall un sefydliad ei roi i un arall. Dyma rai enghreifftiau o'r math o gydweithredu y gallai'r adran roi hawlogaeth i gorff rheoleiddiol i ofyn amdano neu ei roi:
- cydlynu gweithgaredd gorfodi pan fo awdurdodaethau rheoleiddiol yn gorgyffwrdd;
 - trafod sut i ddelio â diddordeb y cyfryngau mewn perthynas â materion o bryder i'r ddau sefydliad;
 - cyfrannu at safonau, rheolau, gofynion addysgol etc.;
 - rhoi benthyg arbenigedd ar gyfer digwyddiadau hyfforddi staff;
 - rhannu dadansoddiadau ac asesiadau mewn perthynas â phatrymau neu dueddiadau sy'n berthnasol i'r ddau sefydliad.
205. Bydd gan gorff rheoleiddiol hawlogaeth i ofyn am gydweithrediad awdurdod a restrir yn adran 176 cyn belled â bod y corff rheoleiddiol yn penderfynu y bydd cydweithredu naill ai'n cael effaith gadarnhaol ar y ffordd y mae'n arfer ei swyddogaethau presennol neu y bydd y cydweithredu yn helpu'r rheoleiddiwr i gyflawni'r amcanion cyffredinol sydd ganddo o dan adran 4 neu 67.
206. Unwaith y bydd un o'r cyrff rheoleiddiol yn gofyn am gydweithrediad awdurdod, rhaid i'r awdurdod gydymffurfio â'r cais oni bai bod un o dri eithriad yn gymwys (gweler adran 177(3)(a), (b) ac (c)). Dyma'r eithriadau –

- bod y gyfraith yn rhwystro'r awdurdod rhag cydweithredu yn y ffordd y gofynnir amdani (gallai hyn fod yn gyfraith mewn darn arall o statud neu hyd yn oed yn rheol o dan y gyfraith gyffredin);
 - bod yr awdurdod yn meddwl yn rhesymol y byddai cydweithredu fel y gofynnir amdano yn anghydnaws â swyddogaethau'r awdurdod ei hun; neu
 - bod yr awdurdod yn meddwl y byddai'r cydweithredu yn cael effaith andwyol ar ei swyddogaethau (er enghraifft, hyd yn oed mewn achos pan fo'r gyfraith yn caniatáu i'r awdurdod gydweithredu a bod yr awdurdod yn meddwl y byddai'n ategu ei swyddogaethau ei hun, efallai y byddai'n dal i wrthod cydweithredu oherwydd y gost o wneud hynny. Hynny yw, bod yr awdurdod yn ystyried yn rhesymol y byddai'r costau o gydweithredu yn arwain at effaith andwyol ar ei swyddogaethau ei hun).
207. Mae'r dull gweithredu yn y Bil mewn perthynas â rheolwyr yn dangos pwysigrwydd y ffaith bod y ddau reoleiddiwr (h.y. Gweinidogion Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru) yn cydweithio wrth arfer eu priod swyddogaethau. Mae'r system ar hyn o bryd yn ei gwneud yn ofynnol i reolwyr sefydliadau ac asiantaethau sydd wedi eu cofrestru o dan Ran II o Ddeddf 2000 gofrestru â rheoleiddiwr y gwasanaeth a rheoleiddiwr y gweithlu. O ganlyniad i'r system reoleiddio newydd o dan y Bil, ni fydd yn ofynnol i reolwyr gofrestru â rheoleiddiwr y gwasanaeth mwyach. Bydd rheoliadau a wneir o dan adrannau 26 a 27 yn ei gwneud yn ofynnol i reolwyr gofrestru â rheoleiddiwr y gweithlu'n unig a gellid gwneud rheoliadau o dan adran 79(1)(b) i'w gwneud yn ofynnol i Ofal Cymdeithasol Cymru gynnal cofrestr mewn cysylltiad â rheolwyr gwasanaethau rheoleiddiedig.
208. Bydd yr unigolyn cyfrifol mewn perthynas â man y darperir gwasanaeth ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef yn gyfrifol am gyflogi rheolwr addas ac am oruchwylio'r rheoli. Bydd yn ofynnol i reoleiddiwr y gwasanaeth gymryd camau yn erbyn yr unigolyn cyfrifol (nid y rheolwr) pan fo methiannau yn y rheoli. O gofio ei bod yn debygol mai rheoleiddiwr y gwasanaeth fydd â'r cyswllt mwyaf â'r rheolwyr ac y bydd yn fwy ymwybodol o achos pan fo rheolwr yn tanberfformio, bydd rheoleiddiwr y gweithlu yn dibynnu ar reoleiddiwr y gwasanaeth i rannu gwybodaeth am reolwyr a chefnogi rheoleiddiwr y gweithlu, pan fo angen, wrth ddwyn achos addasrwydd i ymarfer yn erbyn rheolwyr gwasanaethau.
209. Mae adran 178 yn caniatáu i'r ddau reoleiddiwr arfer swyddogaethau sydd gan y ddau ohonynt ar y cyd, h.y. mae gan Weinidogion Cymru swyddogaeth A, mae gan Ofal Cymdeithasol Cymru swyddogaeth B a phan fo Gweinidogion Cymru a GCC yn trefnu i arfer swyddogaethau A a B ar y cyd o dan yr adran hon, bydd y ddau gorff yn atebol yn gyfreithiol am arfer swyddogaethau A a B. Golyga hyn y bydd y ddau gorff yn ymatebwyr i unrhyw her adolygiad barnwrol i arfer swyddogaethau ei gilydd. Gellid defnyddio'r pŵer hwn, er enghraifft, i ganiatáu i'r cyrff sefydlu cyd-bwyllgor i arfer swyddogaeth Gweinidogion Cymru o adolygu astudiaethau ac ymchwil i swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdod

lleol ac i adolygu'r swyddogaethau hynny (gweler adrannau 149A a 149B o Ddeddf 2014 fel y'u mewnosodir gan adran 56) ochr yn ochr â swyddogaeth GCC o gynnal astudiaethau cymharol neu astudiaethau eraill o dan adran 69.

210. Mae adran 179 yn caniatáu i'r rheoleiddwyr ddirprwyo unrhyw un neu ragor o'u swyddogaethau i'r llall. Gellid defnyddio hyn, er enghraifft, i ganiatáu Gweinidogion Cymru fel rheoleiddiwr gwasanaethau i ddirprwyo eu swyddogaeth o awdurdodi personau i gynnal arolygiadau o dan adran 32 i Ofal Cymdeithasol Cymru sydd gan swyddogaethau sy'n ymwneud â phenodi personau i gynnal ymchwiliadau addasrwydd i ymarfer (gweler adran 124).
211. Diben adrannau 178 a 179 yw ei gwneud yn glir bod gan y rheoleiddwyr bwerau (a dyletswydd o dan rai amgylchiadau) i gydweithio'n arloesol ac yn fwy effeithlon gyda'r nod o leihau costau diangen a gwella gallu'r system gyfan i ddiogelu'r cyhoedd.
212. Mae adrannau 180 a 181 yn ddarpariaethau rhannu gwybodaeth sydd â'r nod o ddarparu sicrwydd i'r rheoleiddwyr am y graddau y maent yn meddu ar y pŵer i rannu gwybodaeth wrth fynd ati i arfer eu swyddogaethau.

Atodiad B: Amcangyfrif o'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru

Gweithwyr cymdeithasol

Ym mis Mawrth 2013, roedd 5,881 o weithwyr cymdeithasol wedi eu cofrestru gyda Chyngor Gofal Cymru. Nid yw pob gweithiwr cymdeithasol cofrestredig wedi ei gyflogi yn y gweithlu gofal cymdeithasol. Yn 2013, roedd 3,621 o weithwyr cymdeithasol wedi eu cyflogi gan adrannau gwasanaethau cymdeithasol i oedolion ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol i blant mewn awdurdodau lleol yng Nghymru, mewn swyddi sydd o fewn cwmpas y Bil hwn. Yn 2012, roedd 247 o weithwyr cymdeithasol wedi eu cyflogi gan y sector preifat. Roedd 134 o'r rhain yn gweithio mewn sefydliadau gofal maeth a 25 yn gweithio mewn swyddi y mae'n orfodol cofrestru ar eu cyfer, er enghraifft rheolwyr cartrefi preswyl i oedolion. Yn hynny o beth, byddant wedi eu cofrestru fel rheolwr ac fel gweithiwr cymdeithasol.

Gan gymryd na fu unrhyw newid yn nifer y gweithwyr cymdeithasol a gyflogir gan asiantaethau gofal maeth y sector preifat rhwng mis Mehefin 2012 a mis Mawrth 2013, rydym yn gwybod bod o leiaf 3,780 o'r 5,881 o weithwyr cymdeithasol cofrestredig wedi eu cyflogi yn y gweithlu gofal cymdeithasol sydd o fewn cwmpas y Bil hwn. Gan addasu'r ffigurau oherwydd bod gweithwyr cymdeithasol wedi eu cofrestru fel rheolwyr hefyd, rydym yn gwybod bod y Bil hwn yn berthnasol i 3,755 o weithwyr cymdeithasol.

Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o'r 2,126 o weithwyr cymdeithasol sy'n weddill wedi eu cyflogi mewn agweddau ar ofal cymdeithasol sydd y tu hwnt i gwmpas y Bil hwn. Mae hyn yn cynnwys gweithio ar amddiffyn plant mewn adrannau gwasanaethau cymdeithasol plant awdurdodau lleol, er enghraifft, neu weithio yn y GIG. Hefyd, bydd rhai gweithwyr cymdeithasol wedi eu cyflogi gan sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch.

Er hyn, mae'n bosibl y gallai rhai gweithwyr cymdeithasol fod wedi eu cyflogi gan y sector gwirfoddol ac yn gweithio mewn meysydd sydd o fewn cwmpas y Bil hwn. Ni fu modd cael ffigurau ar gyfer y grŵp hwn o bobl ac o ganlyniad ystyrir mai lleiafswm yw'r amcangyfrif o 3,755.

Gweithwyr gofal cymdeithasol sy'n darparu gofal cartref i oedolion

Mae Llywodraeth Cymru fel mater o drefn yn casglu data ar nifer y gweithwyr gofal cartref a gyflogir gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Yn 2011-12, roedd 5,109 o weithwyr gofal cartref a 359 o uwch weithwyr gofal cartref yn cael eu cyflogi gan awdurdodau lleol yng Nghymru (StatsCymru, 2012a), a darparwyd 3,594,021 o oriau o ofal cartref i oedolion, wedi eu hariannu o'r pwrs cyhoeddus (StatsCymru 2012b). Mae hyn yn cymharu â 8,322,627 o oriau o ofal cartref wedi eu hariannu o'r pwrs cyhoeddus a'u darparu trwy gontract â'r sector annibynnol (StatsCymru 2012b).

Ni chesglir data ynghylch nifer y gweithwyr gofal cartref a gyflogir gan y sector preifat a'r sector gwirfoddol (a elwir ar y cyd yn sector annibynnol) fel mater o drefn. Er hyn, mae'n bosibl amcangyfrif nifer y gweithwyr gofal cartref a gyflogir gan y sector annibynnol, gan ddefnyddio'r data uchod.

Yn 2011-12, darparwyd cyfanswm o 11,916,648 o oriau o ofal cartref wedi eu hariannu o'r pwrs cyhoeddus i gwsmeriaid yng Nghymru (StatsCymru 2012b). Darparwyd 3,594,021 (30%) o'r rhain (StatsCymru 2012b) gan 5,109 o weithwyr gofal cartref a 359 o uwch weithwyr gofal cartref a gyflogir gan awdurdodau lleol yng Nghymru (StatsCymru 2012a). Gan gymryd bod darparwyr awdurdodau lleol a darparwyr annibynnol yn cyflogi'r un gymhareb o uwch weithwyr gofal i weithwyr gofal a bod y gweithwyr hyn yn gweithio'r un nifer o oriau'r wythnos, yn cael yr un hawliau i wyliau blynyddol ac â'r un lefelau absenoldeb, gellir amcangyfrif bod yr 8,322,627 (70%) (StatsCymru 2012b) o oriau o ofal cartref sy'n weddill yn cael eu darparu gan amcangyfrif o 11,831 o weithwyr gofal cartref ac 831 o uwch weithwyr cartref a gyflogir gan y sector annibynnol.

Gallai hyd at amcangyfrif o 14% (1,773) o weithwyr gofal cartref, nad ydynt wedi eu cyflogi gan awdurdodau lleol, fod yn hunangyflogedig fel cynorthwyyr personol i unigolion sy'n derbyn taliadau uniongyrchol¹¹². Mae'r amcangyfrif hwn wedi ei seilio ar nifer yr oedolion yng Nghymru a oedd yn derbyn taliadau uniongyrchol yn 2012 (3,211) (Ystadegau Cymru 2012) fel canran o gyfanswm nifer yr oedolion (23,617) (StatsCymru, 2013b) a oedd yn derbyn gofal cartref wedi ei ariannu o'r pwrs cyhoeddus yn ystod wythnos sampl ym mis Medi 2012. Mae'r cyfrifiad hwn wedi ei seilio ar dybiaeth bod nifer gyfartalog yr oriau o ofal

¹¹² Caiff cwsmeriaid sy'n derbyn taliadau uniongyrchol ddewis prynu eu gofal gan weithiwr gofal cartref hunangyflogedig neu gan asiantaeth, ac yn yr achos laf hwn byddai'r gweithiwr gofal yn gyflogedig.

a brynir fesul cwsmer gan ddefnyddio taliadau uniongyrchol, yn gyfartal i nifer gyfartalog yr oriau o ofal a dderbynnir fesul cwsmer trwy ofal cartref.

Gweithwyr gofal cartref sy'n darparu gofal i blant a phobl ifanc

Yn 2011-12 roedd 411 o weithwyr gofal cartref ac 11 o uwch weithwyr gofal cartref yn cael eu cyflogi gan awdurdodau lleol Cymru i ddarparu gofal cartref i blant a phobl ifanc (StatsCymru, 2012a). Gan dybio, fel yn achos gofal cartref i oedolion, bod 30% o'r gofal cartref i blant a phobl ifanc yn cael ei ddarparu'n uniongyrchol gan awdurdodau lleol, amcangyfrifir bod 955 o weithwyr gofal cartref a 30 o uwch weithwyr gofal cartref yn cael eu cyflogi gan y sector annibynnol i ddarparu gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Amcangyfrifir felly bod 1,366 o weithwyr gofal cartref yn darparu gofal cymdeithasol i bobl ifanc yng Nghymru a bod 41 o uwch weithwyr gofal cartref yn darparu gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc.

Rheolwyr gofal cartref a dirprwy reolwyr gofal cartref lleoliadau sy'n darparu gofal cymdeithasol i oedolion, plant a phobl ifanc

Cyflwynwyd trefn o gofrestru gorfodol ar gyfer rheolwyr gofal cartref ym mis Chwefror 2013. Roedd gan reolwyr gofal cartref a oedd yn eu swydd tan 31 Rhagfyr 2013 i gofrestru. Er hyn, mae rheolwyr gofal cartref wedi bod yn araf i gofrestru gyda Chyngor Gofal Cymru (Cyngor Gofal Cymru, 2013b). Ym mis Mawrth 2013, roedd 409 o leoliadau gofal cartref wedi eu cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC, 2014) a 305 o reolwyr lleoliadau sy'n darparu gwasanaethau gofal cartref wedi cofrestru gyda Chyngor Gofal Cymru (Cyngor Gofal Cymru, 2013b). Nid yw'n bosibl gwahaniaethu rhwng rheolwyr lleoliadau gofal cartref i oedolion a rhai ar gyfer plant a phobl ifanc gan nad oes gan AGGCC wybodaeth ynglŷn ag oedran y defnyddwyr gwasanaethau ar gyfer lleoliadau gofal cartref.

Gan ei bod yn bosibl i leoliad gofal cartref gofrestru mwy nag un rheolwr gofal cartref gyda Chyngor Gofal Cymru, ni ellir cymryd bod 409 o reolwyr gofal cartref yng Nghymru. Hefyd, nid yw'n bosibl cymryd bod 409 o ddirprwy reolwyr gofal cartref yng Nghymru, gan nad yw ond yn ofynnol cofrestru dirprwy reolwr gofal cartref pan fo gan leoliad gofal cartref ddirprwy reolwr wedi ei enwi.

Ym mis Hydref 2013, roedd 47¹¹³ o leoliadau gofal cartref yn eiddo i awdurdodau lleol yng Nghymru. Ym mis Mawrth 2013, roedd awdurdodau lleol yn cyflogi cyfanswm o 111 o reolwyr ac roedd 100 o'r rhain yn rheolwyr lleoliadau gofal cartref i oedolion ac 11 yn rheolwyr lleoliadau gofal cartref i blant a phobl ifanc (StatsCymru, 2013b). Roedd awdurdodau lleol hefyd yn cyflogi 58 o ddirprwy reolwyr gofal, ac roedd 56 o'r rhain yn ddirprwy reolwyr lleoliadau gofal cartref i oedolion a dau yn ddirprwy reolwyr gofal lleoliadau gofal cartref i blant a phobl ifanc (StatsCymru, 2013b). Gan ddefnyddio'r wybodaeth hon, mae'n bosibl amcangyfrif nifer y rheolwyr a dirprwy reolwyr gwasanaethau gofal cartref a gyflogir gan y sector annibynnol.

Gan gymryd na fu newid yn nifer y rheolwyr a'r dirprwy reolwyr a gyflogir gan awdurdodau lleol rhwng mis Mawrth 2013 a mis Hydref 2013, roedd awdurdodau lleol yn cyflogi 2.4 o reolwyr a 1.2 o ddirprwy reolwyr lleoliadau gofal cartref ar gyfartaledd. Gan ddefnyddio'r wybodaeth hon, gellir amcangyfrif bod 855 o reolwyr a 447 o ddirprwy reolwyr ar gyfer y 362 o leoliadau gofal cartref annibynnol. Felly, amcangyfrifir bod 966 o reolwyr a 505 o ddirprwy reolwyr lleoliadau gofal cartref yng Nghymru.

Gweithwyr Gofal: gwasanaethau preswyl i oedolion

Ym mis Hydref 2013, roedd awdurdodau lleol yng Nghymru yn cyflogi 2,855 o weithwyr gofal cartrefi gofal preswyl yn darparu gofal wedi ei ariannu gan y pwrs cyhoeddus i oedolion. Ym mis Hydref 2013, darparodd gweithwyr gofal cymdeithasol awdurdodau lleol ofal i uchafswm o 2,786 o breswylwyr¹¹⁴, a oedd yn byw mewn 120 o gartrefi gofal preswyl awdurdodau lleol¹¹⁵. Gall cartrefi gofal awdurdodau lleol ddarparu hyd at 10% o'r lleoedd sydd ar gael i oedolion y mae angen gofal preswyl arnynt.

¹¹³ Darparwyd yr wybodaeth gan AGGCC, mis Hydref 2013.

¹¹⁴ Darparwyd yr wybodaeth gan AGGCC. Mae'r niferoedd yn seiliedig ar uchafswm nifer y preswylwyr y mae'r cartref wedi ei gofrestru i ddarparu gofal iddynt, nid gwir nifer y preswylwyr mewn cartref penodol.

¹¹⁵ Darparwyd yr wybodaeth gan AGGCC.

Tabl 44: gweithwyr gofal preswyl a gyflogir gan awdurdodau lleol ac sy'n darparu gwasanaethau i oedolion mewn gofal preswyl, yn ôl y math o ofal a ddarperir

| Math o ofal preswyl a ddarperir | Nifer y gofalwyr |
|---|-------------------------|
| Gwasanaethau preswyl i'r henoed a henoed eiddil eu meddwl | 2,208 |
| Gwasanaethau preswyl i oedolion ag anableddau corfforol neu nam ar eu synhwyrau | 34 |
| Gwasanaethau preswyl i oedolion ag anableddau dysgu | 569 |
| Gwasanaethau preswyl i oedolion â phroblemau iechyd meddwl | 44 |
| Cyfanswm | 2,855 |

Ym mis Hydref 2013, roedd y sector annibynnol yn darparu gofal cymdeithasol i hyd at uchafswm o 24,172 o breswylwyr, a oedd yn byw mewn 1,012 o gartrefi gofal preswyl annibynnol. Gan dybio bod y sector annibynnol yn cyflogi'r un gyfran o staff i breswylwyr ag awdurdodau lleol, bod eu telerau a'u hamodau yn gyfartal a bod ganddynt yr un lefel o absenoldeb â staff awdurdodau lleol, gellir amcangyfrif bod y sector annibynnol yn cyflogi 24,771 o weithwyr gofal mewn cartrefi gofal preswyl. Felly, amcangyfrifir mai 27,626 yw cyfanswm y gweithwyr gofal mewn cartrefi preswyl i oedolion.

Rheolwyr a dirprwy reolwyr cartrefi gofal preswyl i oedolion

Ym mis Hydref 2013, roedd 1,132 o gartrefi gofal preswyl i oedolion yng Nghymru¹¹⁶. Roedd 120 o'r rhain, yn eiddo i awdurdodau lleol. Ym mis Mawrth 2013, roedd awdurdodau lleol yng Nghymru yn cyflogi 125 o reolwyr a 119 o ddirprwy reolwyr cartrefi gofal preswyl i oedolion. Darperir manylion y grŵp hwn o'r gweithlu gofal yn nhabl 43.

Tabl 45: rheolwyr a dirprwy reolwyr cartrefi gofal preswyl i oedolion a gyflogir gan awdurdodau lleol yn ôl y math o wasanaeth a ddarperir, mis Mawrth 2013

| Math o ofal preswyl a ddarperir | Nifer y rheolwyr | Nifer y dirprwy reolwyr |
|---|-------------------------|--------------------------------|
| Gwasanaethau preswyl i'r henoed a henoed eiddil eu meddwl | 95 | 96 |
| Gwasanaethau preswyl i oedolion ag anableddau corfforol neu nam ar eu synhwyrau | 4 | 3 |
| Gwasanaethau preswyl i oedolion ag anableddau dysgu | 22 | 17 |
| Gwasanaethau preswyl i oedolion â phroblemau iechyd meddwl | 4 | 3 |
| Cyfanswm | 125 | 119 |

Ffynhonnell: StatsCymru (2012a)

¹¹⁶ Darparwyd y gwybodaeth gan AGGCC, Hydref 2013.

Gan dybio na fu newid yn nifer y rheolwyr a'r dirprwy reolwyr a gyflogir gan awdurdodau lleol rhwng mis Mawrth 2013 a mis Hydref 2013, roedd awdurdodau lleol yn cyflogi ychydig dros un rheolwr ac ychydig o dan un dirprwy reolwr fesul cartref gofal preswyl i oedolion ar gyfartaledd.

Gan ddefnyddio'r wybodaeth hon, gellir amcangyfrif bod 1,054 o reolwyr a 1,004 o ddirprwy reolwyr ar gyfer y 1,012 o gartrefi gofal preswyl annibynnol i oedolion, ym mis Mawrth 2013. Felly, amcangyfrifir bod 1,179 o reolwyr a 1,123 o ddirprwy reolwyr cartrefi gofal preswyl i oedolion.

Gweithwyr gofal: gwasanaethau preswyl i blant a phobl ifanc

Ym mis Hydref 2013, roedd 147 o gartrefi preswyl i blant a phobl ifanc yng Nghymru, ac roedd 34 o'r rhain yn eiddo i awdurdodau lleol a 113 yn eiddo i'r sector annibynnol¹¹⁷. Ym mis Mawrth 2013, roedd awdurdodau lleol yn cyflogi 462 o weithwyr gofal (StatsCymru, 2013b) i ddarparu gofal cymdeithasol i hyd at uchafswm o 385¹¹⁸ o bobl ifanc a phlant sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru. Gan dybio bod y sector annibynnol yn cyflogi'r un gymhareb o weithwyr gofal i bobl ifanc ag awdurdodau lleol, gellir amcangyfrif bod y sector annibynnol yn cyflogi 2,278 o weithwyr gofal sy'n darparu gofal cymdeithasol i hyd at uchafswm o 1,898 o blant a phobl ifanc sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru.

Rheolwyr a dirprwy reolwyr cartrefi gofal preswyl i blant a phobl ifanc

Ym mis Mawrth 2013, roedd awdurdodau lleol yn cyflogi 22 o reolwyr a 49 o ddirprwy reolwyr (StatsCymru, 2013b) mewn 34 o gartrefi gofal preswyl i blant a phobl ifanc. Gan dybio bod y sector annibynnol yn cyflogi'r un gymhareb o reolwyr a dirprwy reolwyr ag awdurdodau lleol, gellir amcangyfrif bod y sector annibynnol yn cyflogi 73 o reolwyr a 163 o ddirprwy reolwyr yn y 113 o gartrefi gofal preswyl i blant a phobl ifanc sy'n eiddo i'r sector annibynnol.

Gofalwyr maeth

Ym mis Mawrth 2013, roedd 2,553 (StatsCymru, 2013b) o ofalwyr maeth wedi eu cofrestru gydag awdurdodau lleol yng Nghymru ac yn darparu gofal cymdeithasol i 4,440 o blant a

¹¹⁷ Darparwyd yr wybodaeth gan AGGCC

¹¹⁸ Fel yn achos y cartrefi gofal i oedolion, pan fo cartrefi gofal preswyl i blant a phobl ifanc wedi eu cofrestru ar gyfer uchafswm o lai na saith o leoedd, rydym wedi tybio bod uchafswm o chwech yno.

phobl ifanc¹¹⁹. Caiff gofalwyr maeth eu recriwtio hefyd trwy asiantaethau annibynnol ond ni chyflwynir adroddiadau ynglŷn â'r niferoedd. Mae'r Rhwydwaith Maethu yn amcangyfrif bod 3,350 o deuluoedd maethu yng Nghymru. Mae rhwng 69% a 79% o deuluoedd sy'n maethu yn cynnwys cyplau priod neu gyplau sy'n cyd-fyw (gweler McDermid et al, 2012). Gan ddefnyddio'r pwynt canol o 74%, gellir amcangyfrif bod y 2,553 o ofalwyr maeth awdurdodau lleol yn cynnwys 1,889 o deuluoedd. Felly, amcangyfrifir bod 1,461 o deuluoedd maethu annibynnol yng Nghymru sy'n cynnwys amcangyfrif o 1,974 o ofalwyr maeth.

Arolygwyr

Ym mis Hydref 2013, roedd AGGCC yn cyflogi 115 o arolygwyr¹²⁰.

Gwasanaethau dydd a chymunedol

Mae awdurdodau lleol yn cyflogi 107 o reolwyr, 72 o ddirprwy reolwyr, 232 o oruchwylwyr a 2,071 o weithwyr gofal i ddarparu gofal cymdeithasol i oedolion sy'n defnyddio gwasanaethau dydd a chymunedol. Felly, mae cyfanswm o 2,482 o weithwyr cyflogedig awdurdodau lleol yn gweithio mewn lleoliadau dydd a chymunedol.

Canfu astudiaeth gan Hussein (2010) fod 87.3% o'r gweithlu gofal dydd i oedolion yn Lloegr yn cael eu cyflogi gan awdurdodau lleol a bod 12.7% yn weithwyr nad oeddynt yn cael eu cyflogi gan awdurdodau lleol¹²¹. Yn seiliedig ar y dybiaeth bod yr un ganran o'r gweithlu gofal dydd yng Nghymru yn cael eu cyflogi gan awdurdodau lleol a'r sector annibynnol, amcangyfrifir mai 2,843 yw cyfanswm y gweithlu gwasanaethau dydd a chymunedol yng Nghymru. Mae 361 o'r rhain yn weithwyr nad ydynt yn cael eu cyflogi gan awdurdodau lleol. Gan dybio bod gan y gweithlu gofal dydd nad ydynt yn cael eu cyflogi gan awdurdodau lleol yr un proffil swyddogaethau â gweithlu gofal dydd awdurdodau lleol, gellir amcangyfrif bod 16 o reolwyr, 10 o ddirprwy reolwyr, 34 o oruchwylwyr a 301 o weithwyr gofal.

¹¹⁹ <https://statswales.wales.gov.uk/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/Children-Looked-After/ChildrenLookedAfterInFosterPlacementsAt31March-by-LocalAuthority-PlacementType>

¹²⁰ Darparwyd yr wybodaeth gan AGGCC, Hydref 2013.

¹²¹ Mae hyn yn cynnwys y rhai hynny a gyflogir mewn lleoliadau dydd a chymunedol y nodir eu cyflogwyr fel 'arall'.

Lleoliadau oedolion

Gelwir cynlluniau lleoli oedolion yn Gynlluniau Rhannu Bywydau hefyd. Gweithredir Cynlluniau Rhannu Bywydau yng Nghymru gan awdurdodau lleol a'r trydydd sector. Mae 12 cynllun Rhannu Bywydau¹²² yng Nghymru ar hyn o bryd yn darparu gofal cymdeithasol i 751 o oedolion (Shared Lives Plus, 2013). Mae 676 o ofalwyr wedi eu cymeradwyo gan y cynllun Rhannu Bywydau (Shared Lives Plus, 2013). Mae gan y 10 o gynlluniau awdurdodau lleol 46 o weithwyr gan gynnwys 10 o reolwyr, un dirprwy reolwr, 33 swyddog a dau gydgysylltydd gofal. Mae gan y ddau ddarparwr trydydd sector 10 o weithwyr sy'n cynnwys dau bennaeth gwasanaeth, dau reolwr cynllun a chwe chydgysylltydd/swyddog/cynorthwywyr cydgysylltu. Felly, mae 732 o unigolion yn ymwneud â'r gwaith o ddarparu lleoliadau i oedolion¹²³.

¹²² Mae uchafswm o 129 o leoliadau cofrestredig i oedolion yng Nghymru. Pan fo lleoliadau wedi cofrestru llai na 7 o leoedd, tybiwyd y ceir uchafswm o 6 o leoedd. Darparwyd yr wybodaeth gan AGGCC, Hydref 2013.

¹²³ Nid yw staff megis rhai gweinyddol wedi eu cynnwys yn niferoedd y gweithlu.

Tabl 46: gweithlu gofal cymdeithasol yn ôl y math o gyflogwr a'r swyddogaeth

| Cyflogwr | Grŵp gweithlu | Nifer | Dyddiad | |
|-------------------|--|--------|----------|--------------|
| Sector annibynnol | Gweithiwr cymdeithasol (sefydliadau gofal maeth) | 134 | Mawrth13 | gwirioneddol |
| Awdurdod lleol | Uwch ymarferydd gwaith cymdeithasol, uwch ymarferydd (gwasanaethau i oedolion) | 362 | Mawrth13 | gwirioneddol |
| Awdurdod lleol | Gweithiwr cymdeithasol (gwasanaethau i oedolion) | 1,001 | Mawrth13 | gwirioneddol |
| Awdurdod lleol | Rheolwr gofal aseswr (gwasanaethau cymdeithasol i oedolion) | 78 | Mawrth13 | gwirioneddol |
| Awdurdod lleol | Gweithiwr cymdeithasol dan hyfforddiant | 9 | Mawrth13 | gwirioneddol |
| Awdurdod lleol | Cynorthwy-ydd gwaith cymdeithasol (gwasanaethau i oedolion) | 414 | Mawrth13 | gwirioneddol |
| Awdurdod lleol | Rheolwr tîm (gwasanaethau cymdeithasol i oedolion) | 152 | Mawrth13 | gwirioneddol |
| Awdurdod lleol | Uwch ymarferydd gwaith cymdeithasol, uwch ymarferydd (gwasanaethau cymdeithasol i blant) | 462 | Mawrth13 | gwirioneddol |
| Awdurdod lleol | Gweithiwr cymdeithasol (gwasanaethau cymdeithasol i blant) | 1,291 | Mawrth13 | gwirioneddol |
| Awdurdod lleol | Rheolwr gofal aseswr (gwasanaethau cymdeithasol i blant) | 35 | Mawrth13 | gwirioneddol |
| Awdurdod lleol | Gweithiwr cymdeithasol dan hyfforddiant (gwasanaethau cymdeithasol i blant) | 16 | Mawrth13 | gwirioneddol |
| Awdurdod lleol | Cynorthwy-ydd gwaith cymdeithasol (gwasanaethau cymdeithasol i blant) | 675 | Mawrth13 | gwirioneddol |
| Awdurdod lleol | Rheolwr tîm (gwasanaethau cymdeithasol i blant) | 240 | Mawrth13 | gwirioneddol |
| Hunangyflogedig | Gofalwyr maeth – wedi'u cofrestru gyda'r awdurdod lleol | 2,553 | Mawrth13 | gwirioneddol |
| Hunangyflogedig | Gofalwyr maeth – wedi'u recriwtio gan y sector annibynnol | 1,974 | Tach13 | Amcangyfrif |
| AGGCC | Arolygwyr | 115 | Hydref13 | gwirioneddol |
| Awdurdod lleol | Uwch weithiwr gofal cartref (gwasanaethau i oedolion) | 359 | Mawrth13 | gwirioneddol |
| Awdurdod lleol | Gweithiwr gofal cartref (gwasanaethau i oedolion) | 5,109 | Mawrth12 | gwirioneddol |
| Sector | Gweithiwr gofal cartref | 11,831 | Mawrth12 | Amcangyfrif |

| | | | | |
|-------------------|--|--------|----------|--------------|
| annibynnod | (gwasanaethau i oedolion) | | | |
| Sector annibynnod | Uwch weithiwr gofal cartref (gwasanaethau i oedolion) | 831 | Mawrth12 | Amcangyfrif |
| Awdurdod lleol | Gweithiwr gofal cartref (gwasanaethau i blant) | 411 | Mawrth12 | gwirioneddol |
| Awdurdod lleol | Uwch weithiwr gofal cartref (gwasanaethau i blant) | 11 | Mawrth12 | gwirioneddol |
| Sector annibynnod | Gweithiwr gofal cartref (gwasanaethau i blant) | 955 | Mawrth12 | Amcangyfrif |
| Sector annibynnod | Uwch weithiwr gofal cartref (gwasanaethau i blant) | 30 | Mawrth12 | Amcangyfrif |
| Awdurdod lleol | Rheolwyr gofal cartref (gwasanaethau i oedolion a phlant) | 111 | Mawrth13 | gwirioneddol |
